

Gwent Fwyaf



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

SEFYLLFA NATUR

100 STORI AM
EIN BYWYD
GWYLLT



Paratowyd gan:



TECHNICAL ECOLOGY

Cefnogwyd gan:



SEWBReC

SOUTH EAST WALES BIODIVERSITY RECORDS CENTRE
CANOLFAN GOFNODION BIOAMRYWIAETH DE DDWYRAIN CYMRU

Ar ran:



A Resilient Greater Gwent



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



THE
wildlife
TRUSTS
YMDIRIEDOLAETH
natur
GWENT



buglife
Cymru



Cyngor Bwrdeistref Sirol

Blaenau Gwent

County Borough Council



CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI



monmouthshire
sir fynwy



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN



Caiff y prosiect ei gyllido drwy Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru drwy raglen waith 'Gwent Fwyaf Gydnerth'. Mae'r rhaglen yn parhau tan haf 2022 ac mae'n gweithio i sicrhau De Ddwyrain Cymru lle mae adferiad mewn natur a chymunedau cynaliadwy yn gwerthfawrogi eu tirluniau a bywyd gwylt ac yn cymryd rhan ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl a'r grwpiau dilynol am eu cymorth yn paratoi'r adroddiad hwn:

Nicholas Aebishcher, Martin Anthoney, Lucy Arnold-Matthews, Mark Barber, Ailidh Barnes, Gillian Barter, Gemma Bodé, Sam Bosanquet, Gethin Bowes, Philip Briggs, Neil Calbrade, Bex Cartwright, Kay Celtel, Colin Cheeseman, Richard Clarke, Eleanor Colver, Derek Crawley, Stuart Craxford, Rob Curtis, Clare Dinham, Kevin Dupé, Rachel Edwards, Rob Evans, Helen Fairbank, Teresa Frost, Heather Garrett, Andrew Gott, Paul Greest, Elizabeth Hancocks, David Hepper, Maggie Iles, Andy Karran, Jerry Lewis, Amy Ludford, Emily Marnham, Caroline Matthews, Mark McLoughlin, Ian Middlebrook, Nadine Morgan, Andy Musgrove, David Noble, Liam Olds, Sali Palmer, Sarah Perkins, Steve Preddy, Sophia Ratcliffe, Adam Rowe, Andrea Rowe, David Slade, Kate Stinchcombe, Jane Taverner, Fen Turner, Steph Tyler, Emily Walsh, Robert Ward, Lowri Watkins, Ian White, Karen Wilkinson, Steve Williams, Julian Woodman, Grŵp Modrwy Goldcliff, Cymdeithas Ornitholegol Gwent, Grŵp Ystlumod Sir Fynwy, Grŵp Dolydd Sir Fynwy, Grŵp Gwyfynod a Gloŷnnod Byw Sir Fynwy.

Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau dilynol am gasglu a darparu data, a rhoi caniatâd i ddefnyddio data Atlas y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN):

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Cadwraeth Gloŷnnod Byw, Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH), Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Caerloyw (GCER), Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc), Canolfan Cofnodion Biolegol (BRC), Canolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd (HBRC), Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru, Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Brydeinig Gwas y Neidr (BDS), Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon (BSBI), Cymdeithas Mamaliaid, Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Llywodraeth Cymru, Natural England, NBN Atlas, Plantlife, Project Splat, RSPB, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Creaduriaid Hela a Bywyd Gwyllt (GWCT), Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (BCT), yr Ymddiriedolaeth Ornitholegol Brydeinig (BTO), Ymddiriedolaeth Pobl dros Rywogaethau mewn Perygl (PTES).

Clawr blaen: Llyffant Dafadenog, Gwas y Neidr Tindrwm, Telor y Cyrs, Madfall a Draenog. Pob llun gan Andy Karran. Dyluniwyd y clawr gan Jacqui Whitehouse.

Lluniau: Drwy garedigrwydd Martin Anthoney, Sam Bosanquet, Hugh Clark (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod), Pete Hadfield, Pete Hill, Alistair Hotchkiss, Andy Karran, Allard Martinus, Steve Wadley, Lowri Watkins, Gary Welsby a Terry Whittaker (2020 Vision).

Dylid cyfeirio at yr adroddiad hwn fel: Jones S M, Karran A, Bosanquet S, Barter G, Garrett a Hancocks E. 2021. Sefyllfa Natur Gwent Fwyaf. Cynhyrchwyd gan Bartneriaeth Gwent Fwyaf Gydnerth.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i bawb sy'n casglu, dilysu a churadu biolegol; y rhai sy'n mynd allan i edrych am rywogaethau anarferol mewn lleoedd anghyfannedd a tywydd garw, y rhai sy'n mynd drwy a didoli nodiadau maes anodd eu darllen, a'r rhai sy'n hyrwyddo manylion a chywirdeb; hebddoch chi, ni wyddem ddim.

Cynnwys

Rhagair	10
Cydnherthedd ecosystemau	12
Defnyddio'r adroddiad hwn	14
Am Gwent Fwyaf	15
Daeareg a phriddoedd	17
Ardaloedd a warchodir	19
Ecosystemau daearol Gwent Fwyaf	22
Ecosystemau glaswelltir	22
Ecosystemau tir amaethyddol	23
Ecosystemau ucheldir	24
Ecosystemau trefol ac ôl-ddiwydiannol	25
Ecosystemau coetir	26
Ecosystemau dŵr croyw a gwlypdir	27
Ecosystemau arfordirol	28
Straeon y 100 rhywogaeth	29
Dehongli straeon y rhywogaethau	30
Cofnodi bioamrywiaeth yng Ngwent Fwyaf	31
Data Sefyllfa Natur Gwent Fwyaf	32
Mamaliaid daearol	39
Mochyn Daear <i>Meles meles</i>	40
Acanc Ewropeaidd <i>Castor fiber</i>	44
Yr Ysgyfarnog <i>Lepus europaeus</i>	46
Pathew <i>Muscardinus avellanarius</i>	50
Llygoden yr Yd <i>Micromys minutus</i>	56
Draenog <i>Erinaceus europaeus</i>	60
Dyfrgi Ewropeaidd <i>Lutra lutra</i>	64
Bele <i>Martes martes</i>	69
Ffwlbart <i>Mustela putoris</i>	71
Llyg y Dŵr <i>Neomys fodiens</i>	74
Llyg y Dŵr Ewropeaidd <i>Arvicola amphibius</i>	77
Ystlumod	85
Ystlum Bechstein <i>Myotis bechsteinii</i>	90
Ystlum Pedol Fwyaf <i>Rhinolophus ferrumquinum</i>	93

Ystlum Pedol Leiaf <i>Rhinolophus hipposideros</i>	97
Ystlum Du Gorllewinol <i>Barbastella barbastellus</i>	101
Adar	106
Adar tir amaethyddol.....	112
Tylluan Wen <i>Tyto alba</i>	112
Sogiar <i>Turdus pilaris</i>	116
Cornchwiglen <i>Vanellus vanellus</i>	120
Golfan y Mynydd <i>Passer montanus</i>	125
Turtur <i>Streptopelia turtur</i>	129
Adar dŵr croyw a gwlypdir.....	134
Aderyn y Bwn <i>Botaurus stellaris</i>	134
Telor Cetti <i>Cettia cetti</i>	138
Trochydd <i>Cinclus cinclus</i>	141
Crëyr Bach <i>Egretta garzetta</i>	144
Hwyaden Lostfain <i>Anas acuta</i>	149
Telor y Cyrs <i>Acrocephalus scirpaceus</i>	154
Hwyaden Lydanbig <i>Anas clypeata</i>	158
Gïach Cyffredin <i>Gallinago gallinago</i>	163
Rhegen Ddŵr <i>Rallus aquaticus</i>	168
Alarch y Gogledd <i>Cygnus cygnus</i>	172
Chwiwell <i>Mareca penelope</i>	176
Ardal ucheldir a rhostir	185
Boda Tinwyn <i>Circus cyaneus</i>	185
Troellwr Mawr <i>Caprimulgus europaeus</i>	189
Grugiar Goch <i>Lagopus lagopus</i>	193
Mwyalchen y Mynydd <i>Turdus torquatus</i>	198
Adar trefol.....	204
Aderyn y To <i>Passer domesticus</i>	204
Hebog Tramor <i>Falco peregrinus</i>	208
Adar hirgoes	213
Rhostog Cynffondu <i>Limosa limosa</i>	213
Pibydd y Dorlan <i>Actitis hypoleucos</i>	218
Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i>	223
Cwtiad Torchog Bach <i>Charadrius dubius</i>	228
Y Garnwraidd Goesgoch <i>Tringa totanus</i>	233
Cwtiad Torchog <i>Charadrius hiaticula</i>	238

Adar coetir.....	245
Pinc y Mynydd <i>Fringilla montifringilla</i>	245
Gylfinbraff <i>Coccothraustes coccothraustes</i>	249
Titw'r Wern <i>Poecile palustris</i>	253
Gwybedog Brith <i>Ficedula hypoleuca</i>	257
Gwybedog Mannog <i>Muscicapa striata</i>	261
Titw'r Helyg <i>Poecile montanus</i>	265
Telor yr Helyg <i>Phylloscopus trochilus</i>	269
Y Gog <i>Cuculus canorus</i>	273
Reptiliaid ac Ymlusgiaid	279
Gwiber <i>Vipera berus</i>	281
Madfall Cyffredin <i>Zootoca vivipara</i>	287
Llyffant Dafadennog <i>Bufo bufo</i>	291
Neidr y Gwair <i>Natrix helvetica</i>	295
Madfall Ddŵr Gribog <i>Triturus cristatus</i>	299
Neidr Ddefaid <i>Anguis fragilis</i>	304
Pysgod.....	310
Llysywen Ewropeaidd <i>Anguilla anguilla</i>	312
Eog yr Iwerydd <i>Salmo salar</i>	316
Gloynnod Byw a Gwyfynod	323
Coediwr <i>Adscita statice</i>	326
Du Smotiau Gwyn <i>Anania funebris</i>	329
Britheg Berlog Fach <i>Boloria selene</i>	332
Glesyn Bach <i>Cupido minimus</i>	336
Gwyfyn Gwent <i>Eriopygodes imbecilla</i>	339
Gwibiwr Llwyd <i>Erynnis tages</i>	342
Britheg y Gors <i>Eup hydryas aurunia</i>	345
Gweirlöyn Llwyd <i>Hipparchia semele</i>	350
Gwyn y Coed <i>Leptidea sinapis</i>	353
Mantell Wen <i>Limenitis camilla</i>	357
Gwibiwr Brith <i>Pyrgus malvae</i>	360
Odonata	366
Mursen Lygatgoch Fach <i>Ceragrion tenellum</i>	374
Mursen Las Amryiol <i>Coenagrion pulchellum</i>	377
Gwas y Neidr Tindrwm <i>Gomphus vulgatissimus</i>	380
Mursen Dinlas Fach <i>Ischnura pumilio</i>	383

Infertebratau eraill.....	387
Cerdwenynen Lwydfrown <i>Bombus humilis</i>	389
Infertebratau Rwbwl Glo	392
Infertebratau Dyfriol Gwastadeddau Gwent	396
Peillwyr.....	401
Cerdwenynen Feinlais <i>Bombus Sylvarum</i>	405
Planhigion Fasgwlwr	411
Blodau Gwyllt Âr	413
Tegeirian y Waun <i>Anacamptis morio</i>	419
Tegeirian Llydanwydd Bach <i>Platanthera bifolia</i>	422
Clychllys Ymledol <i>Campanula patula</i>	425
Ffyngau	430
Ffyngau Pren Marw Ffawydd	431
Ffyngau Pren Marw Derw	435
Ffyngau Cap Cwyr Glaswelltir	439
Cennau a Bryoffytau	446
Bryoffytau Âr.....	447
Mwsogl Gwyddelig <i>Ephemerum hibericum</i>	452
Bryoffytau Epiffytig	454
Mwsogl Llifogydd <i>Myrinia pulvinata</i>	458
Bryoffytau Calchfaen.....	461
Mwsoglau Teils To Carreg	465
Cennau Sensitif i Nitrogen	469
Rhywogaethau Goresgynol Anfroddol ac Afiechydon Planhigion	475
Clefyd Coed Ynn <i>Hymenoscyphus fraxineus</i>	477
Efwr Enfawr <i>Heracleum mantegazzium</i>	480
Ffromlys Chwarennog <i>Impatiens glandulifera</i>	483
Clymog Japan <i>Fallopia japonica</i>	485
Cimwch Afon Arwyddol <i>Pacifastacus leniusculus</i>	489
Atodiad 1 Methodoleg Dechnegol	495
Atodiad 2 Ffynonellau Data	497
Atodiad 3 Byrfoddau	500

Yn 2013, cynhyrchodd cynllun cydweithio rhwng 25 o sefydliadau cadwraeth natur ac ymchwil adroddiad Sefyllfa Natur cyntaf y Deyrnas Unedig.¹ Wedi'i ddisgrifio fel gwriad iechyd ar natur, roedd yn casglu data meintiol ar dros 3,000 rhywogaeth, mewn wyth math eang o gynefin, i roi'r asesiad awdurdodol cyntaf o fioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a thiriogaethau tramor y Deyrnas Unedig.

Roedd y darlun yn ddifrifol a brawychus. Roedd mwy o rywogaethau yn dirywio yn hytrach nag oedd yn cynyddu. Roedd colli cynefinoedd yn gyffredin, a roedd y cynefinoedd hynny oedd ar ôl wedi dirywio. Ystyriwyd bod mwy nag un mewn deg rhywogaeth a aseswyd yn defnyddio meini prawf y Rhestr Goch dan fygythiad difodiant yn y Deyrnas Unedig.

Yn rhyfeddol, roedd yr awduron yn gadarnhaol. Roedd cwmipas ac ansawdd data Sefyllfa Natur yn dyst o rym cydweithio yn ogystal ag ymroddiad miloedd o weithwyr cadwraeth proffesiynol a gwirfoddolwyr. Drwy roi sylw i ddiflaniad natur, gobeithient y byddid yn gwneud mwy o ymdrechion i'w harbed.

Mae adroddiadau Sefyllfa Natur dilynol yn 2016 a 2019 yn dangos mai ychydig sydd wedi newid. O'r rhywogaethau a aseswyd yn 2019, roedd 15% mewn bygythiad difodiant ac ni fydd y Deyrnas Unedig yn cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau Aichi 2020 ar gyfer adferiad bioamrywiaeth.² Fodd bynnag, mae'r ymateb torfol dros natur yn cynyddu, mae cynnydd enfawr yn yr ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer diogelu natur, mae llygredd aer yn parhau i ostwng ac mae gwirfoddoli cadwraeth yn uwch nag erioed.

Mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o natur hefyd yn cynyddu. Mae nifer y rhywogaethau a aseswyd yn Sefyllfa Natur wedi tyfu o ychydig dros 3,000 i dros 8,400. Yn yr un modd, mae mwy o bobl a sefydliadau nag erioed yn ymwneud â Sefyllfa Natur a chofnodi bywyd gwyllt yn gyffredinol.

Gwnaed nifer o ymdrechion i grynhoi'r cyfoeth hwn o ddata bioamrywiaeth i lawr i lefel ranbarthol a lleol er mwyn llywio ymdrechion cadwraeth ar lawr gwlad. Gan fod cyllid ar gyfer cadwraeth natur bob amser yn gyfyngedig, mae'n hanfodol fod unrhyw weithredu yn cael ei flaenoriaethu a'i dargedu i roi'r canlyniadau gorau posibl, a'n bod yn monitro effeithlonrwydd ein gweithredoedd.

Dim ond un ymdrech o'r fath yw hyn.

Nodau

Nod yr adroddiad hwn yw disgrifio'r hyn sy'n hysbys am statws a thueddiadau detholiad o rywogaethau o fewn Gwent Fwyaf, a'r bygythiadau sy'n effeithio arnynt. Mae rhywogaethau yn elfen a hefyd yn gynnyrch ein ecosystemau, felly gall edrych ar yr hyn sy'n digwydd i rywogaethau unigol ddangos yr hyn sy'n digwydd o fewn yr amgylchedd ehangach. Mae'r rhywogaethau a gynhwysir yn ddetholiad eang o wahanol grwpiau a gwahanol gynefinoedd, a ddewiswyd gyda'r nod o roi ciplun sy'n cynrychioli llawer o'r bioamrywiaeth sydd i'w gael o fewn y rhanbarth amrywiol hwn.

Ail nod i'r adroddiad yw edrych ar y data biolegol sydd ar gael ar y lefel ranbarthol; dangos beth fedrir ei weld gyda chyfoeth y data a gasglwyd eisoes ac amlygu lle mae bylchau mewn gwybodaeth neu broblemau gyda data. Mae'r adroddiad hwn felly yn gymaint o ddadansoddiad 'Sefyllfa Data' ag yw o Sefyllfa Natur.

Gobeithir y bydd ymarferwyr cadwraeth, llunwyr polisi a chofnodwyr yn defnyddio'r adroddiad hwn ar gyfer:


- cynllunio prosiectau cadwraeth, yn nhermau lleoliad, ffocws neu weithgaredd
- rhoi llinell sylfaen er mwyn asesu effeithlonrwydd gwaith cadwraeth
- arddangos yr angen am newid polisi a gweithredu
- targedu cofnodi i lenwi bylchau mewn tystiolaeth
- codi ymwybyddiaeth ac addysg

Yn olaf, mae'r adroddiad yn defnyddio data biolegol i ddangos statws a thueddiadau eang, ar raddfa ranbarthol. Caiff cofnodwyr ac ymarferwyr eu hannog i ymchwilio ymhellach a chanfod ffyrdd y gall data biolegol presennol gefnogi eu gwaith, yn ogystal â chynhyrchu a rhannu data newydd.

Cydnherthedd ecosystemau

Cafodd cydnherthedd ecosystemau ei ddiffinio yng Nghymru fel capasiti ecosystemau i ddelio gyda capasiti ecosystemau i drin aflonyddu, naill ai drwy ymwrthod â nhw, adfer ohonynt neu addasu iddynt, tra'n cadw eu gallu i ddarparu gwasanaethau a buddion yn awr ac yn y dyfodol.³

Mae'n anodd asesu cydnherthedd yn uniongyrchol oherwydd fod ecosystemau yn gymhleth a deinamig, mae'r ymatebion i aflonyddu yn amrywio'n helaeth mewn maint a hyd, ac ni chaiff llawer o'r mecanweithiau sylfaenol eu deall. Gellir goresgyn hyn drwy ddefnyddio pedair nodwedd ecosystem o amrywiaeth, maint, cyflwr a chysylltedd a'u nodweddion deilliannol i wneud yn lle cydnherthedd (gweler ffigur 11).



Ffigur 1: Fframwaith DECCA yn dangos y berthynas rhwng nodweddion ac egin-briodweddau cydnherthedd.

Mae **amrywiaeth** yn bwysig ar bob lefel a maint, o ennyneg i rywogaethau, ac o gynefinoedd i dirweddau. Bydd **maint** ecosystem yn effeithio ar ei gallu i addasu, adfer neu wrthsefyll ymyrryd. Gall llai o rywogaethau oroesi mewn ardal lai, a chaiff demograffeg rhywogaethau ei newid pan gollir cynefin, gan arwain at golli rhywogaeth a dirywiad mewn ecosystem. Mae pwysau lluosog a chymhleth yn effeithio ar **gyflwr** cynefinoedd sy'n effeithio ar gydnerthedd cymunedau ecolegol a'u gallu i ymwrthod, parhau neu gael adferiad. Mae **cysylltedd** yn cyfeirio at y cysylltiadau rhwng ac o fewn cynefinoedd ar gyfer unrhyw unrhyw rywogaeth benodol; mae cysylltedd yn gysylltiedig â'r pellter cymharol y gall rhywogaeth symud i fwydo, bridio a chwblhau cylchoedd bywyd a all fod angen gwahanol amgylcheddau. Mae cysylltedd yn sbardun pwysig ar gyfer amrywiad gofodol sy'n effeithio ar amrywiaeth a niferoedd organeddau byw. Mae'r gallu i addasu, ymwrthod neu adfer o bwysau neu ofynion ar yr ecosystem yn egin-briodwedd y pedair priodoledd.

Mae cydnherthedd ecosystem yn greiddiol i'r ymagwedd newydd, integredig at yr amgylchedd, sy'n seiliedig ar y llif o ecosystemau, drwy wasanaethau a buddion ecosystem, i lesiant. Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r ffordd y caiff amgylchedd Cymru ei reoli i gyflawni'r llif hwn, a

chydnerthedd yw priodoledd ecosystemau sy'n galluogi'r llif i barhau yn wyneb effeithiau a newid.

Asesiad o Gydnerthedd Ecosystemau yng Nghymru: Canfu Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru fod cydnerthedd yn isel i ganolig ar draws pob ecosystem yng Nghymru.⁴ Y prif bwysau a gofynion sy'n effeithio ar ansawdd cydnerthedd ecosystemau a gwasanaethau yw:

- colli a dirywiad cynefin
- newid hinsawdd
- llygredd
- rhywogaethau, pla a chlefydau estron ymledol
- gor-ecsbloetiad.

Camau gweithredu i feithrin cydnerthedd ecosystemau a chynorthwyo adferiad rhywogaethau: Bydd cyflymder a llwyddiant adfer natur ac addasu rhywogaethau i newid hinsawdd yn dibynnu'n bennaf ar gamau gweithredu sy'n cynnal neu wella pob un o bedair priodoledd cydnerthedd (Ffigur 1). Mae Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn argymhell cynnal ac adfer Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth fel dull gweithredu ar raddfa tirwedd i feithrin cydnerthedd ecosystemau.⁵ Caiff Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth effeithlon eu diffinio fel nodweddion tirwedd cysylltiedig sydd:

- â rhwydweithiau o gynefinoedd mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd a warchodira manau problemus bioamrywiaeth ar draws y tirwedd ehangach
- galluogi symud rhywogaethau ar draws tirweddau i gyflawni eu cylch bywyd neu ymateb i newid hinsawdd
- darparu gwasanaethau ecosystem pwysig a'r budd mwyaf posibl ar gyfer llesiant.

Mae rhwydweithiau o gynefinoedd integredig yn creu tirweddau athraidd sy'n cefnogi rhywogaethau gyda gwahanol ofynion cwmipas capasiti ac arbenigol ar bob cam o'u cylch bywyd. Yn gyffredinol, bydd rheoli a chreu cynefinoedd effeithlon yn cynnal poblogaethau mwy o rywogaethau. Fodd bynnag, ar gyfer rhai rhywogaethau, gall fod angen mesurau rheoli penodol o fewn y rhwydwaith i wella poblogaethau rhywogaethau. Er enghraifft, gall rhywogaethau symudol yn aml fod angen cyfuniad o elfennau o fewn tirwedd er mwyn goroesi.

Asesiad cydnerthedd ecosystemau yng Ngwent: Asesodd adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 ngydnerthedd ecosystemau ar lefel genedlaethol. Ni chynhaliwyd dadansoddiad ar lefel ranbarthol, ond gyda llawer o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd a gofnodwyd ar draws Cymru i'w cael yng Ngwent, ynghyd â'r un pump pwysau allweddol fydd yn effeithio ar gydnerthedd ecosystemau ar draws y rhanbarth.

Rhywogaethau sy'n ffurfio blociau adeiladu ecosystemau. Mae cysylltiad cryf rhwng dosbarthiad ac amllder rhywogaethau gydag agweddau o gydnerthedd ecosystemau a byddant yn ymateb i'r pump pwysau allweddol. Felly, gellir defnyddio'r rhywogaethau y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad hwn fel dangosyddion newid o fewn ecosystemau.


Defnyddio'r adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn defnyddir 'Gwent Fwyaf' i gyfeirio at yr ardal yn cynnwys pob un o'r pump awdurdod lleol, i'r marc llanw isel; defnyddir 'Gwent' i gyfeirio at ffiniau'r hen awdurdod unedol ac is-sir 35; a defnyddir 'ardal yr astudiaeth' i gyfeirio at Gwent Fwyaf, ynghyd â pharth clustog o 2km.

Defnyddir yr un map cefndir drwy'r adroddiad i gyd. Mae hyn yn dangos ffiniau awdurdodau lleol, marc llanw isel, y rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn Gwent Fwyaf, a chlustog o 2km.

Caiff y map yn aml ei rannu yn sgwariau grid 1km (monadau). Dim ond sgwariau grid a ddaw yn llwyr o fewn ardal yr astudiaeth a gaiff eu cynnwys yn y mapio a dadansoddiad, gan roi 1916 monad.

Map cefndir Gwent Fwyaf




Am Gwent Fwyaf

Mae Gwent Fwyaf yn ardal o Dde Ddwyrain Cymru sy'n cynnwys awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Mae'r siroedd yn wahanol iawn o ran tirwedd a demograffeg cymdeithasol; mae'r ffin yn cyfateb i ffiniau hen awdurdod unedol Gwent a sir hanesyddol Sir Fynwy (is-sir 35 Watsonaidd), a ehangwyd i gynnwys y cyfan o fwrdeistref Caerffili. Dyma hefyd yr ardal y mae Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru yn ei gynnwys.⁶

Mae'r amrywiaeth hwn o gymeriad ar draws ardal cymharol fach o 1,616 km sgwâr (at y marc llanw isel) yn golygu fod gan Gwent Fwyaf gyfoeth o dreftadaeth naturiol a diwylliannol, o'r cestyll hanesyddol ar hyd y ffin gyda Lloegr i'r dwyrain, at grud y Chwyldro Diwydiannol, Safle Treftadaeth Byd Blaenafon, yn y gorllewin. Mae Gwent Fwyaf yn gartref i 591,100 o bobl.⁷

Ar gyfer Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru, fe wnaeth rhanddeiliaid allweddol gyd-gynhyrchu cyfres o Broffiliau Tirwedd (2019). Ar gyfer y diben hwn, rhannwyd yr ardal diriogaethol yn chwe thirwedd gyda nodweddion neilltuol (gweler y map islaw): coetiroedd Dyffryn Gwy a Choed Gwent; tir amaethyddol canol Sir Fynwy; ardal drefol Casnewydd; Gwastadeddau Gwent; y Cymoedd Dwyreiniol; a Bannau Brycheiniog a'r Mynydd Du. Mae'r Proffiliau Tirwedd hyn yn ystyried cydnerthedd wyth cynefin bras y Deyrnas Unedig, fel y'u diffinnir gan yr Asesiad Cenedlaethol o Ecosystemau ac a defnyddir yn yr Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a sut y rhyngweithiant ar raddfa tirwedd. Er bod y dull gweithredu Proffil Tirwedd yn un gofodol, caiff ei seilio ar Egwyddorion Dull Gweithredu Ecosystemau, fel y nodir yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol. Mae pob Proffil Tirwedd unigol, sydd ar gael drwy wneud cais, yn cefnogi sylfaen tystiolaeth gyffredin dorfal ar gyfer dechrau cyrraedd consensws ar gyfer gweithredu ar y cyd i adfer natur.




Daeareg a phriddoedd

Mae llawer o amrywiaeth tirluniau a chynefinoedd ar draws Gwent Fwyaf oherwydd y ddaeareg a phriddoedd sylfaenol. Mae creigiau Hen Dywodfaen Goch yn haen isaf yn y rhan fwyaf o Sir Fynwy, gyda Mewngraig Wysg hŷn yn y canol. Mae rhannau o'r gyfres Hen Dywodfaen Goch, a elwir fel y ffurfiad Tywodfaen, yn ffurfio'r Mynydd Du, Pen y Fâl a Chrib Tryleg.

Yn ne'r ardal, mae band o galchfaen yn ymestyn o'r dwyrain, gyda wedyn haen o greigiau tywodfaen iau drosto, sy'n ffinio ag Aber yr Hafren. Mae gwahanol liwiau'r creigiau yn rhoi enwau lleoedd, tebyg i Goldcliff a Craig Ddu.

Yng ngorllewin yr ardal, mae Cystadau Glo De Cymru iau yn dominyddu, gyda band o frigiad calchfaen o amgylch. Gyda'i gilydd, rhoddodd y rhain y glo, haearn, a chalch a borthodd y Chwyldro Diwydiannol – gwaddol sy'n llunio'r tirlun a welir heddiw.




- Lias Group - Mudstone, Siltstone, Limestone and Sandstone
- Triassic Rocks (Undifferentiated) Mudstone, Siltstone and Sandstone
- Triassic Rocks (Undifferentiated) Sandstone and Conglomerate, Interbedded
- South Wales Upper Coal Measures Formation - Mudstone, Siltstone, Sandstone, Coal, Ironstone and Ferrous rock
- South Wales Middle Coal Measures Formation (Undifferentiated)
- South Wales Lower Coal Measures Formation (Undifferentiated)
- Millstone Grit Group - Mudstone, Siltstone and Sandstone
- Dinantian Rocks (Undifferentiated) Limestone with subordinate Sandstone and Argillaceous Rocks
- Upper Devonian Rocks (undifferentiated) Sandstone and Conglomerate, Interbedded
- Lower Devonian Rocks (Undifferentiated) Mudstone, Siltstone and Sandstone
- Lower Devonian Rocks (Undifferentiated) Sandstone and Conglomerate, Interbedded
- Pridoli Rocks (Undifferentiated) Mudstone, Siltstone and Sandstone
- Ludlow Rocks (Undifferentiated) Mudstone, Siltstone and Sandstone
- Wenlock Rocks (Undifferentiated) Mudstone, Siltstone and Sandstone
- Silurian Rocks (Undifferentiated) Limestone, Mudstone and Calcareous Mudstone

Ardaloedd a warchodir


Mae dau dirwedd a warchodir fewn Gwent Fwyaf. Daw rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn gyfanswm o 153km² o fewn Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent, ac mae'n ymestyn i'r gogledd a'r gorllewin i Bowys a thu hwnt. Mae gan Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) Dyffryn Gwy 117km² o fewn Sir Fynwy, yn rhedeg ar hyd y ffin gyda Lloegr ac yn ymestyn i Swydd Gaerloyw a Swydd Henffordd.

Tirweddau a warchodir o fewn Gwent Fwyaf⁹




Caiff chwarter (25%) Gwent Fwyaf ei gwarchod am resymau bioamrywiaeth, gyda 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC). Mae un ohonynt, Aber yr Afon Hafren, hefyd yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA) a Safle Ramsar. Mae hefyd 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 94 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), 25 Gwarchodfa Natur Leol (LNR) a dros 1,000 Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC).

Ardaloedd a warchodir yn ôl y dynodiad lefel uchaf⁹



Canran tir gyda dynodiad cadwraeth natur yng Ngwent Fwyaf




Ecosystemau daearol Gwent Fwyaf

Ecosystemau glaswelltir

Ystyrir fod Gwent Fwyaf yn gadarnle ar gyfer yr ychydig o lastiroedd cyfoethog mewn rhywogaethau sydd ar ôl yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi dioddef o ddirywiad sylweddol iawn. Yn ffodus, caiff llawer ohonynt yn awr eu gwarchod, tebyg i Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Aberbargoed, a glaswelltiroedd Safleoedd Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ym Mhentwyn, Dolydd Brockwells a Phenllwyn. Mae rheolaeth yn hanfodol ar gyfer glaswelltir cyfoethog mewn rhywogaethau, gan y gall diffyg rheoli fod mor niweidiol â gorburi neu ddefnyddio gwrtaith.

Mae'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig gyda glaswelltir cyfoethog mewn rhywogaethau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys Glöyn Byw Brith y Gors, Cap Cŵyr Glaswelltir, Tegeirian Llydanwyrdd, Glas Bach, Cardwenynen Feinlais, Cardwenynen Lwydfrown a Pheillwyr.

Glaswelltiroedd Tir Isel (dan 300m(asl)) yn ardal yr astudiaeth yn 1997¹⁰



Ecosystemau tir amaethyddol


Mae ffermio'n siapio llawer o dirlun Gwent Fwyaf. Mae'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn asesu tir yn seiliedig ar feini prawf hinsawdd, pridd a safle i benderfynu'r tir amaethyddol o'r ansawdd uchaf. Mae tir ansawdd uwch yn fwy gwerthfawr a chaiff ei warchod drwy'r broses cynllunio. Dim ond 7% o'r tir yng Nghymru a ddaw o fewn y tir amaethyddol 'gorau a mwyaf amlbwrpas', graddau 1a i 3a.¹¹

Mae ecosystemau tir amaethyddol bwysig tu hwnt ar gyfer cynhyrchu bwyd, ond mae'r ymdrech i gynyddu cynnyrch wedi arwain at golli llawer o'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig gyda'r tirwedd ffermio traddodiadol. Wrth feintoli effaith sbardunau newid, daeth adroddiad Sefyllfa Natur 2016 i'r casgliad bod dwysáu amaethyddiaeth wedi achosi'r effaith negyddol hirdymor mwyaf ar fywyd gwylt.¹² Caiff ffermio, tra'n cefnogi bywyd gwylt, ei hyrwyddo drwy gynllun amaeth-amgylchedd Glastir ond mae'r nifer sy'n cymryd rhan yng Ngwent Fwyaf yn is na chyfartaledd Cymru, gyda llai na 10% o ffermydd (12% o'r arwynebedd ffermio)¹³ yn gwneud hynny.

Mae rhywogaethau yn yr adroddiad hwn sy'n gysylltiedig gyda thir ffermio yn cynnwys Llygoden yr Ŷd, nifer o rywogaethau o ystlumod, planhigion â'r fasgwlar a bryoffytau, Cornchwiglen, Golfan y Mynydd a'r Dylluan Wen.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol ardal yr astudiaeth yn 2017–18^{14,15}

*(Dylid nodi nad yw
Lloegr yn is-rannu
Dosbarth 3)*




Ecosystemau ucheldir

Caiff rhan fawr o Gwent Fwyaf ei ddsbarthu fel ucheldir. Yn gyffredinol, mae hyn yn dir ar uchder o fwy na 300m (uwch lefel y môr), er mewn gwirionedd fod graddiant o gymeriad o dir isel i dir uchel. Yng Nghymru, caiff ymylon yr ucheldir ei alw yn ffridd, a gall fod yn gynefin bwysig. Yng Ngwent Fwyaf, mae'r ucheldiroedd yn fosaig cymhleth o rostir, glaswelltir asidig, rhedyn, gorgors a thir gwlyb, gydag ardaloedd o goetir a phrysgwydd. Mae ucheldiroedd yn ecosystemau gwerthfawr, yn neilltuol gan y gall yr adneuon mawn oddi tanodd ddarparu storio carbon sylweddol.

Mae llawer o bethau yn bygwth ecosystemau ucheldir yng Ngwent Fwyaf, yn cynnwys diffyg tir pori addas, diffyg cysylltedd rhwng ardaloedd o fioamrywiaeth uwch, draeniad hanesyddol o wlypdiroedd, a throseddau tirwedd tebyg i yrru cerbydau a beiciau ar y tir, tipio anghyfreithlon a llosgi bwriadol.¹⁶

Mae'r rhywogaethau yn yr adroddiad hwn yn gysylltiedig gydag ucheldiroedd yn cynnwys Mwyalchen y Mynydd, Grugiar Goch, Boda Tinwyn, Ysgyfarnog, Gwyfyn Gwent, Brith Perlog Bach a'r Fursen Dinlas Fach.

Rhan o'r ardal astudiaeth uwchben 300m(asl)¹⁷




Ecosystemau trefol ac ôl-ddiwydiannol

Gall ardaloedd trefol gefnogi bioamrywiaeth annisgwyl ac mae pobl yn wirioneddol werthfawrogi'r bywyd gwyllt ar garreg eu drws. Mae mynediad i ofodau gwyrdd yn bwysig tu hwnt ar gyfer iechyd a lles, ac mae seilwaith gwyrdd yn darparu gwasanaethau ecosystem gwerthfawr tebyg i gysgod, ansawdd aer a draeniad, yn ogystal â hamdden ac amwynder. Er y pwysigrwydd hwn, mae gofodau gwyrdd trefol yn dioddef o bwysau datblygu, aflonyddu helaeth, a darnio.

Yng Ngwent Fwyaf, mae tir ôl-ddiwydiannol yn cynnwys tomennydd sbwriel glo – ardaloedd mawr o'r ucheldiroedd sy'n ffurfio nodweddion neilltuol, gan letya cymuned bywyd gwyllt unigryw. Mae rwbwl glo yn ffurfio mosaig o ddaear foel gyda gwair a rhostir, sy'n neilltuol o bwysig ar gyfer ymlusgiaid, cen a bryoffytau.

Mae'r rhywogaethau yn yr adroddiad hwn sy'n gysylltiedig gyda thir trefol ac ôl-ddiwydiannol yn cynnwys Aderyn y To, Hebog Tramor, Draenog, mwsoglau Teils To Tywodfaen, grŵp ymlusgiaid rwbwl glo, lâr Fach y Graig a'r Gwibiwr Brith. Mae Clymog Japan hefyd yn berthnasol.

Ardaloedd trefol o fewn ardal yr astudiaeth yn 2011¹⁸




Ecosystemau coetir

Mae coetiroedd ar gael ar draws Gwent Fwyaf, gyda choetiroedd pwysig wedi eu dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar hyd Dyffryn Gwy, yng Nghwm Clydach, Coed y Cerrig a Phen y Fâl. Mae gan Gwent Fwyaf tua 20,000ha o goetir.¹⁴ Mae coetiroedd ar draws y Deyrnas Unedig wedi gostwng yn hanesyddol ac yn gweld adferiad araf, ond mae llawer o'r coetiroedd iau yn blanhigfeydd masnachol o werth bywyd gwyllt cyfyngedig.² Caiff ecosystemau coetir eu bygwth gan ddiffyg rheoli, aflonyddu, llygredd a chlefyd.²

Mae'r rhywogaethau yn yr adroddiad hwn sy'n gysylltiedig gyda choetir yn cynnwys Pathew, Bele, rhywogaethau Ystlumod, ffyngau Ffawydd a Derw, Gylfinbraff, Gwybedog Brith, Titw'r Wern, Titw'r Helyg, Iâr Wen a Chlychllys Ymledol. Caiff Clefyd Coed Ynn hefyd ei gynnwys.

Gorchudd coetir o fewn ardal yr astudiaeth yn 2018¹⁹




Eco systemau dŵr croyw a gwlypdir

Mae ychydig dan 500km o brif afonydd (heb gynnwys Aber yr Hafren) o fewn Gwent Fwyaf. Mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu o fewn Gwent Fwyaf yn mesur 38.1km, gyda braich Crymlyn yn ychwanegu 11.6km arall. Dynodwyd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig am ansawdd eu cynefinoedd a'u pwysigrwydd ar gyfer pysgod mudol a Dyfrgwn. Caiff afonydd eu monitro'n gyson drwy'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r afonydd yn methu cyflawni Statws Da.²⁰ Mae'r rhesymau dros fethu cyflawni Statws Da yn debyg ym mhob un o'r tair ardal: llygredd, addasiad ffisegol, rhywogaethau goresgynnol anfrodorol ac ansawdd gwael cynefinoedd.

Mae gan Gwent Fwyaf hefyd adnodd cyfoethog o byllau dŵr, llynnoedd a gwlypdiroedd, tebyg i SSSI Cronfa Ddŵr Llandegfedd a Gwlypdiroedd Nant Nedern. Mae Gwastadeddau Gwent, tirlun hanesyddol helaeth o gaeau a ffosydd draeniad, yn ymestyn ar draws Casnewydd a Sir Fynwy (gweler y map ar yr adran arfordirol). Caiff Gwastadeddau Gwent eu gwarchod fel SSSI ar gyfer diddordeb ymlusgiaid o fewn y ffosydd draeniad.

Mae rhywogaethau sy'n gysylltiedig gyda dŵr croyw a gwlypdiroedd a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys Dyfrgi, Llygoden y Dŵr, Llyffant Dafadennog, Madfall Gribog, pysgod mudol, Llysywen Ewropeaidd, Trochydd, Giach Cyffredin, Telor Cetti, Aderyn y Bwn, pob odonata ac infertrebratau Gwastadeddau Gwent. Mae rhywogaethau goresgynnol Efwr Enfawr, Jac y Neidiwr, Clymog Japan a Chimwch Afon Arwyddol hefyd yn berthnasol.

Prif afonydd yn ardal yr astudiaeth (2005)²¹




Ecosystemau arfordirol

Mae gan Gwent Fwyaf arfordir anarferol. Mae'r symud o ddaearol i forol yn sydyn iawn mewn lleoedd oherwydd y cafodd llawer o'r Gwastadeddau eu hawlio gan y môr ac yn awr yn cael eu diogelu gan fur môr. Caiff Gwent Fwyaf ei ffinio gan Aber yr Hafren, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig a safle Ramsar. Mae gan yr Hafren yr ail cwmpas llanw mwyaf yn y byd ar dros 12m ac mae'n un o ddim ond chwe aber yng Nghymru lle mae dros 100,000 rhydydd ar amserau brig. Mae'n cefnogi poblogaethau rhyngwladol bwysig o Alarch Bewick, Cylfinir, Pibydd y Mawn, y Ganwraidd Goesgoch, Hwyaden Lwyd a'r Hwyaden Flaen Gwyn Ewropeaidd. Mae hefyd yn llwybr mudol allweddol ar gyfer Eog, Sewin, Llysywen Bendoll a Llysywen Bendoll y Môr, a Gwangen a Herlyn.²²

Mae cynefinoedd pwysig ar hyd yr arfordir yn cynnwys gwastadeddau llaid, sy'n rhoi mannau bwydo rhyngwladol bwysig ar gyfer rhydyddion, morfa heli, sy'n ffurfio band cul ar hyd rhannau o'r arfordir, a'r morlynnoedd heli yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdiroedd Casnewydd.

Mae'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig gyda'r arfordir a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys Pibydd y Mawn, y Ganwraidd Goesgoch, Rhostog Gynffonddu, Crëyr Bach, pysgod mudol a Llysywen Ewropeaidd. Mae'r fflora ar hyd mur y môr yn bwysig am y Gardwenynen Feinlais, Glas Bach a pheillwyr eraill.

Cynefinoedd arfordirol ac ardaloedd a warchodir o fewn ardal yr astudiaeth (2016)²³



Straeon y 100 Rhywogaeth

Cafodd y rhywogaethau eu dewis drwy ymgynghoriad gyda chyrff cadwraeth lleol, awdurdodau lleol, Partneriaethau Natur Lleol ac arbenigwyr ar rywogaethau. Cafodd y rhywogaethau eu dewis yn seiliedig ar eu diddordeb cadwraeth lleol, yn neilltuol y rhywogaethau hynny a allai ddangos newidiadau mewn ecosystemau.

Mae 100 stori ein bywyd gwyllt yn cynnwys:

- 15 mamal ac 1 grŵp o famaliaid (ystlumod)
- 36 aderyn
- 6 ymlusgiad ac amffiibiad
- 2 bysgodyn
- 17 infertebrat a 4 grŵp o infertebratau
- 3 grŵp ffwng
- 3 planhigyn, ac 1 grŵp o blanhigion
- 2 bryoffyt a 5 grŵp o gennau a bryoffytau
- 5 rhywogaeth goresgynnol a chlefydau planhigion (3 planhigyn, 1 ffwng ac 1 infertebrat)

Oherwydd y grwpiau, mae'r 100 stori hyn yn cynrychioli dros 500 rhywogaeth. Fodd bynnag, dylid nodi mai rhan fach o'r 25,000 rhywogaeth a gofnodwyd yng Ngwent a Morgannwg yw hyn.²⁴

Mae pob stori yn dangos pa wybodaeth sydd gennym ar gyfer y rhywogaeth neu'r grŵp rhywogaeth hynny, a'r hyn sy'n digwydd iddynt dros gyfnod. Mae rhai yn straeon lwyddiant o dwf poblogaeth, cynnydd cwmplas, neu ddileu rhywogaeth niweidiol. Ond mae llawer y gwrthwyneb ac i rai, y stori yw nad oes digon o wybodaeth arnynt i wybod beth sy'n digwydd.


Mae'n debygol fod tueddiad wrth ddethol y rhywogaethau tuag at rywogaethau prin ac sy'n dirywio, gan eu bod o fwy o ddiddordeb i gadwraethwyr, ond mae'n dal yn ddifrifol ystyried y credir fod o leiaf 42 o'r 100 stori yn straeon o ddirywiad. O'r Mamaliaid, mae un mewn perygl difrifol, un mewn perygl a phedwar yn fregus ar lefel Cymru, yn ôl meini prawf yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN). O'r adar, mae 14 ar y rhestr goch ar lefel Cymru.

Mae gan bob rhywogaeth neu grŵp rhywogaeth ei adran ddisgrifiadol ei hun gyda mapiau'n dangos dosbarthiad a dyddiadau cofnodion. Caiff yr adrannau eu grwpio yn dactonomig, gyda chyfeiriadau ar ddiwedd pob grŵp.

Dehongli straeon y rhywogaethau

Ym mhob adran mae dau fap yn rhoi dwysedd y cofnodion sydd ar gael rhwng 1970 a 2019 ar gyfer y rhywogaeth a degawd y gofnod ddiweddaraf o fewn pob sgwâr grid. Dylid gweld y mapiau gyda'i gilydd, gan y bydd hyn yn dangos lleoliadau poblogaethau presennol, hynny yw ardaloedd lle mae niferoedd uchel o gofnodion diweddar. Dylid nodi y caiff cofnodion eu lleoli o fewn canol eu cyfeirnod grid, a all arwain at wallau a mannau poeth ffug lle mae nifer o gofnodion datrysiad-isel gyda'i gilydd. Dangosir hyn yn y testun pan mae'n digwydd.

Defnyddir yr un allweddau drwy'r cyfan, lle caiff uchafswm nifer y cofnodion fesul km sgwâr eu nodi ar gyfer pob rhywogaeth::



Ar gyfer pob rhywogaeth mae hefyd eiriad yn disgrifio:

- **Statws** – unrhyw warchodaeth gyfreithiol a statws cadwraeth.
- **Argaeledd data** – barn wrthrychol am faint o ddata sydd ar gael a pha mor gywir y mae'n cynrychioli cwmpas a phoblogaeth y rhywogaeth, ynghyd â nifer y cofnodion o fewn ardal yr astudiaeth.
- **Cyd-destun** – disgrifiad byr o ecoleg y rhywogaeth, gydag unrhyw dueddiadau cenedlaethol a materion cadwraeth hysbys.
- **Rhagolwg** – rhagolygon ar gyfer y rhywogaeth yng nghyswllt pwysau cyfredol a dyfodol.
- **Cwmpas Gwent Fwyaf** – cwmpas cyfredol a newidiadau hanesyddol yn yr cwmpas o fewn Gwent Fwyaf.
- **Tueddiadau poblogaeth** – lle mae hynny'n bosibl, defnyddir data o gynlluniau cofnodi cenedlaethol i lunio tueddiadau poblogaeth ar y lefel ranbarthol (cyfeirir at dueddiadau cenedlaethol lle nad yw hyn yn bosibl)
- **Safleoedd a warchodir** – nifer cofnodion o safleoedd a warchodir o fewn Gwent Fwyaf (dim ond unwaith y caiff cofnodion eu cyfrif, dan eu lefel dynodiad uchaf).

Lle mae'r adran am grŵp o rywogaethau tebyg i blanhigion â'r prin neu infertebratau rwbwl glo, bydd hyn yn cynnwys rhestr o rywogaethau (lle'n ymarferol). Defnyddir yr un mapiau a phenawdau testun, gan ychwanegu map o gyfoeth rhywogaeth.

Mae'n bwysig nodi efallai nad yw nifer a lleoliad cofnodion yn adlewyrchu'n gywir pa mor niferus yw rhywogaeth a'u dosbarthiad, yn dibynnu ar lefelau cofnodi a symudedd rhywogaeth. Mae mwy o wybodaeth am ansawdd data a thuedd data yn Nata Sefyllfa Gwent Fwyaf.

I gael methodoleg dechnegol fanwl, gweler Atodiad 1.

Cofnodi bioamrywiaeth yng Ngwent Fwyaf

Mae gan gofnodi bywyd gwyllt hanes hir yng Ngwent. Yn ystod yr ymchwydd mewn diddordeb gwyddonol yn oes Victoria, llywydd cyntaf Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd yn 1967 oedd William Adams, syrfëwr oedd wedi gweithio ym mhob rhan o Gwent Fwyaf, yn arbennig yng Glynebwy a Thredegar.²⁵ Er ei fod yn seiliedig tu allan i'r ardal, roedd y gymdeithas yn cynnal ymweliadau maes i safleoedd yng Ngwent yn rheolaidd; yn 1873 roedd hyn yn golygu ymweliad i Dyndyrn, yn cynnwys taith cerbyd a cheffyl i Wyndcliffe, a oedd yn 'a most agreeable and enjoyable day'.²⁶ Mae'r gymdeithas yn dal i fodoli, a dathlodd ei phen-blwydd yn 150 oed yn ddiweddar.


Cafodd cynnydd tuag at systemau cenedlaethol o gofnodi bywyd gwyllt ei atal gan y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, ond yn y degawdau dilynol gwelwyd sefydlu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 1957, sefydlu Cymdeithas Ornitholegol Gwent yn 1961, ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn prynu ei gwarchodfa natur gyntaf, Cors Magwyr, yn 1963. Ar lefel y Deyrnas Unedig, roedd hyn yn cyd-daro gyda chyhoeddi Atlas gyntaf Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon (BSBI) yn 1961 (yn defnyddio'r nifer hynod o 1.5 miliwn o gofnodion, a gafodd eu didoli yn fecanyddol), a arweiniodd at sefydlu'r Ganolfan Cofnodion Biolegol (BRC) yn 1964.²⁷

Dim ond yn y 1980au y codwyd pryderon am gofnodi biolegol; roedd y BRC wedi awgrymu cysyniad rhwydwaith o ganolfannau cofnodion lleol, ond dim ond un a sefydlwyd. Yn ddilynol, dechreuodd sefydliadau anllywodraethol, amgueddfeydd, grwpiau cofnodi lleol a chynlluniau cenedlaethol i gyd sefydlu eu systemau eu hunain ar gyfer casglu, dilysu a dosbarthu data, heb unrhyw safonau cyffredin na chydlynu. Erbyn y 1990au, roedd dros 2,000 o wahanol sefydliadau yn y Deyrnas Unedig yn caglu ac yn storio cofnodion biolegol.²⁸ Ar yr un pryd, roedd y galw am wybodaeth fiolegol ansawdd uchel yn cynyddu fel canlyniad i Gonfensiwn Rio 1992 ar Fioamrywiaeth a pholisi cynllunio yn rhoi mwy o bwyslais ar roi ystyriaeth i gynefinoedd a rhywogaethau lleol a'u cadwraeth wrth wneud cynlluniau strategol a phenderfyniadau cynllunio.

Ymateb i'r sefyllfa hon yng Ngwent Fwyaf oedd sefydlu Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc) yn 2003. Hi oedd yr ail Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru, ar ôl y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth ar gyfer Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Erbyn diwedd 2007, roedd Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol ym mhob ardal yng Nghymru. Ffurfiwyd y Gymdeithas Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yn 2009, a mae Canolfannau bellach ar gael ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Nod y Canolfannau Lleol yw casglu a lledaenu data biolegol lleol, gan weithio i wella cysondeb data a chefnogi cofnodi lleol.

Data Sefyllfa Gwent Fwyaf


Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio bron 120,000 cofnod i roi gwybodaeth ar dros 500 rhywogaeth. Mae hyn yn cynrychioli lefel anhygoel o gofnodi, curadu a darpariaeth, na fyddai wedi bod yn bosibl ddim ond 20 mlynedd yn ôl. Ni fu'r cyfaint hwn o ddata biolegol, drwy ganolfannau cofnodi lleol a chenedlaethol ac o gynlluniau cofnodi cenedlaethol, ar gael tan yn ddiweddar. Caiff y twf ei arddangos gan ddaliadau SEWBreC sydd wedi tyfu i ychydig dros 5 miliwn o gofnodion o fewn 20 mlynedd (yn cynnwys cofnodion Gwent a Morgannwg).



Fodd bynnag, ni chafodd y data hwn ei ledaenu'n wastad o ran amser, gofod na dosbarth. Er y gwnaed ymdrechion sylweddol i ddigideiddio cofnodion hŷn, megis Prosiect Archif Mary Gilham,²⁹ ychydig iawn o gofnodion sydd ar fwyafrif y rhywogaethau yn yr adroddiad cyn y 1990au. Mae hyn yn golygu y gall cynnydd mewn gwaith cofnodi guddio tueddiadau mewn poblogaeth ac cwrmpas.


Mae tuedd gofnodol cofnodion wedi gwro'n helaeth tuag at safleoedd a warchodir ac ardaloedd eraill cyfoethog mewn bywyd gwylt, tebyg i Lanbedr Gwynllŵg, Gwlypdiroedd Casnewydd a Glaswelltir Pentwyn. Heb gyfrif sgwariau grid o fewn Aber yr Hafren, mae gan 11% o'r sgwariau tiriogaethol ar draws Gwent Fwyaf lai na 100 cofnod o fewn 50 mlynedd, tra mai'r nifer cyfartalog o gofnodion yw 787 fesul monad. Mae'r rhan fwyaf o'r sgwariau grid gyda chofnodion gwael mewn ardaloedd ucheldir neu wledig, tebyg i ganol Sir Fynwy a ffiniau Torfaen.

Dwysedd cofnodion (1970–2019) o fewn Gwent Fwyaf



Mae tuedd tacsonomig o fewn Gwent Fwyaf tuag at adar, lepidotera a phlanhigion, gan olygu fod cwmpas a thueddiadau a gyfrifwyd ar gyfer y rhywogaethau hynny yn fwy tebygol o fod yn gywir (yn amodol ar y tuedd gofodol). Caiff herptiliaid, ffwng ac infertebratau heblaw lepidoptera eu cynrychioli'n neilltuol. Mewn gwirionedd, mae bron 100 o gofnodion am adar am bob un cofnod am ymlusgiad neu amffibiad.


Cofnodion Gwent Fwyaf (1970–2019) yn ôl grŵp rhywogaeth.



Roedd ansawdd a dibynadwyedd data hefyd yn amrywio'n sylweddol. Roedd dyblygu cofnodion o fewn a rhwng gwahanol setiau data yn broblem sylweddol. Dengys y ffigur islaw sut y gall dyblygu cofnodion ddigwydd ar nifer o gamau o'r cofnodydd i'r defnyddiwr data. Roedd gwahanol fformat cofnodion o'r tair Canolfan Cofnodi Amgylcheddol Lleol neu Atlas NBN yn golygu na fedrai prosesau wedi eu hawtomeiddio adnabod a thynnu cofnodion oedd yn cael eu dyblygu. O fewn setiau data, gellid dileu peth dyblygu ond ni fedrid canfod yr holl ddatblygu na'u tynnu'n rhwydd. Roedd rhywogaethau lle ymddangosai fod dyblygu yn broblem neilltuol yn cynnwys Dyfrgwn a Chardwenyn Meirlais. Mae gwella llwybrau da yn flaenoriaeth gyfredol i SEWBRc.


Roedd hefyd rai setiau data lle nad oedd gwybodaeth yn cyrraedd Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol neu Atlas yr NBN, gan gofnodwyr lleol, grwpiau cofnodi, cynlluniau cofnodi neu gan asiantaethau statudol (a elwir yn ddatgyswllt data). Roedd hyn yn neilltuol o wir ar gyfer Clefyd Coed Ynn, pysgod ac ystlumod.

Llwybrau dyblygu posibl



Cafodd pob un o rywogaethau neu grwpiau rhywogaeth Gwent Fwyaf asesiad gwrthrychol o ansawdd data yn seiliedig ar ffactorau tebyg i nifer, dyddiad a dosbarthiad cofnodion, yn ogystal â gwybodaeth leol. Mae data a ddosbarthwyd fel ansawdd 'Da' yn golygu fod y data yn debygol o gael cynrychiolaeth fwy cywir o statws y rhywogaeth. Cafodd data ar gyfer 31 rhywogaeth neu grwpiau rhywogaeth eu dosbarthu fel Da, 30 fel Cymedrol a 35 fel Gwael. Ni chafodd pedwar eu dosbarthu oherwydd amrywiad mewn ansawdd data ar draws grwpiau rhywogaeth, neu ddiffyg llwyr cofnodion. Adar oedd â'r data mwyaf dibynadwy, ond nid oedd hyn yn gyfartal ar draws pob rhywogaeth. Data Gwael oedd gan bob planhigyn, ond mae'n debyg fod dewis rhywogaethau a gynhwyswyd yn yr adroddiad wedi dylanwadu ar hyn, gan eu bod i gyd yn rhywogaethau prin heb fawr o gofnodion.

Ansawdd gwrthrychol data



Dim ond ar gyfer adar a dau famal (Ystlum Pedol Lleiaf a Dyfrgi) yr oedd data tueddiad poblogaeth dibynadwy ar gael. Mae hyn yn fras yn adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, lle mae data samplu strwythuredig ar gael ar gyfer adar, ystlumod, gloynnod byw a phlanhigion.³⁰ Pe cynyddid cyfranogiad mewn cynlluniau cofnodi cenedlaethol, yn ddamcaniaethol gellid cyfrif tueddiadau ar gyfer 6 arall o'r mamaliaid/grwpiau mamaliaid, pob un o'r 6 o herptilaid, a'r 11 Lepidoptera. Fel canllaw bras, mae angen tua 40 o fannau casglu data, wedi eu dosbarthu'n wastad drwy'r ardal, i

baratoi tueddiad rhanbarthol dibynadwy.

Rhaid rhoi sylw hefyd i'r diffyg gwybodaeth am weithredu cadwraeth. Roedd unrhyw fanylion am waith cadwraeth lleol o fewn yr adrannau rhywogaeth yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth arbenigwyr lleol, sy'n aml wedi ei gyfyngu i 'gof gwaith' o tua 10 mlynedd. Er fod rhai sefydliadau a grwpiau wedi archifo eu cylchlythyrau, mae llawer heb wneud hynny, felly bu gwybodaeth am brosiectau neu gynlluniau blaenorol yn fater o siawns. Methodd system genedlaethol Adroddiadau Gweithredu Bioamrywiaeth, oedd yn anelu i gatalogio a mapio gweithredu o'r fath, oherwydd defnydd cyfyngedig a chafodd ei chau a'i harchifo yn 2016. Mae'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn golygu ei bod yn llai tebygol y defnyddir gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd o gamau gweithredu blaenorol.

Cyfeiriadau

1. Burns F, Eaton MA, Gregory RD, Al Fulaij N, August TA, Biggs J, Bladwell S, Brereton T, Brooks DR, Clubbe C, Dawson J, Dunn E, Edwards B, Falk SJ, Gent T, Gibbons DW, Gurney M, Haysom KA, Henshaw S, Hodgetts NG, Isaac NJB, McLaughlin M, Musgrove AJ, Noble DG, O'Mahony E, Pacheco M, Roy DB, Sears J, Shardlow M, Stringer C, Taylor A, Thompson P, Walker KJ, Walton P, Willing MJ, Wilson J a Wynde R. 2013. State of Nature Report. The State of Nature partnership.
2. Hayhow DB, Eaton MA, Stanbury AJ, Burns F, Kirby WB, Bailey N, Beckmann B, Bedford J, Boersch-Supan PH, Coomber F, Dennis EB, Dolman SJ, Dunn E, Hall J, Harrower C, Hatfield JH, Hawley J, Haysom K, Hughes J, Johns DG, Mathews F, McQuatters-Gollop A, Noble DG, Outhwaite CL, Pearce-Higgins JW, Pescott OL, Powney GD a Symes N. 2019. The State of Nature 2019. The State of Nature partnership.
3. Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016. Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol: Asesiad o Reolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol. Adroddiad Technegol. Cyfoeth Naturiol Cymru.
4. Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol; Asesiad o Gyflawni Nod 2 Rheolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol: Ecosystemau yn Gydnerth i Newid Disgwyliedig a Nas Rhagwelwyd. Cyfoeth Naturiol Cymru.
5. Llywodraeth Cymru. 2017. Polisi Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru; <https://llyw.cymru/polisi-adnoddau-naturiol>
6. Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyflwyniad i Ddatganiad Ardal De Ddwyrain Cymru: <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-east-wales-area-statement/introduction-to-south-east-area-statement/>
7. Amcangyfrifon poblogaeth awdurdodau lleol 2018. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cadwyd Hawlfraint y Goron ONS (gan Nomis ar 5 Ionawr 2020).
8. Arolwg Daearegol Prydeinig 2020. BGS Geology 625K Bedrock dataset. Yn cynnwys deunyddiau Arolwg Daearegol Prydeinig © UKRI (2020).
9. Yn cynnwys ffynonellau data lluosog, gweler Atodiad 2: Ffynonellau Data i gael mwy o wybodaeth.
10. Data o Terrestrial Phase 1 Habitat Survey 1997. Yn dangos glaswelltir asid, niwtral, calchaid a chorsiog dan 300m. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.
11. Dosbarthiad tir amaethyddol: map rhagfynegol; <https://gov.wales/agricultural-land-classification-predictive-map> (cyrchwyd 10/07/2021).
12. Hayhow DB, Burns F, Eaton MA, Al Fulaij N, August TA, Babey L, Bacon L, Bingham C, Boswell J, Boughey KL, Brereton T, Brookman E, Brooks DR, Bullock DJ, Burke O, Collis M, Corbet L, Cornish N, De Massimi S, Densham J, Dunn E, Elliott S, Gent T, Godber J, Hamilton S, Havery S, Hawkins S, Henney J, Holmes K, Hutchinson N, Isaac NJB, Johns D, Macadam CR, Mathews F, Nicolet P, Noble DG, Outhwaite CL, Powney GD, Richardson P, Roy DB, Sims D, Smart S, Stevenson K, Stroud RA, Walker KJ, Webb JR, Webb TJ, Wynde R a Gregory RD. 2016. State of Nature 2016. The State of Nature partnership.
13. Llywodraeth Cymru. 2019. Nifer ac ardal ffermydd yng Ngwent Fwyaf yn cymryd rhan yn Glastir yn 2019. Ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth. Taliadau Gwledig Cymru, Llywodraeth Cymru. Cymharu gyda chyfanswm ardal a ffermir o Ystadegau Cymru a Llywodraeth Cymru (2019) Ystadegau Amaethyddol Ardal Fach (2002–2018). Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/agricultural-small-area-statistics-2002-2018> (cyrchwyd 27/12/19).
14. Llywodraeth Cymru. 2017. Arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar ôl 1988 (Cymru) ©

- Hawlfraint y Goron. Mapio yn deillio o ddata priddoedd © Cranfield University (NSRI) a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi HMSO 2021 © Hawlfraint y Goron 2020, Swyddfa'r Met. Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2020. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.
15. Natural England Open Data (2018) Provisional Agricultural Land Classification (ALC)(England) © Hawlfraint Natural England. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata (2021).
 16. TACP. 2015. Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol Ucheldir De-ddwyrain Cymru. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.
 17. Data o OS Terrain 50. Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2021.
 18. Set data Ardaloedd Trefol (Cymru). Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2021. Arolwg Ordnans 100021874.
 19. National Forest Inventory Woodland Wales 2018 dataset. Broadleaf, Conifer and Mixed woodland. Yn cynnwys gwybodaeth a gyflenwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth. © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans (100021242).
 20. Cyfoeth Naturiol Cymru. 2021. Water Watch Wales. Asesiad Interim Cyrff Dŵr 2018. Water Watch Wales: <https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en> (agorwyd14/03/2021).
 21. Set data Prif Afonydd. 2005. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.
 22. Taylor B. (gol.). 2011. State of the Severn Estuary. Partneriaeth Aber Afon Hafren, Caerdydd.
 23. Set ddata morfeydd heli (2009–2016). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru @Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, setiau data Ardal Gwarchodaeth Arbenig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd Arbennig o Ddiddordeb Gwyddonol. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru @Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordnans, Arolwg Ordnans Rhif Trwydded 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.
 24. Daliadau cofnodion SEWBRcC ar ddiwedd 2019, gohebiaeth bersonol.
 25. 150fed Pen-blwydd Hanes Naturiaethwyr Caerdydd: <https://www.cardiffnaturalists.org.uk/htmfiles/150th-11.htm>
 26. 'A most agreeable and enjoyable day': The Cardiff Naturalists Society's Field Trip to Tintern Abbey, June 1873. Archifau Morgannwg: <https://glamarchives.wordpress.com/2017/10/12/>
 27. A Time Before BRC. Canolfan Cofnodion Biolegol: <https://www.brc.ac.uk/time-brc>
 28. Burnet J, Copp C a Harding P. 1995. Biological Recording in the United Kingdom – Present Practice and Future Development. Co-ordinating Commission for Biological Recording.
 29. Prosiect Archif Mary Gillham : <https://www.marygillhamarchiveproject.com/>
 30. Border, J. Gillings, S., Newson, S.E., Logie, M., August, T., Robinson, R.A. & Pocock, M.J.O. 2019. The JNCC Terrestrial Biodiversity Surveillance Schemes: An Assessment of Coverage. JNCC Report No. 646, JNCC, Peterborough, ISSN 0963–8091.

Mamaliaid daearol

Dywed adroddiad diweddar Rhestr Goch Cymru ar gyfer mamaliaid bod 1 mewn 39 o'r mamaliaid brodorol neu a arferai fod yn frodorol yng Nghymru mewn bygythiad o ddiflannu, gyda 51% angen gweithredu fel mater o frys.¹ Mae 17 rhywogaeth mamaliaid ar restr Adran 7 Rhywogaethau Blaenoriaeth Cymru gyda'r cyfan, heblaw'r Wiwer Goch, i'w cael yng Ngwent Fwyaf.

Mae mamaliaid yn cynnwys amrywiaeth fawr o leoedd ecolegol, o ysglyfaethwyr fel y Dyfrgi a'r Bele, a phorwyr fel ceirw i rywogaethau pwysig i ysglyfaethwyr fel llygod y dŵr a llygod bach. Maent yn byw mewn amrywiaeth fawr o gynefinoedd yn cynnwys coetir, glaswelltir, ucheldir a gwlypdir. Mae defnydd mamaliaid fel dangosydd o iechyd ecosystem yn amrywio yn ôl y rhywogaeth a hwylustod cofnodi. Er enghraifft, cafodd baw Dyfrgi yn aml ei ddefnyddio fel dangosydd o ansawdd dŵr a phoblogaethau pysgod, gan ei bod yn rhwydd adnabod baw Dyfrgi heb fawr o risg o darfu ar yr anifail.

Mae'r amrywiaeth o rywogaethau mamaliaid, eu hecoleg a'u hyweledd yn golygu fod cofnodi mamaliaid yr un mor amrywiol. Mae gan rai, tebyg i'r Pathew, Llygoden y Dŵr a'r Dyfrgi, eu cynlluniau cofnodi eu hunain, a thrafodir y gorchudd ym mhob adran unigol. Nid yw eraill, yn arbennig famaliaid bach, yn cael eu cofnodi cystal a dim ond cofnodi achlysurol sydd arnynt, neu arolygon cyffredinol tebyg i arolwg Byw gyda Mamaliaid (PTES)² a'r Arolwg Adar Bridio (BTO)³ a ychwanegodd adran ar famaliaid yn 1995.

Yn yr adran hon mae 11 mamal, yn amrywio o famaliaid sydd ar gael yn eang tebyg i'r Mochyn Daear a'r Dyfrgi i Lygoden yr Yd a Llyg y Dŵr a gofnodir yn anaml iawn. Mae straeon llwyddiant amlwg, sef dychwelyd y Dyfrgi i lawer o gyrsiau dŵr, ac ailgyflwyno Llygoden y Dŵr yn llwyddiannus i Wastadeddau Gwent. Rhoddir crynodeb hefyd o'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt dychwelyd yr Afanc i Gymru.

Dylid nodi y cynhwysir ystlumod mewn adran ar wahân.

Mochyn Daear *Meles meles* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Gwarchod Moch Daear (1992) ⁴

Statws cadwraeth: LLEIAF O BRYDER (DU),⁵ LLEIAF O BRYDER: (Cymru) ⁵

Data ar gael: Canolig (857 cofnod)

Cyd-destun: Cynhwysir moch daear yn yr adroddiad hwn oherwydd eu cysylltiad â thwbercwlosis buchol (bTB), gyda Gwent yn ardal lle mae llawer o ddigwyddiadau bTB.⁶



Andy Karran


Yn hanesyddol, mae moch daear wedi cael ei herlid gan giperiaid a ffermwyr neu trwy eu saethu, ac mae'r boblogaeth wedi adfer o gyfnod isel ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.⁷ Credir bod y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn sefydlog neu ar gynydd,⁵ er bod peth ansicrwydd oherwydd y dulliau gwahanol o gynnal arolwg.

Mae'r bygythiadau presennol yn cynnwys gwrthdaro â datblygiadau, anafiadau ar y ffordd a lladd cyfreithlon. Ceir nifer o adroddiadau o erlid moch daear o hyd⁸, ond mae'n annhebygol bod y rhain yn arwyddocaol o ran y boblogaeth yn gyffredinol. Trafodir anafiadau ar y ffordd a bTB yn fwy manwl yn y bennod hon.


Rhagolygon: Rhagwelir y bydd y boblogaeth genedlaethol a'r cwmpas i foch daear yn aros yn sefydlog, ac eithrio mewn parthau lladd cyfreithlon yn Lloegr.⁵ Gall lladd ar y ffordd fod yn bryder, fel y mae colli deerydd trwy ddatblygiadau, newid mewn cynefin a darnio tiriogaethau.⁷ Mae ymchwil yn parhau o ran effaith newid hinsawdd.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Crynhoir y cofnodion moch daear ar hyd y priffyrdd ac anheddiadau, gyda chrynhoad anarferol o gwmpas Caerffili. Nid yw'n glir a yw hyn oherwydd nifer fawr o foch daear trefol neu fwy o ymdrech i'w cofnodi – er bod tuedd gynyddol i weld moch daear trefol yn genedlaethol.⁵ Mae tuedd yn y cofnodion hefyd oherwydd bod cofnodion llai manwl yn achosi canolbwynt ffug ar derfyn Torfaen/Sir Fynwy.

*Dwysedd cofnodion moch
daear (dwysedd uchaf 16
cofnod/km²)*



*Cofnodion moch daear
yn ôl y cofnod
diweddaraf/km²*




Tueddiadau: Nid oes digon o ddata i roi unrhyw dueddiadau poblogaeth ar gyfer Gwent. Ar lefel genedlaethol, credir bod y poblogaethau moch daear yn sefydlog neu'n cynyddu.⁵

Marwolaethau ar y ffyrdd: Nid yw effaith marolwaethau ar y ffyrdd ar y boblogaeth foch daear yn glir: gan ddefnyddio data a gasglwyd yn yr 1980au, amcangyfrifodd Clark et al.⁹ bod 50,000 o foch daear yn cael eu lladd ar y ffyrdd y flwyddyn. Er bod Harris et al.⁷ yn dod i'r casgliad nad yw'r lefel yma o farwolaethau yn cael effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol, gall creu ffyrdd newydd a'r cynnydd mewn traffig ers yr astudiaethau hyn beri pryder yn awr. Yn ychwanegol, mae gwaith diweddar¹⁰ yn awgrymu bod moch daear yn sensitif i newidiadau yn yr hinsawdd, gyda phatrymau tywydd yn effeithio ar eu gweithgarwch magu a chwilio am fwyd.

Mae bron hanner (42%) y cofnodion moch daear SEWBRcC am farwolaethau ar y ffordd (ni ddefnyddir cofnodion GERC a HBRC, gan nad ydynt yn cynnwys sylwadau'r cofnodydd), ac mae 110 o gofnodion marwolaeth ychwanegol o'r Prosiect Splatter. Dangosir y cofnodion marwolaethau ar y ffordd ers 2000 isod. Bydd angen rhagor o waith i ddadansoddi a yw'r patrwm hwn oherwydd mwy o ymdrech gan y cofnodwyr, mwy o draffig ar y ffordd, neu ffactorau eraill, fel hinsawdd, yn cael effaith ar symudiadau moch daear.


Cofnodion marwolaethau moch daear ar y ffordd y flwyddyn (SEWBRcC a Phrosiect Splatter) o'r tu mewn i'r ardal astudio. Sylwer bod cofnodion Prosiect Splatter wedi eu cynnwys o 2013 ymlaen.



Twbercwlosis buchol (bTB): Mae'n hysbys bod moch daear yn cario bTB a gallant drosglwyddo'r afiechyd i wartheg, ac i'r gwrthwyneb. Prin yw'r ddealltwriaeth o symudiad yr afiechyd mewn poblogaethau moch daear a'r cyfraddau a'r peirianwaith trosglwyddo,¹¹ er bod trosglwyddo o fewn y rhywogaethau yn digwydd ar gyfraddau uwch na rhwng rhywogaethau.¹²

Mae Gwent yn rhan o Ardal Digwyddedd Uchel Achosion o bTB (Dwyrain), sy'n cynnwys Gwent a'r rhan fwyaf o Bowys.⁶ Dengys yr ystadegau diweddaraf¹³ bod yr achosion bTB yn yr ardal yn gostwng, er yn raddol, er bod bTB yn parhau yn fwy amlwg yn yr ardal na chyfartaledd Cymru.


Achosion newydd, caeedig ac agored o bTB yn yr Ardal TB Uchel (Dwyrain)¹³



Ar hyn o bryd, polisi Llywodraeth Cymru yw parhau i fonitro'r achosion o bTB mewn moch daear,¹⁴ ac mae rhaglen ar gyfer casglu a dadansoddi moch daear marw ar waith.¹⁵ Cynigiwyd grant i dalu am hyd at 50% o gostau brechu moch daear yn 2019.¹⁶

Gwarchodaeth: Dim ond 31% o'r cofnodion sydd o safleoedd a warchodir. Mae tuedd yn y cofnodion o ran moch daear, gan fod llawer o'r cofnodion yn dod o farwolaethau ar y ffordd (gweler isod) neu safleoedd datblygu posibl, nad ydynt wedi eu gwarchod. Gan nad ydynt yn rhywogaeth y mae pryder neilltuoel amdanynt o ran cadwraeth, ychydig iawn o arolygon penodol i foch daear sydd ar gael. Mae rhywfaint o gyndynrwydd hefyd efallai ar ran rhai cofnodwyr i rannu lleoliad moch daear, yn arbennig deverydd, oherwydd yr erlid arnynt.

Cofnodion moch daear o safleoedd a warchodir



Afanc Ewropeaidd *Castor fiber* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth:³ Atodiad 3 Confensiwn Bern yn Ewrop, Rheoliadau Cynefinoedd (1994) yr Alban yn unig

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth), Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ MEWN PERYGL (DG), dim yn berthnasol (Cymru)

Data ar gael: Gwael (dim cofnodion)

Cyd-destun: Cynhwysir yr Afanc Ewropeaidd yma oherwydd gwaith Prosiect Afancod Cymru, sydd ar hyn o bryd yn ymchwilio i ddichonolrwydd ail gyflwyno'r Afanc i Gymru.

Erlidiwyd afancod nes iddynt ddiflannu o Brydain yn yr 16eg ganrif, a dim ond tua 1,200 o anifeiliaid oedd ar ôl yn Ewrop erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif. O ganlyniad i'w hail gyflwyno ac ail sefydlu naturiol, mae afancod wedi dychwelyd i'w cwrpas blaenorol ar draws tir mawr Ewrop. Deillia llawer o'r brwdfrydedd dros adfer afancod i'r Deyrnas Unedig o'u rôl fel 'peirianwyr ecosystem': Mae afancod yn addasu eu cynefin, gan arafu llif dŵr a chynyddu bioamrywiaeth.¹⁷

Ail gyflwyno i'r Deyrnas Unedig: Yn y Deyrnas Unedig, ail gyflwynwyd afancod yn llwyddiannus yn Knapdale, yr Alban yn 2009 a rhoddwyd statws Rhywogaeth a Warchodir Ewropeaidd iddynt yn yr Alban y flwyddyn honno. Tyfodd y boblogaeth yn Knapdale i tua 430 anifail yn 2017.¹⁸ Sefydlwyd ail boblogaeth yn yr Alban trwy anifeiliaid oedd wedi dianc neu eu rhyddhau heb drwydded ar Afon Tay, ac amcangyfrifwyd bod tua 433 o anifeiliaid yno yn 2017-18.¹⁹

Yn Lloegr, arweiniodd anifeiliaid wedi dianc neu eu rhyddhau heb drwydded at boblogaeth yn magu ar Afon Otter yn Nyfnaint. Yn 2015 rhoddwyd trwydded bum mlynedd i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfnaint astudio'r boblogaeth oedd yno ac ail gyflwyno anifeiliaid ychwanegol. Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn awr yn saith o barau sy'n magu o leiaf.²⁰ Mae afancod wedi eu rhyddhau hefyd i safleoedd caeedig yng Nghaint, Dyfnaint, Cernyw,⁶ Swydd Efrog²¹ a Swydd Gaerloyw,²² a bwriedir rhyddhau rhagor yn Dorset,²³ Gwlad yr Haf a Surrey.²⁶

Yng Nghymru, fe wnaeth Prosiect Ailgyflwyno'r Afanc gynnal astudiaeth dichonolrwydd²⁵ a ddaeth i'r casgliad: 'Mae ail gyflwyno afancod i Gymru yn ddichonadwy yn ecolegol, gydag ail sefydlu a rheoli'r effeithiau yn bosibl ar gostau cymharol isel. Mae afancod yn cynnig manteision sylweddol o ran gwasanaethau ecosystem a chadwraeth bioamrywiaeth, ac mae manteision cymdeithasol o ran ysgogi twristiaeth yn ogystal â chyfluoedd addysgol a hamdden.' Ym Mawrth 2021, rhyddhawyd y ddau afanc cyntaf (oedolyn gwrywaidd a'i epil) dan drwydded i Warchodfa Natur Cors Dyfi ym Mhowys, a disgwyli'r i ragor o unigolion o'r un uned deuluol ddilyn yn fuan.

Mae cofnodion diweddar²⁶ o arwyddion o afancod yn y caeau ger Afon Dyfi nad ydynt yn gysylltiedig â'r rhyddhau dan reolaeth, ond nid yw'n hysbys o ble daeth yr anifail neu anifeiliaid, na sawl un ohonynt sydd yno.



Allard Martinus

Statws Gwent Fwyaf: Dynododd Prosiect Ailgyflwyno Afancod Cymru chwe dalgylch yng Nghymru lle gellid ail gyflwyno afancod, ond nid oes yr un ohonynt yng Ngwent. Tynnwyd dalgylchoedd y Gwy a'r Hafren o'r arolygon cynefin yn gynnar oherwydd y cymhlethdodau ychwanegol posibl oherwydd trwyddedu a deddfwriaeth traws-ffiniol.²⁷ Ar hyn o bryd, yr afancod agosaf y gwyddys amdanynt yw pâr mewn ardal gaeedig yn Fforest y Ddena.

Rhagolygon: Rhagwelir y bydd y boblogaeth o afancod a'u cwmpas yn cynyddu ar lefel y Deyrnas Unedig.⁵ Yng Nghymru mae'r afanc yn parhau i fod â statws cyfreithiol amwys, a byddai angen rhagor o waith o ran dewis safleoedd a chynigion ail gyflwyno manwl cyn y gellid eu rhyddhau dan drwydded.²⁵

Yr Ysgyfarnog *Lepus europaeus* (Pallas, 1778)

Gwarchodaeth: Deddf Hela (2004)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁴ dim yn berthnasol (DU), dim yn berthnasol (Cymru)

Data ar gael: Cymedrol (294 cofnod)


Cyd-destun: Credir bod ysgyfarnogod wedi eu cyflwyno i Brydain yn y cyfnod Rhufeinig ac roeddent unwaith yn gyffredin ar dir amaethyddol. Y rhain oedd ymhlith y rhywogaethau cyntaf i'w hychwanegu at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (Rhestr Blaenoriaeth UKBAP), yn dilyn amcangyfrifon bod y boblogaeth wedi gostwng o tua 75% ers yr Ail Ryfel Byd.²⁷ Nid yw'r rhesymau am y gostyngiad yn cael eu deall yn llawn, er y credir bod cysylltiad â newidiadau mewn arferion ffermio, gan gynnwys defnyddio caeau mwy, peiriannau a chemegolion amaethyddol, a newidiadau mewn cnydau. Gall y nifer cynyddol o ysglyfaethwyr, llwynogod yn neilltuol, hefyd fod yn ffactor.⁷



Andy Karran


Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig yn aros yn sefydlog, er bod rhywfaint o bwysau negyddol o newidiadau mewn arferion amaethyddol, rheoli plâu a newid hinsawdd.⁴ Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall cynlluniau amaeth-amgylcheddol gael effaith gadarnhaol,³¹ ond ni welwyd hyn ar draws yr holl ffermydd.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir ysgyfarnogod ar draws Gwent Fwyaf, gyda'r dosbarthiad yn cyfateb yn fras i gynefinoedd tir â'r yn Sir Fynwy, Casnewydd a gorllewin Caerffili. Ystyrir bod Gwent Fwyaf ar gyrion y cynefin gorau i ysgyfarnogod oherwydd amlygrwydd ffermio da byw:²⁷ Gwelir ysgyfarnogod ar ffermydd bugeiliol ond mae cyfraddau goroesi oedolion yn is yno.²⁸ Mae niferoedd uchel o gofnodion diweddar o Wlypdir Casnewydd, sydd mae'n debyg o ganlyniad i ymdrechion i gofnodi, tra mai prin yw'r cofnodion diweddar o ffiniau Mynwy/Casnewydd, er bod llawer o gofnodion hanesyddol yno.



*Dwysedd cofnodion
ysgyfarnogod
(dwysedd uchaf 25
cofnod/km²)*


*Cofnodion
ysgyfarnogod yn ôl
degawd*



Tueddiadau: Gan mai rhywogaeth hela yw'r ysgyfarnog, gellir defnyddio data o Gyfrifiad Bagiau Hela Cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwylt (GWCT) i fesur tueddiadau. Mae 19 o safleoedd ar draws yr ardal astudio yn rhoi data i GWCT, ond nid yw pob safle yn rhoi adroddiad bob blwyddyn; y nifer o ffurflenni blyneddol ar gyfartaledd ers 1970 yw 5.8 safle.²⁹ Mae'r duedd dros dro hon yn seiliedig ar y canran o safleoedd sy'n rhoi adroddiad am bresenoldeb yr ysgyfarnog, gan fod y ffigyrau ar gyfer y bagiau yn absennol yn gyffredinol ers 1993.


Dengys y ffurflenni Cyfrifiad Bagiau Hela Cenedlaethol ar gyfer ardal yr astudiaeth gynnydd diweddar yn y ganran o safleoedd sy'n cofnodi presenoldeb ysgyfarnogod, er bod hyn yn seiliedig ar nifer fechan o ffurflenni. Adlewyrchir hyn yn y ffurflenni cenedlaethol, lle mae dwyster y bagiau (anifeiliaid a laddwyd i bob km²) yn dangos gostyngiad tymor hir ond cynnydd diweddar, y credir ei fod yn gysylltiedig â chyflwyno neilltir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.³⁰

Canran o safleoedd yn yr ardal astudio sy'n cofnodi presenoldeb ysgyfarnogod, o'r Cyfrifiad Bag Hela Cenedlaethol^{29,26}



Gwarchodaeth: Daw ychydig llai na'r hanner (47%) o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o NNR Casnewydd. Sylwer bod yr ysgyfarnog yn rhywogaeth sy'n cael ei hela ac y gall fod yn bla amaethyddol. Gwarchodir ysgyfarnogod yn ystod eu cyfnod magu ar dir heb ei gau.


Cofnodion ysgyfarnogod o safleoedd a warchodir



Arolwg ysgyfarnogod a chornchwiglod: Yn 2006, arweiniodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent ymgyrch i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno cofnodion ysgyfarnogod. Cyflwynwyd 54 cofnod yn 2006; cyn hyn, roedd cyfartaledd y nifer o gofnodion y flwyddyn yn ddim ond 3.7, felly, roedd hyn yn gynydd 15 gwaith. Derbyniwyd cofnodion gan bob awdurdod lleol ac eithrio Torfaen. Defnyddiodd deg ar hugain o'r cofnodion gardiau arolwg wedi eu hargraffu yn arbennig, oedd yn dangos y rhywogaethau a ffurflen ar gyfer y cofnod, er y gall cofnodion eraill fod wedi bod o ganlyniad i'r cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau.

Dengys hyn y gall rhaglenni ymwybyddiaeth gyhoeddus fod yn effeithiol wrth greu cofnodion newydd ac mae'n dangos nad yw'r ysgyfarnog yn cael ei chofnodi'n llawn yn gyffredinol ar draws Gwent Fwyaf.

*Niferoedd
blynyddol o
gofnodion
SEWBreC ar gyfer
ysgyfarnogod; yn
dangos effaith
Arolwg
Ysgyfarnogod a
Chornchwiglod
Ymddiriedolaeth
Bywyd Gwylt
Gwent yn 2006*



Pathew *Muscardinus avellanarius* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau – Atodlen 2 (2017). Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP. Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ BREGUS (DU a Chymru)

Data ar gael: Da (2,044 cofnod)




Lowri Watkins


Cyd-destun: Ar draws y Deyrnas Unedig, mae'r gostyngiad yn niferoedd y pathew wedi ei gofnodi'n dda. Credir bod eu cwmipas wedi lleihau i'w hanner ers 1885, ac ers i fonitro cyson ddechrau yng nghanol yr 1990au, amcangyfrifir bod y niferoedd wedi gostwng o 55%.³² Mae'r ymdrechion cadwraeth yn cynnwys gwarchodaeth ddeddfwriaethol, cyhoeddi canllawiau arfer gorau,³³ cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd (yn neilltuoel trwy'r Helfa Gnau Fawr), a sefydlu'r Rhaglen Fonitro Pathewod Genedlaethol (NDMP), yn ogystal â rheoli safleoedd gan amrywiaeth o sefydliadau.

Rhagolygon: Mae Matthews et al.⁵ yn rhagweld, er bod cwmipas y pathew yn debygol o aros yn sefydlog, bod y boblogaeth a'r cynefin yn debygol o leihau. Yr hyn sy'n gyrru'r newid yw darnio cynefin a lleihad yn yr amrywiaeth mewn rhywogaethau coetir. Mae newid hinsawdd hefyd yn debygol o effeithio ar boblogaethau'r pathew,^{5,32} er nad yw'r effaith i gyd yn sicr, gan fod y math o goetir yn ffactor.


Cwmipas Gwent Fwyaf: Yn yr 1990au cynhaliwyd sawl arolwg i bennu dosbarthiad y pathew yng Nghymru. Cyfunodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent³⁴ ganlyniadau'r rhain i gynhyrchu map o sgwariau 10km oedd â chofnod o arwyddion yn y caeau, roedd 17 ohonynt yn rhannol neu yn gyfan gwbl yng Ngwent Fwyaf. Dangosir y newidiadau yn y cwmipas ar y raddfa eang hon isod.



Sgwariau 10km gydag arwyddion yn y caeau, yn deillio o Jermyn Messenger a Birks (2001)³¹




Sgwariau 10 km gyda chofnodion o 2000-2009. Sgwariau gyda <5 cofnod yn wyrdd goleuach.



Sgwariau 10 km gyda chofnodion o 2010-2019. Sgwariau gyda <5 cofnod yn wyrdd goleuach.


Ar raddfa uwch, mae dosbarthiad y pathew yn fwy darniog. Mae'r cofnodion wedi crynhoi yng nghanol a dwyrain Sir Fynwy, a de Caerffili, gan ymestyn i Gasnewydd. Mae band o gofnodion ar draws y ffin ogleddol rhwng Sir Fynwy a Swydd Henffordd, sy'n cyfateb i'r cofnodion ar hyd yr A465 (gweler Patrymau Cynefin isod). Mae'r prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yng Nghoed Croes Robert, Caerwent, Coed Graig, Coed Cefn Pwll-du, Harpers Grove a Wyndcliff (sy'n cyfateb i leoliadau NDMP).

Mae'n ymddangos hefyd bod y cwmpas wedi cyfyngu yn fawr iawn, dim ond hanner y sgwariau grid y cofnodwyd pathew ynddynt sydd â chofnodion o'r degawd diwethaf. Er y gallai hyn fod yn rhannol oherwydd llai o gofnodi, neu fod y cofnodi yn canolbwyntio ar fonitro'r poblogaethau allweddol, mae'n dal i beri pryder.



*Dwysedd cofnodion
pathewod, (uchafswm
138 cofnod/km²)*


*Cofnodion pathewod
yn ôl degawd o'r
cofnod diweddaraf*



Patrymau cynefin: Mae'r amodau gorau i bathewod yn debygol o gael eu gweld mewn coetir eang, hynafol lled-naturiol.³³ Yng Ngwent Fwyaf, mae 55% o'r cofnodion yn digwydd mewn coetir hynafol lled-naturiol, planhigfeydd ar goetir hynafol, coetir hynafol a adferwyd neu goetir hynafol o gategori anhysbys. Credir bod darnio'r cynefin coetir yn ffactor pwysig sy'n effeithio ar ddosbarthiad y pathew,³⁵ ac mae 69% o gofnodion Gwent Fwyaf yn digwydd yn y Rhwydwaith Coetir Craidd³⁶ - yr ardal lle mae mwyaf o gysylltiad rhwng coetiroedd.

Y tu allan i'r cynefinoedd traddodiadol yma i'r pathew, mae crynhoad trawiadol o gofnodion pathew ar hyd y prif ffyrdd, yn neilltuoel yr M4, A40, A449 a'r A465 yn Sir Fynwy a Chasnewydd. Er bod hyn hefyd yn adlewyrchu'r ymdrech wrth arolygu, fe sylwyd ar y ffenomenon yma mewn mannau eraill, gyda'r dystiolaeth yn awgrymu y gall y dwyster o bathewod ar ymylon ffyrdd fod yn ddwy neu dair gwaith yn uwch nag yn y tirwedd ehangach.³⁷

Tueddiadau poblogaeth: Mae'r Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol (NDMP) yn cynnwys cyfrif blychau nythu pathew yn fisol, gyda'r uchafswm o ran cyfrif oedolion yn y gwanwyn (Mai neu Fehefin) i bob 50 blwch yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd i'r boblogaeth cyn magu. Mae 21 o safleoedd ar draws Gwent wedi eu cofrestru gyda'r NDMP,³⁸ a ddangosir isod. Fodd bynnag, dim ond wyth o'r rhain sydd â set ddata barhaus o fwy na phum mlynedd, gyda phedwar o'r safleoedd nad ydynt yn cael eu monitro yn dda yn gyson yn rhoi cyfrif gwanwyn o ddim.




Lleoliad bras safleoedd NDMP, gyda dwyster y cofnodion pathew. Maint y pwynt yn dynodi'r nifer o ffurflenni'n y gwanwyn.


Trwy ddefnyddio'r uchafswm o'r wyth safle hwn ar gyfartaledd ceir tuedd ar gyfer y boblogaeth o bathewod yng Ngwent, a ddangosir isod gyda'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru. Fodd bynnag mae'r set ddata mor fach, ac wedi ei gogwyddo gan y niferoedd uchel yn gynnar a dirywiad yng Nghoed Croes Robert a Choed Wet Meadow (safleoedd cyfagos yn Sir Fynwy), fel nad oes sicrwydd am y tueddiadau yma. Mae cyfartaledd Gwent yn aml yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru a'r Deyrnas Unedig.

Darlunnir hyn trwy ffurflenni unigol o bedwar safle NDMP: Coed Croes Robert, Coed Wet Meadows, Caerwent a Harpers Grove. Dengys hyn yr amrywiaeth mawr rhwng blynnyddoedd, gan fod poblogaethau pathew yn sensitif iawn i'r tywydd,³² yn ogystal â'r amrywiaeth rhwng gwahanol safleoedd. Mae'n bosibl hefyd bod y nifer isel o flychau yn cryfhau'r amrywiad mawr hwn.

Cymedr uchafswm y cyfrif yn y gwanwyn o bathew sy'n oedolion i bob 50 blwch^{38,39}




Cymedr uchafswm y cyfrif yn y gwanwyn o bathewod sy'n oedolion i bob 50 blwch mewn 4 safle yng Ngwent^{38,35}



Gwarchodaeth: Er bod pathewod unigol a'u manau magu a gorffwys yn cael eu gwarchod gan y gyfraith, mae'r rhan fwyaf (52%) o gofnodion pathewod yng Ngwent Fwyaf wedi eu cael y tu allan i'r ardaloedd a warchodir. Daw'r cofnodion Ardal Gadwraeth Arbennig o Goetir Dyffryn Gwy, yn fwyaf nodedig yn Wyndcliff, a daw'r cofnodion SSSI o Goed Croes Robert, Coed Gaer, Coed Coombe Valley a Choetir Ruperra. Daw'r cofnodion SINC (Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur) o nifer o safleoedd trwy Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerffili - gan fod yr holl goetir hynafol yn SINC dynodedig. Dylid sylw, fodd bynnag, nad yw hyn yn ystyried cofnodion wedi eu canoli na symudedd y pathew, ac efallai bod llawer mwy o gofnodion yn gysylltiedig â safleoedd a warchodir neu'n agos atynt.

Cofnodion pathewod o safleoedd a warchodir



Llygoden yr Ŷd *Micromys minutus* (Pallas, 1771)

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP. Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ DAN BETH BYGYTHIAD (DU), BREGUS (CYMRU)

Data ar gael: Gwael (45 cofnod)

Cyd-destun: Llygoden yr Ŷd yw llygoden leiaf Prydain ac fe'i gwelir mewn amrywiaeth o gynefinoedd

glaswellt tal, o gnydau grawn traddodiadol a chaeau gwair i welyau hesg, ymylon ffyrdd gweiriog a gwrychoedd. Mae'n anodd amcangyfrif y boblogaeth oherwydd bod llwyddiant gwahanol dulliau o gynnal arolygon yn amrywio,⁴⁰ dosbarthiad anwastad y boblogaeth leol⁴¹ ac amrywiadau tymhorol mawr.⁵ Canfu arolygon a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Mamaliaid nad oedd gan 71% o'r safleoedd oedd ag arwyddion o lygod yr Ŷd yn 1979 unrhyw arwydd pan ail ymwelwyd â nhw yn yr 1990au, a bod y cynefin wedi cael ei golli'n llwyr yn tua hanner y safleoedd yma,⁴² gan arwain at eu dynodi yn Rhywogaeth Blaenoriaeth dan y cynllun gweithredu bioamrywiaeth. Yng Nghymru, prin iawn yw'r cofnodion: dim ond 139 o gofnodion ar gyfer Cymru gyfan yn 2013.⁴³


Rhagolygon: Er nad oes digon o ddata i ddangos tuedd hanesyddol, y rhagolygon ar gyfer llygod yr Ŷd yw y bydd y boblogaeth yn gostwng, oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a newid hinsawdd.⁵ Mae angen brys hefyd i gael rhagor o ddata i ddeall y defnydd o'r cynefin a deinameg y boblogaeth, yn ogystal â gwella'r dulliau cynnal arolwg.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion llygod yr Ŷd yn rhan ddeheuol Gwent Fwyaf; ni welir llygod yr Ŷd yn yr ucheldir. Mae'r prif ganolfannau ar Gors Magwyr, lle cynhaliwyd arolygon llygod yr Ŷd cyson (er ei bod yn bosibl bod peth dyblygu), ac o gwmpas Coed Gwent, lle mae clwstwr o gofnodion yn dyddio o'r 1970au. Mae'r cofnodion o amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys gwelyau hesg ac ochrau'r ffyrdd. Cofnodion o nythod unigol yw'r mwyafrif, er bod un arolwg ym Magwyr wedi dod o hyd i saith nyth.




Andy Karran

*Dwysedd cofnodion
llygod yr ŷd, (uchafswm o
9 cofnod/km²)*




*Cofnodion llygod yr ŷd yn
ôl degawd*



Tueddiadau: Nid oes digon o gofnodion i sefydlu tuedd y boblogaeth ar gyfer llygod yr ŷd yng Ngwent Fwyaf. Nid oes digon o ddata i sefydlu tueddiadau poblogaeth ar gyfer Prydain⁵ na Chymru.⁴⁴ Mae'n debygol bod newidiadau mewn arferion amaethyddol wedi effeithio ar boblogaethau, ond nid yw graddfa a dosbarthiad yr effeithiau hynny'n hysbys.⁵

Gwarchodaeth: Daw dros ddwy ran o dair (68%) o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda'r rhan fwyaf o'r cofnodion diweddaraf yn dod o warchodfeydd natur sy'n cael eu rheoli, lle mae cynefin o safon uwch sy'n cael ei reoli'n gyson ar gael a mwy o ymdrech i gofnodi, gydag arolygon penodol mewn rhai mannau.


Cofnodion llygod yr ŷd o safleoedd a warchodir



Arolygon yn y dyfodol: Amrywiol yw llwyddiant arolygon llygod yr ŷd.^{40,41} Chwilio am nythod sy'n cymryd lleiaf o amser, ac mae wedi rhoi canlyniadau ar Gors Magwyr; ond mae trapio, gyda thrapiau Longworth yn neilltuol, wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn lleoliadau eraill.⁴⁵ Mae rhai astudiaethau yn cael mwy o lwyddiant yn gosod y trap ar y ddaear,⁴⁶ eraill yng nghanol y coesynnau.⁴⁴ Bu gwaith yn ddiweddar hefyd yn defnyddio cwpanau abwyd yng nghanol y coesynnau gyda chamêrau⁴⁷ neu gasglu ysgarthion ar gyfer profion DNA.⁴⁸ Gall fod yn bosibl y gallai rhai o'r technegau hyn ddod o hyd i lygod yr ŷd mewn ardaloedd newydd.

Mae Tapping (2013)⁴³ wedi ceisio dynodi'r mannau tebygol i ddod o hyd i lygod yr ŷd yng Nghymru, ar sail cofnodion diweddar a chynefin addas yn y rhwydwaith cynefin glaswelltir yr iseldir. Gosodwyd y darnau o'r cynefin glaswelltir mewn trefn yn ôl yr ardal o gynefin addas o'u mewn, er mwyn dod o hyd i ardaloedd lle gellid dod o hyd i lygod yr ŷd. Fodd bynnag, mae sawl problem gyda'r gwaith hwn, yn benodol oedran yr arolwg Cam 1 y mae'n seiliedig arno a'r ffaith nad oedd rhai o gynefinoedd llygod yr ŷd, fel ochrau ffyrdd, wedi eu mapio yn yr arolwg Cam 1 gwreiddiol.

Mae'r map isod yn dangos terfynau'r parth arolwg posibl a ddisgrifir gan Tapping, gyda'r rhwydweithiau cynefin Craidd a Chanolog a ddynodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.³⁶ Mae cofnodion diweddar (ar ôl 1980) yn cael eu dangos mewn gwyrdd, gyda chofnodion hanesyddol mewn melyn.



Draenog Gorllewin Ewrop *Erinaceus europaeus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 6

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP. Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ BREGUS (DG), BREGUS (Cymru)

Data ar gael: Da (1,824 cofnod)



Andy Karran


Cyd-destun: Ychwanegwyd draenogod at restr Rhywogaethau sy'n cael Blaenoriaeth BAP UK yn 2007, yn dilyn canlyniadau arolwg oedd yn dangos gostyngiad parhaus.⁴⁹ Mae'r amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu bod y boblogaeth wedi gostwng o gymaint â 73% ers 1995,⁴ er bod peth ansicrwydd oherwydd y gwahaniaethau yn y dulliau cynnal arolwg. Priodolir y dirywiad i nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys newidiadau amaethyddol, marwolaethau ar y ffordd, ysglyfaethu gan foch daear, a cholli a darnio cynefin. Mae'r gwahaniaethau rhwng arolygon gwledig a threfol yn awgrymu, i ddraenogod trefol, bod y dirywiad wedi arafu'n ddiweddar, ac y gall y boblogaeth fod yn cynyddu'n awr; mae'r duedd ar gyfer poblogaethau gwledig yn llai clir: canfu arolwg yn ddiweddar⁵⁰ ddraenogod mewn dim ond 22% o'r safleoedd gwledig a samplwyd.

Croesawir draenogod yn aml i erddi trefol, ac mae'n ymddangos bod cynefinoedd trefol yn gynyddol bwysig i'r boblogaeth yn gyffredinol. Gall dwysedd draenogod mewn ardaloedd trefol fod cymaint â naw gwaith yn uwch nag mewn ardaloedd gwledig,⁵¹ credir bod hynny oherwydd y cynnydd yn y bwyd anthropogenig, cyfleoedd i lochesu a llai o ysglyfaethu. Awgrymir, hyd yn oed, y bydd draenogod yn mynd i'r pentrefi yng nghefn gwlad.⁵² Lansiwyd Hedgehog Street, hyb ar-lein yn hyrwyddo gerddi sy'n gyfeillgar i ddraenogod a gwella'r cysylltedd i ddraenogod, yn 2011 gan y Peoples Trust for Endangered Species a Chymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain. Hyd yn hyn, mae 90 o dyllau draenogod wedi eu creu a'u mapio yn ardal yr astudiaeth.⁵³


Rhagolygon: Y dyfodol a ragwelir ar gyfer draenogod yw y bydd y dirywiad yn parhau⁵ oherwydd gostyngiad yn ardal y cynefin a'i ansawdd. Ni ddeallir effaith newid hinsawdd ar boblogaethau draenog yn llawn, ond credir y gall gaeafau cynhesach a gwlypach gael effaith niweidiol trwy effeithio ar aeafgyssgu.⁵⁷ Mae'n ymddangos y bydd cynefinoedd trefol yn gynyddol bwysig i ddraenogod.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae cofnodion draenogod wedi eu gwasgaru'n eang dros Went Fwyaf, gydag ychydig mwy o grynhoad o gofnodion mewn ardaloedd trefol. Mae hyn yn wir oherwydd tuedd cofnodwyr, ond gall hefyd adlewyrchu bod mwy o ddwysedd o ddraenogod mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Ceir ychydig o fannau â dwysedd uchel yng Nghas-gwent (187 cofnod), Cwmbrân (87 cofnod) a Deri (30 cofnod). Mae'n debygol bod y rhain yn gyfuniad o gofnodion wedi eu canoli, dyblygiadau ac ymdrech arbennig gan y cofnodwr. Mae'r map isod wedi ei osod fel petai 25 yn uchafswm y cofnodion, er mwyn dangos peth amrywiaeth yn y mannau â dwyster is.

*Dwysedd cofnodion draenogod
(uchafswm dwyster ≥ 25)*



Cofnodion draenogod yn ôl dyddiad




Tueddiadau: Mae tueddiadau'r Deyrnas Unedig yn deillio o sawl arolwg, gan gynnwys yr arolwg Mamaliaid ar Ffyrdd, ymgyrch Wyllo Adar yr Ardd, Arolwg Adar Magu, Living with Mammals a Hogwatch. Mae'r holl arolygon yn dangos gostyngiad yn y digwyddiadau a'r niferoedd dros gyfnodau amrywiol o amser yn y 25 mlynedd diwethaf.⁵⁴ Roedd cyfuno canlyniadau'r arolygon yma tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, ac mae'n debygol nad oedd digon o fannau arolygu yn ardal yr astudiaeth i roi tuedd gadarn.

Mae'r nifer o ddraenogod a laddwyd ar y ffyrdd yn ardal yr astudiaeth wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf, ond mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a mwy o ymdrech i gofnodi. Cynhwysir cofnodion Prosiect Splatter o 2013 ymlaen.


Mae'n bwysig nodi hefyd bod y rhan fwyaf o'r cofnodion lladd ar ffyrdd yn dod o'r ardal drefol a chyrion trefi: daw 46% o'r cofnodion anafiadau ffordd o'r ardal drefol a maestrefol yn ôl diffiniad LCM 2015, ac mae hyn yn codi i 69% ac 81% gydag ardal glustog o 100m a 250m yn eu tro. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith a wnaed gan Wright et al. (2020)⁵⁵ sy'n dangos bod ardaloedd gyda gorchudd trefol cymedrol (y brig ar 50%) a gorchudd glaswelltir uchel â thebygolrwydd cryf y byddai draenogod yn cael eu lladd ar ffyrdd.

Nifer blynyddol draenogod a laddwyd ar ffyrdd yn ardal yr astudiaeth o 2001 ymlaen



Gwarchodaeth: Ychydig iawn o gofnodion o ddraenogod (7%) sydd o safleoedd a warchodir; mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r cofnodion o ardaloedd trefol a maestrefol a ffyrdd sy'n llai tebygol o fod yn cael eu gwarchod. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o warchodfeydd yn annhebygol o fod yn arolygu neu fonitro unrhyw boblogaethau o ddraenogod sydd yno. Fodd bynnag, dylid nodi y gall ardaloedd o laswelltir a mannau gwyrdd eraill mewn ardaloedd trefol ond y tu allan i erddi fod yn gynefin pwysig i ddraenogod⁵² ac yn llwybrau cysylltiol pwysig.⁵

Cofnodion draenogod o safleoedd a warchodir



Dyfrgi Ewropeaidd *Lutra lutra* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth:⁴ Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau – Atodlen 2 (2017). Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU), BREGUS (Cymru)



Andy Karran

Data ar gael: Da (1,004 cofnod)


Cyd-destun: Dioddefodd y dyfrgi Ewropeaidd ddirywiad difrifol yng nghanol y 19eg ganrif o ganlyniad i lygredd a effeithiodd ar y stoc o bysgod. Pan gynhaliwyd yr arolwg dyfrgwn cyntaf yng Nghymru, yn 1977-78, dim ond mewn 20% o safleoedd arolygu y cafwyd hyd i olion dyfrgwn; erbyn 2010, canfuwyd olion dyfrgwn mewn 90% o'r safleoedd arolygu.⁵⁸ Priodolir yr adferiad cryf hwn i'r warchodaeth gyfreithiol gref a gwelliannau i ansawdd dŵr, ac mae dyfrgwn yn awr wedi dychwelyd i'r rhan fwyaf o'u cwmpas blaenorol yn y Deyrnas Unedig.⁵ Mae'r boblogaeth o ddyfrgwn wedi hen sefydlu yng Ngwent, gyda dyfrgwn yn brif nodwedd dynodi ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Gwy ac Wysg.⁵⁹

Dylid nodi, er bod nifer fawr o gofnodion dyfrgwn, mae llawer o gofnodion dyblyg, gan fod nifer o sefydliadau yn casglu cofnodion dyfrgwn, sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda SEWBRc. Er i ymdrechion gael eu gwneud i gael gwared ar ddyblygiadau, mae'n bosibl bod rhai yn dal ar ôl.


Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, rhagwelir bod y boblogaeth o ddyfrgwn yn mynd i barhau i gynyddu ac ehangu ei gwmpas.⁵ Credir bod y boblogaeth o ddyfrgwn wedi cyrraedd yr uchafswm posibl mewn rhai mannau, gan gynnwys Dyffryn Gwy, a disgwylir i'r ailsefydlu fod yn gyflawn, a thrwy Brydain i gyd erbyn 2030.⁸⁰

Cwmpas Gwent Fwyaf: Dosbarthir dyfrgwn yn gyfartal ar draws Gwent i gyd, ac maent yn crynhoi ar hyd y prif afonydd, yn arbennig Afon Wysg a Gwy a'r Afon Gwy, a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Gwelir niferoedd mawr ar Gors Magwyr a Pharc Gwledig Bargoed, ond mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i fwy o ymdrech gan gofnodwyr yn y lleoliadau hyn.


*Dwysedd cofnodion
dyfrgwn (dwysedd
uchaf 21 cofnod/km²)*



Cofnodion dyfrgwn yn ôl y cofnod diwethaf/km²



Tueddiadau: Cynhaliwyd arolygon cenedlaethol cyson ar gyfer dyfrgwn yng Nghymru ers 1977, felly mae set ddata dda yn dangos cynnydd cyson yn y cwmpas. Cynhwysir Gwent Fwyaf mewn tri dalgylch astudio: Gwy, Wysg a Thâf, er bod y tri yn ymestyn tu hwnt i Went Fwyaf. Dangosir y canlyniadau o Arolwg Dyfrgwn Cymru⁵⁸ ar gyfer pob dalgylch isod:




Gan ddefnyddio mannau samplo o'r tri dalgylch sydd yng Ngwent Fwyaf ceir canran feddiannu o 87.5% yn 2010. Gwelwyd safleoedd negyddol yng Ngwent Fwyaf ar isafonydd Afon Lwyd a Rhymni, yn ogystal â rhan orllewinol Gwastadeddau Gwent. Yn hytrach na bod yn ardaloedd y mae dyfrgwn yn absennol ohonynt, awgrymir bod y safleoedd yma'n cael eu defnyddio'n fwy achlysurol gan ddyfrgwn, ac felly yn fannau lle mae'n llai tebygol y bydd olion dyfrgwn i'w gweld.⁵⁸

Marwolaethau ar y ffyrdd: Gwelwyd cynnydd yn y nifer o ddyfrgwn sy'n cael eu lladd ar y ffordd ar draws y Deyrnas Unedig ers canol yr 1980au,⁶⁰ er y gall hyn fod o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth a chofnodi. Nid yw'n glir a yw anafiadau ffordd yn cael effaith arwyddocaol ar y boblogaeth o ddyfrgwn – awgrymir y gall difrifoldeb yr effaith amrywio rhwng rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.⁶⁰ Fodd bynnag, mae oblygiadau clir o ran lles anifeiliaid, yn arbennig pan fydd rhai benyw â dyfrgwn bach yn cael eu lladd, a rhestrir effaith ffyrdd yn bryder difrifol wrth roi adroddiadau o ran y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn y Deyrnas Unedig.⁶¹


Cychwynnwyd Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd yn 1992 i gasglu dyfrgwn i roi archwiliad post mortem iddynt.⁶² Er bod dadansoddiad post mortem yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth mawr o brosiectau ymchwil, fel tocsicoleg ac astudiaethau genynnol, gall lleoliad y marwolaethau ar ffyrdd gael ei ddefnyddio i ddynodi canolfannau ac arwain camau lliniaru. Yn 2012, cynhyrchodd y Prosiect gyfres o adroddiadau yn dynodi ardaloedd lle'r oedd llawer o farwolaethau a'r blaenoriaethau i'w lliniaru.^{63,64} Mae cofnodion SEWBRcC a chofnodion Prosiect Splatter yn cynnwys 156 o gofnodion anafiadau ffordd; nid yw cofnodion o GCER, HBRC a NBN yn benodol.

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau cofnodion anafiadau ffordd dyfrgwn, ynghyd ag ardaloedd lle bu nifer o farwolaethau a ddynodwyd gan Wilkinson a Chadwick (2012)^{63,64} fel blaenoriaethau Canolig (oren) ac Isel (melyn) o ran eu lliniaru.



Gwarchodaeth: Yng Ngwent Fwyaf, mae 44% o'r cofnodion yn digwydd ar safleoedd a warchodir, gyda'r mwyafrif o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. Nid yw hynny'n adlewyrchu'r warchodaeth lawn ar gynefin dyfrgwn: mae dynodiadau afonydd yn dueddol o fod yn gul ac wedi eu cyfyngu i bwynt y llif uchaf neu bellter penodol ohono, neu hyd yn oed yn cael eu cynrychioli gan linellau yn hytrach nag ardal, felly nid yw cofnodion bob amser yn syrthio o fewn y safleoedd a warchodir er bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan ddyfrgwn efallai. Pan fydd cynefin cymudo neu orwedd dyfrgwn bellter oddi wrth y ddyfrffordd, mae hyn hefyd yn annhebygol o fod yn y safle a warchodir. Fodd bynnag, mae'r holl safleoedd bridio a gorffwys dyfrgwn yn cael eu gwarchod trwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, os ydynt mewn safle a warchodir neu beidio.

Cofnodion dyfrgwn a gafwyd ar safleoedd a warchodir yng Ngwent Fwyaf



Bele *Martes martes* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth:⁴ Rheoliadau Cynefinoedd – Atodlen 2 (2010). Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU), MEWN PERYGL DIFRIFOL O DDIFLANNU (Cymru)

Data ar gael: Gwael (14 cofnod)



Terry Whittaker (2020 Vision)

Cyd-destun: Roedd y Bele yn gyffredin hyd y 19g ganrif, pan wnaeth eu herlid gan giperiaid arwain at eu diflaniad ar draws Lloegr a'r rhan fwyaf o Gymru. Dechreuodd y boblogaeth yn yr Alban adfer yng nghanol yr ugeinfed ganrif, ond amcangyfrifwyd bod llai na 50 yng Nghymru yn yr 1990au.⁶⁵


Yn 2014, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent asesiad dichonolrwydd ar gyfer atgyfnerthu niferoedd y bele yn Lloegr a Chymru.⁶⁶ Yn dilyn hynny, mae 51 o anifeiliaid wedi eu symud o'r Alban i Ganolbarth Cymru yn 2015-2017,⁶⁷ ac mae 18 o anifeiliaid wedi eu symud i Fforest y Ddena yn 2019.⁶⁸

Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae gan y Bele statws Cadwraeth Ffaffriol,⁷⁰ a rhagwelir y bydd y boblogaeth a'r cwmpas yn cynyddu.⁵ Mae'r bygythiadau i'r Bele a'r rhwystrau sy'n ei atal rhag ehangu ei gwmpas yn cynnwys diffyg rheolaeth ar goetir a'u darnio,⁵ a marwolaethau ar y ffyrdd.⁶⁶

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae gan Went gynefin addas i'r Bele (mae'r boblogaeth yn yr Alban yn ffaffrio coetir llydanddail, prysg a glaswelltir).⁶⁶ Mae Rhanbarth Atgyfnerthu Posibl Fforest y Ddena a ddynodwyd gan MacPherson (2014), yn ymestyn i Went, ar hyd Coetir Dyffryn Gwy ar draws i Goed Gwent. Efallai hefyd bod cynefin addas ar hyd y terfyn Caerffili/Merthyr, fel rhan o Ranbarth Atgyfnerthu Posibl Afan.

Mae 12 o gofnodion diweddar o'r bele yng Ngwent Fwyaf, y cyfan wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal astudio ac o fewn y 30 mlynedd diwethaf, y diweddaraf yn 2005. Fodd bynnag, mae cryn amheuaeth am ddilysrwydd a lleoliad y cofnodion, felly dylid ystyried y rhain fel tystiolaeth o unigolion symudol ar y gorau, yn hytrach na phoblogaeth sefydlog.

Map yn dangos lleoliad cofnodion y Bele, ynghyd â rhanbarthau atgyfnerthu posibl a ddynodwyd gan MacPherson (2014)



Tueddiadau: Mae'n rhy gynnar i bennu llwyddiant y prosiectau atgyfnerthu, er bod y rhagolygon yn gadarnhaol.⁵ Mae'r boblogaeth yn yr Alban wedi bod yn ehangu ers yr 1980au, gan ddangos y gall y boblogaeth adfer, er yn araf, os oes cynefin addas.⁶⁹

Ffwlbart *Mustela putoris* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 – Atodlen 6

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU), LLEIAF O BRYDER (CYMRU)

Data ar gael: Cymedrol (292 cofnod)




Andy Karran

Cyd-destun: Dioddefodd ffwlbartiaid ddirywiad difrifol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roeddent wedi diflannu o'r rhan fwyaf o Brydain erbyn 1915.⁷¹ Mae Cymru wastad wedi bod yn gadarnle i'r rhywogaeth, sydd yn dychwelyd eto yn Lloegr erbyn hyn. Er bod y boblogaeth ym Mhrydain yn cynyddu,⁵² mae'n gostwng mewn rhannau o Ewrop.⁷² Mae pryderon eu bod yn croesi â fferetau domestig, ond mae'n ymddangos bod gan y ffwlbart pur fantais dros yr hybrid ffwlbart-fferet, ac mae Gwent Fwyaf wedi ei dosbarthu fel Parth Purdeb Ffwlbart 1 (>95% o'r cofnodion yn cydymffurfio â'r ffenodeip ffwlbart pur) gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Vincent.⁷¹ Mae'r holl siroedd gerllaw hefyd yn Barthau Purdeb Ffwlbart 1, ac eithrio Swydd Gaerloyw, sy'n parhau heb ei dosbarthu oherwydd y nifer isel o gofnodion.


Rhagolygon: Rhagwelir y bydd poblogaeth a chwmpas y ffwlbart yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu. Maent yn defnyddio amrywiaeth fawr o gynefinoedd a gallant addasu i wahanol ffynonellau o ysglyfaeth.⁷¹ Nid yw'n ymddangos bod croesi â fferetau yn peri pryder yn y tymor hir. Fodd bynnag mae'r bygythiadau'n cynnwys trapio a gwenwyno eilaidd trwy wenwyn llygod. Dangosodd dadansoddiad o'r carcassau a gasglwyd yn yr arolwg ffwlbartiaid cenedlaethol bod 79% wedi dod i gysylltiad â gwenwyn llygod; mae hyn yn gynydd o 1.7% ers 1992, gyda'r gwaddodion yn uwch mewn ffwlbartiaid o ardaloedd tir â.⁷³

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ceir ffwlbartiaid ar ddwyter isel ar draws ardal yr astudiaeth, gyda chrynoadau ar hyd priffyrdd: mae o leiaf 46% o'r cofnodion o anafiadau ar y ffyrdd. Mae rhai o'r canolfannau cofnodion yn cael eu hachosi gan ganoli'r cofnodion nad ydynt yn fanwl gywir. Prin yw'r cofnodion o Gasnewydd hefyd, sydd yn ddisgwyliedig gan fod yno lai o gynefin ac ysglyfaeth mewn ardal drefol. Dim ond pum cofnod (2%) sydd o ffwlbart-fferet, neu ffwlbart-fferet posibl, er y gall hyn fod yn anodd ei bennu heb archwilio nodweddion y blew.

Dwysedd y cofnodion ffwlbartiaid,
(uchafswm o 5 cofnod/km²)




Cofnodion ffwlbartiaid yn ôl degawd



Tueddiadau: Nid yw'n bosibl pennu tuedd ar gyfer Gwent Fwyaf. Cadarnhaodd yr arolwg ffwlbartiaid genedlaethol a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn 2014-2015 bod y cwmpas yn sefydlog yng Nghymru a'r cwmpas yn Lloegr wedi cynyddu,⁷² ac mae'r amcangyfrifon presennol ar gyfer y boblogaeth yn dangos cynnydd yng Nghymru a Lloegr.⁵

Gwarchodaeth: Ychydig iawn o'r cofnodion (8%) sydd o'r safleoedd a warchodir, nad yw'n annisgwyl gan eu bod yn defnyddio cynefin ehangach, ychydig o arolygon penodol i ffwlbartiaid a gynhaliwyd a daw llawer o'r cofnodion o anafiadau ar y ffyrdd.

Cofnodion ffwlbartiaid a gafwyd ar safleoedd a warchodir



Llyg y Dŵr Ewrasaidd *Neomys fodiens* (Pennant, 1771)

Gwarchodaeth: Gwarchodir dan Atodlen 6 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU a Chymru)

Data ar gael: Gwael (44 cofnod)

Cyd-destun: Ychydig iawn a wyddom am ofynion cynefin llygon y dŵr a deinameg y boblogaeth.⁷⁴ Mae'r amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar y gymhareb llyg cyffredin â llyg y dŵr, ond nid oes digon o ddata i bennu unrhyw

duediadau yn y boblogaeth na'r cwmpas.⁵ Cynhaliodd y Gymdeithas Mamaliaid eu Harolwg Llyg y Dŵr Cenedlaethol cyntaf yn 2004 a 2005.⁷⁵ Gellir dod o hyd i lygon y dŵr mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd dyfrol, yn ogystal â chryn bellter oddi wrth ddŵr,⁷⁴ ond mae eu natur ddirgel a'r dwyster poblogaeth isel (cyn lleied â 0.78/ha)⁵ yn eu gwneud yn anodd cynnal arolwg arnynt.


Rhagolygon: Mae'n ymddangos bod cynnydd posibl yn yr ymwybyddiaeth o lygon y dŵr yng Ngwent Fwyaf: mae dros hanner y cofnodion llygon y dŵr yn yr ardal astudio o'r ddegawd ddiwethaf, er y gall hyn fod oherwydd cynnydd cyffredinol yn y cofnodi. Fodd bynnag, rhagwelir mai'r duedd at y dyfodol i lyg y dŵr yw un o ddirywiad oherwydd dirywiad yn safon y cynefin a'i faint a diffyg cysylltedd rhwng cynefinoedd.⁵

Cwmpas Gwent Fwyaf: Cynhaliwyd arolwg ar chwe safle yng Ngwent Fwyaf fel rhan o'r Arolwg Llygon y Dŵr,⁷⁴ ond ni wnaeth unrhyw un ganfod tystiolaeth o lygon y dŵr. Mae'r cofnodion o ffynonellau eraill wedi eu gwasgaru'n denau dros yr ardal astudio. Gellir dod o hyd i ganolfannau o ran cofnodion yng Ngwlypdir Casnewydd, Parc Taf Bargoed a Thredegar Newydd, er bod hyn yn fwy tebygol o fod o ganlyniad i ymdrech i arolygu a chofnodion dyblyg posibl na'r dosbarthiad gwirioneddol.




Andy Karran

*Dwysedd llygon y dŵr
(uchafswm y dwyster yn 6
chofnod/km²)*




Cofnodion llygon y dŵr yn ôl dyddiad



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata, ar lefel leol na chenedlaethol, i gynhyrchu tueddiadau poblogaeth.

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 30% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gydag 16% o NNR Casnewydd. Daw dau gofnod o SSSI Cors Magwyr, a daw dau arall o rannau eraill o SSSI Gwastadeddau Gwent. Daw un cofnod o SSSI Cors Nelson. Daw'r cofnod LNR o Bwll Cwmcelyn, a daw'r cofnod SINC o Barc Coetir Bargoed.

Cofnodion llygon y dŵr o safleoedd a warchodir



Llygoden y Dŵr Ewropeaidd *Arvicola amphibius* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁷⁶ MEWN PERYGL (DU), MEWN PERYGL (Cymru)

Data ar gael: Da (3,004 cofnod)

Cyd-destun: Roedd llygod y dŵr yn gyffredin yn y gorffennol ond gwaethygyd y dirywiad yn ansawdd y cynefin yng nghanol yr ugeinfed ganrif gan eu hysglyfaethu gan Finc Americanaidd a gyflwynwyd i'r

wlad, gan arwain at golledion catastroffig. Amcangyfrifodd arolygon llygod y dŵr cenedlaethol gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent bod gostyngiad o 78% ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig rhwng 1989 a 90 a 1996–98,⁷⁷ er bod peth ansicrwydd am yr amcangyfrifon hyn o'r boblogaeth. Mae Cymdeithas y Mamaliaid yn awgrymu gostyngiad arall yn y boblogaeth o 50% rhwng 1998 a 2016.⁷⁷ Mae cwmipas llygod y dŵr hefyd wedi cyfyngu: fe wnaeth deiliadaeth ostwng o 80% rhwng y ddau arolwg llygod y dŵr cenedlaethol,⁷⁷ ac mae gwaith mapio diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a'r Peoples Trust for Endangered Species yn awgrymu bod gostyngiad arall yn y dosbarthiad o 30% rhwng 2006 a 2015,⁷⁷ er bod nifer wedi eu hailgyflwyno ar draws y wlad. Amcangyfrifir bod y boblogaeth yng Nghymru yn <10,000, ac ystyrir y gall y niferoedd ostwng ymhellach oherwydd darnio cynefin.⁷⁶

Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, y rhagolygon ar gyfer llygod y dŵr yw y bydd y boblogaeth yn parhau i ostwng.⁵ Eu hysglyfaethu gan finc yw'r prif fygythiad, ond mae ansawdd y cynefin a diffyg cysylltedd hefyd yn ffactor. Mae'r Prosiect Cronfa Ddata a Mapio Llygod y Dŵr Cenedlaethol⁷⁸ yn nodi bod yr ail gyflwyno yn ymddangos yn llwyddiannus iawn wrth gadw a/neu ail gyflwyno llygod y dŵr i safleoedd – ond mae'r data o'r prosiect hwn yn awgrymu nad yw'r llwyddiannau hyn wedi cael eu hystreyn ar raddfa ddigon mawr i wrodroi'r tueddiadau cenedlaethol o ran dosbarthiad.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ychydig iawn o gofnodion llygod y dŵr a geir cyn 2012, pan ailgyflwynodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent llygod y dŵr i Gors Magwyr. Roedd y cofnodion wedi eu gwasgaru ar draws Gwastadeddau Gwent, ar hyd afon Wysg, Gwy ac Afon Lwyd a'u hisafonydd, gyda grŵp o gofnodion o Gors Nelson yng Nghaerffili. Ar ôl eu hailgyflwyno, mae llygod y dŵr wedi gwasgaru ar draws Gwastadeddau Gwent ac mae cofnodion diweddar yn awr tua 16km o'r safle rhyddhau gwreiddiol.


Fe fu rheoli minc a gwelliannau i'r cynefin ar Afon Mynwy, ac ail gyflwynwyd llygod y dŵr ar un o'i hisafonydd, Afon Dore, ychydig y tu allan i'r ardal astudio, yn 2006.⁷⁸ Fodd bynnag, nid oes cofnodion diweddar o llygod y dŵr yn yr ardal, roedd y cofnod diweddaraf o Swydd Henffordd yn yr ardal astudio yn 1982. Nid yw'n glir pam bod hyn yn wir.

Mae gogwydd dwysedd y cofnodion oherwydd y nifer fawr o gofnodion o Gors Magwyr, felly rhoddir allwedd wedi ei haddasu er mwyn dangos y dwyster cofnodi cymharol o gwmpas Cors Magwyr ac ar draws y Gwastadeddau. Uchafswm dwyster y cofnodion ar Gors Magwyr yw 1,936 y km².




Andy Karran

*Dwysedd cofnodion llygod y dŵr
(uchafswm ar ≥ 25)*



*Cofnodion llygod y
dŵr yn ôl degawd*




Tueddiadau: Er bod ardal deiliadaeth llygod y dŵr yng Ngwent Fwyaf wedi cynyddu - mae cofnodion o 13 monad yn yr 1970au a 40 monad yn y 2010au - mae'n bwysig nodi hefyd bod graddfa'r ddeiliadaeth wedi gostwng, a bod y cwmpas wedi ei gyfyngu i Wastadeddau Gwent, gydag ychydig o gofnodion wasgaredig yn ne Torfaen, Caerffili a Mynyw.

O ran poblogaeth, gallwn gasglu bod cynnydd cyfatebol, yn arbennig ar Wastadeddau Gwent. Lansiwyd y Rhaglen Fonitro Llygod y Dŵr Genedlaethol yn 2015⁷⁹ gyda'r nod o ail ymweld â safleoedd arolwg Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, ond nid oes unrhyw ganlyniadau wedi eu cyhoeddi eto.

Gwarchodaeth: Mae mwyafrif y cofnodion SSSI Gwastadeddau Gwent a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdir Casnewydd, gydag ychydig iawn (3%) o'r cofnodion o fannau eraill.

Cofnodion llygod y dŵr o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Mathews F a Harrower C. 2020. IUCN – compliant Red List for Britain’s terrestrial mammals. Assessment by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage. Natural England: Peterborough. Mathews, Smith a Coomber. 2020. Cyflwr mamaliaid yng Nghymru: Adroddiad gan Gymdeithas y Mamaliaid i Gyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyd â Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru.
2. People’s Trust for Endangered Species. 2020. Living with mammals update 2019. People’s Trust for Endangered Species. Llundain.
3. Cofnodi mamaliaid. British Trust for Ornithology: <https://www.bto.org/our-science/projects/bbs/taking-part/survey-methods/mammal-recording> (agorwyd 01/02/2021).
4. Gwarchodaeth dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn ôl taenlen dynodiadau cadwraeth y JNCC, yn cynnwys data NCC/NE/NRW/SNH/NIEA: <https://hub.jncc.gov.uk/assets/478f7160-967b-4366-acdf-8941fd33850b>
5. Mathews F, Kubasiewicz LM, Gurnell J, Harrower CA, McDonald RA a Shore RF. 2018. A review of the population and conservation status of British mammals. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage. Natural England: Peterborough.
6. Llywodraeth Cymru. 2017. Map Achosion TB. <https://llyw.cymru/tb-gwartheg-map-achosion> (agorwyd 24/12/19).
7. Harris S, Morris P, Wray S a Yalden D. 1995. A review of British mammals: Population estimates and conservation status of British Mammals other than cetaceans. JNCC.
8. Wildlife and Countryside Link a Dolen Amgylchedd Cymru. 2019. Wildlife crime in 2018 – A report on the scale of wildlife crime in England and Wales. Wildlife and Countryside Link a Dolen Amgylchedd Cymru: Llundain a Chaerdydd.
9. Clarke GP, White P, a Harris S. 1998. Effects of roads on badger *Meles meles* populations in south-west England. *Biological Conservation* 86(2): 117–124.
10. <https://www.wildcru.org/research/the-effects-of-weather-conditions-on-badger-population-dynamics/> (agorwyd 26/12/19)
11. Allen AR, Skuce RA a McDowell SWJ. 2011. Bovine TB: A review of badger to cattle transmission. Agri-food and Biosciences Institute: <http://www.dardni.gov.uk>
12. Crispell J, Benton CH, Balaz D, De Maio N, Ahkmetova A, Allen A, Biek R, Presho EL, Dale J, Hewinson G, Lycett SJ, Nunez-Garcia J, Skuce RA, Trewby H, Wilson DJ, Zadoks RN, Delahay RJ, Kao RR. 2019. Combining genomics and epidemiology to analyse bi-directional transmission of *Mycobacterium bovis* in a multi-host system. *Elife*: <https://elifesciences.org/articles/45833>
13. Llywodraeth Cymru. 2019. Adroddiad TB Buchol: Chwarter 2 (Ebrill i Fehefin) 2019: <https://gov.wales/bovine-tb-report-quarter-2-april-june-2019> (agorwyd 26/12/2019).
14. Llywodraeth Cymru. 2017. Rhaglen dileu TB buchol Cymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-11/rhaglen-dileu-tb-gwartheg-cymru.pdf> (agorwyd 26/12/2019).
15. <https://www.bfd.wales/> (agorwyd 26/12/2019).
16. <https://llyw.cymru/grant-brechu-moch-daeor> (agorwyd 26/12/2019).

17. Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. 2018. The Wildlife Trusts' beaver reintroductions:
https://www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/2018-11/181023%20Beaver%20Brochure_WEB.pdf (agorwyd 21/12/19).
18. Davies, S. 2019. Bringing beavers back. Scottish Wildlife Trust:
<https://scottishwildlifetrust.org.uk/2019/05/bringing-beavers-back/> (agorwyd 21/12/19).
19. Campbell-Palmer R, Puttock A, Graham H, Wilson K, Schwab G, Gaywood MJ a Brazier R.E. 2018. Survey of the Tayside area beaver population 2017–2018. Scottish Natural Heritage Commissioned Report No. 1013.
20. Devon Wildlife Trust. 2019. River Otter Beaver Trial (ROBT) – Fourth Annual Report April 2019. Devon Wildlife Trust.
21. <https://www.forestryengland.uk/blog/beaver-trial-cropton-forest> (agorwyd 21/12/19).
22. <https://www.forestryengland.uk/beavers-greathough-brook> (agorwyd 21/12/19).
23. <https://www.dorsetecho.co.uk/news/18046199.beavers-set-return-dorset-hundreds-years/> (agorwyd 21/12/19).
24. <https://www.nationaltrust.org.uk/press-release/national-trust-announces-first-beaver-reintroductions> (agorwyd 21/12/19).
25. Jones ACL, Halley DJ, Gow D, Branscombe J, Aykroyd T. 2012. Welsh beaver assessment initiative report: An investigation into the feasibility of reintroducing European Beaver (*Castor fiber*) to Wales. Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru.
26. Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru. 2018. Data rhanbarthol Cyfoeth Naturiol Cymru: Gogledd Cymru. Dataset digwyddiadau.
<https://doi.org/10.15468/krjpu> agorwyd trwy NBN Atlas ar 2019– 12–21.
27. Thompson P. 2002 (diwygiwyd 2006 a 2010). Conserving the brown hare. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt: Fordingbridge.
28. Ysgol Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Bryste. 2002. Integrating farm management practices with brown hare conservation in pastoral habitats. Defra Science and Research Project BD1436. DEFRA.
29. Aebischer NJ. 2020. GWCTs national gamebag census grey partridge, red grouse, brown hare: Gwent 1970—present. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt: Fordingbridge.
30. Aebischer NJ, Davey PD a Kingdon NG. 2011. National gamebag census: Mammal trends to 2009. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt: Fordingbridge.
31. Browne SJ ac Aebischer NJ. 2003. Arable stewardship: Impact of the pilot scheme on the brown hare and grey partridge after five years. DEFRA Report RMP1870.
32. Wembridge, Al-Fulajj a Langton. 2016. The state of Britain's dormice 2016. Peoples Trust for Endangered Species.
33. Bright, Morris a Mitchell-Jones. 2006. The dormouse conservation handbook. 2^{il} rifyn. English Nature.
34. Jermyn, Messenger a Birks. 2001. The distribution of the hazel dormouse *Muscardinus avellanarius* in Wales. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.
35. Bright. 1996. Status and woodland requirements of the dormouse in England. English Nature and Peoples Trust for Endangered Species.
36. Latham, Sherry a Rothwell. 2013 (diweddarwyd 2016). Ecological connectivity and biodiversity prioritisation in the terrestrial environment of Wales. Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru.
37. White. 2019. Hazel dormice on road verges. Peoples Trust for Endangered Species.

38. Ffurflenni data o safleoedd monitro unigol diolch i'r Rhaglen Fonitro Pathewod Genedlaethol. Peoples Trust for Endangered Species.
39. Cyfanswm y nifer o bathewod aeddfed yn y gwanwyn a'r hydref a gofnodwyd yn rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Peoples Trust for Endangered Species. www.ptes.org (lawrlwythwyd 25/10/2019).
40. Riordan, Lloyd a Macdonald. 2009. Do harvest mouse nest survey results predict population size? Adroddiad i Peoples Trust for Endangered Species.
41. Poulton a Turner. 2009. A comparison of nest searches, bait tubes and live trapping for monitoring Harvest Mice (*Micromys minutus*) and other small mammals. The Mammal Society Research Report No.9. Y Gymdeithas Famaliaid. <https://www.mammal.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Research-Report-9-Methods-for-Harvest-Mice.pdf>
42. Pacheo. 2013. Harvest mouse survey – Call for volunteers. Mammal News Hydref 2013. Cymdeithas y Mamaliaid.
43. Tapping R. 2013. Harvest mice in Wales – Where they might be? Adroddiad gwyddonol CCGC Rhif 1036. Cofnod: Bangor.
44. Mathews, Smith a Coomber. 2020. Cyflwr mamaliaid yng Nghymru. Adroddiad gan y Gymdeithas Famaliaid i Gyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyd â Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru.
45. Kettel, Perrow a Reader. 2016. Live trapping in the stalk zone of tall grasses as an effective of monitoring harvest mice (*Micromys minutus*). *European Journal of Wildlife Research* 62, 241–245
46. Williams D. 2015. Surrey harvest mouse project – Report for Peoples Trust for Endangered Species. Surrey Wildlife Trust.
47. <https://www.welshwildlife.org/eastglamnews/harvest-mice-on-parc-slip/> (agorwyd 05/04/2020).
48. <https://www.vwt.org.uk/projects-all/mise/> (agorwyd 05/04/2020).
49. Wilson E a Wembridge D. 2018. The state of Britain's hedgehogs 2018. Cymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain a Peoples Trust for Endangered Species.
50. Williams BM, Baker PJ, Thomas E. et al. 2018. Reduced occupancy of hedgehogs (*Erinaceus europaeus*) in rural England and Wales: The influence of habitat and an asymmetric intra-guild predator. *Sci Rep* 8: 12156.
51. Hubert P, Julliard R, Biagianti S a Poulle M-L. 2011. Ecological factors driving the higher hedgehog (*Erinaceus europaeus*) density in an urban area compared to the adjacent rural area. *Landscape and Urban Planning* 103: 34–43.
52. Wembridge D a Langton S. 2015. The state of Britain's hedgehogs 2015. Cymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain a Peoples Trust for Endangered Species.
53. Marnham E. (Peoples Trust for Endangered Species) Cyfathrebiad personol, Ionawr 2020.
54. Roos S, Johnston A, a Noble D. 2012. UK hedgehog datasets and their potential for long term monitoring. Adroddiad ymchwil BTO rhif. 598. British Trust for Ornithology i'r Peoples Trust for Endangered Species a Chymdeithas Gadwraeth Draenogod Prydain.
55. Wright PGR, Coomber FG, Bellamy CC, Perkins SE, Mathews F. 2020. Predicting hedgehog mortality risks on British roads using habitat suitability modelling. *PeerJ* 7: e8154.
56. Hof AR a Bright PW. 2009. The value of green spaces in built-up areas for western hedgehogs. *Lutra* 52(2): 69–82.
57. <https://ptes.org/grants/internship-projects/hedgehogs-and-climate/> (agorwyd 08/4/2020).
58. Strachan R. 2015. Arolwg dyfrgwn Cymru 2009–2010. Cyfoeth Naturiol Cymru.

59. Disgrifiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig JNCC – Rhywogaethau.
<https://sac.jncc.gov.uk/species/S1355/> (agorwyd 19/12/19).
60. Chanin P. 2003. Ecology of the European otter. Conserving Natura 2000 Rivers Ecology Series No.10. English Nature: Peterborough.
61. Conservation status assessment for the species: S1355 - Otter (*Lutra lutra*). Cyfarwydddeb y Gymuned Ewropeaidd ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (92/43/EEC). Pedwerydd adroddiad gan y Deyrnas Unedig dan Erthygl 17 (Ionawr 2013–Rhagfyr 2018).
62. Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd. <https://www.cardiff.ac.uk/cy/otter-project/about-us> (agorwyd 19/12/19).
63. Wilkinson C a Chadwick EA. 2012. Otter casualties in South Wales: Recommendations for mitigation. Prifysgol Caerdydd.
https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/141388/wilkinson-chadick2012-swrta.pdf.
64. Wilkinson C a Chadwick, EA (2012) Otter Casualties in Mid Wales: Recommendations for Mitigation. Prifysgol Caerdydd.
https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0013/141412/wilkinson-chadwick2012-mwrta.pdf.
65. Harris S, Morris P, Wray S a Yalden D. 1995. A review of British mammals: Population estimates and conservation status of British mammals other than cetaceans. JNCC.
66. MacPherson. 2014. Feasibility assessment for reinforcing pine marten numbers in England and Wales. Prosiect Adfer Bele Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.
67. <https://www.vwt.org.uk/projects-all/pine-marten-recovery-project/> (agorwyd 30/12/2019).
68. Cylchlythyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent Rhagfyr 2019. <https://pine-marten-recovery-project.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/VWTNewsDec2019FinalCompressed.pdf> (agorwyd 30/12/2019).
69. Croose E, Birks JDS, Schofield HW ac O'Reilly C. 2014. Distribution of the pine marten (*Martes martes*) in southern Scotland in 2013. Adroddiad a Gomisiynwyd gan Dreftadaeth Naturiol yr Alban Rhif 740.
70. JNCC. 2018. Conservation status assessment for the species: S1357 pine marten (*Martes martes*). Pedwerydd adroddiad y Deyrnas Unedig ar y Gyfarwydddeb Gynefinoedd (Ionawr 2013–Rhagfyr 2018). <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1357-UK-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf> (agorwyd 30/12/2019).
71. Croose E. 2016. The distribution and status of the polecat (*Mustela putorius*) in Britain 2014–2015. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.
72. Croose E, Duckworth JW, Ruetten S, Skumatov DV, Kolesnikov VV a Saveljev AP. 2018. A review of the status of the western polecat *Mustela putorius*: A neglected and declining species? *Mammalia* 82(6): 550–564.
73. Sainsbury KA, Shore RF, Schofield H, Croose E, Pereira MG, Sleep D, Kitchener AC, Hanke G a McDonald RA. 2018. Long-term increase in secondary exposure to anticoagulant rodenticides in European polecats *Mustela putorius* in Great Britain. *Environmental Pollution* 235: 689–698.
74. Carter P a Churchfield S. 2006. Distribution and habitat occurrence of water shrews in Great Britain. Environment Agency Science Report SC010073/SR. Environment Agency: Bristol.
75. Carter P. 2006. Shrew News Gwanwyn 2006. Y Gymdeithas Mamaliaid: Llundain.
76. Mathews F, Harrower C a Mammal Society. 2020. IUCN-compliant Red List assessment for Britain's terrestrial mammals. Natural England: Peterborough.

- ⁷⁷. McGuire C a Whitfield D. 2017. National water vole database and mapping project part 1: Project report 2006–2015. Cyfoeth Naturiol Cymru, Peoples Trust for Endangered Species a’r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.
- ⁷⁸. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt.
<https://www.gwct.org.uk/research/species/mammals/water-vole/reintroducing-water-voles-to-the-river-dore/> (agorwyd 1/1/2020).
- ⁷⁹. Peoples Trust for Endangered Species (PTES). <https://ptes.org/get-involved/surveys/countryside-2/national-water-vole-monitoring-programme/about-our-water-vole-survey/>
- ⁸⁰. Sainsbury KA, Shore RF, Schofield H, Crosse E, Campbell RD, a McDonald RA (2019) Recent history, current status, conservation and management of native mammalian carnivore species in Great Britain. *Mammal Review* 49: 171–188.

Ystlumod

Mae 18 rhywogaeth o ystlum yn y Deyrnas Unedig, 15 ohonynt i'w gweld yng Ngwent Fwyaf. Mae'r holl rywogaethau yn cael eu diogelu yn gyfreithiol trwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) (fel y'i diwygiwyd) (Atodlen 2) a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) (fel y'i diwygiwyd) (Atodlen 5). Mae llawer o rywogaethau o ystlumod wedi dioddef dirywiad dramatig yn y ganrif ddiwethaf, ond mae'r warchodaeth gyfreithiol gref, gwaith cadwraeth a mwy o



Andy Karran

ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd yn golygu bod rhai yn adfer. Fodd bynnag, mae ystlumod yn dal dan fygythiad oherwydd problemau fel colli cynefin, safleoedd clwydo a meysydd hela a'r darnio sy'n effeithio ar lwybrau i feysydd hela. Mae'n hysbys hefyd eu bod yn agored i wrthdrawiadau â melinau gwynt â barotrawma.¹ Mae goleuadau artiffisial hefyd yn cael effaith negyddol ar ystlumod, gan achosi oedi cyn dod allan (gan arwain at lai o gyfle i hela), gadael clwydi, llai o lwyddiant wrth fagu, newidiadau i lwybrau cymudo, llai o hela, ac amharu arnynt pan fyddant yn gaeafgysgu.²

Mae Grŵp Ystlumod Sir Fynwy (Casnewydd a Sir Fynwy) a Grŵp Ystlumod y Cymoedd (Blaenau Gwent, Torfaen a Chaerffili) yn weithredol yng Ngwent Fwyaf.

Rhagolygon: Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau o ystlumod yng Ngwent Fwyaf yn sefydlog neu'n cynyddu ar lefel y Deyrnas Unedig, gyda darlun mwy cymysg yng Nghymru. Mae diffyg data am rywogaethau mwy prin fel yr Ystlum Adain-lydan a'r Ystlum Du Gorllewinol. Mae'r dirywiad parhaus ym maint ac ansawdd y cynefinoedd fel gwrychoedd a choetir yn debygol o effeithio ar ffynonellau bwyd ystlumod. Er bod ymwybyddiaeth gynyddol o effaith goleuadau ar ystlumod, mae llygredd golau wedi cynyddu'n ddramatig³ ac mae'n debygol o barhau i gynyddu gyda datblygiadau newydd. Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar niferoedd ac argaeledd pryfed a gall arwain at newidiadau yng nghwmpas ystlumod wrth ymateb i hynny. Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn newid maint a dosbarthiad cynefinoedd dŵr croyw fel pyllau a gwlypdir, a fydd yn effeithio ar faint o ysglyfaeth fydd ar gael i rywogaethau fel Ystlum y Dŵr.

Statws presennol a thueddiadau ystlumod yng Ngwent Fwyaf: Mae tua 20,000 o gofnodion ystlumod i'r ardal astudio, ond mae hyn yn amrywio'n fawr rhwng rhywogaethau. Rhoddir y statws yn ôl meini prawf Rhestr Goch IUCN, fel y cyfrifwyd gan Matthews et al.;¹ mae'r tueddiadau o 1999 hyd 2018, fel y'i cyfrifwyd gan ganlyniadau'r Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol ddiweddaraf.³ DD (Data Diffygiol), LC (Lleiaf o Bryder), NT (Dan Beth Bygythiad), VU (Bregus) ac EN (Perygl o Ddifodiant). Sylwer mai ychydig o ddata hanesyddol sydd ar gael am boblogaethau o ystlumod³, felly, er bod y tueddiadau yma'n ymddangos yn gadarnhaol ar y cyfan, nid yw graddfa'r colledion yn y boblogaeth cyn dechrau cofnodi'n gyson yn wybyddus. Gwelodd y boblogaeth o ystlumod ostyngiad sylweddol, felly mae'n debyg, lle mae rhywogaethau'n adfer, ei fod o waelodlin isel iawn.

Rhywogaeth	Statws y DU ¹	Statws Cymru ¹	Tuedd y DG ⁴	Tuedd Cymru ³	Nifer y cofnodion *
Ystlum Pedol Mwyaf (<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>)	LC	NT	Cynnydd Sylweddol	Cynyddu hyd 2011, amrywio yn fwy diweddar	257
Ystlum Pedol Lleiaf (<i>R. hipposideros</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol	Cynnydd sylweddol	2,321
Ystlum y Dŵr (<i>Myotis daubentonii</i>)	LC	LC	Sefydlog	Cynyddu	351
Ystlum Barfog/Brandt (<i>M. mystacinus</i> / <i>M. brandtii</i>)	DD	DD	Sefydlog	Amrywiol, cael ei ystyried yn sefydlog	394
Ystlum Natterer (<i>M. nattereri</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol **	Cynnydd sylweddol yn gyffredinol, gyda dirywiad diweddar ers 2015	288
Ystlum Lleiaf Cyffredin (<i>Pipistrellus pipistrellus</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol	DD	3,161 ⁺
Ystlum Lleiaf Soprano (<i>P. Pygmaeus</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol **	Dirywiad sylweddol ond y canlyniadau'n annibynadwy**	1,316 ⁺
Ystlum Lleiaf Nathusius (<i>P. nathusii</i>)	NT	VU	DD	DD	20
Ystlum Adain-lydan (<i>Eptesicus erotinus</i>)	VU	VU	Sefydlog	DD	150
Ystlum Mawr (<i>Nyctalus noctula</i>)	LC	LC	Sefydlog	DD	919
Ystlum Leisler (<i>N. leisleri</i>)	NT	NT	DD	DD	20

Ystlum Hirglust (<i>Plecotus auritus</i>)	LC	LC	Sefydlog	Cynyddu hyd 2015, yn awr credir ei fod yn sefydlog	675
Ystlum Bechstein (<i>M. bechsteinii</i>)	LC	EN	DD	DD	13
Ystlum Du Gorllewinol (<i>Barbastella barbastellus</i>)	VU	VU	DD	DD	21

*nifer o gofnodion yng Ngwent Fwyaf


**dylid trin gyda gofal nes bydd rhagor o ymchwil a monitro wedi digwydd

+ sylwer bod 230 o gofnodion ychwanegol cyn i'r rhywogaethau ystlum lleiaf gael eu gwahanu



Y Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol (NBMP): Caiff poblogaeth yr ystlumod ar draws y Deyrnas Unedig ei monitro trwy'r NBMP, a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. Yn ardal yr astudiaeth, mae 49 safle cyftri clwydi ac 11 o safleoedd gaeafgyssu wedi eu cofrestru gyda'r NBMP. Fodd bynnag, mae'r nifer o flynyddoedd y dychwelwyd cofnodion ar eu cyfer yn amrywio o 1 i 30. Y rhywogaethau a gafodd eu cyfrif oedd Ystlum Lleiaf/Soprano (15 clwyd), Ystlum Hirglust (1 glwyd), Ystlum Brandt/Barfog (2 lleoliad gaeafgyssu), Ystlum Natterer (1 lleoliad gaeafgyssu), Ystlum Pedol Mwyaf (2 glwyd, 4 lleoliad gaeafgyssu) a'r Ystlum Pedol Lleiaf (31 clwyd, 11 lleoliad gaeafgyssu). Sylwer bod rhai safleoedd sy'n cael eu monitro yn cynnal nifer o rywogaethau.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ceir ystlumod ar draws Gwent Fwyaf, gyda chrynhoad mawr o gofnodion ar hyd Dyffryn Gwy a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, yn ogystal â Chwm Clydach ac ardal ffin Caerffili/Casnewydd. Mae amrywiaeth mawr o rywogaethau o ystlumod yn yr ardaloedd hyn hefyd. Sylwer bod uchafswm y dwyster cofnodion wedi ei osod ar ≥ 100 , gan y byddai'r lefel uchel o gofnodi yng Nghwm Clydach oherwydd y gwaith ffordd (uchafswm o 858 cofnod i bob tetrad) yn cael gwared ar unrhyw amrywiad arall. Rhoddir y map mewn tetradau, i ddiogelu lleoliadau clwydi penodol.

Dwysedd y cofnodion
(pob rhywogaeth o
ystlumod) yn ôl tetrad
(uchafswm wedi ei
osod ar ≥ 100
cofnod/tetrad)




Nifer y
rhywogaethau a
gofnodwyd/km²



Gwarchodaeth: Daw ychydig llai na 28% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o AGA ystlumod dynodedig yn Sir Fynwy a Blaenau Gwent, ac AGA Coetir Dyffryn Gwy.

Yr holl gofnodion ystlumod o safleoedd a warchodir



Ystlum Bechstein *Myotis bechsteinii* (Kuhl, 1817)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Mewn Perygl (Cymru), Lleiaf o Bryder (DG),⁵ Rhywogaethau Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (13 cofnod)

Cyd-destun: Mae Ystlum Bechstein yn rhywogaeth brin, ac ychydig sy'n hysbys amdanynt. Mae eu hadlaisleoli tawel yn eu gwneud yn anodd eu canfod. Cyfyngir eu cwmpas i dde Lloegr a gororau Cymru. Mae'n well ganddynt gynefin coetir llydanddail, yn neilltuoel coetir hynafol.⁶ Cyn 2005 credid mai dim ond chwe phoblogaeth oedd yn magu⁷, ond yn awr amcangyfrifir bod y boblogaeth Brydeinig rhwng 10,300 a 55,600,⁵ a phoblogaeth Cymru yn 120 i 630⁸ (gyda llawer iawn o ansicrwydd).

Rhagolygon: Mae'r wybodaeth am y rhywogaeth a'r cofnodi'n gwella, yn neilltuoel trwy ddefnyddio abwyd acwstig.⁶ O ystyried sensitifrwydd y rhywogaeth i ansawdd y coetir, yn neilltuoel y gorchudd dan y coed, gall dirywiad yng nghyflwr coetiroedd gael effaith negyddol ar Ystlumod Bechstein. Gall newid hinsawdd effeithio ar yr ysglyfaeth sydd ar gael, ond mae'n anodd rhagweld yr effeithiau.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond yn nwyrain Gwent Fwyaf y mae Ystlum Bechstein i'w weld, sy'n cyfateb i gyrion y cwmpas Prydeinig. Ychydig o gofnodion sydd ar gael, gan fod ystlumod Bechstein fel arfer yn cael eu cofnodi trwy drapio arbenigol dan drwydded. Mae'n debyg bod hyn yn tannddarlunio dosbarthiad Ystlum Bechstein, o ystyried yr anawsterau wrth eu cofnodi a'r ffaith bod cynefin posibl ar gael yn Nyffryn Gwy. Mae Grŵp Ystlumod Sir Fynwy yn cofnodi dal hyd at 25 o ystlumod gwryw mewn safleoedd heidio, sy'n dynodi bod poblogaeth sylweddol.⁹ Nid yw'n hysbys pam nad yw'r cofnodion hyn gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Cymru (SEWBRc).

Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r cofnodion yn cynnwys cytref sefydledig (a gofnodwyd ddwywaith mewn blyneddau gwahanol yn yr un lleoliad) ac un fenyw feichiog, yr unig gytref magu y gwyddys amdano yng Nghymru. Mae'r holl gofnodion o 2011 ymlaen, gan adlewyrchu dulliau cofnodi gwell a diddordeb diweddar yn y rhywogaeth.




Steve Wadley

*Dosbarthiad cofnodion ystlum
Bechstein ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm 3
chofnod/km²)*




*Cofnodion ystlum Bechstein
yn ôl degawd*



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata ar gael i bennu tuedd lleol na chenedlaethol ar gyfer Ystlumod Bechstein.⁵ Mae data genynnol yn awgrymu bod dirywiad wedi bod yn ddiweddar ym Mhrydain Fawr, ond mae lefelau'r mewnfridio yn llai nag yr ofnid yn y gorffennol.

Gwarchodaeth: Daw 27% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Coetir Dyffryn Gwy a SINC Colonels Wood. Mae'n debygol bod y defnydd o goetiroedd a warchodir gan Ystlumod Bechstein yn uwch nag a ddynodir, oherwydd eu bod yn ffafrio coetir o safon uchel.

Cofnodion Ystlumod Bechstein o safleoedd a warchodir



Ystlum Pedol Mwyaf *Rhinolophus ferrumequinum* (Schreber, 1774)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Lleiaf o Bryder (DG), Agos at Fod dan fygythiad (Cymru)⁵

Data ar gael: Gwael (7 cofnod)




Steve Wadley

Cyd-destun: Ystlumod Pedol Mwyaf yw un o'r rhywogaethau mwyaf o ystlumod ym Mhrydain, gan borthi dros gyrion coetiroedd, gwrychoedd, porfeydd a pharcdir. Fel arfer mae'r clwydi magu mewn adeiladau, ac ogofau neu dwneli yw'r safleoedd gaeafu fel arfer.⁵ Amcangyfrifir bod y nifer o Ystlumod Pedol Mwyaf wedi dirywio o dros 90% yn y 100 mlynedd diwethaf, oherwydd ffactorau fel ymyrryd â'r clwydi a newidiadau mewn arferion amaethyddol.¹⁰ Yn fwy diweddar, mae poblogaeth a chwmpas yr Ystlumod Pedol Mwyaf wedi bod yn cynyddu, ers yr 1990au.^{5,11} Credir bod hyn oherwydd y cryfhau ar y warchodaeth gyfreithiol a gaeafau mwy mwyn efallai.⁵ Amcangyfrifir bod poblogaeth y Deyrnas Unedig yn 12,951 o unigolion,¹² gyda 2,751 yng Nghymru.¹³


Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gynyddu o ran maint a chwmpas,⁵ ac mae statws cadwraeth ffafriol y rhywogaeth yn debygol o barhau.^{12,13} Yng Ngwent Fwyaf, mae'n ymddangos bod y duedd gyffredinol yn gadarnhaol, er y gall datblygiadau newydd effeithio ar y clwydi.¹⁴ Mae gaeafau mwynach oherwydd newid hinsawdd yn debygol o ffafrio'r Ystlumod Pedol Mwyaf, er nad yw effaith newid hinsawdd ar y rhywogaethau y maent yn eu hysglyfaethu mor glir. Mae'r bygythiadau sy'n parhau yn cynnwys amharu ar glwydi a newidiadau mewn amaethyddiaeth, fel y defnydd o blaleiddiaid.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae tair clwyd fagu y gwyddys amdanynt i Ystlumod Pedol Mwyaf yng Ngwent Fwyaf: Trefynwy, Caerffili a Wyndcliffe (a ddarganfuwyd yn 2017). Mae dwy ardal aeafu bwysig hefyd, yng Nghwm Clydach ac ar gyrion Fforest y Ddena. Mae mwy o gofnodion ar gyfer ardal Fforest y Ddena, ond gall hyn fod oherwydd gwahaniaeth yn yr ymdrech gofnodi, gan fod safleoedd gaeafgysgu yn aml yn anodd mynd atynt. Mae clwyd lai hefyd yn yr ardal glustogi yn Swydd Henffordd. Mae'r rhain yn creu pedair ardal benodol o bwysigrwydd i ystlumod pedol mwyaf, gydag ychydig iawn o gofnodion o'r tu allan i'r ardaloedd yma.

*Dosbarthiad cofnodion
Ystlumod Pedol Mwyaf
ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm o 109 cofnod
i bob tetrad)*




*Cofnodion Ystlumod Pedol
Mwyaf yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Mae dwy o'r clwydi yn cael eu monitro trwy'r Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol (NBMP). Mae'r data ar gyfer Caerffili yn dangos tuedd ar i fyny, tra nad oes tuedd glir yn y data ar gyfer clwyd Trefynwy ac mae data ar goll am rai blynyddoedd. Mae'r ddwy glwyd, fodd bynnag, wedi aros uwch ben eu statws cadwraeth ffafriol o 80 oedolyn^{15,16} am y ddegawd ddiwethaf.

Cyfrif NBMP uchaf ar gyfer Ystlumod Pedol Mwyaf yng nghlwydi magu Trefynwy a Chaerffili.



Gwarchodaeth: Daw hanner (50%) cofnodion Ystlumod Pedol Mwyaf Gwent Fwyaf o safleoedd a warchodir, gyda bron i draean o'r cofnodion o SAC Ystlumod Dyffryn Gwy a SAC Coetir Dyffryn Gwy. Mae clwyd famolaeth Trefynwy yn rhan o SAC Ystlumod Dyffryn Gwy, ac mae clwyd fagu Caerffili yn SSSI. Mae rhannau o'r ardaloedd gaeafgysgu yn cael eu diogelu fel SAC, NNR a SSSI. Fodd bynnag, mae llawer o gofnodion o'r tu allan i ardaloedd a warchodir. Gellir esbonio hyn oherwydd bod SAC Ystlumod Dyffryn Gwy yn fychan, wedi ei gyfyngu i strwythur y glwyd, felly nid yw llawer o gofnodion yn gysylltiedig â'r glwyd yn disgyn o'i mewn, yn arbennig felly cofnodion llai cywir. Hefyd, gall ystlumod pedol mwyaf chwilio am fwyd bellter o'u clwyd; mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn argymhell parth cynhaliaeth craidd o 3km o radiws.¹⁷

Cofnodion Ystlumod Pedol Mwyaf o safleoedd a warchodir



Ystlum Pedol Lleiaf *Rhinolophus hipposideros* (Bechstein, 1800)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Lleiaf o Bryder (DU a Chymru),⁵ Rhywogaethau Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Da (3,168 cofnod)

Cyd-destun: Ystlumod Pedol Lleiaf yw un o'n rhywogaethau ystlum lleiaf, gyda chwmpas cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig, wedi ei gyfyngu i Gymru, gorllewin Lloegr a gorllewin Iwerddon.¹⁸ Gwelwyd dirywiad difrifol a diflannodd yn gyfan gwbl mewn rhai ardaloedd ar draws gogledd a gorllewin Ewrop ers yr 1950au.³ Nid yw'r rhesymau am y dirywiad yn cael eu deall yn llawn, ond maent wedi cael eu cysylltu â dwysau amaethyddol, colli ardaloedd chwilio am fwyd a cholli clwydi a mannau gaeafgysgu.¹⁸



Steve Wadley


Mae astudiaethau diweddar yn dynodi bod y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig yn adfer,⁵ ac mae'r adroddiadau Erthygl 17 diweddaraf¹⁹ yn rhoi Statws Ffafirol o ran poblogaeth yr Ystlum Pedol Lleiaf a'i gwmpas, gydag amcangyfrif poblogaeth o 50,400 (sy'n sylweddol uwch na'r amcangyfrifon blaenorol). Mae Ystlumod Pedol Lleiaf wedi bod yn ganolbwynt i waith cadwraeth wedi ei dargedu, yn neilltuoel gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Vincent, sydd yn berchen ar nifer o glwydi ac yn eu rheoli. Cynhaliwyd y prosiect 'Our Beacons for Bats' o 2010 i 2014 a digwyddodd ar derfyn yr ardal astudio a thu hwnt; roedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, mapio ble'r oedd yr ystlumod yn chwilio am fwyd a chymudo, a gwella'r cynefin.

Rhagolygon: Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y boblogaeth a'r cwmpas yng Nghymru yn parhau i gynyddu.⁵ Mae'r Ystlum Pedol Lleiaf wedi cael budd o warchodaeth gyfreithiol gref, dynodi clwydi mannau gaeafgysgu a thiroedd chwilio am fwyd fel safleoedd a warchodir, ac ymdrechion cadwraeth wedi eu targedu. Mae'r bygythiadau at y dyfodol yn cynnwys newid mewn defnydd tir, ffyrdd, goleuadau artiffisial ac aflonyddu.⁵ Mae'n debyg y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar faint o ysglyfaeth fydd ar gael a gaeafgysgu, ond mae'n anodd rhagweld yr effeithiau.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir Ystlumod Pedol Lleiaf ar draws gogledd a dwyrain Gwent Fwyaf, gyda chanolfannau o ran cofnodi yng Nghwm Clydach, SAC Safle Ystlumod Wysg, SAC Coetir Dyffryn Gwy a SAC Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena.

Mae Gwent Fwyaf yn cynnwys dwy SAC sydd wedi eu dynodi oherwydd eu poblogaeth o Ystlumod Pedol Lleiaf: SAC Safleoedd Ystlumod Wysg, sy'n gartref i 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig; a SAC Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena, sy'n gartref i'r crynhoad mwyaf yn y Deyrnas Unedig (tua 26% o boblogaeth y Deyrnas Unedig). Mae'n bwysig nodi bod y ddau safle a warchodir yma yn ymestyn ymhell tu hwnt i Went Fwyaf.


*Dosbarthiad cofnodion
Ystlumod Pedol Lleiaf ar
draws Gwent Fwyaf (yn
ôl tetrad) (uchafswm $\geq$
100/tetrad)*



*Cofnodion Ystlumod Pedol
Leiaf yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Mae 31 o glwydi ac 11 o fannau gaeafgysgu yn yr ardal astudio wedi cael eu monitro fel rhan o'r NBMP, ond dim ond ychydig o flynyddoedd o ddata sydd gan lawer ohonynt. Mae'r mynegai canlynol yn dangos y cyfrif uchaf o 14 safle clwydo gyda 15 neu fwy o adroddiadau, pan oedd ffurflen yn 1999, y flwyddyn sail a ddefnyddir gan yr NBMP. Sylwer nad yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, gan ei fod yn seiliedig ar nifer gyfyngedig o safleoedd, ond mae'n dilyn patrwm tebyg o gynnydd cyffredinol i'r tueddiadau cenedlaethol a gynhyrchwyd gan yr NBMP.¹¹



Mae gan dair o'r clwydi magu yn AGA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena gofnodion NBMP; mae'r cofnodion diweddaraf ar gyfer y tair yn uwch na'r terfyn isaf ar gyfer amodau ffafriol. Mae monitro'n fwy cymhleth yn SAC Safleoedd Ystlum Brynbuga oherwydd bod yn rhaid i fynediad i ogofâu, ac anghenion monitro gael eu gwrthbwysu â'r risg o amharu arnynt.

Gwarchodaeth: Daw 46% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o AGA Safleoedd Ystlumod. Mae'n bwysig cydnabod y nifer fawr o gofnodion o'r tu allan i safleoedd a warchodir, sy'n dangos defnydd o gefn gwlad yn ehangach ar gyfer cymudo a chwilio am fwyd, gan mai dim ond diogelu strwythur y glwyd neu'r lleoliad gaeafgysgu y mae'r AGA.

Cofnodion Ystlumod Pedol Lleiaf o safleoedd a warchodir



Ystlum Du Gorllewinol (*Barbastella barbastellus*) (Schreber, 1774)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Bregus (Du a Chymru),⁵ Rhywogaethau UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (32 cofnod)



Hugh Clark/www.bats.org.uk


Cyd-destun: Mae'r Ystlum Du Gorllewinol yn rhywogaeth brin, ac ychydig sy'n hysbys am ei ecoleg a'i ddosbarthiad. Mae ei gwmpas wedi ei wasgaru'n denau dros dde Lloegr a Chymru, a chredir bod yn well ganddo dirwedd goediog gyda dŵr.²⁰ Amcangyfrif bod poblogaeth Cymru ar ddim ond 500 unigolyn,²¹ ond mae hyn yn seiliedig ar ychydig iawn o ddata.

Rhagolygon: Nid oes digon o ddata am y rhywogaeth i bennu tuedd yn y boblogaeth.⁵ Fodd bynnag, os yw'r boblogaeth yn isel a thenau, mae hyn yn gwneud y rhywogaeth yn neilltuol o fregus. Mae'n debyg bod newidiadau yn nefnydd tir yn cael effaith negyddol ar Ystlumod Du Gorllewinol.²¹


Cwmpas Gwent Fwyaf: Ceir cofnodion gwasgaredig ar gyfer ystlumod du ar hyd Dyffryn Gwy, gydag ychydig o gofnodion yng nghanol Sir Fynwy. Mae tri chofnod o Ystlum Du Gorllewinol yn SAC Safleoedd Ystlumod Brynbuga (heb eu mapio gan nad ydynt yn digwydd mewn sgwâr grid cyflawn) yn dyddio o'r 1970au, ond mae'r cofnodion eraill i gyd o 2010 ymlaen. O ystyried yr ymdrech gofnodi fawr yn ac o gwmpas SAC Ystlumod Brynbuga dros gyfnod maith, mae'n debyg bod y boblogaeth yno wedi marw allan, neu bod y cofnodion gwreiddiol yn wallus.

Mae'n ymddangos bod yr Ystlumod Du Gorllewinol yn llai tebygol o gael eu cofnodi ar hap na rhywogaethau eraill o ystlumod. Daw hanner y cofnodion SEWBRcC ar gyfer yr Ystlum Du Gorllewinol o drapiau (dan drwydded), weithiau gydag olrhain radio. Yn yr un modd â llawer o rywogaethau, mae ymdrechion yn debygol o greu gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth leol ond mae trapio ac olrhain yn ddrud ac yn gofyn am gryn arbenigedd, yn ogystal â chymeradwyaeth trwyddedu.

*Dosbarthiad cofnodion
Ystlum Du Gorllewinol ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 5 cofnod/km²)*




*Cofnodion Ystlum Du
Gorllewinol yn ôl degawd*



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu unrhyw dueddiadau poblogaeth ar gyfer Ystlumod Du Gorllewinol.

Gwarchodaeth: Dim ond 14% o'r cofnodion sy'n dod o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Coetir Dyffryn Gwy a SINC Colonels Wood. Fodd bynnag, d mae nifer fawr o gofnodion o AONB Dyffryn Gwy. Gall Ystlumod Du Gorllewinol deithio pellter mawr o'u clwydi (sydd yn aml yn newid lleoliad dros amser), a'r argymhelliad ar hyn o bryd yw rheoli tirwedd yn gadarnhaol o fewn 7km o safle clwyd,²² felly mae'n debygol bod llawer o'r coetir a warchodir yn Nyffryn Gwy yn cael eu defnyddio ar gyfer clwydo neu chwilio am fwyd.

Cofnodion Ystlumod Du Gorllewinol o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Mathews F, Richardson S, Lintott P a Hosken D. 2016. Understanding the Risk to European Protected Species, (bats) at Onshore Wind Turbine Sites to inform Risk Management. Prifysgol Caerwysg, ariannwyd gan DEFRA
2. Stone EL. 2013. Bats and Lighting: Overview of current evidence and mitigation.
3. Harris S, Morris P, Wray S a Yalden D. 1995. A Review of British Mammals: Population Estimates and Conservation Status of British Mammals other than Cetaceans. JNCC, Peterborough
4. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2020. Adroddiad y Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol 2019. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: <http://www.bats.org.uk/our-work/national-bat-monitoringprogramme/reports/nbmp-annual-report>.
5. Mathews F, Kubasiewicz LM, Gurnell J, Harrower CA, McDonald RA a Shore RF. 2018. A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage. Natural England, Peterborough.
6. Miller H. 2011. Bechstein's Bat Survey Final Report September 2007–September 2011. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.
7. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Bechstein's Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain
8. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Supporting documentation for the conservation assessment for the species: S1323 Bechstein's bat (*Myotis bechsteinii*), Wales: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1323-WA-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
9. Grŵp Ystlumod Sir Fynwy. 2021. Cyfathrebiad Personol.
10. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Greater Horseshoe Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
11. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2020. The National Bat Monitoring Programme 2019. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
12. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Conservation status assessment for the species: S1304 Greater horseshoe bat (*Rhinolophus ferrumequinum*): <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1304-UK-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
13. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Supporting documentation for the conservation assessment for the species: S1304 Greater horseshoe bat (*Rhinolophus ferrumequinum*), Wales: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1304-WA-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
14. Jones A a Stinchcombe K. 2021. Cyfathrebiad Personol.
15. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Cynllun Rheoli Craidd Safle Cadwraeth Arbennig Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
16. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2011. Castell Ruperra a Safle Coetir o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: Eich Safle Arbennig a'i Dyfodol. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
17. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2020. Core Sustenance Zones and habitats of importance for designing Biodiversity Net Gain for bats. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
18. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Lesser Horseshoe Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
19. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Conservation Status Assessment for the species: S1303 Lesser Horseshoe Bat (*Rhinolophus hipposideros*): <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1303-UK-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
20. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Barbastelle Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.

- ²¹. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Supporting documentation for the conservation status assessment for the species: S1308 Barbastelle (*Barbastella barbastellus*), Wales: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1308-WA-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
- ²². Zeale M, Davidson- Watts I a Jones G. 2012. Home Range Use and Habitat Selection by Barbastelle Bats.

Adar

Mae adar yn un o'r grwpiau tacsonomig a gofnodwyd fwyaf yn y Deyrnas Unedig, gyda degawdau o ddata ansawdd uchel yn golygu ein bod yn fwy pendant am dueddiadau mewn poblogaethau a dosbarthiad adar na grwpiau o rywogaethau eraill. Cofnodwyd dros 600 rhywogaeth o adar ym Mhrydain.¹ Mae tua 130 o rywogaethau yng Ngwent sy'n bridio neu debygol o fod yn bridio.² Mae'r cyfoeth data hwn, eu sensitifrwydd i newid a'u safle o fewn cadwyni bwyd yn golygu y caiff adar yn aml eu defnyddio fel dangosyddion ar gyfer iechyd cyffredinol ecosystemau. Er enghraifft, mae Adar Cefn Gwlad Ehangach ac ar y Môr yn un o Ddangosyddion Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig.³


Er hoffter maith y cyhoedd o adar, maent yn dal i fod dan bwysau yn cynnwys colli cynefin, newidiadau mewn rheolaeth tir, clefyd a newid hinsawdd. Mae adroddiad State of the UK's Birds 2020 yn amcangyfrif fod 19 miliwn yn llai o barau bridio o adar brodorol yn 2017 nag yn 1966.⁴ Mae'r dangosydd bioamrywiaeth cyffredinol ar gyfer adar yn gostwng,³ ac mae'r Rhestr Goch o Adar o Gonsyrn Cadwraeth yn tyfu, gyda 20 rhywogaeth ychwanegol ar adolygiad diweddaraf y Rhestr Goch.⁵

Caiff adar eu cofnodi a'u hastudio'n dda yng Ngwent Fwyaf. Ffurfiwyd Cymdeithas Ornitholegol Gwent (GOS) yn 1961 fel Clwb Adara Pont-y-pŵl ac mae wedi cyhoeddi tri adolygiad cynhwysfawr o statws adar o fewn Gwent – yn 1977, 1985 a 2007. Rydym yn ddyledus i aelodau GOS am y rhan fwyaf o'r data yn yr adran hon; dylai casglu a pharatoi cofnodion mor helaeth a chynhwysfawr gael ei gydnabod fel camp sylweddol.

Y prif gynllun ar gyfer monitro poblogaethau adar yw'r Arolwg Adar Bridio (BBS) a gynhelir gan y British Trust for Ornithology, JNCC a'r RSPB. Rhoddir sylw da i Gwent Fwyaf yn y BBS, gyda 74 sgwâr arolwg o fewn (neu'n rhannol o fewn) ardal yr astudiaeth (gweler Ffigur 1). O'r rhain, gallodd y BTO gyfrif tueddiadau poblogaeth ar gyfer 56 o'r 133 rhywogaeth a gofnodwyd gan y BBS yng Ngwent Fwyaf (gweler Ffigur 2). Dangosodd un ym mhob pump (11 rhywogaeth) o'r 56 ddirywiad mawr, hirdymor (1995-2018) yn gyfystyr â bod ar y Rhestr Goch. Dangosodd 10 rhywogaeth arall ddirywiad cymedrol hirdymor (1995-2018) yn gyfystyr â bod ar y Rhestr Oren. dim ond 14 rhywogaeth (25%) ddangosodd gynnydd sylweddol dros yr un cyfnod.⁶ Yr achos mwyaf o gonsyrn yw fod y 56 rhywogaeth y gellid cyfrif tueddiadau amdanynt yn fwy cyffredin o fod yn rhywogaethau cyffredin ac eang.

Gwelwyd y dirywiadau mwyaf gan y Bras Melyn (*Emberiza citronella*) (98%). Y Gog (*Cuculus canorus*) (77%), y Drudwy (*Sturnus vulgaris*) (-75%) a'r Ydfran (*Corvus frugilegus*) (74%). Roedd y cynnydd mwyaf ar gyfer Gwydd Canada (*Branta canadensis*) (275%), y Gwalch Glas (*Accipiter nisus*) (252%), y Golomen (*Columba oenas*) (212%) a'r Gigfran (*C. corax*) (210%).

1. Sgwariau BBS o fewn ardal yr astudiaeth (diolch i BTO)⁶




Ffigur 2. Tueddiadau hirdymor (1995–2018) ar gyfer 56 rhywogaeth o fewn Gwent Fwyaf, yn seiliedig ar Arolwg BTO/JNCC/RSPB o Adar Bridio (dangosir nifer y rhywogaethau mewn cromfachau)⁶


Cryf	Cymedrol	Dim newid	Cynnydd	Cynnydd
Dirywiad (11)	Dirywiad (10)	sylweddol (21)	cymedrol (6)	cryf (8)

Lluniwyd dangosyddion cyfunol ar gyfer adar tir amaethyddol yn yr ucheldir a llawr gwlad ac adar coetir, ynghyd â dangosyddion ar gyfer Cymru gyfan yn defnyddio'r un rhywogaeth ⁶ Dangosir y


rhywogaethau a ddefnyddiwyd i baratoi'r dangosyddion yn y tabl yn niwedd yr adran. Mae'r dangosyddion o rywogaethau tir amaethyddol (llawr gwlad) Ffigur 3) ac ucheldir (Ffigur 4) yn dangos dirywiad o 45% a 30% yn yr un drefn, dros gyfnod y BBS, yn fras debyg i batrymau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â Chymru ar gyfer adar tir amaethyddol a thir uchel. Er y gostyngodd yn y flwyddyn ddiwethaf, mae dangosydd coetir Gwent Fwyaf (Ffigur 5) yn fras sefydlog.



Ffigur 3. Dangosyddion adar aml-rywogaeth tir amaethyddol llawr gwlad ar gyfer Gwent a rhanbarth Gwent Fwyaf rhwng 1994 a 2018 ar gyfer yr un 11 rhywogaeth aderyn dangosydd.⁶



Ffigur 4. Dangosyddion adar aml-rywogaeth tir amaethyddol ucheldir ar gyfer Cymru a rhanbarth Gwent Fwyaf o 1994 i 2018 ar gyfer yr un chwech rhywogaeth aderyn dangosydd.



Ffigur 5. Dangosyddion adar aml-rywogaeth coetir ar gyfer Cymru a rhanbarth Gwent Fwyaf o 1994 i 2018 ar gyfer yr un 24 rhywogaeth adar dangosydd, wedi safoni i'r un cymedrig ar gyfer y gyfres amser (felly heb i werthoedd y flwyddyn gyntaf ddylanwadu'n ormodol arnynt).⁶

Caiff proffiliau'r 36 rhywogaeth adar dilynol eu rhannu yn adrannau cynefin llac er cyfleustod: tir amaethyddol, dŵr croyw a gwlypdir, ucheldir, trefol, rhydyddion a choetir.

Rhywogaethau a ddefnyddiwyd mewn dangosyddion

Tir amaethyddol Llawr gwlad	Tir amaethyddol Ucheldir	Coetir
Bras Melyn	Siglen Lwyd	Telor yr Helyg
Drudwy	Gylfinir	Ji-binc
Ydfran	Tinwen y Garn	Dryw Eurben
Llinos Werdd	Boncath	Cnocell Gwyrdd
Jac y Do	Corhedydd y Waun	Titw Glas
Llinos Ar	Cigfran	Dryw
Llwydfron		Titw Penddu
Ysguthan		Coch y Berllan
Ehedydd		Robin
Llinos Aur		Telor yr Ardd
Colomen Wyllt		Tingoch
		Sgrech y Coed
		Titw Cynffon Hir
		Bronfraith
		Siff-siaffod
		Titw Mawr
		Deryn Du
		Telor y Cnau
		Dringwr Bach
		Llwyd y Gwrych
		Telor Penddu
		Cnocell Fraith Fwyaf
		Corhedydd y Coed
		Gwalch Glas

Cyfeiriadau

1. British Ornithologists Union (BOU). 2018. The British List: A Checklist of Birds of Britain (9th edition). Ibis 160: 190–240.
2. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR, & Williams RA. 2008. The Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent.
3. UKBI - C5. Birds of the Wider Countryside and at Sea. JNCC - Adviser to Government on Nature Conservation. <https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-c5-birds-of-the-wider-countryside-and-at-sea/> (accessed 06/06/21).
4. Burns F, Eaton MA, Balmer DE, Banks A, Caldow R, Donelan JL, Douse A, Duigan C, Foster S, Frost T, Grice PV, Hall C, Hanmer HJ, Harris SJ, Johnstone I, Lindley P, McCulloch N, Noble DG, Risely K, Robinson RA, Wotton S. 2020. The State of the UK's Birds 2020. The RSPB, BTO, WWT, DAERA, JNCC, NatureScot, NE a Cyfoeth Naturiol Cymru, Sandy, Bedfordshire.
5. Eaton M, Aebischer N, Brown A, Hearn R, Lock L, Musgrove A, Noble D, Stroud D and Gregory R. 2015. Birds Of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the UK, Channel Islands and Isle of Man. British Birds 108: 708–746.
6. Barnes A a Noble D. 2020. A Summary of the State of Terrestrial Wild Bird Populations in Greater Gwent Based on Data from the BTO/JNCC/RSPB Breeding Bird Survey, 1994 to 2018. British Trust for Ornithology, Thetford, Norfolk.

Adar tir amaethyddol

Tylluan Wen *Tyto alba* (Scopoli, 1769)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

Statws Cadwraeth: Gwyrdd (Deyrnas Unedig a Chymru)

Data ar gael: Cymedrol (598 cofnod)

Cyd-destun: Yn wahanol i dylluan gyfarwydd arall Prydain, y Dylluan Frech, sy'n well ganddi goetir, mae'n well gan y Dylluan Wen gynefinoedd agored, yn arbennig tir amaethyddol llawr gwlad sydd â thir pori garw lle mae llygod cae, ei brif ysglyfaeth, yn ffynnu. Mae safleoedd nythu addas yn cynnwys adeiladau a

thyllau yn wyneb creigiau a choed, ac mae'r Dylluan Wen yn barod iawn i ddefnyddio blychau pwrpasol. Fel arfer mae Tylluanod Gwyn yn aros yn eu cynefin gyda thylluanod gwyn ifanc fel arfer yn crwydro llai na 10km o safle'r nyth¹ ac oedolion yn cadw'n ffyddlon at ardal fridio. Mae Tylluanod Gwyn yn fregus i nifer o ffactorau: mae diffyg cynefin addas yn cyfyngu dosbarthiad poblogaeth; mae ansawdd cynefin yn cyfyngu ar gynhyrchiant bridio; gall gwenwyn llygod arwain at wenwyna; gall addasu ysguboriau yn dai ostwng nifer y safleoedd nythu sydd ar gael; ac mae lladd ar y ffordd hefyd yn ffactor sylweddol. Yn ychwanegol, gall gwahanol lefelau o ysglyfaeth oherwydd cylch tair blynedd llygod a gaeafau oer/gwlyb achosi mwy o amrywiadau tymor byr yn y boblogaeth. Tylluanod Gwyn sydd â leiaf o gonsyrn cadwraeth yn y Deyrnas Unedig (wedi israddio o Oren yn 2015). Fodd bynnag, cânt eu gwarchod yn llawn gan Atodlen 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

Rhagolygon: Roedd y Dylluan Wen yn sicr yn rhywogaeth llawer mwy cyffredin ar ddechrau'r 20fed ganrif nag yw heddiw, fodd bynnag mae niferoedd wedi adfer o'u hisafbwynt yn y 1970au a'r 80au.² Mae mwy o duedd deheuol a thir isel i'w dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig fel canlyniad uniongyrchol i'w bregusrwydd i dywydd garw y gaeaf. Roedd poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 4000–14,000 pâr yn 2016.³ Dengys Arolwg Adar Bridio y BTO⁴ yr adferodd y Dylluan Wen gyda chynnydd o 251% rhwng 1995-2018. Fodd bynnag, y darlun tymor byrrach yw gostyngiad o 33% yn 2010-2018 a 41% yn 2018-2019. Mae'r dyfodol ar hyn o bryd yn edrych yn gymharol sicr ar gyfer y Dylluan Wen, yn sicr o gymharu gyda'r lefelau isel a welwyd yn y 1970au, ond maent yn dal yn fregus i'r llu o fygythiadau sy'n dal i fodoli ac nid oes unrhyw le i orffwys ar ein rhwyfau.

Caiff nifer o brosiectau bach blychau nythu eu cynnal yn y sir gan wirfoddolwyr yn y gogledd-orllewin, Dyffryn Wysg ac ar Wastadeddau Cil-y-coed. Cofnododd y diwethaf, a gaiff ei redeg gan Grŵp Modrwy Goldcliff, chwe pâr bridio yn 2020, gyda blychau eraill yn cael eu defnyddio fel safleoedd clwydo.⁵

Cwmpas Gwent Fwyaf: Disgrifir y Dylluan Wen yn The Birds of Gwent fel 'an uncommon resident (some possibly the result of earlier re-introductions)'.⁶ Roedd hyn yn dal yn wir yn y Gwent Bird Report 2018.⁷ Mae'r Dylluan Wen ar gael yn eang ar draws Gwent, er y byddai'n ymddangos fod y llain arfordirol a Dyffryn Wysg yn gadarnleoedd, a chaiff yr ardaloedd o'r tir uchaf un eu hosgoi fel arfer. Mae hynt y Dylluan Wen wedi newid dros gyfnod yng Ngwent, er fod amrywiadau tymor byr




Pete Hadfield


yn y boblogaeth mewn ymateb i aeafau caled a chylchoedd o ddigonedd o ysglyfaethiaid wedi ei gwneud yn anodd monitro lefelau poblogaeth. Awgrymodd yr arolwg cenedlaethol o'r Dylluan Wen yn 1932 fod poblogaeth o 120 pâr yng Ngwent,⁸ a disgrifiodd Birds of Monmouthshire (1963) y Dylluan Wen fel bod yn 'fairly common'. Gan adlewyrchu'r dirywiad mewn poblogaeth ar draws gweddill y Deyrnas Unedig, peidiodd y 'fairly common' fod yn wir yn fuan: dim ond 7 cofnod a dderbyniwyd yn 1981¹⁰ I'r gwrthwyneb ychydig flynyddoedd y naill ochr a'r llall i hyn, yn 1976, 'the number of reports remains encouragingly high'¹¹ a nodwyd cynnydd calonogol arall¹² yn 1985. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r amrywiadau naturiol y cyfeiriwyd atynt eisoes. Fodd bynnag, roedd y boblogaeth yn sicr yn llawer is nag oedd yn 1932 ac yn wir yn 1967; amcangyfrifodd arolwg a gynhaliwyd yn 1982-85 gan yr Ymddiriedolaeth Hebogiaid a Thylluanod fod 25 pâr yng Ngwent,¹³ gostyngiad sylweddol ar y 120 pâr yn 1932. Amcangyfrifodd ail Atlas Gwent fod 25-50 pâr,⁴ sy'n awgrymu gwelliant ar y sefyllfa ychydig ddegawdau ynghynt.

Ar y map dilynol, mae 'Prif Ganolfan' yn brif ganolfan gofnodi – unigolyn neu bâr yn cael eu monitro'n agos iawn (bron yn ddyddiol).

*Dosbarthiad cofnodion
y Dylluan Wen ar draws
Gwent Fwyaf
(uchafswm 78
cofnod/km²)*



*Cofnodion y Dylluan
Wen yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Dylluan Wen yn adar glaswelltir garw sy'n well ganddynt ardaloedd gwledig llawr gwlad sy'n absennol gan fwyaf o'r tir agored uchaf, gan felly osgoi tywydd mwyaf garw y gaeaf. Mae llawer o gofnodion yn agos at briffyrdd gyda 50 (11%) o fewn 100m o draffyrdd, ffyrdd deuol, ffyrdd A a phriffyrdd. Cafodd 11 wedi eu lladd (er bod dwy ar y rheilffordd ger yr A40). Gall fod nifer o ffactorau ar waith yma; efallai eu bod yn defnyddio glaswelltir bras ymylon ffyrdd ar gyfer helpa, ond mae sylweddion hefyd yn fwyaf tebyg o weld y rhywogaeth hwyrol drwy olau car.

Tueddiadau poblogaeth: Mae poblogaethau yn amrywio, yn gyffredinol byddai'n deg dweud nad yw poblogaethau'r Dylluan Wen mor uchel ag oeddent ganrif yn ôl ond eu bod yn well na blyneddau isel y 1970au/80au. Mae Ymddiriedolaeth y Dylluan Wen yn cyhoeddi ei 'State of the UK Barn Owl Population' bob blwyddyn (nid yw hyn yn cynnwys cofnodion Gwent, ond mae'n cynnwys llawer o rannau eraill y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Cymru). Mae penawdau diweddar yn cynnwys 'the worst year since records began' (2013), a ddilynwyd yn syth gan 'an exceptionally good year' (2014), 'a poor year almost everywhere' (2015), 'a poor year in most areas' (2016), 'generally a good year' (2017), 'generally a poor year' (2018) ac yn fwyaf diweddar 'a relatively good year' (2019).¹⁴

Gwarchodaeth: Dim safle neilltuol, yn ôl y disgwyl – cofnodion gwasgaredig o SAC Safleoedd Ystlumod Brynbuga, Coetiroedd Dyffryn Gwy, Glaswelltir Aberbargoed, ac yna'n bennaf Wlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent. Caiff safleoedd SINC eu gwasgaru ar draws yr ardal ond maent yn cynnwys y safleoedd a gaiff eu monitro'n dda yn Nhreowen a Bargoed.

Caiff Tylluanod Gwyn eu gwarchod mewn peth polisi cynllunio a Chanllawiau Cynllunio Atodol; mae gan Gyngor Sir Fynwy Ganllawiau Cynllunio Atodol neilltuol ar gyfer addasu ysguboriau yn dai lle mae angen cynnal arolygon o ystlumod a thylluanod gwyn ac o bosibl gymryd mesurau i wneud iawn.¹⁵

Cofnodion y Dylluan Wen o safleoedd a warchodir



Sogiar *Turdus pilaris* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1.

Statws cadwraeth: Oren (Cymru¹⁶) Coch (DU¹⁷)

Data ar gael: 2,169 (Da)

Cyd-destun: Mae Sogieir ar gael mewn rhannau helaeth o'r Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu.

Fodd bynnag, mae eu natur wyllt, gwamal yn eu gwneud yn llawer llai cyfarwydd na llawer o'n bronfreithod eraill, gyda dim ond tywydd eithafol oer yn eu gyrru i'n gerddi. Maent yn llawer mwy

cyffredin fel adar gaeafu, gyda nifer dda hefyd yn mynd heibio wrth fudo, a dim ond yn anaml iawn maent yn bridio. Mae hyn yn golygu fod Sogieir yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yr haf, gaeaf a cherrig camu mudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.¹⁸ Maent yn un o nifer o rywogaethau bronfraith y caiff eu niferoedd yn y Deyrnas Unedig eu cynyddu yn y gaeaf, Fodd bynnag, fel eu cefnder Coch yr Adain, ychydig iawn os unrhyw rai sy'n aros i fridio. Mae'r boblogaeth gaeaf mawr yn cyrraedd o'n bellach i'r gogledd yn Scandinafia.¹⁹ Mae Sogieir yn bwyta infertebratau ac, yn arbennig yn y gaeaf, ffrwythau.²⁰ Dywedir fod 720,000 (1981-84) yn treulio'r gaeaf yn y Deyrnas Unedig.²¹ Bu poblogaethau bridio bob amser yn isel iawn heb ddim wedi eu cadarnhau mewn rhai blynnyddoedd, er y gwnaeth parau posibl gyrraedd ffigurau dwbl mewn gwahanol flynyddoedd yn y 1970au, 1980au ac mor ddiweddar â dechrau'r 90au, gyda mwyafrif y cofnodion o'r Alban (ond rhai cofnodion o Loegr).²² Dywedir fod y boblogaeth bridio yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn 0-1 pâr yn y cyfnod 2013-2017.²⁰

Rhagolygon: Bu'r Sogiar bob amser yn aderyn bridio prin iawn yn y Deyrnas Unedig. Dim ond yn 1967 y cadarnhawyd y cofnod cyntaf, a dim ond mewn niferoedd isel iawn y cofnodwyd bridio, yn weddol afreolaidd byth ers hynny.²³ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach iawn, afreolaidd a lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (720,000 (1981-84)).²¹ Mae'n anodd canfod unrhyw ddata tueddiad poblogaeth gaeafu ar gyfer y Deyrnas Unedig, fodd bynnag nodwyd fod cyfanswm y boblogaeth yn y byd yn sefydlog.²⁴ Mae y Sogiar ar y rhestr goch yn UK Birds of Conservation Concern, mae hyn oherwydd gostyngiad yn y niferoedd bridio; ni sonnir am niferoedd gaeafu, sy'n dangos nad oes unrhyw bryderon cyfredol am boblogaeth gaeaf y Deyrnas Unedig.¹⁷ Dylid nodi fod y Sogiar ar restr oren Adar Cymreig o Gonsyrn Cadwraeth¹⁶ oherwydd eu bod ar y Rhestr Goch o Adar Ewropeaidd (ERLoB), er fel rhywogaeth o 'Leiaf o Bryder'. Nid ydynt ar y Rhestr Goch yng Nghymru gan nad oes unrhyw boblogaeth bridio i fod o bryder.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Sogiar yn 'common winter visitor'.⁷ Byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser gyda Birds of Gwent 2008 yn ei galw yn 'regular winter visitor, sometimes in very large numbers'.²⁵ Mae Birds of Gwent 2008 hefyd yn cyfeirio at lyfrau llawer cynharach (Birds of Monmouthshire 1937 a 1963), sy'n nodi ei fod yn ymwelydd rheolaidd yn ystod y cyfnodau hynny hefyd.⁶ Mae'r Sogiar i'w cael mewn llawer o leoedd o fewn Gwent, gyda chaeau llawr gwlad a gwrychoedd gydag aeron yn hoff leoedd.⁶ Cofnodwyd heidiau o filoedd o adar, yn arbennig yn gysylltiedig gyda thywydd garw yn ystod y gaeaf. Nodwyd fod Gwastadeddau Gwent yn cefnogi niferoedd mawr ar adegau. Gallant hefyd ddefnyddio




Andy Karran


perllannau, y mae cryn nifer ohonynt yng Ngwent, mewn tywydd garw a byddant hefyd yn mynd i mewn i erddi mewn tywydd garw.

Nodwyd bod canolfannau cofnodi yn Llanbedr, Gwlypdir Casnewydd a Llandegfedd (sy'n debygol o fod yn dangos ymdrechion cofnodwyr yn hytrach na niferoedd neilltuol o uchel yn y lleoedd hynny). Fel arall, mae cofnodion wedi eu dosbarthu'n dda.

*Dosbarthiad cofnodion y Sogiar
ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 86 cofnod/ km²)*



Cofnodion y Sogiar yn ôl degawd




Patrymau cynefin: Cofnodwyd y Sogiar ar draws llawer o Went. Fodd bynnag, maent yn ffafrio caeau llawr gwlad, gwrychoedd gydag aeron/bryniau a pherllannau.

Tueddiadau poblogaeth: Ymddengys nad oes dim consyrn am lefelau poblogaeth gaeafu'r Sogiar yn y Deyrnas Unedig (er y bu gostyngiad yn y niferoedd bridio oedd eisoes yn isel). Yn yr un modd nid oes unrhyw gonsyrn amlwg yng Ngwent, er y gall newid hinsawdd olygu y bydd newidiadau yn niferoedd y Sogiar yn y dyfodol. Ychydig y gall ymdrechion cadwraeth yng Ngwent ei wneud i ddylanwadu'n uniongyrchol ar hyn, ond gellir cadw'r cynefin mewn cyflwr da iddynt, gyda chadw gwrychoedd a pherthi sydd ag aeron wedi eu cynnwys yn y cynlluniau plannu newydd, a chadw a gwella perllannau.

Gwarchodaeth: Daw 69% o gofnodion o safleoedd wedi eu gwarchod, gyda nifer uchel o gofnodion o'r cofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) dilynol o gofnodion gwallus yn SAC Aber yr Hafren, Ystlumod Brynbuga ac ychydig o Lastiroedd Aberbargoed ac ar hyd yr Afon Wysg. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd. Mae cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastadeddau Gwent, Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Nant Nedern a'r Bloreys. Mae cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Llynoedd Garn, Parc Bryn Bach, Pyllau Beaufort ac eraill. Cafodd cofnodion Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) eu gwasgaru'n eang ar draws safleoedd niferus, yn cynnwys Parc Cwm Darren, Treowen, Comin Rhydri a Choed Lasgarn.

Cofnodion y Sogiar o safleoedd a warchodir



Cornchwiglen *Vanellus vanellus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU¹⁷ a Cymru¹⁶) Cymru. Adran 7 Rhywogaethau Blaenoriaeth

Data ar gael: Da (2083 cofnod – Tymor bridio yn unig)

Cyd-destun: Yn aderyn hoff oherwydd ei ymddangosiad, ei hediad egnïol a'i gri neilltuol, roedd y Gornchwiglen unwaith yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf, gyda lluo o enwau lleol. Fodd bynnag, mae'n olygfa llawer mwy prin yn awr, yn arbennig fel rhywogaeth bridio. Mae'r Gornchwiglen yn fridwyr preswyl ac ymfudwyr, gyda chynnydd enfawr yn eu niferoedd o adar o'r cyfandir yn y gaeaf (poblogaeth gaeafu DU o 635,000).²¹ Pan maent yn bridio, maent yn adar gwlad agored, gan hoffi tir amaethyddol a glaswelltir gwlyb lle gallant gael golwg dda ar unrhyw ysglyfaethwyr sy'n agosáu. Yn y gaeaf, gall yr heidiau ymestyn yn ehangach ac maent yn aml ar gael yn ymyl yr arfordir. Credir mai colli cynefin yw'r prif sbardun dros ostyngiadau poblogaeth, gyda'r newid o gnydau a gaiff eu plannu yn y gwanwyn i rai a blannir yn yr hydref a draeniad glaswelltir gwlyb fel rhan o 'welliant' amaethyddol y prif broblemau.²⁶




Rhagolygon: Roedd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn arfer bod yn eang ac yn doreithiog, yn cynnwys yng Nghymru. Er fod y Gornchwiglen yn dal ar gael yn eang, mae cwmpas enfawr yn eu niferoedd: amcangyfrifwyd mai 97,500 pâr oedd poblogaeth fridio y DU yn 2016.²¹ Roedd y dirywiad cynnar i raddau helaeth oherwydd casglu wyau ar gyfer bwyd, fodd bynnag gwaharddwyd hyn gan Ddeddf Cornchwiglod 1926 a bu cynnydd wedyn yn y poblogaethau.²⁷ Ers y 1940au arferion ffermio fu'r sbardun dros dirywiad mewn poblogaeth. Sefydlogodd y poblogaethau ar lefel is yn y 1960au, er y bu cynnydd pellach mawr a chyson yn y 1980au, yn cynnwys crebachu cwmpas yn ne orllewin Lloegr a rhannau o Gymru.²⁷ Fel o'r blaen, cafodd hyn ei yrru gan newidiadau mewn arferion a dwysau ffermio. Roedd y colledion mwyaf yn ne Lloegr a Chymru.²⁷ Bu gostyngiadau tymor hirach o 63% (tir amaethyddol) a 56% (glaswelltir gwlyb) rhwng 1971 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'a weak decline'). Fodd bynnag, yn 2012-2017 bu cynnydd o 5% (tir amaethyddol), a nodwyd fel 'little change' a 'weak decline' o 8% (glaswelltir gwlyb).³ Mae Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO yn cadarnhau'r dirywiad hwn (1995-2018), gyda gostyngiad o 43% (1995-2018), gostyngiad o 33% (2008-18) a gostyngiad o 4% (2018-19).⁴ Mae poblogaethau y Gornchwiglen yn dal i ddirywio mewn rhannau helaeth o'r Deyrnas Unedig, a byddai'n ymddangos mai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yw eu cyfle gorau efallai o gael newid yn eu hynt.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Caiff y Gornchwiglen eu disgrifio fel 'breeds in moderate but decreasing numbers, over a sizeable but rapidly contracting range. A passage migrant and winter visitor in substantial numbers' yn The Birds of Gwent.⁶ Rhoddodd The Gwent Bird Atlas 1987 amcangyfrif o 1,000 pâr.²⁸ Fodd bynnag, dangosodd gwaith arolwg 1993 fod rhwng 167-185 pâr, gyda'r cytref mwyaf yn Waun-y-pound, Glynebwy gyda 50-55 pâr (collwyd yr holl gytrawd i ddatblygiad yn 1996).⁶ Ar ddechrau'r 21ain ganrif cynhaliodd RSPB 'Brosiect Cornchwiglen Blaenau'r Cymoedd', gyda'r ardaloedd rwbwl glo a adferwyd yn gynefin nythu da, a chredid bod 10% o boblogaeth Cymru (60


pâr) yn defnyddio'r ardal.²⁹ Yn 2003, ystyriwyd bod amcangyfrifon poblogaeth bridio ar ben isaf 220-500 pâ, y credir ei fod yn dangos gwrthdroi y dirywiadau, a briodolwyd i raddau helaeth i lwyddiant Gwlypdir Casnewydd.⁶ Fodd bynnag, os oedd pethau wedi newid er gwell, oes fer gafodd hynny: mae'r niferoedd cyfredol yn sylweddol is, ac mae poblogaeth Blaenau'r Cymoedd fwy neu lai wedi diflannu, tra cafodd safle da yng nghaeau Ben Ward ei golli i raddau helaeth i waith ffyrdd. Mae'r Gwent Bird Report 2018 yn dangos fod y boblogaeth yn dal i ddirywio, gyda'r unig fridio a gadarnhawyd yng Ngwlypdir Casnewydd (er bod nifer fach o safleoedd eraill heb eu cadarnhau).⁷ Mae dadansoddiad o gofnodion y Gornchwiglen yng Ngwlypdir Casnewydd,³⁰ sydd o bell ffordd y safle mwyaf sylweddol sydd ar ôl yng Ngwent dros y 20 mlynedd diwethaf, yn ddiddorol. Dechreuodd y niferoedd ar 8 pâ yn 2000 gan gynyddu'n gyflym i frig o 57 pâ yn 2004. Ers hynny, bu dirywiad i isafbwynt o 15 pâ yn 2018 (i fyny i 23 pâ yn 2019). Mae'r cynhyrchiant (nifer o gywion) yn werth ei nodi, gyda'r nifer cyffredinol yn isel iawn, yr uchaf oedd 24 cyw yn 2014 (pan, yn ddiddorol, mai dim ond 22 oedd nifer y parau). Mae hyn yn gwrthgyferbynnu gyda 2005, pan mai dim ond 5 cyw gafwyd o 55 pâ. Mae nifer y cywion wedi amrywio ond bu'n bryderus o isel ers yr uchafbwynt o 2014, gyda dim ond 0,8,0,1 & 1 o gywion yn y pum mlynedd rhwng 2015 a 2019. Byddai'n ymddangos mai ysglyfaethu yw prif achos cynhyrchiant isel yng Ngwlypdir Casnewydd, er y mesurau atal/allgau ysglyfaethwyr sydd yno.

Mae mapiau'n dangos cofnodion o fewn y system bridio – (Mawrth-Medi) i wahaniaethu rhwng y boblogaeth bridio breswyl â'r boblogaeth aeafu fwy. Y prif ganolfannau cofnodi yw Gwlypdir Casnewydd, Llanbedr Gwynllŵg, Fochriw a Phwll Dŵr Rhoslas. Dylid nodi'r patrwm o golled a ddangosir gan gofnodion hanesyddol: ardaloedd llai ym Mlaenau'r Cymoedd, Fochriw a'r Bloreus, ac ar y Gwastadeddau gorllewinol. Collwyd cofnodion gwasgaredig yn Nhorfaen.

*Dwyster cofnodion y
Gornchwiglen bridio,
uchafswm ≥ 100 cofnod/km²
(gwir uchafswm 582/km²)*



*Cofnodion y Gornchwiglen
bridio yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae cydberthynas pendant rhwng glaswelltir gwastad, agored Gwastadeddau Gwent ac ardaloedd o rwbel glo wedi eu hadfer yng ngogledd orllewin Gwent Fwyaf. Mae hefyd grynhoed o gofnodion ar neu'n agos at yr arfordir, gan mai dyma lle mae'r Cornchwiglod sy'n gaeafu yn tueddu i ymgasglu, yn neilltuol yn ystod cyfnodau o dywydd garw.



Tueddiadau poblogaeth: Mae niferoedd Cornchwiglod yn parhau i ddirywio yn y Deyrnas Unedig, gyda'r ardaloedd mwy gorllewinol yn cael eu taro waethaf. Mae hyn yn cynnwys Cymru ac mae'n amlwg yn y boblogaeth yng Ngwent, sy'n parhau i ostwng. Mae poblogaeth Blaenau'r Cymoedd fwy neu lai wedi mynd a Gwlypdir Casnewydd yw'r unig safle dibynadwy; hyd yn oed yno mae'r niferoedd yn is nag oeddent 10-15 mlynedd yn ôl. Ers 2007 bu'r cynhyrchiant (cywion fesul pâr) yn is na'r lefel gynaliadwy (0.6 cyw/pâr) ym mhob blwyddyn heblaw dwy (2009 a 2014), gyda'r cynhyrchiant cyfartalog yn <0.3.³⁰ Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer goroesiad hirdymor y Gornchwiglen os na ellir unioni cynhyrchiant yng Ngwlypdir Casnewydd a chynlluniau amaeth-amgylcheddol a luniwyd i helpu'r Gornchwiglen yn nhir amaethyddol ehangach Gwent.

Gwarchodaeth: Daw 86% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Wastadeddau Gwent ac yn neilltuol Wlypdir Casnewydd. Mae'r poblogaethau gogleddol yn aml ar safleoedd SINC, er enghraifft Garnlydan, Cefn Gelligaer a Llynnoedd Garn.

Cofnodion y Gornchwiglen bridio o safleoedd a gaiff eu gwarchod



Arolygon penodol: Mae'r dilynol yn dangos poblogaethau'r Gornchwiglen yng Ngwlypdir Casnewydd, a ddaw o ddata a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.³⁰



Golfan y Mynydd *Passer montanus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU¹⁷ a Cymru¹⁶)
Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (219 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn preswyl a gofnodir hefyd fel aderyn ymfudol, mae Golfan y Mynydd yn 'aderyn tir amaethyddol' ac, yn wahanol i'w gefnder Aderyn y To, nid yw'n gysylltiedig gyda pHreswylad dynol. Roedd



Andy Karran

unwaith yn gyffredin ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, ond mae'r poblogaethau erbyn hyn yn llawer mwy darniog; er bod rhai poblogaethau lleol yn gwneud yn dda, mae Golfan y Mynydd bellach yn absennol o ardaloedd mawr.³¹ Mae Golfan y Mynydd yn dibynnu ar ysglyfaeth infertebratau i'w bwydo i'w gywion yn ystod y tymor bridio, ond yn y gaeaf mae'n bwydo ar hadau, ac yn well ganddo hadau 'chwyn' llai na grawn mwy.³² Maent yn tueddu i fod yn gytrefol, gan ffurfio grwpiau bach yn y tymor bridio a heidiau mwy yn y gaeaf.³² Mae Golfan y Mynydd yn rhywogaeth sy'n nythu mewn twll, felly maent angen coed sy'n rhoi'r cyfleoedd hyn. Mae eu gofynion penodol yn ystod y tymor bridio ac yn ystod y gaeaf yn eu gwneud yn fregus i newidiadau niweidiol yng nghefn gwlad, ac maent wedi dioddef gostyngiad enfawr, gyda gostyngiad brawychus iawn o 95% rhwng 1970 a 1998.³¹ Credir fod y dirywiad oherwydd dwysau amaethyddol, yn cynnwys cynnydd yn y defnydd o chwynladdwyr a symud tuag at hau cnydau yn yr hydref.³¹ Mae hyn wedi arwain at ostwng yr infertebratau ar gyfer cywion yn y nyth a'r hadau sydd ar gael dros y gaeaf.

Rhagolygon: Arferai'r boblogaeth yn y Deyrnas Unedig fod yn eang, yn cynnwys yng Nghymru. Fel y nodwyd, bu dirywiad enfawr yn eu niferoedd, a hefyd yn eu dosbarthiad. Mae'r poblogaethau mwyaf yn awr i'w cael yng Nghanolbarth Lloegr, De Lloegr a Dwyrain Lloegr,³³ nid oes bron ddim ar gael yng Nghymru, De Orllewin Lloegr na Gogledd Orllewin Lloegr.³³ Amcangyfrifwyd fod y boblogaeth bridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 245,000 pâr.²¹ Mae gostyngiadau tymor hirach o 90% rhwng 1975-2017 (a ddisgrifir fel 'dirywiad cryf'). Fodd bynnag, yn fwy diweddar ni fu 'fawr o newid', gyda dirywiad bach o 4% rhwng 2012-2017.³ Mae'r dirywiad a nodwyd yn flaenorol o 95% rhwng 1970 a 1998 yn cadarnhau'r dirywiad hwn. Fodd bynnag, mae Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO⁴ yn dangos arwyddion o adferiad a pheth optimistiaeth, gyda chynnydd o 117% rhwng 1995-2018, er ei bod yn rhaid cofio bod y cynnydd mwyaf diweddar yma o lefel isel iawn ac nad yw'r niferoedd unrhyw le'n agos at y poblogaethau cyn 1970. Felly, er fod Golfan y Mynydd yn dal ar bwynt isel, mae arwyddion o wella oherwydd dealltwriaeth gynyddol o ofynion ei gynefin a chynlluniau cadwraeth penodol.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Fel rhywogaeth bridio, mae Golfan y Fynydd fwy neu lai wedi diflannu yng Ngwent Fwyaf, gyda dau bâr yn 2013,³⁴ un pâr aflwyddiannus yn 2015,³⁵ a phâr sengl na wnaeth fridio yn 2017⁷ o Porton ar Wastadeddau Gwent. Gyda deg pâr yn nytho yno yn 2006,⁶ darparwyd blychau nyth i gynorthwyo'r boblogaeth hon, ond mae'r niferoedd wedi gostwng ers hynny.

Byddai'n ymddangos fod nifer Golfanod y Mynydd wedi amrywio'n hanesyddol gyda Birds of Monmouthshire 1937 yn ei ddisgrifio fel ymwelydd lleol iawn ond gyda Birds of Gwent 1977 yn ei


ddisgrifio fel 'fairly common in all areas apart from the industrial valleys' gyda heidiau o 30 yn aml a hyd at 80 o adar.⁶ Drwy hyn i gyd, nodwyd fod Gwastadeddau Gwent a gorlifdir yr Afon Wysg yn gadarnleoedd, gyda helyg wedi eu tocio a hen berllannau yn safleoedd nythu pwysig. Fodd bynnag, bu gostyngiad mawr mewn tocio helyg a chollwyd llawer o berllannau, gan wneud blychau nyth yn adnodd pwysicach. Sefydlwyd nifer o gynlluniau blychau nyth mewn lleoedd tebyg i Gronfa Ddŵr Llandegfedd, Rhaglan, Porton a New Inn. Cafwyd 189 cyw ym mhoblogaeth New Inn yn 1981,⁶ ond dim ond poblogaeth Porton a ddangosodd unrhyw weithgaredd (er cyfyngedig iawn) mewn blynyddoedd diweddar.

Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn Llandegfedd, Cas-gwent a Gwastadeddau Gwent, er fod cofnodion Llandegfedd yn bennaf yn y 1980au, gydag un yn 2006. Daw'r cofnodion diweddaraf o Wastadeddau Gwent.

*Dosbarthiad cofnodion
Golfan y Coed ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm 21
cofnod/km²)*



*Cofnodion Golfan y
Coed yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Yn gysylltiedig gyda Gwastadeddau Gwent ac ar hyd dau brif gwrs dŵr yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, yn ffafrio bod yn rhesymol agos at gynefinoedd gwlypdir, yn debygol oherwydd fod pryfed sy'n gysylltiedig gyda gwlypdiroedd yn rhan bwysig o'u diet yn ystod y tymor bridio.

Tueddiadau poblogaeth: Mae'r dirywiad yn y boblogaeth i bron ddiflannu yng Ngwent wedi ei adrodd yn flaenorol; bu hefyd ddirywiad mawr ym mhoblogaethau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, er bod poblogaethau yn isel, bu arwyddion o adferiad yn fwy diweddar. Erys i'w weld os gellir achub poblogaeth Gwent; byddai angen dysgu gwersi o gynlluniau llwyddiannus yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, cyllid addas, unigolion ymroddedig a chefnogaeth tirlfeddianwyr i sicrhau fod gofynion cynefin yn addas drwy'r flwyddyn gyfan i wneud hynny.

Gwarchodaeth: Daw 36% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o'r Gwastadeddau (yn arllwys i'r aber) a chofnodion hanesyddol o Adral o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Llandegfedd.

Cofnodion Golfan y Mynydd o safleoedd a warchodir



Turtur *Streptopelia turtur* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: BREGUS (Byd-eang)³⁶
Coch (DU¹⁷ a Cymru¹⁶) Rhywogaeth Blaenoriaeth
Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (163 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae'r Turtur yn treulio ei aeaf yn Affrica is-Sahara.⁶ Mae hyn yn golygu fod y Turtur yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yr haf, gaeaf

a charreg-gamu ymfudol, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.¹⁸ Mae ffactorau eraill sy'n gyfrifol am ddirywiad y Turtur yn cynnwys newidiadau mewn arferion ffermio a gafodd effaith negyddol ar lawer o'n hadar tir amaethyddol, colli cynefin yn eu meysydd daearu yn Affrica, lefelau uchel o hela ar hyd y llwybr ymfudo (yn fwyaf nodedig Malta) a chlefyd trichomoniasis.³⁷ Mae'r cyfuniad o'r ffactorau hyn yn golygu mai'r Turtur yw'r rhywogaeth adar sy'n dirywio gyflymaf yn y Deyrnas Unedig,³⁷ gyda gostyngiad arswydus o 94% yn y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig ers 1995 a diflaniad (sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru) yn bosiblwydd go iawn. Ystyrir mai colli cynefin a'r prinder bwyd cysylltiedig ar eu meysydd bridio yn y Deyrnas Unedig yw'r ffactor mwyaf niweidiol.³⁷ Caiff problemau'r Turtur eu gwaethygu oherwydd mai dim ond hadau y maent yn ei fwyta; mae colli hadau 'chwyn' yn ein cefn gwlad yn golygu llawer llai o lwyddiant bridio.


Rhagolygon: Arferai poblogaeth y Deyrnas Unedig fod wedi ei lledaenu'n eang ar draws llawer o Loegr, ac er eu bod yn brin yn y rhan fwyaf o Gymru, roedd unwaith yn fwy niferus yn siroedd llawr gwlad y gororau.⁶ Maent bellach wedi eu cyfyngu i ychydig o siroedd yn Ne Ddwyrain Lloegr, gyda Chaint a Sussex yn gadarnleoedd. Credir mai dim ond 1,000 pâr sydd ar ôl.³⁸ Mae gostyngiadau tymor hirach o 98% rhwng 1975-2017 (a ddisgrifir fel 'dirywiad cryf') gyda dirywiad llai difrifol ond dal yn 'ddirywiad cryf' o 51% rhwng 2012-2017.³ Mae Arolwg Adar Bridio y BTO⁴ yn cadarnhau hyn, gan gofnodi dirywiad o 95% rhwng 1995-2018. Mae gwahanol fudiadau cadwraeth (tebyg i Operation Turtle Dove³⁹) yn gweithio i arafu a gwrthdroi'r dirywiad hwn, ac mae rhai straeon o lwyddiant; er enghraifft roedd 16 gwryw canu ar Stad Knepp yn 2017 o gymharu â 3 yn 2009.⁴⁰

Cwmpas Gwent Fwyaf: Fel rhywogaeth bridio, mae'r Turtur wedi diflannu o fewn Gwent (a hefyd ar draws weddill Cymru). Yn 1963 dywedodd Birds of Monmouthshire fod y Turtur yn 'regular summer visitor', er fod ardaloedd bridio wedi cyfyngu i ardaloedd canol-ddwyreiniol, gan fod Gwent ar ymyl eu cwmpas.⁶ Roedd awgrymiadau hyd yn oed bryd hynny fod y niferoedd yn dirywio, er mai ychydig o dystiolaeth o hyn oedd drwy weddill y 1960au.⁶ Fodd bynnag, mae'n bendant fod poblogaeth Gwent wedi dirywio yn ystod y 1970au, gyda bridio wedi'i gadarnhau yn dod yn gyfnodol a phoblogaethau'n crebachu nes bod y boblogaeth wedi ei chyfyngu i ardal yn canoli ar Dryleg a Chors Cleddon erbyn canol y 1990au.⁶ Roedd yn dal yn bosibl dod o hyd i adar yn yr ardal hon hyd at 2005, ond cafodd y bridio diwethaf ei gadarnhau yn 1997. Adlewyrchir hyn yn y brif ganolfan yn Nhryleg, gydag un llai yng Nghaerwent. Dim ond naw cofnod sydd o'r degawd diwethaf – y diweddaraf yn 2016. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion diweddar ar gyfer adar sengl, yn bennaf ar y Gwastadeddau dwyreiniol/Afon Rhymni.




Andy Karran

*Dosbarthiad cofnodion y
Turtur ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 41 cofnod /km²)*




*Cofnodion y Turtur yn
ôl degawd*



Tueddiadau poblogaeth: Dogfennwyd y dirywiad mewn poblogaeth i ddiflaniad yng Ngwent a Chymru. Gyda'r boblogaeth yn parhau i ostwng yn y Deyrnas Unedig, go brin y caiff Gwent ei hailboblogi, yn neilltuol gyda chyn lleied o adar ymfudol yn cael eu cofnodi. Ein gobaith gorau yw ceisio rheoli ein tir amaethyddol ar gyfer yr ystod o adar tir amaethyddol sy'n dal i fod gennym a gobeithio y bydd y Turtur yn dychwelyd un diwrnod. Pe byddai'n dychwelyd, yna dylid gwneud ymdrechion i wella ymhellach yr ardaloedd a ffafir ganddynt, gan ddysgu o wersi a ddysgwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Gwarchodaeth: Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion o ardaloedd na chânt eu gwarchod. Mae'r rhai sydd o ardaloedd a warchodir o Ardal o Ddiddordeg Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent (yn cynnwys ychydig a gafodd eu camgofnodi ac sy'n mynd i Ardal Cadwraeth Arbennig yr aber). Dylid nodi fod yr ardal lle roedd poblogaeth ar gael ddiwethaf, Cors Cleddon, yn SSSI, a bod gan ardal gyfagos Tryleg rwydwaith gref o Ardaloedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC), yn cynnwys Broad Meend a Bryn Begwn.

Cofnodion Turtur o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. <https://www.barnowltrust.org.uk/barn-owl-facts/juvenile-dispersal-barn-owls/>
2. <https://www.bto.org/our-science/projects/project-owl/learn-about-owls/barn-owl>
3. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018, 40.
4. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
5. Clarke RM. 2021. Cyfathrebiad personol.
6. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 223–225.
7. Gwent Bird Report 2018.
8. Blaker GB. 1934. The Barn Owl in England and Wales. RSPB, Llundain
9. Humphreys PN. 1963. The Birds of Monmouthshire. Amgueddfa Casnewydd.
10. Gwent Bird Report 1981.
11. Gwent Bird Report 1976.
12. Gwent Bird Report 1985.
13. Shawyer C. 1987. The Barn Owl in the British Isles: Its Past, Present and Future. Hawk Trust, Llundain.
14. <https://www.barnowltrust.org.uk/barn-owl-facts/current-uk-barn-owl-population/>
15. <https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2015/07/H4-LDP-Barn-Conversion-SPG-April-2015.pdf>
16. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13:1, 3–31.
17. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
18. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-Third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables Over 50 Years. *Bird Study* 66:2, 159–172, DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
19. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/fieldfare>
20. Robinson R.A. 2005. *BirdFacts: Profiles of birds occurring in Britain & Ireland*. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (agorwyd ar 2/3 /2021).
21. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/aep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
22. <https://rbbp.org.uk/explore-reports/>
23. Holloway, S. 1996. The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900. Poyser, Llundain.
24. BirdLife International. 2021. Species factsheet: *Turdus pilaris*. <http://www.birdlife.org> (agorwyd ar 2/3/2021).
25. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. *Cymdeithas Ornitholegol Gwent*, 117.
26. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/lapwing>
27. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/lapwing/population-trends/>
28. Tyler S, Lewis J, Venables A a Walton J. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds.
29. <https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/projects/heads-of-the-valleys-lapwing-project/>
30. Gwybodaeth arolwg gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Gorffennaf 2020).

31. <https://www.birdguides.com/articles/back-from-the-brink--no-12>
32. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/tree-sparrow>
33. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/tree-sparrow/>
34. Gwent Bird Report 2014.
35. Gwent Bird Report 2016.
36. BirdLife International. 2019. *Streptopelia turtur*. The IUCN Red List of Threatened Species 2019: e.T22690419A154373407. <https://dx.doi.org/10.2305/IUCN.UK.2019-3.RLTS.T22690419A154373407.en> (cyrchwyd 17/7/ 2020).
37. <https://www.operationturtledove.org/turtle-doves/what-is-a-turtle-dove/>
38. <https://www.theguardian.com/environment/2019/nov/07/turtle-dove-flies-towards-extinction-numbers-halve-uk>
39. <https://www.operationturtledove.org/turtle-doves/ecology-habitat-and-food/>
40. <https://knepp.co.uk/turtle-doves>

Aderyn y Bwn *Botaurus stellaris* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (Atodlen 1)

Statws cadwraeth: Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru, Oren (DU¹ a Cymru²) israddiwyd yn ddiweddar o Goch i Oren (rhestr y DU)

Data ar gael: Cymedrol (73 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn sydd, oherwydd ei ffordd o fyw neilltuol iawn, wedi ei gyfyngu i wlypdiroedd ac yn fwy penodol wely cyrs, lle mae ganddynt fynediad



Andy Karran


i'w diet o bysgod a lle y cânt eu cuddio'n dda. Yn eithaf anaml y caiff ei weld oherwydd ei fod mor ddirgel ac yn cuddio'n dda yn ei gartref yn y gwely cyrs. Fodd bynnag, mae galwad swnllyd y gwryw yn ystod y tymor bridio yn rhwydd ei adnabod ac i'w glywed o bell, felly gall ddatgelu eu presenoldeb. Mae Aderyn y Bwn yn breswyl yn y Deyrnas Unedig, a chaiff y boblogaeth ei hybu bob gaeaf drwy fewnlif o unigolion o'r cyfandir. Roedd ar fin diflannu o'r Deyrnas Unedig mor ddiweddar â'r 1990au ond mae wedi gwneud adferiad da. Y prif fygythiad i Aderyn y Bwn yw colli eu cynefin penodol iawn mewn gwelyau cyrs. Yn hanesyddol, roedd hyn oherwydd draeniad tir ar gyfer amaethyddiaeth a thynnu dŵr yn y dalgylchoedd ehangach sy'n bwydo'r gwelyau cyrs.³ Er bod tyniad dŵr yn dal yn fygythiad posibl, y prif fygythiadau ar hyn o bryd yw esgeulustod a diffyg rheoli yn galluogi gwelyau cyrs i sychu a dod yn anaddas;³ mae gwelyau cyrs yn gynefin olyniaethol gynnar a fydd heb ymyriad maes o law yn lleidio ac yn sychu i ffurfio coetir. Fel gyda'r holl fywyd gwylt sy'n dibynnu ar amgylchedd dyfrol, gallai digwyddiadau llygredd gael effeithiau lleol hefyd.

Rhagolygon: Mae tuedd cryf ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig tuag at ardaloedd lle mae gwelyau cyrs mawr; mae'r mwyafrif helaeth yn Lloegr, gyda thueddiad mwy deheuol a dwyreiniol, gyda gwelyau cyrs East Anglia a chorsydd Avalon yng Ngwlad yr Haf y gwir gadarnleoedd. Mae'r niferoedd wedi cymryd lefel o'r fath fel bod gwir fygythiad y byddent yn diflannu am byth yn y 1990au. Ers hynny gwelodd gwaith cadwraeth wedi ei dargedu i greu a chynnal a chadw gwelyau cyrs mewn cyflwr addas gynnydd amlwg yn y niferoedd bridio, fel bod Aderyn y Bwn wedi symud o'r rhestr Goch i'r rhestr Oren.¹ Arweiniodd yr adferiad hwn at boblogaeth fridio amcanol o 191 pâr yn 2017 a phoblogaeth aeafu o 795.⁴ Nid oes Aderyn y Bwn wedi nythu yng Nghymru ers 1984, ar ôl bwlch o 32 mlynedd, roeddent yn bridio yng Nghorsydd Malltraeth yn Sir Fôn.⁵ Byddai'n ymddangos y cafodd poblogaeth Aderyn y Bwn ei harbed drwy fwy o ddealltwriaeth o'i gofynion cynefin, ymdrechion cadwraeth cadarn a llawer o'r safleoedd pwysicaf yn bod o fewn gwarchodfeydd natur a warchodir. Mae Aderyn y Bwn yn edrych yn ddiogel, ac ymddengys yn debygol y bydd ei boblogaeth yn ehangu'n well.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae The Birds of Gwent yn disgrifio Aderyn y Bwn fel 'a very rare winter visitor: regular at one site since 2002'.⁶ Mae'r statws wedi gwella ers hynny, gyda chofnodion yn amlach, yn debyg oherwydd y cynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig a mewnlifau achlysurol yn y gaeaf. Yr un safle rheolaidd y sonnir amdano uchod yw Gwlypdir Casnewydd, lle mae Aderyn y Bwn wedi ei weld yn gyson ers hynny. Gwryw swnllyd yn 2015 oedd y gofnod gyntaf o

Aderyn y Bwn tiriogaethol yng Ngwent yn y cyfnod modern;⁷ cafodd pâr eu nodi a'u hystyried yn bâr bridio yn 2017,⁸ ac wedyn gwelwyd fod dau bâr yn bridio yn 2020 – y tro cyntaf y profwyd fod Adar y Bwn wedi bridio yn Ne Cymru am dros 200 mlynedd.⁹ Y brif ganolfan ar y map islaw yw Llyn Hendre, ychydig tu allan i Gwent Fwyaf. Mae mwyafrif y cofnodion eraill i gyd o Wastadeddau Gwent. Mae'r cofnodion eraill yn rhai hen (1970 a 1985) o Gors Nelson a Magwyr (1985) a rhai mwy diweddar o'r Afon Rhymni yn Ystrad Mynach (2012) a Llanfair Cilgedin (2016). Ar wahân i un gofnod yn 1985, mae cofnodion Gwastadeddau Gwent yn dechrau o 2009, felly'n dangos cytrefwr cymharol ddiweddar.

*Dosbarthiad cofnodion
Aderyn y Bwn ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm 27
cofnod/km²)*



*Cofnodion Aderyn y Bwn yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Mae cysylltiad cryf iawn rhwng Aderyn y Bwn â gwelyau cyrs ac nid yw'n fawr o syndod fod y gwelyau cyrs helaeth a gafodd eu creu'n gymharol ddiweddar yng Ngwlypdiroedd Casnewydd bellach yn safle rheolaidd iddynt, gan arwain at fridio yn 2020.

Tueddiadau poblogaeth: Mae pethau'n edrych yn gadarnhaol ar hyn o bryd ar gyfer Adar y Bwn yng Ngwent, gyda chofnodion yn cynyddu a'r cofnodion bridio cyntaf am 200 mlynedd yn 2020. Nid oes unrhyw reswm dros dybio na fydd hyn yn parhau, cyn belled ag y caiff rheolaeth briodol ei ariannu yng Ngwlypdir Casnewydd. Fodd bynnag bydd niferoedd yn gyfyngedig, gan ei bod yn debygol mai Gwlypdir Casnewydd yw'r unig wely cyrs digon mawr yng Ngwent.

Gwarchodaeth: Daw'r rhan fwyaf o gofnodion o safleoedd a warchodir gan mai Gwastadeddau Gwent ac yn arbennig y Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) yw'r canolbwynt ar gyfer Aderyn y Bwn yng Ngwent.

Cofnodion Aderyn y Bwn o safleoedd a warchodir



Telor Cetti *Cettia cetti* (Temminck, 1820)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981) (Atodlen 1)

Statws cadwraeth: Gwyrdd (DU¹ a Cymru²)

Data ar gael: Da (2228 cofnod)

Cyd-destun: Ynghyd â Thelord Dartford, Telor Cetti yw'r unig delor yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ymfudol, gan aros gyda ni drwy'r flwyddyn. Maent yn rhywogaeth dirgelaidd, ac yn anaml y cânt eu gweld, gan eu bod yn hoffi gorchudd prysg Drain a Helyg



Andy Karran


trwchus, yn ogystal â gwelyau cyrs. Er eu natur ddirgelaidd, cânt eu cofnodi'n eithaf aml gan eu bod yn datgelu eu presenoldeb gyda chân neilltuol a rhyfeddol o uchel. Mae Teloriaid Cetti yn stori o lwyddiant, gyda phoblogaeth sydd wedi cynyddu ac ehangu'n gyflym dros y 60 mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, gallent ddal fod yn fregus oherwydd clirio prysgwydd lleol a gaeafau caled. Mae Teloriaid Cetti o'r pryder cadwraeth lleiaf yn y Deyrnas Unedig ond cânt eu gwarchod yn llawn ar Atodlen 1 y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad gan fod y niferoedd yn dal yn yn isel pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym. Yn ddiddorol, mae Telor Cetti yn unigryw ymysg adar Prydain drwy fod â dim ond deg pluen ar eu cynffonnau, ac yn dodwy wyau coch llachar.¹⁰

Rhagolygon: Ni chafodd Teloriaid Cetti eu cofnodi yn y Deyrnas Unedig tan 1961. Bu cynnydd mawr yn y boblogaeth ers hynny, gyda bridio wedi ei brofi gyntaf yn 1972. Mae ganddynt dueddiad cyffredinol i'r de yn eu poblogaeth o fewn y Deyrnas Unedig. Dywedwyd fod 3,450 o wrywod canu yn y boblogaeth fridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016.¹⁰ Bu cynnydd hirdymor o 693% rhwng 1975 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'strong increase'), gyda chynnydd llai ond yn dal i fod yn 'strong increase' o 47% rhwng 2012 a 2017.¹¹ Mae Arolwg Adar Bridio y BTO¹² yn cadarnhau hyn, gan ddangos cynnydd o 417% rhwng 1995 a 2018. Mae potensial i Deloriaid Cetti ledaenu hyd ymhellach i'r gogledd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i aeafau mwynach, er y gall cynefin addas gyfyngu ar gynnydd, ac y gall gaeafau caled ostwng y boblogaeth.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae The Birds of Gwent yn disgrifio Telor Cetti fel 'an uncommon resident'.¹³ Mae'r statws hwn wedi newid yn y blynyddoedd ers ei gyhoeddi, ac er nad yn gyffredin ac yn eang, gellid yn sicr ddweud bod Telor Cetti yn gyffredin mewn cynefinoedd addas yn lleol, sydd yn bennaf yng Ngwastadeddau Gwent. Caiff ei ddisgrifio yn y Gwent Bird Report 2018 fel 'an uncommon breeding resident though with recent range expansion'.⁸

Yn 1988 y cafodd ei gofnodi gyntaf yng Ngwent, ar y Gwastadeddau, a bu cynnydd amlwg yn y nifer a gofnodwyd o 1994.¹³ Cafodd bridio ei brofi'n bendant gyntaf yn 2001,¹³ ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny, gyda Gwarchodfa Gwlypdir Casnewydd yn parhau'r prif safle ar hyd yr amser, er eu bod yn awr ar gael ar draws llawer o'r Gwastadeddau. Gostyngodd y niferoedd yng ngaeaf caled 2018 (gostyngodd nifer y parau o 64 yn 2017 i 43 yn 2018);⁸ bydd y niferoedd yn adfer eto os nad yw tywydd o'r fath yn digwydd yn aml. Yng Ngwastadeddau Gwent mae niferoedd mawr ar gael yn Allfan Llanbedr, yn ogystal â Gwlypdir Casnewydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymdrech cofnodwyr gan fod y ddau hyn yn safleoedd 'adara' adnabyddus, er mai'n ddi-os mai Gwlypdir Casnewydd yw'r prif safle oherwydd ei faint a'i gynefin delfrydol.

*Dosbarthiad cofnodion Telor
Cetti ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 632 cofnod /km²)*



Cofnodion Telor Cetti yn ôl degawd




Patrymau cynefin: Wedi cysylltu'n agos iawn gyda digonedd o'u hoff gynefin gwlypdir prysg/gwely cyrs, sy'n doreithiog ar Wastadeddau Gwent ac yn arbennig ar Wlypdir Casnewydd.

Tueddiadau poblogaeth: Cafodd y cytrefu yng Ngwent a'r ehangiad a'r cynnydd dilynol mewn niferoedd ei ddogfennu'n flaenorol. Gyda phoblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gynyddu, ymddengys yn debygol y bydd y boblogaeth yn parhau i ffynnu yng Ngwent, gydag efallai ehangu yn eu cwmpas ac efallai fwy o gofnodion a pharau bridio i ffwrdd o'r cadarnle yng Ngwastadeddau Gwent. Mae'n debyg mai'r unig rwystr tebygol i boblogaethau yw tywydd eithafol o oer yn y gaeaf.

Gwarchodaeth: Fel y disgwylid gydag aderyn y mae ei boblogaeth wedi ei gysylltu'n helaeth gydag ardaloedd gwarchodedig iawn Gwastadeddau Gwent, daw mwyafrif y cofnodion o safleoedd a warchodir gyda'r NNR yng Ngwlypdir Casnewydd a'r SSSI yn bennaf y rhai ar y Gwastadeddau. Mae cofnodion SAC/SPA yn debygol o gofnodi 'llithriad' pan fo cofnodion wedi eu canoli neu eu cam-gofnodi ac yn cael eu rhoi yn yr aber.

Cofnodion Telor Cetti o safleoedd a warchodir



Trochydd *Cinclus cinclus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)

Statws cadwraeth: Oren (DU¹ a Cymru²)

Data ar gael: Da (1,705 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Trochydd yn aderyn sydd, oherwydd ei ffordd o fyw neilltuol iawn, wedi ei gyfyngu i'n cyrsiau dŵr. Mae'n breswlydd ac yn aros gyda ni drwy'r flwyddyn, gan ddim ond symud pellter cymharol fyr (llai na 2.5km) ac yn gyffredinol yn aros o fewn yr un cefn deuddwr, er yn dilyn bridio




Andy Karran

gall cywion ifanc (yn arbennig benywod) fod rhwng pellter mwy a rhwng dau gefnddwr.¹⁴ Mae hefyd rai symudiadau lleol yn y gaeaf i afonydd llawr gwlad, yn arbennig mewn tywydd difrifol o oer, er yr ymddengys fod ymddangosiadau cyson ar yr arfordir yn perthyn i'r gorffennol.¹⁵ Mae trochwyr yn fregus i ddirywiad mewn ansawdd dŵr a digwyddiadau llygredd, sy'n cael effaith niweidiol ar y ffawna a'r invertebratau y maent yn dibynnu arnynt am fwyd a chynnydd mewn symudiad dŵr, gan ei wneud yn anos iddynt ganfod eu hysglyfaeth. Ychwanegwyd trochwyr i Restr Oren Adeilad o Gonsyrn Cadwraeth y Deyrnas Unedig yn 2015 oherwydd gostyngiad o 27% ar draws y Deyrnas Unedig mewn niferoedd bridio dros y 25 mlynedd blaenorol.¹ Cawsant eu hychwanegu wedyn at y Rhestr Oren yn 2016 oherwydd gostyngiad o 35%.² Mae minc gwyllt, digwyddiadau llygredd, tywydd mwy anwadal (yn cynnwys llifogydd) a cholli safleoedd nythu gyda thrwsio pontydd i gyd yn rhesymau posibl am golli poblogaeth.

Mae gan y Trochydd arwyddocâd neilltuol ymysg ffawna adarol Gwent, gan mai ef yw emblem Cymdeithas Ornitholegol Gwent, a 'The Dipper' yw enw eu cylchlythyr.


Rhagolygon: Mae gan boblogaeth y Deyrnas Unedig duedd gogleddol a gorllewinol, gydag amcangyfrif poblogaeth fridio o 6,900 i 20,500 pâr,¹⁶ gyda'u hanner yn yr Alban. Mae'r niferoedd wedi amrywio, gan barhau'n sefydlog mewn llawer o rannau ond gyda gostyngiadau amlwg mewn rhannau eraill, yn cynnwys gorllewin Cymru. Bu gostyngiad tymor hirach o 21% rhwng 1975 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'little change'); mae data tymor byrrach, mwy diweddar, yn dangos cynnydd o 13% rhwng 2012-2017 (a ddisgrifir fel 'weak increase'). Mae Arolwg Adar Bridio Dyfrffydd y BTO (a gynhwysir yn yr Arolwg Adar Bridio¹⁶) yn gyffredinol yn dangos gostyngiad bychan mewn niferoedd rhwng 1995 a 2018, er yn ostyngiad llai amlwg mewn blyneddau mwy diweddar.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Disgrifir y Trochwr fel preswlydd gweddol gyffredin ar gyrsiau dŵr addas ledled y sir yn The Birds of Gwent.¹⁵ Yn yr un modd â'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, mae Trochwyr yn fwy niferus yng ngogledd a gogledd orllewin Gwent. Mae hyn yn ffurfio cydberthynas gref gyda'r ardaloedd uwch, lle mae cyrsiau dwr llai, creigiog, clir a gyda digonedd o ocsigen maent yn eu hoffi. Mae hefyd niferoedd da yn y dwyrain ar is-nentydd yr Afon Gwy. Y canolfannau mwyaf yw Parc Taf Bargoed a Pharc Bargoed (canolfannau cofnodi) a'r Afon Mynwy (yn debyg yn ganlyniad canoli cofnodion). Yn gyffredinol maent ar yr Afon Rhymni, Afon Sirhywi, Afon Ebwy, Afon Lwyd, Afon Honddu, rhannau uchaf y Wysg, Afon Mynwy, Afon Trothi, Afon Angiddy a rhannau o'r Afon Gwy, ynghyd ag is-nentydd eraill.



*Dosbarthiad
cofnodion y Trochydd
ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 122/km²)*

*Cofnodion y Trochydd yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Wedi cyfyngu yn bendant iawn i gyrsiau dŵr, mae Trochwyr yn awr yn bresennol ar bob cwrs dŵr sylweddol yng Ngwent. Mae cofnodion achlysurol iawn o gyrff dŵr llonydd.

Tueddiadau'r boblogaeth: Mae pethau'n edrych yn rhesymol dda ar gyfer Trochwyr ar hyn o bryd: mae lefelau llygredd dŵr yn llawer gwell nag oeddent yn hanesyddol a chaiff Trochwyr eu dosbarthu'n dda ar gyrsiau dŵr addas o fewn Gwent. Pe byddai cyfnodau o lifogydd a sychder, yn achosi lefelau dŵr sy'n amrywio'n helaeth, yn dod yn fwy cyffredin, yna gallai hyn gael effaith niweidiol ar boblogaethau'r Trochydd.

Gwarchodaeth: Er yr ymddengys fod y siart isod yn dangos fod llawer o boblogaeth y Trochydd o fewn cynefin heb unrhyw lefel o warchodaeth, mae hyn ymhell o fod yn wir. Mae gan yr Afon Gwy a hefyd yr Afon Wysg y lefel uchaf o warchodaeth fel SAC, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau dŵr yng Ngwent yn dod o fewn ardaloedd SINC (gyda'r Afon Angiddy a'r Afon Honddu, sy'n safleoedd da ar gyfer Trochwyr, yn eithriadau) ond efallai nad yw cofnodion Trochwyr yn ymddangos ynddynt oherwydd eu bod yn cynefinoedd llinelllog cul.

Cofnodion Trochydd o safleoedd a warchodir



Crëyr Bach *Egretta garzetta* (Linnaeus, 1766)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Gwyrdd (DU¹), Gwyrdd (Cymru²)

Data ar gael: Da (4,494 cofnod)

Cyd-destun: Heb fod ymhell yn ôl roedd y Crëyr Bach yn ymwelydd prin a chyffrous i'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag mae statws y crëyr bach gwyn hwn wedi newid yn sylweddol mewn cyfnodau diweddar. Er ei fod bellach yn olygfa gyfarwydd, maent yn dal i roi elfen egsotig i'n ffawna adarol. Mae'n

debygol fod y Crëyr Bach yn bresennol yn y Deyrnas Unedig ac roedd yn aderyn mwy cyffredin ledled Ewrop cyn i hela, yn arbennig ar gyfer eu plu, ostwng llawer ar ôl y boblogaeth. Pan gyflwynwyd gwarchodaeth, lledodd y Crëyr Bach i'r gogledd o dde Ewrop, gyda nifer cynyddol yn cael eu cofnodi yn y Deyrnas Unedig; cyrhaeddodd nifer sylweddol yn 1989, a ddilynwyd gan fridio yn Dorset yn 1996.¹⁷ Cafodd effeithiau newid hinsawdd hefyd eu hawgrymu fel rhesymau posibl dros ehangiad cwmipas a chytrefu yn y Deyrnas Unedig.¹⁸ Mae'r Crëyr Bach yn fwyaf niferus ar hyd arfordiroedd deheuol a dwyreiniol Lloegr ac yng Nghymru, ond maent yn llethu i'r mewndir ac i'r gogledd. ¹⁷ Mae'r Crëyr Bach yn bennaf yn bwydo ar bysgod bach, ond bydd hefyd yn cymryd amffibiaid a phryfed mawr.¹⁹ Mae poblogaeth y Deyrnas Unedig wedi cynyddu ers eu cytrefu cyntaf ac mae'n parhau i dyfu, gyda chynnydd cyffredinol o 59% rhwng 2013 a 2018.¹¹ Caiff y boblogaeth bridio ei hybu gan fewnlif o adar o'r cyfandir yn yr hydref/gaeaf.



Andy Karran


Rhagolygon: Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y Crëyr Bach tan gyfnod diweddar (1980au) yn ymwelydd prin â'r Deyrnas Unedig. Arweiniodd mewnlf sylweddol yn 1989 ar fridio yn 1996; ers hynny mae'r poblogaethau bridio a gaeafu wedi parhau i dyfu a lledaenu ymhellach i'r gogledd. Mae Arolwg Adar Bridio y BTO¹² yn cadarnhau hyn, gan nodi cynnydd enfawr o 2,399% rhwng 1995 a 2018, 64% rhwng 2008 a 2018, a 10% mewn un flwyddyn 2018–2019. Roedd yr amcangyfrif o boblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2012–2017 yn 1,100 pâr.⁴ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio gymharol fach ond gynyddol hon, mae'r boblogaeth gaeafu gryn dipyn yn fwy (11,500 yn 2012/13–2016/17) a bu 'cynnydd cryf' o 59% rhwng 2013–2018.¹² Mae Arolygon Adar Gwlypdir (WeBS)²⁰ yn cadarnhau'r cynnydd hwn ymhellach, gan nodi cynnydd o 39% yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol a 59% yng Nghymru rhwng 2007/08 i 2017/18.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Crëyr Bach yn anghyffredin i ffwrdd o'r arfordir, ac yn breswlydd bridio prin.¹⁸ Nid oes unrhyw sôn am y Crëyr Bach yn The Birds of Gwent yn 1977²¹ na'r The Gwent Atlas of Breeding Birds cyntaf, sy'n cwmpasu'r cyfnod 1981–1985.²² Mae'r sôn cyntaf am y Crëyr Bach yn The Birds of Gwent 2008, lle caiff ei ddisgrifio fel 'uncommon throughout the year. Breeds at one location.'²³ Roedd y cofnod cyntaf yng Ngwent mewn gwirionedd yn 1989,²³ fel rhan o'r mewnlf sylweddol cyntaf i'r Deyrnas Unedig. Dilynodd y bridio cyntaf 12 mlynedd yn ddiweddarach, yn 2001,²³ 5 mlynedd yn unig ar ôl y cofnod bridio cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Dengys cyfeiriad at y Gwent Bird Report 2016 fod dau gytref bridio yng Ngwent, y ddau ar Wastadeddau Gwent, gyda chytref Cors Magwyr newydd sefydlu.⁷ Erbyn adeg Gwent Bird Report 2018, mae'n ddiddorol nodi fod cytref Cors Magwyr wedi ehangu ar


draul y gytref arall yng Ngwastadeddau Gwent yng Nghwrt Whitson, a gafodd ei gadael.⁸ Mae hefyd safleoedd clwydo sylweddol, gyda 42 y cyfrif uchaf yng Nghors Magwyr. yn 2018.⁷ Medrir gweld y Crëyr Bach yng Ngwent drwy'r flwyddyn, ond – fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig – mae nifer fwy o adar yma dros y gaeaf. Gwastadeddau Gwent a'r blaentraeth yw'r lleoliad sy'n fwyaf tebygol o fod â Chreyrod Bach, ond mae niferoedd bach i'w gweld yn y mewndir yn gysylltiedig gyda gwahanol gyrff dŵr.

Y prif ganolfannau cofnodi yw Llanbedr Gwynllŵg a Goldcliff. Mae canolfannau eraill amlwg yn Nant Nedern, Pil Collister, Pil Cil-y-coed, y Moorings a Chei Mawr Rhymni. Mae'n debyg fod y ganolfan yn Swydd Gaerloyw yn un ffals, oherwydd canoli nifer fach o gofnodion. I ffwrdd o'r Gwastadeddau, mae clystyrau o gofnodion yn Llandegfedd a'r Afon Wysg ger y Bryn.

*Dosbarthiad cofnodion Crëyr
Bach ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion o'r Crëyr Bach
yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae cysylltiad cryf rhwng Creyrod Bach a chynefinoedd gwlypdir, gyda Gwastadeddau Gwent a'r blaentraeth y brif gynefin a ddefnyddir.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond yn ddiweddar mae'r Crëyr Bach wedi cytrefu ac wedyn wedi sefydlu poblogaethau bridio o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda'r bridio cyntaf wedi ei gofnodi yn 2001. Mae'r cynnydd hwn oherwydd gostyngiad mewn erledigaeth yn caniatáu cynnydd mewn cwmbras ac effaith newid hinsawdd. Mae cyfrifon WeBS isod yn dangos yn glir y cynnydd yn Aber yr Hafren o niferoedd bach iawn ddechrau'r 1990au i gannoedd erbyn hyn. Ymddengys fod poblogaeth Aber yr Hafren yn cynyddu, tra bod y boblogaeth yn siroedd Cymru wedi gwastadau yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r boblogaeth yn awr yn amlwg wedi sefydlu'n dda iawn ac ychydig o gonsyrn cadwraeth sydd amdani. Fodd bynnag, dylid nodi fod y boblogaeth fridio yng Ngwent yn dal i fod ar lefel isel (9 pâr) ac wedi crynhoi mewn dim ond dau safle,⁸ sy'n eu gwneud yn gynhenid fregus. Dylai'r safleoedd hyn ac unrhyw safleoedd newydd gael eu gwarchod rhag aflonyddu arnynt.


Mae cyfrif WeBS yn dangos y boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach na Gwent Fwyaf i gyd. Dylid nodi y caiff rhai cyfrifon blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.

Uchafbwynt Cyfrif WeBS Gaeaf y Crëyr Bach ar Aber yr Hafren²⁴



Gwarchodaeth: Daw 93% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Aber Hafren, ynghyd â nifer uchaf o gofnodion o Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdir Gwent ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd.

Cofnodion Crëyr Bach o safleoedd a warchodir



Hwyaden Lostfain (Lennais, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

Statws cadwraeth: Coch (Cymru) ac Oren (DU)

Data ar gael: Da (1,474 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Hwyaden Lostfain yn rhywogaeth cymharol gyffredin o hwyaden o fewn y Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu, ond efallai un y mae pobl yn llai gyfarwydd oherwydd eu bod yn hoffi cynefinoedd mwy gwyllt a'u natur swil. Maent yn fwyaf cyffredin o ddigon fel aderyn gaeafu, ond maent



Andy Karran

hefyd yn ymfudo heibio, er mai dim ond nifer bach iawn sy'n aros i fridio. Mae hyn yn golygu fod yr Hwyaden Lostfain yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yn yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudol a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.²⁵ Maent yn un o ystod cyfan o rywogaethau hwyaid sy'n gaeafu mewn niferoedd sylweddol yn y Deyrnas Unedig yn y gaeaf. Mae'r Hwyaden Lostfain sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu cyfyngu gan eu gofynion bridio penodol iawn, gan fod angen pyllau dŵr croyw mewn glaswelltir.²⁶ Mae'r cynefin hwn yn fregus iawn i hinsawdd sy'n cynhesu, gan y gall y pyllau bas hyn sychu.²⁷ Mae'r rhan fwyaf o'r nifer fach o adar bridio yng ngogledd yr Alban.²⁸ Mae llawer mwy yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig gydag adar yn dod o leoedd mwy gogleddol tebyg i ogledd-orllewin Siberia, mae eraill yn ymfudo ymhellach i'r de i Affrica isdrofannol²⁹ Mae gan yr Hwyaden Lostfain ddiet hollysol, gan gael hyn o laid wedi'i gladdu.²⁶ Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, bu gostyngiad o 24% yng nghyswllt adar gaeafu 1992/93 a 2017/19.²⁰ Gall y gostyngiad mewn niferoedd gaeafu fod yn ymateb i aeafau mwynach gan olygu fod mwy o Hwyaidd Lostfain ymhellach i'r dwyrain, ond mae'n dal i fod yn fater o bryder.³⁰ Mae'n anodd canfod tueddiadau yn y boblogaeth bridio, ond rhan o'r rheswm pam fod yr Hwyaden Lostfain ar y rhestr Oren yw gostyngiadau diweddar mewn niferoedd bridio a chwmpas. Byddai hyn yn ymddangos yn wir, gydag amcangyfrif o ddim ond 27 pâr yn 2012–2017,⁴ a'r Panel Adar Bridio Prin yn cofnodi fod 'gostyngiad gwan' (35% dros 25 mlynedd).³¹


Rhagolygon: Un safle yn yr Alban oedd yr unig leoliad yr oedd Hwyaidd Lostfain yn bridio yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif.³² Cynyddodd cofnodion yn ystod yr 20fed ganrif ond roeddent bob amser wedi eu gwasgaru ac ar niferoedd isel, gydag ardaloedd rheolaidd weithiau'n cael eu gadael oherwydd sensitifrwydd i lefelau dŵr.³² Nid oedd yr amcangyfrif o'r boblogaeth fridio yn y Deyrnas Unedig erioed yn fawr a dim ond 27 pâr oedd yma yn 2012–2017;³¹ ymddengys fod hyn yn ostyngiad ar lefelau blaenorol, ac nid oedd yr Hwyaden Lostfain erioed yn fwy na phrin iawn fodd bynnag. Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach a lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (20,000 yn 2012/13–2016/17)³¹ ond bu newidiadau ynddi (gostyngiadau gan bennaf: gostyngiad o 8% yn 1975–2018 (a ddisgrifiwyd fel 'newid bach'), gyda hyn yn newid mewn cyfnodau mwy diweddar (a ddisgrifiwyd fel 'little change') rhwng 2013 a 2018.¹¹ Mae arolygon WeBS²⁰ yn dangos llawer mwy o ostyngiad: gostyngiadau o 24% yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw (o gymharu â chynnydd o 28% yng Nghymru) rhwng 1992/93 i 2017/18 a gostyngiad mwy difrifol o 29% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 a 2017/18 (gostyngiad o 52% yng Nghymru). Cafodd y boblogaeth gaeafu hon ei dosbarthu'n eithaf eang ledled y Deyrnas Unedig, yn bennaf yn defnyddio arfordiroedd ac aberoedd

cysgodol, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf yn eithaf lleol.³³


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi bod yr Hwyaeden Lostfain yn 'fairly common winter visitor at main coastal sites; casual elsewhere'.⁷ Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda The Birds of Gwent yn nodi ei fod yn ymwelydd gweddol gyffredin yn y gaeaf ac ymfudo yn bennaf i safleoedd arfordirol. Roedd nifer y gaeaf yn fwy na'r trothwy ar gyfer pwysigrwydd rhyngwladol yn 2008³⁴ ac yn 'regular and fairly common winter visitor, mainly to the coast, but also to one or two inland waters. Numbers are actually small, but are subject to considerable fluctuation from one year to another' yn 1977.³⁵ Nodwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn i'r Hwyaeden Lostfain, gan gynnal poblogaeth o Bwysigrwydd Cenedlaethol.³⁶ Mae'r rhai a ganfyddir o fewn Gwent yn ffurfio rhan sylweddol o'r poblogaethau hyn, gydag uchafswm cyfrif blynyddol o 682 (sydd mewn gwirionedd yn fwy na'r trothwy pwysigrwydd rhyngwladol) ym mlynnyddoedd cynnar y 21ain ganrif.³⁴ Caiff Llanbedr Gwynllŵg, Saint y Brid, Goldcliff a Gwlypdir Casnewydd eu cydnabod fel y safleoedd pwysicaf yn The Birds of Gwent 2008.²⁰ Cofnodir niferoedd llawer llai mewn nifer o safleoedd mewndirol, yn cynnwys Cronfa Ddŵr Llandegfedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Hwyaed Lostfaen yn rhan bwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y nifer a gofnodwyd mewn blynyddoedd diweddar gyda'r Gwent Bird Report 2014³⁷ gan nodi bod 'numbers remain considerably lower than in the previous decade'. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau yng Nghymru a hefyd yn y Deyrnas Unedig i gyd, efallai oherwydd bod mwy o adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain fel ymateb i aeafau cyffredinol mwynach. Caiff pwysigrwydd parhaus Llanbedr Gwynllŵg ei gadarnhau yn y Gwent Bird Report 2018 lle mae'n dweud fod Llanbedr Gwynllŵg yn parhau i fod y safle pwysicaf o ddigon.⁷

Mae canolfannau cofnodi yn Llanbedr Gwynllŵg, Gwlypdir Casnewydd a Llandegfedd gyda gorchudd gwirioneddol da mewn cofnodion diweddar.

*Dosbarthiad cofnodion yr
Hwyaden Lostfain ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm
576/km²)*



*Cofnodion yr Hwaden Lostfain
yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Hwyaeden Lostfain yn bendant iawn yn aderyn arfordir aber yr Hafren. Fe'u cofnodwyd hefyd mewn nifer fach o safleoedd mewndir. yn arbennig Cronfa Ddŵr Llandegfedd.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau cyffredinol ym mhoblogaethau gaeafu yr Hwyaeden Lostfain o fewn y Deyrnas Unedig. O leiaf am gyfnod, yn arbennig yn ystod y 1990au, aeth Cymru yn groes i'r tueddiad hwn a bu cynnydd mewn niferoedd. Fodd bynnag, yn y cyfnod o tua 10 mlynedd, bu gostyngiadau yng Nghymru hefyd. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gan ddangos patrwm tebyg i gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth o'r Hwyaeden Lostfain sy'n gaeafu yng Ngwent yn is ar hyn o bryd ond mae'n dal yn bwysig iawn fel rhan o boblogaeth Cenedlaethol Bwysig Aber yr Hafren. Mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn bwysig iawn i fonitro'r poblogaethau, yn arbennig wrth i ymchwiliadau barhau i argloddiau, morlynnoedd a grym llanwr yr Hafren. Dylid craffu'n fanwl iawn ar effeithiau posibl hyn ar y poblogaethau o'r Hwyaeden Lostfain sy'n gaeafu yma, ynghyd â rhyddidion ac adar dŵr eraill.³⁸ Byddai hefyd yn bwysig datrys unrhyw ostyngiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd a all fod oherwydd bod newid hinsawdd yn newid cwmipasau gaeafu o ffactorau eraill.


Dangosir manylion y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS³⁴ isod. Mae'r graff yn dangos y dirywiad yn y boblogaeth yn y 21ain ganrif ar ôl cynnydd blaenorol. Mae'n aneglur pam fod y niferoedd yn y 1970au mor isel yn siroedd Cymru. Roedd y niferoedd yng Ngwent yn isel bryd hynny gan fod y boblogaeth yn canoli ar aber yr afon Rhymni (i'r gorllewin, y tu allan i Gwent). Fodd bynnag, roedd yr Hwyaeden Lostfain yn dal i fod yn aber yr Hafren (efallai heb eu nodi gan WeBS). Daeth y boblogaeth yma'n fwy symudol a daeth i Lanbedr Gwynllŵg yn gyson yn y 1980au.³⁴

Cyfrifiadau WeBS yur Hwyaeden Lostfaen ar Aber yr Hafren²⁴



Gwarchodaeth: Daw 95% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, Gwarchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd. Yr Ardal o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur yw Llyn Rhaslas.

Cofnodion Hwyaidd Lostfain o safleoedd a warchodir



Telor y Cyrs *Acrocephalus scirpaceus* (Hermann, 1804)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Gwyrdd (DU¹) Gwyrdd (Cymru)²)

Data ar gael: Da (1,493 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae Telor y Cyrs yn treulio ei aeafau yn Affrica.³⁹ Mae hyn yn golygu fod Telor y Cyrs yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudol a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – pethau y mae



Andy Karran

newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.²⁵ Mae hyn yn golygu eu bod yn un o ystod cyfan o deloriaid sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud teithiau ymfudo pell i safleoedd gaeafu. Mae Telor y Cyrs yn bryfysol gan bennaf ond byddant yn bwyta aeron yn yr hydref.³⁹ Maent ar gael yn eang ar draws rhannau helaeth o dir isel yng nghanol a de Cymru a Lloegr yn eu cynefin o wely cyrs; maent yn llawer prinnach yn yr Alban ac Iwerddon.³⁹ Fel mae eu henw yn awgrymu, maent yn bendant iawn yn aderyn gwely cyrs a phrysgwydd cysylltiedig. Fel canlyniad, maent yn eithaf anodd eu gweld, ond maent yn datgelu eu hunain drwy eu trydar. Yn wahanol i lawer o'n ymfudwyr o bell yn ystod yr haf, bu cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth, gyda chyfanswm cynnydd o 79% rhwng 1975 a 2018.¹¹ Cafodd y cynnydd yma ei yrru gan ehaniad hynod mewn cwmipas ymhellach i'r gogledd a gorllewin y Deyrnas Unedig ers y 1960au.⁴⁰ Awgrymwyd bod gwell perfformiad bridio, hinsawdd mwy cynnes a gwella rheoli cynefinoedd yn rhesymau dros ehangu'r cwmipas.⁴⁰


Rhagolygon: Byddai'n ymddangos fod poblogaeth a dosbarthiad Telor y Cyrs wedi amrywio dros y ganrif neu ddwy ddiwethaf.³² Ar ddiwedd y 19fed ganrif, roedd Telor y Cyrs yn bridio yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru a Lloegr i'r de o (ac yn cynnwys) Swydd Efrog a Swydd Caerhirfryn.³² Fodd bynnag, erbyn y 1930au, roedd wedi ei gollu o lawer o gyrion gogleddol a gorllewinol (yn cynnwys rhannau sylweddol o Gymru) ei gwmpas, a fel hyn y bu tan y 1970au.³² O'r 1970au ymlaen, fodd bynnag, mae cwmipas y boblogaeth wedi ehangu ac mae Telor y Cyrs wedi ailgytrefu ardaloedd a gollwyd yn flaenorol. Nawr, mae'r cwmipas yn debyg i'r hyn oedd ar ddiwedd y 19eg ganrif, gyda bridio hefyd yn yr Alban ac Iwerddon.³² Amcangyfrifwyd fod 130,000 pâr yn bridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016.⁴ Mae hyn yn dangos cynnydd mewn blynyddoedd diweddar: cynnydd o 79% rhwng 1975 a 2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd gwan), gyda hyn yn sefydlogi'n fwy diweddar heb unrhyw newid rhwng 2012 a 2017.¹¹ Mae Arolwg Adar Bridio y BTE¹² yn dangos y patrymau hyn ymhellach gyda chynnydd o 21% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw.

Cwmipas Gwent Fwyaf: Caiff dosbarthiad Telor y Cyrs yng Ngwent ei gyfyngu gan eu gofynion o ran cynefin. Mae'r rhan fwyaf o welyau cyrs a ffosydd gydag ymylon cyrs y rhanbarth ar Wastadeddau Gwent yn ne Gwent, ac felly dyma lle mae'r niferoedd mwyaf o Deloriaid y Cyrs.⁴¹ Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod Telor y Cyrs yn 'fairly common breeding summer visitor/passage migrant'.⁸ Bu hyn yn wir ers cryn amser, ond gyda chynnydd cyffredinol mewn niferoedd. Cofnododd The Birds of Gwent yn 1997 ef fel 'breeding summer visitor. It is an uncommon but fairly regular visitor, mainly to areas on the coastal levels'.⁴¹ Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1985 yn amcangyfrif bod 200-300 pâr yng Ngwent,⁴³ gyda'r ail


atlas (1998–2003) yn amcangyfrif cynnydd yn y boblogaeth i 310-570 pâr.⁴¹ Mae hyn unwaith eto yn dangos cynnydd amlwg. Nodwyd y bu sefydlu gwelyau cyrs yng Ngwarchodfa Gwlypdir Casnewydd yn amlwg fanteisiol ar gyfer Telor y Cyrs.⁴¹

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw ar draws Gwastadeddau Gwent, gyda'r nifer fwyaf yn Llanbedr Gwynllŵg a Gwlypdir Casnewydd, ynghyd â Llaneirwg yn yr ardal clustog. Ymaith o'r Gwastadeddau, mae clystyrau o gofnodion yn Llandegfedd.

*Dosbarthiad cofnodion Telor
y Cyrs ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm >100)*



*Cofnodion Telor y Cyrs yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Mae Telor y Cyrs yn bendant iawn yn adar gwelyau cyrs a ffosydd gydag ymyl corsen.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd pellach ym mhoblogaethau Telor y Cyrs o fewn y Deyrnas Unedig, ac mae eu cwmipas wedi ehangu ymhellach i'r gogledd i'r Alban ac i'r gorllewin i Iwerddon. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol gyda'r boblogaeth fridio yn gyffredinol yn cynyddu. Fodd bynnag, mae wedi parhau i fod wedi ei gyfyngu i raddau helaeth i Wastadeddau Gwent, gan mai dyma lle mae cynefin cyrs addas ar gael, ar ffurf gwelyau cyrs (yn fwyaf amlwg yng Ngwlypdir Casnewydd) a hefyd y ffosydd gydag ymyl corsen sydd ar gael yn ehangach. Nid yw Telor y Cyrs o bryder cadwraeth mawr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw llawer o'n hymfudwyr haf pellter maith yn gwneud cystal, a gallai problemau ar safleoedd gaeafu yn Affrica sy'n effeithio arnynt ddod i effeithio ar Delor y Cyrs, felly ni ddylid llaesu dwylo. Mae'n anodd trin y problemau newid hinsawdd hyn drwy gynlluniau cadwraeth mwy lleol. Fodd bynnag, gellir dal i gadw a gwella cynefinoedd yng Ngwent mewn cyflwr fel eu bod yn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau posibl sydd ar gael ar gyfer bridio Telor y Cyrs i sicrhau fod cyfraddau cynhyrchiant yn uchel. Gallai rheoli cilometrau lawer o ffosydd draenio (64km o brif ffosydd draenio a 137km o ffosydd draenio llai) ar Wastadeddau Gwent fod yn ffactor bwysig yn llwyddiant Telor y Cyrs yn y dyfodol. Er y bydd amrywiaeth o ddatrysiadau rheoli yn eu lle ar gyfer y ffosydd draenio yn seiliedig ar wahanol anghenion ecolegol ac amaethyddol, economeg a rheoli dŵr, dylid cadw darnau gydag ymyl cyrs i roi cynefinoedd addas ar gyfer Telor y Cyrs.

Gwarchodaeth: Daw 88% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o'r dilynol: cofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdiroedd Casnewydd, cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastadeddau Gwent a Llandegfedd; cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Barc St Julian; cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o The Moorings, Parc Gwledig Rogiet a gwahanol safleoedd eraill.

Cofnodion Telor y Cyrs o safleoedd a warchodir




Hwyaden Lydanbig *Anas clypeata* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwlad a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

Statws cadwraeth: Oren (DU¹), Oren (Cymru²)

Data ar gael: Da (2,407 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Hwyaden Lydanbig yn rhywogaeth cymharol gyfarwydd o hwyaidd yn y Deyrnas Unedig, gan gael eu henw o'u pig fawr a siâp arbennig. Maent yn fwyaf cyffredin o ddigon fel aderyn gaeafu ond maent hefyd yn galw heibio pan maent yn ymfudo, ac mae niferoedd llai yn aros i fridio. Mae



Andy Karran

hyn yn golygu fod yr Hwyaden Lydanbig yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.²⁵ Maent yn un o ystod mawr o rywogaethau hwyaidd sy'n gaeafu mewn cryn niferoedd yn y Deyrnas Unedig gyda nifer cymharol fach yn unig yn aros i fridio. Mae'r rhan fwyaf o'r Hwyaidd Llydanbig sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig i'w cael yn ne a dwyrain Lloegr, gyda nifer llawer llai yn yr Alban a rhannau gorllewinol Lloegr.⁴⁴ Mae'r adar bridio yn symud ymhellach i'r de yn y gaeaf, gydag adar o ymhellach i'r gogledd sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig yn cymryd eu lle.⁴⁴ Mae'r Hwyaden Lydanbig yn hollysol ac yn hidlo infertebratau bach a hadau o'r dŵr gyda'u pigau arbenigol.⁴⁵ Drwyddi draw yn y Deyrnas Unedig, bu cynnydd o 132% yng nghyswllt adar gaeafu rhwng 1975 a 2018.¹¹ Credir fod y cynnydd mewn niferoedd gaeafu oherwydd gaeafau mwynach gan olygu fod mwy o Hwyaidd Llydanbig yn treulio'r gaeaf ymhellach i'r gogledd yn hytrach nag yn Sbaen neu Ffrainc. Mae'n anodd canfod tueddiadau poblogaeth bridio, ond rhan o'r rheswm pam fod y Hwyaden Lydanbig ar y rhestr Oren yw cwmpas diweddar mewn niferoedd a chwmpas bridio.⁴⁵ Fodd bynnag, dengys gwefan y BTO⁴⁵ y bu'r boblogaeth fwy neu lai yn sefydlog yn dilyn gostyngiad bach rhwng 1969 a 1995.


Rhagolygon: Ymddangosai'r Hwyaden Lydanbig yn fridiwr eithaf prin yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif, gyda hela adar gwyllt yn rhan o'r rheswm dros y niferoedd isel.³² Cyflwynwyd gwarchodaeth tuag at ddiwedd y 19eg ganrif ac erbyn y 1930au roedd yr Hwyaden Lydanbig yn bridio yn y rhan fwyaf o siroedd Lloegr a llawer o siroedd yr Alban ac roedd ar gael yn fwy eang yn Iwerddon ond yn fwy cyfyngedig yng Nghymru (arfordir y de a Sir Fôn).³² Erbyn y 1950au roedd y cynnydd mewn rhai ardaloedd yn cael ei gydbwyso gan golledion mewn eraill oherwydd colli cynefin; yn gynyddol, er yn gwneud yn dda a warchodfeydd a gaiff eu rheoli, roedd poblogaethau o'r Hwyaden Lydanbig yn cael eu colli mewn ardaloedd mwy ymylol.⁷ Yr amcangyfrif o boblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2012-2017 oedd 1,100 pâr.⁴ O gymharu gyda'r boblogaeth bridio cymharol fach, mae'r boblogaeth gaeafu yn llawer mwy (19,500 yn 2012/13–2016/17) a bu'n destun cynnydd sylweddol: cynnydd o 132% rhwng 1975 a 2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd gwan), gyda hyn yn parhau mewn blynyddoedd mwy diweddar gyda chynnydd o 25% (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf) rhwng 2013-2018.³² Mae arolygon WeBS²⁰ yn cadarnhau'r cynnydd hwn i raddau helaeth, gyda chynnydd o 68% yn y Deyrnas Unedig i gyd (75% yng Nghymru) rhwng 1992/93 a 2017/18 a chynnydd o 13% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 i 2017/18, er y bu gostyngiad o 23% yng Nghymru dros gyfnod tebyg. Cafodd y boblogaeth gaeafu yma ei dosbarthu'n eang ledled y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio'r arfordir a hefyd ddŵr croyw. Fodd bynnag, mae canran sylweddol o Hwyaidd Llydanbig wedi crynhoi o fewn nifer cymharol

fach o hoff safleoedd.⁴⁶


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod yr Hwyaen Lydanbig yn 'fairly common in winter; scarce in summer; very rare breeder'.⁸ Felly y bu am gyfnod hir, ond bu'r niferoedd sy'n gaeafu yn cynyddu i ryw raddau dros gyfnod: cofnododd The Birds of Gwent fod yr Hwyaen Lydanbig yn 'common winter visitor at two sites, where numbers exceed the threshold for National Importance. Also a scarce passage migrant and rare breeder ymwelydd gaeaf cyffredin mewn dau safle, lle mae'r niferoedd yn uwch na'r trothwy ar gyfer Pwysigrwydd Cenedlaethol. Dywedir eu bod hefyd yn ymfudwyr teithiol a bridwr prin yn 2008⁴⁷ ac yn 'frequent winter visitor in quite large numbers; rarely breeds' yn 1977.⁴⁸ Nodwyd fod Aber yr Hafren a Gwent yn neilltuol yn bwysig iawn ar gyfer yr Hwyaen Lydanbig, gyda blaentraeth Llanbedr Gwynllŵg a Gwlypdir Casnewydd yn cynnal poblogaethau o Bwysigrwydd Cenedlaethol.⁴⁷ Yn y mewndir yng Ngwent, mae'r Hwyaen Lydanbig yn ymwelydd blynyddol, ond dim ond mewn niferoedd fach y'u cofnodir fel arfer, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd efallai y safle gorau. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Hwyaen Lydanbig yn rhan cymharol gyffredin a phwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf. Cynyddodd niferoedd mewn cyfnodau diweddar, ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ac mae'n debyg ei fod oherwydd rhesymau tebyg – y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw bod llai o adar yn ymfudo i Ffrainc/Sbaen ac yn treulio'r gaeaf ymhellach i'r gogledd yn y Deyrnas Unedig fel ymateb i aeafau cyffredinol fwynach. Ni fu'r Hwyaen Lydanbig yn gyffredin mewn unrhyw fodd, ac mae'n debyg na fuont erioed yn ymwelwyr rheolaidd, fel rhywogaeth bridio yng Ngwent. Y canolbwynt ar gyfer gweithgaredd bridio blaenorol fu gwahanol leoliadau ar y Gwastadeddau.⁴⁷ Mae'n debygol y bydd yr Hwyaen Lydanbig yn parhau i fridio'n gyfnodol ar y Gwastadeddau, er nad oes dim i awgrymu y caiff poblogaethau bridio mwy eu sefydlu.

Mae cofnodion yn canolbwyntio gan fwyaf ar hyd arfordir Aber yr Hafren; mae cofnodion achlysurol yn y mewndir, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd yn ffocws a rhai mewn cyrff dŵr mewndirol eraill amrywiol, gydag efallai beth ffocws ar ardal yr Afon Wysg.

*Dosbarthiad cofnodion yr
Hwyaden Lydanbig ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm ≥ 100
cofnod/km²)*



*Cofnodion yr Hwyaden Lydanbig yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Hwyaen Lydanbig yn bendant iawn yn aderyn arfordir Aber yr Hafren, gyda niferoedd bach yn y mewndir mewn gwahanol gyrff dŵr.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd amlwg ym mhoblogaethau gaeafu yr Hwyaen Lydanbig o fewn y Deyrnas Unedig; ni fu Gwent yn ddim gwahanol. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth sy'n gaeafu yng Ngwent yn gadarn ar hyn o bryd ac yn dal i fod o arwyddocâd mawr, gyda dau Safle Cenedlaethol Bwysig yng nghyffiniau Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn i fonitro'r poblogaethau, yn neilltuol wrth i ymchwiliadau barhau i argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren. Byddai angen craffu mwy ar effeithiau posibl y rhain ar boblogaethau gaeafu yr Hwyaen Lydanbig, ynghyd â rhyddidion ac adar dŵr eraill.³⁸

Rhoddir manylion islaw o'r niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS. Dengys y graff fod y boblogaeth yn cynyddu'n gyffredinol, gyda chynnydd amlwg ar ddechrau'r 21fed ganrif, efallai oherwydd sefydlu'r ail boblogaeth gaeafu Cenedlaethol Bwysig yng Ngwlypdir Casnewydd. Ar ôl hyn, bu gostyngiad yn y niferoedd yn weddol gyflym ond ymddengys iddynt sefydlodi ar lefel uwch nag yn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren), yn hytrach na Gwent Gyfan i gyd.

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.


Cyfrifiadau brig y gaeaf WeBS ar gyfer yr Hwyaen Lydanbig ar Aber yr Hafren²⁴



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n annhebyg y bydd y Hwyaen Lydanbig yn ddim byd mwy nag aderyn bridio prin a chyfyngedig iawn yng Ngwent. Fodd bynnag, gyda sefydlu Gwlypdir Casnewydd, efallai fod posibilrwydd y daw'r Hwyaen Lydanbig yn fridwyr blynyddol mewn niferoedd isel iawn.

Gwarchodaeth: Daw 95% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, ynghyd â nifer uchel o gofnodion o Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd, a hefyd rai o Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn ardal Blaenau'r Cymoedd ac yn ymyl yr Afon Wysg.

Cofnodion Hwyaen Lydanbig o safleoedd a warchodir



Giach Cyffredin *Gallinago gallinago* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

Statws cadwraeth: Oren (DU¹ a Cymru²)

Data ar gael: Da (2095 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Giach Cyffredin ar gael yn eang o fewn y Deyrnas Unedig, fel aderyn bridio a hefyd aeafu. Mae'n llai clwm i'r arfordir na llawer o'n rhydyddion eraill, gan fod yn aderyn y rhostir llaith, glaswelltir corsiog a gwlypdiroedd gyda thyfiant da, er fod mwy o adar yn yr arfordir yn ystod y gaeaf.



Andy Karran

Maent yn amlwg fwy cyffredin fel aderyn gaeafu, fodd bynnag maent hefyd yn galw heibio pan fyddant yn ymfudo ac mae niferoedd sylweddol yn aros i fridio. Mae hyn yn golygu fod y Giach Cyffredin yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.²⁵ Mae'r Giach Cyffredin yn bridio mewn lleoedd llaith, yn cynnwys dolydd/glaswelltir corsiog ar dir isel, fodd bynnag yr ucheldir/rhostir yw eu cadarnle.^{49,50} Mae diet y Giach Cyffredin yn cynnwys infertebratau bach, yn cynnwys pryfed genwair a larfa pryfed⁵⁰ a defnyddiant eu pig hir i'w dal.⁵¹ Maent yn neilltuol o adnabyddus am eu hediad arddangos yn ystod y tymor bridio, lle maent yn gwneud sŵn drymio neilltuol yn defnyddio plu eu cynffonau.⁵¹ Dylid nodi y cânt eu hystyried fel 'aderyn hela' ac y cânt eu saethu yn y Deyrnas Unedig (y tymor agored yw 12 Awst i 31 Ionawr).⁵² Bu gostyngiad mewn niferoedd bridio yn y Deyrnas Unedig o 79% rhwng 1970 a 2017.¹¹ Ychydig o wybodaeth sydd ar dueddiadau Giach Cyffredin sy'n gaeafu, er ei bod yn bosibl y dylai'r niferoedd gaeafu fod wedi gostwng i ryw raddau, er y daw llawer o'n hadar gaeafu o boblogaethau bridio o lawer ymhellach i'r gogledd a'r dwyrain⁵⁰.


Rhagolygon: Roedd y Giach Cyffredin eisoes yn dioddef o ostyngiadau yn y 19fed ganrif oherwydd draeniad, adfer tir, llocio tir amaethyddol llawr gwlad³² a'r niferoedd enfawr oedd yn cael eu saethu.³² Fodd bynnag, newidiodd pethau a chynyddodd poblogaethau bridio ar ddechrau'r 20fed ganrif, gan sefydlogi yn y 1930au/40au. Credid fod hyn oherwydd dirwasgiad mewn amaethyddiaeth a gostyngiad mewn saethu. Fodd bynnag daeth dirywiad yn amlwg eto yn 1950au a daliodd hynny i fynd oherwydd y golled barhaus o gynefin.³² Amcangyfrifwyd fod y boblogaeth bridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 66,500 pâr.⁴ Mae hyn yn llai nag oedd yn hanesyddol gyda'r dirywiadau wedi ei achosi gan ddraeniad cynefinoedd gwlypdir. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, bu gostyngiad o 79% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'strong decline'). Fodd bynnag, bu cynnydd diweddar o 36% (a ddisgrifiwyd fel dirywiad cryf) rhwng 2012–2017,⁵² er bod hyn yn adferiad o lefelau llawer is. Mae Arolwg Adar Bridio y BTO⁸ yn cadarnhau ymhellach y cynnydd mwyaf diweddar, gyda chynnydd o 26% rhwng 1995–2018 yn y Deyrnas Unedig. Yn fwyaf diweddar, fodd bynnag, mae arwyddion nad yw popeth yn dda, gyda gostyngiad o 9% yn 2008–2018 a gostyngiad o 20% yn 2018–2019.⁴

Mae'r boblogaeth aeafu yn fwy (110,000 yn 2004–2005)⁴ ac wedi ei ddosbarthu'n eithaf da ledled y Deyrnas Unedig, gyda llawer o'r Giach Cyffredin bridio y Deyrnas Unedig yn breswyl. Fodd bynnag, mae mewnllif sylweddol o ogledd Ewrop. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael i farnu tueddiadau yn y boblogaeth aeafu.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Gïach Cyffredin yn 'fairly common winter visitor; uncommon breeder'.⁸ Fel hyn y bu ers amser maith, ond gyda'r niferoedd bridio yn gostwng i ryw raddau dros gyfnod: cofnododd The Birds of Gwent bod y Gïach Cyffredin yn 'winter visitor in moderate numbers; a small and probably decreasing, breeding population' yn 2008⁵³ ac yn 'resident breeder and winter visitor' yn 1977.⁵⁴ Mae The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981–1985 yn amcangyfrif nad yw'r boblogaeth yng Ngwent efallai yn fwy na 50 pâr;⁵⁵ amcangyfrifodd yr ail atlas (1998-2003) gyfanswm o tua 20 pâr.⁸ Mae hyn yn awgrymu gostyngiad mewn poblogaeth. Mae bridio yng Ngwent bellach wedi ei gyfyngu bron yn llwyr i safleoedd ucheldir a ffafrir yng ngogledd y sir, gyda'r colledion mwyaf mewn safleoedd llawr gwlad ac ystyrir bod dwysau amaethyddol a draeniad tir yn gyfrifol (fel ag yng ngweddill y Deyrnas Unedig). Mae The Birds of Gwent diweddaraf (2008) yn dweud fod Trefil a Chors Waunafon yn safleoedd pwysig.⁵³ Ar adegau eraill o'r flwyddyn, mae'r Gïach Cyffredin ar gael yn helaeth o fewn Gwent, gyda niferoedd amlwg yn agos at yr arfordir; Aber yr Hafren yw'r pedwerydd safle pwysicaf ar gyfer gaeafu'r Gïach Cyffredin yn y Deyrnas Unedig.⁵³

Y brif ganolfan cofnodi yw Goldcliff (441 cofnod). Mae hefyd niferoedd wedi yn Llanbedr Gwynllŵg, Gwlypdir Casnewydd, Llyn Rhaslas, Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Llynnoedd Garn, Nant Nedern a Llaneirwg a Chei Mawr Rhymni. Mae'n debyg fod y ganolfan yn Swydd Gaerloyw yn un ffug oherwydd canoli cofnodion niferoedd isel. Yn gyffredinol, mae'r Gïach Cyffredin yn llawer mwy eang ar draws yr ardal na'n rhydyddion eraill mwy arfordirol.

*Dosbarthiad cofnodion y
Giach Cyffredin ar draws
Gwent Fwyaf
(uchafswm ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion y Giach Cyffredin yn ôl
degawdau*




Patrymau cynefin: Mae'r Giach Cyffredin yn bendant iawn yn aderyn glaswelltir gwlyp, ar rostir llaith yn yr ucheldir fel aderyn bridio ac yn fwy eang yn ystod y gaeaf gyda thueddiad arfordirol.

Tueddiadau poblogaeth: Mae'n anodd canfod tueddiadau ar gyfer poblogaeth gaeafu y Deyrnas Unedig ond byddai'n ymddangos yn fwy sefydlog na'r boblogaeth fridio. Ymddengys hyn hefyd yn wir yng Ngwent. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn i fonitro poblogaethau. Er yn llai arwyddocaol nag ar gyfer llawer o'n rhydyddion eraill, byddai angen craffu'n agos ar effaith bosibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaethau'r Giach Cyffredin sy'n gaeafu.³⁸

Dylid nodi y rhoddir rhai cyfrifiadau blynyddol fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif. Felly, mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth ar y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach nag yng Ngwent Fwyaf i gyd.

Cyfrifiadau brig gaeaf WeBS ar gyfer y Giach Cyffredin ar Aber yr Hafren²⁴




Mae 14 safle WeBS arall yng Ngwent wedi cofnodi Giach Cyffredin, yn bennaf mewn niferoedd bach; mae'r cyfartaledd 5-mlynedd uchaf tu allan yr aber yn Machine Pond, gyda naw cofnod.

Mae niferoedd bridio y Giach Cyffredin wedi gostwng yng Ngwent, gyda chofnodion bridio yn awr bron yn gyfangwbl o'r ucheldir. Byddai cynyddu niferoedd yng Ngwent yn golygu y byddai angen newidiadau rheoli safleoedd a fedrai fod yn addas. Gellid adolygu rheoli ucheldiroedd helaeth i geisio eu gwneud yn fwy addas i'r Giach Cyffredin sy'n bridio. Gallai newidiadau mewn pwysau pori a blocio sianeli draeniad i wneud ardaloedd o'r ucheldir yn fwy llaith (fyddai hefyd â manteision atal llifogydd) helpu i hybu poblogaeth fridio y Giach Cyffredin.⁵⁶

Gwarchodaeth: Daw 95% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o safleoedd amlwg tebyg i Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwlypdir Gwent, Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd gydag ychydig o SSSI Keepers Pond (y Blorens) a Chors Nelson. Daw cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Llynnoedd Garn, Pwll Peiriant, Parc Nant y Waun a The Moorings. Mae hefyd gofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) gwasgaredig, gyda niferoedd o amgylch Garn yr Erw a Chomin Gelligaer.

Cofnodion y Giach Cyffredin o safleoedd a warchodir



Rhegen Ddŵr *Rallus aquaticus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Gwyrdd (DU¹), Gwyrdd (Cymru²)

Data ar gael: Isel (554 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Rhegen Ddŵr yn swil ac yn cuddio yn ei gynefin mewn gwlypdir. Mae hyn yn ei wneud yn anodd ei weld ac yn rhwydd ei diystyru. Maent yn cael eu clywed yn hytrach na'u gweld fel arfer, gan wneud pob mathau o synau od o'n ddwfn o fewn gwelyau cyrs, gyda'r synau hyn yn amrywio o 'foc bach yn gwichian' i 'wiwerod bodlon yn canu grwndi'.⁵⁷



Andy Karran

Mae'r rhan fwyaf o Regod Dŵr bridio y Deyrnas Unedig yn breswyl, fodd bynnag mae mewnlif amlwg o adar yn y gaeaf.⁵⁸ Mae'r Rhegen Ddŵr sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu dosbarthu'n eang ond yn denau ac maent yn absennol o'r ucheldir. Maent yn fwyaf niferus yn nwyrain Lloegr ac ar hyd arfordir de Lloegr, lle mae cynefin addas ar gael.⁵⁸ Maent yn fwy niferus yn ystod y gaeaf oherwydd mewnlif adar o dir mawr Ewrop.⁵⁸ Mae'r Rhegen Ddŵr yn hollysol ond yn bennaf yn bwyta deunydd anifeiliaid, a gaiff ei ddal yn defnyddio eu pigau hir mewn dŵr bas.⁵⁷ Mae ystadegau poblogaeth ar gyfer y rhywogaeth anodd ei weld, anodd ei arolygu yma yn gymharol brin. fodd bynnag, dengys gwefan BTO⁵⁷ yn dilyn gostyngiad bach rhwng 1969 a 1995, fod y boblogaeth wedi hynny wedi bod yn sefydlog gan bennaf.


Rhagolygon: Roedd y Rhegen Ddŵr ar gael yn eang ar ddiwedd y 19eg ganrif ac ystyrid eu bod yn adar bridio cyffredin mewn llawer o rannau'r Deyrnas Unedig.³² Er hyn, ystyriwyd ei fod dan rywfaidd o bygythiad, gyda draeniad tir yn effeithio ar gynefinoedd bridio a gaeafu.³² Arweiniodd hyn ynghyd â saethu a chasglu wyau at ostyngiad mewn niferoedd, er mai dim ond yn y 1960au yr arweiniodd hyn at fylchau amlwg a sylweddol i'w gweld yn nosbarthiad bridio y Rhegen Ddŵr yn y Deyrnas Unedig.³² Wedyn bu peth ail-gytrefu ar ardaloedd a adawyd, gan ddefnyddio hen gamlesi a phyllau gro, a chreu gwlypdiroedd ar warchodfeydd natur.³² Nodwyd fod dosbarthiad tebyg rhwng atlasau adar 1968–72 a 1988–91, er bod y niferoedd wedi gostwng ar draws y cwmpas,³² fel y soniwyd yn y cynnydd bach a nododd y BTO rhwng 1969 a 1995.⁵⁷ Ers hynny bu niferoedd yn sefydlog gan fwyaf, gydag efallai ryw ostyngiad bach, fel y nodwyd gan arolwg WeBS: ²⁰ gostyngiad bach o 3% yn y Deyrnas Unedig i gyd (6% yng Nghymru) rhwng 2007/08 a 2017/18. Y boblogaeth fridio gyfredol (2016) yw 3,900 pâr.⁴ Dylid nodi yr arferai'r Rhegen Ddŵr fod ar y rhestr Oren oherwydd crebachu mewn cwmpas, mae'n awr ar y rhestr Wyrdd, gan adlewyrchu sefydlogi y boblogaeth.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Rhegod Dŵr yn 'uncommon winter visitor and very scarce breeder'.⁸ Bu hyn yn wir ers cryn amser, ond mae'r debyg fod y nifer wedi cynyddu ers sefydlu Gwlypdir Casnewydd. Cofnododd The Birds of Gwent fod y Rhegen Ddŵr yn 'an uncommon winter visitor a resident', gan amcangyfrif fod 30 pâr yn 2008;⁵⁹ ac yn 1977 ei fod yn 'breeds in small numbers with an influx of visitors during the winter'.⁶⁰ Mae The Gwent Atlas of Breeding Birds sy'n cwmpasu'r cyfnod 1981-1985 yn amcangyfrif fod poblogaeth Gwent yn 2 pâr tebygol a 11 pâr posibl.⁵⁹ Nododd yr ail atlas hefyd fod bridio bron yn llwyr ar Wastadeddau Gwent, gyda chadarnle yng Ngwlypdir Casnewydd; cynyddodd nifer y parau yn fawr gyda sefydlu'r gwelyau cyrs, o 2-3 pâr yn 1996 i 20-24 yn 2005.⁵⁹ Mae hyn yn awgrymu cynnydd yn y


boblogaeth, er yn un sydd wedi ei ganolbwyntio'n bennaf ar un ardal Mae cofnodion gaeaf yng Ngwent yn fwy eang ac yn cynnwys llynnoedd bach a Chamlas Sir Fynwy-Aberhonddu ⁶⁰

Y prif ganolfannau cofnodi yw Gwlypdir Casnewydd, ynghyd â Goldcliff, Cors Magwyr a Llaneirwg.

*Dosbarthiad cofnodion y
Rhegen Ddŵr ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm
 ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion y Rhegen
Ddŵr yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Rhegen Ddŵr yn cael ei gysylltu'n agos iawn gyda thyfiant trwchus, corslyd gyda gwelyau cyrs yn cael eu ffafrio'n neilltuol.

Tueddiadau poblogaeth: Mae poblogaeth y Rhegen Ddŵr yn awr yn ymddangos yn gymharol sefydlog. Y gwelyau cyrs yng Ngwlypdir Casnewydd yw cadarnle y rhywogaeth ac mae wedi arwain at i niferoedd bridio a gaeafu fod yn uwch na chyn ei sefydlu. Cyn belled â bod yr ardal hon yn parhau i gael ei rheoli'n addas, byddai poblogaeth y Rhegen Ddŵr yng Ngwent yn ymddangos yn ddiogel. Gallai creu cyrff dŵr ychwanegol a rheoli addas ar y rhwydwaith enfawr o ffosydd draenio gynorthwyo cynnydd pellach yn y boblogaeth.

Gwarchodaeth: Daw 76% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, ynghyd â nifer fawr o gofnodion o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwynt (yn arbennig Cors Magwyr) a Llandegfedd. Roedd cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Barc St Julian a chofnodion SINC o The Moorings ac ychydig o leoedd eraill.

Cofnodion y Rhegen Ddŵr o safleoedd a warchodir



Alarch y Gogledd *Cygnus cygnus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

Statws cadwraeth: Oren (DU¹), Gwyrdd (Cymru²)

Data ar gael: 33 (Gwael)

Cyd-destun: Mae Alarch y Gogledd yn eithaf cyffredin o fewn y Deyrnas Unedig fel gofod gaeafu. Fodd bynnag, nid yw pobl lawn mor gyfarwydd â'r rhywogaeth cyfarwydd, yr Alarch Dof. Maent yn fwyaf cyffredin o lawer fel adar gaeafu, gyda dim ond nifer fach iawn yn aros i fridio. Mae hyn yn golygu bod



Andy Karran

Alarch y Gogledd yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.²⁵ Maent yn un o lu mawr o rywogaethau 'adar dŵr' sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig mewn cryn niferoedd gyda dim ond nifer cymharol fach yn aros i fridio. Mae'r nifer fach o Elyrch y Gogledd sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig yn y gogledd ⁶² Mae'r boblogaeth aeafu fwy yn cyrraedd o'u safleoedd bridio ymhellach i'r gogledd yng Ngwlad yr Iâ ⁶³ Mae gan Alarch y Gogledd ddiet lysieuol, mae'r poblogaeth gaeafu yn bwyta glaswellt wedi'i wella, tatws sydd ar ôl, betys siwgr, gwenith gaeaf a grawn.⁶³ Drwyddi draw yn y Deyrnas Unedig, bu gostyngiad o 210% yng nghyswllt adar gaeafu rhwng 1992 a 2018.²⁰ Mae tueddiadau poblogaeth bridio yn dangos cynnydd cryf gyda chynnydd o 371% dros y 25 mlynedd hyd at 2018, er bod niferoedd bob amser wedi bod, ac yn dal i fod, yn isel iawn.³¹ Dywedwyd fod poblogaeth fridio bresennol y Deyrnas Unedig yn 28 pâr yn y cyfnod 2013–2017.⁶⁴


Rhagolygon: Roedd Alarch y Gogledd bob amser yn aderyn bridio prin yn y Deyrnas Unedig. Ymddengys iddynt ddiflannu fel adar bridio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwedd y 18fed ganrif.³² Dechreuodd fridio eto ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ond roedd yn ysbeidiol iawn tan 1978, ac ar ôl hynny maent wedi bridio'n flynyddol mewn niferoedd bach.³² Nodir fod y boblogaeth fridio bresennol yn y Deyrnas Unedig yn 28 pâr yn y cyfnod 2013–2017.³¹ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach a lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (19,500 yn 2015)⁴ a bu cynnydd sylweddol ynddo: cynnydd o 813% rhwng 1975–2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf), gyda hyn yn parhau mewn cyfnodau mwy diweddar gyda chynnydd o 9% (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf) rhwng 2013–2018.⁶⁵ Mae arolygon WeBS²⁰ yn cadarnhau'r cynnydd hyn i raddau helaeth, gyda chynnydd o 210% yn y Deyrnas Unedig i gyd (67% yng Nghymru) rhwng 1992/93 a 2017/18 a chynnydd o 43% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 a 2017/18. Fodd bynnag, mewn gwirionedd bu gostyngiad o 17% yng Nghymru dros y cyfnod hwn. Mae'r boblogaeth gaeafu i'w chael ledled y Deyrnas Unedig ar aberoedd a gwlypdiroedd, fodd bynnag mae'n lleol.⁶⁶ Mae natur lleol y boblogaeth yn un o'r rhesymau eu bod ar restr Oren y Deyrnas Unedig er y cynnydd yn y boblogaeth.⁶⁶

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod Alarch y Gogledd yn 'rare winter visitor'.⁸ Er na fu erioed yn aderyn cyffredin, mae hyn yn dangos gostyngiad yn y niferoedd gaeafu dros gyfnod (er fod y rhan fwyaf o gofnodion SEWBRc yn y 20 mlynedd ddiwethaf (gweler isod), gyda The Birds of Gwent 2008 yn dweud bod Alarch y Gogledd yn 'a very scarce winter visitor'⁶⁷ yn 2008 ac yn 'fairly regular winter visitor in recent years, though usually only in small numbers' in 1977.⁶⁸ Dylid nodi fod cofnod gyntaf Gwent mor ddiweddar â 1960⁶⁷ Yn gyffredinol, nid


yw Cymru wedi ei bendithio gyda llawer o Elyrch y Gogledd yn gaeafu (mae'r prif safleoedd gaeafu yn yr Alban ac ar yr Ouse Washes), ac mae'r sefyllfa yn debyg yng Ngwent.

Prif ganolfannau cofnodion yw Nant Nedern, Gwlypdir Casnewydd a Llanbedr Gwynllŵg. Nifer fach iawn o gofnodion sydd mewn gwirionedd. Yn ddiddorol, mae clystyrau hanesyddol o gofnodion yn Llysfaen a Phontysticill (ychydig tu allan i ardal yr astudiaeth) ond dim byd yn y naill safle na'r llall ers 1990. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion (73%) o fewn y degawd diwethaf, mae'n debyg wrth i Wlypdir Casnewydd ddatblygu.

*Dosbarthiad cofnodion Alarch
y Gogledd ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm 10 cofnod
/km²)*



*Cofnodion Alarch y Gogledd
yn ôl degawd*



Patrymau cynefin: Fel y disgwyliid gydag alarch, mae'r cofnodion yn gyffredinol o ardaloedd gwlypdir neu gaeau cyfagos.


Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd amlwg ym mhoblogaethau gaeafu Alarch y Gogledd o fewn y Deyrnas Unedig. Bu niferoedd yng Ngwent bob amser yn isel ac felly ni sylwyd ar unrhyw gynnydd. Byddai Alarch y Gogledd yn ymddangos yn fwy prin nawr nag oeddent yn y 1970au. Byddai'n ymddangos fod tueddiad tuag at gofnodion mwy diweddar yng Ngwlypdir Casnewydd, er fod y niferoedd yn fach iawn. Nid yw Gwent, ac yn wir Cymru gyfan, yn ardal bwysig ar gyfer Alarch y Gogledd o fewn y Deyrnas Unedig.

Cyfeiriwyd at Gyfrifiadau WeBS ar Aber yr Hafren ²⁴ ac ychydig o safleoedd eraill yng Ngwent. Mae'r niferoedd mor isel fel na ellir gweld unrhyw batrymau clir, er y gellir nodi mai Aber yr Hafren yw'r sefyllfa a ddefnyddir amlaf, gyda chofnodion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd a chofnodion afreolaidd iawn mewn safleoedd eraill tebyg i Gronfa Ddŵr Llandegfedd, Ynys-y-fro, yr Afon Wysg a Gwndy. Mae cofnod o 25 aderyn yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd yn 1971-72 yn anghyffredin.

Byddai'n ymddangos yn annhebygol y bydd statws poblogaeth gaeafu Alarch y Gogledd yng Ngwent yn newid yn sylweddol yn y dyfodol agos. Nid oes gwir angen unrhyw fesurau penodol i newid hyn, gan yr ymddengys fod poblogaethau y Deyrnas Unedig o Alarch y Gogledd yn bennaf yn gwneud yn dda yn eu hardaloedd craidd ymhellach i'r gogledd a'r dwyrain. Fodd bynnag, bydd sicrhau y caiff ein gwlypdiroedd presennol eu cadw mewn cyflwr da, a lle'n bosibl, gynyddu o ran maint yn sicrhau fod cynefin addas ar gael ar gyfer unrhyw Alarch y Gogledd sy'n crwydro i Went yn y dyfodol.

Gwarchodaeth: Daw 88% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion heb fod yn uchel unrhyw le. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd; cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Nant Nedern, Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd. Mae hefyd un cofnod Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Llyn Rhaslas.

Cofnodion Alarch y Gogledd o safleoedd a warchodir



Chwiwell *Mareca penelope* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

Statws cadwraeth: Oren (DU¹), Oren (Cymru²)

Data ar gael: Da (3,141 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Chwiwell yn rhywogaeth cyffredin o hwyaden yn y Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu, ond efallai'n un y mae pobl yn llai cyfarwydd â hi oherwydd eu hoffter o gynefinoedd gwylltach a'u natur swil. Maent yn fwyaf cyffredin o lawer fel aderyn gaeafu, ond maent hefyd yn mynd heibio pan



Andy Karran


fyddant yn ymfudo, er mai dim ond nifer fawr iawn sy'n aros.³ Maent yn un o ystod mawr o rywogaethau hwyaid sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig gyda dim ond nifer cymharol fach yn aros i fridio. Mae'r Chwiwell sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu cyfyngu i ganol a gogledd yr Alban a hefyd ogledd Lloegr.⁶² Mae niferoedd llawer mwy yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig, gydag adar yn dod o leoedd mwy gogleddol tebyg i Wlad yr Iâ, gwledydd Llychlyn a Rwsia.⁶² Diet lysieuol sydd gan y Chwiwell, a chânt lawer o'u bwyd drwy bori.⁶³ Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, bu cynnydd o 146% mewn adar gaeafu rhwng 1975 a 2018.¹¹ Gall y cynnydd yn y nifer sy'n gaeafu fod yn ymateb i aeafau mwynach, yn golygu bod mwy o Chwiwellod yn gaeafu ymhellach i'r gogledd. Mae'n anodd canfod tueddiadau poblogaeth bridio, ond rhan o'r rheswm pam fod y Chwiwell ar y rhestr Orren yw cwmpas diweddar mewn niferoedd bridio a chwmpas. Byddai'n ymddangos fod hyn yn wir, gydag amcangyfrif o ddim ond 200 pâr yn 2012–2017,⁴ o gymharu gyda 350 pâr ar ddiwedd y 1960au a 300–500 pâr ar ddechrau'r 1970au.⁶⁴

Rhagolygon: Ni chofnodwyd y Chwiwell yn bridio yn y Deyrnas Unedig tan 1834, pan ganfuwyd nyth yn yr Alban.³² O hynny ymlaen byddai'n ymddangos fod y Chwiwell wedi lledaenu i'r de drwy ganol yr Alban nes iddynt gytreffu gogledd y Pennines erbyn y 1930au. Daeth yr ehangu i'r de i ben yno, a gall fod cofnodion bridio ymhellach i'r de fod wedi cysylltu gydag adar wedi dianc/cael eu rhyddhau.³² Nid oedd yr amcangyfrif o boblogaeth fridio y Deyrnas Unedig erioed yn fawr, a roedd tua 200 pâr yn 2012–2017.⁴ Ymddengys fod hyn yn ostyngiad ar y 300–500 pâr a amcangyfrifwyd ar ddechrau'r 1970au.⁶⁴ O gymharu gyda'r boblogaeth fridio fach a lleol iawn, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (450,000 yn 2012/13–2016/17)⁴ a bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd: cynnydd o 146% rhwng 1975 a 2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd gwan), gyda hyn yn parhau mewn cyfnodau mwy diweddar gyda chynnydd o 6% (a ddisgrifiwyd fel 'weak increase') rhwng 2013–2018.¹¹ Mae arolygon WeBS²⁰ i raddau helaeth yn cadarnhau'r cynnydd hwn, gyda chynnydd o 12% yn y Deyrnas Unedig i gyd (57% yng Nghymru) rhwng 1992/93 a 2017/18 a gostyngiad bach o 3% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 a 2017/18 (cynnydd o 7% yng Nghymru). Cafodd y boblogaeth gaeafu ei dosbarthu'n eang ledled y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio'r arfordir a hefyd gyrff dŵr croyw i raddau llai. Fodd bynnag, mae canran sylweddol o'r Chwiwell wedi crynhoi o fewn nifer cymharol fach o safleoedd a gaiff eu ffafrio; mae 50–60% o boblogaeth gaeafu'r Deyrnas Unedig i'w cael mewn deg neu lai o safleoedd.⁶³


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi bod y Chwiwell yn 'fairly common winter visitor'.⁸ Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda'r boblogaeth yn cynyddu: cofnododd The Birds of Gwent fod y Chwiwell yn 'a common and increasing winter visitor and passage migrant; rare in summer'⁶⁵ yn 2008 ac fel ymwelydd gaeaf mewn cryn niferoedd yn 1977.⁶⁶ Dylid nodi fod The Birds of Gwent 1977 yn sôn am fridio yng Ngwent rhwng 1965–1968,⁶⁶ fodd bynnag cafodd y cofnodion hyn eu gwrthod yn rhifyn 2008,⁶⁵ gan nad oedd tystiolaeth gadarn drostynt. Nodwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn i'r Chwiwell, gyda phoblogaethau o Bwysigrwydd Cenedlaethol.³⁶ Mae'r Chwiwell a geir o fewn Gwent yn ffurfio rhan sylweddol o'r poblogaethau hyn, yn arbennig y rhai ar y forfa heli yn Goldcliff, lle'r oedd 2,260 Chwiwell ym mis Rhagfyr 2005.⁶⁵ Mae nifer lai, ond yn dal yn bwysig, i'w cael mewn safleoedd eraill ar hyd yr arfordir. Bu arfordir Gwent bob amser yn safle pwysig i'r Chwiwell, fodd bynnag arferai Cronfa Ddŵr Llandegfedd fod y safle pwysicaf yng Ngwent ac mae ganddo statws SSSI ohewydd ei boblogaeth gaeafu o adar dŵr. Cafodd y gronfa ddŵr ei chodi yn 1963 ac erbyn 1967/68 roedd wedi dod y prif safle yng Ngwent.⁶⁵ Parhaodd felly drwy gydol y 1970au a llawer o'r 1980au, gyda'r niferoedd yn cyrraedd brig o 2,000 aderyn (y cyfrif uchaf yn cyd-daro gyda tywydd difrifol).⁶⁵ Bu gostyngiad mawr yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd ar ôl 1986/87⁶⁵ fodd bynnag gyda chyfrif WeBS yn awr fel arfer tua 200 aderyn.²⁴ Defnyddir cyrff dŵr mewndirol eraill, gyda The Birds of Gwent 2008 yn sôn am gaeau dan lifogydd ger yr Afon Wysg a nifer o gronfeydd dŵr eraill⁶⁵ a Gwent Bird Report 2018 yn sôn am gyfres o gyrff dŵr.⁸ Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Chwiwell yn rhan gyffredin a phwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren yn ystod y gaeaf. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol mewn cyfnodau diweddar ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw ac mae efallai oherwydd fod mwy o adar yn gaeafu ymhellach i'r gogledd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i aeafau cyffredinol fwynach.

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw Llanbedr Gwynllŵg a Goldcliffe. Safleoedd eraill gyda chofnodion da yw Gwlypdir Casnewydd, Pil Collister, Gwlypdir Nant Nedern, Llandegfedd a Llyn Rhaslas.

*Dosbarthiad cofnodion y
Chwiwell ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm ≥ 100
cofnod)*



Cofnodion y Chwiwell yn ôl degawd




Patrymau cynefin: Mae'r Chwiwell yn bendant iawn yn aderyn Aber yr Hafren, fodd bynnag mae nifer dda ohonynt hefyd yn bresennol mewn nifer o safleoedd mewndirol, yn fwyaf arbennig Gronfa Ddŵr Llandegfedd.


Tueddiadau poblogaeth: Bu cynnydd amlwg ym mhoblogaethau'r Chwiwell sy'n gaeafu o fewn y Deyrnas Unedig; nid yw Gwent yn ddim gwahanol. Er y bu gostyngiad yn y nifer yn y brif safle gaeafu (Cronfa Ddŵr Llandegfedd) yn niwedd y 1980au, mae cynnydd yn nifer ym morfa heli Goldcliff (rhan o safle Gwlypdir Casnewydd) wedi mwy na gwneud iawn am hyn. Ymddengys fod poblogaeth y Chwiwell sy'n gaeafu yng Ngwent ar hyn o bryd yn ddiogel a'i fod yn dal yn bwysig iawn fel rhan sylweddol o'r boblogaeth Cenedlaethol Bwysig yn Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn i fonitro'r poblogaethau, yn arbennig wrth i ymchwiliadau barhau i argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren. Byddai'n rhaid craffu'n agos ar effeithiau posibl y rhain ar boblogaethau gaeafu y Chwiwell.³⁸

Dangosir manylion y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrif WeBS isod.²⁴ Mae'r rhain yn dangos poblogaethau cyffredinol sefydlog/gynyddol, er y bu rhai gostyngiadau. Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn dilyn creu Gwlypdir Casnewydd ar ddechrau'r 21ain ganrif yn amlwg. Dyma'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach nag yng Gwent Fwyaf. Caiff Cronfa Ddŵr Llandegfedd hefyd ei chynnwys ar gyfer cymharu ac ar wahân yn ei ffigur ei hun ac mae'n dangos yn amlwg iawn y dirywiad mawr yn dilyn gaeaf 1986/87.

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafswm yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.




Cyfrif brig WeBS y Gaef ar gyfer y Chwiwell yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd²⁴



Fel y nodwyd yn flaenorol, er nad oes adroddiadau o fridio yn y 1960au, ystyrir bellach ei bod yn annhebyg fod y Chwiwell wedi bridio, ac nid oes unrhyw reswm dros gredu eu bod yn debygol o fridio yng Ngwent, gan fod poblogaeth fridio fach y Deyrnas Unedig yn llawer pellach i'r gogledd.

Gwarchodaeth: Daw 86% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAR) Aber yr Hafren, ynghyd â nifer fawr o gofnodion o Warchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd. Daw cofnodion Gwarchodfa Natur Lleol (LNR) o Barc St Julians, Llynnoedd Garn, Llynnoedd Beaufort a Pharc Bryn Bach ac mae hefyd rai cofnodion SINC o leoedd tebyg i Lyn Rhaslas, Cronfa Ddŵr Ynys-y-Fro, Cronfa Ddŵr Parc, Parc Cwm Darren a Phwll Semtex, yn ogystal â rhai ar ymylon yr Afon Wysg.

Cofnodion y Chwiwell o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3–31.
3. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/bittern/threats/>
4. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/aep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
5. <https://community.rspb.org.uk/getinvolved/wales/b/wales-blog/posts/aderyn-y-bwn-wales-malltraeth-first-time-1984>
6. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 119–120.
7. Gwent Bird Report 2016.
8. Gwent Bird Report 2018.
9. <https://www.birdguides.com/news/bitterns-breed-in-south-wales-for-first-time-in-200-years/>
10. <https://app.bto.org/birdfacts/results/bob12200.htm>
11. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018.
12. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
13. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 261–262.
14. Tyler S ac Ormerod S a Lewis J. 2009. The Post-Natal and Breeding Dispersal of Welsh Dippers *Cinclus cinclus*. *Bird Study* 37: 18–22. 10.1080/00063659009477032.
15. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 261–262.
16. BTO, JNCC & RSPB. 2019. The Breeding Bird Survey 2019 incorporating the Waterways Breeding Bird Survey 9.
17. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/little-egret/>
18. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/herons-egrets-and-spoonbill/little-egret>
19. Robinson RA. 2005. BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (agorwyd ar 16 December 2020).
20. Frost TM, Calbrade NA, Birtles GA, Mellan HJ, Hall C, Robinson AE, Wotton SR, Balmer DE ac Austin GE. 2020. Waterbirds in the UK 2018/19: The Wetland Bird Survey. BTO, RSPB a JNCC, mewn cysylltiad â WWT. British Trust for Ornithology, Thetford.
21. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent.
22. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent.
23. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 121–122.
24. Data Arolwg Adar Gwlypdiroedd (WeBS) o Waterbirds in the UK 2018/19 © hawlfraint a hawl cronfa ddata 2020. Mae WeBS yn bartneriaeth a gaiff ei hariannu ar y cyd gan y BTO, RSPB and JNCC, mewn cysylltiad â WWT, gyda gwirfoddolwyr yn cynnal gwaith maes.
25. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables over 50 years. *Bird Study* 66(2): 159–172. DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360.

26. <http://www.birdfieldguide.co.uk/Pintail.html>
27. Robinson RA. 2005 BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 01 March 2021).
28. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/waterfowl/pintail>
29. <https://www.bto.org/ai/pdfs/71move.pdf>
30. <https://monitoring.wwt.org.uk/2014/07/uk-waterbirds/webs/webs-highlights-decline-of-pintail/>
31. <https://rbbp.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/2018-Report-summary-table.pdf>
32. Holloway S. 1996. The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900. Poyser, London
33. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/pintail/>
34. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 78.
35. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 72.
36. <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5601088380076032>
37. Gwent Bird Report 2014.
38. Musgrove AJ, Rehfisch MM, Clark NA (BTO). 2010. Birds of the Severn Estuary and Bristol Channel: Their Current Status and Key Environmental Issues. Marine Pollution Bulletin 61: 115–123.
39. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/reed-warbler/>
40. Woodward ID, Massimino D, Hammond MJ, Harris SJ, Leech DI, Noble DG, Walker RH, Barimore C, Dadam D, Eglington SM, Marchant JH, Sullivan MJP, Baillie SR a Robinson RA. 2018. BirdTrends 2018: Trends in Numbers, Breeding Success and Survival for UK Breeding Birds. Research Report 708. BTO, Thetford: www.bto.org/birdtrends
41. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 290–292.
42. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 121.
43. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 103.
44. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/shoveler/>
45. Robinson RA. 2005. *BirdFacts*: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (agorwyd ar 15 Rhagfyr 2020).
46. Kirby JS a Mitchell C. 1993. Distribution and Status of Wintering Shovelers *Anas clypeata* in Great Britain. Bird Study 40(3): 170–180. DOI: 10.1080/00063659309477180.
47. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 166.
48. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 96–97.
49. Massimino D, Woodward ID, Hammond MJ, Harris SJ, Leech DI, Noble DG, Walker RH, Barimore C, Dadam D, Eglington SM, Marchant JH, Sullivan MJP, Baillie SR and Robinson RA. 2017. Bird Trends 2017: Trends in Numbers, Breeding Success and Survival for UK Breeding Research Report 704. BTO, Thetford: www.bto.org/birdtrends
50. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/snipe/>
51. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/wading-birds/snipe>
52. <https://www.gwct.org.uk/game/advice/shooting-season-dates/>
53. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 170–172.
54. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 90.

- 55. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 55.
- 56. <https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-and-sustainability/farming/advice/helping-species/snipe/>
- 57. Robinson RA. 2005. Bird Facts: Profiles of Birds Occurring in Britain and Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 17 December 2020).
- 58. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/water-rail/>
- 59. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 142–143.
- 60. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 85.
- 61. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 45.
- 62. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/wigeon/>
- 63. <https://www.waterfowl.org.uk/wildfowl/true-ducks/eurasian-wigeon/>
- 64. Myrfyn O a Mitchell C. 1988. Movements and Migrations of Wigeon Anaspenelope Winteringin Britain and Ireland. Bird Study 35(1): 47–59: DOI: 10.1080/00063658809476979.
- 65. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 72–73.
- 66. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 71.


Boda Tinwyn *Circus cyaneus* (Linnaeus, 1766)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

Statws cadwraeth: Coch (DU¹ a Cymru²)
Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (245 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Boda Tinwyn yn breswyl yn y Deyrnas Unedig, gyda'r niferoedd yn cael eu cynyddu o dir mawr y cyfandir yn ystod y gaeaf. Mae'n aderyn o rostir grubg ucheldir yn ystod y tymor bridio, ond fe'i gwelir yn fwy aml yn yr ardaloedd llawr gwlad ger yr



arfordir yn y gaeaf.³ Maent yn adar ysgyflaethus a dywed yr RSPB mai mamaliaid bach yw 95% o'u diet. Maent yn bwyta cyfran lai o adar,⁴ ond mae'n dal i fod yn bosibl fod adar bach yn ffurfio rhan fwy o'u diet na 5%. Mae'r ffaith eu bod yn cymryd adar ac yn bresennol ar ddyddiau saethu, yn cadw'r Grugiar Goch rhag hedfan, yn dod i wrthdaro gyda chiperiaid ar rostir grubgieir, gan eu gwneud yn o'r rhywogaethau adar a gaiff eu herlid fwyaf.⁵ Mae hyn, ynghyd â'u bregusrwydd i ysglyfaethwyr gan eu bod yn nythu ar y ddaear,⁵ wedi arwain at i'w lefelau poblogaeth barhau'n isel. Yn ychwanegol, mae amrywiadau naturiol yn y poblogaethau llygod hefyd yn cael dylanwad ar boblogaethau Boda Tinwyn o flwyddyn i flwyddyn.


Rhagolygon: Roedd y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig hyd at 1830 yn eithaf eang. Fodd bynnag, roedd colli cynefin yn gyfrifol am golledion erbyn 1850 ac o hynny tan ddiwedd y 19eg ganrif, gydag erledigaeth gan giperiaid wedi cyflymu hyn, gan arwain at i'r boblogaeth gael ei chyfyngu fwy neu lai i ynysoedd pellennig erbyn 1900.⁶ Bu rhywfaint o adferiad mewn poblogaethau ers 1940.⁶ Bu'r darlun yn gymysg yn y 25 mlynedd ddiwethaf, gyda chynnydd a chrebachu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, a chynnydd bach yn gyffredinol.⁷ Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, diflannodd y Boda Tinwyn bron yn llwyr yn Lloegr.⁸ Dim ond yn Ynysoedd Heledd a'r Orkneys yn yr Alban y mae'r Boda Tinwyn wedi parhau i fod â phoblogaeth gyson.⁶ Mae'r boblogaeth fridio gyfredol (2016) yn 545 pâr⁹ gyda chyfran fawr ohonynt yn yr Alban.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi bod y Boda Tinwyn yn 'scarce passage migrant and winter visitor',¹⁰ a byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser. Yn 2008 cofnododd The Birds of Gwent fod y Boda Tinwyn yn 'scarce passage migrant and winter visitor'¹¹ ac yn 1977 yn 'uncommon winter visitor and passage migrant'.¹¹ Nid oedd hyn bob amser yn wir fodd bynnag gyda Birds of Monmouthshire 1963 ond yn rhestru pedair cofnod flaenorol.¹¹ Bu cofnodion bron yn flynyddol ers canol y 1960au¹¹ ac yn wir maent bron yn awr yn flynyddol, gydag er enghraifft 17 cofnod yn 2018, 7 yn 2017, 28 yn 2016 a 32 yn 2015.¹⁰ Mae'r ffaith i The Gwent Bird Report o 2007 ddweud iddi fod yn flwyddyn rhagorol ar gyfer y rhywogaeth hon gyda chwe chofnod yn dangos sut mae niferoedd wedi cynyddu'n gyffredinol mewn blynyddoedd diweddar.¹² Nid oes bron ddim cofnod o'r Boda Tinwyn fel adar bridio yng Ngwent, fodd bynnag gall bridio yn 1975 fod wedi bod dros y ffin ym Mhowys; cofnodwyd bridio posibl ar Fynydd Garn-clochdy mewn dwy


flwyddyn yn olynol yn y 1990au.¹⁰ Mae dosbarthiad cofnodion yng Ngwent yn adlewyrchu dewisiadau cynefin y Boda Tinwyn o fewn y Deyrnas Unedig, gyda chofnodion yn gyffredinol o naill ai rostir ucheldir neu'r arfordir. Mae tuedd gorllewinol pendant i gofnodion yng Ngwent a phrin gofnod o ardal weinyddol Sir Fynwy (mae cofnodion Sir Fynwy o fewn ardaloedd ucheldir o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, daw cofnodion o arfordir Casnewydd a'r ardaloedd tir uwch yng ngorllewin Gwent.

Mae canolfan drwchus ar dir uchel Mynydd Eglwysilan a nifer o gofnodion yn Llyn Rhaslas, Morlynnoedd Goldcliff a Chors Waunafon, sy'n adlewyrchu addasrwydd cynefin a hefyd y ffaith fod llawer o edrych arnynt.

*Dosbarthiad cofnodion y
Boda Tinwyn ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm 42
cofnod/km²)*



*Cofnodion y Boda Tinwyn
yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae patrymau clir i ddosbarthiad y Boda Tinwyn, gyda thir isel arfordirol Gwastadeddau Gwent a rhostir uchel y safleoedd a ddefnyddiant.

Tueddiadau poblogaeth: Er bod nifer Boda Tinwyn yng Ngwent yn eithaf isel, mae tueddiad cyffredinol pendant at fwy o gofnodion mewn blynyddoedd diweddar. Gellir priodoli hyn yn rhannol i fwy o ymdrech cofnodi, ond mae'n debygol o fod oherwydd cynnydd ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig, gyda gwelliant cyffredinol yng Nghymru, gyda phoblogaethau wedi parhau'n sefydlog yn yr 80au/90au a chynyddu yn y 2000au.¹³ Fodd bynnag mewn blynyddoedd mwy diweddar bu dirywiad yn y boblogaeth, gyda gostyngiad o draean rhwng arolygon cenedlaethol 2010 a 2016.¹⁴ Mae yn sicr safleoedd bridio posibl ar gyfer Boda Tinwyn yng Ngwent, ac er bod poblogaeth yng Nghymru a Boda Tinwyn yn cael eu cofnodi'n flynyddol yng Ngwent, mae potensial iddo fridio o fewn y sir. I hyn ddigwydd, byddai angen ardaloedd rhostir uchel gyda gorchudd da o waun, mewn cyflwr da. Mae hyn yn aml i'w gael ar dir uchel lle mae saethu grugieir, ond maent hefyd yn safleoedd o wrthdaro posibl. Mae angen cadw cysylltiadau da rhwng cyrff cadwraeth a'r gymuned saethu i fridio fod yn llwyddiannus. Dylid croes-gyfeirio'r bennod hon gyda'r bennod ar y Rugiar Goch.

Gwarchodaeth: Cofnodion yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) yw'r rhai a ddaw o fewn Aber yr Hafren neu SAC Ystumod Brynbuga. Y NNR yw Gwlypdir Casnewydd, gyda'r SSSI y rhai ar Wastadeddau Gwent a'r Mynydd Du, gydag ychydig ar y Blorens a Mynydd Llangynidr. Mae ardaloedd SINC yn wasgaredig iawn ar draws yr ucheldir yn Nhorfaen a Chaerffili, yn cynnwys safleoedd megis Coety, Mynydd James a Farteg, a Chefn Gelligaer.

Cofnodion Boda Tinwyn o safleoedd a warchodir



Troellwr Mawr *Caprimulgus europaeus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Oren (DU¹ a Cymru²) UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data Gwent Fwyaf ar gael: Gwael/Cymedrol (344 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Troellwr Mawr yn ymwelydd yn ystod yr haf i'r Deyrnas Unedig ac mae'n treulio ei aeaf mewn glaswelltir prysgldd i dde'r cyhydedd yn Affrica.¹⁵ Mae hyn yn golygu fod y Troellwr Mawr yn fregus i newidiadau yng nghynewid yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio ar y cyfan.¹⁶ Nhw yw ein hunig gynrychiolydd o ystod mawr o rywogaethau 'troellwr mawr' sydd ar gael ym mhob rhan o'r byd. Mae'n aderyn enigmatig, gyda'i gynewid nosol, cân arallfydol a'i gamouflaj yn ymddangos mewn llawer o straeon gwerin. Yn y Deyrnas Unedig mae'r Troellwr Mawr yn bennaf yn aderyn rhostir, bryniau gyda gorchudd rhedyn a choedwigoedd agored, gyda planhigfeydd wedi cwmpo ac ifanc yn fwy diweddar yn dod yn gynefin pwysig. Oherwydd ei gamouflaj gwych a'i arferion nosol, anaml y caiff ei weld pan mae'n ymfudo. Fodd bynnag, mae'n datgelu ei bresenoldeb ar safleoedd preswyl gyda'i alwad sŵn troelli neilltuol. Mae'r troellwr mawr yn bryfysol, gan ddibynnu ar bryfed yn yr awyr, gyda gwyfynod a chwilod yn rhan fawr o'i diet.


Rhagolygon: Roedd y boblogaeth yn eang yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif, gyda bridio ym mhob sir yn y Deyrnas Unedig ar wahân i ynysoedd ac yn neilltuol o gyffredin yn ne Lloegr, Cymru a'r Gororau.⁶ Roedd gostyngiad mawr erbyn y 1930au wrth i golled cynefin barhau a phlanhigfeydd yn aeddfedu.⁶ Arweiniodd dinistr cynefin at ddirywiad mawr yn niferoedd y Troellwr Mawr yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.¹⁷ Roedd y golled yn neilltuol o amlwg mewn ardaloedd mwy gorllewinol, gyda'r Troellwr Mawr wedi diflannu o rai o siroedd Cymru erbyn y 1950au/60au.⁶ Erbyn arolwg 1968–72, roedd y Troellwr Mawr wedi colli hyd yn oed mwy o gwmpas, gan fod wedi diflannu o lawer o'r Alban, Iwerddon, gogledd Lloegr a chanolbarth Cymru.⁶ Cynhaliwyd arolygon penodol ar y Troellwr Mawr dair gwaith ers 1980, ac mae eu niferoedd wedi cynyddu'n helaeth ers yr arolwg yn 1981, pan amcangyfrifwyd mai dim ond 2,100 gwryw troelli oedd; amcangyfrifwyd fod y boblogaeth yn 3,400 yn 1992 ac yn 4,606 yn 2004.¹⁸ Ni fedrir canfod data ar gyfer poblogaeth fridio mwy diweddar, ond mae'n debyg iddo gynyddu ymhellach ers 2004, gyda defnydd planhigfeydd conifferaidd a gwaith cadwraeth pwrpasol yn helpu poblogaethau i adfer ymhellach.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Troellwr Mawr yn 'uncommon breeding summer visitor',¹⁰ a byddai'n deg dweud mai fel hyn y bu ers amser maith, er fod nifer wedi amrywio a chadarnleoedd o fewn Gwent wedi newid dros gyfnod. Ni chafodd y Troellwr Mawr ei gofnodi'n swyddogol yng Ngwent tan 1926,¹⁹ er yn fuan wedyn disgrifiodd Birds of Monmouthshire 1937 ef fel 'a fairly common visitor, breeding rather locally on fern-covered hillsides, commons and heaths, and in open woodlands or on sites of felled woods'.²⁰ Fodd bynnag, erbyn y Birds of Monmouthshire diwygiedig yn 1963, roedd y Troellwr Mawr yn 'a rather uncommon visitor, breeding very locally and thought possibly to be decreasing'.²⁰ Bu cynnydd mewn cofnodion o 1965 a nodwyd mai Coed Gwent oedd y prif safle, gydag wyth pâr yn 1970 (er i hyn ostwng yn ddilynol).²⁰ Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981–1985 yn amcangyfrif poblogaeth o 30 pâr yng Ngwent, lle cofnodwyd 23 o wrywod canu yn ystod cyfrifiad cenedlaethol 1981.²¹ Cynyddodd niferoedd ymhellach ar ôl hynny, er i'r cadarnle symud i ryw raddau eto, gyda arolwg 1992 yn dangos poblogaeth dda yng Nghoedwig Ebwy (13 gwryw), nifer lai o 11 yn Nyffryn


Gwy, a dim ond 4 gwryw yng Nghoed Gwent.²⁰ Bu newid pellach yn y dosbarthiad yng nghanol y 1990au pan ddechreuodd poblogaethau Coedwig Ebwy a Dyffryn Gwy ostwng, a daeth poblogaeth Coed Gwent y gadarnle unwaith eto.²⁰ Erbyn cyhoeddi *Birds of Gwent* yn 2007, disgrifiwyd y Troellwr Mawr fel ymwelydd anghyffredin yn ystod yr haf, nawr ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed.²⁰ Mae niferoedd wedi amrywio ers hynny, efallai oherwydd tan-adrodd, ond cofnodwyd y Troellwr Mawr yn dal mewn gwahanol safleoedd yn Nyffryn Gwy (Beacon Hill ac erail), Coed Gwent ac yng ngorllewin Gwent mewn lleoedd tebyg i Fynydd Machen, Abersychan a Chwm Gwyddon.¹⁹ Mae dosbarthiad a llwyddiant y Troellwr Mawr yng Ngwent yn dibynnu'n helaeth iawn ar argaeledd cwmpo coed mewn planhigfeydd coedwigaeth/ailstocio ar gyfnodau digon agored, gyda phoblogaethau'n dirywio a symud pan ddaw ardaloedd addas yn fwy coedwigog. Yn wahanol i lawer o rywogaethau ymfudol eraill, a gaiff yn aml eu cofnodi yn agos at yr arfordir, ymaith o safleoedd bridio, anaml y cofnodir y Troellwr Mawr nosol a gyda camoufla da i ffwrdd o'i safleoedd bridio.

Mae'r Troellwr Mawr yn llawer mwy o rywogaeth rhostir llawr gwlad yn hytrach na thir uchel, ac fe'i canfyddir yn arbennig ar ardaloedd lle cliriwyd coedwigaeth. Mae'r prif ganolfannau o amgylch Broad Meend, Beacon Hill, Coed Gwent, Ruperra a Wern Ddu gyda chanolfan lai yng Nghoed y Llannerch. Dylid nodi'r crebachu yn yr holl brif ganolfannau (yn neilltuol yr un yng Nghaerffili) dros gyfnod.

*Dosbarthiad cofnodion
y Troellwr Mawr ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 43/km²)*



*Cofnodion y Troellwr
Mawr yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae patrwm clir i'r cofnodion gyda chrynodiadau yn ardaloedd coedwigaeth Coed Gwent, Dyffryn Gwy a'r Cymoedd gorllewinol, lle mae ardal o glirio coed/ail-blannu yn addas ar gyfer Troellwyr Mawr sy'n bridio.

Tueddiadau poblogaeth: Cafodd y boblogaeth amrywiol ond yn gyffredinol gadarnhaol (mewn cyfnodau diweddar) yng Ngwent ei ddogfennu'n flaenorol. Gyda'r boblogaeth yn gynyddol yn cynyddu ar draws y Deyrnas Unedig (a Chymru) - cafodd y statws cadwraeth ei ostwng o goch i oren ar gyfer y ddwy – a phoblogaeth Gwent yn ymddangos yn eithaf sefydlog, byddai'n ymddangos fod y Troellwr Mawr mewn sefyllfa eithaf iach yng Ngwent ar hyn o bryd. Gydag ardaloedd mawr o gonifferiaid wedi eu cwmpo mewn blynyddoedd diweddar oherwydd clefyd llarwydd, mae'n bosibl y daw safleoedd bridio posibl ar gyfer y Troellwr Mawr yn cynyddu o leiaf yn y tymor cymharol fyr, gan efallai arwain at gynnydd yn y boblogaeth. Bydd gan reolaeth tymor hirach yr ardaloedd lle cwmpwyd coed, sut y cânt eu hailstocio ac os y bydd gwaith cwmpo rheolaidd yn agor ardaloedd newydd yn y dyfodol ran fawr wrth benderfynu niferoedd y Troellwr Mawr yn yr hirdymor. Bydd argaeledd ysglyfaeth (yn bennaf gwyfynod nosol a chwilod) hefyd yn ffactor ac mae'n hysbys fod niferoedd infertebratau, yn cynnwys gwyfynod,²² wedi gostwng llawer a gall hyn fod yn ffactor sy'n eu cyfyngu.

Gwarchodaeth: Daw 60% o gofnodion o safleoedd heb eu gwarchod. Fodd bynnag, dylid nodi fod llawer o gofnodion yn digwydd ar ymyl safleoedd a warchodir, er enghraifft i ddwyrain Coed Gwent.

Mae cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Ruperra a Chors Cleddon, ac un gofnod o'r Bloreus. Mae llawer o gofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC): Coed Gwent, Beacon Hill, Broad Meend a Chomin Rhydri, ynghyd â nifer fach ar SINC ucheldir tebyg i Mynydd Maen.

Cofnodion Troellwr Mawr o safleoedd a warchodir



Grugiar Goch *Lagopus lagopus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

Statws cadwraeth: Coch (Cymru²), Oren (DU¹). Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Cymedrol (429 cofnod)

Cyd-destun: Adar preswyl a sefydlog, nad ydynt yn teithio fawr yn ystod eu bywydau.²³ Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Grugiar Goch â rhostir grug tir uchel.

Mae'r rhywogaeth neilltuol gydag adenydd tywyll,

Scotica, yn frodorol i Ynysoedd Prydain,²⁴ gan roi arwyddocâd ychwanegol ar gyfer cadwraeth i'r rhywogaeth yma. Mae'r Grugiar Goch yn llysieuol ac mae ganddo ddiet eithaf cyfyngedig; mae'n dibynnu ar flagur, hadau a blodau grug, ond gall ategu hyn gydag eitemau tebyg i lus.²⁵ Mae hyn yn cyfyngu eu dosbarthiad i ble mae cyflenwad parod o rug ar gael. Mae pryfed yn rhan bwysig o ddiet y cywion.²⁵ Yn ymarferol, mae hyn yn golygu eu bod wedi eu cyfyngu i rostir grug tir uchel, fel bod eu dosbarthiad daearyddol â thueddiad cryf at y gogledd a'r gorllewin,²³ lle mae digonedd o'r cynefin hwn. Bu colled cyffredinol yn niferoedd y Grugiar Goch yn yr 20fed ganrif oherwydd diffyg rheolaeth goetir rhostir a cholli cynefin.



Pete Hadfield


Rhagolygon: Cyn y dechreuodd rheolaeth o ddifrif ar y rhostiroedd ar ddiwedd y 18fed ganrif, roedd llawer llai o'r Grugiar Goch.⁶ Diwedd y 19eg ganrif a hyd at y Ryfel Byd Cyntaf oedd oes aur rheoli rhostir a saethu grugieir, ac roedd y Grugiar Goch yn bresennol ledled Iwerddon ac ar y rhan fwyaf o rostir grug ym Mhrydain er yn absennol o waundir llawr gwlad.⁶ Bu dirywiad yn rheoli stadau hela yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a gyflymodd ymhellach yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gan ddod â dirywiad mewn cynefin ac felly ostyngiad mewn niferoedd.⁶ Bu gostyngiad neilltuol o ddifrifol yn yr Alban a Chymru ar ôl canol y 1970au.²⁶ Achosodd plannu rhostiroedd grug ar gyfer coedwigaeth conifferaidd a dirywiad o ffermio defaid golled pellach ar gynefin y Grugiar Goch a gwelodd hyn, ynghyd ag ysglyfaethiaid yn absenoldeb rheoli ysglyfaethiaid, niferoedd y Grugiar Goch yn parhau i ostwng.²⁶ Mae'r niferoedd wedi gwella'n raddol i ryw raddau: bu cynnydd o 26% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'little change'), a gafodd ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd cryf o 19% yn 2012-2017.²⁷ Mae Arolwg Adar Bridio mwyaf diweddar y BTO,²⁸ yn dangos arwyddion pellach o adferiad, gan gofnodi cynnydd o 23% yn 1995-2018 yn y Deyrnas Unedig, er y bu gostyngiad o 18% yn 2018-2019 gan efallai adlewyrchu amrywiadau yn y boblogaeth a achosir gan glefyd (gall Louping Ill a gaiff ei ledaenu gan drogod a Strongylosis a achosir gan fwydyn nematod achosi lefelau uchel o farwoldeb)²⁶ a'r tywydd. Dim ond nifer fach iawn o'r Grugiar Goch sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.²⁶ Mae'r boblogaeth fridio gyffredol (2016) yn 256,000 pâr.⁹

Cwmpas Gwent Fwyaf: Poblogaeth Gwent ac yn fwyaf penodol yr un ar y Blorens yw'r boblogaeth fwyaf deheuol naturiol yn y Deyrnas Unedig.²⁹ Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Grugiar Goch yn 'uncommon breeding resident, apparent decline in recent years',¹⁰ a bu hyn yn wir ers cryn amser nawr: yn 2018 cofnododd The Birds of Gwent fod y Grugiar Goch yn 'an uncommon and declining resident on heather uplands'.³⁰ Disgrifiodd Birds of Gwent 1977 nhw fel 'at present widespread and regularly seen on the high ground in the north-west, though usually only in small


numbers'. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi gostyngiadau mawr, gan adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, gyda 1,000 o adar ar rostir Blaenafon yn niwedd y 19eg ganrif yn dirywio i 10 pâr fan bellaf yn 1960.³¹ Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1985 yn amcangyfrif poblogaeth o 650 pâr yng Ngwent, er y gall 350 pâr fod yn fwy realistig.²¹ Cafodd poblogaeth 1981-19085 wedyn ei ddiwygio ar i waered i 67-74 pâr, sy'n debycach i'r amcangyfrif poblogaeth o 60 pâr yng nghyfrifiad 1998-2003.¹⁰

Mae dosbarthiad cofnodion yng Ngwent yn adlewyrchu'r rhostir uchel a ffafrir gan y Grugiar Goch. Mae tueddiad gogledd a gorllewinol pendant iawn i gofnodion yng Ngwent. Mae'r prif ganolfannau ar y Blorens ac yn y Mynydd Du, gyda pheth crebachu ar y cwmpas yn Nhorfaen.

*Dosbarthiad cofnodion y
Grugiar Goch ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm
46 cofnod /km²)*




*Cofnodion y Grugiar
Goch yn ôl degawd*



Patrymau cynefinoedd: Mae cysylltiad cryf iawn rhwng y Grugiar Goch yn gysylltiedig gydag ucheldir grugïog, felly maent wedi eu cyfyngu i'r safleoedd hyn yng ngogledd/gorllewin Gwent.


Tueddiadau poblogaeth: Mae cofnodion Cyfrifiad Gamebag ar gyfer ardal yr astudiaeth (diolch i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Creaduriaid Hela a Bywyd Gwyllt) yn dangos gostyngiad yn y canran o safleoedd lle mae'r Grugiar Goch yn bresennol. Dylid nodi nad yw hyn yn dueddiad arwyddocaol yn ystadegol gan ei fod yn seiliedig ar nifer isel o adroddiadau saethu. Mae nifer y ffurflenni cyfrifiad yn amrywio rhwng tri ac wyth, gyda gostyngiad cyffredinol mewn niferoedd a adroddodd ers y 1970au a dechrau'r 1980au. Dylid hefyd fod tueddiad yn lleoliad saethu (gweler yr adran ffynonellau data i gael mwy o wybodaeth).



Mae'r ardal o fewn Safle Treftadaeth Byd Blaenafon yn gadarnle a chynhaliwyd arolygon ers 2007, gyda'r nod o fonitro poblogaethau, rhoi gwybodaeth ar gyfer cynlluniau rheoli a chynnydd mewn poblogaeth. Yn ystod arolygon yn 2014, cofnodwyd 110 aderyn – cynnydd o 63% ers 2008.³² Roedd moratorium ar saethu yn 2011, a rhagwelir gyda gwelliannau i gynefinoedd fod gan y poblogaethau yn yr ardal botensial i gynyddu ymhellach. Fodd bynnag, mae pethau eraill anhysbys a allai effeithio ar y boblogaeth: gallai newid hinsawdd effeithio ar ansawdd cynefin, llwytho parasitiaid a goroesiad cywion, gyda gwanwynau/hafau gwlyb yn gyffredinol yn wael ar gyfer y Grugiar Goch.³³

Gwarchodaeth: Daw 81% o gofnodion o safleoedd a warchodir, heb fawr o gofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig Ystlumod (SAC) Brynbuga, ond y mwyafrif helaeth (bron 60% o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Bloreus a'r Mynydd Du, gydag ychydig ar Fynydd Llangynidr. Daw'r gweddill o Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Ucheldir Torfaen, tebyg i Coety, Mynydd James a'r Farteg, a Garn yr Erw.

Cofnodion y Grugiar Goch o safleoedd a warchodir



Mwyalchen y Mynydd *Turdus torquatus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU¹ a Cymru²)
Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (201 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn ystod yr haf, mae Mwyalchen y Mynydd yn treulio'r gaeaf ym Mynyddoedd yr Atlas yng ngogledd-orllewin



Andy Karran

Affrica.³⁴ Mae hyn yn golygu fod Mwyalchen y Mynydd yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.¹⁶ Paratowyd papur cyfan ar effeithiau posibl newid hinsawdd ar Fwyalchen y Mynydd.³⁴ Maent yn aelod o deulu'r fronfraith ac yn edrych yn fwyaf tebyg i'r Aderyn Du llawer mwy cyfarwydd; fodd bynnag mae bib gwyn y gwryw yn ei wneud yn rhwydd ei adnabod. Yn y Deyrnas Unedig, mae'n bennaf yn adryn yr ucheldir, gan fridio mewn cymoedd serth, creigiau a holltiau.³⁸ Felly, mae Mwyalchen y Mynydd (o leiaf fel aderyn bridio) wedi ei gyfyngu i'r cynefinoedd ucheldir hyn ac felly bu dosbarthiad gorllewinol a gogleddol yn ei ddosbarthiad. Mae'n dibynnu ar fwyta infertebratau yn ystod y tymor bridio, gan gymryd amrywiaeth eang o eitemau, gyda mwydion a phryfed teiliwr yn ymddangos yn neilltuol o bwysig.³⁸ Fodd bynnag, unwaith y bydd y tymor bridio drosodd, aeron yw'r prif ddiet, gan fwyta'r rhai sy'n doreithiog yn ein tir uchel fel lus, creiglus a cherddinen.³⁸ Pan fyddant yn ymfudo, gall Mwyalchen y Mynydd fynd i gynefinoedd ar dir is ac mae adar sydd newydd gyrraedd neu sy'n ymadael i'w cael ar hyd yr arfordir yn neilltuol.


Rhagolygon: Yn flaenorol (19eg ganrif) roedd poblogaeth y Deyrnas Unedig wedi'i ledaenu ar draws llawer o'r Deyrnas Unedig, gyda thueddiad gorllewinol a gogleddol.⁶ Dechreuodd dirywiad yn y 20fed ganrif, gyda gostyngiadau mawr wedi'u cofnodi yn yr Alban yn 1900–1950.³⁶ Roedd gostyngiad pellach o 27% yn y cwmpas bridio yn y Deyrnas Unedig yn amlwg rhwng atlasau cenedlaethol 1968–72 a 1988–91, gyda cholledion yn neilltuol o amlwg yn yr Alban a Chymru. Cynhaliwyd arolwg cenedlaethol yn 1999 a ddangosodd grebachiad pellach mewn cwmpas a gostyngiad tebygol o 58% ym maint y boblogaeth ers 1988–91.³⁷ Gostyngodd nifer parau bridio Mwyalchen y Mynydd gan 44–100% yn ystod 1979–2009 ar draws 13 ardal astudiaeth ledled y Deyrnas Unedig.³⁸ Dengys yr amcangyfrifon diweddaraf o boblogaeth fod dirywiad efallai'n arafu neu wedi'i droi o amgylch, gyda chynnydd o 37% o 2008–2018,²⁸ er o niferoedd gwreiddiol llawer is. Mae'r boblogaeth fridio bresennol yn 7,300 pâr.⁹

Cwmpas Gwent Fwyaf: Fel rhywogaeth bridio, mae Mwyalchen y Mynydd wedi bron ddiflannu o fewn Gwent. Y safle bridio dibynadwy olaf oedd ar ôl oedd Chwareli Trefil, lle roedd 3-4 pâr hyd at 1997.³⁹ Cafodd nifer fach o adar eu cofnodi yn gymharol reolaidd yno ers hynny, ond byddai'n ymddangos eu bod wedi diflannu fel rhywogaeth bridio. Mae'r Gwent Bird Report (2018) diweddaraf yn dweud bod Mwyalchen y Mynydd yn 'passage migrant; former rare breeding summer visitor'.¹⁰ Yn hanesyddol (1970au) nodwyd ei fod wedi ei ddosbarthu'n denau mewn ardaloedd ucheldir mwy gwyllt y gogledd a'r gogledd orllewin ond hefyd yn bridio weithiau ar dir uchel i dde'r maes glo, ond


nodwyd bod y niferoedd wedi bod yn gostwng ers 1970.⁴⁰ Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981–1985 yn amcangyfrif poblogaeth o 50 pâr yng Ngwent, gan sôn am y Mynydd Du, Trefil a'r bryniau rhwng y Fenni, Glynebwy a Phont-y-pŵl fel safleoedd bridio.²¹ Yn dilyn hynny mae'n amlwg i'r boblogaeth barhau i ostwng yn gyflym, gan arwain at ei ddiflaniad fel aderyn bridio yng Ngwent. Mae Mwyalchen y Mynydd yn dal i gael eu cofnodi'n flynyddol, yn aml mewn safleoedd ucheldir gyda photensial am fridio. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r adar bellach yn aros i fridio. Pan fyddant yn ymfudo, weithiau mae adar i'w gweld mewn safleoedd tir is, yn bennaf mewn safleoedd ar yr arfordir lle mae cofnodwyr.

Y prif ganolfannau yw safleoedd ucheldir yn Nhrefil, Crib Hatterall a Pwll Du, yn ogystal a safle arfordirol llawr gwlad Allanfa Llanbedr, lle mae llawer o ymdrech cofnodi adegau ymfudo. Mae mwy o gofnodion allan o'r ardal – mae gennym 201 cofnod ardal astudio a dim ond 110 yng Ngwent Fwyaf – ym Mynydd Llangatwg a Chraig y Cilau ynghyd ag ochr Henffordd o Grib Hatterall.

*Dosbarthiad cofnodion
Mwyalchen y Mynydd ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 27 cofnod
/km²)*



*Cofnodion Mwyalchen y
Mynydd yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae patrwm clir i'r cofnodion, gyda safleoedd ucheldir yn cael eu ffafrio; bydd yr ardaloedd hynny gyda choed/perthi bach gydag aeron yn neilltuoel o bwysig ar gyfer adar sy'n ymfudo yn yr hydref. Ar gyfer adar bridio, bydd y safleoedd a ffafrir ar gyfer adar bridio yn ddelfrydol yn gyfuniad o rug a rhedyn ynghyd â thywyrch byr ar gyfer chwilio am fwyd.

Tueddiadau poblogaeth: Cafodd y dirywiad mewn poblogaeth hyd at ddiflaniad yng Ngwent ei gofnodi'n flaenorol. Gyda gostyngiad yn y boblogaeth yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig, gall ailboblogi ymddangos yn annhebygol. Fodd bynnag, gyda Mwyalchen y Mynydd yn dal i gael eu cofnodi'n flynyddol ac yn eithaf aml mewn ardaloedd bridio posibl, mae'n bosibl y gallant fridio yn gyfnodol eto neu hyd yn oed sefydlu bridio rheolaidd. Os oes dymuniad penderfynol i ddychwelyd Mwyalchen y Mynydd at ein rhestr o adar bridio, yna gall fod angen cyswllt pwrpasol gyda thirfeddianwyr mewn rhai rhannau o'n hucheldir, a rheoli cynefin mewn modd addas i greu amodau bridio addas. Ynghyd â hyn, gall y sefyllfa o newid hinsawdd a chynnydd cyffredinol mewn tymheredd wthio poblogaethau bridio i ardaloedd ucheldir hyd yn oed yn uwch wrth i ucheldir 'is' Gwent ddod yn anaddas.

Gwarchodaeth: Daw 48% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd, yna llawer o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Mynydd Du, Blorens a Mynydd Llangynidr. Cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Lynnoedd Garn, ac yna wedi gwasgaru ar draws yr Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ucheldir helaeth yn Nhorfaen a Chaerffili.

Cofnodion Mwyalchen y Mynydd o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108, 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13:1, 3–31.
3. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/hen-harrier/>
4. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/advice/wildlife-and-the-law/wild-bird-crime/hen-harrier>
5. <https://www.bto.org/about-bto/national-offices/scotland/our-work/selected-highlights/hen-harrier>
6. Holloway, S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, London
7. <https://www.bto.org/about-bto/national-offices/scotland/our-work/selected-highlights/hen-harrier>
8. <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-40422732>
9. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/aep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
10. Gwent Bird Report 2018
11. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 129.
12. Gwent Bird Report 2007.
13. Whitfield D and Fielding A. 2009. Hen Harrier Population Studies in Wales.
14. <http://ww2.rspb.org.uk/our-work/rspb-news/news/443191--uk-hen-harrier-population-suffers-decline-according-to-latest-figures>
15. <https://www.bto.org/our-science/topics/tracking/tracking-studies/nightjars>
16. Pearce-Higgins W a Crick HQP. 2019. One-third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables over 50 years. *Bird Study* 66:2, 159–172, DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
17. <https://www.norfolkwildlifetrust.org.uk/wildlife-in-norfolk/species-explorer/birds/nightjar>
18. Langston RHW et al. 2007. Nightjar *Caprimulgus europaeus* and Woodlark *Lullula arborea*—recovering species in Britain?
19. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 230–232.
20. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 118.
21. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 96.
22. http://www.mothscount.org/text/19/moths_in_decline.html.
23. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/red-grouse/>
24. <https://app.bto.org/birdtrends/species.jsp?year=2018&s=redgr>
25. <https://www.northyorkmoors.org.uk/discover/moorland/moorland-plants-and-wildlife/red-grouse>
26. <https://www.gwct.org.uk/game/research/species/red-grouse/>
27. DEFRA. 2019. *Wild Bird Populations in the UK 1970–2018*
28. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>

29. <https://www.visitblaenavon.co.uk/en/Publications/WorldHeritageSite/ForgottenLandscapes/FL-Landscape-Character-Study.pdf>
30. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 97–99.
31. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent, Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 84.
32. Safle Treftadaeth Byd Blaenafon, Arolwg Bywyd Gwyllt ac Adolygiad Monitro, Tachwedd 2017.
33. <https://www.scottishfield.co.uk/outdoors/wildlifeandconservation/nurturing-the-famous-four-scotlands-grouse-species/>
34. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/ring-ouzel>
35. Colin M. Beale et. Al. (2006) Climate change may account for the decline in British ring ouzels *Turdus torquatus*. *Journal of Animal Ecology* 2006 75: 826–835.
36. Sim I, Rollie C, Arthur D, Benn S, Booker H, Fairbrother V, Green M, Hutchinson K, Ludwig S, Nicoll M, Poxton I, Rebecca G, Smith L, Stanbury A, Wilson P, Green B. 2010. The Decline of the Ring Ouzel in Britain. *British Birds* 103: 229–239.
37. Wotton SR, Langston RHW a Gregory RD. 2002. The Breeding Status of the Ring Ouzel *Turdus torquatus* in the UK in 1999. *Bird Study* 49(1): 26–34.
38. <http://ww2.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-projects/details/259965-diagnosing-the-causes-of-ring-ouzel-declines>
39. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 276–277.
40. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 118.

Adar trefol

Aderyn y To *Passer domesticus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Gwarchodaeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU¹), Oren (Cymru²) UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

Data Gwent Fwyaf ar gael: Cymedrol/Gwael (y maent, efallai'n ddealladwy, yn cael eu tangofnodi i raddau helaeth iawn) (7,785 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn preswyl a sefydlog, mae Aderyn y To yn gysylltiedig yn agos iawn gyda lleoedd mae pobl yn byw ynddynt, yn cynnwys

aneddiadau gwledig, maestrefi a threfol. Yr oedd ac mae'n dal i fod ar gael yn eang ledled y Deyrnas Unedig, er bod poblogaethau wedi gostwng mewn gwahanol ardaloedd. Mae gan Aderyn y To ddiet amrywiol sy'n cynnwys hadau ac infertebratau, ac mae'n barod iawn i fanteisio ar fwyd a gaiff ei daflu/roi gan bobl. Mae diet eithaf amrywiol a gallu Aderyn y To i addasu ac ymelwa ar bobl yn gyfrifol am ei lwyddiant; mae'n un o'r rhywogaethau sydd ar gael ehangaf yn y byd.³ Maent yn fras gytrefol, gan ffurfio cytrefau bach yn y tymor bridio⁴ ac yn aros i raddau helaeth yn y grwpiau hyn dros y gaeaf. Mae Adar y To yn rhywogaeth sy'n nythu mewn tyllau, gan ddefnyddio bylchau dan fargodau tai a blychau nythu. Fodd bynnag, maent yn ddigon hyblyg i wneud nythod mewn tyfiant trwchus os nad oes tyllau addas ar gael.⁴ Er eu dosbarthiad eang a'u gallu i addasu, bu gostyngiad pryderus yn eu niferoedd mewn cyfnodau cymharol ddiweddar: gostyngiad o 71% rhwng 1970 a 2017,⁵ er bod hyn wedi gwella yn fwy diweddar. Mae gwahanol ffactorau yn gyfrifol am y dirywiad, ac maent yn wahanol mewn poblogaethau trefol a maestrefol. Mae newidiadau mewn arferion amaethyddol, colli safleoedd nythu a llai o fwyd ar gael wedi effeithio ar boblogaethau gwledig. Mae'n anos esbonio gostyngiadau trefol a maestrefol, ond mae presenoldeb gofod gwyrdd trefol ar wedd gerddi/rhandiroedd mawr yn bwysig ar gyfer eu llwyddiant, ac felly hefyd gyfleoedd nythu, a gall colled infertebratau fod yn achos dirywiad.⁶

Rhagolygon: Bu cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth Aderyn y To yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif, yn yr un modd â'r boblogaeth ddynol.⁷ Roedd cynifer o adar to fel eu bod yn cael eu cydnabod fel niwsans, a sefydlwyd 'Clybiau Aderyn y To' gyda'r nod o'u dileu o bob plwyf.⁶ Er hyn, fe wnaeth niferoedd barhau i gynyddu drwy lawer o'r 20fed ganrif, tan y 1970au, pan ddaeth gostyngiadau yn amlwg.⁶ Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad brawychus yn eu niferoedd. Er eu bod yn dal i fod wedi dosbarthu'n dda yn gyffredinol, maent yn diflannu o ganol dinasoedd, yn absennol o fynyddoedd yr Alban ac wedi eu dosbarthu'n denau yn y tir uchel.⁸ Mae'r poblogaethau mwyaf yn awr ar draws Canolbarth Lloegr, De Lloegr a Dwyrain Lloegr.⁹ Amcangyfrifwyd fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 5,300,000 pâr.¹⁰ Bu gostyngiadau tymor hirach o 71% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel dirywiad gwan), yn fwy diweddar ychydig o newid a fu gyda dirywiad bach o 2% rhwng 2012-2017⁵ Mae arolwg adar bridio diweddaraf y BTO¹¹ yn dangos arwyddion bach o adferiad ac achos dros optimistiaeth, gyda gostyngiad o ddim ond 1% yn 1995-2018 yn y Deyrnas



Andy Karran

Unedig a chynnydd da o 92% yng Nghymru dros yr un cyfnod – er fod yn rhaid cofio fod y cynnydd mwy diweddar hwn yn dychwelyd o'r colledion sylweddol yn y 1980au. Felly er y bu gostyngiad mawr ym mhoblogaethau Aderyn y To, mae arwyddion o wella, yn arbennig yng Nghymru.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Aderyn y To yn 'abundant breeding resident'¹² ac er y gall eu niferoedd fod wedi amrywio tipyn, felly y bu am gryn amser yn awr. Mae Birds of Monmouthshire 1937 a 1964 yn eu ddisgrifio fel 'a common birding resident, especially in and around towns and villages'.¹³ Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer 1981–1985 fod poblogaeth yng Ngwent o tua 15,000-30,000 pâr, gyda chysylltiad agos rhwng Aderyn y To â chartrefi pobl ac ar gael yn 92% o'r tetradau o fewn Gwent.¹² Erbyn amser cyhoeddi Birds of Gwent yn 2007, disgrifiwyd Aderyn y To fel 'preswlydd gweddol gyffredin' ac amcangyfrifwyd fod tua 23,000-33,000 pâr ohonynt.¹² Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyfeirio at Birds of Wales 2002, a nododd ostyngiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru yn ystod 1970-1990 ond mae'n dweud efallai na fu hyn yn wir yng Ngwent.¹² Yn wir, nid yw adroddiadau Gwent Bird Report rhwng 1975 a 2018 yn dangos unrhyw golled fawr mewn niferoedd, er y cofnodwyd rhai gostyngiadau lleol iawn ac ail-boblogi (dylid nodi fod Aderyn y To yn gyffredinol yn rhywogaeth a gaiff ei dangofnodi i raddau helaeth iawn). Gellir dod i'r casgliad fod Aderyn y To yn dal ar gael yn eang (heblaw yn yr ucheldir) a bod nifer fawr o rywogaethau o fewn Gwent. Fodd bynnag, mae tybiaeth nad yw heidiau'r hydref-gaeaf mewn caeau â'r mor fawr ag yr arferent fod.

Mae'n gymhleth cyfeirio at gofnodion SEWBRcC oherwydd bod Aderyn y To mor gyfarwydd fel mai prin iawn y caiff ei gofnodi. Mae dadansoddiad o gofnodion yn ddiddorol gan ei bod yn sicr nad ydynt yn wir gynrychiolaeth. Mae'r prif ganolfannau yn Allanfa Llanbedr (canolfan adara felly mae ganddi fwy o gofnodion) ac ar ffiniau Swydd Gaerloyw a achosir drwy ganoli gofnodion tetrad a hectad.


Y gwirionedd nad oes gofnodion mewn 1,324 (69) o'r 1,916 sgwâr 1km a bod gan 1,7981 (93%) 5 neu lai o gofnodion mewn cyfnod o 50 mlynedd. Dim ond 125 (7%) sgwâr sydd â mwy na 5 gofnod. Nid oes ychwaith unrhyw gydberthynas fawr gydag ardaloedd trefol; efallai fod mwy o gofnodion yng Nghaerffili, ond ychydig iawn sydd ar gyfer Casnewydd, Cas-gwent, Cwmbrân ac yn y blaen. Dylid cymharu'r data hwn gyda'r mapiau tetrad ar gyfer Gwent Bird Atlases (1981-1985) a (1998-2003) sydd â chofnodion o 90%+ o'r tetradau.¹²

Yn yr un modd, mae'r map data yn edrych yn dda tan y sylweddolwch y gall y ffaith nad oes unrhyw gofnodion o Aderyn y To am ddegawd fod yn broblem. Eto, mae'n debyg o fod yn wir maei'r rheswm na chânt eu cofnodi yw oherwydd eu bod mor gyffredin. Dim ond yn dilyn adroddiadau diweddar yn y cyfryngau am ostyngiadau y dechreuwyd o ddifrif i gofnodi Aderyn y To: roedd 17 gofnod yn y 1970au, 47 yn y 1980au a 10 yn y 1990au, ond 1,124 yn y 2000au a 3,047 yn y 2010au.

Dosbarthiad cofnodion
 Aderyn y To ar draws Gwent
 Fwyaf (uchafswm 1,099
 cofnod km²)



Cofnodion Aderyn y To yn ôl
 degawd




Patrymau cynefin: Efallai nad yw cofnodion SEWBreC yn dangos hyn yn glir, ond mae cydberthynas glir iawn rhwng Aderyn y To a phresenoldeb cartrefi pobl.

Tueddiadau'r boblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, nodwyd gostyngiadau eithaf mawr ym mhoblogaethau Aderyn y To ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod y 1970au, 80au a 90au, gyda'r gostyngiadau hyn yn arafu mewn cyfnodau mwy diweddar a hyd yn oed yn gwrthdroi mewn mannau tebyg i Gymru. Ymddengys nad yw'r gostyngiad cenedlaethol wedi effeithio llawer yng Ngwent, a byddai'n ymddangos fod poblogaeth Aderyn y To yng Ngwent yn iach ar hyn o bryd.

Gwarchodaeth: Daw 56% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Lanbedr Gwynllŵg, o fewn Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Gwastadeddau a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd, gan fod adarwyr yn ymweld â'r ardaloedd hyn yn aml. Mewn gwirionedd, byddid yn disgwyl llawer mwy o gofnodion o ardaloedd nas gwarchodir (gerddi pobl) ond fel y nodwyd eisoes, ni chaiff cofnodion o'r fath eu cyflwyno fel arfer.

Cofnodion Aderyn y To o safleoedd a warchodir



Hebog Tramor *Falco peregrinus* (Tunstall, 1771)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

Statws cadwraeth: Gwyrdd ledled y Deyrnas Unedig

Data Gwent Fwyaf ar gael: Cymedrol/Da (1,419 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Hebog Tramor yn breswyl yn y Deyrnas Unedig ac mae'n enwog am fod y rhywogaeth aderyn cyflymaf yn y byd. Fel aderyn bridio, mae ganddo gadarnleoedd yn ucheldir y gogledd a'r gorllewin, yn ogystal ag ar hyd arfordiroedd creigiog.¹⁴ Fodd bynnag, mae'r

Hebog Tramor yn gynyddol yn nodwedd o lawer o ddinasoedd a threfi ledled y Deyrnas Unedig.¹⁵ Mae i'w ganfod yn fwy aml mewn ardaloedd arfordirol yn ystod y gaeaf. Mae'n aderyn ysglyfaethus, gyda diet yn bennaf o fod yn adar a gymerir pan fydd yn hedfan – mae colomennod gwyllt yn hoff ysglyfaeth ond byddant yn cymryd ystod eang o rywogaethau adar.¹⁶ Mae cymryd adar wedi achosi gwrthdaro gyda chiperiaid a phobl sy'n cadw colomennod rasio/cludo. Fe wnaeth hyn, ynghyd â chywion yn cael eu cymryd gan hebogyddion ac effeithiau gwenwyn organoclorin at i'r Hebog Tramor, ostwng i lefelau isaf, gyda'r pwynt isaf un ar ddechrau'r 1960au. Yn fwy diweddar, mae'r effeithiau negyddol hyn wedi gostwng yn sylweddol, gan alluogi adferiad mewn poblogaethau Hebogiaid Tramor, er y gallant ddal gael eu herlid ac mae colli/diraddio cynefin yn broblem ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau adar.



Andy Karran


Rhagolygon: Dechreuodd poblogaeth y Deyrnas Unedig ostwng o ran nifer yn ystod y 19eg ganrif fel canlyniad i gynnydd mewn cadwraeth helwriaeth a gwelliant yng nghywirdeb gynnu.⁷ Efallai na fu'r gostyngiad yng Nghymru mor amlwg oherwydd nad oedd cymaint o giperiaid.⁷ Fe wnaeth dyfodiad y Rhyfel Byd Cyntaf ostwng pwysau gan giperiaid ac roedd y niferoedd yn uchel a sefydlog tan ddyfodiad yr Ail Ryfel Byd.⁷ Ni wnaeth hyn barhau, gan fod gorchymyn argyfwng o 1940, ac a barhaodd tan 1946) yn caniatáu dinistrio yr Hebog Tramor i ddiogelu colomennod cario negesun milwrol.⁷ Dilynodd dirywiadau mwy difrifol, gyda gwenwyn plaladdwyr organoclorin yn haneru poblogaethau rhwng 1956–1963.⁷ Dilynodd moratoriwm gwirfoddol yn 1961, a ddilynwyd gan waharddiadau yn y 1970au a'r 1980au,¹⁷ a alluogodd niferoedd yr Hebog Tramor i gynyddu. Dechreuodd adferiad araf ond cryf yn 1967, gyda'r nifer a gofnodwyd ddiwedd y 1980au yn debyg o fod yn uwch nag ar unrhyw amser yn y 20fed ganrif.⁷ Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cynnydd o 204% rhwng 1970-2018 (er i hynny gael ei ddisgrifio braidd yn od fel cynnydd gwan) ac arwydd fod lefelau poblogaeth yn awr yn eithaf sefydlog, gyda chynnydd o 2% (fawr o newid) rhwng 2012 a 2017.⁵ Poblogaeth fridio bresennol (2014) yw 1,750 pâr.¹⁰

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod yr Hebog Tramor yn 'resident and winter visitor',¹² a byddai'n deg dweud fod yr Hebog Tramor wedi gwneud yn dda yng Ngwent yn ddiweddar. Yn 2008 cofnododd Birds of Gwent fod yr Hebog Tramor yn 'scarce or uncommon resident: more numerous now than ever recorded previously in the county',¹⁸ ac yn 1997 fel 'fairly regular visitor, both in winter and on passage'.²⁰ Mae hyn i gyd yn dangos fod y niferoedd


wedi cynyddu dros y cyfnod hwn, yn neilltuol gan nad yw Birds of Gwent 1977 yn eu cofnodi fel rhywogaeth bridio (yn wir mae'n sôn mai'r unig ymgais bridio a gadarnhawyd yng Ngwent hyd hynny oedd yn 1927).²⁰ Fodd bynnag, mae ffynonellau eraill yn awgrymu nifer o barau yng Ngwent, gyda chyfartaledd o dri phâr ac o leiaf chwe safle yn cael eu defnyddio o leiaf yn achlysurol hanner cyntaf yr 20fed ganrif.¹⁸ Fodd bynnag roedd yr Hebog Tramor wedi diflannu fel aderyn bridio yng Ngwent erbyn 1960. Fe wnaeth y sefyllfa hon barhau tan 1979, pan ddychwelodd pâr i Gwmioi, er y bu'r nifer a gofnodwyd yn cynyddu cyn hynny.¹⁸ Erbyn adeg y Gwent Bird Atlas diweddaraf (1998–2003), roedd y boblogaeth o leiaf 15 pâr, gyda'r rhan fwyaf o boblogaeth yn y cymoedd gorllewinol a'r Mynydd Du, er bod mwy o gofnodion trefol a bridio ar beilonau yn ardal Casnewydd.¹⁸ Mae'r boblogaeth yn amlwg yn gwneud dda, gyda chyflenwadau da o fwyd a mwy o warchodaeth,¹⁸ ynghyd â'r gwaharddiad ar blaladdwyr, wedi eu rhoi yn rhesymau am hyn. Roedd ac mae erledigaeth yn dal i fod yn broblem fodd bynnag, gydag un safle yn cofnodi pump o wahanol oedolion marw mewn un tymor bridio (1997).¹⁸

Mae canolfannau cofnodi yn Allanfa Llanbedr a Gwlypdir Casnewydd. Mae hyn yn ddi-os oherwydd mwy o arsylwyr yn y canolfannau adara hyn, ond mae'r ardaloedd hyn hefyd yn debygol o gael eu defnyddio'n helaeth gan yr Hebog Tramor gan fod llawer o ysglyfaeth posibl ar gael. Mae canolfannau llai yng Nghrib Hatterall (y Mynydd Du) a Chwm Clydach, sy'n fwy tebygol o adlewyrchu safleoedd bridio yn yr ardaloedd mwy garw yma.

*Dosbarthiad cofnodion yr Hebog
Tramor ar draws Gwent Fwyaf
uchafswm >50)*



*Cofnodion yr Hebog
Tramor yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae bridio'r Hebog Tramor yn dal i fod â thuedd tuag at orllewin a gogledd mwy garw Gwent, lle mae creigiau ar gyfer safleoedd nythu i'w cael, er eu bod ar gael yn ne'r sir ac mewn amgylcheddau mwy trefol, lle caiff strwythurau fel peilonau eu defnyddio ar gyfer safleoedd nythu. Y tu allan i'r tymor bridio, mae'r Hebog Tramor ar gael yn eang, yn neilltuol lle mae digonedd o ysglyfaeth, felly mae safleoedd arfordirol gyda niferoedd mawr o adar tebyg i Lanbedr Gwynllŵg a Gwlypdir Casnewydd yn safleoedd a ffafirir.

Tueddiadau poblogaeth: Mae cyfeiriad at arolwg diweddaraf y BTO o'r Hebog Tramor (2014) yn dangos bod y cynnydd yn y poblogaethau yn y Deyrnas Unedig rhwng 2002 a 2014 wedi ei yrru gan gynnydd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.¹⁹ Roedd y niferoedd yng Nghymru a'r Alban wedi gostwng mewn gwirionedd oherwydd gostyngiad ym mhoblogaethau yr Hebog Tramor yn yr ucheldir, gydag erledigeth rheoli grugieir yn cael ei roi mewn ffactor pwysig posibl. Roedd y niferoedd mewn ardaloedd llawr gwlad yn cynyddu mewn gwirionedd, wedi'i hybu gan ddefnydd yr Hebog Tramor o golomennod gwyllt, trefol fel ffynhonnell ddigonol o fwyd a defnydd strwythurau gwneuthuredig fel safleoedd nythu.¹⁹ Gall fod y bydd yr Hebog Tramor, dros gyfnod, yn cael eu gysylltu yn llai gydag ucheldir gwyllt ac yn fwy gyda strwythurau gwneuthuredig ar lawr gwlad.²⁰

Yng Ngwent mewn blynyddoedd diweddar, bu'r boblogaeth Hebog Tramor yn manteisio ar ucheldir y gogledd/gorllewin yn ogystal â'r arfordir a thir isel agored yn gysylltiedig gyda Gwastadeddau Gwent. Mae bob amser yn rhywogaeth sy'n debygol o ddioddef peth erledigaeth, fodd bynnag mae poblogaeth Gwent yn uchel a sefydlog, a gobeithir y bydd hyn yn parhau.

Gwarchodaeth: Daw 70% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ar hyd Aber yr Hafren, ynghyd ag ychydig iawn yn SAC Ystlumod Brynbuga. Roedd cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (NNR) o Wlypdir Casnewydd. Roedd y cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o bob rhan o'r Gwastadeddau, ynghyd â'r Blorens, y Mynydd Du a Chronfa Ddŵr Llandegfedd. Mae cofnodion o Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o safleoedd lluosog ar draws Caerffili a Thorfaen, ynghyd ag ychydig o Flaenau Gwent, yn gyffredinol wedi cysylltu gyda'r cymoedd gorllewinol tir uwch, yn arbennig i'r gogledd o Gaerffili, o amgylch Parc Cwm Darren, gogledd Torfaen ac o amgylch ardal Blaenafon.

Cofnodion yr Hebog Tramor o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13:1, 3–31.
3. <https://www.nhm.ac.uk/discover/house-sparrow-passer-domesticus.html>
4. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/house-sparrow/breeding/>
5. DEFRA. 2019. Wild bird populations in the UK 1970–2018, 40.
6. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/house-sparrow>
7. Holloway S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, Llundain
8. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/house-sparrow/>
9. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/tree-sparrow/>.
10. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/apep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
11. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
12. Gwent Bird Report 2018.
13. Tyler S. et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 339–340.
14. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/peregrine/>
15. <https://urbanperegrines.co.uk/>
16. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/peregrine/habitat-and-food/>
17. <https://nerc.ukri.org/latest/publications/planetearth/sum15-birds/>
18. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 140–142.
19. <https://www.bto.org/our-science/projects/peregrine-survey/results>
20. <https://www.bto.org/sites/default/files/peregrine-survey-results-spring-2018-bto-news.pdf>

Adar hirgoes


Rhostog Cynffonddu *Limosa limosa* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU¹), Oren (Cymru²)

Data ar gael: Da (1431 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Rhostog Cynffonddu yn bennaf yn aderyn sy'n ymfudo drwy'r Deyrnas Unedig ac yn ymwelydd gaeaf, gyda nifer fach yn bridio yn nwyrain Lloegr. Mae hyn yn golygu fod y Rhostog Cynffonddu yn fregus i newidiadau yng nghyfeirioedd yr haf, gaeaf a charreg gamu



Andy Karran


ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio ar y ddau.³ Maent yn un o lu o rywogaethau adar hirgoes sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig wrth ymfudo yn y gwanwyn a'r hydref, gyda dim ond ychydig yn aros i fridio. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol yn treulio'r gaeaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Rhostog Cynffonddu sy'n aros i fridio yn y Deyrnas Unedig ar ddim ond llond dwrn o safleoedd corsio yn nwyrain Lloegr, a chaiff y prinder hwn ei ddangos yn eu statws Gwarchodedig Atodlen 1. Mae'r adar ymfudol fel arfer yn treulio'r gaeaf yng Ngorllewin Affrica tra bod y boblogaeth gaeafu sylweddol yn cynnwys adar a fridiodd ymhellach i'r gogledd, yng Ngwlad yr Iâ.⁴ Maent yn un o ddau rhywogaeth o'r rhostog sy'n ymweld yn rheolaidd â'r Deyrnas Unedig, ond yr unig sy'n sy'n bridio yma; dim ond rhywogaeth ymfudol a gaeafu yw ei gefnder agos, y Rhostog Rhudd. Mae Rhostog Cynffonddu yn bennaf yn bwydo ar bryfed, mwydon a malwod, gan wneud defnydd da o'u pig hir iawn. Yn gyffredinol, bu cynnydd enfawr yn y Deyrnas Unedig (765%) mewn adar gaeafu rhwng 1970 a 2017.⁵ Mae hyn yn debyg fod hyn oherwydd cynnydd yn y boblogaeth yng Ngwlad yr Iâ,⁶ sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig. Mae'r boblogaeth bridio wedi amrywio ond wedi aros yn fras debyg mewn cyfnodau diweddar. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth yn agored i golledion oherwydd llifogydd ac ysglyfaethwyr,⁷ a mae ei faint bach hefyd yn ei wneud yn fregus.

Rhagolygon: Ymddengys na fu'r Rhostog Cynffonddu erioed yn gyffredin iawn fel aderyn bridio yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yr oedd ar un cyfnod yn bridio'n niferus ar gorsydd East Anglia,⁸ ond roedd wedi diflannu fel aderyn bridio rheolaidd yn y Deyrnas Unedig erbyn canol y 19eg ganrif, gyda draeniad y corstiroedd ar gyfer amaethyddiaeth i'w feio i raddau helaeth.⁸ Ni wnaethant ddychwelyd fel rhywogaeth bridio yn y rhan honno o ddwyrain Lloegr tan y 1930au.⁸ Mae East Anglia yn parhau i fod yn gadarnle iddynt yn y Deyrnas Unedig, gyda chofnodion bridio achlysurol yn yr Alban. Fe wnaeth poblogaeth fach ddatblygu ar Wastadeddau Gwlad yr Haf ond effeithiodd tablau dŵr is ar hynny.⁸ Mae poblogaeth East Anglia yn parhau mewn bodolaeth ond mae'n fach ac yn fregus i lifogydd y gwanwyn. Amcangyfrifwyd fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2013–2017 yn 53 pâr.⁹ Byddai'n ymddangos i'r boblogaeth hon gyrraedd ei brig ar 65 pâr ddechrau'r 1970au, a chafodd ei gostwng gan lifogydd i hanner y nifer hwnnw erbyn diwedd y 1980au.⁷ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach a bregus, bu cynnydd mawr yn y boblogaeth gaeafu: cynnydd o 765% rhwng 1970–2017 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf, gyda hyn yn dal i fod yn amlwg yn fwy diweddar gyda chynnydd pellach o 23% rhwng 2012–2017.⁵ Roedd y poblogaeth gaeafu yn 41,000 yn 2017.⁹


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Rhostog Cynffonddu yn 'passage migrant, summer and winter visitor',¹⁰ a byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser gyda nifer wedi cynyddu dros gyfnod. Cofnododd Birds of Gwent yn 2008 fod y Rhostog Cynffonddu yn 'regular passage migrant and winter visitor in increasing numbers', gan nodi 'some birds stay through the summer',¹¹ yn 1977 cafodd ei ddisgrifio 'regular spring and autumn passage migrant in small numbers, with occasional birds remaining during summer and winter'.¹² Gellir gweld y cynnydd sylweddol yn nifer yr adar ymfudol teithiol a gaeafu o'r ffaith mai dim ond deg cofnod flaenorol a restrwyd yn Birds of Monmouthshire 1963,¹¹ tra nawr y gellir gweld heidiau o gannoedd o adar. Mae'n ddi-os fod cysylltiad agos rhwng y cynnydd hwn â'r cynnydd enfawr yn y boblogaeth fridio yng Ngwlad yr Iâ, sydd yn teithio heibio a hefyd yn gaeafu yma yng Ngwent. Mae effaith creu Morlynnoedd Goldcliff yn denu adar ychwanegol a hefyd gynyddu eu niferoedd hefyd yn bwysig iawn. Mae'r adroddiad yn The Birds of Gwent 2008 yn rhoi syniad gwell o'r cynnydd dramatig mewn niferoedd. Nid yw'r Rhostog Cynffonddu erioed wedi bridio yng Ngwent. Fodd bynnag, gyda bridio llwyddiannus wedi digwydd ar Wastadeddau Gwlad yr Haf a chynefin a allai fod yn bosibl ar ben Goldcliff o Wlypdir Casnewydd, mae bridio yng Ngwent yn bosiblwydd.

Mae bron yr holl gofnodion ar Wastadeddau Gwent. Y ganolfan cofnodi yw Gwlypdir Casnewydd, gyda 854 cofnod o fewn sgwâr 1km. Mae llawer o'r cofnodion yn rhai diweddar.

*Dosbarthiad cofnodion y
Rhostog Cynffonddu ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm ≥ 100
cofnod/km²)*



*Cofnodion y Rhostog
Cynffonddu yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Yn bendant iawn yn aderyn yr arfordir yng Ngwent.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd mawr mewn poblogaethau ymfudo a gaeafu o'r Rhostog Cynffonddu o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda chynnydd enfawr yn nidroedd yr adar sy'n mynd heibio wrth ymfudo ac yn gaeafu. Cafodd hyn ei hybu gan y cynnydd enfawr yn y boblogaeth fridio yng Ngwlad yr Iâ, ac mae creu Morlynnoedd Goldcliffe wedi ychwanegu at hynny yn lleol gan ddenu'r Rhostog a chynnyddu'r niferoedd. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth Rhostog Cynffonddu sy'n ymfudo heibio ac yn aros dros y gaeaf yn ddiogel iawn yng Ngwent ar hyn o bryd.

Caiff manylion y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau'r Arolwg Adar Gwlypdir (WeBS) eu dangos yn y siart islaw, sy'n dangos y cynnydd yn y boblogaeth yn glir iawn.

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.


Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer Rhostog Cynffonddu ar Aber yr Hafren¹³



Fodd bynnag, mae posibilrwydd go iawn o ychwanegu'r Rhostog Cynffonddu at restr bridio Gwent (a Chymru). Mae safle Gwlypdir Casnewydd eisoes wedi ychwanegu nifer o rywogaethau at ffawna adarol bridio Gwent/Cymru, gyda 'r Cambig yn un enghraifft nodedig. Byddai'n ddefnyddiol deall sut y caiff cynefinoedd eu rheoli yn East Anglia, mewn lleoedd fel Nene Marshes a Welney, ac ardaloedd yn nes gartref ar Wastadeddau Gwlad yr Haf, os dymunir annog y Rhostog Cynffonddu i fridio yng Ngwent. Fodd bynnag, byddai angen bod yn ofalus iawn i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i reolaeth cynefin a allai annog y Rhostog i nythu yn cael effaith niweidiol ar lwyddiant rhai o'r rhywogaethau eraill o rydwyr sydd eisoes yn nythu yno.

Gwarchodaeth: Daw 98% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Warchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd (69) ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent..

Cofnodion y Rhostog Cynffonddu o safleoedd a warchodir



Pibydd y Dorlan *Actitis hypoleucos* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Oren (DU¹), Gwyrdd (Cymru²)

Data ar gael: Da (1354 cofnod)

Cyd-destun: Mae Pibydd y Dorlan yn ymwelydd haf ac yn ymfudwr teithiol yn y Deyrnas Unedig, gyda nifer fach yn aros gyda ni am y gaeaf. Mae'r gaeafu hwn gan yr adar yn ffenomen mwy diweddar ac mae'r niferoedd yn fach. Mae hyn yn golygu fod



Andy Karran

Pibydd y Dorlan yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynhonnell bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Maent yn un o lu o rywogaethau rhydwyr sy'n mynd drwy'r Deyrnas Unedig wrth ymfudo yn y gwanwyn a'r hydref, gyda nifer yn aros i fridio, er mewn niferoedd llai nag a welir yn y prif safleoedd bridio ymhellach i'r gogledd. Mae gan Bibydd y Dorlan sy'n aros i fridio yn y Deyrnas Unedig ddosbarthiad gogleddol a gorllewinol fel arfer, gan fridio ar hyd afonydd cyflym ac wrth lynnoedd a chronfeydd dŵr yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a gogledd Lloegr.¹⁴ Mae'n rhwydd ei adnabod drwy ei arfer o fynd i fyny ac i lawr a'i hediad cyflym, adain stiff yn isel dros y dŵr.¹⁵ Mae Pibyddion y Dorlan fel arfer yn bwydo ar bryfed ond byddant hefyd yn bwyta mwydon a physgod cregyn.¹⁴ Bu gostyngiad cyffredinol yn y Deyrnas Unedig o 48% rhwng 1970 a 2017.⁵ Er fod ychydig o adar yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig, mae'r rhan fwyaf yn ymfudo pellter maith i Affrica, a chredir mai eu safleoedd gaeafu yw'r prif reswm dros y gostyngiadau hyn.¹⁶


Rhagolygon: Caiff Pibydd y Dorlan yn awr ei ystyried yn fwy o aderyn nentydd ucheldir yn y Deyrnas Unedig, ond nid fel hyn oedd hi bob amser; roeddent hefyd yn gyffredin mewn ardaloedd llawr gwlad yn y 19eg ganrif.⁸ Dechreuodd y dirywiad hwn mewn ardaloedd llawr gwlad ar ddiwedd y 19eg ganrif ac roedd yn fwyaf amlwg (yn sicr yn Ne Cymru) ar ddiwedd y 1940au a'r 1950au.⁸ Gall llygredd afonydd llawr gwlad fod wedi bod yn ffactor am y newid cwmipas hwn.⁸ Arweiniodd y crebachiad hwn i ardaloedd tir uchel yn bennaf at y dosbarthiad creiddiol i'r gogledd a'r gorllewin a welir yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifir fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 13,000.⁹ Mae hyn yn llai nag oedd yn hanesyddol, gyda'r dirywiad wedi ei achosi gan golli llawer o'r boblogaeth llawr gwlad a gostyngiadau mwy diweddar fel sy'n dilyn: gostyngiad o 48% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan), gyda hyn yn dal i fod yn fwy amlwg yn fwy diweddar gyda gostyngiad pellach o 5% rhwng 2012-2017.⁹ Mae Arolwg Bridio Adar y BTO¹⁷ yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach, gan ddangos gostyngiad o 29% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig. Bu rhai arwyddion o adferiad yn ddiweddar, gyda chynnydd o 9%,¹⁸ er fod hynny mewn dim ond un flwyddyn (2018-2019). Dim ond amser a ddengys os yw hyn yn ddechrau adferiad.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Pibydd y Dorlan i'w cael o fewn Gwent fel aderyn bridio ar nifer o gyrsiau dŵr, gyda'r Afon Wysg a'r Afon Mynwy y safleoedd gorau¹⁸ a nifer o gyrff merddwr hefyd yn cael eu defnyddio. Caiff darnau o afonydd gyda basleoedd gro eu ffafrio'n neilltuol. Gellir eu cael yn fwy eang pan fyddant yn ymfudo, ond maent yn dal i fod yn gysylltiedig gyda dŵr, gyda llawer o ymfudwyr teithiol ar yr arfordir a'r aderyn gaeafu achlysurol yno hefyd. Mae'r Gwent Bird Report (2018) diweddaraf yn dweud fod Pibydd y Dorlan yn 'uncommon passage migrant and breeder; uncommon


winter visitor’¹⁰ Fodd bynnag, cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod Pibydd y Dorlan yn ‘uncommon passage migrant and scarce winter visitor. an uncommon breeder’.¹⁸ Mae hyn yn awgrymu y bu gostyngiad yn lefelau’r boblogaeth fel a welwyd yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981–1985 boblogaeth o lai na 100 pâr yng Ngwent,²⁰ gyda’r ail atlas ar gyfer 1998–2003 yn amcangyfrif cyfanswm is o 25-40 pâr.¹⁸ Mae hyn unwaith eto yn dangos dirywiad yn ystod y 1980au a’r 1990au. Ar y cyfan, byddai’n deg dweud fod y boblogaeth fridio wedi gostwng ond ei bod yn cael ei chynnal ar lefel newydd, is. Ar y llaw arall, mae’n fwy aml fel adar gaeafu – er mewn niferoedd bach iawn – mae’n debyg oherwydd gaeafau cyffredinol fwynach.

Mae cofnodion yn dangos dosbarthiad yn gyffredinol ar draws arfordir y Gwastadeddau ond hefyd ar hyd yr Afon Wysg, Afon Gwy a’r Afon Mynwy yn ogystal â chronfa ddŵr Llandegfedd a Llyn Rhaslas. Y prif ganolfannau cofnodi yw Goldcliff/Gwlypdir Casnewydd (334 cofnod) a Llanbedr Gwynllŵg (122 cofnod).

*Dosbarthiad cofnodion Pibydd
y Dorlan ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm
 ≥ 100 cofnod/km²)*




*Cofnodion Pibydd y
Dorlan yn ôl degawd*



Patrymau cynefin: Yn bendant iawn yn aderyn yn gysylltiedig gyda dŵr, gydag adar bridio yn hoff o afonydd gyda gro agored ac adar teithiol yn fwy eangfrydig yn eu dewis o gyrff dŵr, gyda llawer o gofnodion o'r arfordir hefyd.


Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau ym mhoblogaethau Pibydd y Dorlan ar draws eu cwrpas yn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda chwymp mewn niferoedd bridio. Ymddengys fod cyfradd y colledion hyn wedi arafu gyda Pibydd y Dorlan yng Nghymru ar y rhestr Werdd, felly o'r lleiaf o gonsyrn cadwriaethol, er ei fod yn dal i fod yn Oren yn y Deyrnas Unedig. Byddai'n ymddangos y caiff colledion poblogaeth eu gyrru gan bennaf gan faterion yn ymwneud â safleoedd gaeafu ac wrth ymfudo. Mae hyn yn adlewyrchu problem fyd-eang newid hinsawdd, sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd trin y gostyngiad ar lefel leol. Fodd bynnag, gall cynefinoedd yma yng Ngwent gael eu cadw a'u gwella i gynyddu'r adnoddau a all fod ar gael ar gyfer Pibydd y Dorlan sy'n bridio. Afonydd glân heb lygredd gyda gro agored yw eu hoff gynefin, felly os gellir cadw'r cynefinoedd hyn a'u gadael heb darfu arnynt yn ystod y tymor bridio yna dylai dyfodol Pibydd y Dorlan yng Ngwent fod yn rhesymol gadarn. Dylid hefyd gofio fod Pibydd y Dorlan yn gaeafu'n gynyddol yng Ngwent, gydag Aber yr Hafren y prif safle. Caiff manylion cyfrifiadau y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS eu dangos yn y siart dilynol, sy'n dangos niferoedd amrywiol, eithaf isel ond efallai gyda chynnydd bychan dros gyfnod.

Cyfrifiadau Brig y Gaeaf WeBS ar gyfer Pibydd y Dorlan ar Aber yr Hafren¹³



Gwarchodaeth: Daw 72% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda niferoedd uchel o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent, yn ogystal â SSSI Cronfa Ddŵr Llandegfedd. Daw cofnodion Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) o'r Hafren (er bod cofnodion hefyd ar SAC yr Afon Wysg a'r Afon Gwy nad ydynt wedi eu cofrestru o fewn y safle a warchodir oherwydd ei fod yn ddynodiad mor gul). Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Barc Bryn Bach, Llynnoedd Garn a Pharc St Julian, a chofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Lyn Rhaslas a'r Afon Wysg yng Nghaerllion.

Cofnodion Pibydd y Dorlan o safleoedd a warchodir



Pibydd y Mawn *Calidris alpina* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Oren (DU¹), Coch (Cymru²)

Data ar gael: Da (2,792 cofnod)

Cyd-destun: Mae Pibydd y Mawn yn un o'r adar hirgoes mwyaf cyfarwydd a chyffredin yn y Deyrnas Unedig. Maent yn llawer mwy cyffredin fel adar gaeafu, ond hefyd yn teithio heibio pan fyddant yn ymfudo ac mae niferoedd llai yn aros i fridio. Mae tri gwahanol fath o Bibydd y Mawn yn ymweld

â'r Deyrnas Unedig. Dim ond un ohonynt sy'n rhywogaeth prin ac mae hefyd yn ymfudwr teithiol; dim ond pan fydd yn ymfudo y mae'r ail fath yn pasio heibio, gan nythu ymhellach i'r gogledd a gaeafu yn llawer pellach i'r de yng Ngorllewin Affrica.²¹ Mae trydydd math yn nythu ymhellach i'r gogledd ond yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig a'r math hwn yw'r mwyaf niferus o bell yn y Deyrnas Unedig.²¹ Mae hyn yn golygu fod Pibydd y Mawn yn fregus i newidiadau yng nghyfeirnod yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Maent yn un o lu o rywogaethau adar hirgoes sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig pan fyddant yn ymfudo yn y gwanwyn a'r hydref. dim ond nifer cymharol fach sy'n aros i fridio, ond mae nifer sylweddol yn treulio'r gaeaf yn y Deyrnas Unedig. Mae Pibydd y Mawn sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu cyfyngu i ardaloedd tir uchel Lloegr, yr Alban a Chymru a thir is ar Ynysoedd Heledd, tebyg i Ynysoedd Heledd, felly mae dosbarthiad gogleddol a gorllewinol neilltuol.²² Mae'r adar ymfudol fel arfer yn treulio'r gaeaf yng Ngorllewin Affrica, tra bod poblogaeth sylweddol y gaeaf yn cynnwys adar a fridiodd yng Ngorllewin Siberia.²³ Mae Pibydd y Mawn yn bennaf yn bwyta pryfed, malwod a mwydod,²² gan wneud defnydd da o'u pigau hir. Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, bu gostyngiad o 47% mewn adar gaeafu rhwng 1970 a 2017.⁵ Gall y gostyngiad mewn niferoedd fod oherwydd nifer o ffactorau, gyda lledaeniad *Spartina anglica* (cordwellt) o fewn ardaloedd bwydo'r aber â rhan.²⁴ Mae gaeafau mwynach hefyd yn golygu fod mwy o adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain mewn ardaloedd fel Môr Wadden, ac felly heb fod yn cyrraedd y Deyrnas Unedig.²⁵ Mae'r boblogaeth fridio wedi gostwng i ryw raddau gyda ysglyfaethu gan ddraenogiaid ar gadarnleoedd ar ynysoedd a choedwigaeth yn yr ucheldir yn ddau achos a awgrymwyd.

Rhagolygon: Mae'n ymddangos fod Pibydd y Mawn bob amser wedi bod yn llawer mwy cyfarwydd fel adar gaeafu nag fel adar bridio yn y Deyrnas Unedig. Roedd unwaith yn bridio ar safleoedd mwy llawr gwlad, ond cafodd llawer o'r rhain eu colli i ddraeniad/addasu i dir amaethyddol.⁸ Fe wnaeth y poblogaethau bridio ar y tir uchel yn gyffredinol well, er y collwyd rhai safleoedd i goedwigaeth.⁸ Efallai fod yr Alban yn parhau'n gadarnle ar gyfer y boblogaeth fridio, ond mae poblogaethau sylweddol yn y Pennines yng ngogledd Lloegr a phoblogaethau llai ar yr ucheldir yng Nghymru; mae'r poblogaethau bridio mwyaf deheuol yn y byd ar Dartmoor.²⁶ Amcangyfrifir fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2005-2007 yn 8,600–10,500 pâr.⁹ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio gymharol fach ac eithaf lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn fawr (350,000 yn 2016–2017) ond bu gostyngiadau sylweddol: gostyngiad o 47% yn 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan), gyda hyn ymddengys i fod wedi sefydlogi'n ddiweddar heb unrhyw newid rhwng 2012–2017.⁵ Mae'r




Andy Karran

boblogaeth gaeafu wedi ei dosbarthu'n eang o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, ond mae canran sylweddol wedi crynhoi o fewn nifer o systemau aber a ffafrir.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Pibydd y Mawn yn 'common winter visitor/fairly common on passage on coast/very rare breeder'.¹⁰ Bu hyn yn wir am amser maith, ond mae'r nifer gaeafu wedi gostwng i ryw raddau dros gyfnod. Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod Pibydd y Mawn yn 'winter visitor to the coast in large numbers, with some passage birds. Formerly an occasional breeder in very small numbers'.²⁸ Nodwyd fod Aber yr Hafren a Gwent yn neilltuol yn bwysig iawn i Bibydd y Mawn: mae Aber yr Hafren o Bwysigrwydd Rhyngwladol (y pumed pwysicaf yn y Deyrnas Unedig) ac mae'r nifer fwyaf o Bibyddion y Mawn yn Aber yr Hafren yn ardal arfordir Llanbedr Gwynllŵg-Sant y Brid.²⁷ Yn y mewndir yng Ngwent, mae Pibydd y Mawn yn cyrraedd yn flynyddol ond dim ond nifer fach ohonynt, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd y safle gorau.²⁷ Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Pibydd y Mawn yn rhan gyffredin a phwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf, er fod y nifer wedi gostwng. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw ac yn fwyaf tebygol am resymau tebyg. Y rheswm pwysicaf yw fod adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain fel ymateb i aeafau cyffredinol fwynach. Ni fu Pibydd y Mawn erioed mewn unrhyw ffordd yn gyffredin ac efallai erioed yn rheolaidd fel rhywogaeth fridio yng Ngwent; gall y gofnod hanesyddol achlysurol fod hyd yn oed dros y ffin ym Mhowys. Canolbwynt gweithgaredd bridio blaenorol oedd y tir uchel yng ngogledd y sir, yn ardal y Fenni a Blaenau'r Cymoedd.²⁷ Mae'n bosibl y gall Pibydd y Mawn fridio eto yn yr ardaloedd cyffredinol yma ond nid oes dim byd i awgrymu fod hyn yn debyg o fod yn ddim mwy na digwyddiad prin ac afreolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion ar hyd arfordir Aber yr Hafren; mae cofnodion achlysurol yn y mewndir, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd yn ffocws a rhai yn y tir uchel.

*Dosbarthiad cofnodion
Pibydd y Mawn ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm
 ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion Pibydd y
Mawn yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae Pibydd y Mawn yn bendant iawn yn aderyn arfordir lleidiog Aber yr Hafren, gyda niferoedd bach yn y mewndir mewn cyrff dŵr ac yn achlysurol iawn wedi’u cofnodi yn y tir uchel ar gynefin bridio posibl mewn rhostir.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad amlwg ym mhoblogaeth gaeafu Pibydd y Mawn o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda chwymp yn nifer yr adar sy’n gaeafu. Caiff y gostyngiadau hyn eu gyrru gan aeafau cyffredinol fwynach yn galluogi niferoedd mwy i aeafu ymhellach i’r dwyrain. Byddai’n ymddangos ar hyn o bryd fod y boblogaeth Pibydd y Mawn sy’n gaeafu yng Ngwent yn ddiogel ac yn dal yn arwyddocaol iawn fel rhan o safle rhyngwladol bwysig Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn wrth fonitro’r poblogaethau, er mai ychydig a fedrir ei wneud yn nhermau cadwraeth lleol i ddylanwadu ar y gostyngiadau a achosir gan adar yn gaeafu ymhellach i’r dwyrain. Fodd bynnag, byddai angen craffu’n ofalus ar effeithiau posibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaethau gaeafu Pibydd y Mawn .


Rhodir manylion y niferoedd sy’n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS yn y siart dilynol, sy’n dangos yn amlwg iawn y gostyngiad graddol yn y poblogaethau hyd at droad y ganrif. Mae’r gostyngiad yn y boblogaeth wedi aros yn ei unfan ers hynny. Mae hyn yn cynrychioli’r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach na Gwent Fwyaf i gyd. Dylid nodi fod Pibydd y Mawn yn un o’r ychydig adar sydd â chyfrifiad parhaus ers 1970 – set data rhagorol.

Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer Pibydd y Mawn ar Aber yr Hafren¹³



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae’n annhebygol y bydd Pibydd y Mawn yn ddim mwy nag adar bridio prin iawn yng Ngwent, yn neilltuol gan ein bod yn ymarferol ar ben deheuol ei gwmpas bridio. Os yw’r tir uchel yng ngogledd Gwent yn parhau i gael ei warchod, yna bydd yr adnodd hwn yn parhau i fod ar gael a gellir ei ddefnyddio yn achlysurol.

Gwarchodaeth: Daw 97% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Aber yr Hafren, Gwlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent a rhai o SSSI Llandegfedd.



Cofnodion Pibydd y Mawn o safleoedd a warchodir

Cwtiad Torchog Bach *Charadrius dubius* (Scopoli, 1786)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Gwyrdd (DU¹ a Cymru²)

Data ar gael: Da (775 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn ymwelydd haf i'r Deyrnas Unedig ac yn ymwelydd teithiol yma. Mae hyn yn golygu ei fod yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio



Andy Karran

arnynt i gyd.³ Er bod llawer o'n rhywogaethau adar hirgoes yn fwyaf niferus yn y Deyrnas Unedig yn ystod y gaeaf, dim ond yn ystod y gwanwyn/haf y mae'r Cwtiad Torchog Bach yn ymweld ac yn gadael ddiwedd yr haf/hydref i dreulio'r gaeaf yn Affrica.²⁹ Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn ychwanegiad cymharol ddiweddar i ffawna adarol bridio y Deyrnas Unedig, a chofnodwyd y bridio cyntaf mor ddiweddar â 1938.³⁰ Maent yn bridio ar lannau graeanog yn agos at ddŵr, gellir eu gweld ar hyd ochrau graeanog afonydd ond maent yn neilltuol o hoff o bydewau gro a chronfeydd dŵr a adeiladwyd.³¹ Mae eu dosbarthiad yn fwy deheuol o fewn y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr.³⁰ Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn bwydo fel arfer ar bryfed ac infertebratau dyfriol.³⁰ Mae'r boblogaeth yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu ers eu cytrefu cyntaf ac wedi parhau'n eithaf cyson mewn blynyddoedd diweddar. Priodolwyd y llwyddiant hwn i gynydd mewn cynefin nythu addas, gyda phyllau gro, cronfeydd dŵr a chwareli wedi eu creu ac, mewn rhai achosion, eu gadael gan roi lleoliadau delfrydol.³²


Rhagolygon: Ystyriwyd bod y Cwtiad Torchog Bach yn ymwelydd prin iawn i'r Deyrnas Unedig yn ystod y 19eg ganrif.⁸ Ni chafwyd y gofnod gyntaf o fridio yn y DU tan 1938.⁸ Roedd bridio wedyn yn achlysurol am ychydig flynyddoedd. Fodd bynnag, cynyddodd y boblogaeth fridio gan 15% bob blwyddyn rhwng 1948 a 1962.⁸ Priodolwyd y cytrefu a'r cynnydd hwn i ehangu adeiladu yn y Deyrnas Unedig yn ystod yr 20fed ganrif, a arweiniodd at gynydd cyflym yn nifer y pyllau gro dan ddŵr ac amgylcheddadau gwneuthuredig eraill, tebyg i domennydd diwydiannol, ffermydd carthffosiaeth, cronfeydd dŵr a chwareli, gyda'r Cwtiad Torchog Bach wedi manteisio arnynt i gyd.⁸ Erbyn 1972, amcangyfrifwyd fod 400 pâr yn y Deyrnas Unedig; erbyn 1991 roedd 825-1,070 pâr.⁸ Mae'r amcangyfrif diweddaraf yn 2007 o boblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 1,250 pâr.⁹ Dengys cyfeiriadau at dueddiadau BTO y bu cynnydd mawr rhwng 1940-1969, cynnydd cymedrol rhwng 1996-1995 a dim newid cyffredinol rhwng 1996-2020.³²

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Cwtiad Torchog Bach yn 'uncommon passage migrant and scarce breeder'.¹⁰ Yn 1977 cofnododd The Birds of Gwent ei fod yn 'uncommon passage migrant' gyda dim ond 16 cofnod blaenorol (13 ohonynt ers 1970) a rhagwelodd na fyddai'n hir cyn iddynt fridio yng Ngwent.³³ Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Cwtiad Torchog Bach yn 'uncommon passage migrant and scarce summer visitor',³⁴ dengys hyn yn glir fod nifer y Cwtiad Torchog Bach wedi cynyddu a'i fod wedi sefydlu fel aderyn bridio yng Ngwent. Dengys y Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer 1981-1985 fod poblogaeth o 3 pâr yng Ngwent (gyda'r bridio cyntaf yn 1984);³⁵ mae'r ail atlas, ar gyfer 1998 – 2003, yn amcangyfrif


cyfanswm is o 8-12 pâr.³³ Mae hyn eto yn dangos y cynnydd yn y Cwtiad Torchog Bach yng Ngwent o'r 1970au ymlaen a'u sefydlu fel rhywogaeth bridio o'r 1980au ymlaen. Ymddengys fod peth amryfusedd am ble oedd nythod y parau cyntaf yng Ngwent, gyda sôn am lannau cronfa ddŵr wedi sychu³⁵ a glannau gro ar yr Afon Wysg³⁴. Yr hyn sy'n glir yw, er bod safleoedd fel hyn yn dal i gael eu defnyddio, mai'r morlynnoedd yn Goldcliff (Gwlypdir Casnewydd) yw prif ganolbwynt gweithgaredd bridio yng Ngwent ar hyn o bryd. Caiff adar ymfudol eu cofnodi ar yr arfordir, yn bennaf Forlynnoedd Goldcliff, ond mae'n anodd gwahaniaethu ymfudwyr teithiol o'r boblogaeth fridio; byddai'n ymddangos mai cronfa ddŵr fewndirol Llandegfedd fyddai'r safle mwyaf dibynadwy ar gyfer ymfudwyr.

Y prif ganolfannau cofnodi yw Goldcliff (440 cofnod) a Llyn Rhaslas. Mae mannau llai yn Llandegfedd, ac ar hyd yr Afon Wysg. Mae hefyd ganolfannau ar ffiniau ardal yr astudiaeth yn Chwarel Ystrad a chronfa ddŵr Llysfaen (heb eu dangos).

*Dosbarthiad cofnodion y
Cwtiad Torchog Bach
(uchafswm ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion y Cwtiad
Torchog Bach yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn bendant iawn yn aderyn sy'n gysylltiedig gyda glannau gro cyrff dŵr, felly mae rhai adrannau o'r Afon Wysg, cronfeydd dŵr ac yn arbennig y morlynnoedd yn Goldcliff yn safleoedd a ffafrir.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond yn gymharol ddiweddar mae'r Cwtiad Torchog Bach wedi cytrefu ac wedyn sefydlu poblogaethau ar draws rhannau mawr o'r Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol; adroddwyd y bridio cyntaf yn 1984 a nodwyd bridio bob blwyddyn ers hynny, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn arbennig ers sefydlu Gwlypdir Casnewydd yn 1999. I raddau helaeth mae'r cynnydd hwn oherwydd y cynnydd mewn cynefinoedd bridio addas sydd ar gael. Mae cyfrifiadau WeBS yn y graff dilynol yn dangos yn glir y cynnydd ar ôl 1999, ac er bod niferoedd wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae'r boblogaeth hon yn awr yn amlwg wedi sefydlu'n dda. Gyda'u gofynion bridio penodol iawn, mae niferoedd y Cwtiad Torchog Bach yn debyg o barhau'n gymharol isel yng Ngwent, fodd bynnag byddai ei ddyfodol hirdymor yn ymddangos yn gadarn, yn arbennig gyda'r lefelau gwarchodaeth a rheolaeth a roddir i'w cadarnle ym Morlynnoedd Goldcliff. I ffwrdd o Goldcliff, efallai y gellid hybu ymgais a llwyddiant bridio drwy geisio cadw ymyrraeth mewn safleoedd yn isel yn ystod y tymor bridio.


Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafswm yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif. Fe wnaeth y Cwtiad Torchog Bach ymddangos yng nghyfrifiadau WeBS mewn tri safle arall – Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Llynnoedd Warrage a Phwll Peiriant – ond dim ond yn achlysurol ac fel arall un aderyn yn unig. Felly, mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach nag yng Ngwent Fwyaf i gyd.

Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Cwtiad Torchog Bach ar Aber yr Hafren¹³



Gwarchodaeth: Daw 94% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o safleoedd amlwg Gwlypdir Casnewydd, Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a SSSI Llandegfedd. Roedd hefyd niferoedd mawr o Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Pwll Rhaslas.

Cofnodion y Cwtiad Torchog Bach o safleoedd a warchodir



Y Ganwraidd Goesgoch *Tringa totanus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Oren (DU¹) Coch (Cymru²)

Data ar gael: Da (3,693 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Ganwraidd Goesgoch yn un o adar hirgoes mwyaf cyfarwydd a chyffredin y Deyrnas Unedig. Maent yn fwyaf cyffredin o ddigon fel adar gaeafu, ond maent hefyd yn pasio trwodd pan fyddant yn ymfudo, ac mae niferoedd rhesymol yn aros i fridio. Mae hyn yn golygu fod y



Andy Karran

Ganwraidd Goesgoch yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Mae'r Ganwraidd Goesgoch yn bridio mewn lleoedd llaith fel morfeydd heli, dolydd gorlifdir ac o amgylch llynnoedd.³⁶ Er eu bod wedi dosbarthu'n gymharol eang o amgylch y Deyrnas Unedig fel aderyn bridio, mae tueddiad gogleddol gyda'r niferoedd mwyaf mewn rhannau o'r Alban a gogledd orllewin Lloegr.³⁶ Caiff yr adar gaeafu eu hybu gan lawer o adar o ymhellach i'r gogledd, gyda nifer fawr yn cyrraedd o boblogaeth fridio Gwlad yr Iâ.³⁷ Mae diet y Ganwraidd Goesgoch yn newid gyda'r tymhorau a chynefin; maent yn bwyta infertebratau, yn arbennig fwydon a larfa pryfed teiliwr pan fyddant yn y mewndir a chramenogion, molysgiaid a mwydon morol mewn aberoedd,³⁸ gan wneud defnydd da o'u pigau hir. Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad o 60% mewn niferoedd bridio rhwng 1970 a 2017.⁵ Ar y llaw arall, ni fu fawr o newid yn y boblogaeth gaeafu, gyda dim ond dirywiad bach iawn o 3% rhwng 1970 a 2017.⁵ Mae'r gostyngiad mewn niferoedd bridio oherwydd nifer o ffactorau, gyda draeniad tir amaethyddol a gorburi ar forfeydd heli o arwyddocâd neilltuol.³⁷

Rhagolygon: Bu gostyngiad yn y Ganwraidd Goesgoch yn hanner cyntaf y 19eg ganrif oherwydd mwy o drin a draeniad ar dir amaethyddol.⁸ Fodd bynnag, newidiodd pethau a chynyddodd poblogaethau bridio yn ail hanner y 19eg ganrif ac i mewn i'r 20fed ganrif.⁸ Byddai dirywiad pellach ar ôl 1940 fodd bynnag, a briodolwyd i fwy o golli cynefin. Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 22,000 pâr.⁹ Mae hyn yn llai nag oedd yn hanesyddol gyda dirywiad yn digwydd oherwydd colli a dirywiad cynefinoedd gwlypdir drwy ddraeniad a gorburi. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, a bu gostyngiad yn fwy diweddar: cwmp o 60% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan), gyda hyn yn llai difrifol yn fwy diweddar, gyda dirywiad arall o 4% rhwng 2012 a 2017.⁵ Mae Arolwg Adar Bridio y BTO¹⁷ yn darlunio'r dirywiad hwn ymhellach, gan ddangos gostyngiad o 42% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig. Yn fwyaf diweddar, bu rhai arwyddion o adferiad, gyda chynnydd o 14%¹⁷ yn 2018–2019. Dim ond amser a ddengys os bydd hyn yn dechrau adferiad.


Mae'r boblogaeth gaeafu yn fwy (100,000)⁹ ac wedi ei dosbarthu'n weddol wastad o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, gyda llawer o'r Ganwraidd Goesgoch sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig yn breswyl. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol yn cyrraedd, llawer ohonynt o boblogaeth Gwlad yr Iâ³⁷, ac mae canran sylweddol ohonynt wedi crynhoi o fewn nifer cymharol fach o safleoedd a ffafrir mewn aberoedd. Bu'r boblogaeth gaeafu yn fwy sefydlog na'r boblogaeth fridio, gyda gostyngiadau bach iawn yn unig: gostyngiad o 1% rhwng 1978 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel fawr o newid), gyda hyn yn dal i

fod yn wir mewn blynyddoedd mwy diweddar, gyda chynnydd bach o 3% wedi ei nodi yn 2012–2017.⁵ Gallai'r patrwm hwn fod yn fwy cymhleth, serch hynny, gan bod data'r BTO yn awgrymu cynnydd o'r 1970au ond dirywiad o 2001 sydd wedi arafu neu wrthdroi yn y blynyddoedd mwyaf diweddar.³⁷


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Ganwraidd Goesgoch yn 'common winter visitor and passage migrant, uncommon breeder'.¹⁰ Byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser, er fod ei niferoedd efallai wedi gostwng dros gyfnod: cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Ganwraidd Goesgoch yn "breeds in small numbers, mainly on the coast. Also a passage migrant and winter visitor in moderate numbers";³⁹ yn 1977 fe'i galwodd yn 'breeding resident in moderate numbers; passage migrant and winter visitor in larger numbers'.⁴⁰ Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer 1981–1985 fod poblogaeth o 40-50 pâr yng Gwent,⁴¹ gyda'r ail atlas, ar gyfer 1998-2003, yn amcangyfrif cyfanswm is o 15-30 pâr.³⁹ Mae hyn yn awgrymu dirywiad mewn poblogaeth. Mae bridio yng Ngwent wedi ei gyfyngu bron yn llwyr i'r arfordir, gyda phoblogaethau mewndirol blaenorol ger yr Afon Wysg a'r Olway yn bennaf wedi eu colli oherwydd dwysau amaethyddol.³⁹ Mae poblogaethau at y tir uchel bob amser wedi ymddangos yn brin yng Ngwent, er fod parau wedi bridio yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn y gorffennol.³⁹ Ar adegau eraill o'r flwyddyn, nodwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn i'r Ganwraidd Goesgoch; mae o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch sy'n gaeafu ac o bwysigrwydd cenedlaethol pan fyddant yn ymfudo (yn yr hydref).⁴² Yn y mewndir yng Ngwent, mae'r Ganwraidd Goesgoch yn flynyddol ond dim ond mewn niferoedd bach.³⁹ Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Ganwraidd Groesgoch yn rhan bwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf; mae niferoedd yn ymddangos yn weddol sefydlog, ac mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

Y prif ganolfannau cofnodi yw Llanbedr Gwynllŵg (1,272 cofnod) a Goldcliff. Mae hefyd ganolfannau yn Nant Nedern, Pil Collister, Pil Cil-y-coed, the Moorings a Chei Môwr Rhymni. Ymddengys fod y ganolfan yn Swydd Gaerloyw yn anghywir oherwydd canoli nifer isel o gofnodion.

*Dosbarthiadau cofnodion y
Ganwraidd Goesgoch ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion y Ganwraidd
Goesgoch yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Ganwraidd Goesgoch yn bendant iawn yn aderyn arfordir Aber yr Hafren, gyda niferoedd sylweddol yno yn ystod y gaeaf a phoblogaethau bridio bach mewn ychydig o ardaloedd ar y Gwastadeddau sy'n union gerllaw.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, mae poblogaeth aeafu y Deyrnas Unedig yn fras sefydlog er yn amrywio i ryw raddau. Mae hyn hefyd yn wir o fewn Gwent, ac mae ein poblogaethau ymfudol yn ystod y gaeaf yn gadarn. Er hyn, mae'n bwysig monitro'r poblogaethau drwy astudiaethau parhaus o dueddiadau yn bwysig, fel y medrir cymryd camau gweithredu posibl. Byddai angen craffu yn agos ar effeithiau posibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaethau y Ganwraidd Goesgoch sy'n gaeafu, ynglŷn ag adar hirgoes ac adar dŵr eraill, yn ofalus.⁴³


Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrifiad/amcangyfrif. Felly mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safleoedd mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren a Nant Nedern) yn hytrach na Gwent Fwyaf i gyd.

Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch ar Aber yr Hafren¹³



Mae gan Nant Nedern ddata parhaus ers 2012/13 yn ogystal â rhai cyfrifiadau gwasgaredig yn y 1990au. Er nad yw'n set data digon hir mewn gwirionedd i benderfynu tueddiad, mae'n dangos arwyddocâd y safle ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch yn ogystal â'r amrywiad rhwng tymhorau.


Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch yn Nant Nedern¹³



Ymddengys fod niferoedd bridio y Ganwraidd Groesgoch wedi sefydlogi o fewn Gwent, gyda Morlynnoedd Goldcliff yn awr y canolbwynt. Pe byddai niferoedd yn codi o fewn Gwent, byddai newid angen rheolaeth o fewn safleoedd a allai fod yn addas. Byddai angen gostyngiadau mewn pori, adfer caeau â'r ac ailwylchu cynefinoedd mewn safleoedd blaenorol yn y mewndir yn agos at yr Wysg a'r Olway. Mae hefyd botensial ar gyfer mwy o barau ar Wastatiroedd Gwent, ond byddai angen newid cadarn mewn rheolaidd ar gyfer hyn, gyda llai o bori.

Gwarchodaeth: Daw 97% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Wlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol arbennig (SSSI) Nant Nedern. Daw cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Barc St Julian a Llynnoedd Garn.

Cofnodion y Ganwraidd Groesgoch o safleoedd a warchodir



Cwtiad Torchog *Charadrius hiaticula* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU¹ a Cymru²), wedi symud yn ddiweddar o Oren i Goch ar y ddwy restr.

Data ar gael: Da (1,268 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Cwtiad Torchog yn un o'r adar hirgoes mwy cyffredin a chyfarwydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n fwy cyffredin fel aderyn gaeafu, ond mae hefyd yn pasio trwodd ar ymfudiad, ac mae nifer lai yn aros i fridio gyda rhai adar yn

breswyl drwy'r flwyddyn.⁴⁴ Mae hyn yn golygu fod y Cwtiad Torchog yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Mae'r Cwtiad Torchog sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu dosbarthu'n eang o amgylch yr arfordir, gyda chofnodion pellach mewn safleoedd mewndirol tebyg i byllau gro a hen safleoedd diwydiannol.^{44,5} Mae'r adar ymfudol yn bridio mewn ardaloedd fel Ynys Las,⁴⁴ gan aeafu yn llawer pellach i'r de, cyn belled ag Affrica. Mae'r boblogaeth aeafu sylweddol yn cynnwys adar sy'n bridio ar dir mawr Ewrop.⁴⁴ Mae'r boblogaeth hon o arwyddocâd cadwraeth neilltuoel ar gyfer y Deyrnas Unedig, gan ei fod yn ffurfio canran sylweddol o rywogaeth neilltuoel *hiaticula*. Mae'r Cwtiad Torchog yn bwydo'n bennaf ar infertebratau ym misoedd yr haf a mwydon morol, cremannod a molysgiaid yn y gaeaf.³⁸ Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad o 36% mewn adar gaeafu rhwng 1970 a 2017.⁵ Gall y gostyngiad mewn niferoedd fod oherwydd nifer o ffactorau; y ffactor pwysicaf yw fod newid hinsawdd yn arwain at dymheredd uwch yn y gaeaf sy'n golygu mai ychydig o adar gaiff eu pwthio mor bell â hyn i'r gorllewin – cafodd hyn ei feio am ostyngiadau mewn ystod cyfan o adar hirgoes gaeafu gyda'r Cwtiad Torchog yn un ohonynt.⁴³ Mae'r boblogaeth fridio hefyd wedi gostwng gyda ysglyfaethu gan ddraenogod mewn cadarnleoedd ar ynysoedd³⁷ ac ymyrraeth ddynol^{45,37} yn ddau o'r achosion a awgrymwyd.



Andy Karran


Rhagolygon: Ar ddiwedd y 19eg ganrif, roedd y Cwtogiad Torchog yn magu ar arfordir fwy neu lai bob sir ym Mhrydain; yn ddiddorol, roedd arfordir Sir Fynwy yn eithriad amlwg.⁸ Nodwyd y bu dirywiad eang rhwng y ddau Ryfel Byd, gyda mwy o darfu oherwydd cynnydd mewn defnydd hamdden a datblygu'r arfordir gyda, er enghraifft, feysydd carafanau ac amddiffynfeydd môr.⁸ Amcangyfrifir fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2007 yn 5,450 pâr.⁹ Nododd arolygon y BTO y bu cynnydd mewn poblogaethau bridio rhwng 1974 a 1984, a yrrwyd gan gynnydd mewn safleoedd mewndirol.³⁷ Ar ôl hyn, fodd bynnag, bu gostyngiad o 37% yn y boblogaeth fridio rhwng 1984 a 2007, gyda ysglyfaethu gan ddraenogod ar gadarnleoedd yn Ynysoedd Heledd a mwy o darfu cyffredinol. Roedd y colledion mwyaf mewn safleoedd mewndirol, er y bu cynnydd mewn safleoedd ar ddolydd gwlyb.³⁷ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio gymharol fach, mae'r boblogaeth gaeafu yn llawer mwy (42,500 yn 2016) ond bu cwymp amlwg ynddi: gostyngiad o 36% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel newid bach, ond a fyddai'n ymddangos yn weddol sylweddol), ac ymddengys i hyn sefydlogi'n ddiweddar gyda gostyngiad o 3% yn 2012–2017.⁵ Cafodd y boblogaeth aeafu ei dosbarthu'n eang o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, gyda llawer o Gwtiad Torchog bridio y Deyrnas Unedig yn breswyl. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol yn ymweld ac mae canran sylweddol o'r rhain wedi

crynhoi o fewn nifer cymharol fach o safleoedd a ffafir.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn nodi fod y Cwtiad Torchog yn 'fairly common passage migrant; scarce breeder; uncommon in winter'.¹⁰ Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda'r nifer gaeafu yn gostwng i ryw raddau dros gyfnod. Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Cwtiad Torchog yn 'mainly a passage migrant but some birds stay through the year. Has bred sporadically, becoming regular in recent years';⁴⁶ yn 1977, fe'i galwodd yn 'predominantly a passage migrant with a small wintering population and an occasional breeding pair'.³³ Nid yw'r boblogaeth fridio fach yn fawr o syndod, gan fod arfordir Gwent yn brin o'r traethau tywod/gro sydd yn hoff gynefin bridio iddynt.⁴⁶ Ar adegau eraill fodd bynnag, dywedwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn ar gyfer y Cwtiad Torchog wrth aeafu a hefyd wrth ymfudo (yn cynnwys ymfudo yn yr hydref).⁴² Yn y mewndir yng Ngwent, mae'r Cwtiad Torchog yn flynyddol ond dim ond mewn niferoedd bach, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd y safle gorau.⁴⁶ Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cwtiad Torchog yn rhan bwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf, er fod niferoedd wedi gostwng. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ac mae'n debyg o fod am resymau tebyg, gyda'r mwyaf arwyddocaol ohonynt bod adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain fel ymateb i aeafau cyffredinol fwynach.⁴⁶ Ni fu'r Cwtiad Torchog yn gyffredin mewn unrhyw fodd a hyd yn oed yn ddiweddar nid oedd erioed yn rheolaidd fel rhywogaeth bridio yng Ngwent. Yn wir, fel y nodwyd yn flaenorol, ar ddiwedd y 19eg ganrif, nodwyd bod arfordir Sir Fynwy yr unig ddarn o'r arfordir ym Mhrydain yn lle nad oedd y Cwtiad Torchog yn bridio.³ Hyd at ffurfio Gwlypdir Casnewydd yn 1999, dim ond saith cofnod bridio a fu ar gyfer Gwent,⁴⁶ cânt yn awr eu cofnodi'n flynyddol mewn niferoedd bach, gyda Morlynnoedd Goldcliff yn ganolbwynt. Mae'n debyg y bydd y Cwtiad Torchog yn parhau i fridio yng Ngwlypdir Casnewydd, ond gyda llawer o weddill arfordir Gwent yn gyffredinol anaddas, bydd niferoedd yn parhau'n isel.

Y prif ganolbwynt yw Goldcliff (540 cofnod). Mae hefyd nifer sylweddol yn Llanbedr Gwynllŵg, Llyn Rhaslas a Chei Mawr Rhymni. Mae'r canolbwynt yn Swydd Gaerloyw yn debyg o fod yn un anghywir oherwydd canoli cofnodion gyda niferoedd isel.

*Dosbarthiad cofnodion y
Cwtiad Torchog ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm
 ≥ 100 cofnod/km²)*



*Cofnodion y Cwtiad
Torchog yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Cwtiad Torchog yn bendant iawn yn aderyn arfordir Aber yr Hafren, gyda nifer fach yn y mewndir mewn cyrff dŵr tebyg i Gronfa Ddŵr Llandegfedd.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau amlwg ym mhoblogaethau gaeafu y Cwtiad Torchog o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda gostyngiadau amlwg yn yr adar sy'n gaeafu. Caiff y gostyngiadau hyn eu gyrru'n bennaf gan aeafau cyffredinol fwynach yn galluogi nifer fwy i aeafu ymhellach i'r dwyrain. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth Cwtiad Torchog sy'n gaeafu yng Ngwent yn ddiogel ar hyn o bryd ac yn dal i fod o arwyddocâd cenedlaethol fel rhan o boblogaeth gyffredinol Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau cyfredol o dueddiadau yn dal yn bwysig, er mai ychydig fedrid ei wneud yn nhermau cadwraeth leol i ddylanwadu ar y gostyngiadau a achosir gan adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain. Byddai angen craffu'n ofalus ar effeithiau posibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaeth gaeafu'r Cwtiad Torchog ac adar hirgoes ac adar dŵr eraill.⁴³

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach nag fel cyfrif/amcangyfrif. Felly, mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd yn hytrach nag yng Ngwent Fwyaf i gyd. Yn yr achos hwn, mae'r cyfrif yn cyfeirio'n unig at Aber yr Hafren. Gellir gweld gostyngiad clir yn y niferoedd drwy gydol diwedd y 1970au i'r 1980au.


Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Cwtiad Torchog ar Aber yr Hafren¹³



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n annhebyg y bydd y Cwtiad Torchog byth yn ddim mwy nag aderyn bridio anghyffredin yng Ngwent, gan fod llawer o'r arfordir yn anaddas. Dylai rheolaeth barhaus y morlynnoedd yn Goldcliff eu cadw fel rhywogaeth fridio reolaidd.

Gwarchodaeth: Daw 95% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o safleoedd a warchodir ar yr arfordir, yn arbennig Wlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent. Mae hefyd lawer o gofnodion o Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Llandegfedd a rhai cofnodion Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Lyn Rhaslas.

Cofnodion Cwtiad Torchog o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3–31.
3. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-Third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables over 50 years. *Bird Study* 66(2): 159–172, DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
4. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/black-tailed-godwit/>
5. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018, 40.
6. <https://archive.uea.ac.uk/~b026515/icelandic.html>.
7. <https://projectgodwit.org.uk/black-tailed-godwits>
8. Holloway S. 1996. The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900. Poyser, Llundain
9. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/aep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
10. Gwent Bird Report 2018.
11. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 175.
12. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 92.
13. Data Arolwg Adar Gwlypdiroedd (WeBS) o Waterbirds in the UK 2018/19 © hawlfraint a hawl cronfa ddata 2020. Mae WeBS yn bartneriaeth a gaiff ei chyd-ariannu gan y BTO, RSPB a JNCC, mewn cysylltiad â WWT, gyda gwaith maes gan wirfoddolwyr.
14. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/common-sandpiper/>
15. <https://app.bto.org/birdfacts/results/bob5560.htm>
16. <https://www.birdguides.com/news/common-sandpiper-wintering-grounds-established/>
17. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
18. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 188–190.
19. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 93.
20. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 59.
21. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/natures-home-magazine/birds-and-wildlife-articles/migration/migratory-bird-stories/dunlin-migration>
22. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/dunlin/>
23. <https://app.bto.org/birdfacts/results/bob5120.htm>
24. Goss-Custard JD, a Moser ME. 1988. Rates of Change in the Numbers of Dunlin, *Calidris Alpina*, Wintering in British Estuaries in Relation to the Spread of *Spartina Anglica*. *Journal of Applied Ecology* 25 (1): 95–109: www.jstor.org/stable/2403612. (Cyrchwyd 24/11/2021).
25. <http://www.cheshireandwirralbirdatlas.org/species/dunlin-wintering.htm>
26. https://www.dartmoor.gov.uk/_data/assets/pdf_file/0021/78222/Dunlin-Delivery-Plan.pdf
27. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 166.
28. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 96–97.

29. <https://www.birdwords.co.uk/bird-factsheets/little-ringed-plover-charadrius-dubius/>
30. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/little-ringed-plover/>
31. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/wading-birds/little-ringed-plover>
32. Robinson, R.A. (2005) BirdFacts: profiles of birds occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (cyrchwyd ar 7 Rhagfyr 2020).
33. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 88.
34. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 152–153.
35. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 50.
36. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/redshank/>
37. Massimino D, Woodward ID, Hammond MJ, Harris SJ, Leech DI, Noble DG, Walker RH, Barimore C, Dadam D, Eglington SM, Marchant JH, Sullivan MJP, Baillie SR a Robinson RA. 2017. Bird Trends 2017: Trends in Numbers, Breeding Success and Survival for UK Breeding Research Report 704. BTO, Thetford: www.bto.org/birdtrends
38. Robinson RA. 2005. Bird Facts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed 04/12/2020).
39. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 182–184.
40. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 93–94.
41. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 58.
42. Cyfeiriad SPA Aber yr Hafren: <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5601088380076032>
43. Musgrove AJ, Rehfisch MM, Clark NA (BTO). 2010. Birds of the Severn Estuary and Bristol Channel: Their Current Status and Key Environmental Issues. Marine Pollution Bulletin 61: 115–123.
44. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/ringed-plover/>
45. Liley D a Sutherland WJ. 2007. Predicting the Population Consequences of Human Disturbance for Ringed Plovers *Charadrius hiaticula*: A Game Theory Approach. Ibis 149 (S1): 82–94.
46. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 153–154.

Pinc y Mynydd *Fringilla montifringilla* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

Statws cadwraeth: Oren (roedd yn Wyrdd) (Cymru¹) Gwyrdd (DU²)

Data ar gael: 791 (Da)

Cyd-destun: Mae Pinc y Mynydd i'w cael yn eang o fewn y Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu, ond maent yn anghyfarwydd i lawer o bobl gan nad ydynt yn mynd i erddi hanner mor aml â'u cefnder agos y Ji-binc. Maent yn llawer mwy cyffredin fel adar



Andy Karran


gaeafu, hefyd mae nifer dda yn pasio trwodd wrth ymfudo, a dim ond yn anaml iawn y maent yn bridio. Mae hyn yn golygu fod Pinc y Mynydd yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Maent yn un o lawer o rywogaethau pincod y caiff eu niferoedd eu hybu yn y gaeaf yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, maent yn wahanol i'r rhan fwyaf gan mai ychydig iawn, os unrhyw rai, sy'n aros i fridio. Mae'r boblogaeth aeafu fawr yn cyrraedd o ymhellach i'r gogledd, yn Fennoscandia.⁴ Mae Pinc y Mynydd yn bwyta hadau ac aeron, ac yn neilltuo o hoff o fast Ffawydd; yn ystod y tymor bridio, mae eu diet yn newid i infertebratau.⁵ Mae nifer Pinc y Mynydd sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yng nghyswllt cnwd mast Ffawydd ar y cyfandir a pha mor ddifrifol yw'r gaeaf.⁶ Mae poblogaethau bridio bob amser wedi bod yn isel iawn, heb ddim wedi'u cadarnhau mewn llawer o flynyddoedd a bron yr holl gofnodion o'r Alban.⁷ Adroddwyd mai 0-1 pâr oedd poblogaeth fridio bresennol y Deyrnas Unedig yn y cyfnod 2013–2017.⁸

Rhagolygon: Bu Pinc y Mynydd bob amser yn aderyn bridio prin iawn yn y Deyrnas Unedig. Ni chadarnhawyd y gofnod gyntaf tan 1920, a dim ond mewn niferoedd bach iawn y cawsant eu bridio yn afreolaidd ers hynny.⁹ Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach iawn, afreolaidd a lleol, mae'r boblogaeth aeafu yn sylweddol fwy (45,000–1,800,000 yn 1981–84).¹⁰ Mae'r niferoedd a nodir dros gwmpas mawr gan fod amrywiaeth enfawr yn y niferoedd o un flwyddyn i'r llall am y rhesymau a amlinellir uchod. Efallai oherwydd yr amrywiadau enfawr o flwyddyn i flwyddyn, mae'n anodd canfod unrhyw ddata tueddiad poblogaeth gaeafu ar gyfer y Deyrnas Unedig, ond nodwyd y bu gostyngiad cymedrol yn y boblogaeth gaeafu yn Ewrop rhwng 1980 a 2013.¹¹ Roedd Pinc y Mynydd yn y rhestr Oren wreiddiol Adar o Bryder Cadwraeth yn y Deyrnas Unedig, ond buont ar y rhestr Werdd mewn tair rhestr ers hynny, sy'n dangos nad oes unrhyw bryderon cyfredol am boblogaeth y Deyrnas Unedig.⁸ Dylid nodi eu bod wedi symud o Wyrdd i Oren ar y rhestr ddiweddar o Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru¹ oherwydd eu pwysigrwydd Ewropeaidd, fel a gydnabyddir ar y Rhestr Goch o Adar Ewropeaidd, er bod hynny fel rhywogaeth o leiaf o bryder. Mae The State of Birds in Wales yn 2018 yn nodi arwyddocâd arbennig poblogaeth Pinc y Mynydd Cymru yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig, gyda 33% o boblogaeth aeafu y Deyrnas Unedig yng Nghymru.¹²


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Pinc y Mynydd yn 'fairly common winter visitor and passage migrant'.¹³ Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda The Birds of Gwent yn nodi fod Pinc y Mynydd yn 'fairly common but local winter visitor and passage migrant'¹⁴ yn 2008 ac yn 'regular winter visitor, usually in small numbers. Once it was considered rare, appearing only in hard weather' in 1977.¹⁵ Fodd bynnag, cyn y 1970au, byddai'n ymddangos fod Pinc y Mynydd yn aderyn mwy prin a mwy afreolaidd. Gall Pinc y Mynydd ymddangos ledled Gwent, gyda chofnodion ymfudo yn yr arfordir a nifer fach yn ymweld â gerddi. Fodd bynnag, caiff yr heidiau mwyaf eu cysylltu fel arfer gyda choetiroedd, yn arbennig lle mae ffawydd ar gael.

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw Llanbedr Gwynllŵg (man poblogaidd iawn ar gyfer adar ymfudol/adara), Fforest Ganol (yn y parth clustog, ger Caerdydd) Llanddingad, Gwlypdir Casnewydd, Coed Gwent. Mae hefyd ganolfannau anghywir ar hyd terfyn Swydd Gaerloyw, ond mae'n debyg y gwelwyd nifer fawr o adar o Fforest y Ddena a Tidenham Chase.

*Dosbarthiad cofnodion Pinc y
Mynydd ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm 86
cofnod/km²)*



*Cofnodion Pinc y Mynydd yn ôl
degawd*




Patrymau cynefin: Y safleoedd gorau yng Ngwent yw coetiroedd, yn neilltuol goed ffawydd. Gellir hefyd ganfod Pinc y Mynydd mewn caeau sofl ac, yn arbennig yn y gaeaf, mewn gerddi.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, mae nifer Pinc y Mynydd sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, a gaiff ei yrru'n bennaf gan faint y cnwd mast ffawydd yn ne Llychlyn (os oes hyn yn fawr yna mae angen i lawer llai o adar ymfudo i'r Deyrnas Unedig). Yn ôl The Birds of Gwent 2008, 'this fluctuation occurs in microcosm within Gwent with maximum annual flock sizes ranging from three individuals to five hundred'.¹⁴

Gall fod yn anodd amcangyfrif tueddiadau poblogaeth Pinc y Mynydd yn fanwl gywir yng Ngwent oherwydd amrywiadau naturiol fawr yn y boblogaeth. Ymddengys yn hollol bosibl y gall niferoedd fod wedi gostwng i raddau, gan adlewyrchu gostyngiadau cymedrol yn y poblogaethau bridio Ewropeaidd.¹¹ Awgrymodd The Birds of Gwent 2008 hefyd 'with a milder climate due to global warming occurring in Northern Europe, good Beechmast crops may be produced more regularly in Scandinavia, causing British numbers to decrease as birds are able to find food further north'. Ychydig y gall ymdrechion cadwraeth yng Ngwent ei wneud i ddylanwadu'n uniongyrchol ar hyn ond gellir gwneud gwaith i sicrhau y caiff ein coetiroedd, yn arbennig ein coed ffawydd, eu cadw mewn cyflwr da yn yr hirdymor. Byddai cadw caeau sofl chwynog ar tir amaethyddol lle'n bosibl hefyd o fudd i, ynghyd â lluo o adar tir amaethyddol eraill sy'n bwyta hadau, gyda dirywiad mewn llawer ohonynt.

Gwarchodaeth: Daw 48% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o'r dilynol. Daw cofnodion SAC o gofnodion anghywir yn yr Hafren, ynghyd ag ychydig ar hyd mur y môr. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd, cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastatiroedd Gwent, Cwm Tawel, Nant Nedern a Dolydd Brockwells. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Barc St Julian, The Moorings a Chwm Tawel. Caiff cofnodion SINC eu gwasgaru ar draws safleoedd niferus, yn cynnwys Coed Gwent, Rhiw Begwn, Comin Rhydri, Treowen, ucheldir Torfaen tebyg i Blaenserchan a The British.

Cofnodion Pinc y Mynydd o safleoedd a warchodir



Gylfinbraff *Coccothraustes coccothraustes* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chadwraeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU²) Oren (Cymru¹)
Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (362 cofnod)

Cyd-destun: Y Gylfinbraff yw pinc mwyaf y Deyrnas Unedig, ond mae'n aderyn swil, anodd ei weld ac felly mae'n rhwydd peidio sylwi arno.¹⁶ Mae'n bennaf yn aderyn preswyl a sefydlog, er y nodwyd peth ymfudo eithaf cyfyngedig.¹⁷ Roedd y llif o adar a gyrhaeddodd yng ngaeaf 2017/18 yn ddigynsail ac yn hollol eithriadol.¹⁸ Mae gan y Gylfinbraff big eithriadol o gryf, y mae'n ei defnyddio i agor gwahanol hadau, yn cynnwys cerrig ceirios. Mae ei ddosbarthiad wedi ei gysylltu gydag ardaloedd lle mae nifer dda o'i hoff goed, tebyg i Goed Ceirios a'r Oestrwydden. Mae ei ddiety yn amrywio yn ystod y flwyddyn, gydag infertebratau yn bwysig iawn yn y tymor bridio.¹⁹ Yn y Deyrnas Unedig, mae gan fwyaf rif y boblogaeth yn awr ddosbarthiad mwy gorllewinol, gyda phedwar prif cadarnle yn Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy, y New Forest, Gogledd Cymru a Cumbria.²⁰ Gall colli Llwyfen Lloegr yn nwyrain Prydain (yn y 1970au) fod wedi cyfrannu at ostyngiadau yn y dwyrain. Mae dosbarthiad mwy gorllewinol y Llwyfan Lydanddail yn sicrhau bod bwyd ar gael ar ddiwedd y gaeaf (pan fo ffynonellau eraill o hadau wedi dod i ben). Mae'r cwmpas yn nifer a chwmpas y Gylfinbraff yn achos pryder, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod pam y digwyddodd hyn, gydag ysglyfaethu ac argaeledd bwyd ar ddiwedd y gaeaf yn cael ei ymchwilio.²¹



Andy Karran


Rhagolygon: Mae gan y Gylfinbraff hanes diddorol yn y Deyrnas Unedig. Nid oedd yn hysbys iddo fridio yn y Deyrnas Unedig tan ddechrau'r 19eg ganrif, ac er ei fod yn rhywogaeth rhwydd peidio sylwi arno, bydda'n ymddangos fod ei absenoldeb yn un gwirioneddol.⁹ Dechreuodd nythu yn wreiddiol yn ne-ddwyrain Lloegr o 1835, ac ehangodd ei niferoedd yn gyflym i'r 20fed ganrif nes iddo gytrefu yn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr a chyrraedd yr Alban.⁹ Credir fod y cynnydd mewn cyflenwadau bwyd drwy blannu perllannau helaeth, y cynnydd mewn gerddi maestrefol a'r warchodaeth gyfreithiol a roddwyd yn y 1880au i gyd i'w wedi cynorthwyo'r ehangiad hwn.⁹

Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar mae'r boblogaeth wedi gostwng yn gyflym (mewn nifer a chwmpas), fel ei fod yn awr yn rhy brin i gael ei gynnwys mewn cynlluniau monitro blynyddol cenedlaethol.²² Cyhoeddwyd atlasau o adar bridio yn 1976, 1993 a 2013 yn dangos gostyngiad o 76% yn y nifer o sgwariau 10km a ddefnyddiwyd rhwng 1976 a 2013, gyda'r rhan fwyaf o hyn yn digwydd rhwng 1993 a 2013.²² Fel yr amlinellir uchod, mae'r Gylfinbraff bellach wedi ei gyfyngu i nifer fach o leoliadau daearyddol, gan fod yn bresennol mewn dim ond 4% o'r sgwariau 10km.²² Mae'r boblogaeth fridio bresennol (2011) yn 500-1,000 pâr.¹⁰ Mae'r Birds in Wales newydd (sy'n cael ei baratoi yn awgrymu nad oedd y gostyngiad o tua 40% yn y boblogaeth fridio ym Mhrydain rhwng canol y 1980au a diwedd y 1990au yn amlwg yng Nghymru, ond bod y nifer uwch a gofnodir yng Nghymru yn awr oherwydd monitro agos yn hytrach na chynnydd yn y boblogaeth.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Gyfinbraff yn 'uncommon breeding resident and very rare passage migrant'.¹³ Bu hyn yn wir yng Ngwent ers cryn amser, gan ei fod yn un o'r ychydig leoedd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cadw ei boblogaeth Gyfinbraff (fel rhan o gadarnle Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy). Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Gyfinbraff yn 'an uncommon and local resident' a dywedodd fod y Gyfinbraff yn 'a very local breeding resident in small numbers' a'i fod yn 'one of the least known and possibly under-recorded of Welsh birds. Most Welsh breeding records come from Wales'.²³ Yn 1977, nododd Birds of Gwent fod y Gyfinbraff yn 'very local breeding resident in small numbers'.²⁴ Byddai hyn yn awgrymu fod y niferoedd wedi parhau'n gymharol debyg dros y cyfnod hwn ac yn wir yn dros gyfnod hirach, gyda Birds of Monmouthshire yn 1937 a hefyd 1963 yn dweud ei fod yn 'somewhat local resident breeding species found in the central and southern portions of the county'.²³ Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981-1985 fod poblogaeth o 50-100 pâr yng Nghymru,²⁵ gyda'r ail atlas, ar gyfer 1998-2003, yn amcangyfrif 30-pâr ond yn tanlinellu ei fod yn debyg o fod yn nes at ben isaf hyn, sydd efallai'n dangos rhyw ostyngiad mewn niferoedd.²³ Fodd bynnag, mae astudiaethau modrwyo mwy diweddar yn Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy yn awgrymu fod yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Swydd Gaerloyw a hefyd ar gyfer Gwent (yn seiliedig ar ddefnydd tetrad) yn rhy isel gan y cafodd mwy na 100 o adar mewn oed eu dal yn y tymor bridio yn flynyddol ers 2010. Mae dadansoddiad o gyfraddau ail-ddal a goroesi yn awgrymu fod poblogaeth o 650 pâr yn Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy,²⁸ gyda tua 250-300 ohonynt yng Ngwent.

Y brif ganolfan gofnodi yw Fforest Ganol (sydd ychydig tu allan i Gwent Fwyaf). Mae canolfannau llai ym Mhenallt, Coed Slade/Minnetts a Gwern Ddu. Nid yw'r Gyfinbraff yn rhywogaeth cyffredin, ond maent yn ddi-os yn cael eu hanghofio oherwydd eu harferion dirgelaidd. Mae'r boblogaeth yn ymestyn i Swydd Gaerloyw/Fforest y Ddena.

*Dosbarthiad cofnodion y
Gylfinbraff ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm 155)*



*Cofnodion y Gylfinbraff
yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae'r Gylfinbraff yn bendant iawn yn adar coed llydanddail lled-naturiol neu gymysg, ond mewn blynyddoedd diweddar buont yn ymweld yn amlach â gorsafoedd bwydo mewn gerddi ar ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn.

Tueddiadau poblogaeth: Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae poblogaeth y Gylfinbraff yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng a chrebachu mewn cwmmpas mewn cyfnodau diweddar. Yma yng Ngwent rydym yn rhan o un o'r pedair cadarnle olaf sydd ar ôl o fewn poblogaeth Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy. Mae adar wedi eu modrwyo ac astudiaethau olrhain radio yn dangos fod adar yn symudol iawn ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn, gan symud drwy'r ardal ac ymhellach. Mae llawer o ymchwil yn mynd rhagddo i ganfod y rhesymau dros y dirywiad yn y boblogaeth. Amheuwyd fod ysglyfaethu nythod yn ffactor sylweddol, ond dengys ymchwil nad oedd hyn mor sylweddol ag yr amheuwyd.²⁶ Canfuwyd, fodd bynnag, er bod y Gylfinbraff yn gyffredinol yn nythu o fewn ardaloedd parhaus o goetir llydanddail, bod y safleoedd nythu eu hunain yn aml yn agos at agoriadau yn y canopi. Mae hefyd yn bosibl y gall prinder bwyd ar adegau eraill y flwyddyn fod yn ffactor.²¹ Mae Birds of Gwent yn nodi fod Gwent yn sir goediog, gydag amrywiaeth dda o goed hadau/ffrwythau addas, felly os yw un rhywogaeth yn methu hadu, bydd bob amser ffynhonnell arall o fwyd, gan sicrhau presenoldeb parhaus i'r rhywogaeth.²³ Yn y dyfodol bydd angen i reolaeth coetir roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r ymchwil parhaus hwn i helpu atal a gwrthdroi'r colledion. Mae dadansoddiad ysgarthol wedi canfod amrywiaeth eang o ddeunydd tyfiant yng Ngwent, a gallai rheolwyr coedwig wella argaeledd bwyd drwy gynnwys rhannau bach o goed tebyg i'r Oestrwydden, Ceirios Gwyllt, Celyn, Masarnen Fach, Leim, Cerdinen, Ywen ac yn arbennig y Llwyfen Llydanddail) mewn unrhyw ail-stocio/plannu.

Gwarchodaeth: Dim ond 17% o gofnodion ddaw o safleoedd a warchodir. Roedd cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Goed Dyffryn Coombe, Rhiw Gilwern ac ymylon Gwastadeddau Gwent. Roedd cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Coed Cefn Pwll-du, Kemeys Inferior (Coed Gwent) a choedwigoedd gwasgaredig ar hyd Dyffryn Gwy.

Cofnodion Gylfinbraff o safleoedd a warchodir



Titw'r Wern *Poecile palustris* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU² a Cymru¹), Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

Data ar gael: Cymedrol (750 cofnod)

Cyd-destun: Mae Titw'r Wern yn aderyn preswyl a sefydlog. Er ei enw, mae'n fwy o aderyn coed llydanddail, coedlannau, parciau a gerddi.²⁸ Mae'n edrych yn debyg iawn i'w gefnder agos Titw'r Helyg,

ac ni chafodd ei gydnabod fel rhywogaeth ar wahân tan tua 1897.⁹ Yn wahanol i Titw'r Helyg, nid yw Titw'r Wern yn tyllu ei nyth ei hun, ond yn defnyddio tyllau sydd eisoes mewn coed.²⁹ Mae ar gael yng Nghymru a Lloegr, gyda'r boblogaeth yn ymestyn i dde'r Alban, fodd bynnag mae'r poblogaethau gorau yn Ne Cymru a de a dwyrain Lloegr.²⁸ Bu gostyngiad sylweddol yn ei ddosbarthiad a'i niferoedd o fewn y cwmipas hwn.³⁰ Yn yr un modd â llawer o adar cân eraill y Deyrnas Unedig a'r holl rywogaethau eraill o'r titw, mae'r rhan fwyaf o ddiet Titw'r Wern yn infertebratau, yn arbennig yn ystod y tymor bridio, er eu bod yn bwyta mwy o hadau yn ystod y gaeaf.²⁹ Fel yr amlinellir uchod, bu gostyngiad sylweddol yn niferoedd Titw'r Wern mewn cyfnodau cymharol ddiweddar: gostyngiad o 77% rhwng 1970 a 2017.³¹ Fodd bynnag yn wahanol i Titw'r Helyg, ni ystyrir fod ysglyfaethiaid neu gystadlu am safleoedd nythu yn ffactorau sylweddol yn nirywiad Titw'r Wern.³² Fodd bynnag, nodwyd fod ganddynt ofynion cynefin penodol iawn, gan fod angen coetir llydanddail heb eu trin gyda sylfaen dda.³³ Maent hefyd angen tiriogaeth eithriadol o fawr ar gyfer aderyn mor fach ac mae ganddynt wasgariad a symudiad gwael iawn rhwng coetiroedd daearyddol ar wahân, fel bod angen ardaloedd mawr o goetir cyfagos mewn cyflwr addas.³² Gallai hyn gyfyngu poblogaethau.

Rhagolygon: Caiff hanes Titw'r Wern yn y Deyrnas Unedig ei guddio gan y ffaith na chafodd ei gydnabod fel rhywogaeth ar wahân tan 1897, ac am gyfnod ar ôl hynny byddai'r cofnodion yn dal i fod yn ddryslyd. Yn y 19eg ganrif roedd Titw'r Wern/Helyg yn nythu ledled y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr, er yn gyfyngedig mewn llawer o siroedd.²⁹ Arhosodd y poblogaethau yn yn fras debyg drwy lawer o'r 20fed ganrif, ond bu gostyngiad mawr ers o leiaf ddiwedd y 1960au.⁹ Bu gostyngiadau tymor hirach o 77% yn 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad cryf) a bu'r hyn a alwyd yn ostyngiad cryf parhaus yn fwy diweddar, gyda gostyngiad o 22% rhwng 2012-2017.³¹ Mae Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO yn dangos bod y dirywiad wedi parhau, gyda gostyngiad o 24% rhwng 2008 a 2018 yn y Deyrnas Unedig. Bu cynnydd o 4%, er mai dim ond mewn un tymor, yn 2018-19.³³ Mae'r boblogaeth fridio bresennol (2016) yn 28,500 pâr.¹⁰

Cwmipas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Titw'r Wern yn 'fairly common, but declining resident'¹³ mae'r dirywiad hwn yn debyg i'r gostyngiad poblogaeth a welwyd ar draws y Deyrnas Unedig ond efallai na fuont yn digwydd am gyfnod mor hir. Ymddengys fod Titw'r Wern wedi ei ddosbarthu'n dda ar draws Gwent, er fod tueddiadau amlwg ymaith o ucheldir ac at ardaloedd o orchudd sylweddol o goed llydanddail, e.e. Dyffryn Gwy. Dywedodd The Birds of Gwent fod Titw'r Wern yn 'scarce resident' yn 2008³⁴ ac yn 'breeding resident, widely but thinly distributed' yn 1977.³⁵ Byddai hyn yn awgrymu fod y niferoedd yn gostwng ar hyn o bryd ond




Pete Hadfield


na fuont o reidrwydd yn gostwng dros yr holl gyfnod. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981 – 1985 fod poblogaeth o 500 pâr yng Ngwent, gyda hyn efallai yn nifer is nag oedd mewn gwirionedd;³⁶ mae'r ail atlas, ar gyfer 1998-2003, yn amcangyfrif 510-1,200 pâr (dylid trin y ffigur hwn yn ofalus, oherwydd maint bach y sampl).³⁴ Efallai ei bod yn anodd canfod o'r ffigurau hyn sut mae poblogaethau wedi newid, er bod gostyngiad amlwg yn nifer y tetradau a ddefnyddiwyd a chofnodion modrwyo rhwng 1974-2003 yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn niferoedd.³⁴ Mae'n amlwg o gyfeiriad at rifynnau diweddar y Gwent Bird Report fod niferoedd yn gostwng ar hyn o bryd, er nad yw Titw'r Wern mor cyflwr mor argyfyngus yng Ngwent ag yw Titw'r Helyg.

Y prif ganolfannau yw Penallt (efallai oherwydd llawer o gofnodion gan un cifbidddd), Coed Great Barnet, Llandegfedd a Choed Lodge (Caerllion), ynghyd â Fforest Ganol a lleoliad anhysbys yn Swydd Gaerloyw, y ddau ohonynt ychydig y tu allan i Gwent Fwyaf.

*Dosbarthiad cofnodion Titw'r
Wern ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 38 cofnod/km²)*



Cofnodion Titw'r Wern yn ôl degawd




Patrymau cynefin: Mae Titw'r Wern yn cael ei gysylltu'n agos gydag ardaloedd helaeth o goed llydanddail aeddfed.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad ym mhoblogaethau Titw'r Wern ar draws y Deyrnas Unedig. Bu gostyngiad yng Ngwent hefyd, er y byddai'n ymddangos fod poblogaeth resymol yn dal i fod yng Ngwent. Ni ddylai hyn fod yn achos dros fod yn hunanfodlon; gan fod angen sicrhau nad yw lefelau'r boblogaeth yn gostwng mor isel â rhai Titw'r Helyg. Dylai cadw a gwella'r ardaloedd coetir helaeth y mae'r rhywogaeth hwn eu hangen fod yn flaenoriaeth, a dylai hyn hefyd roi ystyriaeth i'r ffaith fod yn well gan Titw'r Wern goetir nad ydynt yn cael eu rheoli, ac y gall hyn fod yn groes i gynlluniau cadwraeth ar gyfer rhywogaethau eraill

Gwarchodaeth: Daw 66% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) o SAC Ystlumod Brynbuga, cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o Wastadeddau Gwent a Llandegfedd. Daw cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o wahanol goetiroedd ledled de Caerffili a Dyffryn Gwy.

Cofnodion Titw'r Wern o safleoedd a warchodir



Gwybedog Brith *Ficedula hypoleuca* (Pallas, 1764)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU² a Cymru¹), Rhestr Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (344 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae'r Gwybedog Brith yn treulio'r gaeaf yng ngorllewin Affrica.³⁷ Mae hyn yn golygu fod y Gwybedog Brith yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd haf, gaeaf a charreg gamu ymfudol a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Maent yn un o lu o golfanod bach sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig ac yn ymfudo dros bellter maith i safleoedd gaeafu pell. Maent yn bryfysol, gan ddal y rhan fwyaf o'u hysglyfaeth pan maent yn hedfan gyda hediadau gwibiog o glwydi. Mae'n aderyn coed collddail ucheldir rhannau o orllewin a gogledd Prydain.³⁸ Yn gyffredinol, yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad mawr o 42% rhwng 1970 a 2017.³¹ Dywedwyd fod y rhesymau am y gostyngiad hwn yn anhysbys, ond mae tystiolaeth dda fod o leiaf rhan o'r rheswm tu allan i'r tymor bridio a chredir eu bod wedi cysylltu gyda newid amodau safleoedd gaeafu ac ymfudo.³⁸ Yn ychwanegol, mae'n debyg y cafodd y gostyngiad hysbys iawn mewn infertebratau yn y Deyrnas Unedig ac yn wir ymhellach i ffwrdd effaith ar gynhyrchiant bridio, a bydd hafau gwlypach yn sicr yn effeithio ar unrhyw rywogaeth sy'n dibynnu i raddau helaeth ar bryfed yn yr awyr. Mae hefyd astudiaethau sy'n awgrymu fod gwanwyn cynyddol gynnar yn golygu fod y Gwybedog Brith yn awr yn bridio ar amser nad yw'n cyfateb gyda'r amser pan mae'r rhan fwyaf o'u hysglyfaeth ar gael, gyda llai o gynhyrchiant fel canlyniad.³⁹



Andy Karran


Rhagolygon: Byddai'n ymddangos fod y Gwybedog Brith yn brin yn y Deyrnas Unedig yn hanner cyntaf y 19eg ganrif.⁹ Roedd cynnydd mewn niferoedd yn amlwg tuag at ddiwedd y 19fed ganrif ac fe wnaethant ehangu'n raddol ac ennill eu plwyf yng Nghymru, gorllewin Lloegr, gogledd Lloegr a rhannau o'r Alban drwy hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Fodd bynnag bu dirywiad yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Bu gostyngiad o 42% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan, cafodd hyn ei wrthdroi i ryw raddau yn fwy diweddar gyda gostyngiad gwan o 10% rhwng 2012–2017.³¹ Mae Arolwg Adar Bridio³³ y BTO yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach ac adferiad rhannol posibl gyda gostyngiad sylweddol o 43% yn 1995–2018 yn y Deyrnas Unedig i gyd. Yn fwyaf diweddar, bu rhai arwyddion o adferiad, gyda chynnydd o 18%, er fod hyn dros un flwyddyn yn unig (2018-2019), felly dim ond amser a ddengys os yw hyn yn dechrau adferiad.³³ Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 22,000-25,000 pâr yn 2016.¹⁰

Cwmpas Gwent Fwyaf: Fel aderyn bridio, mae'r Gwybedog Brith ar gael fel arfer yng nghoed collddail tir uwch gogledd orllewin Gwent ac i raddau llai yn Nyffryn Gwy yn y dwyrain.⁴⁰ Gellir eu gweld yn fwy eang pan fyddant yn ymfudo, gyda rhai cofnodion o ardaloedd mwy arfordirol. Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Gwybedog Brith yn 'fairly common passage migrant and summer visitor'.¹³ Cofnododd The Birds of Gwent fod y Gwybedog Brith yn 'fairly common passage migrant and summer visitor' yn 2008⁴⁰ ac yn 'summer visitor, fairly frequent locally' yn 1977, gan nodi ei fod 'a lot scarcer prior to 1960s, the provision of nest boxes being the cause of


noticeable increases'.⁴¹ Dengys hyn efallai nad yw'r gostyngiad o fewn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol mor amlwg yng Ngwent, er y bu peth gostyngiad (gweler islaw). Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd blychau nythu. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981 – 1985 fod poblogaeth o 500 pâr yng Ngwent,⁴² gyda'r ail atlas, sy'n cwmpasu 1998-2003, yn amcangyfrif nifer is o 400-450 pâr.⁴⁰ Mae hyn yn dangos rhywfaint o ostyngiad, yn bennaf yn y boblogaeth sy'n bresennol yn nwyrain y sir.⁴⁰ Caiff llwyddiant amrywiol gwahanol gynlluniau blychau nythu ei ddangos yn glir yn ail Atlas Gwent.⁴⁰

Y brif ganolfan gofnodi yw Coed Lasgar; mae canolfannau llai (>10 cofnod) ym Mharc Cwm Darran, Penallt, Strawberry Cottage Woods a safle anhysbys tu allan i'r rhanbarth (yn Swydd Henffordd).

*Dosbarthiad cofnodion y
Gwybedog Brith ar draws
Gwent /Fwyaf (uchafswm 75
cofnod/km²)*



*Cofnodion y Gwybedog Brith
yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Wedi cysylltu'n gryf gyda choetiroedd collddail ucheldir, yn arbennig lle mae pori defaid yn rheoli'r is-dyfiant. Hefyd ar hyd coetiroedd wrth ymyl afonydd mewn ardaloedd tir uwch (e.e. Honddu) a choetiroedd collddail yn Nyffryn Gwy.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth y Gwybedog Brith ar draws y Deyrnas Unedig. Effeithiwyd ar Went hefyd ond efallai i raddau llai na llawer o ardaloedd eraill. Mae cyfradd y colledion hyn wedi arafu'n gyffredinol ac mae'r Gwybedog Brith yn dal i fod mewn cynefinoedd addas o fewn eu cwmpas, gyda Chymru yn gadarnle. Os yw achos y colledion hyn yn ymwneud i raddau helaeth â phroblemau ar safleoedd gaeafu, yna mae hyn yn broblem fyd-eang newid hinsawdd ac yn fwy anodd ei drin drwy gynlluniau cadwraeth lleol. Fodd bynnag, gellir dal gadw a gwella cynefinoedd yng Ngwent mewn cyflwr fyddai'n cynyddu i'r eithaf yr adnoddau posibl a allai fod ar gael ar gyfer bridio.⁴³ Bydd pwysigrwydd cadw blychau nythu a chreu cynlluniau blychau nythu newydd ar gyfer y Gwybedog Brith yn parhau'n ffactor pwysig iawn.

Gwarchodaeth: Daw 51% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o'r lleoedd dilynol:

Cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ar draws Gwastadeddau Gwent, y Blorens, y Mynydd Du, Llandegfedd a chors Nelson. Cronfeydd Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ar draws canol Torfaen, safleoedd yn ne Caerffili fel Nant Fawr ac ychydig ar draws ogledd Caerffili a Blaenau Gwent.

Cofnodion Gwybedog Brith o safleoedd a warchodir



Gwybedog Mannog *Muscicapa striata* (Pallas, 1764)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU² a Cymru¹), Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (434 cofnod)

Cyd-destun: Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn ystod yr haf, mae'r Gwybedog Mannog yn treulio ei aeaf yn Affrica is-Sahara.⁴⁴ Mae hyn yn golygu fod y Gwybedog Mannog yn agored i

newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Maent yn un o lu o golfanod bach sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig ac yn ymfudo dros bellter maith i safleoedd gaeafu pellennig. Maent yn bryfysol, gan ddal y rhan fwyaf o'u hysglyfaeth yn yr awyr gyda hediadau o holl glwydi. Maent yn dal i fod ar gael yn eang ar draws y Deyrnas Unedig, gan ffafrio llennyrch coediog, perllannau, mynwentydd, parciau a gerddi.⁴⁵ Ysyaeth, ni fedrir bellach eu hystyried fel bod yn neilltuol o gyffredin, gan fod poblogaethau wedi gostwng yn syfrdanol mewn cyfnodau diweddar. Yn gyffredinol, yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad enfawr o 87% rhwng 1970 a 2017.³¹ Mae ymchwil wedi canfod fod y gostyngiad yn eang ar draws y Deyrnas Unedig a heb fod yn gysylltiedig gyda goroesiad nyth ond at oroesiad cywion ym mlwyddyn gyntaf eu bywyd ar ôl gadael y nyth.⁴⁶ Fodd bynnag, mae astudiaethau eraill wedi awgrymu fod ysglyfaethu ar y nyth wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn cynhyrchiant.⁴⁷ Mae'n debygol y cafodd y gostyngiad hysbys iawn mewn infertebratau yn y Deyrnas Unedig ac yn wir ymhellach i ffwrdd effaith ar gynhyrchiant bridio, ac mae'n sicr y bydd hafau gwlypach yn effeithio ar unrhyw rywogaethau sy'n dibynnu'n helaeth ar bryfed hedfan. Fodd bynnag, ymddengys y caiff yr effaith mwyaf ei achosi gan ffactorau y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ar ymfudo ac yn y safleoedd gaeafu.⁴⁸



Andy Karran


Rhagolygon: Ar ddiwedd y 19eg ganrif, roedd y Gwybedwr Mannog wedi'i ddosbarthu bron yn gyffredinol ar draws Prydain ac ystyriwyd ei fod yn un o'r ymfudwyr mwyaf cyffredin yn ystod yr haf.⁹ Nodwyd fod y boblogaeth wedi aros fwy neu lai'r un fath hyd at ddiwedd y 1960au/dechrau'r 1970au.⁹ Fodd bynnag, bu gostyngiad mawr o hynny ymlaen. Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 41,600 pâr yn 2016.¹⁰ Mae hyn yn dal i fod yn nifer resymol o adar, er yn llawer llai, fel y dangoswyd gan ostyngiadau diweddar: gostyngiad o 87% yn 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad cryf), gyda hyn yn lleihau yn fwy diweddar gyda chynnydd bach o 5%, a nodwyd fel fawr o newid, rhwng 2012 a 2017.³¹ Mae Arolwg Adar Bridio y BTO³³ yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach gyda gostyngiad sylweddol o 51% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig i gyd. Yn fwyaf diweddar bu rhai arwyddion o adferiad, gyda chynnydd o 15%, er bod hyn dros dim ond un flwyddyn 2018-2019 o lefelau llawer is, felly dim ond amser a ddengys os yw hyn yn ddechrau adferiad.³³

Cwmpas Gwent Fwyaf: Fel aderyn bridio, mae'r Gwybedog Mannog ar gael yn eang ledled Gwent mewn cynefinoedd addas, fodd bynnag maent yn absennol o ucheldir llwm ac yn fwy prin yn gyffredinol ar y Gwastadeddau. er eu bod yn eang, maent yn awr gwaetha'r modd ymhell o fod yn gyffredin, gyda dosbarthiad yn ddarniog ac ar lefel isel lle maent i'w cael. Gellir eu gweld yn eang pan


fyddant yn ymfudo, gyda nifer sylweddol o gofnodion o ardaloedd mwy arfordirol. Mae'r Gwent Bird Report (2018) diweddaraf yn dweud fod y Gwybedog Mannog yn 'uncommon breeding summer visitor'.¹³ Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Gwybedog Mannog yn 'a passage migrant and fairly common summer visitor, now declining' ac fel 'summer visitor that is fairly common and breeds widely in 1997',⁴¹ Dengys hyn yn glir fod y gostyngiad a welwyd mewn llawer o'r Deyrnas Unedig hefyd wedi effeithio ar y poblogaethau yng Ngwent. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1985 fod poblogaeth o 1,250 pâr yng Ngwent, a ystyriai i fod yn ffigur is na'r gwir nifer;⁵⁰ amcangyfrifodd yr ail atlas, ar gyfer 1998-2003, nifer lawer is o 490-830 pâr.³¹ Mae hyn eto yn dangos dirywiad yn glir, yn wir caiff ei ddisgrifio fel 'significant decline in both range and population density'.³¹

Y brif ganolfan yw Allanfa Llanbedr (prif ganolfan cofnodi), gyda rhai llai ar hyd ffin Swydd Henffordd.

*Dosbarthiad cofnodion y
Gwybedog Mannog ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 34
cofnod/km²)*



*Cofnodion y Gwybedog
Mannog yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Ardaloedd coediog agored tebyg i lennyrch, perllannau, mynwentydd, parciau a gerddi mawr.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau sylweddol ym mhoblogaethau'r Gwybedog Mannog ar draws y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda cholledion mawr yn y boblogaeth. Mae cyflymder y colledion hyn wedi arafu yn gyffredinol, ac mae'r Gwybedog Mannog yn dal i fod yn rhywogaeth eang ar draws y Deyrnas Unedig ac yng Ngwent. Fodd bynnag, maent yn dal i fod o gonsyrn sylweddol, ac mae diflaniad lleol a dosbarthiadau lleol yn bosibl iawn. Os mai prif achos y colledion hyn yw safleoedd gaeafu ac ymfudo, mae hon yn fwy o broblem fyd-eang newid hinsawdd ac yn anodd ei thrin drwy gynlluniau cadwraeth mwy lleol. Fodd bynnag, gellir cadw a gwella cynefinoedd yng Ngwent yn y fath gyflwr fel eu bod yn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau posibl sydd ar gael ar gyfer bridio Gwybedog Mannog, gan sicrhau cyfraddau cynhyrchiant uchel, fydd yn helpu lefelau'r boblogaeth.⁴³

Gwarchodaeth: Daw 36% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o: Cofnodion Safleoedd Cadwraeth Arbennig (SAC) o Aber yr Hafren oherwydd canoli; cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (NNR) o Wlypdiroedd Casnewydd; cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) wedi'u gwasgaru ar draws Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd, ynghyd ag ychydig o'r Bloreus a'r Mynydd Du. Mae cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ar draws canol Torfaen, de Caerffili, gydag ychydig ar draws gogledd Caerffili a Blaenau Gwent.

Cofnodion y Gwybedog Mannog o safleoedd a warchodir



Titw'r Helyg *Poecile montanus* (Conrad von Baldenstein, 1827)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU² a Cymru¹), Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (190 cofnod)

Cyd-destun: Yn aderyn preswyl a sefydlog, mae dosbarthiad Titw'r Helyg wedi ei gyfyngu gan ei angen ar gyfer coed sy'n pydru ar gyfer tyllu safleoedd nythu.⁵¹ Mae hyn oherwydd, yn wahanol



Pete Hadfield

i'n rhywogaethau eraill o'r titw sy'n defnyddio tyllau sy'n bodoli eisoes, mae Titw'r Helyg yn tyllu i wneud ei nyth ei hun; oherwydd ei big bach, dim ond mewn pren wedi pydru y gall wneud hynny.⁵² Maent yn edrych yn debyg iawn i'w cefnder agos, Titw'r Wern, mewn gwirionedd yr oedd yn 1897 cyn iddynt gael eu cydnabod fel rhywogaethau gwahanol.⁹ Mae Titw'r Helyg yn y Deyrnas Unedig yn isrywogaeth endemig neilltuol,⁵² sy'n eu gwneud yn neilltuol o bwysig ar gyfer cadwraeth. Maent i'w cael yng Nghymru a Lloegr, gyda'r boblogaeth yn ymestyn i dde'r Alban.⁵³ Bu gostyngiad mawr yn ei ddosbarthiad a'i niferoedd o fewn y cwmipas hwn, ac ef yw'r rhywogaeth adar sy'n dirywio gyflymaf yn y Deyrnas Unedig ar ôl y Turtur.⁵⁴ Yn yr un modd â llawer o adar cân y Deyrnas Unedig a phob rhywogaeth arall o'r titw, prif ddiet Titw'r Helyg yw infertebratau, yn arbennig yn ystod y tymor bridio, er eu bod yn bwyta mwy o hadau dros y gaeaf.⁵⁵ Fel yr amlinellir uchod, maent wedi dioddef gostyngiad difrifol a phryderus yn eu niferoedd mewn cyfnodau cymharol ddiweddar: gostyngiad o 94% rhwng 1970 a 2017.³¹ Ystyrir bod gwahanol ffactorau am y gostyngiad hwn, gyda chystadleuaeth am safleoedd nythu gan rywogaethau eraill o ditw, ysglyfaethu (yn arbennig gan y Cnocell Fraith Fwyaf) a cholli cynefin (mae prysgrwydd llaith yn gynefin hanfodol).⁵⁶ Mae sôn hefyd y gallai ceirw yn pori a newid hinsawdd yn sychu coetiroedd gwlyb hefyd fod yn rheswm.⁵⁷


Rhagolygon: Caiff hanes Titw'r Helyg yn y Deyrnas Unedig ei gymylu gan y ffaith na chafodd ei gydnabod fel rhywogaeth gwahanol i Ditw'r Wern tan 1897; am gyfnod wedyn, byddai'r cofnodion yn dal i ddrysu rhyngddynt. Yn y 19eg ganrif roedd Titw'r Wern/Helyg yn nythu yn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr, er mewn ardaloedd cyfyngedig mewn llawer o siroedd.⁹ Roedd y poblogaethau'n parhau'n fras debyg drwy lawer o'r 20fed ganrif, ond bu gostyngiad ers o leiaf ddiwedd y 1960au.⁹ Roedd gostyngiadau tymor hirach o 94% rhwng 1970 – 2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad cryf) ac mae'r gostyngiad hwnnw wedi parhau yn fwy diweddar, gyda dirywiad o 17% rhwng 2012–2017.³¹ Efallai fod Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO yn dangos fod peth arafu yn y dirywiad (er o niferoedd oedd eisoes wedi gweld gostyngiad enfawr), gyda gostyngiad o ddim ond 3% yn 2008–2018 yn y Deyrnas Unedig a chynnydd o 20% yn nhymor 2018–19.¹² Y boblogaeth fridio bresennol yw 2,750 pâr.¹⁰

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2017) yn dweud fod Titw'r Helyg yn 'very scarce breeding resident'.¹³ Mae hyn yn benllanw dirywiad parhaus, yn unol gyda'r gostyngiad a welwyd yn y boblogaeth ar draws y Deyrnas Unedig. Yn 2008 cofnododd The Birds of Gwent fod Titw'r Helyg yn 'scarce and declining resident'⁵⁸ ac yn 1997 fel 'breeding resident widely but thinly distributed'.³⁵ Byddai hyn yn awgrymu fod y niferoedd wedi gostwng dros y cyfnod hwn.


Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1895 fod poblogaeth o 300-450 pâr yng Ngwent,⁵⁹ gyda'r ail atlas ar gyfer 1998-2003 yn amcangyfrif 70-125 pâr.¹⁰ Mae'r boblogaeth erbyn hyn yn llawer is na hyn ysywaeth. Yn wir, byddai'n ymddangos mai prin oeddent yma o gwbl: yn 2016 dywedodd y Gwent Bird Report nad oedd ysywaeth unrhyw gofnodion i ffordd o Goed Gwent eleni, gydag un pâr wedi bridio yno⁶⁰ ac yn 2018 mai dim ond dwy gofnod a gafwyd o'r rhywogaeth hwn sy'n gostwng yn gyflym. Yn siomedig, ni dderbyniwyd unrhyw gofnodion o Goed Gwent yn 2018.¹³

Y prif ganolfannau cofnodi yw Cors Nelson/Wern Nelson, Coed Wernddu a Choed Gwent. Hefyd Fforest Ganol, sydd ychydig y tu allan i Gwent Fwyaf.

*Dosbarthiad cofnodion Titw'r
Helyg ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 15 15
cofnod/km²)*



*Cofnodion Titw'r Helyg
yn ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae Titw'r Helyg yn bendant yn iawn yn aderyn coed prysglyd gwlyb.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad ym mhoblogaeth Titw'r Helyg ar draws y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda'r rhywogaeth heb fod ymhell o ddiflannu'n lleol. Mae'n bosibl y gall Titw'r Helyg barhau drwy drwch blewyn mewn ychydig o safleoedd lleol. Fodd bynnag, os ydym eisiau gwneud yn siŵr na chollir Titw'r Helyg, bydd angen ymdrech cadwraeth gadarn. Byddai'n flaenoriaeth i gadw a gwella'r safleoedd prin sydd ganddynt ar ôl a rhoi safleoedd ychwanegol yn cynnwys cynefin addas yn agos ar gyfer y poblogaethau i gytrefu. Mae'n anos trin materion megis ysglyfaethu a chystadleuaeth. Dylid ymgynghori ar yr ymchwil ddiweddaraf i lywio rheolaeth.

Gwarchodaeth: Daw 42% o gofnodion o safleoedd a warchodir. Roedd cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Gors Nelson, ac ychydig o gofnodion gwasgaredig ar draws Gwastadeddau Gwent. Roedd cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Wern Nelson, Coed Wernddu a Choed Gwent.

Cofnodion Titw'r Helyg o safleoedd a warchodir



Telur yr Helyg *Phylloscopus trochilus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Oren (DU²) Coch (Cymru¹)

Data ar gael: Da (2911 cofnod)

Cyd-destun: Yn aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae Telur yr Helyg yn treulio'r gaeaf yn Affrica is-Sahara.⁶¹ Mae hyn yn golygu bod Telur yr Helyg yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd –

gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Maent yn un o lu o deloriaid sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ymfudo i safleoedd gaeafu pellennig. Maent yn bryfysol gan fwyaf, ond byddant yn bwyta ffrwythau ac aeron yn yr hydref.⁶² Maent ar gael yn eang ar draws y Deyrnas Unedig, lle bynnag y mae coetir/prysgwydd addas gyda gorchudd daear ar gyfer nythu.⁶³ Fodd bynnag, bu newid sylweddol mewn poblogaethau mewn cyfnodau diweddar, gyda phoblogaethau yng ngogledd yr Alban yn gyffredinol yn gwneud yn dda tra bu gostyngiad mawr yn y rhai yn Lloegr, yn arbennig yn y de a'r dwyrain.⁶⁴ Bu gostyngiad cyffredinol o 45% yn y Deyrnas Unedig rhwng 1970 a 2017.³¹ Awgrymwyd nifer o ffactorau posibl am y gostyngiad, yn cynnwys problemau ar safleoedd gaeafu a manau aros ymfudo (gydag adar yr Alban a Chymru efallai'n defnyddio gwahanol ardaloedd, gan felly esbonio'r gwahaniaethau).⁶⁴ Caiff hyn ei ymestyn ymhellach drwy gyfeirio at oroesiad gwael oedolion mewn ardaloedd gaeafu i dde'r Sahara.⁶³ Caiff sychu cyffredinol ar gefn gwlad, gan wneud cynefinoedd yn llai addas, a cheirw yn pori gan symud safleoedd nythu hefyd ei awgrymu.⁶⁴

Rhagolygon: Byddai'n ymddangos y bu Telur yr Helyg yn rhywogaeth cyffredin ac wedi ei ddosbarthu'n dda o fewn y Deyrnas Unedig heb fawr o amrywiadau mewn poblogaeth ers amser maith.⁹ Mae'n ddiddorol nodi fod awgrymiadau iddo fod yn absennol o Gymru ar ganol y 19eg ganrif.⁹ Ymddengys yn annhebyg fod hyn yn wir. Nodwyd hefyd fod Telur yr Helyg yn ail hanner yr 20fed ganrif wedi manteisio ar blanhigfeydd ifanc i gytreffu ardaloedd o ucheldir lle bu'n absennol yn flaenorol.⁹ Ni fu'r sefydlogrwydd poblogaeth hwn mor amlwg mewn cyfnodau mwy diweddar, fodd bynnag (o leiaf i ffwrdd o'r Alban). Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 2,300,000 pâr.¹⁰ Mae hyn yn dal i fod yn nifer sylweddol o adar, ond mae serch hynny yn llawer is, fel a ddangosir gan y gostyngiadau diweddar: gostyngiad o 45% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan a gostyngiad gwan pellach o 13% rhwng 1970 a 2017 ³¹ Mae Arolwg Adar Bridio y BTO³³ yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach, gyda gostyngiad enfawr o 82% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig i gyd, a gostyngiad pryderus ond llai o 16% yng Nghymru dros yr un cyfnod. Bu rhai arwyddion o adferiad yn fwy diweddar, gyda chynnydd o 66% (y Deyrnas Unedig) a chynnydd o 29% (Cymru)³³ er bod hyn dros un flwyddyn (2018-2019), felly dim ond amser a ddengys os yw hyn yn ddechrau adferiad.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Telur yr Helyg ar gael yn y rhan fwyaf o Went mewn cynefinoedd addas (coetir agored a phrysgwydd), er fod dwyseddau bridio yn is ar y gwastadeddau arfordirol. Gellir




Andy Karran


gweld mwy o niferoedd ar ymfudiad ar y gwastadeddau arfordirol. Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod Telor yr Helyg yn 'common breeding summer visitor and passage migrant'.¹⁵ Gallai hyn ar ben ei hun roi darlun calonogol ar gyfer Telor yr Helyg yng Ngwent, yn arbennig gan i The Birds of Gwent ei gofnodi yn 1977 fel 'common breeding summer visitor', gan ei alw 'the most numerous and widely distributed of the warblers'.⁶⁵ Fodd bynnag yn 2008 cofnododd The Birds of Gwent fod Telor yr Helyg yn 'a common summer visitor and passage migrant; much declined in recent years',⁶³ gan ddangos yn glir fod y gostyngiadau a welwyd dros rannau helaeth o dde'r Deyrnas Unedig hefyd wedi effeithio ar boblogaethau Gwent. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981–1985 fod poblogaeth o 55,500 pâr yng Ngwent;⁶⁶ mae'r ail atlas ar gyfer 1998-2003 yn amcangyfrif rhif llawer is o 5,600-21,000 pâr.⁶³ Mae hyn unwaith eto yn dangos yn glir y bu gostyngiad; yn wir caiff ei ddisgrifio fel gostyngiad trychinebus yn y boblogaet.⁶³

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw Allanfa Llanbedr (canolfan gofnodi), Gwlypdir Casnewydd a Goldcliff, ynghyd â Llandegfedd, Llynnoedd Garn, Coed Lasgarn, The British, Parc Taf Bargoed, Llyn Hendre, Cors Magwyr, Llyn Pen y Fan, Treowen a Choetir Dyffryn Gwy yn Swydd Henffordd (tu allan i Gwent Fwyaf).

*Dosbarthiad cofnodion Telor
yr Helyg ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm >100)*



*Cofnodion Telor yr Helyg yn
ôl degawd*




Patrymau cynefin: Mae Telor yr Helyg yn fwy o aderyn coetir agored (gan osgoi ardaloedd gyda gorchudd caeedig) a phrysgwydd ar gyfer bridio. Gallant hefyd gael eu canfod mewn cynefinoedd tebyg ar ymfudiad, er fod gan niferoedd mawr fwy o dueddiad arfordirol yn y cyfnod hwn.

Tueddiadau poblogaeth: Fel y nodwyd, bu gostyngiadau sylweddol ym mhoblogaethau Telor yr Helyg ar draws rhannau fawr o'r Deyrnas Unedig, gyda dim ond yr Alban yn eu hosgoi. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda cholledion mawr mewn poblogaethau, yn arbennig yn y 1990au. Mae cyfradd y colledion hyn wedi arafu'n gyffredinol, ac mae Telor yr Helyg yn dal yn rhywogaeth cyffredin ar draws y Deyrnas Unedig ac o fewn Gwent. Fodd bynnag, maent yn dal o gonsyrn, yn arbennig yng Nghymru, lle maent nawr ar y rhestr Goch. Os yw achos y colledion hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan broblemau ar safleoedd gaeafu i dde'r Sahara, yna mae hyn yn fwy o broblem fyd-eang newid hinsawdd ac yn anos eu trin drwy gynlluniau cadwraeth lleol. Fodd bynnag, gall cynefinoedd yng Ngwent ddal i gael eu cadw a'u gwella mewn cyflwr a fyddai'n cynyddu yr adnoddau a fyddai ar gael ar gyfer bridio Telor yr Helyg, gan sicrhau fod cyfraddau cynhyrchiant yn uchel, a dangoswyd fod hyn yn ffactor pwysig mewn lefelau poblogaeth.⁴³ Mae ceirw yn pori mewn coetiroedd a cholli twf ifanc mewn planhigfeydd a gafodd eu clirio ac sy'n datblygu yn effeithiau posibl ar boblogaethau lleol, a gellid trin hyn mewn mesurau cadwraeth yn y dyfodol.

Gwarchodaeth: Daw 60% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o'r dilynol.

Cofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) o Aber yr Hafren, SAC Ystlumod Brynbuga, ac Aberbargoed. Cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd. Cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastadeddau Gwent, y Blorens, Llandegfedd a Chwm Tawel. Gwarchodfeydd Natur Lleol (SNR) o Cwm Tawel, Parc Bryn Bach ac wedi gwasgaru ar draws eraill ym Mlaenau Gwent a Throfan. Mae cofnodion SINC yn rhy niferus i'w nodi – llawer ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Cofnodion Telor yr Helyg o safleoedd a warchodir



Y Gog *Cuculus canorus* (Linnaeus 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Coch (DU² a Cymru¹) Rhywogaeth Blaenoriaeth BAP y Deyrnas Unedig, Rhywogaeth Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Data ar gael: Da (1,317 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Gog yn barasit ymfudol, sy'n treulio cyfnod byr yn y Deyrnas Unedig ar ddechrau'r haf i fridio a gweddill y flwyddyn yng nghoedwig law y Congo yn Affrica.⁶⁷ Mae hyn yn golygu fod y gog yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.³ Cafodd y Gog ei ychwanegu at restr Rhywogaethau Blaenoriaeth BAP yn 2007 a Rhestr Goch Adar o Gonsyrn Cadwraeth yn 2009. Rhwng dechrau'r 1980au a chanol y 2000au, bu gostyngiad o 65% yn niferoedd y Gog yn y Deyrnas Unedig.⁶⁸ Nid yw'r union reswm am y gostyngiad hwn yn hysbys, ond awgrymwyd fod gostyngiadau yn ei adar cynnal neu newidiadau a achoswyd gan yr hinsawdd yn amseriad bridio ei adar cynnal fod wedi gostwng y nifer y nythod sydd ar gael i'r gwcw eu meddiannu. Y prif gynhaliwr yng Ngwent yw Llwyd y Gwrych, Corhedydd y Waen a'r Siglen Fraith.¹⁴ Bu Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain yn olrhain y Gog gyda lloeren ers 2001 i geisio deall mwy am ei gostyngiad.⁶⁷




Andy Karran

Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd poblogaeth a chwmpas y Deyrnas Unedig yn parhau i ostwng, a fyddai'n cael ei adlewyrchu ym mhoblogaeth a chwmpas Gwent Fwyaf. Mae angen mwy o ymchwil i ddeall ecoleg ac effeithiau newid hinsawdd ar y gwcw yng Nghymru a Gwent Fwyaf.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gog i'w chael ar draws Gwent Fwyaf, gyda dosbarthiad yn fras yn cyfateb i ardaloedd ucheldir ac ardaloedd lled-naturiol iseldir. Gall ddefnyddio ystod eang o gynefinoedd yn cynnwys glaswelltir, ymyl coetiroedd a gwely cyrs. Mae cyfran uwch o gofnodion yng Ngwastadeddau Gwent, y Cymoedd Dwyreiniol ac ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o Sir Fynwy, gyda chanolfannau cofnodi yng Ngwlypdir Casnewydd a Llanbedr Gwynllŵg.

Bu peth colled hanesyddol, yn arbennig yn ne a dwyrain ardal yr astudiaeth. Mae hyn yn cyfateb gyda chanfyddiadau Birds of Gwent¹⁴, lle credir y bu mwy o golledion amlwg o ardaloedd tir amaethyddol.

*Dosbarthiad cofnodion y Gog
ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 72 cofnod /km²)*




Cofnodion y Gog yn ôl degawd



Tueddiadau poblogaeth: Gostyngodd poblogaeth y Gog yn y Deyrnas Unedig gan 38% rhwng 1995 a 2018.³³ Er ei bod yn rhwydd canfod presenoldeb y gwcw, oherwydd ei chân uchel, mae tystiolaeth o fridio yn llawer mwy anos, felly mae ancangyfrifon o'r boblogaeth lleol yn anos eu cyfrif. Yng Ngwent, gostyngodd y canran o detradau a ddefnyddiwyd o 87% yn y 1980au i 67% adeg yr atlas diweddaraf (1998–2003). Amcangyfrifwyd fod poblogaeth Gwent yn 240-360 pâr yn 1998–2003.¹⁴

Safleoedd a Warchodir: Daw dau-draen (67%) cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda thraean (33%) yn dod o safleoedd nas gwarchodir. Gall hyn fod oherwydd bod gwaith cofnodi wedi ei ganolbwyntio mewn safleoedd a warchodir, neu ansawdd uwch cynefin ac amrywiaeth gysylltiedig sy'n aml ar gael o fewn safleoedd a warchodir o gymharu â'r tirlun yn ehangach.

Cofnodion y Gog o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3–31.
2. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
3. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables Over 50 Years. *Bird Study* 66(2): 159–172. DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
4. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/brambling>
5. Robinson RA. 2005. BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 02/03/2021).
6. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/finches-and-buntings/brambling>
7. <https://rbbp.org.uk/explore-reports/>
8. Robinson RA. 2005. BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 01/03/ 2021).
9. Holloway S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, London
10. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/apep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
11. BirdLife International. 2021. Species Factsheet: *Fringilla montifringilla*: <http://www.birdlife.org> (downloaded 02/03/2021).
12. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/state-of-birds-wales-2018.pdf>
13. Gwent Bird Report 2018.
14. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 343.
15. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 133.
16. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/hawfinch/>
17. <https://www.birdguides.com/articles/species-profiles/focus-on-hawfinch/>
18. <https://www.telegraph.co.uk/science/2017/12/01/hawfinch-invasion-rare-birds-flock-britain-thousands-crop-failures/>
19. <https://www.birdwatching.co.uk/birdspecies/2018/3/8/hawfinch>
20. <https://www.gwct.org.uk/wildlife/species-of-the-month/2018/hawfinch/>
21. <https://community.rspb.org.uk/ourwork/b/biodiversity/posts/investigating-hawfinch-declines-project-update>
22. Kirby WB, Bellamy PE, Stanbury AJ, Bladon AJ, Grice PV a Gillings S. 2015. Breeding Season Habitat Associations and Population Declines of British Hawfinches *Coccothraustes coccothraustes*. *Bird Study* 62(3): 348–357. DOI: 10.1080/00063657.2015.1046368
23. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 358–360.
24. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 130.
25. Tyler S. et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 139.

26. Kirby WB et al. 2018. Nest Survival, Causes of Failure and Productivity of British Hawfinches *Coccothraustes coccothraustes*. *Bird Study* 65: 3.
27. Lewis J. 2018. The Hawfinch Population in the Forest of Dean/Wye Valley. *British Birds* 111: 168–169.
28. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/marsh-tit/>
29. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/tits-crests-and-warblers/marsh-tit>
30. <https://app.bto.org/birdtrends/species.jsp?year=2018&s=marti>
31. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018, 40.
32. <https://www.birdguides.com/articles/ornithology/marsh-tit-mysteries>
33. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
34. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 315–316.
35. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 115.
36. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 115.
37. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/pied-flycatcher/>
38. <https://app.bto.org/birdtrends/species.jsp?year=2018&s=piefl>
39. <https://www.bou.org.uk/woodland-birds-response-to-climatic-change/>
40. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 309–311.
41. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 125.
42. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 113.
43. Morrison CA, Robinson RA, Clark JA, Risely K a Gill JA. 2013. Recent Population Declines in Afro-Palaearctic Migratory Birds: The Influence of Breeding and Non-breeding Seasons. *Diversity and Distributions* 19: 1051–1058.
44. <https://www.gwct.org.uk/wildlife/research/birds/songbirds/spotted-flycatcher/>
45. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/spotted-flycatcher/>
46. Freeman S and Crick H. 2003. The Decline of the Spotted Flycatcher *Muscicapa striata* in the UK: An Integrated Population Model. *Ibis* 145: 400–412.
47. <https://www.gwct.org.uk/wildlife/research/birds/songbirds/spotted-flycatcher/>
48. http://www.wbrc.org.uk/WORCRECD/issue_29/JohnClarke_a.html
49. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 308–309.
50. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 112.
51. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/willow-tit>
52. <https://naturebftb.co.uk/2017/11/07/what-is-the-willow-tit/>
53. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/willow-tit/>
54. <https://www.birdguides.com/news/can-you-help-to-monitor-britains-declining-willow-tits/>
55. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/tits-crests-and-warblers/willow-tit>
56. Lewis AJG et al. 2009. The Decline of the Willow Tit in Britain. *British Birds* 102: 386–393.
57. Siriwardena GM. 2004. Possible Roles of Habitat, Competition and Avian Nest Predation in the Decline of the Willow Tit *Parus montanus* in Britain. *Bird Study* 51(3): 193–202. DOI: 10.1080/00063650409461354
58. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 314–315.
59. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 116.

- 60. Gwent Bird Report 2016
- 61. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/willow-warbler>
- 62. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/willow-warbler/>
- 63. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 303–305.
- 64. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/willow-warbler>
- 65. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 123.
- 66. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 110.
- 67. <https://www.bto.org/our-science/projects/cuckoo-tracking-project/what-have-we-learnt>
- 68. Douglas DJT et al. 2010. How Important are Climate-Induced Changes in Host Availability for Population Processes in an Obligate Brood Parasite, the European Cuckoo? *Oikos*, Early View doi: 10.1111/j.1600-0706.2010.18388.x

Ymlusgiaid ac Amffibiaid

Mae ymlusgiaid ac amffibiaid, a elwir gyda'i gilydd yn herptiliaid, yn un o'r grwpiau tacsonomig sydd dan fwyaf o fygythiad, eto ychydig iawn a wyddom am eu statws a'u dosbarthiad. Mae'r Rhestr Goch Ewropeaidd o Ymlusgiaid yn amcangyfrif fod un ym mhob pump o rywogaethau ymlusgiaid Ewrop dan fygythiad, gyda 13% arall yn cael eu hystyried dan beth bygythiad. Mae hyn yn cymharu gyda 23% o rywogaethau amffibiaid Ewropeaidd ac yn fwy na naill ai adar neu famaliaid.¹ Mae hyn o fewn cyd-destun dirywiad byd-eang brawychus ar gyfer amffibiaid² ac ymlusgiaid.³


Mae bygythiadau i amffibiaid ac ymlusgiaid yn debyg: colli a diraddio cynefin, erledigaeth, llygredd, clefyd, rhywogaethau goresgynnol a newid hinsawdd.^{2,3} Gall y ffactorau hyn ryngweithio gyda'i gilydd,² gan ei gwneud yn anodd gwrthdroi'r dirywiad.

Mae saith rhywogaeth brodorol o amffibiaid a chwe rhywogaeth brodorol o ymlusgiaid tirol yn y Deyrnas Unedig. Mae pump herptil yn Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir, a chaiff yr holl ymlusgiaid eu gwarchod rhag lladd ac anafu bwriadol drwy'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Mae'n bosibl y bu unwaith fwy o herptiliaid ym Mhrydain, ac mae rhai a hoffai ailgyflwyno rhywogaethau tebyg i'r Broga Coeden Dafadennog (*Hyla arborea*).⁴

Nid yw herptiliaid yn cael eu cofnodi gystal â grwpiau eraill. Mae mynegeion ar gyfer herptiliaid yn absennol o adroddiadau 'Sefyllfa Natur' y Deyrnas Unedig – dim ond tueddiad ar gyfer un amffibiad a allodd yr adroddiad 'Sefyllfa Natur' cyntaf ei gynnwys⁵, gyda'r adroddiad diweddaraf wedi medru cynnwys dau.⁶ Mae Cynllun Cenedlaethol Cofnodi Amffibiaid ac Ymlusgiaid (NARRS) yn canolbwyntio ar herptiliaid eang, ond dim ond yn 2007 y cychwynnodd, gan ei wneud yn gymharol newydd o gymharu â chynlluniau eraill. Dengys dadansoddiad dechreuol o'r chwe mlynedd gyntaf o gofnodi fod lefel bresennol cofnodi yn ddigonol i ganfod newid ymysg amffibiaid eang a'r Madfall Cyffredin, ond nid ymysg Madfallod Dŵr Gribog neu ymlusgiaid eraill.⁷ Mae bellach gynlluniau monitro ychwanegol yn eu lle, tebyg i gynlluniau MITAC ('Make the Adder Count') ar gyfer monitro llynnoedd, o'r Arolygon Pyllau Cenedlaethol a gynhaliwyd yn y 1980au i'r PondNet diweddar, sydd hefyd yn cyfrannu at ddata ar amffibiaid. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn gwella, gyda mynediad i setiau data cenedlaethol drwy Gronfa Gofnodion y Deyrnas Unedig (a gaiff ei rheoli gan ARG-UK a ARC) ac Atlas Ar-lein Amffibiaid ac Ymlusgiaid Cymru, a gaiff ei rheoli gan ARC a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru.

Mae pump o rywogaethau amffibiaid a phedwar o rywogaethau ymlusgiaid yng Ngwent Fwyaf. Fel gyda'r darlun cenedlaethol, mae cofnodi herptiliaid yn wael o gymharu â grwpiau eraill. Dim ond pedwar sgwâr ymlusgiaid NARRS ac un ar ddeg o sgwariau amffibiaid NARRS sydd yng Ngwent Fwyaf, ynghyd ag un o bob un o fewn y parth clustog. Dim ond un flwyddyn o ddata sydd ganddynt i gyd heblaw un. Efallai fod natur ddiregel ymlusgiaid yn golygu fod cofnodi wedi ei gyfyngu i syrfewyr profiadol, ond dylai fod yn bosibl cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn arolygon pyllau yn y dyfodol, os yw adnoddau yn caniatáu.

Gorchudd sgwariau NARRS ar gyfer amffibiaid (monadau) ac ymlusgiaid (tetradau)



Gwiber *Vipera berus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5 (Adran 9(5) yn unig)

Statws Cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth UK BAP, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhywogaeth Adran 7, Rhestr Goch¹:
LLEIAF O GONSYRN (Ewrop)

Data ar gael: Gwael (181 cofnod)



Gary Welsby

Cyd-destun: Y Wiber yw unig ymlusgiad gwenwynig Prydain ond maent yn greaduriaid swil ac yn anodd iawn i'w harolygu: dim ond mewn 7% o sgwariau arolwg y gwnaeth NARRS ganfod gwiberod.⁷ Oherwydd hyn a'r amrywiad mewn ymdrech cofnodi, dim ond yn ddiweddar y daeth yn bosibl amcangyfrif y boblogaeth a chyflwyno mesurau statws cadwraeth.⁸ Drwy gymharu cofnodion diweddar a hanesyddol, amcangyfrifwyd fod cwmipas y Wiber yn Lloegr yn 39% o gymharu â chofnodion cyn-2006 (hanesyddol) gyda rhai o 2006 i 2011. Roedd mwy na thri chwarter yr is-siroedd a ddadansoddwyd wedi colli mwy na 30% o fonadau lle'r oeddent yn bresennol.⁸ Dangosodd canlyniadau dechreuol o raglen MTAC fod y dirywiad hwn yn neilltuol o arwyddocaol mewn poblogaethau llai gyda llai na deg unigolyn.⁹


Rhagolygon: Ymddengys fod y Wiber yn neilltuol o fregus i iselder mewnfrio a achosir gan ddarnio cynefin,⁹ yn ogystal ag ymyriad, erledigaeth a rheolaeth wael ar gynefin.^{8,9,10} Mewn rhai achosion, mae rheoli cynefin ar gyfer cadwraeth rhywogaethau eraill yn cael effeithiau negyddol ar y Wiber.⁸

Mae hyn yn bryder difrifol, gan y dywedodd rheolwyr safle a ymatebodd i holiadur yn Lloegr fod 28% o safleoedd y Wiber yn 'ynysig', a lle'r oedd yn bosibl amcangyfrif poblogaeth, roedd 33% yn cefnogi llai na deg unigolyn.¹⁰ Ar y cyfraddau presennol o ddirywiad, rhagwelir y bydd poblogaethau bach (<10 unigolyn) o'r Wiber yn diflannu o fewn 10-15 mlynedd, gan adael y Wiber wedi'i chyfyngu i nifer fach o safleoedd mwy.

Yng Ngwent Fwyaf, dim ond y boblogaeth yng Nghoed Gwent sydd wedi cofnodi mwy na deg unigolyn.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae dosbarthiad cofnodion y Wiber ar draws Gwent Fwyaf yn ddarniog iawn. Dim ond mewn pedwar lleoliad y mae canolfannau niferoedd uwch o gofnodion mwy diweddar i'w gweld mewn dim: Coed Gwent, y Blorens, Minnets a Wernddu. Er fod cofnodion diweddar gwasgaredig mewn nifer o leoliadau eraill, mae nifer y cofnodion yn llawer is – fel arfer yn llai na phum cofnod drwy gydol cyfnod yr astudiaeth.

Dylid nodi y gall y dosbarthiad darniog fod hefyd yn ganlyniad ymdrech cofnodi a natur ddirgel y Wiber. Ymddengys mai dim ond yng Nghoed Gwent a Wernddu/Comin Caerffili y bu cofnodi rheolaidd.




*Dwysedd cofnodion y
Wiber (uchafswm
dwysedd 27
cofnod/km²)*

Cofnodion y Wiber yn ôl dyddiad



Tueddiadau: Er ei bod yn debygol y caiff y Wiber ei than-gofnodi, byddai'n ymddangos fod cwmpas y Wiber yng Ngwent Fwyaf yn gostwng: nid oes unrhyw gofnod diweddar mewn ardaloedd gwasgaredig. Yn achos mwy o gonsyrn yw mai ychydig o gofnodion sydd gan lawer o'r safleoedd lle mae'r Wiber ar gael, a hynny yn bennaf o niferoedd isel. O 123 cofnod lle nodwyd niferoedd, dim ond 16 (13%) oedd ar gyfer mwy na 5 unigolyn. O'r rhain, dim ond un ohonynt sydd o fewn y degawd diweddaraf. Ni chofnodwyd Gwiber yn y pum sgwâr NARRS o fewn ardal yr astudiaeth.



Presenoldeb y Wiber (gwyrdd) o'r Arolwg Cenedlaethol o Ymlusgiaid Cyffredin (1990).¹¹ Mae llwyd yn dangos sgwariau arolwg lle nad oedd cofnod.

Presenoldeb y Wiber (gwyrdd) rhwng 1970 a 2019, o ganolfannau cofnodion lleol ac Atlas NBN.

Presenoldeb y Wiber (gwyrdd) rhwng 2010 a 2019, o ganolfannau cofnodion lleol ac Atlas NBN.

Mae cymhariaeth gyda chanfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Ymlusgiaid Cyffredin¹¹ yn dangos cynnydd mewn cofnodion o'r Wiber. Fe wnaeth yr arolwg, a gynhaliwyd drwy holiaduron a anfonwyd at gofnodwyr lleol yn 1990, ddychwelyd ≤ 10 cofnod ar gyfer VC35. Dim ond mewn 5 hectad yr oedd cofnodion cadarnhaol (16%) er y gall un fod yn ganlyniad cofnodion o ochr Lloegr o Aber yr Hafren. Mae cofnodion o fewn 23 (72%) hectad o'r 50 mlynedd ddiwethaf, ond dim ond 17 (53%) oedd â chofnodion o'r degawd diweddaraf. Dengys hyn ein bod yn sicr wedi gwella wrth gofnodi'r Wiber. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth drin hyn, gan efallai mai dim ond nifer fach o gofnodion sydd am bob hectad.


Lleiniau cynefin y Wiber: Mae'r Ymddiriedolaeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid wedi cynhyrchu coridorau cost-llleiaf o amgylch poblogaethau o'r Wiber y gwyddys amdanynt, gan roi 12 ardal ffocws o fewn (neu'n rhannol o fewn) ardal yr astudiaeth. Ni chaiff ardal Cilfynydd ei chynnwys gan nad yw'n ymestyn i Gwent Fwyaf. Rhoddir yr ystadegau ar gyfer pob un islaw. Tybir fod cofnodion heb amllder yn unigolion sengl.

Enw	Awdurdod Lleol	Arwynebedd bras (ha)	Cofnodion (1970–2019)	Amllder cyfartalog	Cofnodion diweddar (2010–2019)	Amllder cyfartalog
Mynydd Llangynidr	BG/Powys (PCBB)	600	1	1	0	0
Rasa	BG	650	4	1.3	2	1
Pen y Fâl	M (PCBB)	650	3	1	2	1
Y Bloreus	M/T (PCBB)	1700	28	1	1	1
Beacon Hill	M	750	2	1	1	1
Coed Gwent (dwyrain)	M/Cn	900	31	4.1	1	1
Coed Gwent (Minnetts)	M	1050	8	1.5	1	1
Minnetts	M	600	18	1.6	1*	1*
Sant y Brid	Cn	550	2	1	0	0
Crosskeys	Cff	1100	2	1	1	1
Mynydd Islwyn	Cff	950	2	1	1	1
Wernddu ⁺	Cff/Caerdydd	4100	29	1.4	15	1.5

*cofnod ansicr


⁺Dylid nodi fod yr ardal hon yn ymestyn yn sylweddol tu allan i ardal yr astudiaeth, lle y gall fod cofnodion ychwanegol.

Coridorau cost-lleiaf ar gyfer y Wiber o fewn ardal yr astudiaeth (diolch i ARC)




Gwarchodaeth: Mae tua 57% o gofnodion y Wiber o safleoedd a warchodir: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) Safleoedd Ystlumod Brynbuga a Choed Pen y Fâl, Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Blorens a rhan o Wastadeddau Gwent, a llawer o Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC). Mae'n bwysig nodi fod y rhain yn annhebygol o gael eu dynodi ar gyfer y Wiber (neu'n wir unrhyw ddiddordeb ymlusgiaid). Mae'r 'Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt' yn awgrymu bod unrhyw safle yn awgrymu fod unrhyw safle sy'n cefnogi poblogaeth 'dda' o'r Wiber yn cael ei hystyried ar gyfer dynodiad.¹² Fodd bynnag, mae'n anodd mesur poblogaeth ac angen ymdrech arolygu sylweddol.

Pan ystyriwyd yr ardaloedd ffocws, mae'n amlwg mai ychydig iawn o gwmpas posibl y Wiber a gaiff ei warchod. Mae ardaloedd ffocws y Blorens, Sant y Brid a Mynydd Llangynidr yn bennaf yn dod o fewn SSSI mawr, ond mae'r gweddill yn cynnwys ardaloedd bach o gynefinoedd SINC, fel y dangosir islaw.



Cofnodion y Wiber o safleoedd a warchodir



Safleoedd a warchodir o fewn ardaloedd ffocws y Wiber yng Nghoed Gwent (dwyrain a gorllewin) a Minnetts. Dangosir SSSI yn las, a SINC mewn gwyrdd.

Madfall Cyffredin (Viviparous) *Zootoca vivipara* (Jacquin, 1787)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5 (Adran 9(5) yn unig)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth BAP UK, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhywogaeth Adran 7, Rhestr Goch¹:
LLEIAF O GONSYRN (Ewrop)

Data ar gael: Cymedrol (417 cofnod)

Cyd-destun: Ychwanegwyd y Madfall Gyffredin at restr UK BAP yn 2007 oherwydd dirywiad mewn poblogaeth,¹³ er yr ymddengys fod ymchwil ar statws a thueddiadau poblogaeth yn gyfyngedig. Dywedodd Bowles¹⁴ fod y madfall cyffredin yn diflannu'n gyflym o lawr gwlad yr Alban yn y 1990au, gan awgrymu y gall defnydd o blaladdwyr fod yn ffactor. Yn gyffredinol, caiff ymlusgiaid ar draws Ewrop eu bygwth gan golli cynefinoedd, rhywogaethau goresgynnol, erledigaeth a newid hinsawdd,¹¹ ac mae'r Madfall Cyffredin yn annhebyg o fod yn eithriad.

Mae canlyniadau diweddaraf NARRS ar gyfer 2007–2012⁷ yn dangos cyfradd defnydd o 35% ar gyfer y Wiber Gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig, a 27% yng Nghymru a Chanolbarth Lloegr.


Rhagolygon: Nid yw'r rhagolygon ar gyfer y Madfall Cyffredin yng Ngwent Fwyaf yn glir.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Caiff cofnodion y Madfall Cyffredin eu dosbarthu'n bennaf ar draws gogledd a gorllewin adran yr astudiaeth, yng Nghaerffili, Blaenau Gwent a gogledd Torfaen. Mae canolfannau cofnodi yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)/Gwarchodfa Natur Leol (LNR) Cwm Tawel, Hafod y Dafal, Mynydd Caerffili, gyda chofnodion Sir Fynwy a Chasnewydd wedi clystyru'n llac o amgylch Beacon Hill a Choed Gwent. Mae cofnodion diweddar ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd.


Nid yw'n glir os yw'r diffyg cofnodion yn nwyrain a de'r ardal astudiaeth oherwydd cynefin addas ac absenoldeb gwirioneddol y Madfall Cyffredin, neu dan-gofnodi.




Dwysedd cofnodion
 Madfall Cyffredin
 (uchafswm dwysedd 31
 cofnod/km²)



Cofnodion Madfall
 Cyffredin yn ôl degawd



Tueddiadau: Nid yw'n bosibl rhoi tueddiadau ar gyfer y Madfall Cyffredin. Mae dwy o'r pump safle NARRS o fewn ardal yr astudiaeth wedi cofnodi Madfall Cyffredin. Mae nifer fawr o gofnodion yn ddiweddar: mae 42% o gofnodion o'r degawd diwethaf, gan olygu fod cofnodion madfalloed yn cynyddu.



Presenoldeb Madfall Cyffredin (gwyrdd) o Arolwg Cenedlaethol Ymlusgiaid Cyffredin (1990).¹¹ Mae llwyd yn dangos sgwariau arolwg lle na chafwyd cofnodion.


Presenoldeb Madfall Cyffredin (gwyrdd) rhwng 1970 a 2019, o ganolfannau cofnodi lleol ac Atlas NBN.

Presenoldeb Madfall Cyffredin (gwyrdd) o 2010 i 2019, o ganolfannau cofnodion lleol ac Atlas NBN.

Mae cymhariaeth gyda chanfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Ymlusgiaid Cyffredin¹¹ yn dangos cynnydd sylweddol wrth gofnodi'r Madfall Cyffredin. Dychwelodd yr arolwg, a gynhaliwyd drwy holiaduron a anfonwyd at gofnodwyr lleol yn 1990, ≤ 10 cofnod ar gyfer VC35. Dim ond mewn 5 hectad (16%) yr oedd cofnodion cadarnhaol, tra bod yn awr gofnodion o fewn 25 (78%) hectad o'r 50 mlynedd ddiwethaf, gyda 20 (63%) â chofnodion o'r degawd mwyaf diweddar. Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol mewn cofnodi, er y gallai'r absenoldeb diweddar o ganol Sir Fynwy fod yn achos consyrn. Byddai angen mwy o waith arolygu i ganfod os y cafodd hyn ei achosi gan ostwng ymdrech cofnodi neu golli poblogaeth.

Gwarchodaeth: Mae tua 62% o gofnodion y Madfall Cyffredin o safleoedd a warchodir: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Safleoedd Ystlumod Brynbuga a Glaswelltir Aberbargoed, Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Blorens a Silent Valley yn ogystal â Gwarchodfeydd Natur Lleol ym Mlaenau Gwent a llawer o Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn arbennig y SINC ucheldir mawr. Mae'n bwysig nodi bod y rhain yn annhebyg o gael eu dynodi am eu Madfallod Cyffredin (nac yn wir unrhyw ymlusgiaid). Mae'r Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwylt yn awgrymu y dylai unrhyw safle gyda phoblogaeth dda o Fadfallod Cyffredin gael eu hystyried ar gyfer dynodiad.¹² Fodd bynnag mae'n anodd mesur poblogaeth ac mae angen cryn dipyn o ymdrech arolwg.

Cofnodion Madfall Cyffredin o safleoedd a warchodir



Llyffant Dafadennog *Bufo bufo* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5 (Adran 9(5) yn unig)

Statws Cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf yr Amgylchedd Cymru Rhywogaeth Adran 7. Rhestr Goch¹: LLEIAF O GONSYRN (Ewrop)

Data ar gael: Cymedrol (417 COFNOD)



Andy Karren

Cyd-destun: Er ei fod yn y categori Lleiaf o Gonsyrn ar y Rhestr Goch Ewropeaidd¹, mae gostyngiadau difrifol yn y Llyffant Dafadennog yn y Deyrnas Unedig. Gellir dyddio dirywiad mor bell yn ôl â dwysau amaethyddol yn dilyn y rhyfel¹⁵ a chaiff ei briodoli i glefyd, newid hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol, newid cynefin o golled, difrod neu newid rheolaeth, a lladd ar y ffyrdd.¹⁶


Dengys ymchwil ddiweddar ar nifer y llyffantod ar batrolau croesi fod nifer llyffantod wedi gostwng bob degawd ers y 1980au, er i raddau llai mewn ardaloedd gorllewinol. Pe byddai'r dirywiad hwn yn parhau, mae'r awduron yn dadlau y byddai'r boblogaeth yn gostwng gan 30% mewn degawd, gan gyfiawnhau dosbarthiad 'bregus' yn defnyddio meini prawf yr Undeb Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Natur.¹⁷

Mae canlyniadau diweddaraf NARRS ar gyfer 2007–2012⁷ yn dangos cyfradd presenoldeb o 33% ar gyfer Llyffantod Dafadennog ar draws y Deyrnas Unedig, a 35% yn rhanbarth Cymru a Chanolbarth Lloegr.


Rhagolygon: Nid yw'r rhagolygon ar gyfer y Llyffant Dafadennog yn glir.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae cofnodion y Llyffant Dafadennog yn weddol brin ar gyfer rhywogaeth a ystyrir yn gyffredin ac ar gael yn eang, er fod y rhan fwyaf o gofnodion yn gymharol ddiweddar. Ymddengys fod llai o gofnodion yng nghanol a de sir Fynwy, dwyrain Casnewydd a de Caerffili. Mae'r canolbwynt yn Nhredomen yn ganlyniad mwy o ymdrech arolygu oherwydd gwaith ffordd, fel arall gall dosbarthiad cofnodion fod yn ffactor naill ai addasrwydd cynefin neu ymdrech gofnodi neu'r ddau.

*Dwysedd cofnodion y
Llyffant Dafadennog
(uchafswm dwysedd 44
cofnod /km²)*



*Cofnodion y Llyffant
Dafadennog yn ôl
dyddiad*



Tueddiadau: Nid yw'n bosibl rhoi tueddiadau ar gyfer Llyffantod Dafadennog. Mae dau o 13 safle NARRS o fewn ardal yr astudiaeth wedi cofnodi Llyffantod Dafadennog. Gall nifer y llyffantod ar batrolau croesi fod yn ddangosydd da o dueddiadau poblogaeth¹⁷, ond dim ond un patrol gweithredol sydd yng Ngwent Fwyaf, heb unrhyw gofnodion cysylltiedig (gweler islaw). Mae'r tuedd yn y Deyrnas Unedig yn un o ddirywiad hirdymor a pharhaus.

Lladd ar y ffordd: Un cynllun cadwraeth yw'r Patrol Man Croesi Llyffantod, a reolir gan Froglife, lle mae gwirfoddolwyr yn helpu llyffantod i groesi ffyrdd yn ddiogel yn ystod y tymor bridio. Mae tri patrol man croesi llyffantod wedi cofrestru gyda Froglife yng Ngwent Fwyaf, yn Llanelli Hill (gweithredol), Brynbuga a Chaerllion (y ddau yn anweithredol ar hyn o bryd), ac un ychydig y tu allan i ardal yr astudiaeth, yng Nghronfa Ddŵr Lllysfaen (heb fod yn weithredol). Ar wahân i Llysfaen, nid oes gan unrhyw un o'r mannau croeso unrhyw gofnodion o niferoedd y llyffantod.

Mae dadansoddiad o gofnodion lle sonnir am fannau croesi neu ladd ar y ffordd yn rhoi tri prif ganolbwynt:


- Llangenny: 2 gofnod mewn dwy flynedd olynol (2007–2008), un ar gyfer 20 wedi eu lladd
- Cronfa Ddŵr Coed Gwent: 7 cofnod o gyfrifiadau llyffantod rhwng 1972-1997, yn amrywio o 23 i 400. Mae'n aneglur faint a laddwyd.
- Ysgyryd Fach: 9 cofnod o lyffantod unigol a laddwyd rhwng 2014-2016.

Mae'n bosibl bod y cofnodion hyn yn rhy hen i gyfeirio unrhyw gamau lliniaru. Gall poblogaethau eisoes fod wedi eu colli neu wedi addasu i ddefnyddio llwybrau eraill neu gynefinoedd tirol eraill. Pe cynyddwyd cofnodi, gellid o bosibl ddynodi mwy o brif ganolfannau.

Er i Batrolau Croesi Ffordd Llyffantod helpu dros 100,000 llyffant yn 2019¹⁸, mae'n bwysig nodi fod nifer y llyffantod mewn llawer o fannau croesi a gaiff eu patrolio yn dal i ostwng.¹⁷ Credir fod hyn oherwydd mai dim ond yn y gwanwyn pan mae llyffantod yn mudo i byllau y mae patrolau mannau croesi yn gweithredu a'u bod yn colli gwasgariad llai rhagweladwy oedolion a llyffantod ifanc yn yr haf. Yn ychwanegol, gall ffactorau eraill tebyg i reoli cynefinoedd hefyd fod yn effeithio ar boblogaethau unigol.¹⁶


*Patrol Mannau Croesi
Llyffantod (data gan
Froglife¹⁹) a phrif
ganolfannau croesi ffyrdd*

- Patrol gweithredol
- Patrol anweithredol
- ▲ Prif ganolfan man croesi llyffantod



Gwarchodaeth: Daw tua 40% o gofnodion Llyffant Dafadennog o safleoedd a warchodir: Gwarchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a Gwarchodfa Natur Leol (LNR) Pyllau Beaufort. Mae cofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn nifer fach o gofnodion o nifer fawr o wahanol safleoedd. Mae o leiaf 60 SINC pwll, rhai ohonynt gyda chofnodion llyffant, tebyg i Bwll Pen y Fan, Pwll Tredomen a Phwll Coety. Mae'r Canllawiau Safleoedd Bwyd Gwyllt yn awgrymu y dylid ystyried unrhyw safle sy'n cefnogi poblogaeth 'eithriadol' (>500 oedolyn) o Lyffantod Dafadennog ar gyfer eu dynodi, a gall llyffantod hefyd fod yn ffactor sy'n cyfrannu lle dynodwyd pyllau ar gyfer eu poblogaethau o amffibiaid.¹² Mae'n bwysig nodi fod llyffantod dafadennog, fel amffibiaid eraill, angen cynefin tirol ar gyfer chwilio am fwyd a chysgu dros y gaeaf, yn ogystal â'u pwll bridio.

*Cofnodion Llyffantod
Dafadennog o safleoedd a
warchodir*



Neidr y Gwair *Natrix helvetica* (Lacépède, 1789)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5 (Adran 9(5) yn unig)

Statws cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth UK BAP, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhywogaeth Adran 7, Rhestr Goch¹:
LLEIAF O GONSYRN (Ewrop)

Data ar gael: Cymedrol (372 cofnod)

Cyd-destun: Ychwanegwyd Neidr y Gwair at restr UK BAP yn 2007, oherwydd gostyngiadau

poblogaeth¹³, er yr ymddengys fod ymchwil ar statws a thueddiadau poblogaeth yn ymddangos yn gyfyngedig. Dangosodd gwaith gan Reading et al.²⁰ yn wahanol i lawer o rywogaethau eraill, fod poblogaeth Neidr y Gwair mewn safleoedd y Deyrnas Unedig wedi parhau'n sefydlog dros gyfnod hir, ond ni fedrir ystyried fod hyn yn cynrychioli poblogaeth y Deyrnas Unedig.

Mae Neidr y Gwair dan fygythiad oherwydd colli eu cynefinoedd pwll a gwlypdir a dirywiad yn y rhywogaethau amffibiaid sydd yn ysglyfaeth iddynt. Mae gostyngiad brawychus yn fyd-eang mewn gwlypdiroedd²¹ gan y cânt eu bygwth gan ddraeniad, cyfoethogi maethion, datblygu, rhywogaethau goresgynnol a newid hinsawdd. Mae newidiadau mewn arferion ffermio hefyd yn arwain at ostyngiadau mewn safleoedd nythu, gan fod yn well gan Neidr y Gwair gompost gwneuthuredig a thomenydd dom da, yn arbennig mewn hinsoddau oerach. Gall colli safleoedd nythu twym arwain at lai o lwyddiant deor.²²


Mae canlyniadau diweddaraf NARRS ar gyfer 2007–2012⁷ yn dangos cyfradd presenoldeb o 22% ar gyfer Neidr y Gwair ar draws y Deyrnas Unedig, a 13% yng Nghymru a Chanolbarth Lloegr. Yn 2017, fe wnaeth ymchwil genynnol ar Neidr y Gwair ar draws Ewrop at gydnabod is-rywogaeth *Natrix natrix helvetica* fel rhywogaeth yn ei hawl ei hun: *Natrix helvetica*.⁶

Rhagolygon: Mae'r rhagolygon ar gyfer Neidr y Gwair yng Ngwent Fwyaf yn annhebyg o fod yn gadarnhaol, oherwydd bygythiadau i'w cynefinoedd a'u hysglyfaeth. Wrth i wlypdiroedd barhau i ddirywio mewn arwynebedd yn ogystal ag ansawdd, ac wrth i effeithiau o newid hinsawdd yn cynyddu, mae colledion parhaus yn debygol.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae cofnodion Neidr y Gwair wedi crynhoi yn ne a dwyrain ardal yr astudiaeth, sydd wedi cysylltu'n agos gyda Gwastadeddau Gwent a phrif lwybrau dŵr. Y brif ganolfan amlwg ar gyfer cofnodi yw Gwarchodfa Natur Leol Gwlypdir Casnewydd, gyda llawer llai o gofnodion mewn mannau eraill, er bod casgliadau bach o gofnodion yn Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Cors Magwyr, Celtic Lakes, Comin Caerffili, ac am ryw reswm, Ysgol Gyfun Caerllion. Mae'r dosbarthiad hwn yn dangos mai dewis cynefin y Neidr Gwair ar gyfer gwlypdiroedd llawr gwlad, pyllau a chysiau dŵr, ond mae hefyd yn debygol o fod oherwydd tangofnodi mewn lleoedd.




Pete Hill




*Dwysedd cofnodion
Neidr y Gwair
(uchafswm dwysedd –
44 cofnod/km²)*

Cofnodion Neidr y Gwair yn ôl dyddiad




Tueddiadau: Er nad yw'n bosibl rhoi tueddiad dibynadwy ar gyfer poblogaethau Neidr y Gwair, ymddengys fod cofnodion o Neidr y Gwair yn cynyddu. Mae cymhariaeth gyda chanfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Ymlusgiaid Cyffredin¹¹ yn dangos cynnydd sylweddol mewn cofnodion Neidr y Gwair. Dychwelodd yr arolwg, a gynhaliwyd drwy holiaduron a anfonwyd at gofnodwyr lleol yn 1990, ≤10 cofnod ar gyfer VC35. Dim ond mewn 6 hectad (9%) yr oedd cofnodion cadarnhaol, er bod un ohonynt yn debygol o gyfeirio at gofnodion ar ochr Lloegr o Aber yr Hafren. Nawr mae cofnodion o fewn 24 (75%) hectad o'r 50 mlynedd ddiwethaf, ac mae gan 17 (53%) gofnodion o'r degawd diweddaraf. Mae colledion o'r gorllewin a'r gogledd yn fwy tebygol i fod oherwydd y nifer fach iawn o gofnodion o'r ardaloedd hon dros gyfnod yr astudiaeth, gan mai ychydig iawn botensial ar gyfer cynefin Gwas y Neidr sydd yn yr ardaloedd ucheldir yn bennaf yma.



Gwarchodaeth: Mae bron i 49% o gofnodion Neidr y Gwair o safleoedd a warchodir, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt (41% o gofnodion Gwent Fwyaf) o Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent, gan ddangos pwysigrwydd y tirlun gwlypdir hwn ar gyfer Neidr y Gwair.

Mae'r Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt yn awgrymu y dylid ystyried dynodi unrhyw safle sy'n cefnogi poblogaeth 'dda' o Neidr y Gwair.¹² Gall Neidr y Gwair hefyd fod yn ffactor sy'n cyfrannu mewn safleoedd a ddynodwyd ar gyfer eu hamrywiaeth ymlusgiaid. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur poblogaeth ac mae angen cryn dipyn o ymdrech arolwg.

Cofnodion Neidr y Gwair o safleoedd a warchodir



Madfall Ddŵr Gribog *Triturus cristatus* (Laurenti, 1768)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: LLEIAF O GONSYRN (bydeang)²⁴ Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru



Andy Karran

Data ar gael: Gwael (522 cofnod)

Cyd-destun: Mae'n anodd meintoli dirywiad y Madfall Ddŵr Gribog – mae diffyg cofnodion hanesyddol, felly ychydig a wyddom am lefelau poblogaeth neu gwmpas blaenorol. Amcangyfrifwyd colled o 50% yn y 1960au, a pharhaodd y colledion hyn ar tua 2% bob pum mlynedd.²⁵ Mae'r colledion hyn wedi arwain at i'r Madfall Ddŵr Gribog gael ei ddynodi fel Rhywogaeth Ewropeaidd a Warchodir ac un o'r ddogn gyntaf o rywogaethau UK BAP.

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid a Chanolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol Cymru wedi gwneud llawer o waith yn ddiweddar i fapio a meintoli poblogaeth Cymru o'r Madfall Ddŵr Gribog. Amcangyfrifir fod poblogaeth Cymru yn awr yn bresennol mewn 3,271 o byllau,²⁶ wedi eu hymestyn ar hyd ochr ddwyreiniol Cymru ac Ynys Môn. Mae eu cadarnle yng ngogledd-ddwyrain Cymru, lle cafodd nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig eu dynodi am eu poblogaethau sylweddol o'r Madfall Ddŵr Gribog.

Y bygythiad mwyaf i'r Madfall Ddŵr Gribog yw'r dirywiad parhaus a cholli pyllau bridio, a achosir gan weithredu dynol a hefyd olyniaeth naturiol. Caiff y dirywiad hwn ei achosi gan golli cynefinoedd tirol a dyfriol, diraddio ac ynysu, rheoli anaddas, dwysau amaethyddol a chyflwyno pysgod, adar dŵr a rhywogaethau goresgynnol anfrodorol.²⁵ Mae data NARRS ar gyfer Cymru a Chanol Lloegr yn amcangyfrif mai dim ond 24.75% o byllau sy'n gynefin ansawdd uchel (HSI>0.7),⁷ cyfartal â dim ond 810 pwll yng Nghymru.

Rhagolygon: Ystyrir fod cwmpas a phoblogaeth y Deyrnas Unedig yn sefydlog ar hyn o bryd, er bod arwynebedd ac ansawdd cynefin addas yn gostwng ac na all gynnal y boblogaeth.²⁷ Credir fod y boblogaeth yn gostwng yng Nghymru, gyda data annigonol am gynefin.²⁸ Mae cofnodi a monitro yn gwella gyda sefydlu Cronfa Ddata Ar-lein Monitro'r Madfall Ddŵr Gribog (a gaiff ei rheoli gan Cofnod) a gwelliannau i dechnegau arolygu, megis defnyddio eDNA.


Yng Ngwent Fwyaf, byddai angen creu mwy na 200 o byllau ansawdd uchel i liniaru ar gyfer colledion hanesyddol.²⁹ Mae hyn yn ffigur heriol, o gofio am lefelau cynyddol data ac nad oes safleoedd addas ar gael ar gyfer creu pyllau. Mae Fletcher et al. (2005)²⁹ yn awgrymu y byddai angen dull gweithredu integredig, traws-ffin neu ranbarthol i adfer a chynnal y poblogaethau o'r Madfall Ddŵr Gribog.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Madfall Ddŵr Gribog wedi eu lledaenu'n denau ar draws Gwent Fwyaf ac wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i lawr gwlad. Mae prif ganolfannau yn Rhydri, Tredomen, Comin Merthyr, Rhaglan, Brynbuga, Llan-ffwyst a Chaerwent. Mae'r ffaith fod cofnodion diweddar yn ddarniog yn dangos ei bod yn debyg mai yn gyfnodol y bu cofnodi yn hanesyddol: mae Fletcher et al. (2005)²⁹ yn awgrymu fod y rhanbarth wedi ei than-gofnodi i raddau helaeth, a dengys modelu gan


French et al. (2014)²⁶ bod ardaloedd ychwanegol o gynefin addas, tebyg i Blaenau'r Cymoedd, lle mai ychydig iawn o gofnodion sydd, os oes rhai o gwbl.


Mae gwaith modelu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ARC yn dangos clystyrau pwll ar wahân ar draws Gwent Fwyaf, gyda chysylltedd gwael rhwng clystyrau. Mae'r model yn dangos clustogau wedi'u pwysoli o ran cost o amgylch safleoedd a gofnodwyd, a gafodd wedyn eu dadansoddi ymhellach am eu potensial i greu pyllau newydd (a ddangosir islaw). Bwriedir i'r modelau hyn gael eu defnyddio mewn blaen-gynllunio, i warchod safleoedd y Madfall Ddŵr Gribog a llywio gweithredu cadwraeth lleol.

*Dosbarthiad cofnodion y
Madfall Ddŵr Gribog ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 33/km²)*



*Cofnodion y Madfall
Ddŵr Gribog yn ôl
degawdau*





Ardaloedd posibl ar gyfer
 greu pyllau o fewn
 clustogau a bwysolwyd o
 ran cost (~1000m) o
 safleoedd presennol y
 Madfall Ddŵr Gribog
 (gan Fletcher et al.,²⁹
 data GIS gan ARCa
 Cyfoeth Naturiol
 Cymru³⁰)


High Priority
 Low Priority

Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i benderfynu ar dueddiad poblogaeth leol ar gyfer y Madfall Ddŵr Gribog, er ei bod yn debyg ei fod yn dirywio yn unol â thueddiadau cenedlaethol.²⁸ Dengys data o'r Gronfa Ddata Monitro Ar-lein y Madfall Ddŵr Gribog ar gyfer y pyllau yng Ngogledd Cymru ei bod yn bosibl dangos newidiadau poblogaeth ar lefel safle, ond hefyd fod y data sydd ar gael yn amrywio llawer mewn ansawdd a maint.²⁵

Gwarchodaeth: Daw 28% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gydag Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn rhoi'r nifer fwyaf o gofnodion. Cafodd llawer o bylloedd eu dynodi fel SINC, gyda phresenoldeb y Madfall Ddŵr Gribog y prif reswm neu ffactor sy'n cyfrannu. Gan fod y Madfall Ddŵr Gribog a'u safleoedd bridio wedi eu gwarchod i raddau helaeth drwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), gellir defnyddio dynodiad fel SINC neu uwch fel cyfrwng i gysylltu â thirfeddianwyr a hyrwyddo rheolaeth gadarnhaol.

Mae nifer o gofnodion sy'n cyflawni meini prawf SINC¹² o ddeg neu fwy o oedolion na chânt eu gwarchod, a dylai'r safleoedd hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymchwiliad pellach. Dylid nodi fod yn rhaid i'r dynodiad hefyd gynnwys cynefin tirol, ac y gall dull tirlun, yn cwmpasu nifer o byllau, fod yn fwy addas wrth gynnal poblogaeth hyfyw.

Cofnodion y Madfall Ddŵr Gribog o safleoedd a warchodir



Neidr Ddefaid *Anguis fragilis* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5 (Adran 9(5) yn unig)

Statws Cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth UK BAP, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhywogaeth Adran 7. Rhestr Goch¹:
LLEIAF O GONSYRN (Ewrop)

Data ar gael: Da (713 cofnod)



Andy Karran

Cyd-destun: Ychwanegwyd y Neidr Ddefaid at restr UK BAP yn 2007, oherwydd dirywiad mewn poblogaethau,¹³ er fod ymchwil ar statws a thueddiadau poblogaeth yn ymddangos yn gyfyngedig. Daeth gwaith yn Lloegr yn 2004 i'r casgliad nad oedd statws y Neidr Ddefaid yn ffafriol, er yr ymddengys fod dirywiad hirdymor wedi gostwng.¹⁰ Caiff y Neidr Ddefaid ei chysylltu'n aml gyda glaswelltir, gerddi¹¹ a safleoedd tir llwyd,¹⁰ ac felly cânt eu bygwth yn aml gan ddatblygiad.


Mae canlyniadau diweddaraf NARRS ar gyfer 2007–2012⁷ yn dangos cyfradd presenoldeb o 22% ar gyfer y Neidr Ddefaid ar draws y Deyrnas Unedig, a 11% yng Nghymru a Chanol Lloegr.

Rhagolygon: Nid yw'r rhagolygon ar gyfer y Neidr Ddefaid yng Ngwent Fwyaf yn glir. Mae colli cynefin, yn arbennig o ddatblygiad, yn debygol o barhau i effeithio'n negyddol arnynt ac ni ymddengys fod dulliau lliniaru cyfredol, megis trawsleoli, yn gwneud iawn am y golled hon.³¹ Bu cynnydd sylweddol mewn cofnodi y Neidr Ddefaid dros gyfnod yr astudiaeth, sy'n sicr o fod yn gadarnhaol ar gyfer eu cadwraeth yn y dyfodol.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Caiff cofnodion y Neidr Ddefaid eu dosbarthu'n eang ar draws ardal yr astudiaeth, gyda llai o gofnodion yng nghanol a de Sir Fynwy a dwyrain Casnewydd. Mae'r prif ganolfannau cofnodi yn y Fenni a Chomin Caerffili (y ddau, efallai, oherwydd arolygon datblygu) yn ogystal â Snatchwood, Gaer Fort, Cwmcarn, Moriah Hill a Beacon Hill.

Nid yw'n glir os yw diffyg cofnodion yr astudiaeth ar gyfer rhannau o Sir Fynwy a Chasnewydd oherwydd diffyg cynefin addas ac absenoldeb y Neidr Ddefaid neu oherwydd tan-gofnodi.


*Dwysedd cofnodion y Neidr
Ddefaid (uchafswm dwysedd 35
cofnod/km²)*



Cofnodion y Neidr Ddefaid yn ôl degawd



Tueddiadau: Er nad yw'n bosibl rhoi tueddiad dibynadwy ar gyfer y Neidr Ddefaid, mae cofnodion ohoni yn sicr yn cynyddu. Mae bron hanner (49%) cofnodion y Neidr Ddefaid o fewn yr ardal yr astudiaeth o'r degawd diwethaf.



Presenoldeb y Neidr Ddefaid (gwyrd) o'r Arolwg Cenedlaethol o Ymlusgiaid Cyffredin (1990).¹¹ Mae llwyd yn dangos sgwariau arolwg lle na chanfyddwyd unrhyw gofnodion.


Presenoldeb y Neidr Ddefaid (gwyrd) rhwng 1970 a 2019, o ganolfannau cofnodi lleol ac Atlas NBN.

Presenoldeb y Neidr Ddefaid rhwng 2010 a 2019, o ganolfannau cofnodion lleol ac Atlas NBN.

Mae cymhariaeth gyda chofnodion yr Arolwg Cenedlaethol o Ymlusgiaid Cyffredin¹¹ yn dangos cynnydd sylweddol mewn cofnodi'r Neidr Ddefaid. Dychwelodd yr arolwg, a gynhaliwyd drwy holiaduron a anfonwyd at gofnodwyr lleol yn 1990, ≤ 10 cofnod ar gyfer VC35. Dim ond ar gyfer 3 hectad (9%) yr oedd cofnodion cadarnhaol tra bod yn awr gofnodion o fewn 29 (91%) hectad o'r 50 mlynedd ddiwethaf, ac mae gan 27 (84%) gofnodion o'r degawd diweddaraf. Gellir priodoli'r cynnydd hynod hwn i welliannau yn ein dealltwriaeth o ecoleg y Neidr Ddefaid (h.y. edrych yn y lleoedd cywir) a chynnydd mewn gwaith cofnodi, yn ogystal â phosibilrwydd cynnydd mewn cwrpas a phoblogaeth.

Gwarchodaeth: Dim ond 29% o gofnodion y Neidr Ddefaid sydd o safleoedd a warchodir, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain o Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) gyda llawer o gofnodion o Gaer Fort, Beacon Hill a Chomin Caerffili. Dengys hyn fod y Neidr Ddefaid yn aml ar gael mewn cynefinoedd sy'n llai tebygol o gael eu gwarchod (mae 75 cofnod yn sôn am 'ardd' yn y sylwadau) ac y daw llawer o gofnodion y Neidr Ddefaid o brosiectau datblygu, sy'n annhebyg o fod ar safleoedd a warchodir. Mae'n bwysig nodi fod safleoedd a warchodir yn annhebyg o gael eu dynodi ar gyfer eu diddordeb Neidr Ddefaid (neu yn wir unrhyw ddiddordeb ymlusgiaid). Mae'r Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt yn awgrymu y dylid ystyried dynodi unrhyw safle sy'n cefnogi poblogaeth 'dda' o'r Neidr Ddefaid ('eithriadol' yn Sir Fynwy).^{12,32} Gall y Neidr Ddefaid hefyd fod yn ffactor sy'n cyfrannu mewn safleoedd a ddynodwyd ar gyfer eu hamrywiaeth ymlusgiaid. Fodd bynnag, mae mesur poblogaeth yn anodd ac angen ymdrech arolwg sylweddol.

Cofnodion y Neidr Ddefaid o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Cox NA a Temple HJ. 2009. European Red List of Reptiles. Luxembourg: Office for Official Publications of the European Communities.
2. Beebee TJC a Griffiths RA. 2005. The Amphibian Decline Crisis: A Watershed for Conservation Biology? *Biological Conservation* 125 (3): 271–285.
3. Whitfield Gibbons J, Scott DE, Ryan TJ, Buhlmann KA, Tuberville TD, Metts BS, Greene JL, Mills T, Leiden Y, Poppy S, Winne CT. 2000. The Global Decline of Reptiles, Déjà Vu Amphibians: Reptile Species are Declining on a Global Scale. *BioScience* 50(8): 653–666.
4. Snell C. 2006. Status of the Common Tree Frog in Britain. *British Wildlife* 27(3): 152–160.
5. Burns F, Eaton MA, Gregory RD, Al Fulaij N, August TA, Biggs J, Bladwell S, Brereton T, Brooks DR, Clubbe C, Dawson J, Dunn E, Edwards B, Falk SJ, Gent T, Gibbons DW, Gurney M, Haysom KA, Henshaw S, Hodgetts NG, Isaac NJB, McLaughlin M, Musgrove AJ, Noble DG, O'Mahony E, Pacheco M, Roy DB, Sears J, Shardlow M, Stringer C, Taylor A, Thompson P, Walker KJ, Walton P, Willing MJ, Wilson J a Wynde R. 2013. State of Nature Report. The State of Nature partnership.
6. Hayhow DB, Eaton MA, Stanbury AJ, Burns F, Kirby WB, Bailey N, Beckmann B, Bedford J, Boersch-Supan PH, Coomber F, Dennis EB, Dolman SJ, Dunn E, Hall J, Harrower C, Hatfield JH, Hawley J, Haysom K, Hughes J, Johns DG, Mathews F, McQuatters-Gollop A, Noble DG, Outhwaite CL, Pearce-Higgins JW, Pescott OL, Powney GD and Symes N. 2019. The State of Nature 2019. The State of Nature partnership.
7. Wilkinson JW a Arnell AP. 2013. NARRS Report 2007 – 2012: Establishing the Baseline (HWM Edition). ARC Research Report 13/01.
8. Glead-Owen C a Langham S. 2012. The Adder Status Project: A Conservation Condition Assessment of the Adder (*Vipera berus*) in England, With Recommendations for Future Monitoring and Conservation Policy. Report to Amphibian and Reptile Conservation. ARC, Bournemouth.
9. Gardner E, Julian A, Monk C a Baker J. 2019. Make the Adder Count: Population Trends from a Citizen Science Survey of UK Adders. *Herpetological Journal* 29: 57–70.
10. Baker J, Suckling J a Carey R. 2004. Status of the Adder (*Vipera Berus*) and Slow-worm (*Anguisfragilis*) in England. English Nature Research Report Number 546. English Nature, Peterborough.
11. Swan MJS a Oldham RS. 1993. Herptile Sites: National Common Reptile Survey Final Report. English Nature Research Report No.39. English Nature, Peterborough.
12. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2004. Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.
13. Biodiversity Reporting and Information Group (BRIG). 2007. Report on the Species and Habitat Review. JNCC, Peterborough.
14. Bowles FD. 1995. Observations on the distribution of the Common Lizard (*Lacerta vivipara*) in Scotland. *British Herpetological Society Bulletin* 54: 32–33.
15. Cooke AS. 1972. Indications of Recent Change in Status in the British Isles of the Frog (*Rana temporaria*) and the Road (*Bufo bufo*). *Journal of Zoology* 167(2): 161–178.
16. Beebee T. 2012. 'Decline and Flounder of a Sussex Common Road (*Bufo bufo*) Population. *Herpetological Bulletin* 121: 6–16.

17. Petrovan SO a Schmidt BR. 2016. Volunteer Conservation Action Data Reveals Large Scale and Long-Term Negative Population Trends of a Widespread Amphibian, the Common Toad (*Bufo bufo*). PLOS ONE 121(10).
18. Froglife. 2020. <https://www.froglife.org/what-we-do/toads-on-roads/facts-figures/> (agorwyd 1/7/2020).
19. Froglife (2020) <https://www.froglife.org/what-we-do/toads-on-roads/tormap/> (agorwyd 1/7/2020).
20. Reading CJ, Luiselli LM, Akani GC, Bonnet X, Amori G, Ballouard LM, Filippi E, Naulleau G, Pearson D a Rugiero L. 2010. Are Snake Populations in Widespread Decline? Biology Letters 6: 777– 780.
21. Dixon JR, Loh J, Davidson NC, Beltrame C, Freeman R, Walpole M. 2016. Tracking Global Change in Ecosystem Area: The Wetland Extent Trends Index. Biological Conservation 193: 27–35.
22. Löwenborg K, Kärvmö S, Tiwe A a Hagman M. 2012. Agricultural By-Products Provide Critical Habitat Components for Cold-Climate Populations of an Oviparous Snake (*Natrix natrix*). Biodiversity and Conservation 21(10): 2477–2488.
23. Kindler C, Chèvre M, Ursenbacher S, Böhme W, Hille A, Jablinski D, Vamberger M a Fritz U. 2017. Hybridization Patterns in Two Contact Zones of Grass Snakes Reveal a New Central European Snake Species. Scientific Reports 7: 7378.
24. Arntzen JW, Kuzmin S, Jehle R, Beebe T, Tarkhnishvili D, Ishchenko V, Ananjeva N, Orlov N, Tuniyev B, Denoël M, Nyström P, Anthony B, Schmidt B and Ogradowczyk A. 2009. *Triturus cristatus*. The IUCN Red List of Threatened Species 2009: <https://dx.doi.org/10.2305/IUCN.UK.2009.RLTS.T22212A9365894.en> (Agorwyd ddiwethaf 26/07/2020).
25. Haysom K, Driver D, Cartwright M, Wilkinson J a Foster J. 2018. Y Madfall Ddŵr Gribog yng Nghymru, gyda Chyfeiriadau Penodol at ei Ragolygon Hirdymor ac o fewn ei Gadarnle yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru. Adroddiad Gwyddoniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Cyfres 259: 113. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
26. French GCA, Wilkinson JW, Fletcher DH a Arnell AP. 2014. Meintioli Statws y Madfall Ddŵr Gribog yng Nghymru. Adroddiad Gwyddoniaeth Cyfres 31:24 Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
27. Conservation Status Assessment for the Species S1166 Great Crested Newt (*Triturus cristatus*) UK. European Community Directive on the Conservation of Natural Habitats and of Wild Fauna and Flora (92/43/EEC). Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 (January 2013–December 2018). JNCC.
28. Conservation Status Assessment for the Species S1166 Great Crested Newt (*Triturus cristatus*) Wales. European Community Directive on the Conservation of Natural Habitats and of Wild Fauna and Flora (92/43/EEC). Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 (January 2013–December 2018). JNCC.
29. Fletcher DH, Arnell AP, French GCA a Wilkinson JW. 2014. Modelu Statws Cadwraeth Gofodol y Madfall Ddŵr Gribog yn Ne Cymru. Cyfres Adroddiad Gwyddoniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 30:36. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
30. Data GIS data gan ARC a Cyfoeth Naturiol Cymru – yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.
31. Nash DJ, Humphries N a Griffiths RA. 2020. Effectiveness of Translocation in Mitigating Reptile-Development Conflict in the UK'. Conservation Evidence 17: 7–11.
32. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2009. Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru, i roi ystyriaeth arbennig i Sir Fynwy. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent.

Pysgod


Mae pysgod yn wahanol i'r rhywogaethau eraill yn yr adroddiad hwn, gan fod gan lawer o rywogaethau pysgod werth masnachol. Mae diwydiant pysgota Cymru yn werth tua £200 miliwn y flwyddyn, a chredir y gellid cynyddu hyn.¹ Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys unrhyw werth ychwanegol yn nhermau'r iechyd a'r llesiant y mae pysgota yn eu rhoi.

Mae gwybodaeth am boblogaethau pysgod yn gyfyngedig oherwydd fod samplo yn ddarniog a thrawsleoli a stocio rhywogaethau am resymau masnachol. Amcangyfrifir fod tua 28 o rywogaethau pysgod aberol a mewndraeth yn Ne Cymru, a chredir fod 14 ohonynt o arwyddocâd rhanbarthol.²

Dynodwyd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig am eu poblogaethau pysgod.^{3,4} Mae Atodiad II yn cynnwys rhywogaethau pysgod a restrwyd fel rhesymau sylfaenol dros eu dethol a nodweddion cymhwyso yn cynnwys Llysywen Bendoll y Môr (*Petromyzon marinus*), Lamprai'r Nant (*Lampetra planeri*), Lamprai'r Afon (*L. fluviatilis*), Gwangen (*Alosa fallax*), Herlyn (*A. alosa*), Eog yr Iwerydd (*Salmo salar*) a Bawd y Melinydd (*Cottus gobio*). Mae'r rhestr hon yn cynnwys pysgod esgynnol (pysgod sy'n silio mewn dŵr croyw ond sy'n treulio rhan o'u cylch oes yn y môr) a physgod sy'n treulio eu holl gylch bywyd mewn dŵr croyw. Cafodd llawer o gyrsiau dŵr eraill, yn cynnwys yr holl brif afonydd o fewn ardal yr astudiaeth, eu dynodi fel Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig ar gyfer Cadwraeth Natur, er efallai nad ydynt yn cymhwyso ar gyfer eu poblogaethau pysgod.

Dim ond 35% o afonydd y Deyrnas Unedig sy'n sicrhau Statws Ecolegol Da dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.⁵ Yng Ngwent Fwyaf, lle cafodd poblogaethau pysgod eu hasesu, cafodd 211km (21 adran) o gyrff dŵr o fewn ardal yr astudiaeth eu dosbarthu fel dim ond cymedrol neu wael, er y dylid nodi fod ansicrwydd am beth o'r data.¹⁹ Mae'r poblogaethau pysgod sy'n gostwng yn cynnwys Eog, Bawd y Melinydd, Brithyll (*S. trutta*), Llysywen Ewropeaidd (*Anguilla Anguilla*) a Gwrachen Farfog (*Barbatula barbatula*). Caiff poblogaethau pysgod eu bygwth gan golli cynefin addas, llygredd, rhwystrau i ymfudo a newid hinsawdd. Mae dwy ymddiriedolaeth afon o fewn ardal yr astudiaeth: Sefydliad y Gwy a'r Wysg ac Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru. Mae'r ddwy ymddiriedolaeth yn cynnal gwaith cadwraeth yn ymwneud â gwella cynefinoedd, dileu rhwystrau naturiol ac artiffisial a monitro ansawdd dŵr yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o werth ecosystemau afonydd.

Yn yr adran hon mae dau rywogaeth, un yn esgynnol – Eog yr Iwerydd ac un yn ddisgynnol – Llysywen Ewropeaidd. Dylid nodi fod llawer o'r problemau sy'n effeithio ar y rhywogaethau hyn yn debygol o effeithio ar rywogaethau eraill o bysgod yn yr ardal.



*Statws Pysgod afonydd
a chyrff dŵr trosiannol
(Cyfarwydddeb
Fframwaith Dŵr Cylch
2)¹⁹*



Llysywen Ewropeaidd *Anguilla anguilla* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Llyswennod (2009)

Statws cadwraeth: Mewn perygl critigol (Byd-eangl)⁶

Data ar gael: Cymedrol (1,079 cofnod)

Cyd-destun: Mae gan y Llysywen Ewropeaidd gylch bywyd cymhleth, gan ddechrau fel wyau ym Môr Saragasso. Mae Llif y Gwlff yn cario'r larfâu, neu *leptocephali*, ar draws yr Iwerydd tuag at Ewrop a Gogledd Affrica. Ar ôl 1-3 blynedd, pan maent yn cyrraedd dŵr mwy bâs, mae'r larfâu yn



metamorfffeiddio yn llyswennod bychain, sy'n cytrefu mewn dŵr arfordirol ac aberodd. Mae'r rhan fwyaf o llyswennod bychain yn ymfudo i'r mewnndir, yn y nos fel arfer, yn defnyddio llif llanw ac yn nofio ar i fyny i ddŵr croyw, er fod rhai'n aros yn yr aberoedd ac o amgylch yr arfordir. Dros y 10-15 mlynedd nesaf, mae llyswennod bach yn aeddfedu yn llyswennod ifanc a maes o law yn dod yn llyswennod grawn, mewn oed. Yn olaf, mae llyswennod grawn yn metamorfffeiddio yn llyswennod llyswennod ariannaidd, sy'n ymfudo'n ôl i Fôr Saragossa i silio. Mae union leoliad y safleoedd silio yn anhysbys, ac ni arsylwyd erioed ar ymddygiad silio.

Mae'r boblogaeth o Llyswennod Ewropeaidd wedi dangos dirywiad amlwg: roedd y llyswennod ariannaidd ym Môr y Gogledd yn 2020 yn 0.5% o gymharu â'r hyn oedd yn 1960-1979⁷. Roedd nifer y llyswennod grawn yn 2019 yn 17% yr hyn oedd yn 1960-1979⁷. Yn fwy lleol, mae llyswennod grawn yn Aber yr Hafren wedi gostwng gan 15% bob blwyddyn ers 1980 - amcangyfrifwyd fod y nifer yn 2009 yn 1% o lefelau 1980⁸ – un o'r gostyngiadau mwyaf yn y boblogaeth pysgod a adroddwyd erioed.

Mae pysgota masnachol am y llysywen fechan a hefyd y llysywen rawn. Arweiniodd y gostyngiad enfawr mewn niferoedd y llysywen at reoleiddiad gan yr Undeb Ewropeaidd ac wedyn at Reoliadau Llyswennod y Deyrnas Unedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu cynlluniau rheoli llyswennod ar lefel dalgylch a chyfyngu niferoedd y llysywen fechan a'r llysywen rawn a gaiff eu dal, yn ogystal â gwneud darpariaethau ar gyfer llwybrau llyswennod mewn argloddiau, coredau a strwythurau tebyg.

Mae'r adran hon yn cynnwys data sampla pysgod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â chofnodion gan SEWBRc, HBRC, GERC a NBN. Mae'r cofnodion ar gyfer y llysywen fechan, y llysywen ifanc a llyswennod llawn faint (y tybir eu bod yn cynnwys y llysywen rawn a hefyd y llysywen ariannaidd).


Rhagolygon: Ar hyn o bryd mae poblogaeth llyswennod yr Hafren yn methu cyrraedd ei thargedau gollyngiad.^{9,10} Fodd bynnag, mae anawsterau gyda'r targed, sy'n gorfod cael ei seilio ar allbwn damcaniaethol o ddaliad 'dihalog'. Mae pysgotfa helaeth o'r llysywen fach ledled yr Hafren – mae'r rhan fwyaf o weithgaredd ar yr Hafren yn Lloegr, er y bu pysgota tan eleni ar yr Afon Gwy, ac i raddau llai, yr Afon Wysg⁹. Penderfynodd Cyfoeth Naturiol Cymru gau pysgodfeydd llyswennod a llyswennod bychain yng Nghymru yn 2021 oherwydd pryderon parhaus am statws cyffredinol y stoc llyswennod yn ogystal ag ansicrwydd am iechyd poblogaethau lleol.

Mae Cynllun Rheoli Llyswennod yr Hafren yn dynodi colli cynefin, drwy rwystrau i ymfudo, fel 'pwysau mawr' ar boblogaethau'r llysywen Ewropeaidd. Dynodwyd dros 400 rhwystr i ymfudiad o fewn dalgylch yr Hafren, gyda 62 ar y Wysg a'r Gwy.⁹ Dynodir hefyd fod y fflapiau llanw sy'n rheoli


draeniad ar Wastadeddau Gwynt yn wael o ran hygyrchedd,⁹ gan olygu mai cymharol ychydig o lyswennod a all gyrraedd y ffosydd draenio, sy'n cynnig cynefin dda i lyswennod. Mae gwaith yn mynd rhagddo i dynnu neu addasu'r rhwystrau hyn, yn ogystal â gwella casglu data a monitro pysgodfeydd. Mae gwaith codi ymwybyddiaeth hefyd yn mynd rhagddo gydag Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru yn cynnal prosiect Llyswennod yn yr Ystafell Ddosbarth.¹¹

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae cofnodion ar gyfer y Llysywen Ewropeaidd ar gael ar draws Gwent Fwyaf ac ar yr holl brif afonydd. Mae prif ganolfannau yn gysylltiedig â gwaith samplo a chofnodi, yn arbennig gan y caiff samplo Cyfoeth Naturiol Cymru yn aml ei gynnal sawl gwaith yn yr un lleoliadau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gofnodion, yn arbennig o'r cymoedd dwyreiniol (Rhymni, Sirhywi ac Ebwy, yn hŷn, o cyn 2000. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion mwy diweddar yn dod o'r Afon Wysg a Gwastadeddau Gwent. Mae'r patrwm hwn yn cyfateb â'r dosbarthiad a ddangosir yng Nghynllun Rheoli Llyswennod yr Hafren.⁹ Mae diffyg annisgwyl o gofnodion o'r Afon Gwy; mae'n bosibl fod gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr gofnodion ychwanegol. Yn yr un modd, ychydig o gofnodion sydd o Aber yr Hafren, yn debyg oherwydd anawsterau samplo; daw'r rhan fwyaf o wybodaeth o'r Hafren o astudiaethau neilltuol neu fonitro'r sgriniau derbyn dŵr oeri yn Hinkley Point.⁸

*Dwysedd cofnodion y
Llysywen Ewropeaidd,
uchafswm 55 cofnod/km²
(prif afonydd¹² a ddangosir
er eglurder)*




*Cofnodion y Llysywen
Ewropeaidd yn ôl degawd
(prif afonydd¹² a ddangosir
er eglurder)*



Gwarchodaeth: Daw ychydig dan hanner (46%) y cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o SAC yr Afonydd Gwy a'r Wysg, SSSI Gwastadeddau Gwent ac Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) afonydd. Mae'n debyg y daw mwy o gofnodion o safleoedd a warchodir a maent tu allan i ffiniau cul safleoedd oherwydd canoli cyfeiriadau grid. Mae rhyw raddfa o warchodaeth gan y rhan fwyaf o'r prif afonydd yng Ngwent Fwyaf.

Cofnodion y Llysywen Ewropeaidd o safleoedd a warchodir



Eog yr Iwerydd *Salmo salar* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cynefinoedd (2017) Atodlen 4, Deddf Eogiaid (1986), gwahanol is-gyfreithiau.

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth S7 Cymru

Data ar gael: Cymedrol (611 cofnod)

Cyd-destun: Mae Eog yr Iwerydd yn rhywogaeth

pysgod eiconig, yn adnabyddus am eu neidiau rhyfeddol

wrth iddynt ymfudo o'r môr i'w mannau silio mewn dŵr croyw. Mae eogiaid yn ffyddlon i'r afon lle cawsant eu silio a byddant yn ymfudo miloedd o gilometrau i fridio. Mae eogiaid ifanc (a elwir yn silod mân ac wedyn yn bâr ar ôl y flwyddyn gyntaf) yn silio yn y gwanwyn a gallant aros mewn dŵr croyw am hyd at saith mlynedd. Byddant wedyn yn newid yn leisiaid, a all oroesi mewn dŵr heli, cyn symud i lawr yr afon. Maent yn treulio blwyddyn neu fwy yn y môr, cyn dychwelyd i'r afon i fridio.¹³

Mae Eog yr Iwerydd yn rhywogaeth pwysig yn ddiwylliannol ac yn economaidd, ond bu gostyngiad enfawr yn niferoedd eogiaid ers y 1980au, gan ostwng gan fwy na hanner dros gyfnod o 33 mlynedd.¹³ Mae hyn er y bu gostyngiad mewn esbloetiaid eogiaid yn dilyn creu parth mawr wedi ei warchod ymaith o bysgodfeydd wedi eu targedu yng ngogledd yr Iwerydd yn 1983. Ffurfiwyd Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO) ar yr un pryd.

Mae bygythiadau i boblogaethau Eog yr Iwerydd yn cynnwys dirywiad mewn cynefinoedd, llygredd, rhwystrau i ymfudiad a chlefydau (yn aml o eogiaid a gaiff eu ffermio). Mae newid hinsawdd hefyd yn bryder. Mae eogiaid yn sensitif i newidiadau mewn tymheredd dŵr, ac mae newidiadau hefyd yn effeithio ar ffynonellau eu hysglyfaeth ac amseriad ymfudiad. Yn lleol, caiff yr Afon Gwy a hefyd yr Afon Wysg eu dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer eu poblogaethau o Eogiaid yr Iwerydd. Mae gan y ddwy afon gynefin ansawdd uchel ar gyfer silio, gyda'r Afon Gwy yn hanesyddol yr afon fwyaf cynhyrchiol ar gyfer eogiaid yng Nghymru.^{3,4}

Rhagolygon: Mae poblogaethau y Deyrnas Unedig a Chymru yn dal i ostwng ar hyn o bryd.^{14,15} Mae pryderon ychwanegol fod gan y boblogaeth strwythur oedran abnormal.¹⁴ Mae'r boblogaeth yng Nghymru yn gostwng ar bob cam yn ei gylch bywyd, o gyfraddau isel dyddodiad wyau a nifer lai o eogiaid ifanc, i ostyngiad yn yr oedolion sy'n dychwelyd.¹⁵ Mae niferoedd yr eogiaid yn yr Wysg a'r Gwy yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'r ddwy ar lefelau isel iawn yn dilyn gostyngiad enfawr yn y boblogaeth yn 2018 (gweler isod). Amcangyfrifir fod dyddodiad wyau yn is na lefelau cadwraeth ar gyfer y ddwy afon, a rhagwelir ei bod yn debygol y bydd stoc mewn risg mewn pum mlynedd. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i ostwng, er fod peth ansicrwydd.^{16,17}


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Eog yr Iwerydd a'r Sewin (*Salmo trutta*)¹ sy'n canolbwyntio ar wella'r sylfaen tystiolaeth, rheoli esbloetiaid a gwella ansawdd dŵr a chynefin eogiaid. Mae partneriaid lleol yn cynnwys Cymdeithas Eogiaid y Gwy a Sefydliad Gwy a'r Wysg. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn adfer cynefinoedd a dileu rhwystrau ymfudiad: mae Sefydliad Gwy a'r Wysg yn amcangyfrif eu bod wedi adfer mynediad i dros 800km o'r Gwy a'r Wysg a'u his-afonydd (bydd peth o hyn tu allan i ardal yr astudiaeth).¹⁸




Andy Karran

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r rhan fwyaf o gofnodion Gwent Fwyaf wedi dod o'r Afon Wysg, gyda chanolfan gofnodi ar y Grwyne Fawr, is-afon i'r Wysg. Mae hefyd gofnodion diweddar ar hyd yr Afon Mynwy. Mae nifer lai o gofnodion hŷn o fewn y Cymoedd, a nifer annisgwyl o fach o gofnodion ar hyd yr Afon Gwy. Mae'n bosibl bod gan sefydliadau yn Lloegr gofnodion ychwanegol am yr Afon Gwy.



Dwysedd cofnodion Eog yr
Iwerydd, uchafswm 55
cofnod/km² (prif
afonydd¹²wedi eu
cynnwys er eglurdeb)



Cofnodion Eog yr Iwerydd yn ôl
degawd (dangosir prif afonydd
¹² er eglurdeb)




Tueddiadau poblogaeth: Mae daliadau a ddatganwyd a'r Daliad fesul Diwrnod Trwydded (CPLD) ar gael ar gyfer dalgychoedd yr Wysg a'r Gwy. Mae'r ddau yn dangos gwahaniaeth mawr rhwng blynyddoedd a gostyngiad enfawr yn 2018.^{16,17} Cyflwynwyd is-ddeddf i ryddhau'r holl eogiaid a ddaliwyd gyda gwialen ar y Gwy yn 2012, ac mae hyn yn awr mewn grym ar gyfer pob afon yng Nghymru.




Mae amcangyfrifon o ddyddodiadau wyau hefyd ar gael ar gyfer dalgylchoedd yr Wysg a'r Gwy. Mae'r rhain hefyd yn dangos y terfyn cadwraeth, sy'n anelu i ddiogelu lefel optimwm o stoc, h.y. y nifer o wyau sydd eu hangen bob blwyddyn er mwyn cadw stoc eogiaid ar gyfer y dyfodol. Mae amcangyfrifon dyddodiadau wyau ar gyfer y ddwy afon yn is na'u terfyn cadwraeth.

Amcangyfrifon yr Afon Wysg o ddyddodiadau wyau a chydymffurfiaeth gyda therfyn cadwraeth¹⁷




Amcangyfrifon yr Afon Gwy o ddyddodiadau wyau a chydymffurfiaeth gyda therfyn cydymffurfiaeth¹⁷



Gwarchodaeth: Mae ychydig dan hanner (43%) o'r cofnodion yn dod o safleoedd a warchodir gyda nifer uchel o gofnodion o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) yr Wysg a'r Gwy a'r afonydd a ddynodwyd fel Ardaloedd o Bwysigrwydd Arbennig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), tebyg i'r Afonydd Mynwy, Trothi, Ebwy, Sirhywi a Rhymni. Mae'r Afon Lwyd hefyd yn SINC gyda rhai cofnodion, ond mae'r dynodiad wedi ei ddangos fel llinell ar hyn o bryd, yn hytrach na pholygon, felly ni chaiff cofnodion eu dangos mewn chwiliad. Mae'n debygol bod y rhan fwyaf o gofnodion o fewn cyrsiau dŵr gyda rhywfaint o warchodaeth, gan y caiff y rhan fwyaf o'r prif gyrsiau dŵr eu dynodi fel SINC neu SSSI/SAC. Bydd rhai cofnodion yn dod tu allan i'r ardal ddynodedig oherwydd canoli cofnodion a chulni y safle a ddynodwyd.

Cofnodion Eog yr Iwerydd o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020. Cynllun Gweithredu ar gyfer Eogiaid a Sewin yng Nghymru – Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Salmonid. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
2. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2004. Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.
3. JNCC. Gwybodaeth Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg. <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0013007> (cyrchwyd 23/05/2019).
4. JNCC. Gwybodaeth Ardal Cadwraeth Arbennig Dyffryn Gwy. <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0012642> (cyrchwyd 23/05/2019).
5. Hayhow DB, Eaton MA, Stanbury AJ, Burns F, Kirby WB, Bailey N, Beckmann B, Bedford J, Boersch-Supan PH, Coomber F, Dennis EB, Dolman SJ, Dunn E, Hall J, Harrower C, Hatfield JH, Hawley J, Haysom K, Hughes J, Johns DG, Mathews F, McQuatters-Gollop A, Noble DG, Outhwaite CL, Pearce-Higgins JW, Pescott OL, Powney GD a Symes N. 2019. The State of Nature 2019. The State of Nature partnership.
6. Pike C, Crook V a Gollock M. 2020. *Anguilla anguilla*. The IUCN Red List of Threatened Species 2020: e.T60344A152845178. <https://dx.doi.org/10.2305/IUCN.UK.2020-2.RLTS.T60344A152845178.en>. (cyrchwyd 11/05/2021).
7. ICES. 2020. Cyd-weithgor EIFAAC/ICES/GFCM ar llysywennod (WGEEL). Adroddiadau gwyddonol ICES .2:85. <http://doi.org/10.17895/ices.pub.5982>.
8. Henderson PA, Plenty SJ, Newton LC and Bird DJ. 2011. Evidence for a Population Collapse of European Eel (*Anguilla Anguilla*) in the Bristol Channel. *Journal of the Marine Biological Association of the United Kingdom* 2012 92(4): 843–851. doi:10.1017/S002531541100124X.
9. DEFRA. 2010. Eel Management Plan for the Severn River Basin District. DEFRA, Llundain
10. DEFRA. 2015. Report to the European Commission in line with Article 9 of the Eel Regulation 1100/2007 – Implementation of UK Eel Management Plans. DEFRA, Llundain.
11. Llysywennod yn yr ystafell ddosbarth. SEWRT: <https://sewrt.org.uk/eels-in-the-classroom/> (cyrchwyd 31/05/21).
12. Data o Lle.gov.uk Data Set Prif Afonydd – yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordans. Rhif Trwydded Arolwg Ordans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.
13. NASCO. 2019. State of North Atlantic Salmon. NASCO, Caeredin.
14. JNCC. 2019. Article 17 Conservation Assessment for the Species S1106 Atlantic Salmon (*Salmo salar*) United Kingdom. JNCC, Peterborough.
15. JNCC. 2019. Article 17 Supporting Documentation for the Conservation Assessment for the Species S1106 Atlantic Salmon (*Salmo salar*) Wales. JNCC, Peterborough.
16. Cyfoeth Naturiol Cymru. 2019. Adnabod eich Afon – Crynodeb Dalgylch Eogiaid a Sewin Afon Wysg. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.
17. Cyfoeth Naturiol Cymru. 2019. Adnabod eich Afon – Crynodeb Dalgylch Eogiaid a Sewin Afon Gwy. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor
18. Access for Migrating Fish. Sefydliad Gwy a'r Wysg. <https://www.wyeuskfoundation.org/access> (accessed 28/05/21).
19. Data o Lle.gov.uk Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr Afonydd a Chyrff Dŵr Trosiannol Cylch 2. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordans. Rhif Trwydded Arolwg Ordans.

Gloënnod byw a gwyfynod

Mae 56 rhywogaeth o loënnod byw ym Mhrydain ac Iwerddon,¹ a dros 2,500 rhywogaeth o wyfynod,² sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r urdd lepidoptera (sy'n golygu adenydd cennog). Rhennir gwyfynod yn facro-wyfynod a micro-wyfynod, ac mae tua 900 rhywogaeth o facro-wyfynod.² Mae gloënnod byw a gwyfynod yn rhannu llawer o nodweddion tebyg, ac mae'r rhan fwyaf o gredoau am sut i wahaniaethu rhyngddynt yn ddi-sail; er enghraifft, mae llawer o wyfynod yn hedfan yn ystod y dydd.

Mae niferoedd a'r amrywiaeth o rywogaethau o lepidoptera yn ddangosydd defnyddiol i fioamrywiaeth. Yn wir, defnyddir y nifer o loënnod byw fel un o Ddangosyddion Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig.³ Mae hyn yn wir oherwydd bod gloënnod byw a gwyfynod yn sensitif iawn i newidiadau mewn defnydd tir a hinsawdd, ac oherwydd bod cymaint o rywogaethau eraill yn ddibynnol arnynt, fel peillwyr ac fel ysglyfaeth. Cysylltwyd argaeledd lindys â llwyddiant titw tomos las i fagu: roedd cywion mewn ardaloedd trefol yn cael llai o lindys ac yn gweld llai o lwyddiant o ran cael cywion o'r nyth.⁴

Mae gloënnod byw a gwyfynod wedi gweld dirywiad tymor hir, ac mae niferoedd gwyfynod mwy wedi gostwng o draean ers 1968.⁵ Mae'r dangosyddion gloënnod byw yn y Deyrnas Unedig ar gyfer rhai sy'n cadw i gynefinoedd penodol a chefn gwlad yn ehangach wedi gostwng o 45% a 25% yn eu tro ers canol yr 1970au.⁶ O'r rhywogaethau hynny lle gellid cyfrifo tuedd tymor hir, mae 41% o wyfynod⁵ a 57% o loënnod byw⁶ wedi gostwng o ran niferoedd. Mae achosion y dirywiad yn gymhleth ac yn dibynnu ar ei gilydd, ac maent yn cynnwys newidiadau mewn defnydd tir, llygredd a goleuadau artiffisial.⁵ Mae newid hinsawdd yn achosi i lawer o lepidoptera symud tua'r gogledd, er bod y mudo hwn yn cael ei gyfyngu gan argaeledd cynefin. Yn fwyaf pryderus, y rhywogaethau sydd eisoes yn gweld dirywiad sydd leiaf tebygol o allu symud tua'r gogledd neu adfer ar ôl digwyddiadau hinsoddol eithafol.⁶

Mae'n debyg mai'r lepidoptera yw'r grŵp o invertebratau sydd yn cael eu cofnodi orau. Yn genedlaethol, cofnodir gloënnod byw yn ddamweiniol a thrwy Gynllun Monitro Gloënnod Byw'r Deyrnas Unedig (UKBMS), sydd wedi bod yn rhedeg ers 1976 ac sydd yn awr yn cynnwys dros 3,000 o leoliadau ar draws y Deyrnas Unedig.⁷ Yn 2009 ychwanegodd Cadwraeth Gloënnod Byw'r Arolwg Gloënnod Byw Cefn Gwlad Ehangach (WCBS) at UKBMS, gan ddefnyddio sgwariau 1km wedi eu dewis ar hap (yn seiliedig ar fodel yr Arolwg Adar Bridio (BBS)), gan fod tuedd yn llawer o drawsluniau UKBMS tuag at safleoedd gyda phoblogaethau da o loënnod byw da a/neu rywogaethau prin. Mewn gwirionedd, mae llawer o syrfeyr BBS yn awr hefyd yn arolygu eu sgwariau am loënnod byw yn ogystal ag adar. Roedd 829 o sgwariau WCBS yn 2019, ond mae angen rhagor i allu monitro'n dda. Mae Cymru'n ardal blaenoriaeth uchel lle mae angen mwy o sgwariau.⁸ Y cynllun cofnodi cyffredinol ar gyfer gloënnod byw yw Gloënnod Byw'r Mileniwm Newydd (BNM). Mae hyn yn cynnwys cofnodion hanesyddol a chyfredol, gan gynnwys cylch pum mlynedd o gofnodi dosbarthiad gloënnod byw ar draws y Deyrnas Unedig.

Cofnodir gwyfynod trwy'r trapiau golau Rothampsted, rhwydwaith o 80 trap ar draws y Deyrnas Unedig (rhan o'r Arolwg Pryfed) sydd wedi bod yn casglu data ers 1964 i roi un o'r setiau data pryfed tymor hir mwyaf cynhwysfawr yn y byd.⁹ Ychwanegiad mwy diweddar at y data gwyfynod cenedlaethol yw'r Cynllun Cofnodi Gwyfynod Cenedlaethol (NMRS), a gychwynnwyd yn 2007. Mae hwn yn gasgliad parhaus o gofnodion cyfredol a rhai hanesyddol, fel BNM, yn hytrach nag arolwg

wedi ei safoni.


Mae'r Rhestr Sirol ar gyfer VC35 (Gwent) yn nodi 50 glöyn byw, 589 macro-wyfyn a 855 micro-wyfyn.¹⁰ Sefydlwyd Grŵp Gwyfynod a Gloŷnnod Byw Sir Fynwy (MMBG) yn 1999 (yn wreiddiol fel Grŵp Cofnodi Gwyfynod Casnewydd) ac mae'n dal yn weithredol¹¹; mae'n cyhoeddi cylchlythyr cyson, *The Silurian*. Mae'r cofnodi ar ei uchaf yn Sir Fynwy, ond mae gan Gasnewydd hefyd nifer uchel o gofnodion, yn arbennig o ystyried ei maint a'r ardaloedd mawr o gynefin trefol. Mae'r cofnodi yn is yng ngogledd a gorllewin Gwent, o bosibl oherwydd anawsterau cofnodi yn yr ucheldir.

*Dosbarthiad cofnodion yn ôl awdurdod lleol (hyd fis Rhagfyr 2020)*¹²

Awdurdod unedol	Cofnodion gloŷnnod byw	Rhywogaeth	Cofnodion macro-wyfynod	Rhywogaeth
Gwent	55,148	50	223,016	589
Blaenau Gwent	3,025	32	10,332	384
Caerffili (VC35 yn unig)	6,945	33	30,575	485
Sir Fynwy	28,169	49	108,396	579
Casnewydd	10,974	37	61,169	490
Torfaen	7,394	41	510,743	405

Yn ardal yr astudiaeth, mae 36 o leoliadau UKBMS, gyda setiau data yn amrywio o 1 i 10 mlynedd, 14 (39%) ohonynt wedi eu cofnodi yn 2018, y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael. Ar safleoedd UKBMS yn ardal yr astudiaeth, cofnodwyd 47 rhywogaeth o löyn byw a gwyfyn; mae'r cofnodion yn amrywio o dros 600 cofnod ar gyfer Gweirloŷn Brych (*Parage aegeria*) i un cofnod o Lwydfelyn Gwelw (*Colias hyale*), Teigr Ôl-adain goch (*Callimorpha dominula*), Rhesen Lydan Dywyll (*Scotopteryx chenopodiata*) a Brychan Arian (*Xanthorhoe montanata*).¹³

*Lleoliadau BMS y DU
yn yr ardal astudio,
maint yng nghyswllt y
nifer o flynyddoedd o
ddata (1 i 10
mlynedd)¹³*



Coediwr *Adscita statices* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP,
Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (39 cofnod)

Cyd-destun: Nid oes cysylltiad penodol rhwng y Coediwr â choetir, sy'n ddryslyd braidd. Daw ei enw o liw gwyrdd y gwyfyn, sy'n debyg i'r lliw 'Lincoln Green' sy'n cael ei wisgo'n draddodiadol gan goedwigwyr. Ceir hyd i'r gwyfyn hwn sy'n hedfan yn ystod y dydd yn bennaf ar laswelltir, yn ogystal â llennyrch mewn coetir, lle mae'r larfae yn bwyta

suran y cŵn (*Rumex acetosa*) neu suran yr ŷd (*R. acetosella*).¹⁴ Ychwanegwyd y Coediwr at restr Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP yn 2007 oherwydd y dirywiad amlwg mewn niferoedd ar draws y Deyrnas Unedig. Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall ecoleg y Coediwr a sefydlu'r dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.¹⁵


Rhagolygon: Nid yw'n glir beth sy'n digwydd i boblogaethau Coediwr, yng Ngwent Fwyaf ac ar lefel y Deyrnas Unedig. Rhaid tybio bod y duedd wnaeth arwain at eu dyrannu yn rhywogaeth blaenoriaeth yn parhau. Efallai y daw gwybodaeth newydd o'r Cynllun Cofnodi Gwyfynod Cenedlaethol newydd,¹⁶ a lansiwyd yn 2007.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Nid oes ond ychydig, o gofnodion gwasgaredig iawn o'r Coediwr ar draws Gwent Fwyaf. Daw bron i chwarter y cofnodion o Warchodfa Natur Leol Flatwood Meadow, sy'n ymddangos fel pe baent oherwydd arolygon penodol gan un cofnodwr. Mae'n ymddangos hefyd bod gan Gaerwent boblogaeth sefydledig, er nad yw wedi ei chofnodi cystal. Er bod Flatwood Meadow yn adnabyddus am ei lepidoptera,¹⁷ mae llawer o enghreifftiau eraill o'r math hwn o laswelltir (gweirgloddiau gwair llawn rhywogaethau) ar draws Gwent Fwyaf, gan awgrymu bod y rhywogaeth hon heb ei chofnodi'n ddigonol. Awgrymir bod y Coediwr yn sensitif i uchder y glaswellt, a'i fod yn symud rhwng safleoedd lleol yn ôl hynny, gan eu gwneud yn anodd eu cofnodi.¹⁸




Andy Karran

Dwysedd y cofnodion Coediwr,
(uchafswm o 9 cofnod/km²)




Cofnodion Coediwr yn ôl degawd



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu tuedd ranbarthol ar gyfer y coedwigwr.

Gwarchodaeth: Daw 26% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion gwasgaredig o SINC fel Greenmeadow Farm ym Mlaenau Gwent a Chaeau Ty Sign yng Nghaerffili. Nid yw'r cofnodion o Ddolydd y Tir Gwastad yn ymddangos o fewn terfynau'r LNS gan bod y cofnodion yn cael eu canoli.

Cofnodion coedwigwr o safleoedd a warchodir



Du Smotiau Gwyn *Anania funebris* (Ström, 1768)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Llyfr Data Coch (RDB) Prin yn Genedlaethol,¹⁹ Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (11 cofnod)

Cyd-destun: Gwyfyn sy'n hedfan yn ystod y dydd yw'r Du Smotiau Gwyn a welir mewn llennyrch a glaswelltir gwyllt, yn arbennig ar galchfaen. Mae'n ddibynnol ar yr Eurwialen (*Solidago* sp.) ac yn achlysurol ar Felynog y Waun (*Genista tinctoria*).¹⁹ Mae gan y Du Smotiau Gwyn ddosbarthiad cyfyngedig a lleol iawn ar draws y Deyrnas Unedig, wedi ei gyfyngu i rannu o dde ddwyrain Lloegr, Bae Morecambe, Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw, ac o gwmpas arfordir Cymru. Ychydig iawn o gofnodion sydd ar gael ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd: dim ond 257 cofnod yn yr Atlas NBN.²⁰




Martin Anthoney

Rhagolygon: Mae'n anodd pennu tueddiadau ar gyfer rhywogaethau prin, er y credir bod y Du Smotiau Gwyn yn dirywio efallai, oherwydd y cynnydd mewn cysgod mewn coetir gan arwain at lai o'r planhigion y maent yn ddibynnol arnyn nhw.¹⁹ Yn gyffredinol, mae'r poblogaethau lleol o rywogaethau sy'n brin â'u dosbarthiad yn gyfyng yn fwy agored i ddifodiant.²¹


Os yw'r rhywogaeth yn parhau yng Ngwent Fwyaf, gall fod yn rhy hwyr yn barod i gynnal y boblogaeth. Gallai'r ymyraethau i gynnal y Du Smotiau Gwyn gynnwys rheoli coetir a glaswelltir i annog y planhigion bwyd, yn ogystal â mwy o ymdrech i arolygu.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ni fu'r Du Smotiau Gwyn erioed yn gyffredin yng Ngwent Fwyaf, a dim ond ar ychydig o safleoedd y mae wedi ei ganfod: Coed Lasgarn, Llethrau Victoria, Glaswelltir Penllwyn, Coed Gwent, Coed Slade ac yn agos at Dyndyrn. Cofnodion unigol yw'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn. Dyma un o'r ychydig o rywogaethau lle mae mwy o gofnodion hanesyddol (cyn 1970) na rhai diweddar. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion (tri) yn dod o'r ardal o gwmpas Glaswelltir Penllwyn, lle'r oedd cytref barhaol hyd ganol yr 1990au. Credir bod y datblygu cynyddol o gwmpas y safle wedi arwain at golli'r boblogaeth. Daw'r cofnod SEWBRcC diweddaraf, yn 1998, o Goed Lasgarn, ond mae rhagor o gofnodion o Laswelltir Aberbargoed (2013 a 2014) nad ydynt ar gronfa ddata SEWBRcC eto.¹⁸ Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gofnodion diweddar.

Dwysedd y cofnodion Du
Smotiau Gwyn, (uchafswm
o 3 cofnod/km²)




Cofnodion Du Smotiau Gwyn
yn ôl degawd



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu tuedd leol ar gyfer Du Smotiau Gwyn.

Gwarchodaeth: Daw 30% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion SINC Coed Lasgarn a Theras Victoria. Mae'n debygol bod tri chofnod pellach o SSSI Glaswelltir Penllwyn ond maent tu hwnt i'r ffiniau oherwydd bod cofnodion wedi eu canoli.

Cofnodion Du Smotiau Gwyn o safleoedd a warchodir




Britheg Berlog Fach *Boloria selene* (Denis & Schiffermüller, 1775)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Dan beth bygythiad (DU),²²
Rhywogaeth UKBAP, Rhywogaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Cymedrol (489 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Fritheg Berlog Fach wedi gweld dirywiad tymor hir difrifol. Collodd 76% o'i chwmpas a 58% o'i niferoedd ers 1976⁶ ac mae'n agos at gael ei ddsbarthu yn Fregus.²²



Andy Karran


Gwelir y Fritheg Berlog Fach mewn amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys glaswelltir a rhostir, a chynefinoedd mosaig o laswelltir, rhedyn a phrysgrlwyni.²³ Maent yn sensitif i newidiadau yn eu rheolaeth, gan y gall diffyg rheolaeth a gor-bori achosi iddynt golli eu planhigion bwyd, y Fioled Gyffredin (*Viola riviniana*) a Fioled y Gors (*V. palustris*).²⁴

Rhagolygon: Bu'r dirywiad yn y Fritheg Berlog Fach yn fwy difrifol yn Lloegr, sy'n golygu bod Cymru, ynghyd â'r Alban a gorllewin Lloegr, yn awr yn gadarnle i'r rhywogaeth. Fodd bynnag nid oes gennym duedd ddibynadwy i'r boblogaeth yng Nghymru. Ar nodyn cadarnhaol, dangoswyd bod y Fritheg Berlog Fach wedi ymateb yn dda i gadwraeth ar raddfa tirwedd, fel gwelliannau i reoli safle, adfer safle a phlannu'r planhigion sy'n fwyd i larfa.²⁴ Er nad yw statws poblogaeth Gwent Fwyaf yn glir, mae ei phresenoldeb ar safleoedd sydd eisoes yn cael eu rheoli ar gyfer bioamrywiaeth yn gysur.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir y Fritheg Berlog Fach yn bennaf yng ngogledd a gorllewin Gwent Fwyaf, ar gyrion yr ucheldir (ffriddoedd) a safleoedd glaswelltir. Mae prif ganolfannau'r cofnodion yng Nghwm Tawel a'r Graig Ddu, sydd ill dau yn safleoedd UKBMS, yn ogystal â Glaswelltir Aberbargoed a Blaenserchan.

Er bod ychydig o gofnodion ar hyd ffin Lloegr, hanesyddol yw'r rheiny yn bennaf, gyda bron y cyfan o'r cofnodion diweddar yn dod o Flaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen. Dynoda hyn eu bod yn cilio o'r safleoedd iseldir i fannau uwch: mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion Britheg Berlog Fach diweddar dros 300m. Awgrymir y gallai hyn fod oherwydd yr hinsawdd, gan fod y rhan fwyaf o'r safleoedd isel yn parhau mewn cyflwr da.¹⁸

*Dwysedd cofnodion Britheg
Berlog Fach (dwysedd
uchaf 87 cofnod/km²)*




*Cofnodion Britheg Berlog
Fach yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Cofnodwyd y Britheg Berlog Fach ar ddau leoliad UKBMS yng Ngwent Fwyaf: Craig Ddu a Chwm Tawel.¹³ Dangosir y cyfrif uchaf ar gyfer pob blwyddyn isod, ond nid yw'r cyfnod cofnodi'n ddigon hir i bennu tuedd, ac nid yw'r ddau safle yn gynrychioliadol o Went Fwyaf i gyd. Ar y gorau, mae hyn yn dangos amrywiad o flwyddyn i flwyddyn sy'n nodweddiadol o lawer o loynnod byw a gwyfynod, wrth i amodau'r hinsawdd ddylanwadu ar ddeinameg poblogaeth.

Mae mynegeion wedi eu casglu o UKBMS ar gael ar gyfer Britheg Berlog Fach yn y Deyrnas Unedig a Chymru.²⁵ Mae'r rhain yn fesur cymharol o niferoedd y boblogaeth. Sylwer bod y set ddata ar gyfer Cymru yn seiliedig ar gyfartaledd o 11.3 safle yn unig yn dychwelyd data yn flynyddol (cyfartaledd y Deyrnas Unedig yn 106.9), felly mae'n annhebygol o fod yn ddibynadwy yn ystadegol.

Cyfrif uchaf o Fritheg Berlog Fach yng Nghwm Tawel a Craig Ddu¹³




Mynegeion wedi eu casglu ar gyfer Britheg Berlog Fach yn y Deyrnas Unedig a Chymru.²⁵



Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 75% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o SAC Glaswelltir Aberbargoed, SSSI/LNR Cwm Tawel, yn ogystal â LNR Caeau Cwmllydrew a SINC fel Blaenserchan a Garn yr Erw.

Cofnodion britheg berlog fach o safleoedd a warchodir



Glesyn Bach *Cupido minimus* (Fuessly, 1775)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Dan Beth Bygythiad (DU),²²
Rhywogaeth UKBAP, Rhywogaeth Adran 7 Cymru.

Data ar gael: Gwael (16 cofnod)

Cyd-destun: Ceir hyd i löyn byw preswyl lleiaf y Deyrnas Unedig, y Glesyn Bach, ar laswelltir calch ac arfordirol, yn bennaf yn ne Lloegr. Ei unig blanhigyn bwyd yw plucen felen (*Anthyllis vulneraria*), ac weithiau mae'n ffurfio perthynas symbiotig â morgrug.²⁶ Collodd y Glesyn Bach 44% o'i gwmpas ers 1976, a 27% o'i niferoedd yn y cyfnod 2005 i 2014.⁶ Yng Nghymru, mae ei ddosbarthiad wedi ei gyfyngu i raddau helaeth i'r arfordir deheuol.




Andy Karran


Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig yn parhau i ddirywio, er bod y rhywogaeth yn ymateb i ymdrechion cadwraethol, fel rheoli safle a phlannu Plucen Felen, a gall ymsefydlu mewn safleoedd newydd yn gyflym.²⁷ Gall y prosiect Peillio'r Gwastadeddau²⁸ (rhan o'r cynllun Gwastadeddau Byw) ar Wastadeddau Gwent fod yn fuddiol i'r Glesyn Bach.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Prin iawn yw'r cofnodion ar gyfer Glesyn Bach ar draws ardal yr astudiaeth. Mae'n debygol bod y rhan fwyaf yn wallus neu yn unigolion ar wasgar yn hytrach na bod yn arwydd o boblogaeth sefydlog, yn arbennig gan nad yw rhai'n cyfateb i'r cynefin nodweddiadol. Mae'r planhigyn bwyd, Plucen Felen hefyd yn brin yn ardal yr astudiaeth. Y cofnodion diweddar ar hyd yr arfordir sydd fwyaf tebygol o fod yn gywir ond, o ystyried yr ymdrech fawr gan gofnodwyr ar Wastadeddau Gwent, mae'r ffaith bod cyn lleied o gofnodion yn dangos nad yw'r rhywogaeth yn magu yng Ngwent Fwyaf efallai.

*Dwyseddy cofnodion Glesyn
Bach, (uchafswm o 2
gofnod/km²)*




Cofnodion Glesyn Bach yn ôl degawd




Tueddiadau poblogaeth: Ni chofnodwyd Glesyn Bach ar unrhyw safleoedd UKBMS yn ardal yr astudiaeth. Dangosir y mynegai a luniwyd ar gyfer y Deyrnas Unedig isod; ni chofnodwyd y Glesyn Bach o ddigon o safleoedd yng Nghymru i gynhyrchu mynegai.

Mynegai wedi ei gasglu UKBMS ar gyfer Glesyn Bach, ar draws y Deyrnas Unedig²⁵



Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 37% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Aber Hafren, NNR Gwlyptir Casnewydd a SSSI Gwastadeddau Gwent. Mae'r cofnodion ar Aber Hafren yn debygol o fod oherwydd bod y cofnodion ar hyd wal y môr wedi eu canoli. Daw'r rhan fwyaf o'r cofnodion diweddar o safleoedd a ddiogelir ar hyd yr arfordir.

Cofnodion Glesyn Bach o safleoedd a warchodir



Gwyfyn Gwent *Eriopygodes imbecilla* (Fabricius, 1974)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: BREGUS (Categori 2 Llyfr Data Coch),²⁹ Rhywogaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Cymedrol (266 cofnod)

Cyd-destun: Darganfuwyd gwyfyn Gwent yng Nghymru am y tro cyntaf yn 1972 gan Dr Neil Horton, a wnaeth ei enwi ar ôl llwyth y Silwriaid oedd yn byw yn yr ardal 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Bu'n rhaid aros 33 mlynedd i ddod o hyd i'r larfa, gan gadarnhau'r ardal fagu.³⁰ Darganfuwyd

ail boblogaeth ar Hatterall Ridge yn 2005, sef y cofnod cyntaf yn Lloegr ar gyfer y rhywogaeth.³¹ Hyd yn hyn, mae pedair poblogaeth hysbys, tair ohonynt yn ardal yr astudiaeth.³²



Martin Anthoney


Ychydig sy'n hysbys am ecoleg Gwyfyn Gwent. Hyd yn hyn cafwyd hyd i boblogaethau yn uchel, o leiaf 450 medr uwch lefel y môr, gyda larfa yn bwyta llus, ac weithiau briwydden wen.³² Credir bod presenoldeb mwsogl dwfn yn bwysig.³¹ Yn anaml iawn y daw'r rhai benyw i'r golwg, a gall y rhai gwryw deithio sawl kilometr o feysydd magu, gan ei gwneud yn anodd dod o hyd i ardaloedd magu.³² Mae'r ymdrechion i gofnodi hefyd yn cael eu gwneud yn anodd gan broblemau mynediad, a'r ffaith bod yr oedolion fel arfer yn hedfan yn hwyr iawn yn y nos (rhwng 1 a 3am), er y gall y rhai gwryw gael eu gweld yn casglu neithdar yn ystod y dydd.³³ Mae'r larfa hefyd yn rhai'r nos, sy'n golygu mai dim ond i'r cofnodwyr mwyaf ymroddedig y mae arolygon Gwyfyn Gwent.

Rhagolygon: Ar hyn o bryd mae poblogaeth y Deyrnas Unedig wedi ei chyfyngu i Went Fwyaf a ffin Swydd Henffordd. Nid yw maint y boblogaeth nac unrhyw duedd yn hysbys, er bod Cadwraeth Gloŷnnod Byw a Grŵp Gwyfynod a Gloŷnnod Byw Sir Fynwy (MMBG) yn monitro'r poblogaethau hysbys. Credir y gallai Gwyfyn Gwent fod yn fregus oherwydd llosgi grug a thanau gwyllt, ac mae hyn yn bryder penodol o ran poblogaeth Blorens.³² Elfen arall anhysbys yw pa mor dda y gallai'r rhywogaeth ymateb i ymdrechion cadwraeth, a pha mor rhwydd y mae'n sefydlu cytref (neu ail-sefydlu) mewn ardaloedd newydd.³²


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir gwyfyn Gwent yn ucheldir Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy. Mae'r prif ganolbwynt o ran cofnodi ar Fynydd Coety/ Blaentyleri, lle darganfuwyd y rhywogaeth am y tro cyntaf, gyda phoblogaethau ar wahân yn Hatterall Ridge ar ffin Swydd Henffordd ac ar y Blorens. Mae'r bedwaredd boblogaeth ychydig y tu allan i ardal yr astudiaeth yn Darren Lwyd.³² Mae gan y poblogaethau i gyd gofnodion diweddar yn y degawd diwethaf.

Mae Cadwraeth Gloŷnnod Byw a MMBG wedi arolygu safleoedd tebygol eraill ar uchder tebyg a gyda chynefin tebyg, yn ardal yr astudiaeth ac i'r gogledd, ond hyd yn hyn nid ydynt wedi dod o hyd i boblogaethau eraill.³²

Dwyster cofnodion Gwyfyn
Gwent, (uchafswm 113
cofnod/km²)




Cofnodion Gwyfyn Gwent
yn ôl degawd



Gwarchodaeth: Daw bron y cyfan (96%) o gofnodion Gwyfyn Gwent o safleoedd a warchodir: mae'r poblogaethau ar Hatterall Ridge a'r Blorens yn SSSI y Mynydd Du a'r Blorens, ac mae poblogaeth Mynydd Coety yn safle SINCMawr Mulfran, Mynydd Coety, Mynydd James a Gwastad. Mae'r nifer fechan o gofnodion o'r tu allan i'r safleoedd yma yn bennaf yn gofnodion unigol, sy'n debygol o fod yn wallau neu yn unigolion sy'n symud.

Cofnodion gwyfyn Gwent o safleoedd a warchodir



Gwibiwr Llwyd *Erynnis tages* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhywogaeth UK BAP, Rhywogaethau Adran 7 Deddf Amgylchedd (Cymru), Rhestr Goch: BREGUS²²

Data ar gael: Cymedrol (580 cofnod)

Cyd-destun: Glöyn byw bach brown brith yw'r Gwibiwr Llwyd, a welir mewn amrywiaeth mawr o gynefinoedd, fel gweundir, cyrion coetir a safleoedd tir llwyd. Ei brif blanhigyn bwyd yw Pysen-y-ceirw, ond mae angen gwndwn darniog, yn aml â darnau moel o dir ac amrywiaeth yn uchder y llystyfiant hefyd.³⁴



Martin Anthoney


Dioddefodd y Gwibiwr Llwyd ddirywiad dramatig o dros 60% ers yr 1970au, er bod arwyddion diweddar bod y boblogaeth a'i gwmpas yn ehangu o 2005 i 2014.⁶ Mae'n debygol mai yn araf y bydd yn adfer, gan fod y Gwibiwr Llwyd fel arfer yn digwydd mewn cytreffi bychan o hyd at 50 o unigolion ac maent yn wael am wasgaru, sy'n cyfyngu eu gallu i lunio cytref mewn safleoedd newydd.³⁴

Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae arwyddion bod poblogaethau Gwibiwr Llwyd yn adfer, ond maent yn parhau dan fygythiad oherwydd datblygu, safleoedd tir llwyd yn neilltuoel, a rheolaeth amhrifodol. Nid yw'n bosibl pennu tuedd ar gyfer y Gwibiwr Llwyd yng Ngwent Fwyaf, ond mae'n debygol mai'r poblogaethau ynysig sy'n weddill yn Sir Fynwy sydd fwyaf bregus. Dywed Anthoney³⁵ bod y Gwibiwr Llwyd yn lledaenu ar draws safleoedd ôl-ddiwydiannol yn y Cymoedd ac o gwmpas Caerwent ond eu bod yn fregus gan fod olyniaeth naturiol yn arwain at golli eu planhigyn bwyd, a bod y safleoedd ar ddolydd yn y dwyrain yn 'lleihau'n gyflym'.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir y Gwibiwr Llwyd ar draws ardaloedd ucheldir Gwent Fwyaf, gyda phoblogaethau ynysig yn ne a gorllewin Sir Fynwy. Nid oes unrhyw gofnodion o Gasnewydd a chanol Sir Fynwy, er ei bod yn debygol bod cynefinoedd addas, fel safleoedd tir llwyd trefol.

Daw nifer fawr o'r cofnodion o Craig Ddu (safle UKBMS), SAC/NNR Glaswelltir Aberbargoed, yn ogystal â Blaenserchan, Caerwent a Chwarel Cymynyscoi. Mae gan y rhan fwyaf o safleoedd gofnodion diweddar, ac eithrio'r safleoedd yng ngorllewin Sir Fynwy, sydd â dim ond cofnodion hanesyddol.

*Dwysedd cofnodion
Gwibiwr Llwyd
(dwysedd uchaf 97
cofnod/km²)*




*Cofnodion Gwibiwr
Llwyd yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Nid yw'r Gwibiwr Llwyd yn cael sylw da iawn gan UKBMS yn ardal yr astudiaeth, gan mai dim ond mewn pedwar safle UKBMS y maent wedi eu cofnodi, dau o'r rheiny yn Lloegr.¹³ Mae'r niferoedd a gofnodwyd yn Craig Ddu yn ymddangos yn gadarnhaol, gydag uchafswm o 15 unigolyn yn 2017, ond nid oes digon o ddata i gynhyrchu tuedd leol.¹³ Cyflwynir y duedd UKBMS isod, ar sail cyfartaledd o 213 o safleoedd yn y Deyrnas Unedig a 15 o safleoedd yng Nghymru yn dychwelyd cofnodion yn flynyddol.

Mynegeion wedi eu casglu ar gyfer Gwibiwr Llwyd yn y Deyrnas Unedig a Chymru²⁵



Gwarchodaeth: Daw ychydig dan 61% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o SAC a NNR Glaswelltir Aberbargoed, SSSI/LNR Cwm Tawel, yn ogystal â LNC/SINC Chwarel Cymynyscoi, yn ogystal â chofnodion gwasgaredig ar draws SINC yr ucheldir yng ngorllewin Gwent. Sylwer bod nifer fawr o gofnodion SAChefyd yn dod o Craig Ddu, gan fod hwn yn SAC Ystlumod Brynbuga.

Cofnodion Gwibiwr Llwyd o safleoedd a warchodir



Britheg y Gors *Euphydryas aurunia* (Rottemburg,1775)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017, fel y'i diwygiwyd) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: BREGUS (DU),²² Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru.

Data ar gael: Cymedrol (257 cofnod)

Cyd-destun: Gwelir Britheg y Gors mewn cynefinoedd

glaswelltir corsïog, lle maent yn bwyta Tamaid y Cythraul (*Succisa pratensis*). Mae eu poblogaethau yn amrywiol iawn ac yn gweithredu fel meta-boblogaethau sydd angen rhwydweithiau cynefin eang i'w cynnal.³⁶ Mae'r boblogaeth wedi gweld dirywiad sylweddol o 79% rhwng 1976 a 2014,⁶ ac yn awr dim ond yn rhan orllewinol y Deyrnas Unedig y maent i'w gweld. Cawsant eu rhestru fel Rhywogaeth o Ddiddordeb Cymunedol yng Nghyfarwydddeb Cynefinoedd Ewrop (Atodiad II, 1992), sy'n golygu y gall Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) gael eu dynodi i hyrwyddo eu cadwraeth. Mae 26 SAC Britheg y Gors (lle mae Britheg y Gors yn brif reswm am y dynodiad) yn y Deyrnas Unedig, 9 o'r rheiny yng Nghymru.³⁷



Andy Karran

Rhagolygon: Y duedd tymor byr yn y Deyrnas Unedig (2005–2014) ar gyfer Britheg y Gors oedd dirywiad o ran digwyddiadau (22%) a niferoedd (64%).⁶ Er bod yr adroddiad Erthygl 17 diweddaraf ar gyfer y Deyrnas Unedig yn nodi bod y cwmpas a'r boblogaeth mewn cyflwr Ffafirol, roedd y cynefin, rhagolygon at y dyfodol a'r asesiad cyffredinol yn Anffafirol.³⁸ Yng Nghymru, dangosodd y boblogaeth ddirywiad tymor hir³⁹ (gweler isod), gyda'r rhan fwyaf o SAC a SSSI sy'n cynnal y rhywogaeth mewn cyflwr Anffafirol.⁴⁰


Yng Ngwent Fwyaf, dangosodd asesiad diweddar o dirwedd SAC Glaswelltir Aberbargoed ddirywiad dramatig yng nghyflwr y cynefin a'i faint rhwng 2004 a 2017 a bod y poblogaethau yn cael eu hystyried 'dan fygythiad uniongyrchol o ddifodiant'.⁴⁰

Caiff y rhywogaeth ei monitro yn ofalus ar draws Cymru, ac mae safleoedd newydd yn dal i gael eu canfod,³⁹ gan ddangos y gall y rhywogaeth lunio cytref mewn safleoedd newydd gyda chynefin addas mewn cyflwr ffafirol. Maent wedi cael eu hail-gyflwyno i safleoedd yn Lloegr, a bwriedir eu hail-gyflwyno ar Gomin Llantrisant yng Nghymru.⁴¹ Mae'n amlwg nad yw dull ar sail safle yn ddigon i atal y dirywiad yn y rhywogaeth; mae cynlluniau sy'n gweithio ar raddfa tirwedd ac ymgysylltu â pherchenogion tir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi bod yn llwyddiannus yn Lloegr a'r Alban.⁴²


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir Britheg y Gors yng nghanol Caerffili, o gwmpas SAC/NNR Glaswelltir Aberbargoed. Dyma'r boblogaeth fwyaf dwyreiniol yng Nghymru. Mae dwy boblogaeth arall – ar SSSI Glaswelltir Penllwyn a Phenalltau – a rhai cofnodion unigol. Sylwer bod gan rai cofnodion gyfri mor uchel â 407 oedolyn neu dros 1,000 o we larfa, felly nid yw nifer y cofnodion o angenrheidrwydd yn adlewyrchu niferoedd.

Nid oes cofnodion o fritheg y gors ar Laswelltir Penllwyn ers 1999, er bod naw oedolyn wedi cael eu gweld ar safle i'r de o'r SSSI yn 2010. Nid oes cofnodion wedi bod ym Mhenalltau ers 2001.

Dwysedd cofnodion
 Britheg y Gors (uchafswm
 131 cofnod/km²)





Cofnodion Britheg y Gors
 yn ôl degawd



Tueddiadau poblogaeth: Mae Britheg y Gors yn cael ei monitro trwy gyfrif gwe larfa yn hytrach na chyfri oedolion. Nid oes trawslun UKBMS yn Aberbargoed, ond mae cyfrif gwe larfa yn digwydd fel rhan o fonitro'r SAC a Rhaglen Gwyllo Britheg y Gors Cymru.³⁹ Mae'r boblogaeth yn Aberbargoed yn dilyn y patrwm nodweddiadol o chwim dwf a chwalfa Britheg y Gors, ond mae tuedd at ddirywiad araf. Diffinnir cyflwr ffafriol i'r safle yn ôl llwyddo i gael 100 gwe i bob ha o gynefin addas, am o leiaf un o bob chwe blynedd, ond mae hyn yn seiliedig ar darged generig, yn hytrach na gwybodaeth benodol i safle.⁴³ Sylwer bod y cyfrif yn 2020 yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau coronafeirws, felly efallai nad ydynt yn gynrychioliadol.

Mae'r cyfrif gwe larfa cyfun ar gyfer Cymru (ar sail 23 o boblogaethau craidd yng Nghymru) yn dilyn patrwm tebyg, gydag adferiad bychan o 2009 i 2014, ond maent yn dangos dirywiad cyffredinol o 43% mewn 25 mlynedd.³⁹ Mae tueddiadau'r Deyrnas Unedig a Chymru yn deillio o drawslluniau UKBMS ac yn dilyn patrwm tebyg.²¹






Tuedd gwe larfa ar
gyfer Cymru 1993–
2018
yn dangos allbwn
TRIM a TrendSpotter³⁹

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros hanner (53%) o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda'r nifer uchaf o'r cofnodion safle o SAC/NNR Glaswelltir Aberbargoed. Mae'r safleoedd eraill a warchodir yn cynnwys SSSI Glaswelltir Penllwyn a SINC Coed Penallta a Waun Rydd. Sylwer y bydd rhai cofnodion yn dod o'r tu allan i'r safleoedd a warchodir oherwydd canoli cofnodion, ond mae llawer yn yr ardaloedd o gwmpas y prif safleoedd, gan ddangos yr angen i reoli'r rhwydwaith cynefin yn yr ardaloedd cyfagos. Nid yw safle'r boblogaeth ym Mhenalltau wedi ei warchod.

Cofnodion Britheg y Gors o safleoedd a warchodir



Gweirloŷn Llwyd *Hipparchia semele* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth UK BAP, Rhywogaethau Adran 7 Deddf Amgylchedd (Cymru)

Rhestr Goch: BREGUS²²

Data ar gael: Cymedrol (335 cofnod)

Cyd-destun: Rhywogaeth cryptig iawn, gwelir y Gweirloŷn Llwyd mewn cynefinoedd agored â thir moel, fel ardaloedd arfordirol, rhostir isel, a safleoedd tir llwyd fel chwareli. Yng Ngwent Fwyaf, fe'u gwelir yn aml ar safleoedd tomenni glo. Eu prif blanhigion bwyd yw glaswellt, gan gynnwys Peiswellt y Defaid, Peiswellt Talsyth, Maeswellt Gwrychog a Brigwellt y Gwanwyn,⁴⁵ ac maent yn aml yn defnyddio cerrig mawr i gysgodi a chynhesu yn yr haul.⁴⁶ Maent wedi gweld dirywiad sylweddol yn eu poblogaeth o 30-49% o 1995 i 2010,²² gyda gostyngiad yn yr ardal y maent i'w gweld o 62% o 1976 i 2014.⁶ Nid yw'r rhesymau am y dirywiad yn cael eu deall yn llawn, er bod newidiadau yn y defnydd o dir yn ffactor posibl.⁴⁷




Andy Karran

Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae'n anodd rhagweld y duedd at y dyfodol i'r Gweirloŷn Llwyd. Yng Ngwent Fwyaf, mae'r pwyslais cynyddol ar gynefinoedd y tomenni glo trwy waith Buglife a'r Cynllun Bioamrywiaeth Tomenni Glo, yn debygol o fod yn fanteisiol i'r Gweirloŷn Llwyd, er bod angen rhagor o waith i fonitro poblogaethau a sicrhau bod rheolaeth a gwarchodaeth addas ar safleoedd o'r fath. Mae cynefinoedd y Gweirloŷn Llwyd yn fregus o ran olyniaeth naturiol, gan achosi cysgod a cholli tir moel. Gwelir safleoedd ôl-ddiwydiannol hefyd fel cyfleoedd datblygu: collwyd y gytref Gweirloŷn Llwyd ar Domenni Markham pan newidiwyd y tomenni yn yr 1990au.⁴⁶


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir y Gweirloŷn Llwyd yn bennaf yng ngogledd orllewin Gwent Fwyaf, gyda chrynhoed o gofnodion yn yr ucheldir, yn gysylltiedig â safleoedd tomenni glo. Mae Gwent Fwyaf yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig, lle mae'r boblogaeth wedi ei gwasgaru ar hyd yr arfordir. Mae'n debyg bod hyn yn wir oherwydd natur yr arfordir yng Ngwent Fwyaf, nad yw'n cynnig tir moel a chreigiau sy'n well gan y rhywogaeth. Yn wahanol i hynny, mae'r cynefinoedd tir llwyd yn cynnig y cyfuniad a ddymunir o dir moel a glaswellt tenau.

Mae canolfannau cofnodion yn digwydd yn SSSI Cwm Tawel, y British a Blaenserchan yn Nhorfaen, a'r tomenni i'r gogledd o Laswelltir Aberbargoed, gyda nifer is o gofnodion ar draws gogledd Torfaen, Cwm Clydach ac o gwmpas Rhymni. Mae'r safleoedd eraill yn cynnwys Parc Bryn Bach, Farteg, Wyllie, Ochwrwyth, Garden City Glynebwy a Trefil. Ceir cofnodion diweddar yn nifer o sgwariau'r grid, gyda'r rhan fwyaf o'r cofnodion hanesyddol yn gofnodion unigol i'r de a'r dwyrain. Gallai hyn fod oherwydd yr ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd tomenni glo ar gyfer bioamrywiaeth.

Dwysedd cofnodion gweirloŷn llwyd
(dwysedd uchaf 20 cofnod/km²)




Cofnodion
Gweirloŷn Llwyd yn
ôl degawd




Tueddiadau poblogaeth: Mae gan UKBMS gofnodion ar gyfer y Gweirloŷn Llwyd ar bedwar safle: Clytha, Cwm Tawel, Chwarel Craig Ddu a'r Cwm Canolog (Glynebwy), ond nid oes gan y rhain ddigon o ddata i gynhyrchu tuedd ranbarthol. Dim ond Cwm Tawel sydd â mwy na dwy flynedd o ddata, gyda'r cyfrif uchaf o bump yn 2014 a 2015, a thri yn 2016 i 2018.¹³ Mae'r tueddiadau UKBMS ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig yn dangos dirywiad, ar sail cyfartaledd o 128 safle yn y Deyrnas Unedig ac 13 safle yng Nghymru yn dychwelyd data blynyddol.

Mynegeion wedi eu casglu ar gyfer gweirloŷn llwyd yn y Deyrnas Unedig a Chymru.²¹



Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 64% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o SSSI/LNR Cwm Tawel a SSSI y Bloreys, yn ogystal â chofnodion gwasgaredig o LNR fel Tirpentwys a Llynnoedd Garn. Daw'r rhan fwyaf o gofnodion SINC o Gefn Gelligaer a'r ardal o gwmpas Llynnoedd Garn, gyda chofnodion gwasgaredig o safleoedd eraill ar yr ucheldir ac ôl-ddiwydiannol ar draws Torfaen, Blaenau Gwent a gogledd Caerffili.

Cofnodion Gweirloŷn Llwyd o safleoedd a warchodir



Gwyn y Coed *Leptidea sinapis* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: MEWN PERYGL²² (DU Rhywogaeth Blaenoriaeth UK BAP, Rhywogaethau Adran 7 Deddf Amgylchedd (Cymru).

Data ar gael: Gwael (115 cofnod)

Cyd-destun: Glöyn byw cain yw'r Gwyn y Coed a welir mewn llennyrch mewn coetir, yn ogystal â gwrychoedd a mosaig prysglwyni. Planhigion bwyd y larfa yw codennau, gan gynnwys Ytbysen y Ddôl

(*Lathyrus pratensis*) a Physen-y-ceirw (*Lotus corniculatus*).⁴⁸ Gwelodd Gwyn y Coed ddirywiad o bron 90% ers yr 1970au,⁶ gan eu gwneud yn un o'r rhywogaethau glöyn byw sydd dan fwyaf o fygythiad yn y Deyrnas Unedig. Cyfyngir y glöyn yn awr o ran dosbarthiad i ganol a de Lloegr, a rhan fechan o Iwerddon.⁴⁸

Rhagolygon: Mae poblogaeth Gwyn y Coed yn y Deyrnas Unedig yn dal i ddirywio; mae ardaloedd lle caiff ei weld a'i niferoedd wedi gostwng yn ystod y cyfnod 2005 i 2014.⁶ Mae rheoli cynefin wedi ei dargedu yn digwydd yn Lloegr, ac ail-gyflwynwyd y rhywogaeth i bedwar safle ar draws Gorllewin Canolbarth Lloegr yn 2016.⁴⁹ Mae Cadwraeth Gloynnod Byw Gorllewin Canolbarth Lloegr yn cofnodi poblogaeth sefydlog, gyda'r cwmpas yn cyfyngu yn gyffredinol ond rhywfaint o ehangu'r cwmpas yn Swydd Amwythig.⁵⁰


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Gwent Fwyaf ar gyrion eithaf cwmpas Gwyn y Coed. Daw'r rhan fwyaf o gofnodion o Swydd Henffordd, yn ardal Doward. Mae safle UKBMS yn Lord's Wood yn Swydd Henffordd, sydd â nifer uchel o gofnodion. Heblaw'r boblogaeth hon, mae'n debygol bod y cofnodion eraill yn unigolion wedi eu chwythu ar y gwynt neu gam-adnabod o bosibl. Ychydig iawn o gofnodion wedi eu cadarnhau sydd ar gyfer Gwent Fwyaf, er bod yma gynefin addas.

Mae'r diffyg cofnodion diweddar – mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn dod o'r 1990au neu gynharach – a'r cyfyngiad ymddangosiadol ar y cwmpas yn peri pryder. Stopiodd safle UKBMS Lord's Wood gofnodi yn 2011. Dim ond pum sgwâr grid sydd â chofnodion o'r ddegawd ddiwethaf, a dim ond dau o'r rhain sydd ym mhrif ardal y boblogaeth yn y gogledd-ddwyrain. Yn fwy cadarnhaol, mae rhai cofnodion diweddar o 2018 a 2019 o Highmeadow Woods sydd ochr Cymru i'r ffin o ychydig, nad ydynt eto gan SEWBRc.¹⁸




Andy Karran

*Dwysedd cofnodion Gwyn y
Coed (uchafswm 33
cofnod/km²)*




*Cofnodion Gwyn y Coed
yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Dengys y cyfrif uchaf o drawslun UKBMS yn Lord's Wood boblogaeth sefydlog, neu efallai gynnydd posibl. Fodd bynnag dylid trin y set ddata hon yn ofalus oherwydd y cyfnod cymharol fyr o amser a'r diffyg cofnodion o 2011 ymlaen.¹³ Dengys tueddiadau poblogaeth y Deyrnas Unedig ddirywiad difrifol, parhaus o ran niferoedd a chwmpas,⁶ sydd hefyd yn cael ei ddangos yn y mynegai a luniwyd gan UKBMS (y Deyrnas Unedig yn unig, o gyfartaledd o 36 safle).²⁵

Cyfrif Uchaf Gwyn y Coed o drawslun UKBMS yn Lord's Wood¹³




Mynegeion wedi eu casglu ar gyfer Gwyn y Coed yn y Deyrnas Unedig gan UKBMS²⁵



Gwarchodaeth: Daw hanner cofnodion Gwent Fwyaf ar gyfer Gwyn y Coed o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Coetir Dyffryn Gwy a SINC ger Penallt. Mae'r cofnod SSSI o un unigolyn o Wastadeddau Gwent.

Mae'r safleoedd a warchodir yng Ngwent Fwyaf yn llai perthnasol i Wyn y Coed, gan ei bod yn ymddangos bod canolbwynt y boblogaeth yn Swydd Henffordd. Gwarchodir rhannau o'r cwmpas yn Lloegr gan rannau Lloegr o SAC Coetir Dyffryn Gwy a NNR Lady Park Wood, ond mae'n ymddangos bod safle UKBMS yn Lord's Wood y tu allan i'r ardaloedd hyn a warchodir. Sylwer nad oedd gwybodaeth am safleoedd a warchodir anstatudol yn Lloegr ar gael.

Cofnodion Gwyn y Coed o safleoedd a warchodir



Mantell Wen *Limenitis camilla* (Linnaeus, 1764)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: BREGUS²² (DU) Rhywogaeth Blaenoriaeth UK BAP, Rhywogaeth Adran 7 Deddf Amgylchedd (Cymru).

Data ar gael: Gwael (131 cofnod)

Cyd-destun: Glöyn byw coetir trawiadol yw'r Fantell Wen a welir mewn coetir aeddfed gyda llennyrch heulog. Gwyddfid (*Lonicera periclymenum*) yw planhigyn bwyd y larfa. Mae'r rhywogaeth yn gyffredin ar draws de a dwyrain Lloegr, ac mae wedi lledaenu'n gyflym ers yr 1920au, ar ôl i'w gwmpas gyfyngu yn gynharach.⁵¹ Fodd bynnag mae'r poblogaethau wedi dirywio'n fawr ers canol yr 1990au, am resymau anhysbys: dengys canlyniadau diweddaraf UKBMS ostyngiad o 44% mewn niferoedd rhwng 2005 a 2014.⁶



Pete Hadfield


Rhagolygon: Rhagwelir y bydd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i ostwng. Er y gallai newid hinsawdd arwain at ddisgwyliad i'r Fantell Wen ehangu ei chwmpas tua'r gogledd, credir yn awr bod yr ymateb i newid hinsawdd yn fwy cymhleth nag a gredid o'r blaen. Yn awr rhagwelir y bydd y Fantell Wen yn dirywio o ran niferoedd o ganlyniad i newid hinsawdd.⁶

Yn Gwent Fwyaf, mae'n ymddangos bod y Fantell Wen yn gallu ymestyn eu cwmpas mewn blynyddoedd da – fe'u gwelwyd gyntaf yn vc35 yn yr 1950au, gan aros ar ddim ond un safle yn Nyffryn Angiddy am flynyddoedd lawer.¹⁸ Ers hynny mae'r rhywogaeth wedi lledaenu i 11 o safleoedd gwahanol. Fodd bynnag mae rhai o'i chynefinoedd coetir allweddol yn cael eu torri er mwyn rheoli *Phytophthora* ac afiechydon eraill ar goed. Mae hyn yn peri pryder difrifol, gan y bydd torri coed yn arwain at golli gwyddfid.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir y Fantell Wen ar draws dwyrain a de Gwent Fwyaf, gan gyfateb i gyrion eu cwmpas yn y Deyrnas Unedig. Yn gyffredinol daw cofnodion o safleoedd coetir, yn arbennig yng Nghoetir Dyffryn Gwy, gyda chanolfannau cofnodi yng Nghoed Slade, (y credir mai dyma'r safle mwyaf gorllewinol yng Nghymru¹⁸) a choetir yn Nyffryn Angiddy. Mae'n ymddangos bod coed Dyffryn Gwy i'r gogledd a'r gorllewin o Drefynwy, a Choed Bishops Barnets ym mhen deheuol Dyffryn Gwy hefyd yn cynnal poblogaethau, er bod llai o gofnodion.

Nid oes gan rai safleoedd gofnodion diweddar; nid oes gan Goed Hendre (clwstwr y gogledd orllewin) gofnod ers 2006. Dim ond un trawslun UKBMS yn Lord's Wood yn Swydd Henffordd sydd wedi cofnodi'r Fantell Wen ond nid oes unrhyw gofnodion ers 2007.¹³

*Dwysedd cofnodion
mantell wen (uchafswm
30 cofnod/km²)*




*Cofnodion y Fantell Wen
yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu tuedd ranbarthol ar gyfer y Fantell Wen. Mae tueddiadau'r Deyrnas Unedig yn dynodi dirywiad tymor hir (1976–2014) o 25% yn y cwmpas a 59% yn y niferoedd.⁶ Y dirywiad tymor byr (2005–2014) yw 14% mewn cwmpas a 45% mewn niferoedd.⁶ Dengys tueddiadau'r UKBMS ar gyfer y Deyrnas Unedig y dirywiad hwn, ar sail cyfartaledd o 133 safle yn dychwelyd data yn flynyddol.

Mynegeion wedi eu casglu ar gyfer y Fantell Wen yn y Deyrnas Unedig gan UKBMS²¹



Gwarchodaeth: Daw llai na 10% o gofnodion y Fantell Wen o safleoedd a warchodir, o bosibl oherwydd bod y glöyn byw yn aml yn cael ei weld ar gyrion coetir, gan arwain at weld y cofnodion yn disgyn ychydig y tu allan i'r safleoedd a warchodir. Daw'r cofnod SAC o SAC Coetir Dyffryn Gwy, a daw'r cofnodion SINC o dri SINC: Coed Bishops Barnets, Coed Lower Hale a Choed Buckle a Glyn (y ddau yn ardal Dyffryn Angiddy). Nid yw Coed Slade, sy'n ymddangos fel pe bai'n cynnal y boblogaeth fwyaf gorllewinol ac iachaf, yn cael ei warchod o gwbl.

Cofnodion mantell wen o safleoedd a warchodir



Gwibiwr Brith *Pyrgus malvae* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: BREGUS,²² Rhywogaeth
Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth
Adran 7 Cymru

Data ar gael: Cymedrol (335 cofnod)

Cyd-destun: Glöyn byw'r gwanwyn yw'r Gwibiwr Brith a welir mewn llennyrch mewn coetir, glaswelltir calchfaen llawn rhywogaethau a safleoedd ôl-ddiwydiannol. Dyma un o'r gloënnod byw bach cyntaf i ymddangos, mor gynnar â mis Mawrth weithiau.⁵²


Daw'r planhigion bwyd i'r larfa o'r teulu Rosaceae, Llysiau'r Dryw (*Agrimonia eupatoria*), Pumnalén Ymlusgol (*Potentilla reptans*) a Mefus Gwyllt (*Fragaria vesca*) yn bennaf.⁵² Ychwanegwyd y Gwibiwr Brith at restr UKBAP yn 2007 o ganlyniad i ddirywiad sylweddol:²² mae dros hanner eu hardal lle caent eu gweld wedi ei golli ers 1976, er bod y duedd tymor byr yn bositif i raddau bychan.⁶

Rhagolygon: Gwelir y Gwibiwr Brith yn aml ar safleoedd tir llwyd, sy'n golygu bod datblygiadau'n fygythiad iddynt yn aml. Mae poblogaethau bychan ac ynysig hefyd yn fwy agored i ddifodiant.⁵³

Roedd disgwyl i'r Gwibiwr Brith ehangu ei gwmpas tua'r gogledd wrth ymateb i newid hinsawdd; ond, dangosodd astudiaethau diweddar bod y poblogaethau yn y gogledd a'r gorllewin wedi dirywio mwy mewn gwirionedd na'r rhai yn y de a'r dwyrain.⁵⁴ Nid yw newid hinsawdd felly yn gwneud iawn am y dirywiad tymor hir, sydd, mwy na thebyg, oherwydd dirywiad y cynefin. Mae angen sicrhau bod mwy o gynefin ar gael, ei gysylltedd a'i ansawdd ar frys i wrthdroi dirywiad y Gwibiwr Brith.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Gwent Fwyaf ar gyrion cwmpas y Gwibiwr Brith yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi ei ganoli ar dde a dwyrain Lloegr. Mae'r boblogaeth yng Nghymru wedi ei chyfyngu i'r de yn bennaf, gyda phoblogaethau ynysig yn y gogledd ddwyrain.⁵²

Yng Ngwent Fwyaf, mae'r cofnodion yn bennaf wedi eu clystyru o gwmpas Caerwent a Bryngaer Llanmelin, sy'n cyfateb yn gryf i'r band calchfaen trwy'r ardal. Mae ychydig o gofnodion gwasgaredig ar hyd ffin Lloegr, yn aml mewn hen chwareli calchfaen. Mae cofnodion diweddar yn y rhan fwyaf o sgwariau.




Andy Karran

*Dwysedd cofnodion
Gwibiwr Brith dwyster
uchaf 28 cofnod/km²*




*Cofnodion Gwibiwr Brith
yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu tuedd poblogaeth ar gyfer Gwent Fwyaf. Ni chofnodwyd Gwibiwr Brith ar unrhyw drawslluniau UKBMS yn ardal yr astudiaeth. Y duedd boblogaeth tymor hir yn y Deyrnas Unedig (1976–2014) yw dirywiad o 53% o ran cwm pas a 37% mewn niferoedd. Mae'r tueddiad tymor byr (2005–2014) yn dangos cynnydd o 7% yn y cwm pas a dim newid yn y niferoedd.⁶ Dengys mynegai a gasglwyd UKBMS ar gyfer y Deyrnas Unedig y dirywiad hwn, ar sail cyfartaledd o 163 safle yn dychwelyd data yn flynyddol.

Mynegeion wedi eu casglu ar gyfer y Gwibiwr Brith yn y Deyrnas Unedig gan UKBMS²¹



Gwarchodaeth: Daw ychydig dan 15% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir. Daw'r cofnodion SAC a SSSI o Wastadeddau Gwent (mae cofnod wedi ei ganoli ar SAC Aber yr Hafren). Daw'r rhan fwyaf o gofnodion SINC o Fryngaer Llanmelin a Choetir Rich's Brake, y ddau yn yr ardal graidd ar gyfer Gwibiwr Brith o gwmpas Caerwent. Mae'r cofnodion sy'n weddill ar SINC yn gofnodion unigol yn Nhorfaen, yng Nghoed Lasgarn a Dyffryn Blaensychan.

Cofnodion Gwibiwr Brith o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Why butterflies matter: <https://butterfly-conservation.org/butterflies/why-butterflies-matter> (agorwyd 7/3/21).
2. What are moths?: <https://butterfly-conservation.org/moths/why-moths-matter/what-are-moths> (agorwyd 7/3/21).
3. DEFRA. 2020. UK Biodiversity Indicators 2020. DEFRA, Llundain.
4. Pollock CJ, Capilla-Lasheras P, McGill RAR et al. 2017. Integrated Behavioural and Stable Isotope Data Reveal Altered Diet Linked to Low Breeding Success in Urban-Dwelling Blue Tits (*Cyanistes caeruleus*). Scientific Report 7: 5014.
5. Fox R, Dennis EB, Harrower CA, Blumgart D, Bell JR, Cook P, Davis AM, Evans-Hill LJ, Haynes F, Hill D, Isaac NJB, Parsons MS, Pocock MJO, Prescott T, Randle Z, Shortall CR, Tordoff GM, Tuson D & Bourn NAD. 2021. The State of Britain's Larger Moths 2021. Butterfly Conservation, Rothamsted Research ac UK Centre for Ecology & Hydrology, Wareham, Dorset.
6. Fox R, Brereton TM, Asher J, August TA, Botham MS, Bourn NAD, Cruickshanks KL, Bulman CR, Ellis S, Harrower CA, Middlebrook I, Noble DG, Powney GD, Randle Z, Warren MS & Roy DB. 2015. The State of the UK's Butterflies 2015. Butterfly Conservation a the Centre for Ecology & Hydrology, Wareham, Dorset.
7. Brereton TM, Botham MS, Middlebrook I, Randle Z, Noble D, Harris S, Dennis EB, Robinson A, Peck K & Roy DB. 2020. United Kingdom Butterfly Monitoring Scheme report for 2019. UK Centre for Ecology & Hydrology, Butterfly Conservation, British Trust for Ornithology a Joint Nature Conservation Committee.
8. Randle Z, Brereton T, Harris S, Noble D, Botham M, Roy D, Robinson A & Peck K. 2019. Wider Countryside Butterfly Survey Annual Newsletter 2019 Season. Butterfly Conservation, British Trust for Ornithology, UK Centre for Ecology & Hydrology, UK Butterfly Monitoring Scheme a Joint Nature Conservation Committee.
9. The Insect Survey: <https://www.rothamsted.ac.uk/insect-survey> (agorwyd 7/3/21).
10. Cyfanswm y rhywogaeth hyd Ragfyr 2020 gan Martin Anthoney, Cofnodwr Gloÿnnod Byw a Macro-Wyfynod y Sir (cyfathrebiad personol).
11. Anthoney M. heb ddyddiad. Gwent Lepidopterists – A History of Lepidoptera Recording in VC35 (Monmouthshire/Gwent). Monmouthshire Moth & Butterfly Group.
12. Anthoney M (gol.). 2017. The Silurian Monmouthshire Moth and Butterfly Group Cylchlythyr Rhif 137 Rhagfyr 2017.
13. Data safle unigol UKBMS hyd 2018, diolch i Cadwraeth Gloÿnnod Byw.
14. Parsons M, Davis T a Prescott T. 2013. Forester Species Factsheet. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
15. Biodiversity Reporting and Information Group (BRIG). 2007. Report on the Species and Habitat Review. JNCC, Peterborough.
16. Cynllun Cofnodi Gwyfynod Cenedlaethol: <https://butterfly-conservation.org/our-work/recording-and-monitoring/national-moth-recording-scheme> (agorwyd 21/02/2021).
17. Dolydd y Tir Gwastad. Eich Mannau Gwyrdd: <https://greenspacescaerphilly.co.uk/flatwoods-meadows/> (agorwyd 21/02/2021).
18. Anthoney M. 2021. Cyfathrebiad Personol gan Gofnodwr Gloÿnnod Byw a Macro-wyfynod y Sir.
19. White-Spotted Sable: <https://butterfly-conservation.org/moths/white-spotted-sable> (agorwyd 09/03/2021).
20. NBN Atlas website species search: <https://records.nbnatlas> (agorwyd 09 Mawrth 2021).
21. Fagan WF & Holmes EE. 2005. Quantifying the Extinction Vortex. Ecology Letters 9(1): 51–60.

22. Fox R, Warren MS & Brereton TM. 2010. A New Red List of British Butterflies, Species Status 12. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
23. Ellis S & Wainwright D. undated. Small Pearl-bordered Fritillary Factsheet. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
24. Ellis S & Wainwright D. 2012 Restoring Very Small Fragmented Landscapes for the Small Pearl-bordered Fritillary in the Durham Coalfield Pennine Fringe. Yn: Landscape-Scale Conservation For Butterflies and Moths: Lessons from the UK. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
25. Botham M, Roy D, Brereton T, Middlebrook I, Randle Z. 2017. United Kingdom Butterfly Monitoring Scheme: Collated Indices 2015 version 2. NERC Environmental Information Data Centre': <https://doi.org/10.5285/c6c5e93c-06c2-44d5-ab2a-8f6f10951888>.
26. Ellis S, Doyle S, Jeffcoate G, Shanks S, Slater M a Wainwright D. heb ddyddiad. Small Blue Factsheet. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
27. Slater M & Ellis S. 2012. Restoration of a Small Blue Metapopulation on the Southam Lias Grasslands of Warwickshire. Yn: Landscape-scale Conservation for Butterflies and Moths: Lessons from the UK. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
28. Pollinating the Levels: <https://www.livinglevels.org.uk/project-descriptions/2018/2/19/pollinating-the-levels> (agorwyd 10/3/2021).
29. Silurian: <https://butterfly-conservation.org/moths/silurian> (agorwyd 11/03/2021).
30. Anthoney M. heb ddyddiad. Gwent Lepidopterists – A history of Lepidoptera Recording in VC35 (Monmouthshire/Gwent). Monmouthshire Moth & Butterfly Group.
31. Anthoney M (gol.). 2012. The Silurian Monmouthshire Moth and Butterfly Group Cylchlythyr Rhif 82 Ebrill 2012.
32. Anthoney M (gol.). 2014. The Silurian Monmouthshire Moth and Butterfly Group Cylchlythyr Rhif 100 Ebrill 2014.
33. King A & Lowe N. 2014. Varteg, Torfaen: An Assessment of Suitability for Silurian Moth (*Eriopygodes imbecilla*). Hawkeswood Ecology.
34. Wainwright D & Ellis S. heb ddyddiad. *Dingy Skipper Factsheet*. Butterfly Conservation Wareham, Dorset.
35. Anthoney M. 2006. The Dingy Skipper Butterfly in Gwent. heb ei gyhoeddi.
36. Warren M & Wigglesworth T. heb ddyddiad. Marsh Fritillary Factsheet. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
37. Marsh Fritillary butterfly (*Euphydryas* (*Eurodryas*, *Hypodryas*) *aurinia*) - Special Areas of Conservation: <https://sac.jncc.gov.uk/species/S1065/> (agorwyd 30/04/21).
38. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Conservation Status Assessment for the Species: S1065 Marsh Fritillary Butterfly (*Euphyryas aurinia*)(UK). JNCC.
39. Torffo G & Williams C. 2018. The Status of the Marsh Fritillary in Wales: 2018. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
40. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Conservation Status Assessment for the Species: S1065 Marsh Fritillary Butterfly (*Euphyryas aurinia*) (Wales) JNCC
41. Saving the Marsh Fritillary in South Wales. Initiative for Nature Conservation Cymru: <https://www.natureconservation.wales/project/saving-the-marsh-fritillary-in-south-wales/> (agorwyd 30/04/21).
42. Ellis S, Bourn N & Bulman C. 2012. Landscape-Scale Conservation for Butterflies and Moths: Lessons from the UK. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
43. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Core Management Plan for Aberbargoed Grasslands Special Area of Conservation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
44. Mynegai gwe Britheg y Gors wedi ei ddarparu gan Cadwraeth Gloŷnnod Byw Cymru.

45. Jones R, Ellis S, Warren M, Joy J, Wainwright, D, Bulman C & Kirkland P. 2013. Grayling Species Factsheet. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
46. Anthoney M. 2021. Cyfathrebiad Personol gan Gofnodwr Gloŷnnod Byw a Macro-wyfynod y Sir.
47. UKBMS Grayling Species Dactsheet *Hipparchia semele*. UKBMS: <https://ukbms.org/species/grayling> (agorwyd 21/02/2021).
48. Green D & Clarke S. 2015. Wood White Factsheet. Butterfly Conservation Wareham Dorset.
49. Making A Stand For The Wood White: <https://butterfly-conservation.org/our-work/conservation-projects/england/making-a-stand-for-the-wood-white> (agorwyd 20/04/2021).
50. Wood White. West Midlands Branch of Butterfly Conservation: <https://www.westmidlands-butterflies.org.uk/species/butterflies/whites/wood-white> (agorwyd 20/04/2021).
51. Ellis S, Slater M, Oates M, Willmott K & Hoare D. heb ddyddiad. White Admiral Factsheet. Butterfly Conservation Wareham, Dorset.
52. Jones R, Ellis S, Warren M, Joy J, Wainwright, D, Bulman C & Kirkland P. 2013. Grizzled Skipper Species Factsheet. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
53. Hearle S & Ellis J. heb ddyddiad. Grizzled Skippers Need Our Help. Butterfly Conservation, Wareham, Dorset.
54. Bell F, Botham M, Brereton TM, Fenton A, Hodgson J. 2021. Grizzled Skippers Stuck in the South: Population-Level Responses of an Early-Successional Specialist Butterfly to Climate Across its UK Range Over 40 Years. Diversity & Distributions: <https://doi.org/10.1111/ddi.13245>.

Odonata

Mae Odonata – gweision y neidr a mursennod – yn un o'r grwpiau o infertebratau y mae cofnodion gwell amdanynt. Maent yn amlwg ac yn rhwydd eu hadnabod, gan eu gwneud yn haws i'w astudio a'u cofnodi na llawer o grwpiau eraill o infertebratau. Mae rhywogaethau Odonata yn defnyddio amrywiaeth eang o gynefinoedd dŵr croyw, o afonydd mawr i ffosydd, ac o lynnoedd i byllau dros dro bach, ond mae newidiadau hydrolegol, tebyg i ddraeniad ac alldynnu, llygredd a newidiadau mewn rheolaeth, wedi effeithio arnynt i gyd.¹ Collwyd mwy na 50% o wlypdiroedd mewn rhannau o Ewrop.² Roedd tri rhywogaeth wedi diflannu ym Mhrydain erbyn y 1960au, ac mae 12 pellach yn awr dan fygythiad.³ Gall newid hinsawdd hefyd fod wedi effeithio ar rywogaethau Odonata; mae nifer o rywogaethau wedi cynyddu eu cwmpas i'r gogledd yn ddiweddar, a chollwyd rhai o'r poblogaethau ar ymylon y cwmpasau.³

Gellir defnyddio Odonata fel dangosyddion cyffredinol am iechyd gwlypdir. Canfu astudiaethau^{4,5} eu bod yn sensitif i newidiadau mewn amodau a lefelau ymyriad, a bod cydberthynas dda rhwng odonata ac amrywiaeth cyffredinol.

Rhagolygon: Mae cadwraeth Odonata yn gysylltiedig â chadwraeth a rheolaeth cynefinoedd dŵr croyw a gwlypdir. Bu rhai llwyddiannau wrth godi ymwybyddiaeth a chynyddu gwybodaeth am rywogaethau gwas y neidr a mursen. Bu mwy o gofnodi ar Odonata mewn cyfnodau diweddar,³ cyhoeddwyd atlas cenedlaethol o weision y neidr yn 2014 a disgwyliad adroddiad 'Sefyllfa Gweision y Neidr' yn 2020. Mae cofnodwyr ym Mlaenau Gwent yn anelu i gynhyrchu atlas lleol ar Odonata o fewn y degawd nesaf. Mae'r BDS (Cymdeithas Brydeinig Gwas y Neidr) yn cydnabod Safleoedd Blaenoriaeth⁶ yn seiliedig ar bresenoldeb rhywogaethau prin neu gyfoeth uchel o rywogaethau, a gobeithir y gellir sefydlu monitro rheolaidd ar safleoedd allweddol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer odonata yn wael o ran cynefin. Mae dirywiad a cholli gwlypdiroedd yn parhau'n gyflymach nag ecosystemau eraill. Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn gwaethygu'r golled hon.³

Odonata yng Ngwent Fwyaf: Caiff 28 rhywogaeth o was y neidr a mursen eu canfod yn rheolaidd yng Ngwent. Mae pedwar o'r rhywogaethau hyn – Gwas y Neidr Tindrwm (*Gomphus vulgatissimus*), Gwas y Neidr Coch Bach (*Ceragrion tenellum*), Mursen Las Amrywiol (*Coenagrion pulchellum*) a Gwas y Neidr Gynffonlas (*Ischnura pumilio*) – yn Rhywogaethau Blaenoriaeth Cenedlaethol y BDS a chânt eu hystyried yn unigol.


Cafodd Rhywogaethau Blaenoriaeth Lleol hefyd eu gosod gan y BDS⁶ a gan y 'Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Ddwyrain Cymru'.⁷ Byddai cofnodion bridio diweddar ar gyfer y rhywogaethau hyn yn cyfrannu at ddyrannu safleoedd fel Safleoedd Blaenoriaeth Lleol BDS neu Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC). Caiff Rhywogaethau Blaenoriaeth Lleol ar gyfer VC35 (Sir Fynwy) a VC41 (Morgannwg) a rhestri A SINC (dynodol) a B (cyfannol) eu rhestru islaw:

Rhywogaeth	Enw Cyffredin	Blaenoriaeth BDS	Rhestr SINC	Cofnodion Gwent Fwyaf 1970–2019	Cofnodion Gwent Fwyaf 2010–2019
<i>Aeshna grandis</i>	Gwas y Neidr Brown	VC35	B	17	7
<i>Aeshna juncea</i>	Gwas y Neidr Glas	VC35 & VC41		205	86
<i>Brachytron pratense</i>	Gwas y Neidr Flewog	VC35	A	312	45
<i>Coenagrion mercuriale</i>	Mursen y De		A	0	0
<i>Cordulia aenea</i>	Gwas Gwyrdd Blewog	VC41	A	0	0
<i>Erythromma najas</i>	Mursen Lygatgoch	VC35 & VC41	A	17	15
<i>Libellula quadrimaculata</i>	Picellwr Pedwar Nod	VC41		92	42
<i>Orthetrum coerulescens</i>	Picellwr Cribog	VC35	A	52	15
<i>Platycnemis pennipes</i>	Mursen Goeswen	VC35	A	106	31
<i>Sympetrum danae</i>	Gwäell Ddu	VC 35 & VC41	B	105	39
<i>Sympetrum sanguinem</i>	Gwäell Rudd		A	90	31

Mae rhywogaethau prin a chrwydriaid yn cynnwys Gwas y Neidr Crwydrol (*Anax ephippiger*) (dwy gofnod ger Casnewydd yn 2013 a 2019), Gwas Gwyrdd Blewog (*Cordulia aenea*) (un cofnod heb ei chadarnhau na'i dyddio ger Cil-y-coed, Gwäell Wythien Goch (*Sympetrum fonscolombii*) (pedair cofnod wasgaredig, y ddiweddaraf yn 2006) a'r Gwäell Adeinfelen (*Sympetrum flaveolum*) (un gofnod heb ei chadarnhau o Fagwyr yn 1965). Gwent hefyd sydd â'r unig gofnod ym Mhrydain am y Gwäell Resog (*Sympetrum pedemontanum*), o ger Tredegar yn 1995.


Mae'n werth sôn am gytfwr diweddar, y Fursen Lygatgoch Fach (*Erythromma viridulum*), a gofnodwyd gyntaf yn ne-ddwyrain y Deyrnas Unedig yn 1999. Fe'i cofnodwyd gyntaf yng Ngwent yn 2017 ac ymddengys ei bod yn ymestyn i'r gorllewin ar draws Gwastadeddau Gwent.

Cofnodion o'r Fursen Lygatgoch Fach yn ôl blwyddyn





Dosbarthiad Gwent Fwyaf: Mae gan Gwent Fwyaf nifer o ardaloedd o bwysigrwydd ar gyfer gweision y neidr a mursennod. Mae Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Blaenau Gwent yn neilltuol yn ardal fawr gyda chofnodion da gyda chyfoeth mawr o rywogaethau. Mae'r ucheldir ôl-ddiwydiannol, tebyg i Lynnoedd Garn a Chomin Merthyr, hefyd yn dangos pocedi o gyfoeth mawr mewn rhywogaethau. Mae cofnodion Odonota yn aml wedi ei gyfyngu i safleoedd hysbys yn hytrach na chefn gwlad yn ehangach; ychydig iawn o gofnodion sydd o ganol Sir Fynwy ac o rannau o Gasnewydd. Mae'r ganolfan yng Nghaerloyw yn ganlyniad canoli cofnodion hŷn, er bod Gwarchodfa Natur Park, ychydig i'r gogledd (heb ei gynnwys oherwydd ei fod yn sgwâr anghyflawn) â chyfoeth mawr o rywogaethau Odonata.

Cofnodion Odonata
(*uchafswm set $i \geq 100$*)




Cyfoeth rhywogaethau Odonata



Safleoedd allweddol: Caiff safleoedd pwysig ar gyfer gwas y neidr eu dynodi ar sail amrywiaeth cyffredinol rhywogaethau a phresenoldeb Rhywogaethau o Flaenoriaeth Cenedlaethol a Lleol. Mae gan BDS a'r *Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Ddwyrain Cymru* wahanol feini prawf: bydd unrhyw safle sy'n cyflawni meini prawf BDS hefyd yn cymhwyso fel SINC. Mae dadansoddi'r amrywiaeth a niferoedd rhywogaethau a chofnodion bridio Rhywogaethau Blaenoriaeth o 2010 ymlaen yn dangos 23 safle a allai gymhwyso fel safleoedd BDS neu SINC; mae'r rhan fwyaf eisoes wedi eu dynodi ar lefel SINC neu uwch, er nad oes gan 5 unrhyw statws gwarchodedig. (Dylid nodi fod rhai safleoedd, tebyg i Warchodfa Natur Leol Gwlypdir Casnewydd, yn cynnwys mwy nag un sgwâr).

Safleoedd Allweddol Posibl ar gyfer Odonata yng Ngwent Fwyaf

- Safle o Bwysigrwydd Cenedlaethol BDS
- Safle Posibl o Bwysigrwydd Cenedlaethol BDS
- Safle Blaenoriaeth Posibl BDS
- Safle Posibl o Bwysigrwydd Cenedlaethol BDS
- Safle Posibl o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur



Awdurdod Lleol	Enw'r Safle	Gwarchodaeth	Dynodiad	Meini Prawf Cymhwyster	Nifer Rhywogaethau
CBSBG	Cwm Canol		Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth Uchel	13
CBSBG	Safle Cylch Cymru	SINC	SINC	Blaenoriaeth Uchel	9
CBSBG	Rhyd y Blew	Rhan SINC	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel a nifer uchel o'r Gwäell Du	15
CBSC	Dolydd Cwmllywdrew	SINC	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel	14
CBSC	Comin Gelligaer	SINC	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel, cofnodion bridio ar gyfer Gwas y Neidr Glas	14
CBSC	Parc Cwm Darren	SINC	Potensial Pwysigrwydd Lleol BDS	Nifer fawr o Was y Neidr Glas	5
CBSC	Parc Penallta	Parc Gwledig	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel, cofnodion bridio ar gyfer Gwas y Neidr Glas	16
CSF	Cors Cleddon	SSSI	SINC	Amrywiaeth uchel	9
CSF	Clytha	SAC	Potensial Pwysigrwydd Lleol BDS	Nifer fawr o'r Mursen Goeswen	3
CSF	Cors Magwyr	SSSI	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel	13
CSF	Melin Mathern		SINC	Amrywiaeth uchel	10
CSF	Afon Gwy	SAC	Pwysigrwydd Cenedlaethol BDS	Nifer fawr a chofnodion bridio ar gyfer Gwas y Neidr Tindrwm, cofnodion bridio ar gyfer y Fursen Goeswen	10
CSF	Anhysbys		Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel	13

CBSMT	Comin Merthyr	SINC	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel	14
CDC	Glan Llyn		SINC	Amrywiaeth uchel	10
CDC	Pwll Llysweri	SINC	SINC	Amrywiaeth uchel	9
CDC	Gwlypdir Casnewydd	NNR	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel, nifer fawr a chofnodion bridio ar gyfer Gwas y Neidr Flewog	13
NCC	Llynnoedd Llanbedr	SSSI	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel, nifer fawr chofnodion bridio ar gyfer Gwas y Neidr Glas	17
CBST	Canada Tips	SINC/SSSI	SINC	Amrywiaeth uchel	11
CBST	Llynnoedd Garn	LNR	Potensial Pwysigrwydd Cenedlaethol BDS	Nifer fawr o'r Fursen Dinlas Fach	12
TCBC	Garn yr Erw	SINC	Safle Posibl Blaenoriaeth BDS	Amrywiaeth uchel	14
TCBC	Sebastopol	SINC	Potensial Pwysigrwydd Lleol BDS	Nifer fawr o'r Fursen Lygatgoch	8

Mursen Lygatgoch Fach *Ceriagrion tenellum* (de Villers, 1789)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhestr Goch: LLEIAF O GONSYRN (DU)³

Data ar gael: Gwael (12 cofnod)

Cyd-destun: Dosbarthiad cyfyngedig sydd gan y Fursen Lygatgoch Fach ond ni chaiff ei hystyried yn fregus gan y credir fod ei chwmpas yn cynyddu.³ Mae'n dal i fod ar y rhestr o rywogaethau Cenedlaethol Bwysig gan Gymdeithas Brydeinig Gwas y Neidr (BDS).⁶ Mae i'w chael ar gorsydd rhostir yng Nghymru a De a Gorllewin Lloegr. Dim ond 12 cofnod sydd o fewn Gwent Fwyaf a'r clustog 2km.




Andy Karran


Rhagolygon: Er bod ei statws cenedlaethol yn gwella, mae ansicrwydd sylweddol am statws y Fursen Lygatgoch Fach o fewn Gwent. Mae arolygon targed wedi methu canfod cofnodion newydd ac mae ymchwiliad yn mynd rhagddo am ddilysrwydd cofnodion hanesyddol.⁸ Caiff ei chynefin rhostir gwlyb ei fygwth hefyd gan golled, darnio, draeniad a diffyg rheoli.⁹

Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond o fewn sgwariau 8.1km y mae cofnodion y Fursen Lygatgoch Fach ar gael, a dim ond 3 cofnod o'r degawd diwethaf. Mae cofnodion wedi eu gwasgaru ar draws Gwent, yn bennaf i orllewin ardal yr astudiaeth. Mae'n debygol bod rhai o'r cofnodion hyn yn gamgymeriadau, gan ei bod yn rhwydd cymysgu'r rhywogaeth gyda'r Fursen Lygatgoch Fawr (*Pyrrhosoma nymphula*) a nid yw rhai o'r safleoedd yn cyfateb i'r gynefin arferol ar gyfer y Fursen Lygatgoch Fach.

Dwysedd cofnodion y
Fursen Lygatgoch Fach
(uchafswm dwysedd 2
gofnod 2/km²)




Cofnodion diweddaraf
ar gyfer y Fursen
Lygatgoch Fach yn ôl
degawd



Tueddiadau poblogaeth: Ni ellir canfod tueddiadau o nifer mor fach o gofnodion ar gyfer yr ardal. Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae arbenigwyr yn credu fod y Fursen Lygatgoch Fach yn cynyddu ei chwmpas,³ ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn lleol yn y data presennol ar gyfer Gwent Fwyaf.

Cofnodion ar Safleoedd a Warchodir: Mae dros 80% cofnodion Gwent Fwyaf ar safleoedd a warchodir, gyda chofnodion ar SSSI ar Wastadeddau Gwent a'r Blorens, LNR Tirpentwys a SINC tebyg i laswelltir The British a Choed Gwaun y Ffeiriad.

Cofnodion y Fursen Lygatgoch Fach o safleoedd a warchodir



Mursen Las Amrywiol *Coenagrion pulchellum* (Vander Linden, 1825)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhestr Goch: AGOS AT FOD DAN FYGYTHIAD (DU)³

Data Gwent Fwyaf: Gwael (37 cofnod)

Cyd-destun: Caiff y Fursen Las Amrywiol ei chynnwys ar Restr Goch Odonata Prydain Fawr oherwydd ei dosbarthiad cyfyngedig iawn. Mae i'w gael mewn pyllau, camlesi a ffosydd, ac mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Gwent Fwyaf ar Wastadeddau Gwent. Dim ond 37 cofnod sydd o fewn ardal yr astudiaeth.




Pete Hadfield


Rhagolygon: Mae diffyg cofnodion diweddar ar gyfer y Fursen Las Amrywiol yng Ngwent Fwyaf. Fodd bynnag, gallai diffyg cofnodion fod oherwydd cofnodi cyfyngedig. Mae'n bwysig nodi ei bod yn rhwydd cymysgu'r Fursen Las Amrywiol gyda rhywogaethau *Coenagrion* eraill, mwy cyffredin felly dim ond gan arolygwyr profiadol ac arolygon penodol y mae'n debyg y daw cofnodion, yn hytrach na'i gweld ad hoc. Ar nodyn cadarnhaol, mae cofnodion heb eu cadarnhau eto ar gyfer y rhywogaeth yn 2020,⁸ felly mae'r Fursen Las Amrywiol yn dal i fod yn bresennol, er efallai mai nifer fach sydd ohonynt. Byddai angen mwy o waith arolwg ar draws Gwastadeddau Gwent i roi mwy o sicrwydd am statws y rhywogaeth.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond o fewn 17 o sgwariau 1km yng Ngwent Fwyaf mae cofnodion Mursen Las Amrywiol ar gael. Daw mwyafrif y cofnodion o Wastadeddau Gwent, ni chadarnhawyd cofnod o'r tu allan i'r Gwastadeddau, yn Gwastad Mawr. Mae canolfan ger Whitson, ond mae'r cofnodion hyn yn dyddio o'r 1980au a'r 1990au. Mae'r cofnodion diweddaraf o ben dwyreiniol Gwastadeddau Sant y Brid Gwynllŵg ac yn dyddio o 2007.

Dwysedd cofnodion ar
gyfer y Fursen Lâs
Amrywiol (uchafswm 5
cofnod/km²)




Cofnodion diweddaraf y
Fursen Las Amrywiol yn ôl
dyddiad



Tueddiadau poblogaeth: Ni ellir sicrhau tueddiadau o nifer fach o gofnodion ar gyfer yr ardal. Ni chadarnhawyd unrhyw gofnodion newydd o'r Fursen Las Amrywiol ers 2007, ond mae cofnodion newydd posibl yn 2020⁸ yn rhoi peth gobaith bod y rhywogaeth yn parhau yng Ngwent Fwyaf.

Gwarchodaeth: Mae dros 90% o gofnodion Gwent Fwyaf i'w cael ar Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwent Fwyaf gydag un gofnod heb ei gadarnhau o Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn Gwastad Mawr.

Cofnodion o'r Fursen Las Amrywiol o safleoedd a warchodir



Gwas y Neidr Tindrwm *Gomphus vulgatissimus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhestr Goch: AGOS AT FOD DAN FYGYTHIAD (DU)³

Data ar gael: Gwael (94 cofnod)

Cyd-destun: Caiff Gwas y Neidr Tindrwm ei gynnwys ar Restr Goch Odonata Prydain Fawr oherwydd ei ddosbarthiad cyfyngedig iawn. dim ond mewn ychydig o afonydd tir isel y mae ar gael, yn




Andy Karran

cynnwys yr Afon Gwy. Dechreuodd y BDS gyfrif Gwas y Neidr Tindrwm yn 2017 mewn ymateb i adroddiadau gan gofnodwyr lleol gwas y neidr yn awgrymu gostyngiadau posibl.¹⁰


Rhagolygon: Mae dosbarthiad cyfyngedig Gwas y Neidr Tindrwm yn ei wneud yn fregus. Mae bygythiadau posibl yn gysylltiedig gyda rheolaeth afonydd, tebyg i lygredd a defnydd hamdden.¹⁰ Mae gan y rhan fwyaf o gyrff dŵr yn nalgylch yr Afon Gwy statws Da neu Gymedrol o fewn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ond mae llygredd tryledol gwledig yn broblem.¹¹ Mae nifer ac ansawdd cofnodion cyfrif Gwas y Neidr Tindrwm yn golygu y gallai'r Afon Gwy gymhwyso fel Safle Blaenoriaeth Cenedlaethol y BDS,⁶ er y byddai angen mwy o waith i benderfynu maint unrhyw ddynodiad.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond mewn 27 sgwâr ardal astudiaeth 1km y mae cofnodion o Was y Neidr Tindrwm ar gael (heb gynnwys sgwariau sy'n ymestyn tu allan i'r clustog 2km) bron yn llwyr ar hyd yr Afon Gwy i ogledd-ddwyrain ardal yr astudiaeth. Mae 1 gofnod ar is-afon Mynwy. Mae'r boblogaeth yn parhau i'r gogledd tu hwnt i ardal yr astudiaeth. Mae cofnodion diweddar (2010-2019) ar eithafion y cwmpas, er y dylid nodi mai ychydig iawn o gofnodion hanesyddol sydd ar gyfer y rhywogaeth hwn, a daw 56% o cofnodion o'r pum mlynedd ddiwethaf oherwydd cynnydd diweddar mewn cofnodi.

*Dwysedd cofnodion Gwas y
Neidr Tindrwm (uchafswm
13 cofnod/km²)*



*Cofnodion diweddaraf Gwas
y Neidr Tindrwm yn ôl
degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Mae'n rhy fuan dod i unrhyw gasgliadau o gyfrif Gwas y Neidr Tindrwm, er y byddai'n ymddangos bod canlyniadau dechreuol yn rhoi darlun cadarnhaol. Rhoddir ystadegau isod ar gyfer cyfrif¹⁰ o'r tu fewn i Gwent Fwyaf a'r clustog 2km.

	Cyfanswm monadau a arolygwyd	Monadau lle chanfuwyd Gwas y Neidr Tindrwm	Monadau lle na chanfuwyd Gwas y Neidr Tindrwm
2017	7	5	2
2018	14	11	3
2019	12	11	1

Gwarchodaeth: Oherwydd y cysylltiad agos gyda'r Afon Gwy, mae 61% o gofnodion Gwent Fwyaf o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) – naill ai SAC Afon Gwy neu SAC Coetiroedd Dyffryn Gwy. Dylid nodi ei bod yn debyg fod y ffigur hwn yn is na'r gwir nifer, gan y caiff cyfeiriadau grid cyfrif isel eu rhoi yng nghanol y sgwâr, a all wneud i'r cofnod ymddangos tu allan i ardaloedd dynodedig.

Cofnodion Gwas y Neidr Tindrwm o safleoedd a warchodir



Mursen Dinlas Fach *Ischnura pumilio* (Charpentier, 1825)

Gwarchodaeth: Dim

Statws Cadwraeth: Rhestr Goch:
AGOS AT FOD DAN FYGYTHIAD
(DU)³

Data ar gael: Gwael (80 cofnod)


Cyd-destun: Caiff y Fursen Dinlas Fach ei chynnwys ar Restr Goch Odonata Prydain Fawr oherwydd ei dosbarthiad cyfyngedig iawn, er ei bod yn gymharol fwy cyffredin yng Nghymru a de orllewin Lloegr. Mae i'w chael mewn pyllau bas a dŵr sy'n rhedeg yn araf, tebyg i gorsydd a thryddyferiadau, yn aml mewn cynefinoedd olynol cynnar gyda rhywfaint o darfu. Dim ond 40 cofnod sydd yng Ngwent Fwyaf gyda 40 arall o fewn y clustog 2km, ond dim ond 7 cyfnod o fewn y degawd diwethaf.




Rhagolygon: Mae dosbarthiad cyfyngedig a gofynion cynefin penodol y Fursen Dinas Fach yn ei gwneud yn fregus iawn. Mae colli cynefin yn fwyaf tebygol oherwydd olyniaeth a tharfu, ac mae natur ddarniog y boblogaeth yn cyfyngu cyfleoedd cytrefu. Byddai angen mwy o waith arolwg i roi statws Safle Blaenoriaeth BDS i safleoedd fel Llynnoedd Garn a Chomin Merthyr.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond mewn 26 sgwâr 1km y mae cofnodion y Fursen Dinlas Fach ar gael, yn cynnwys y rhai o fewn 2km i ffin Gwent Fwyaf. Mae cofnodion wedi eu cyfyngu i ogledd a gorllewin y rhanbarth, gyda chanolfannau (nifer uwch o gofnodion mwy diweddar) yng Ngwarchodfa Natur Leol (LNR) Llynnoedd Garn ac Ardaloedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur *SINC) Garn-yr-Erw a SINC Gelli Gaer ac ymgeisydd SINC Canol Comin Merthyr¹² ar y ffin rhwng Caerffili a Merthyr Tudful. Er eu bod yn safleoedd pwysig ar gyfer y rhywogaeth, ni fyddent yn cymhwyso fel Safleoedd Blaenoriaeth BDS⁶ oherwydd diffyg cofnodion bridio.

*Dwysedd cofnodion y
Fursen Dinlas Fach
(Uchafswm dwysedd 6
cofnod/km²)*




*Cofnodion diweddaraf y
Fursen Dinlas Fach yn ôl
degawd*



Tueddiadau poblogaeth: Ni ellir dod i gasgliad am dueddiadau ar gyfer y Fursen Dinlas Fach o nifer mor fach o gofnodion ar gyfer yr ardal. Byddai angen monitro safleoedd yn rheolaidd, yn arbennig Safleoedd Blaenoriaeth posibl, i gadarnhau a monitro presenoldeb bridio.

Gwarchdaeth: Mae dros 70% o gofnodion Gwent Fwyaf yn digwydd ar safleoedd a warchodir, gyda'r mwyafrif ar Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur tebyg i Garn yr Erw a Chefn Gelligaer. Daw cofnodion SSSI o'r Bloreus a chofnodion LNR o Lynnoedd Garn.

Cofnodion y Fursen Dinlas Fach o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Hayhow DB, Burns F, Eaton MA, Al Fulaij N, August TA, Babey L, Bacon L, Bingham C, Boswell J, Boughey KL, Brereton T, Brookman E, Brooks DR, Bullock DJ, Burke O, Collis M, Corbet L, Cornish N, De Massimi S, Densham J, Dunn E, Elliott S, Gent T, Godber J, Hamilton S, Havery S, Hawkins S, Henney J, Holmes K, Hutchinson N, Isaac NJB, Johns D, Macadam CR, Mathews F, Nicolet P, Noble DG, Outhwaite CL, Powney GD, Richardson P, Roy DB, Sims D, Smart S, Stevenson K, Stroud RA, Walker KJ, Webb JR, Webb TJ, Wynde R a Gregory RD. 2016. State of Nature 2016. The State of Nature partnership.
2. Millennium Ecosystem Assessment. 2005. Ecosystems and Human Well-Being: Wetlands and Water. Synthesis. World Resources Institute, Washington DC
3. Daguet CA, French GC a Taylor P. 2008. The Odonata Red Data List for Great Britain (Species status 11): 1–34. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
4. Simaika JP & Samways MJ. 2011. Comparative Assessment of Indices of Freshwater Habitat Conditions using Different Invertebrate Taxon Sets. *Ecological Indicators* 11 (2).
5. Kutcher TE & Bried JT. 2014. Adult Odonata Conservatism as an Indicator of Freshwater Wetland Condition. *Ecological Indicators* 38.
6. British Dragonfly Society (BDS). 2019. Priority Site assessments. <https://british-dragonflies.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Priority-Site-Assessment.pdf> (agorwyd 18/11/2019).
7. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2004. Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.
8. Preddy S. 2020. Gohebiaeth bersonol gan Gofnodydd Odontata VT35.
9. British Dragonfly Society. <https://british-dragonflies.org.uk/species-map/small-red-damselfly/> (agorwyd 25/10/2020).
10. British Dragonfly Society. Common Clubtail webpage: <https://british-dragonflies.org.uk/species/common-clubtail/> (accessed 6/11/2019).
11. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. 2014. Dalgylch Rheolaeth yr Afon Gwy – Crynodeb Gwybodaeth am Amgylchedd Dŵr yn Nalgylch Rheolaeth y Gwy. Asiantaeth yr Amgylchedd.
12. Jones J. 2018. Review of Sites of Importance for Nature Conservation. Replacement Local Development Plan (2016–2031. Papur cefndir. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Infertebratau eraill

Er y caiff lepidoptera ac odonata eu hystyried mewn adrannau ar wahân, dim ond cyfran fechan ydynt o'r amrywiaeth infertebratau o fewn Gwent Fwyaf. Yn anffodus, ychydig iawn sydd o gofnodion ar gyfer y rhan fwyaf o infertebratau, oherwydd diffyg diddordeb, eu natur ddirgelaidd a'r lefel arbenigedd sydd ei angen i adnabod rhai rhywogaethau.


Mae poblogaethau pryfed mewn argyfwng. Os yw'r cyfraddau presennol o ddirywiad yn parhau, credir y gallai 41% o rywogaethau pryfed y byd ddiflannu o fewn yr ychydig ddegawdau nesaf.¹ Pryfed yw dros hanner y rhywogaethau ar y ddaear ac mae ganddynt rolau sylfaenol tebyg i beillio a chylchu maethion, yn ogystal â bod yn ffynhonnell bwyd ar gyfer adar, mamaliaid, reptiliaid ac amffibiaid. Eto mae llawer o bobl yn dal i feddwl am bryfed fel pla, er fod dros 99% o bryfed mewn gwirionedd yn fuddiol.²

Mae bygythiadau i infertebratau yn cynnwys colli a darnio cynefinoedd, defnydd cemegau (tebyg i bryladdwyr), llygredd (yn cynnwys llygredd golau), rhywogaethau goresgynnol anffordorol a newid hinsawdd. Mae'r adran hon yn cynnwys dau fath prin o gacwn, y Gardwenynen Feinlais a'r Gardwenynen Lwydfrown, yn ogystal â pheillwyr fel grŵp. Mae hefyd yn cynnwys grwpiau arbennig o infertebratau sydd ar gael yng Ngwent Fwyaf ac ychydig o leoedd eraill: infertebratau tomennydd glo ac infertebratau dŵr croyw Gwastadeddau Gwent.

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae Buglife wedi mapio Llinellau B – ardaloedd sy'n cysylltu'r cynefinoedd gorau a chyfleoedd ar gyfer creu cynefinoedd ar gyfer pryfed, yn arbennig beillwyr.³ Y nod yw galluogi adferiad poblogaeth pryfed a galluogi addasu i newid hinsawdd. Dangosir y rhwydwaith Llinellau B o fewn Gwent Fwyaf isod. Mae'r gwaith hefyd wedi dechrau i ddynodi ardaloedd pwysig i infertebratau o fewn Gwent Fwyaf.

Caiff infertebratau eu cofnodi mewn nifer o ffyrdd, yn amrywio o gofnodi achlysurol i gynlluniau wedi eu targedu a gaiff eu rhedeg gan sefydliadau a chymdeithasau arbenigol. Caiff cynlluniau recordio perthnasol eu trin mewn penodau unigol.

Rhwydweithiau Llinellau B yng Ngwent Fwyaf



Cardwenwynen Lwydfrown *Bombus humilis* (Illiger, 1806)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth S7

Data ar gael: Cymedrol (618 cofnod)

Cyd-destun: Y Gerdwenynen Lwydfrown yw'r prinnaf o'r tair cardwenwynen oren i gyd, ond mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddi â'r Gerdwenynen Gyffredin (*B. pascuorum*) a Cherdwenynen y Mwsogl (*B. muscorum*). Maent ar gael yn bennaf yn ne Lloegr a Chymru, mewn cynefinoedd toreithiog mewn blodau. Maent yn hoff iawn o feillion (*Trifolium* sp), y bengaled (*Centaurea* sp), y gorudd (*Odontites vernus*) a rhywogaethau tebyg.⁴


Ychydig a wyddom am ecoleg neu dueddiadau poblogaeth y Gerdwenynen Lwydfrown, ond credir eu bod wedi gweld dirywiad tebyg, er llai helaeth, i'r Gerdwenynen Feinlais.⁵ Mae dirywiad difrifol yn gyffredinol mewn peillwyr. Mae Dangosydd Peillwyr y Deyrnas Unedig (yn seiliedig ar 377 rhywogaeth o wenyn a phryfed hofran) wedi dirywio gan 30% ers 1980, gyda bron hanner y rhywogaethau yn dod yn llai cyffredin yn yr hirdymor.⁶ Priodolir dirywiadau i bwysau lluosog – newid, colli a darnio cynefinoedd, clefyd, rhywogaethau goresgynol anfrodorol, agrogemegau a newid hinsawdd.⁷

Rhagolygon: Mae diffyg data monitro yng Nghymru yn golygu ei bod yn anodd ar hyn o bryd i benderfynu ar dueddiadau poblogaeth. Mae prosiectau newydd tebyg i Skills for Bees Cymru⁸ a phrosiectau presennol tebyg i Pollinating the Levels⁹ yn anelu i gynyddu cyfranogiad mewn arolygon a gweithgareddau monitro, tebyg i BeeWalk (cynllun monitro cenedlaethol safonol y Bumblebee Conservation Trust) a gwella'r data sydd ar gael a rheoli safleoedd.


Yn ychwanegol, bydd camau gweithredu yn deillio o Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Peillwyr⁶ a'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Peillwyr yn Ne Ddwyrain Cymru¹⁰ hefyd yn cefnogi poblogaethau o'r Gerdwenynen Lwydfrown (gweler yr adran ar beillwyr).

Cwmpas Blaenau Gwent: Mae'r Gardwenynen Lwydfrown i'w chael ar draws Gwastadeddau Gwent, mewn patrwm tebyg i'r Gerdwenynen Feinlais. Fodd bynnag, mae'r Gerdwenynen Lwydfrown ar gael yn fwy eang, ymhellach i'r mewnwrdd ac ar ddarnau llai o gynefin na'r Gerdwenynen Feinlais, gan y credir ei bod yn defnyddio dewis ehangach o blanhigion ac yn ymdopi'n gwell os oes darnio.⁵ Daw'r cofnodion mwyaf gogleddol o Barc Clytha yn Sir Fynwy ond mae'r rhain hefyd ymysg y cofnodion hynaf. Mae cofnodion mwy diweddar i ffwrdd o'r Gwastadeddau yn cynnwys Penallta yng Nghaerffili, Cyncoed, Kitty's Orchard yn Sir Fynwy a Springvale yn Nhorfaen. Mae'n bosibl fod y Gerdwenynen Lwydfrown yn fwy eang, a bod diffyg arbenigedd a gwaith arolygu yn cyfyngu ar gofnodion.

Dwysedd cofnodion y
Gerdwenynen Lwydfrown,
uchafswm 74 cofnod/km²




Cofnodion y Gerdwenynen
Lwydfrown yn ôl degawd



Gwarchodaeth: Daw tri-chwarter (75%) y cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd. Mae cofnodion SAC yn debygol o fod y rhai sy'n agos at fur y môr yn cynnwys SAC Aber yr Hafren a Brynbuga. Mae nifer lai o gofnodion o Warchodfa Natur Leol (LNR) a Llwyn Celyn, ac Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ym Mharc Gwledig Rogiet, The Minnetts a Melin Sudbrook.

Cofnodion y Gardwenynen Lwydfrown o safleoedd a warchodir



Infertebratau tomennydd glo

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Amrywiol (gweler islaw)

Data ar gael: Cymedol (3064 cofnod)

Cyd-destun: Mae tomennydd glo yn nodwedd unigryw yn nhirlun Cymoedd Gwent, a ffurfiwyd o'r deunydd gwastraff a adawyd ar ôl o'r gweithiau glo. Roedd rwbél glo yn aml yn cael eu gadael yn anniben ar ochrau cymoedd ac ar fryniau, wedi'i wneud

Green Tiger Beetle
(*Cicindela campestris*)



Andy Karran

yn domennydd o bob math a maint i greu'r tomennydd tomennydd glo sydd mor eiconig o Gymoedd De Cymru. Cafodd llawer o domennydd glo eu gadael ar ben eu hunain i aildyfu'n naturiol, a mae'r tomennydd hyn yn awr ymysg y cynefinoedd mwyaf bioamrywiol yn Maes Glo De Cymru.

Mae'r mosaig o wahanol gynefinoedd a thir moel yn neilltuol o werthfawr ar gyfer infertebratau, er fod tomennydd glo hefyd yn cefnogi amrywiaeth eang o blanhigion fasgwlwr, ffwng a chen.¹¹ Canfu arolygon diweddar o 15 tomen lo yng Nghymoedd De Cymru dros 900 o rywogaethau o infertebratau, 22% ohonynt yn flaenoriaethau ar gyfer cadwraeth.¹² Mae safleoedd unigol wedi cofnodi dros 100 o rywogaethau o ymlusgiaid.¹³

Mae'r adran hon yn defnyddio rhestr fer o infertebratau sy'n gyffredin ar domennydd glo (er eu bod ar gael hefyd mewn cynefinoedd lled-naturiol eraill). Caiff rhai rhywogaethau eu hystyried yn flaenoriaethau lleol yn y Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Ddwyrain Cymru¹⁴ neu cânt eu hystyried yn Rhywogaethau o Flaenoriaeth Cenedlaethol. Sampl fach iawn yw hyn o'r amrywiaeth cyfoethog o rywogaethau sydd ar gael ar domennydd glo – canfu arolygon a gynhaliwyd gan gynllun Bioamrywiaeth Rwbél Glo rywogaethau o 164 o wahanol i deuluoedd infertebratau, yn cynnwys 90 rhywogaeth o wenyn a 173 rhywogaeth o chwilod.¹² Mae'n amlwg fod nifer cofnodion yn gwro tuag at y grwpiau a gaiff eu cofnodi'n well; gloynnod byw a gweision y neidr. Caiff y Brith Perlog Bach, Gwibiwr Llwyd a'r Brith Fursen Dinlas Fach i gyd eu hystyried yn unigol mewn penodau eraill, lle dangosir eu dibyniaeth ar safleoedd tomennydd glo.

Rhywogaeth	Enw Cyffredin	SINC	Rhywogaeth Adran 7/ UKBAP	Nifer cofnodion Gwent Fwyaf
<i>Bembecia ichneumoniformis</i>	Cliradain Chwe Rhesen			35
<i>Boloria selene</i>	Brith Perlog Bach	✓	✓	514
<i>Bombus monticola</i>	Cacwn Llus			57
<i>Cicindela campestris</i>	Chwilen Teigr Gwyrdd			106
<i>Cordulegaster boltonii</i>	Gwas y Neidr Eurdorchog	✓		359
<i>Erynnis tages</i>	Gwibiwr Llwyd	✓	✓	573

<i>Hipparchia semele</i>	Iâr Fach y Graig	✓	✓	346
<i>Ischnura pumilio</i>	Mursen Dinlas Fach	✓		178
<i>Melanargia galathea</i>	Iâr Fach Gleisiog			707
<i>Myrmeleotettix maculatus</i>	Ceiliog y Rhedyn Brith	✓		86

Rhagolygon: Sefydlwyd rhaglen fawr o adfer tir yn y 1970au a'r 1980au i dynnu, ail-lunio a gwastatau llawer o'r hen domennydd glo. Mae hyn wedi gadael cymharol ychydig o domennydd gwreiddiol a'r rhai sydd yn parhau i gael eu bygwth gyda datblygu, symud, ecsbloetiad i'w defnyddio fel agreg ar gyfer adeiladu, 'adfer' anaddas neu ddim ond absenoldeb rheolaeth ¹² Yn ffodus mae'r ymgyrch i ostwng allyriadau carbon wedi dileu bygythiad alldynnu glo o'r safleoedd hyn. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn awr yn dweud na ddylid caniatáu cynigion ar gyfer gweithiau glo brig, datblygu pyllau dwfn neu waredu â sbwriel glo'¹⁵


Ynghyd â rhannau eraill o'r ucheldir, mae tomennydd glo yn fregus i droseddau tirwedd, yn cynnwys llosgi bwriadol, tipio anghyfreithlon a defnyddio cerbydau yn anghyfreithlon oddi ar y ffordd. Gall y rhain fod yn niweidiol tu hwnt i fioamrywiaeth, yn ogystal â chael effaith negyddol ar amwynder a hamdden.¹⁶ Mae rhaglenni amrywiol yn eu lle i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Mae ymwybyddiaeth o domennydd glo a'u pwysigrwydd ar gyfer infertebratau yn cynyddu, a chafodd hyn ei hybu gan y Cynllun Bioamrywiaeth Tomennydd Glo a gwaith Buglife ar safleoedd tir llwyd. Cafodd cynefinoedd mosaig agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, sy'n cynnwys tomennydd glo, eu gwneud yn Gynefin Blaenoriaeth UKBAP yn 2007 ac maent yn awr yn Gynefin S7 Cymru. Fodd bynnag, cymharol ychydig o safleoedd a gafodd eu harolygu'n drwyadl ar gyfer infertebratau, gan olygu eu bod yn llai tebygol o gael eu hadnabod a'u gwarchod.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Caiff y rhywogaethau hyn o infertebratau eu canfod ar draws Gwent Fwyaf, ond mae mwy ohonynt o fewn y cymoedd i ogledd-orllewin ardal yr astudiaeth, yn cyfateb i Fesurau Glo De Cymru. Dylid nodi mai ychydig iawn o arolygon wedi eu targedu o infertebratau a gynhaliwyd o fewn ardal yr astudiaeth (gwnaed y rhan fwyaf o waith y Cynllun Bioamrywiaeth Tomennydd Glo ymhellach i'r gorllewin). Mae canolfannau cofnodi yn cyfateb i safleoedd a warchodir tebyg i Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)/Gwarchodfa Natur Leol (LNR) Cwm Tawel ac Ardal Cadwraeth Arbennig(SAC)/Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Glaswelltir Aberbargoed, yn ogystal â safle Cynllun Monitro Gloïnnod Byw y Deyrnas Unedig Craig Ddu. Bu nifer fawr o gynigion datblygu ar gyfer yr ardal o amgylch y British a Chwm Blaenserchan, gan arwain at waith arolygu ychwanegol. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd gofnodion diweddar, efallai oherwydd y diddordeb cynyddol mewn safleoedd tomennydd glo.

Nid yw canolfannau amrywiaeth bob amser yn cael eu cysylltu gyda'r gwaith cofnodi mwyaf. Yr ardaloedd mwyaf amrywiol yw Llynnoedd Garn (gan ffurfio ardal helaeth gydag ardaloedd cyfagos Coety Tips a Canada Tips), y British a Chwm Blaenserchan ac ardal Rhyd y Blew i ogledd Glynebwy. Nid tomen lo yw Rhyd y Blew ond cyfres o lwyfannau gwneuthuredig sy'n rhannu llawer o nodweddion tomen lo, tebyg i ddaear foel a phylloedd bas. Mae ardaloedd amrywiol eraill (yn cynnwys safleoedd ôl-ddiwydiannol a tomennydd glo) yn **cynnwys** Ffos y Fran/Comin Gelligaer, Chwarel Cwmynyscoi, Parc Penallta/Cors Nelson, Aberbargoed, Caerwent, Chwarel Tyleg, Cwm Canolog a Chwm Tawel.



*Dwysedd infertebratau
tomennydd glo, set
uchafswm i $\geq 100/\text{km}^2$*




*Cofnodion infertebratau
tomennydd glo yn ôl
degawd*



*Amrywiaeth infertebratau
tomennydd glo*



Gwarchodaeth: Daw 60% o gofnodion safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o SAC/NNR Aberbargoed a Craig Ddu (o fewn SAC Ystlumod Brynbuga). Daw cofnodion SSSI o amrywiaeth o safleoedd yn cynnwys y Bloreys, Cwm Tawel, Llandegfedd, Glaswelltiroedd Penllwyn a Chors Nelson. Daw'r cofnodion SINC o nifer fawr o safleoedd, yn cynnwys y SINC ucheldir mawr sy'n gorchuddio llawer o ardal y cymoedd dwyreiniol.



*Cofnodion infertebratau
tomennydd glo o safleoedd a
warchodir*

Infertebratau dyfriol Gwastadeddau Gwent

Gwarchodaeth: Dim, er y rhoddwyd gwarchodaeth drwy ddynodiad SSSI.

Statws cadwraeth: Gweler islaw

Data Gwent Fwyaf sydd ar gael: Gwael

Cyd-destun: Mae Gwastadeddau Gwent yn dirlun hanesyddol, yn cynnwys amrywiaeth o ffosydd draeniad; mae tua 870 milltir o ffosydd ar draws yr holl Wastadeddau.¹⁷ Rhannwyd yr ardal yn saith SSSI a NNR Gwlypdir Casnewydd, a chânt eu rhannu gan SAC Afon Wysg a dinas Casnewydd a'u ffinio gan

SAC/SPA Aber yr Hafren. Mae SSSI Gwastadeddau Gwent yn enwog am amrywiaeth a'r rhywogaethau prin o blanhigion ac infertebratau yn y ffosydd draenio, yn ogystal â phresenoldeb y Gerdwenynen Feinlais. Mae Cors Magwyr hefyd wedi ei dynodi ar gyfer ei chynefin corstir a'i hadar bridio, ac mae Gwlypdir Casnewydd hefyd yn bwysig am adar.

Mae'r rhywogaethau prin o fewn ffosydd Gwastadeddau Gwent yn cynnwys yr *Odontomyia argentata*, Chwilen Ddŵr Arian Fawr (*Hydrophilus piceus*), Gwas y Neidr Blewog (*Brachytron pratense*), Mursen Las Amrywiol (*Coenagrion pulchellum*), Brigadydd Addurnol (*Odontomyia ornata*), *Physa heterostrophus* (malwen dŵr croyw), *Haliphus mucronatus* (chwilen ddŵr sy'n cropian) a *Hydraticus transversalis* (chwilen ddŵr).

Hyd ac amrywiaeth y rhwydwaith ffosydd sy'n rhoi cynifer o gyfleoedd ar gyfer gwahanol infertebratau; gall y ffosydd fod yn fas neu'n ddwfn, yn olau neu gysgodol, dŵr agored neu'n llawn planhigion. Mae rhaglen gynnal a chadw reolaidd o glirio, tynnu llaid a charthu ffosydd sy'n rhoi cylch parhaus o gamau olynol ar gyfer y gymuned dŵr croyw. Mae'r data yn yr adran hon yn grynodedig ac yn dangos y gwaith arolwg a gynhaliwyd rhwng 2009 a 2012 ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru i fonitro diddordeb infertebratau Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent, yn hytrach na chofnodion rhywogaethau unigol.^{18,19,20}

Mae'r tabl isod yn rhestru nifer y rhywogaethau o infertebratau dŵr croyw sydd o fewn pob SSSI:

SSSI	Nifer rhywogaethau dŵr croyw a gofnodwyd ar ddogfen yr SSSI	Nifer rhywogaethau a ganfuwyd gan yr arolwg ^{18,19,20}
Magwyr a Gwndy ^{17,21}	>300 (43 cenedlaethol brin a nodedig)	148 (12 cenedlaethol brin a nodedig*) mewn 49 ffos ddraenio a ffosydd mewn caeau
Rhymni a Llanbedr ^{22,23}	>164	
Nash a Goldcliff ^{24,25} (yn cynnwys rhan o Wlypdir Casnewydd)	>350	
Redwick a Llandefenni ^{26,27}	>200	101 rhywogaeth (8 cenedlaethol brin a nodedig*) mewn 24 ffos ddraenio
Sant y Brid ^{28,29}	>200	



Andy Karran

Whitson ^{30,31}	>400 (65 cenedlaethol brin a nodedig)	90 (8 cenedlaethol brin a nodedig*) mewn 24 ffos ddraenio
Cors Magwyr ³²	Ni roddir manylion, er bod yr infertebratau dyfriol sy'n bresennol yn nodwedd.	

*Rhestrwyd yn y Llyfr Data Coch neu Genedlaethol Brin

Rhagolygon: Mae adroddiadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru^{18,29,20} yn dweud fod amrywiaeth yng Ngwastadeddau Gwent yn gyffredinol isel o gymharu gyda ffosydd pori eraill mewn corsydd ym Mhrydain, tebyg i Wastadeddau Gwlad yr Haf. Er na wnaeth yr arolygon samplu pob ffos ddraenio, roedd cyfoeth cyffredinol rhywogaethau a niferoedd rhywogaethau prin a nodedig yn isel o gymharu gyda'r dogfennau SSSI. Credir yn gyffredinol fod 144 o infertebratau prin a nodedig yn y ffosydd draenio (nid yw'n glir o ble daeth y ffigur hwn yn wreiddiol), ond dim ond cyfanswm o 19 a ganfu'r arolygon. Cafodd rhai rhywogaethau eu hisraddio mewn fersiynau diweddar o'r Red Data Books,¹⁹ ond ni fyddai hyn yn rhoi cyfrif am yr holl rywogaethau coll.

Dengys yr adroddiadau fod y lefel isel yma o amrywiaeth ac ansawdd rhywogaethau yn rhan o ddirywiad parhaus ers y 1980au. Yr achos posibl mwyaf arwyddocaol yw gorfaethu o ddŵr ffo o ffermydd, gan arwain at lawer o linad y dŵr (*Lemna* spp.) ac algae. Mae hyn yn cysgodi'r tyfiant macroffyt dan y dŵr y mae llawer o rywogaethau yn bwydo arno. Yn ychwanegol, mae *Lemna* yn gwneud samplu'n anos a gall olygu na chaiff rhywogaethau eu cyfrif.^{28,19,20}

Ail ffactor yw amllder a math o glirio ffosydd. Gall gormod o glirio olygu bod llai o gynefinoedd cyfoethog mewn rhywogaethau, hwyr-olynol ar gael sy'n cymryd amser i ddatblygu. Gall ongl y glannau hefyd effeithio ar y dŵr bas sydd ar gael ar yr ymylon, y mae llawer o rywogaethau yn ei ffafrio^{18,19,20} I'r gwrthwyneb, gall diffyg gwaith cynnal a chadw ar ffosydd draenio hefyd arwain at ansawdd gwael cynefin, gyda gor-gysgodi neu laid hefyd yn cyfyngu ar fioamrywiaeth. Tirfeddianwyr unigol sy'n gyfrifol am reoli dros 85% o'r system ffosydd draenio a ffosydd,¹⁷ felly gall fod amrywiaeth enfawr mewn rheolaeth ffosydd draenio.

Mae'r pryderon hyn yn gyson gyda'r pwysau a wynebwr yn eang gan infertebratau dŵr ffres, yn arbennig golli cynefinoedd, ansawdd gwael cynefinoedd a llygredd. Mae gan gyrff dŵr llai, tebyg i byllau a ffosydd, lai o warchodaeth a rheoleiddio, ond maent yn fwy bregus i golledion, ac mae newid hinsawdd yn effeithio arnynt i raddfa fwy.²

Mae'r Bartneriaeth Gwastadeddau Byw yn gweithio ar hyn o bryd i adfer peth o'r rhwydwaith ffosydd, yn ogystal â gweithio gyda thirfeddianwyr a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y ffosydd draenio.³³


Cwmpas Gwent Fwyaf: Roedd arolygon Cefn Gwlad Cymru yn mesur cyfoeth rhywogaethau a Mynegai Ansawdd Rhywogaethau (SQI) sampl o ffosydd draenio ar draws Gwastadeddau Gwent. Caiff ansawdd rhywogaethau ei fesur gan system sgorio ar gyfer prinder, yn ôl methodoleg safonol a gynhyrchwyd gan Buglife.³³ Mae rhywogaethau cyffredin yn cael sgôr o 1, rhywogaethau Cenedlaethol Brin yn cael sgôr o 5 a rhywogaethau Rhestr Goch yn cael sgôr o 5. Caiff yr SQI ei gyfrif drwy rannu'r cyfanswm sgôr gan nifer y rhywogaethau a ganfyddir.

Yr uchafswm cyfoeth rhywogaethau ar gyfer unrhyw ffos ddraenio a arolygwyd yw 43, er y daw llawer o ffosydd draenio a ffosydd o fewn categorïau uwch cyfoeth rhywogaethau. Mae ffosydd


draenio gyda llai o gyfoeth rhywogaethau yn tueddu i fod ger ymylon yr SSSI. Mae hyn yn llawer is na'r cyfoeth rhywogaethau cyffredinol, gan ddangos y caiff y lefelau uchel o amrywiaeth ei ymestyn ledled y rhwydwaith ffosydd draenio.

O gymharu, ychydig iawn o ffosydd draenio sydd â sgôr SQI uchel. Dim ond pedair ffos ddraenio oedd â sgôr dros 1.5, gyda'r uchafswm yn 1.68. Dengys hyn mai mewn cymharol ychydig o ffosydd draenio y mae'r infertebratau prinnaf i'w cael. Mae'n sicr y bydd cyflwr ffosydd draenio unigol wedi newid ers y cynhaliwyd arolygon Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ond mae'n bwysig cofio er bod amrywiaeth cyffredinol wedi ei ledaenu ar draws Gwastadeddau Gwent, nid felly y rhywogaethau prin, ac mae'r elfennau hyn o gymysgedd a rhywogaethau unigol yn nodweddion allweddol o SSSI y Gwastadeddau.


Cyfoeth rhywogaethau ffosydd draenio a ffosydd a arolygwyd – Gwastadeddau Dwyreiniol




Mynegai Ansawdd Rhywogaethau ffosydd draenio a ffosydd a arolygwyd – Gwastadeddau Dwyreiniol



Cyfoeth rhywogaethau ffosydd draenio a ffosydd a arolygwyd – Gwastadeddau Gorllewinol



Mynegai Ansawdd Rhywogaethau ffosydd draenio a ffosydd a arolygwyd – Gwastadeddau Gorllewinol



Peillwyr

Gwarchodaeth: Dim

Statws Cadwraeth: Mae'r peillwyr a ystyriwyd yma yn Rhywogaethau Blaenoriaeth S7 Cymru ond ni chaiff pob peilliwr eu rhestru.

Data ar gael: Cymedrol (30,706 cofnod ar gyfer 101 rhywogaeth)

Cyd-destun: Mae peillwyr yn rhan sylfaenol o'n ecosystemau: caiff 87.5% o blanhigion blodeuol

gwyllt y byd a mwy na 75% o gnydau bwyd byd-eang eu peillio gan bryfed a phlanhigion eraill.³⁴ Roedd gwerth peillio fel cyfraniad at farchnad cnydau y Deyrnas Unedig yn £430 miliwn y flwyddyn (yn 2007).³⁵ Mae pryfed sy'n peillio yn cynnwys gwenyn (yn wenyn gwyllt a gwenyn mêl a gaiff eu hamaethu), cacwn, pryfed (yn arbennig bryfed hofran), gloënnod byw a gwyfynod. Mae'n bwysig nodi, er fod y wenynen fêl (*Apis mellifera*) yn beilliwr pwysig ar gyfer nifer o gnydau ac yn economaidd bwysig ar gyfer cwyr a chynnyrch mêl, mai dim ond un o tua 4,000 o rywogaethau pryfed sy'n peillio ydynt.³⁶ Dim ond gan rywogaethau arbenigol y caiff rhywogaethau o blanhigion eu peillio, tra bod cnydau eraill yn manteisio o gael eu peillio gan amrywiaeth ehangach o rywogaethau,³⁴ felly mae'n hanfodol bwysig cadw digonedd ac amrywiaeth o beillwyr.



Mae dirywiad peillwyr felly yn broblem ddifrifol iawn. Mae dangosydd Peillwyr y Deyrnas Unedig (yn seiliedig ar 377 rhywogaeth o wenyn a phryfed hofran) wedi gostwng gan 30% ers 1980, gyda bron hanner y rhywogaethau yn dod yn llai cyffredin yn yr hirdymor.⁶ O'r rhywogaethau hynny lle gellid cyfrif tueddiad hirdymor, mae 41% o wyfynod³⁷ a 47% o loënnod byw³⁸ wedi gostwng yn eu niferoedd ers canol y 1970au. Bu gostyngiad o 23% mewn gwenyn mêl yng Nghymru rhwng 1985 a 2005.⁷ Priodolir y dirywiad mewn niferoedd i bwysau lluosog: newid, colli a darnio cynefinoedd, rhywogaethau goresgynnol anfrodorol, agrogemegau a newid hinsawdd.⁷

Mae'r adran hon yn defnyddio'r rhywogaethau peillwyr a restrir ar restr Rhywogaethau Blaenoriaeth S7, gyda 101 ohonynt â chofnodion o fewn ardal yr astudiaeth. Mae tueddiad ar y rhestr S7 tuag at wyfynod a gloënnod byw, o gymharu gyda gwenyn, cacwn a phryfed hofran; gall hyn fod oherwydd diddordeb hanesyddol a'r data sydd ar gael, yn hytrach na bod llai o rywogaethau gwenyn, cacwn neu bryfed hofran yn dirywio neu mewn risg. Oherwydd maint y set data, dylid nodi nad yw'r adran hon yn cynnwys cofnodion o Loegr gan yr HBRC, GERC na NBN.

Rhagolygon: Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gadw peillwyr. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei gynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr (y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig) yn 2013.⁷ Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedair thema: polisi, llywodraethiant a thystiolaeth; cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig; poblogaethau iach o beillwyr; a chodi ymwybyddiaeth. Mae llwyddiannau yn deillio o'r cynllun gweithredu yn cynnwys sefydlu Tasglu Peillwyr Cymru a chynllun cenedlaethol Caru Gwenyn, a lansiwyd yn 2016.

Mae poblogaethau peillwyr bellach yn cael eu monitro'n fwy agos drwy Gynllun Monitro Peillwyr y Deyrnas Unedig a gaiff ei redeg gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y Deyrnas Unedig (UKCEH) a nifer fawr o gynlluniau cofnodi achlysurol ac wedi eu strwythuro drwy Gymdeithas Cofnodi Gwenyn,

Cacwn a Morgrug, Cadwraeth Gloŷnnod Byw (gweler mwy o fanylion yn yr adran Lepidoptera), Cadwraeth Cacwn, Buglife a Plantlife.


Yn fwy lleol, cafodd Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Peillwyr yn De Ddwyrain Cymru¹⁰ ei lansio yn 2015, ac enillodd wobrau. Roedd Sir Fynwy yn un o'r siroedd cyntaf i ennill statws Cyfeillgar i Wenyn ac mae Casnewydd yn gweithio ar hyn o bryd i ddod yn ddinas Gyfeillgar i Wenyn. Mae gwaith peillwyr wedi cynnwys awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn ogystal â chymdeithasau tai, ysgolion a grwpiau cymunedol yn gwneud gweithgareddau tebyg i blannu blodau gwyllt a rheoli cynefinoedd.

Mae gan gadwraeth peillwyr synergedd naturiol gyda chynlluniau cadwraeth eraill a gwaith ar ddolydd blodau gwyllt, ymylon ffyrdd, perllannau traddodiadol a mynwentydd, a bydd ffermio cyfeillgar i fywyd gwyllt i gyd yn fuddiol i beillwyr. Yn yr un modd, mae cadwraeth peillwyr yn debyg o wella cynefinoedd a chysylltedd ar gyfer rhywogaethau eraill. Mae'n debyg ei bod yn rhy gynnar dweud os yw'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol: ychydig o newid sydd ym mynegai peillwyr y Deyrnas Unedig yn y tymor byr, er fod mwy o rywogaethau yn cynyddu mewn dosbarthiad o gymharu â'r tueddiad hirdymor.⁶


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae peillwyr S7 ar gael yn eang, ond yn denau, ar draws Gwent Fwyaf, gyda llawer o gofnodion diweddar. Fodd bynnag, gyda nifer fawr o rywogaethau, mae amrywiad enfawr: mae gan 10 rhywogaeth lai na 5 cofnod o fewn 50 mlynedd, ac mae gan 8 rhywogaeth fwy na 1,000 cofnod. Y cyfartalog yw 304 cofnod, gyda'r rhywogaethau gwenyn a chacwn yn gyffredinol â llai o gofnodion na'r lepidoptera.

Mae patrwm 'pen pin' o ddwysedd cofnodion a chyfoeth rhywogaethau yn dangos tueddiad cofnodi, lle mae cofnodwyr arbenigol yn gwneud ymdrech sylweddol mewn rhai safleoedd. Mae weithiau safleoedd sy'n adnabyddus am eu hinfertebratau neu ddiddordeb cyffredinol, megis safle UKBMS Craig Ddu, NNR Gwlypdir Casnewydd a SSSI Fferm Pentwyn, ond gall tueddiad cofnodi hefyd ddangos gwaith cofnodi hirdymor yng ngerddi cofnodwyr. Hefyd dylid nodi'r diffyg cofnodion yng nghanol Sir Fynwy, sy'n adlewyrchu tueddiad cofnodi cyffredinol o fewn ardal yr astudiaeth ond sydd yn neilltuol o berthnasol gan mai yma mae'r rhan fwyaf o'r diwydiant amaethyddol lleol.



Dwysedd cofnodion
peillwyr S4, uchafswm
 ≤ 500 cofnod/km²



Cofnodion peillwyr S7
yn ôl degawd




*Cyfoeth rhywogaeth
peillwyr S7*



Gwarchodaeth: Daw 41% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o SSSI Gwastadeddau Gwent a NNR Gwlypdir Casnewydd. Mae safleoedd allweddol eraill yn cynnwys SAC Aberbargoed, SSSI Fferm Pentwyn, SSSI/LNR Cwm Tawel a SINC Cwm Blaenserchan. Fel gyda dosbarthiad cofnodion cyffredinol, mae cofnodion o safleoedd a warchodir yn debygol o fod â thueddiad tuag at safleoedd a ffafrir gan gofnodwyr.

Cofnodion peillwyr S7 o safleoedd a warchodir



Cardwenwynen Feinlais *Bombus Sylvorum* (Linnaeus, 1761)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Da (1,012 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Gardwenynen Feinlais yn un o'r cacwn prinnaf yng Nghymru a Lloegr. Yn hanesyddol, roeddent yn gymharol gyffredin ledled de Lloegr a llawr gwlad Cymru ond credir eu bod bellach wedi eu cyfyngu i ddim ond pedair ardal ynysig, tair ohonynt yn Ne Cymru. Ni chaiff y rhesymau am y

dirywiad sylweddol hwn mewn dosbarthiad eu deall yn llawn ond credir ei fod yn gysylltiedig â cholli a darnio cynefin.³⁹ Mae'r Gerdwenynen Feinlais angen mosaig helaeth o gynefinoedd cyfoethog mewn blodau ar gyfer porthi, yn agos at laswelltir twmpathog ar gyfer nythu, gan nad ydynt yn chwilio am fwyd ymhell o'u safleoedd nythu a chredir mai gallu gwasgaru isel sydd ganddynt. Mae cytrefau yn gymharol fach, gan cynnwys 50-70 o weithwyr a'u brenhines. Fel arfer mae'r Gerdwenynen Feinlais yn hedfan rhwng mis Mai a mis Medi.⁴⁰




Gabi Horup

Rhagolygon: Mae'r Gardwenynen Feinlais yn dal dan fygythiad o reoli anaddas ar gynefinoedd, datblygu a newidiadau mewn defnydd tir, ac mae angen gwaith cadwraeth tirlun i adfer poblogaethau. Hefyd mae diffyg data monitro yng Nghymru yn golygu ei bod yn anodd penderfynu ar dueddiadau poblogaeth. Credir fod poblogaeth Cardwenwynen Feinlais Gwent yn un o'r mwyaf sylweddol o'r pum poblogaeth sydd ar ôl. Credir mai poblogaethau Gwastadeddau Gwent sydd yn y risg uchaf o reolaeth anaddas, datblygu, defnydd plaladdwyr a digwyddiadau tywydd eithafol yn gysylltiedig gyda newid hinsawdd.³⁹ Drwy brosiectau newydd tebyg i Skills for Bees Cymru⁸ a phrosiectau presennol fel Pollinating the Levels,⁹ mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith arolygu a monitro tebyg i BeeWalk (cynllun monitro cenedlaethol safonol y Bumblebee Conservation Trust) a gwella faint o ddata sydd ar gael a rheoli safleoedd.


Oherwydd dirywiad sylfaenol mewn rhywogaethau, lluniwyd strategaeth cadwraeth 10-mlynedd (2020-2030) i Gymru a Lloegr gyda nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid. Nod y strategaeth yw atal mwy o golledion, cynyddu adnoddau a phoblogaethau cynefinoedd, gwella gwybodaeth a dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth.⁴¹ Yn ychwanegol, bydd camau gweithredu yn deillio o Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Peillwyr⁴² a'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Peillwyr yn Ne Ddwyrain Cymru¹⁰ hefyd yn cefnogi poblogaethau o'r Gerdwenynen Feinlais (gweler yr adran ar beillwyr).

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r Gerdwenynen Feinlais i'w cael ar draws de'r ardal astudiaeth ac mae cysylltiad cryf rhyngddynt â Gwastadeddau Gwent. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion yn rhai diweddar, gan mai dim ond yn 1988 y darganfu Mike Pavett y boblogaeth, ar ôl sylwi arnynt pan oedd yn cynnal arolygon ar Wastadeddau Gwent.⁴³ Canfu arolygon dilynol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cymru yn 2003 eu bod yn gyffredin yn rhannau canolog a gorllewinol Gwastadeddau Gwent, mor bell â chyrion Caerdydd, ac i'r mewndir hyd at gyrion Casnewydd, gyda rhai safleoedd yn cynnal dros 100 gweithiwr.⁴³ Canfu arolygon yn 2010 pa mor bell i'r dwyrain yr oedd poblogaeth fod y Gerdwenynen Feinlais i'w cael mor bell i'r dwyrain â Phorthysgewin ac i gyrion Cas-gwent, er mewn llai o nifer a heb fod mor bell i'r mewndir.⁴³




*Dwysedd cofnodion y
Gerdwenynen Feinlais,
uchafswm 58 cofnod/km²*

*Cofnodion y Gerdwenynen
Feinlais yn ôl degawd*



Gwarchodaeth: Daw 8% o gofnodion y Gardwenynen Feinlais o safleoedd a warchodir o fewn ardal Gwastadeddau Gwent: SAC Aber yr Hafren, NNR Gwlypdir Casnewydd a SSSI Gwastadeddau Gwent. Fel canlyniad i waith arolygu helaeth, ychwanegwyd y Gardwenynen Feinlais fel nodwedd sy'n cymhwyso ar chwech o wyth SSSI Gwastadeddau Gwent.⁴⁴

Cofnodion y Gardwenynen Feinlais o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Sánchez-Bayo F a Wyckhuys KA. 2019. Worldwide Decline of the Entomofauna: A Review of its Drivers. *Biological Conservation* 232: 8–27.
2. Macadam CR, Whitehouse A & Shardlow M. 2020. No Insectinction – How to Solve the Insect Declines Crisis. Buglife. The Invertebrate Conservation Trust, Peterborough.
3. Buglife. 2021. B-Lines – Insect Superhighways. Buglife. The Invertebrate Conservation Trust, Peterborough.
4. Brown-Banded Carder Bee. Bumblebee Conservation Trust: <https://www.bumblebeeconservation.org/ginger-yellow-bumblebees/brown-banded-carder-bee/> (accessed 17/05/2021).
5. Smith MN. 2011. The Status and Distribution of the Shrill Carder Bee *Bombus Sylvorum* on the Eastern Gwent Levels and within the Caerwent and Caldicot Areas of Gwent yn 2010. Adroddiad Gwyddoniaeth Contract Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhif 972. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
6. JNCC UK Biodiversity Indicators 2020 – Change in the Distribution of Pollinators 1980–2017. UKBI - D1c. Pollinating insects: <https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-d1c-pollinating-insects> (agorwyd 16/05/2021).
7. Llywodraeth Cymru. 2013. Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr. Llywodraeth Cymru (Tîm Bioamrywiaeth).
8. Skills for Bees. Bumblebee Conservation Trust: <https://www.bumblebeeconservation.org/skills-for-bees-cymru/> (agorwyd 16/05/21).
9. Pollinating the Levels. Living Levels: <https://www.livinglevels.org.uk/project-descriptions/2018/2/19/pollinating-the-levels> (agorwyd 2/5/2021).
10. TACP. 2015. Green Infrastructure Action Plan for Pollinators in South-east Wales. Report to Monmouthshire County Council on behalf of Monmouthshire County Council and Blaenau Gwent, Caerphilly and Torfaen County Borough Councils December 2015. TACP UK Ltd.
11. Olds L. diweddarwyd. Colliery Spoil Tips Biodiversity Briefing Paper. Colliery Spoil Biodiversity Initiative.
12. Olds L. 2019. Invertebrate Conservation Value of Colliery Spoil Habitats in South Wales. Colliery Spoil Biodiversity Initiative.
13. Lush MJ, Shepherd P, Kirby P, Lush CE a Griffiths R. 2016. Definition and Mapping of Open Mosaic Habitats on Previously Developed Land: Phase 2 Testing Methods and Developing the Habitat Inventory (WC0795). Defra, Natural England a Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
14. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2004. Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.
15. Llywodraeth Cymru. 2021. Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11).
16. TACP. 2015. Natural Resources Management Plan for South-East Wales Uplands. Report to Torfaen County Borough Council. Hydref 2015. TACP UK Ltd.
17. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Gwent Levels: Magor and Undy Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
18. Boyce DC. 2010. Monitoring Invertebrate Features on SSSIs: Aquatic Invertebrates on Gwent Levels: Whitson SSSI. Adroddiad Rhanbarthol Cyngor Cefn Gwlad Cymru rhif SEW/10/1. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor
19. Boyce DC. 2012. Monitoring Invertebrate Features on SSSIs: Aquatic Invertebrates on Gwent Levels: Redwick & Llandeenny SSSI, St Brides SSSI. Adroddiad Rhanbarthol Cyngor Cefn Gwlad Cymru rhif SEW/12/01. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor
20. Boyce DC. 2013. Monitoring Invertebrate Features on SSSIs: Aquatic Invertebrates on Gwent Levels: Magor and Undy SSSI, Nash and Goldcliff SSSI, Newport Wetlands SSSI, Rumney and

Peterstone SSSI. Adroddiad Rhanbarthol Cyngor Cefn Gwlad Cymru rhif CCW/SEW/13/3.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor

21. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 1989. Gwent Levels: Magor and Undy Site of Special Scientific Interest Citation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
22. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Gwent Levels: Rumney and Peterstone Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
23. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 1993. Gwent Levels: Rumney and Peterstone Site of Special Scientific Interest Citation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
24. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Gwent Levels: Nash and Goldcliff Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
25. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 1987. Gwent Levels: Nash and Goldcliff Site of Special Scientific Interest Citation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
26. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Gwent Levels: Redwick and Llandeenny Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
27. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 1989. Gwent Levels: Redwick and Llandeenny Site of Special Scientific Interest Citation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
28. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Gwent Levels: St Brides Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
29. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 1991. Gwent Levels: St Brides Site of Special Scientific Interest Citation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
30. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Gwent Levels: Whitson Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
31. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 1991. Gwent Levels: Whitson Site of Special Scientific Interest Citation. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
32. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Magor Marsh Site of Special Scientific Interest – Your Special Site and its Future. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
33. Targeted Natural Heritage Restoration. Living Levels: <https://www.livinglevels.org.uk/project-descriptions/2018/2/19/targeted-natural-heritage-restoration> (accessed 18/05/21).
34. IPBES. 2016. The Assessment Report of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services on Pollinators, Pollination and Food Production. S.G. Potts, V. L. Imperatriz-Fonseca, a H. T. Ngo (gol). Secretariat of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services, Bonn, Yr Almaen.
35. UK National Ecosystem Assessment (NEA). 2011. The UK national Ecosystem Assessment Technical Report. UNEP-WCMC, Caergrawnt.
36. Save the Bees (But Which Ones?) Buglife: <https://www.buglife.org.uk/blog/save-the-bees-but-which-ones/> (agorwyd 16/05/21).
37. Fox R, Dennis EB, Harrower CA, Blumgart D, Bell JR, Cook P, Davis AM, Evans-Hill LJ, Haynes F, Hill D, Isaac NJB, Parsons MS, Pocock MJO, Prescott T, Randle Z, Shortall CR, Tordoff GM, Tuson D a Bourn NAD. 2021. The State of Britain's Larger Moths 2021. Butterfly Conservation, Rothamsted Research and UK Centre for Ecology & Hydrology, Wareham, Dorset.
38. Fox R, Brereton TM, Asher J, August TA, Botham MS, Bourn NAD, Cruickshanks KL, Bulman CR, Ellis S, Harrower CA, Middlebrook I, Noble DG, Powney GD, Randle Z, Warren MS a Roy DB. 2015. The State of the UK's Butterflies 2015. Butterfly Conservation and the Centre for Ecology & Hydrology, Wareham, Dorset
39. Page S, Comont R, Lynch S and Wilkins V. 2019. Species Knowledge Review: Shrill Carder Bee *Bombus sylvarum* in England and Wales. Bumblebee Conservation Trust & Buglife.
40. Bumblebee Conservation Trust. 2017. The Shrill Carder Bee (taflen wybodaeth). Bumblebee Conservation Trust.

- ^{41.} Page S, Lynch S, Wilkins V and Cartwright B. 2020. A Conservation Strategy for the Shrill Carder Bee, *Bombus sylvarum*, in England and Wales 2020–2030. Bumblebee Conservation Trust.
- ^{42.} Llywodraeth Cymru. 2013. Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr, Llywodraeth Cymru (tîm bioamrywiaeth).
- ^{43.} Pavett PM. 2004. The Status of the Shrill Carder Bee *Bombus sylvarum* on the Gwent Levels. Adroddiad gwyddoniaeth contract rhif 623 Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cymru.
- ^{44.} Smith MN. 2011. The Status and Distribution of the Shrill Carder Bee *Bombus Sylvarum* on the Eastern Gwent Levels and within The Caerwent And Caldicot Areas of Gwent in 2010. Adroddiad contract gwyddoniaeth rhif 972 Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.

Planhigion Fasgwlar

Mae planhigion yn sylfaenol i bob agwedd o'n bywydau, o'r aer a anadlwn i'n bwyd, dillad, meddyginiaethau a mwy. Maent hefyd yn cefnogi'r mwyafrif helaeth o rywogaethau eraill, ac fel arfer dyma'r dull yr ydym yn dosbarthu, diffinio ac isrannu ecosystemau a chynefinoedd. Ac eto cânt eu diystyrru yn aml: yn fyd-eang, amcangyfrifir fod dau mewn pump planhigion dan fygythiad difodiant.¹ Dim ond 10% o blanhigion a gafodd eu hasesu'n ffurfiol ac mae'r asesiadau hyn yn dangos tueddiad sylweddol tuag at rywogaethau 'defnyddiol'. Mae rhai o'r teuluoedd planhigion mwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau, tebyg i'r *Asteraceae* ac *Orchidaceae* ymysg y rhai a gaiff eu tangynrychioli fwyaf ar y Rhestr Goch Fyd-eang.¹

Mae'n anodd crynhoi yr amrywiaeth planhigion sydd ar gael yng Ngwent Fwyaf. O ystyried ei bod yn 5 ardal cymharol fach, mae amrywiaeth enfawr o gynefinoedd (coetiroedd, dolydd, ucheldir, gwlypdir) ar amrywiaeth fawr o briddoedd, uchderau ac agweddau. Yng Ngwent Fwyaf mae un o'r coed hynaf yng Nghymru, Ywen Mamhilad (y credir ei bod rhwng 2,000 a 3,000 mlwydd oed a gyda chwmpas dros 35tr) ac un o blanhigion blodeuol lleiaf y byd, y Llinas Diwraidd (*Wolffia arrhiza*), sydd i'w gael yn ffosydd Gwastadeddau Gwent.

Mae gan Went ddwy ardal bwysig o ran planhigion (IPA). Caiff IPA Dyffryn Gwy, ar hyd y ffin gyda Lloegr, ei hadnabod am gyfoeth eithriadol planhigion fasgwlar mewn coetir llydanddail.³ Mae'r coetiroedd amrywiol hyn yn cefnogi poblogaethau o Genhinen Pedr frodorol Cymru (*Narcissus pseudonarcissus*), a Berwr Chwerw Culddail (*Cardamine impatiens*) prin, Clychys Ymledol a (*Campanula patula*) a Llaethlys Tyndyrn (*Euphorbia serrulate*). Mae creigiau IPA Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn i Gwent Fwyaf ac yn cynnwys Cwm Clydach, Pwlldu a sawl crib o'r Mynydd Du. Dynodwyd y creigiau ar gyfer y poblogaethau endemig o'r Gerddinen Wen (*Sorbus*) a'r Heboglys (*Hieracia*).⁴

Mae cofnodion planhigion yng Ngwent Fwyaf yn ddyledus iawn i waith Trevor Evans MBE, cyn gofnodydd sirol Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon (BSBI), a dreuliodd 20 mlynedd yn paratoi *Flora of Monmouthshire*⁵, atlas cynhwysfawr yn disgrifio dros 1,800 rhywogaeth sydd ar gael yng Ngwent. Mae'r gwaith anhygoel hwn yn parhau'n llyfr cyfeirio hanfodol ar gyfer pob botanegwr lleol. Mae Grŵp Botaneg Sir Fynwy, y grŵp BSBI lleol, yn weithgar ac yn trefnu cyfarfodydd maes rheolaidd. Mae cofnodwyr sirol lleol y BSBI hefyd yn paratoi Cofrestr Planhigion Prin, sy'n rhestru rhywogaethau prin lleol (≤ 3 safle mewn is-sir) a rhywogaethau anfyfych (≤ 10 safle mewn is-sir), yn ogystal â phlanhigion yr ystyrir eu bod dan fygythiad yng nghyd-destun Cymru neu Brydain Fawr. Mae Cofrestr Planhigion Prin is-sir 35 yn rhestru 283^{6*} rhywogaeth; mae cofrestr is-sir 41 yn cofrestru 302⁷ rhywogaeth.

Yn *Flora of Monmouthshire* mae Evans yn nodi llawer o'r newidiadau sy'n effeithio ar ddosbarthiad a niferoedd planhigion o fewn Gwent. Mae hyn yn cynnwys colli dolydd, gwrychoedd ac ymylon ffyrdd cyfoethog mewn rhywogaethau. Mae'n priodoli'r colledion mewn amrywiaeth planhigion, a'u heffaith ar rywogaethau eraill, i nifer o ffactorau yn cynnwys newidiadau mewn amaeth, yn arbennig ddefnydd plaladdwyr a chwynladdwyr, a cholli pentiroedd, draenio gwlypdiroedd, cyflwyno planhigion addurnol heb fod yn frodorol a gor-awydd am 'daclusrwydd'.⁵

Mae nifer o gynlluniau cofnodi ar gyfer planhigion. Bu'r BSBI yn casglu cofnodion ar blanhigion ers 1836 ac mae ar fin cyhoeddi'r trydydd *Atlas of British and Irish Flora*. Mae'r BSBI hefyd yn


cyfarwyddo arolygon wedi eu targedu, megis y Prosiect Planhigion dan Fygythiad, drwy eu haelodau leol.⁸ Er fod y casgliad presennol o gofnodion yn eithriadol, nid yw'n gallu penderfynu tueddiadau mewn niferoedd. I fynd i'r afael â hyn cafodd cynllun cofnodi newydd, Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion (NPMS), ei lansio gan BSBI, UKCEH, Plantlife a'r JNCC yn 2015.⁹

Mae'r NPMS yn seiliedig ar sgwariau 1km, a ddyrannwyd ar sail ar hap wedi ei bwysoli er mwyn cynrychioli gwahanol gynefinoedd ar draws y Deyrnas Unedig.⁹ Mae'r defnydd o fewn ardal yr astudiaeth yn dda iawn (96%), gyda dim ond un sgwâr heb ei fabwysiadu. Mae cynlluniau cofnodi planhigion eraill yn cynnwys y Great British Wildflower Hunt gan Plantlife, sy'n annog chwilio am rywogaethau neilltuol; Every Flower Counts (hefyd Plantlife), arolygu blodau gwyllt a pheillwyr ar lawntiau a'r BSBI Garden Wildflower Hunt, sy'n canolbwyntio ar flodau gwyllt mewn gerddi.

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i ddim ond pedair stori am blanhigion; blodau gwyllt âr (fel grŵp), y Clychlys Ymledol, y Tegeirian Llydanwyrdd Bach (*Platanthera bifolia*) a Thegeirian y Waun (*Anacamptis morio*). Er mai dim ond sampl fach o amrywiaeth gyfoethog y planhigion yng Ngwent Fwyaf yw hyn, y maent yn dangos y dirywiad enfawr mewn rhai rhywogaethau o blanhigion a'r bygythiadau parhaus a wynebant.

*daw'r ffigur hwn o restr 2007. Diweddarwyd hyn gan restr ¹⁰; gall union nifer y rhywogaethau fod wedi newid wrth i rywogaethau gael eu tynnu a'u hychwanegu.

Sgwariau NPMS o fewn ardal yr astudiaeth (pinc – wedi eu mabwysiadu, porffor, heb eu mabwysiadu)



Blodau Gwylt Âr

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws Cadwraeth: Amrywiol, gweler islaw

Data ar gael: Gwael (303 cofnod)

Cyd-destun: Y gyfres hon o blanhigion blynyddol, sy'n ffynnu ar darfu cyson, yw'r elfen unigol sydd dan fwyaf o fygythiad o fflora y Deyrnas Unedig. Mae'r rhywogaethau hyn yn nodweddiadol o gaeau â'r a thir arall a amaethwyd, gan rannu niche ecolegol

planhigion y cnydau y maent yn tyfu yn eu mysg.¹¹ Gan fod cysylltiad mor agos rhyngddynt ag arferion ffermio â'r traddodiadol, mae eu goroesiad yn dibynnu ar gadw amodau addas ar o leiaf rannau o rai ffermydd.

Credir fod llawer o'r rhywogaethau hyn yn gyflwyniadau hynafol, y daeth ffermwyr cynnar â nhw i Brydain gyda'r cnydau bwyd cyntaf. Mae mwy na 150 rhywogaeth o blanhigion yn y grŵp hwn ym Mhrydain,¹¹ ond oherwydd bod dosbarthiad rhywogaethau unigol yn dibynnu ar ddaear, math o bridd a hansawdd, efallai na fu llawer ohonynt yng Ngwent. Dangosir detholiad o rywogaethau perthnasol yn y tabl islaw.

Mae cyfuniad o ffactorau wedi arwain at ddirywiad blodau gwylt â'r. Efallai mai datblygu technegau mwy effeithiol o lanbau hadau oedd un o'r cyntaf i gael effaith, efallai'n dechrau fwy na chanrif yn ôl. Mae rhesymau eraill yn cynnwys y cynnydd sylweddol yn y defnyddwyr o wrteithiau a chwynladdwyr, newidiadau mewn math o gnydau (megis i india corn a hadau olew) a defnyddio mathau modern o gnydau.

Yn *Flora of Monmouthshire*, mae Evans yn dweud: 'Modern agricultural methods, notably the widespread use of herbicides on crops, has spelt the demise of most 'weeds' of arable land in Monmouthshire, as elsewhere in the UK. The modern practice of autumn sowing, rather than spring sowing of cereal crops, has led to the ploughing of stubble soon after harvest.'⁵

Yn hanesyddol, byddai llawer mwy o ffermydd da byw na heddiw wedi bod ag o leiaf ardal fach o dir â'r, a byddai ymylon y caeau wedi eu trin yn llai dwys. Mae caeau â'r bach yn brin erbyn hyn, gan fod naill wedi eu hymestyn drwy gael gwared â therfyn caeau neu eu troi yn dir pori.



Julian Woodman

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol	Rhestr Goch 2005 ¹³	Rhestr Goch Cymru 2007 ²⁶	Nifer cofnodion Gwent Fwyaf	Cofnod diwedd-araf
Gwlyddyn Glas	<i>Anagallis arvensis ssp foemina</i>	LC		2	1987
Llysiau Gwrid y tir â'r	<i>Anchusa arvensis</i>	LC		10	2016

Camri'r Ŷd ⁺	<i>Anthemis arvensis</i>	EN - (A2c)	EN	2	2010
Camri'r Cŵn	<i>Anthemis cotula</i>	VU - (A2c)	VU	55	2019
Crydwellt Bach	<i>Briza minor</i>	LC		4	2018
Pawrwellt Bach	<i>Bromus secalinus</i>	VU - (A2c)		13	2019
Glas yr Ŷd [*]	<i>Centaurea cyanus</i>	LC	CR	10	2019
Troed-yr-wydd Dail Masarn	<i>Chenopodium hybridum</i>	LC		6	2018
Triagl Arfog	<i>Erysimum cheiranthoides</i>	LC		8	2017
Corlaethlys	<i>Euphorbia exigua</i>	NT - A		14	2016
Llaethlys Llydanddail	<i>Euphorbia platyphyllos</i>	LC		1	1980–1994
Mwg y Ddaear Grymus	<i>Fumaria bastardii</i>	LC		1	2016
Y Benboeth Goch ⁺	<i>Galeopsis angustifolia</i>	CR (A2c)	CR	3	1999
Eurflodyn	<i>Glebionis segetum</i>	heb ei restru		21	2019
Llewyg yr Iâr	<i>Hyoscyamus niger</i>	heb ei restru		6	2003
Melynydd Moel ⁺	<i>Hypochaeris glabra</i>	VU - (A2c)		3	2004
Llysiau Llywelyn	<i>Kickxia elatine</i>	LC		46	2019
Llysiau Llywelyn Deilgrwn	<i>Kickxia spuria</i>	LC		8	2005
Marddanhadlen Goch Ddeilgron	<i>Lamium amplexicaule</i>	LC		1	2015
Pupurlus y Maes	<i>Lepidium campestre</i>	LC	VU	12	2014
Trwyn-y-Llo Lleiaf	<i>Misopates orontium</i>	VU - (A2c)		2	1988
Pabi Penwrychog	<i>Papaver argemone</i>	VU - (A2c)	EN	1	1992
Blodau Ymenyn yr Ŷd	<i>Ranunculus arvensis</i>	CR (A2c)	CR	5	1981
Dinodd Unflwydd	<i>Scleranthus annuus</i>	EN - (A2c)		1	2005
Briwllys y Tir Âr	<i>Stachys arvensis</i>	NT - A	VU	65	2019
Troed-y-Cyw Ymdaenol	<i>Torilis arvensis</i>	EN - (A2c)		1	1994
Trilliw	<i>Viola tricolor ssp tricolor</i>	NT - A	VU	2	2012

⁺Cofnodion heb eu dilysu

^{*}Anhawster yn gwahaniaethu rhwng poblogaethau gwyllt a phoblogaethau tir amaeth.

Rhagolygon: Mae cynlluniau amaeth-amgylchedd y gorffennol a'r presennol wedi cynnwys opsiynau sy'n ffafrio blodau gwyllt â'r drwy gefnogi amaethu ar ymylon caeau, cnydau grawn heb eu chwistrellu a sofl gaeaf. Fodd bynnag, ymddengys efallai na fu cymaint o ddefnydd o'r opsiynau hyn dan Glastir ag a oedd dan Tir Gofal, y rhaglen flaenorol. Bydd rhagolygon y dyfodol ar gyfer rhai o'r planhigion hyn yng Ngwent yn dibynnu ar fanylion y cynllun ffermio cynaliadwy sy'n cael ei llunio ar hyn o bryd.

Gellid disgwyl i ffermio organig roi rhai o'r amodau y mae blodau gwyllt â'r eu hangen drwy osgoi defnyddio chwynladdwyr a gwrteithiau artiffisial.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Cafodd cofnodion SEWBRc o'r 27 rhywogaeth a restrir yn y tabl eu dosbarthu'n eang ar draws Gwent ond gyda llai o'r gorllewin a'r gogledd, gan adlewyrchu tir uwch a diffyg cymharol tir ffermio â'r yno.

Fodd bynnag, o'r traean o'r mapiau islaw, sy'n dangos amrywiaeth cofnodion, gellir gweld mai ychydig iawn o sgwariau 1km (monadau) sydd â chofnodion o fwy na thri o'r rhywogaethau a restrir. Mae'r nifer fwyaf o sgwariau o'r fath yng ngogledd-ddwyrain Gwent lle mae sofl gaeaf yn dal ar gael, yn arbennig mewn gaeafau gwlyb pan mae'n anodd trin tir.

Soniodd Evans yn *Flora of Monmouthshire*, a gyhoeddwyd yn 2008, fod tri safle sy'n cefnogi Briwllys y Tir Âr a'r ddau rywogaeth o Lysiau Llywelyn: Kilpale ger Caerwent, Llantrisant yn Nyffryn Wysg a rhai caeau ceirch yn Hendre Ganol, i'r gorllewin o Drefynwy. (Fe wnaeth hefyd ganfod blodau gwyllt â'r prin eraill yn y caeau ceirch hyn). Mannau eraill lle mae cofnodion SEWBRc yn sôn am glystyrau o rywogaethau yw Rhiw Clytha, Llangofan, Llanddingad a Threowen. Mae nifer o gofnodion hyn yn Llanbradach yng ngorllewin Gwent a Dolydd Brockwells yn y de.


Mae'r mapiau'n dangos yr ymddengys fod canolfan ar y ffin gyda Swydd Gaerloyw, ond mae hyn mewn gwirionedd yn gamgymeriad yn deillio o briodoli cofnodion hyn amhenodol i ganol sgwariau. Mae cofnodion yr ymddengys eu bod o Aber yr Hafren yn ganlyniad cyfeiriadau grid anghywir.

Mae rhai amheuan am ddilysrwydd ychydig o gofnodion yn y tabl: ni chafodd y cofnodion ar gyfer y Benboeth Goch eu dilysu a gall rhai ar gyfer Glas yr Yd fod o blanhigion wedi eu trin.


Cyhoeddodd Plantlife adroddiad yn 2015¹² sy'n dynodi ardaloedd pwysig o ran planhigion â'r yn seiliedig ar sgwariau 2km (tetradau). Mae'r adroddiad yn defnyddio cofnodion o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys monitro blodau gwyllt â'r ar gyfer Tir Gofal rhwng 2009 a 2012. Canfuwyd fod gan is-sir Sir Fynwy lawer o detradau gyda chyd-ddigwyddiadau o dri o'r rhywogaethau a ddewiswyd yn yr adroddiad, a rhai gyda phump neu chwech. Fodd bynnag, mae'r rhywogaethau yma a ddetholwyd yn cynnwys Troellig yr Yd (*Spergula arvensis*) a Mintys yr Yd (*Mentha arvensis*), rhywogaethau sydd yn fwy cyffredin na'r rhai ar y rhestr uchod ac na chânt felly eu cyflwyno ynddo nac yn y mapiau yma. Ystyriwyd bod deg tetrad o bwysigrwydd cenedlaethol.


Y neges gref o adroddiad Plantlife oedd y byddai chwiliadau wedi eu targedu yn werth chweil yng Ngwent Fwyaf (is-sir Sir Fynwy a hefyd is-sir gyfagos Morgannwg). Gellir disgwyl i arolygon pellach ddatgelu presenoldeb rhai rhywogaethau o flodau gwyllt â'r lle cawsant eu cofnodi yn y gorffennol a rhai lleoliadau newydd.

*Dosbarthiad cofnodion
blodau gwyllt âr (uchafswm
16 cofnod/km²)*




*Cofnodion blodau
gwyllt âr yn ôl
degawd*





*Amrywiaeth cofnodion
blodau gwyllt âr gydag
ardaloedd pwysig ar
gyfer planhigion âr
(IAPA)¹²*

IAPA Pwysigrwydd Sirol
IAPA Pwysigrwydd
Cenedlaethol




Patrymau cynefin: Mae cymunedau a rhywogaethau blodau gwyllt â'r yn dangos teyrngarwch syndod o uchel i safleoedd neilltuol, yn gymaint felly y cafodd llawer o boblogaethau rhywogaethau prinnach eu cofnodi o gaeau neilltuol am ddegawdau neu hyd yn oed ganrifoedd.¹¹ Gall fod amrywiadau mawr mewn poblogaethau blodau gwyllt â'r o ran amrywiaeth rhywogaethau o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar systemau rheoli cnydau a'r hinsawdd.¹¹ Nid yw blodau gwyllt â'r o reidrwydd yn egino bob blwyddyn y caiff y tir ei amaethu a gall barhau'n segur a heb ei ganfod yng nghronfa hadau'r pridd am flynyddoedd lawer nes bod amodau yn addas.¹²

Tueddiadau poblogaeth: O'r 30 o rywogaethau planhigion fasgwlar a ddangosodd y dirywiad cymharol mwyaf ar draws Prydain rhwng cyfnodau cofnodi 1930–69 a 1987–99 yr *Atlas of British and Irish Flora*, mae 18 yn nodweddiadol o dir â'r a thir arall a gaiff ei amaethu.¹¹ Caiff y lefelau hyn o ddirywiad eu dangos gan yr asesiad o statws bygythiad fflora planhigion fasgwlar Prydain yn *Vascular Plant Red Data List for Great Britain*,¹³ a gyhoeddwyd yn 2006, ac arolygon atodol. Ni chaiff dim llai na 7 rhywogaeth eu hystyried fel bod wedi diflannu fel blodau gwyllt â'r ym Mhrydain (er y gallant ymddangos yn achlysurol weithiau), a chaiff 54 rhywogaeth arall eu hystyried fel bod dan fygythiad.¹¹

Gwarchodaeth: Nid yw'r rhan fwyaf o gofnodion o safleoedd a warchodir, fel y disgwyliid o natur y gynefin. Fodd bynnag, mae rhai cofnodion o SSSI yn cynnwys Gwastadeddau Gwent, Dolydd Cwm Llanwenarth a Dol Brockwells. Mae cofnodion SSSI sydd hefyd yn SAC yn cynnwys ychydig o Aber yr Hafren, yr Afon Wysg, Safleoedd Ystumod Brynbuga a Choetiroedd Dyffryn Gwy. (Mae'r rhai o Aber yr Hafren yn cynnwys rhai o fur y môr ond hefyd gyfeiriadau grid anghywir). Mae'r cofnodion NNR o Wlypdir Casnewydd.

Cofnodion Blodau Gwyllt â'r o safleoedd a warchodir



Tegeirian y Waun *Anacamptis morio* (L.) (R.M. Bateman, Pridgeon & M.W. Chase)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws Cadwraeth: DAN BETH BYGYTHIAD (DU)¹³

Data ar Gael: Gwael (162 cofnod)

Cyd-destun: Mae gan Degeirian y Waun sbigyn byr yn cario rhwng chwech a deuddeg o flodau. Maent fel arfer yn wahanol fathau o borffor, ond mae rhai blodau unigol hefyd gyda blodau pinc neu weithiau flodau gwyn. Mae gwythiennau gwyrdd neilltuol y sepalau ochrol yn neilltuol o glir yn y mathau goleuach. Mae'n blanhigion lluosflwydd sy'n atgynhyrchu drwy hadau.

Arferai'r rhywogaeth fod yn gyffredin ar lawr gwlad Cymru a Lloegr, gan fod yn fwyaf cyffredin yn ne a dwyrain Lloegr ac ardaloedd arfordirol Cymru. Bu dirywiad sylweddol iawn ynddo ers y 1950au fel canlyniad i welliannau amgylcheddol, ac anaml y canfyddir ef yn awr heblaw mewn glaswelltiroedd a gaiff eu rheoli ar gyfer cadwraeth natur neu leoedd eraill, tebyg i fynwentydd, lle nad oes rheolaeth ddwys. Fel arfer caiff ei ystyried fel dangosydd cryf o hen laswelltiroedd heb eu gwella'n amaethyddol.¹⁴



Andy Karran


Y mae, fodd bynnag, yn goddef ystod eang o gyflyrau pridd a systemau rheoli. Mae'r priddoedd lle'i canfyddir yn amrywio o sylfaen cyfoethog i sylfaen tlawd ac o sych i laith, tra bod rheolaeth yn amrywio o reolaeth caeau gwair traddodiadol i borfa. Gall planhigion barhau mewn cyflwr llystyfol am flynyddoedd lawer os caiff y fflurgeinciau eu tynnu drwy dorri gwair neu bori; maent maes o law yn blodeuo ac yn ffrwytho pan gaiff y pwysau hwn ei ryddhau.¹⁴

Rhagolygon: Er y bu gostyngiad enfawr ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig, gellid yn awr ystyried ei fod yn gymharol sefydlog. Mae hyn oherwydd fod llawer o'r poblogaethau sydd ar ôl i'w cael o fewn gwarchodfeydd natur neu laswelltiroedd eraill a gaiff eu rheoli'n benodol ar gyfer cadwraeth natur. Mae hyn yr un mor wir yng Gwent, lle mae nifer o boblogaethau, yn cynnwys y ddau fwyaf, yng ngofal Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Evans⁵ yn dyfynnu Wade¹⁵ a ddywedodd fod Tegeirian y Waun yn frodorol gyson ym mhob ardal. Ychwanegodd Evans nad yw hyn mwyach yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol (2007). Dywedodd ei fod wedi ei gyfyngu'n bennaf i ran dwyreiniol yr is-sir. Dengys y mapiau islaw fod hyn yn dal yn wir, ond gydag eithriad nodedig y tu allan i'r ardal honno yn Nhorfaen. Mae'r boblogaeth hon, a ganfuwyd yn 2015, ym Mlaenserchan ger Abersychan. Darganfuwyd poblogaeth newydd arall yn Nhyndyrn yn 2014.

Mae'r ddwy boblogaeth fwyaf, y ddwy gyda chynifer â 4,000 o sbigau blodau mewn blynyddoedd diweddar yng ngwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent yn Nolydd New Grove a Fferm Pentwyn.^{16,17} Mae canolfan arall ymhellach i'r de, yn ardal Caerwent, lle mae safleoedd yn cynnwys Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Dolydd Brockwells a dir a gaiff ei reoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Er fod nifer o boblogaethau yn yr ardal hon, mae niferoedd y planhigion unigol yn fach o gymharu gyda New Grove a Phentwyn.

*Dosbarthiad cofnodion
Tegeirian y Waun ar draws
Gwent Fwyaf (uchafswm 22
cofnod/km²)*



*Cofnodion Tegeirian y
Waun yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Mae arwyddion calonogol y gall y tegeirian hwn sefydlu, neu ail-sefydlu, mewn ymateb i reolaeth ffafriol. Gwelwyd niferoedd bach mewn caeau lle mae rheolaeth adferol yn agos at safleoedd sydd â phoblogaethau mawr, er enghraifft yng Nghomin Wysewood Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent, ger Fferm Pentwyn.¹⁷

Gwarchodaeth: Mae nifer o boblogaethau Gwent yn digwydd o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: Dolydd Brockwells; Dolydd Dinham; Dolydd Cobblers Plain, Devauden; Dolydd Lower Nex, Devauden a Glastiroedd Fferm Pentwyn, Penallt.^{18,6}

Mae Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Dolydd New Grove yn Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn ogystal â bod yn Ddôl Coroni Sir Fynwy. Gyda'i gilydd, mae safleoedd a warchodir (SSSI a SINC) yn cyfrif am 39% o gofnodion SEWBRc.

Yn ychwanegol, mae Tegeirian y Waun i'w chael yn Nol Wlyb Tryleg, sydd ar les i Grŵp Dolydd Sir Fynwy.¹⁹ Mae hefyd i'w gweld yn rhai o'r dolydd mewn perchnogaeth preifat a gaiff eu rheoli gan aelodau o'r grŵp.

Cofnodion Tegeirian y Waun o safleoedd a warchodir



Tegeirian Llydanwyrdd Bach *Platanthera bifolia* (L.) (Rich)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: Bregus (DU)¹³ Blaenoriaeth Adran 7 (Cymru)

Data ar gael: Gwael (18 cofnod)

Cyd-destun: Mae'r Tegeirian Llydanwyrdd Bach yn blanhigyn lluosflwydd oes hir gyda sbigyn tal o flodau gwyn. Mae i'w gael mewn ystod eang o gynefinoedd, yn cynnwys coetiroedd, rhostir, glaswelltir a hyd yn oed rai gwlypdiroedd tebyg i gyforgorsydd a chorsydd.²⁰ Er hyn bu dirywiad hirdymor ynddynt ers y 1930au: cafodd y Tegeirian Llydanwyrdd Bach ei golli o tua 75% o'i gwmpas blaenorol yn Lloegr.²⁰ Credir bod y gostyngiad oherwydd newidiadau cynefin tebyg i orgysgodi, gwella amaethyddol ac ymlediad prysgwydd.




Andy Karran

Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i ddirywio.¹³ Mae Evans yn disgrifio'r dirywiad yng Ngwent fel 'remarkable', O gael ei ddisgrifio fel 'locally frequent' yn y 1970,⁵ mae poblogaeth Gwent yn awr wedi ei cyfyngu i un safle^{5,10} a chaiff ei ddosbarthu fel 'Prin yn Lleol' yn VC35.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond mewn un safle mae'r Tegeirian Llydanwyrdd Bach ar gael ar hyn o bryd – Planhigfa Hardwick/Slade Wood; er fod cofnodion o'r 1970au o tu fewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac o'r 1990au yn Swydd Gaerloyw, yn agos at y ffin.

Os ystyrir cofnodion hanesyddol, roedd y boblogaeth yn arfer bod ar hyd y ffin gyda Lloegr ac ar draws rhan ddeheuol Sir Fynwy.

*Cofnodion Tegeirian
Llydanwyrdd Bach yng
Ngwent Fwyaf (uchafswm
dwysedd 15 cofnod /km²)*



*Cofnodion Tegeirian
Llydanwyrdd Bach yn ôl
degawd, yn cynnwys
cofnodion hanesyddol*



Tueddiadau poblogaeth: Os ystyrir cofnodion hanesyddol (37 cofnod ychwanegol yn dyddio'n ôl mor bell â 1850) cafodd cynifer â 23 monad eu defnyddio ar ryw adeg. Daw'r unig gofnodion o'r degawd diwethaf o Blanhigfa Hardwick/Slade Wood, er fod y diweddaraf o 2011.

Gwarchodaeth: Nid yw Planhigfa Hardwick/Slade Wood yn safle a warchodir, na chwaith y lleoliadau o fewn Bannau Brycheiniog gyda chofnodion hŷn. Pe canfyddid y Degeirian Lydanwyrdd Bach mewn unrhyw safle, yna dylai hyn gael ei ystyried yn awtomatig ar gyfer statws Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC),²¹ er ei bod yn anodd penderfynu hyn os nad yw planhigion yn blodeuo'n rheolaidd.

Clychllys Ymledol *Campanula patula* (L.)

Gwarchodaeth: Dim

Statws cadwraeth: MEWN PERYGL (DU)¹³ MEWN PERYGL DYBRYD (Cymru) ¹⁰ Blaenoriaeth Adran 7 (Cymru)

Data ar gael: Gwael (20 cofnod)


Cyd-destun: Mae'r Clychllys Ymledol yn blanhigyn dwy-flynyddol gyda blodau porffor-glas siâp seren. Mae i'w gael ar lannau ac ymylon heulog yn arbennig yn ymyl coetiroed agored neu ymylon coetiroedd. Gall yr had fyw'n hir iawn ond mae angen ymyrraeth i egino.²² Credir y bu poblogaeth y Deyrnas Unedig yn gostwng ers dechrau'r 1800au²³ ac mae wedi ei gyfyngu i'r Gororau yng Nghymru a'r West Midlands yn Lloegr.²² Caiff ei ddosbarthu fel bod Mewn Perygl oherwydd y nifer isel o blanhigion sy'n parhau: amcangyfrifwyd mai dim ond 330 planhigyn oedd y boblogaeth yn 2005.¹³





Rhagolygon: Oherwydd y dirywiad hanesyddol a'r nifer isel iawn o blanhigion, ymddengys fod dirywiad parhaus a diflaniad maes o law o Went Fwyaf yn debygol, gan fod y Clychllys Ymledol wedi ei gyfyngu i un safle a dim ond dau blanhigyn. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn awgrymu fod rhai poblogaethau yn annhebyg o adfer heb blannu ategol neu ail-gyflwyno.²³ Cafodd prosiectau diweddar yn Swydd Gaerloyw yn 2016²⁴ a Swydd Henffordd yn 2019²⁵ rywfaint o lwyddiant.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae Gwent Fwyaf ar ymyl de-orllewinol cwmpas Clychllys Ymledol y Deyrnas Unedig. Mae'r clwstwr mwyaf o gofnodion o amgylch Gwarchodfa Natur Genedlaethol Fiddler's Elbow, a choetiroedd llai i'r dwyrain ohoni. Mae clwstwr llai o gofnodion yn Lydyart, i dde Trefynwy. Mae nifer o gofnodion ynysig ymhellach i'r de a'r gorllewin, ond mae'r rhain o gyfeiriadau grid a allai fod yn anghywir.

*Cofnodion Clychllys Ymledol
yng Ngwent Fwyaf
(uchafswm dwysedd 10
cofnod /km²)*



*Cofnodion Clychllys Ymledol
yn ôl degawd, yn cynnwys
cofnodion hanesyddol (cyn
1970)*




Tueddiadau poblogaeth: Os ystyrir cofnodion hanesyddol (18 cofnod ychwanegol yn mynd yn ôl mor bell â 1850), cafodd cynifer â 19 monad eu defnyddio ar ryw adeg, yn bennaf ar hyd y ffin gyda Lloegr. Dim ond deg monad sydd â chofnodion ar ôl 1970, a dim ond 1 cofnod o'r degawd diwethaf. Mae Evans⁵ yn sôn am ddirywiad mwy diweddar, gan ddweud 'even the 8 tetrads of 1990 are now down to 3 tetrads, with only 1 plant in one of those sites'.

Er y bu poblogaeth o fwy na 100 planhigyn yn Lydart unwaith,¹⁰ ymddengys yn debyg fod y boblogaeth yn awr wedi ei chyfyngu i un safle ger Fiddler's Elbow, lle gwelwyd dau blanhigyn yn 2018.

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 10% o'r cofnodion (2 gofnod) o fewn SAC Coetiroedd Dyffryn Gwy a NNR Fiddler's Elbow. Mae'n debyg fod hyn yn amcangyfrif rhy isel o warchodaeth, gan fod llawer o'r cofnodion mwy diweddar yn agos at SINC coetiroedd tebyg i High Meadows Wood, Reddings Enclosure a Lydart Orles Wood, a ddynodwyd ar gyfer eu statws Coetir Hynafol. Dylai unrhyw safle gyda Chlychlys Ymledol gael ei ystyried yn awtomatig i gael ei dethol fel Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC).²¹

Cofnodion Clychlys Ymledol o safleoedd a warchodir.



Cyfeiriadau:

1. Antonelli A, Fry C, Smith RJ, Simmonds MSJ, Kersey PJ, Pritchard HW (gol.). 2020. State of the World's Plants and Fungi 2020. Royal Botanic Gardens, Kew. <https://doi.org/10.34885/172>
2. Evans T. 2007. The Churchyard Yews of Gwent: <https://www.ancient-yew.org/mi.php/the-churchyard-yews-of-gwent/94>
3. Plantlife, Wye Valley IPA: <https://www.plantlife.org.uk/uk/nature-reserves-important-plant-areas/important-plant-areas/wye-valley>
4. Plantlife, Brecon Beacons National Park IPA: <https://www.plantlife.org.uk/uk/nature-reserves-important-plant-areas/important-plant-areas/cliffs-brecon-beacons-national-park>
5. Evans T. 2007. Flora of Monmouthshire. The Chepstow Society.
6. BSBI. 2007. VC35 Monmouthshire Rare Plant Register Checklist: <https://database.bsbi.org/object.php?objectid=2cd4p9h.dnr59a&class=ChecklistInstance>
7. BSBI. 2013. VC41 Glamorgan Rare Plant Register checklist (draft): <https://database.bsbi.org/object.php?objectid=2cd4p9h.dnr59h&class=ChecklistInstance>
8. BSBI. Threatened Plants Project: <https://bsbi.org/threatened-plants-project> (agorwyd 05/05/2021).
9. Pescott OL, Walker KJ, Harris F, New H, Cheffings CM, Newton N et al. 2019. The Design, Launch and Assessment of a New Volunteer-Based Plant Monitoring Scheme for the United Kingdom'. PLoS ONE 14(4): e0215891.
10. Tyler SJ & Wood E. 2019. Monmouthshire County Rare Plant Register. BSBI a Cyfoeth Naturiol Cymru.
11. Byfield AJ & Wilson PJ. 2005. Important Arable Plant Areas: Identifying Priority Sites for Arable Plant Conservation in the United Kingdom. Plantlife International, Salisbury.
12. Shellswell CH. 2015. Wales' Important Arable Plants. Plantlife, Salisbury.
13. Cheffings CM & Farrell L (gol.), Dines TD, Jones RA, Leach SJ, McKean DR, Pearman DA, Preston CD, Rumsey FJ, Taylor I. 2005. The Vascular Plant Red Data List for Great Britain. (Species Status no. 7): 1–116. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
14. Chatters C. Species account in Stewart A, Pearman DA, Preston CD. 1994. Scarce Plants in Britain. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
15. Wade AE. 1970. The Flora of Monmouthshire. Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.
16. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent: <https://www.gwentwildlife.org>
17. Green T. Cyfathrebiad personol.
18. Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://cyfoethnaturiol.cymru>
19. Monmouthshire Meadows Group: <https://monmouthshiremeadows.org.uk>
20. Species Fact Sheet: Lesser Butterfly-Orchid. Natural England and Plantlife, Salisbury.
21. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2004. Guidelines for the Selection of Wildlife Sites in South Wales. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.
22. Spreading Bellflower. Plantlife, Salisbury: https://www.plantlife.org.uk/application/files/2614/7913/4133/Brief20sheet20-20Spreading20bellflower20briefing_sheet.pdf
23. Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru: <https://botanicgarden.wales/science/saving-plants-and-fungi/conserving-welsh-plants-and-habitats/spreading-bellflower-campanula-patula/> (agorwyd 22/06/2020).
24. https://plantlife.love-wildflowers.org.uk/about_us/blog/rare-spreading-bellflower?display=one (agorwyd 22/06/2020).

- ^{25.} <https://www.ledburyreporter.co.uk/news/17834231.rare-blooms-frith/>(agorwyd 22/06/2020).
- ^{26.} Dines T. 2007. A Vascular Plant Red Data List for Wales. Plantlife Wales.

Ffyngau

Credir bod o leiaf 12,000 rhywogaeth o ffyngau ym Mhrydain (yn cynnwys ffyngau cennog), gyda rhywogaethau newydd yn cael eu hychwanegu bob blwyddyn.¹ Fodd bynnag, mae ffyngau ymysg y rhannau o'n bioamrywiaeth y deallir lleiaf amdanynt, ac mae llawer mwy i ddysgu am ecoleg, amrywiaeth a chadwraeth ffyngau.² Byddai'r rhan fwyaf o ecosystemau y byd yn chwalu heb ffyngau; hwy yn aml yw'r dadelfenyddion sylfaenol ac maent yn ffurfio cysylltiadau mycorhisol cadarnhaol gyda bron pob planhigyn. Mae ffyngau yn ffynhonnell bwyd ar gyfer llawer o rywogaethau ac yn galluogi rhywogaethau eraill i fwydo ar fater sy'n pydru drwy ei dorri i lawr.

Caiff ffyngau eu tyfu'n eang neu eu casglu o'r gwyllt fel bwyd ac maent hefyd yn werthfawr wrth gynhyrchu bwydydd fel bara, caws a hyd yn oed siocled. Mae llawer o gyffuriau fferyllol pwysig yn deillio o ffyngau, yn cynnwys penicillin, seiclosporin a statinau.²

Ar y llaw arall, ffyngau yw'r pahgenau mwyaf sylweddol ar gyfer planhigion gan gynnwys *Magnaporthe oryzae*, clefyd reis ffyngaidd pwysicaf y byd, *Ophiostoma novo-ulmi*, clefyd llwyfen yr Iseldiroedd, a *Hymenoscyphus fraxineus*, ffwng lladdwr yr Ynn.³

Mae bylchau sylweddol yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o ffyngau. Maent yn anodd eu cofnodi, gan efallai nad yw cyrff ffrwytho, prif ffynhonnell cofnodion, yn ymddangos yn yr un lle, neu'n ymddangos bob blwyddyn, ac weithiau dim ond am ychydig ddyddiau y maent yn bodoli. Dim ond drwy ficrosgopeg y gellir adnabod rhywogaethau eraill, tyfu neu hyd yn oed deipio DNA. I ychwanegu at hyn, cydnabyddir fod prinder sgiliau mewn tacsonomeg, yn arbennig ar gyfer ffyngau.⁴ Hyd yn ddiweddar dim ond tri rhywogaeth o ffwng oedd ar Restr Goch fyd-eang IUCN, o gymharu â bron 20,000 o blanhigion. Mae Cynllun Rhestr Goch Ffyngau Fyd-eang sy'n ceisio mynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd hwn, ac mae bellach dros 200 ffwng ar y Rhestr Goch, gyda channoedd eraill yn cael eu hasesu.

Ystyrir fod gan Cymru amrywiaeth ryfeddol o ffyngau,⁴ ac mae 27 rhywogaeth o ffwng ar restr Adran 7 Cymru a 58 o Ardaloedd Pwysig o ran Ffyngau (IFA) arfaethedig.¹ Mae gan Gwent Fwyaf ddwy IFA: Cwm Clydach ar gyfer poblogaethau o rywogaethau prin a chynefin coetiroedd eithriadol (300 rhywogaeth wedi eu cofnodi); a Garn Ddyrys (y Blorens), ar gyfer cynefin glaswelltir eithriadol (50 rhywogaeth). Mae Mynydd Llangatwg, ychydig tu allan i ardal yr astudiaeth, hefyd yn IFA. Mae Grŵp Ffyngau Gwent yn cynnal cofnodion ffyngau (a pheth casglu).

Dylid nodi y methodd y prosiect gael caniatâd i ddefnyddio rhai o gofnodion ffyngau yr NCN, felly gall fod cofnodion ychwanegol ar gyfer ffyngau.

Ffwng Pren Marw Ffawydd

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: amrywiol, gweler islaw

Data ar gael: gwael (45 cofnod)

Cyd-destun: Mae Ffyngau Pren Marw yn elfen allweddol o ecosystemau coetiroedd, a chaiff ffyngau pren marw coetiroedd Ffawydd eu hystyried yn rhyngwladol bwysig.⁶ Mae amrywiaeth uchel o ffyngau pren marw yn fwy tebygol mewn coetiroedd hŷn, yn ogystal â thir parc a thir pori mewn coedwigoedd, gyda pharhad hir o strwythur oedran anwastad.⁷ Mae'r adran hon yn defnyddio'r rhestr o rywogaethau dangosydd SSSI ar gyfer casgliadau Ffyngau Pren Marw Ffawydd.⁶ Er fod 30 rhywogaeth o ascomysetau (ffyngau coden), ffyngau tagello, ffyngau poroid ac eraill ar y rhestr, dim ond 10 ohonynt a ganfuwyd o fewn ardal yr astudiaeth. Ychydig iawn o Ffyngau Pren Marw Ffawydd a ganfuwyd yng Nghymru i gyd, a chredir fod y casgliad hwn, fel Ffawydd brodorol, ar ymyl ei gwmpas yng Ngwent ac felly yn dlawd o gymharu gyda de-ddwyrain Prydain. Serch hynny, mae presenoldeb dau rywogaeth o genws prin *Hericium* yn awgrymu'n cryf fod rhai safleoedd yng Ngwent yn arwyddocaol ar gyfer Ffyngau Pren Marw Ffawydd.

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin	Nifer cofnodion	Cofnod ddiweddaraf	Coch
<i>Camarops polysperma</i>	Talp Côt Tar	3	1998	NT
<i>Ceriporiopsis gilvescens</i>	Cramen Binc	2	2012	
<i>Corioloropsis gallica</i>	Ysgwydd Winau	1	1982	
<i>Eutypa spinosa</i>	Crawen Coltar Bigog	22	2010	
<i>Ganoderma pfeifferi</i>	Ysgwydd Gwrog	4	2017	
<i>Hericium cirrhatum</i>	Pigau Haenog	9	2019	VU*
<i>Hericium coralloides</i>	Pigau Cwrel	1	1973	NT
<i>Inonotus cuticularis</i>	Ysgwydd Clystyrog	1	2006	


<i>Phleogena faginea</i>	Coesyn Pengrwg Rhisglog	1	2019	
<i>Volvariella bombycina</i>	Tagell Rosliw Sidanaidd	1	1999	

*Heb ei nodi ar restr Data Coch 2006, ond wedi'io nodi fel Bregus ar restr 1992, fel y nodwyd yn Ainsworth 2004⁷


Rhagolygon: Mae'n anodd rhagweld beth sy'n digwydd i Ffyngau Prenmfarw Ffawydd, oherwydd diffyg data. Tan yn ddiweddar, roedd pren marw yn aml yn cael ei dynnu o goedwigoedd a gaiff eu rheoli oherwydd camsyniad y byddai hyn yn gwella iechyd coed, neu ddim ond i fod yn 'daclus'.¹⁰ Yn awr, mae Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig yn cynnwys canllawiau i gadw a rheoli hen goed a gadael cyfran o bren marw sy'n dal i sefyll a hefyd wedi cwmpo.¹¹ Fodd bynnag, yn naturiol bydd yn cymryd amser maith i ailstocio amrywiaeth o oedrannau a mathau o goed marw. Ar hyn o bryd, credir fod 82% o goetiroedd brodorol Cymru mewn cyflwr anffafriol ar gyfer cyfaint pren marw.¹² Mae'r un peth yn wir am y rhan fwyaf o dir parc yng Ngwent, gyda thirfeddianwyr taclus yn symud coed tirlun sydd wedi marw neu ar farw, yn aml fel ffynhonnell barod o goed tân. Heb newid mewn arweiniad ar gyfer rheolwyr tir preifat, nid yw'r rhagolygon ar gyfer ffyngau Ffawydd mewn tir parc yn addawol.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Cafodd cofnodion y mathau prin hyn o ffyngau eu gwasgaru'n denau iawn ar draws Gwent Fwyaf. Gall hyn fod oherwydd diffyg arolygu ac ymwybyddiaeth o ymddangosiad y rhan fwyaf o rywogaethau, yn hytrach nag absenoldeb gwirioneddol. Mae Cwm Tawel a Chwm Clydach yn sefyll allan fel safleoedd gyda dau o'r rhywogaethau hyn, a Chwm Tawel sydd â'r nifer fwyaf o gofnodion, ond nid oes gan y naill safle na'r llall gofnodion o fewn y degawd diwethaf. Mewn gwirionedd, allan o 27 sgwâr o fewn ardal yr astudiaeth, dim ond 10 sydd â chofnodion o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae safleoedd eraill gyda chofnodion lluosog yn cynnwys Parc Tredegar, Coed Beaulieu a Priory Grove, St Mary's Vale a Choed Gwent, ond dim ond ar gyfer un rhywogaeth mae'r rhain. Mae mycolegwyr lleol yn awgrymu fod safleoedd eraill yn debygol o gefnogi Ffyngau Pren Marw Ffawydd, tebyg i Reddings Enclosure, na chânt eu dangos yn y cofnodion cyfredol.



*Dwysedd Cofnodion Pren
Marw Ffawydd (uchafswm
5/km²)*



*Ffyngau Pren Marw
Ffawydd yn ôl degawd*




*Amrywiaeth Cofnodion
Ffyngau Pren Marw Ffawydd*



Gwarchodaeth: Dim ond 22% o gofnodion a ddaw o safleoedd a warchodir, sy'n annisgwyl gan y byddai'r ffyngau hyn yn nodweddiadol o goetiroedd hŷn. Cafodd yr holl goetiroedd hynafol lled-naturiol yng Ngwent Fwyaf eu dynodi fel o leiaf SINC, felly gallai fod cofnodion yn dod tu allan i'r safleoedd a warchodir oherwydd canoli cyfeiriadau grid, yn arbennig ar gyfer cofnodion hŷn gyda lleoliadau llai cywir. Mae cofnodion o safleoedd a warchodir yn cynnwys NNR Cwm Clydach, SSSI/LNR Cwm Tawel a SINC yng Nghefn Onn, Coetiroedd Ruperra, Bargain Wood a Chaerwent.

Cofnodion Ffyngau Pren Marw Ffawydd ar safleoedd a warchodir



Ffyngau Pren Marw Derw

Gwarchodaeth: dim

Statws Cadwraeth: amrywiol, gweler islaw

Data ar gael: cymedrol (211 cofnod)


Cyd-destun: Mae ffyngau pren marw yn elfen allweddol o ecosystemau coetiroedd, ac ystyrir bod ffyngau coetiroedd derw ym Mhrydain yn rhyngwladol bwysig.⁶ Mae amrywiaeth uchel o ffyngau pren marw yn fwy tebygol mewn coetiroedd hŷn, yn ogystal â thir parc a thir pori coediog, gyda pharhad hir o strwythur oedran anwastad. Mae'r adran hon yn defnyddio'r rhestr o rywogaethau dangosydd SSSI ar gyfer casgliadau Ffyngau Pren Marw Derw.⁶ Mae'r rhestr yn cynnwys 16 rhywogaeth, a chanfuwyd 12 ohonynt o fewn ardal yr astudiaeth.

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin	Nifer cofnodion	Cofnod ddiweddaraf	Statws Rhestr Goch ⁸
<i>Daedalea quercina</i>	Tagell Ddryslyd Dderw	22	2017	
<i>Fistulina hepatica</i>	Tafod Bustach	23	2017	
<i>Ganoderma lucidum</i>	Ysgwydd gloyw	4	2010	
<i>Ganoderma resinaceum</i>	Ffwng ysgwydd	5	2017	
<i>Grifola frondosa</i>	lâr y Coed	7	2016	
<i>Gymnopus fusipes</i>	Coedwyn Gwerthyd	10	1973	
<i>Hymenochaete rubiginosa</i>	Crawen Derw	27	2019	
<i>Laetiporus sulphureus</i>	Ysgwydd Felen	56	2019	
<i>Mycena inclinata</i>	Bonet Glystyrog	16	2019	
<i>Piptoporus quercinus</i>	Ysgwydd y Dderwen	6	2009	EN,

				Section 7
<i>Podoscypha multizonata</i>	Roset Cylchog	3	2019	
<i>Pseudoinotus dryadeus</i>	Ysgwydd Derw	12	2017	


Rhagolygon: Mae'n anodd rhagweld beth sy'n digwydd i Ffyngau Pren Marw Derw oherwydd diffyg data. Tan yn ddiweddar, roedd pren marw yn aml yn cael ei dynnu o goedwigoedd a gaiff eu rheoli oherwydd camsyniad y byddai hyn yn gwella iechyd coed, neu ddim ond i fod yn 'daclus'.¹⁰ Yn awr, mae Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig yn cynnwys canllawiau i gadw a rheoli hen goed a gadael cyfran o bren marw sy'n dal i sefyll a hefyd wedi cwmpo.¹¹ Fodd bynnag, yn naturiol bydd yn cymryd amser maith i ailstocio amrywiaeth o oedrannau a mathau o goed marw. Ar hyn o bryd, credir fod 82% o goetiroedd brodorol Cymru mewn cyflwr anffafriol ar gyfer cyfaint pren marw.¹² Mae'r un peth yn wir am y rhan fwyaf o dir parc yng Ngwent, gyda thirfeddianwyr taclus yn symud coed tirwedd sydd wedi marw neu ar farw. Fodd bynnag, mae llawer mwy o Dderw hynafol nag o Ffawydd hynafol yn nhirlun Gwent ac mae'n debyg fod y rhagolygon ar gyfer ffyngau saprotroffig Derw yn well nag ar gyfer saprotroffau Ffawydd yn y sir.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Cafodd cofnodion y ffyngau hyn eu gwasgaru'n eang ar draws Gwent Fwyaf, gyda chofnodion diweddar ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd. Mae'r safleoedd mwyaf amrywiol yn Llanddingad, Parc Tredegar, Cwm Clydach, Parc Pont-y-pŵl, Cors Magwyr a Lady Park Wood, yn ogystal â dau safle yn Lloegr. Mae cofnodion ffyngau yn 'ddilys' am gyfnod o 50 mlynedd,⁶ felly dylid ystyried hyd yn oed safleoedd gyda chofnodion hŷn, tebyg i Barc Pont-y-pŵl a Lady Park Wood yn arwyddocaol. Gellid ystyried Llanddingad ar gyfer statws SSSI, gan mai wyth rhywogaeth yw'r trothwy ar gyfer dynodiad.⁶





*Dwysedd cofnodion Ffynghau
Pren Marw Derw
(uchafswm 12/km²)*

*Cofnodion Ffynghau
Pren Marw Derw yn
ôl degawd*




Cyfoeth rhywogaethau
Ffyngau Pren Marw
Derw



Gwarchodaeth: Daw ychydig dros draean (38%) y cofnodion o safleoedd a warchodir. Daw cofnodion SAC o Goetiroedd Dyffryn Gwy a chofnodion SSSI o Gwm Clydach (sydd tu allan i'r NNR), Cwm Merddog (Cwm Tawel), Strawberry Cottage Wood a Gwastadeddau Gwent. Daw cofnodion SINC o nifer o safleoedd, yn arbennig hen stadau a thir parc, tebyg i Barc Piercefield, Llantarnam, a Pharc Pont-y-pŵl a choetiroedd hynafol lled naturiol, tebyg i Bargain Wood a Park Wood. Mae'n debygol y daw mwy o safleoedd o fewn coetiroedd bach, yn arbennig yn Sir Fynwy, ac mae canoli cofnodion yn achosi iddynt ddod y tu allan i'r ardal a warchodir.

Cofnodion Ffyngau Pren Marw Derw o safleoedd a warchodir



Ffyngau Cap Cwyr Glaswelltir

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: amrywiol, gweler isod

Data ar gael: da (3,242 cofnod ar gyfer 46 rhywogaeth)

Cyd-destun: Mae ffyngau glaswelltir amrywiol

yn tyfu mewn porfeydd hynafol, gan ffurfio

cysylltiadau amrywiol gyda gweiriau, planhigion a

mwsoglau. Mae pump prif grŵp o ffyngau sydd ar

gael mewn glaswelltir gan fwyaf: Pensgwâr a Chwrel,

Cap Craciog; Tafodau y Ddaear; Tegellau Pinc; a Chapiau Cwyr. Mae'r rhan fwyaf yn lliwgar iawn gyda

rhywogaethau coch, oren, melyn, gwyrdd a hyd yn oed binc a phorffor. Mae rhai ffyngau glaswelltir

yn gyffredin ac yn eang iawn, tebyg i Gap Cwyr y Parot a'r Cap Cwyr Duol, ond mae'r rhai yn brin

iawn, yn cynnwys Cwrel Pinc, Cwrel Fioled a Chap Cwyr Llwyd. Mae'n debyg mai capiau cwyr yw'r

grwpiau o ffyngau glaswelltir y mae mwyaf o gofnodion ohonynt.

Crimson Waxcap (*Hygrocybe punicea*)



Andy Karran

Caiff ffyngau glaswelltir eu colli pan gaiff tir ei aredig neu os yw ffrwythlondeb yn mynd yn rhy uchel, ac mae'n cymryd degawdau i gasgliad gwirioneddol amrywiol o ffyngau glaswelltir i ddatblygu: mae ffyngau glaswelltir prin yn dal yn absennol o lawnt a gafodd ei haredig 70 mlynedd yn ôl yng Nghwrt Llanddingad, er eu bod yn bresennol ar lawnt debyg sydd fel arall yn union yr un fath. Mae llawer o laswelltir hynafol yng Ngwent, ac mae rhai safleoedd o arwyddocâd rhyngwladol. Mae casgliadau cyfoethog o ffyngau glaswelltir wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal, ac mae'n debyg fod rhai yn dal ar ôl i gael eu darganfod. Caiff canfod ffyngau glaswelltir eu gymhlethu gan eu tymor ffrwytho cymharol fyr ac amrywiaeth ffrwytho rhwng gwahanol flynyddoedd. Mae dadansoddiad o eDNA yn galluogi canfod ffyngau glaswelltir mewn samplau pridd ar unrhyw amser o'r flwyddyn, gan efallai chwyldroi astudiaeth y rhywogaethau hyn.

Dylid nodi y bu llawer o newidiadau i dacsonomeg capiau cwyr fel y darganfyddir mwy am y rhywogaethau hyn a'u perthynas gyda'i gilydd. Mae'r enwau gwyddonol isod yn dilyn Boertmann (2010) fel y'i disgrifir yn y canllawiau SSSI cyfredol⁶.

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin	Cofnodion Ardal Astudiaeth	Dangosyddion SSSI ⁶	Dangosyddion amrywiaeth uchel i ⁶	Rhestr Data Coch
<i>Hygrocybe acutoconica</i>	Cap Cwyr Parhaol	88	✓		
<i>Hygrocybe aurantiosplendens</i>	Cap Cwyr Oren	30	✓	✓	*
<i>Hygrocybe calcephila</i>	Cap Cwyr y Calch	16	✓		
<i>Hygrocybe calyptriformis</i>	Capan Dolydd Pinc	92	✓	✓	VU

<i>Hygrocybe cantharellus</i>	Cap Cwyr Melyn	15	✓		
<i>Hygrocybe ceracea</i>	Cap Cwyr Menyn	128	✓		
<i>Hygrocybe chlorophana</i>	Cap Cwyr Aur	390	✓		
<i>Hygrocybe citrinovirens</i>	Cap Cwyr Lemon	38	✓	✓	
<i>Hygrocybe coccinea</i>	Cyflgoch	212	✓		
<i>Hygrocybe coccineocrenata</i>	Cap Cwyr Cors	2			
<i>Hygrocybe colemanniana</i>	Cap Cwyr Cras	60	✓	✓	
<i>Hygrocybe conica</i>	Cap Cwyr Duol	268	✓		
<i>Hygrocybe flavipes</i>	Cap Cwyr Troed Felyn	63	✓	✓	
<i>Hygrocybe fornicate</i>	Cap Cwyr Priddlyd	29	✓		
<i>Hygrocybe glutinipes</i>	Cap Cwyr Gludiog	120	✓		
<i>Hygrocybe helobia</i>	Cap Cwyr Garlleg	7	✓		
<i>Hygrocybe ingrata</i>	Cap Cwyr Pyglyd	7	✓	✓	
<i>Hygrocybe insipida</i>	Cap Cwyr Sbanglaidd	189	✓		
<i>Hygrocybe intermedia</i>	Cap Cwyr Ffibraidd	71	✓	✓	
<i>Hygrocybe lacmus</i>	Cap Cwyr Llwyd	10	✓	✓	*
<i>Hygrocybe laeta</i>	Cap Cwyr Rhos	1	✓		
<i>Hygrocybe miniata</i>	Cap Cwyr Fermiliwn	38	✓		
<i>Hygrocybe mucronella</i>	Cap Cwyr Chwerw	41	✓		
<i>Hygrocybe nitrata</i>	Cap Cwyr Nitraidd	20	✓	✓	
<i>Hygrocybe pratensis</i>	Cap Cwyr Dol/Golau	356	✓		
<i>Hygrocybe punicea</i>	Cap Cwyr Coch Tywyll	107	✓	✓	
<i>Hygrocybe quieta</i>	Cap Cwyr Seimllyd	139	✓		

<i>Hygrocybe radiata</i>	Cap Cwyr Main	3	✓		*
<i>Hygrocybe reidii</i>	Cap Cwyr Mêl	104	✓		
<i>Hygrocybe russocoriacea</i>	Cap Cwyr Cedrwydd	76	✓		
<i>Hygrocybe spadicea</i>	Cap Cwyr Datrys	3	✓	✓	VU ⁺
<i>Hygrocybe splendidissima</i>	Cap Cwyr Gwych	24	✓	✓	
<i>Hygrocybe substrangulata</i>		2	✓		
<i>Hygrocybe virginea</i>	Cap Cwyr Claerwyn	455	✓		
<i>Hygrocybe vitellina</i>		4	✓		

* Rhywogaethau o Gonsyrn Cadwraeth Ewropeaidd


⁺ Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Rhagolygon: Mae'n rhwydd iawn dinistrio ffyngau glaswelltir drwy aredig, ond mae Gwent yn ffodus o gael llawer o laswelltiroedd hynafol sy'n annhebyg o gael eu haredig, yn arbennig yn y cymoedd gorllewinol, y gogledd-ddwyrain a llwyfandir Tryleg. Mae'r ddealltwriaeth a'r gwerthfawrogiad o ffyngau glaswelltir yn parhau i wella, a chafodd hynny ei hybu'n sylweddol gan lyfr a gyhoeddwyd gan ddau fycolegydd o Went.¹³ Caiff rheolaeth i ddiogelu ffyngau glaswelltir ei gynnwys yn benodol o fewn cynllun fferm Glastir, a chaiff ei drafod ar gyfer y Cynllun Ffermydd Cynaliadwy. Caiff safleoedd o laswelltir y gwyddys eu bod yn gyfoethog mewn ffyngau eu mapio i atal plannu coed sy'n derbyn cyllid grant ond mae creu coetiroedd yn dal yn fygythiad sylweddol iawn i'r rhywogaethau hyn, yn arbennig oherwydd y caiff porfa barhaol ei diogelu i raddau helaeth rhag cael ei aredig ond nid o blannu. Mae effeithiau llygredd nitrogen amaethyddol ar ffyngau glastir yn parhau'n anhysbys. Mae mynwentydd yn aml yn bwysig iawn ar gyfer goroesiad ffyngau glaswelltir, cyn belled y caiff y gwair ei dorri'n rheolaidd a'i symud i atal maethion rhag crynhoi.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae ffyngau glaswelltir yn digwydd mewn ffermdir, ochrau brynau, mynwentydd a lawntiau, ac felly mae ganddynt gwmpas eang iawn yng Ngwent, er nad oes unrhyw gofnodion o Wastadeddau Gwent. Mae gan y sir un o'r safleoedd ffyngau glaswelltir mwyaf amrywiol ym Mhrydain. Mae'r safle rhyngwladol bwysig hwn yn cynnwys y mosaig glaswelltir a rhostir rhwng y Blorens a Chwm Clydach, yn cynnwys Rhiw Gilwern, ac mae ganddo 30 o rywogaethau o gapiau cwyr wedi eu cofnodi. Dim ond dau safle yn y Deyrnas Unedig y gwyddys eu bod ganddynt fwy o rywogaethau na hyn.¹⁴

Mae canolfannau eraill yn cynnwys LNR Mynwent Eglwys Crist, Mynwent Glasllwch, SINC Cefn Onn, SAC/SSSI Glaswelltir Aberbargoed, SINC Tipiau Fochriw a Chefn Gelligaer, SINC Parc Pont-y-pŵl, Cwrt Llanddingad, SSSI Fferm Pentwyn, SINC New Grove Meadows, Mountain Ranch a SAC/SSSI Mynydd Llangatwg. Dylai safleoedd sy'n cefnogi 19 neu fwy o rywogaethau SSSI gael eu hystyried ar gyfer hysbysiad. Dylai safleoedd gyda 12-19 rhywogaeth SSSI gael eu blaenoriaethu ar gyfer arolwg pellach.



*Dwysedd cofnodion
Ffyngau Cap Cwyr
(uchafswm 301
cofnod/km²)*



Cofnodion cap cwyr yn ôl dyddiad




*Cyfoeth rhywogaethau
ff yngau cap cwyr*



Gwarchodaeth: Daw ychydig dan hanner (48%) cofnodion ff yngau cap cwyr o safleoedd a warchodir. Mae cofnodion SAC o Laswelltir Aberbargoed a SAC Ystlumod Brynbuga (a NNR Cwm Clydach a ddaw o fewn SAC Ystlumod Brynbuga). Mae SSSI pwysig yn cynnwys y Blorens a Fferm Pentwyn. Mae bron yr holl gofnodion LNR o fynwent Eglwys Crist. Cafodd cofnodion SINC eu gwasgaru ledled yr ardal yn cynnwys Coed-y-Moeth a Bryn Cwmsyflog, SINC Cwmsyflog a Chomin Caerffili, yn ogystal â'r SINC hynny a nodwyd uchod. Caiff llawer o'r safle rhyngwladol bwysig yn y Blorens, Rhiw Gilwern ac ardal Cwm Clydach ei dynodi yn SSSI a chaiff ff yngau glawelltir eu trin yn benodol yn ystod penderfyniadau rheoli, er fod llawer o gofnodion y tu allan i'r ardaloedd a warchodir.

*Cofnodion ff yngau cap cwyr
o safleoedd a warchodir*



Cyfeiriadau

1. Evans S, Marren P a Harper M. 2001. Important Fungus Areas. Plantlife, Association of British Fungus Groups & British Mycological Society.
2. Fungus Conservation Forum. 2008. Saving the Forgotten Kingdom – A Strategy for the Conservation of the UK's Fungi: 2008–2015. Plantlife International, Salisbury.
3. Haw K a Jones H. 2015. The Bad and the Ugly. Wood Wise. Woodland Conservation News Hydref 2015, 10–14.
4. Woods, RG. 2009. A Strategy and Action Plan for the Conservation of Lower plants and fungi in Wales 2009–2015. Plantlife International, Salisbury.
5. The Global Fungal Red List Initiative [The Global Fungal Red List Initiative \(ekoo.se\)](http://ekoo.se)
6. Bosanquet SDS, Ainsworth AM, Cooch SP, Genney DR a Wilkins TC. 2018. Guidelines for the Selection of Biological SSSIs. Part 2: Detailed Guidelines for Habitats and Species Groups. Chapter 14 Non lichenised Fungi. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
7. Ainsworth AM. 2004. BAP Fungi Handbook. English Nature Research Report 660. English Nature, Peterborough.
8. Evans S, Henrici A, Ing B. 2006. Red Data List of Threatened British Fungi. British Mycological Society
9. Smart SM, Allen D, Murphy J, Carey PD, Emmett BA, Reynolds B, Simpson IC, Evans RA, Skates J, Scott WA, Maskell LC, Norton LR, Rossall MJ a Wood C. 2009. Arolwg Cefn Gwlad: Canlyniadau Cymru o 2007. NERC/Canolfan Ecoleg a Hydroleg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
10. Humphrey J a Bailey S. 2012. Managing Deadwood in Forests and Woodlands. Forestry Commission Practice Guide. Forestry Commission, Caeredin.
11. Forestry Commission. 2017. The UK Forestry Standard. Forestry Commission, Caeredin.
12. Ditchburn B, Wilson T, Henderson L, Kirby K and Steel P. 2020. NFI Woodland Ecological Condition in Wales: Classification Results. National Forest Inventory, Forestry Commission
13. Wood E a Dunkelman J. 2020. Grassland Fungi: A Field Guide. Monmouthshire Meadows Group.
14. Griffith GW, Gamarra JGP, Holden EM, Mitchel D, Graham A, Evans DA, Evans SE, Aron C, Noordeloos ME, Kirk PM, Smith SLN, Woods RG, Hale AD, Easton GL, Ratkowsky DA, Stevens DP, Halbwachs H. 2013. The International Conservation Importance of Welsh 'Waxcap' Grasslands. *Mycosphere* 4(5): 969–984. Doi 10.5943/mycosphere/4/5/10.

Cennau a Bryoffytau

Caiff Cennau a Bryoffytau yn aml eu diystyru a'u tan-gofnodi o gymharu â grwpiau rhywogaethau eraill. Mae tua 1,800 o rywogaethau cen a 1,000 o rywogaethau bryoffytau yn y Deyrnas Unedig, gyda 119 rhywogaeth a 3 cymuned neu gasgliad wedi eu rhestru yn Rhestr Adran 7 yng Nghymru. O'r rhywogaethau Adran 7 hynny, dim ond 11 a gofnodwyd yng Ngwent Fwyaf, y rhan fwyaf gyda 5 neu lai o gofnodion. Yr eithriad yw Mwsogl Difarf Lledaen-ddail (*Weissia squarrosa*), sydd â 29 cofnod ddiweddar yn Sir Fynwy.

Mae gan Gwent Fwyaf hanes hir o gofnodi bryoffytau a chwmpas cymharol dda. Mae gan yr ardal gyfoeth uchel o rywogaethau, gyda un 1km² yn cefnogi dros 150 rhywogaeth.¹ Mae hyn yn rhannol oherwydd yr amrywiaeth eang o swbstradau a ddarperir gan amrywiaeth daearegol yr ardal a'r amrywiaeth ddilynol o gynefinoedd, o goetiroedd a dolydd i rostir. Yn yr adran hon rhoddir sylw i rai o'r mwsoglau prinnaf a gofnodwyd yng Ngwent fwyaf, tebyg i'r Mwsogl Llifogydd (*Myrinia pulvinata*) a'r Mwsogl Gwyddelig *Ephemerum hibernicum*, yn ogystal â chymunedau sylweddol o fwsogl ar dir â'r a phridd calchfaen.

Ar gyfer cennau, mae gan bob rhan o Gymru gyfoeth mawr o rywogaethau: ar un amser roedd yn cefnogi 71% o fflora cen Prydain, er mai dim ond 11% o arwynebedd Prydain sydd yng Nghymru.² Ymddengys nad oes cofnodion cystal o Gwent Fwyaf, yn arbennig o gymharu gyda sir gyfagos Swydd Gaerloyw neu Barc Cenedlaethol Bannau Prydeinig. Nid oes gan y Gymdeithas Cen Brydeinig unrhyw gofnodion o gwbl am rai sgwariau 10km yng Ngwent Fwyaf.³ Caiff y diffyg hwn o gofnodion cen, ac yn arbennig, gofnodwyr cen, ei gydnabod fel problem genedlaethol ar gyfer Cymru, ac mae bellach Gynllun Prentisiaeth Cen, CENNAD,⁴ sy'n anelu i hyfforddi mwy o arbenigwyr.

Fel llawer o rywogaethau eraill, mae colli cynefin yn bygwth bryoffytau a chennau. Rhagwelir y bydd lladdwr Ynn yn cael effaith negyddol sylweddol ar y ddau: mae 58 bryoffat a 546 cen yn gysylltiedig gydag ynn, ac mae llawer o'r rhywogaethau hyn eisoes yn Genedlaethol Brin neu'n Genedlaethol Anfynych.⁵ Mae bryoffatau a chennau yn sensitif i lygredd a gallant fod yn ddangosyddion defnyddiol o ansawdd aer, fel y dangosir gan ddadansoddiad o fwsoglau epiffytig a chennau sensitif i nitrogen yn yr adran yma.

Bryoffytau Âr

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: dim

Data ar gael: da (112 cofnod, ar gyfer 30 rhywogaeth)

Cyd-destun: Yn hanesyddol roedd gan bron bob fferm yng Ngwent beth tir âr neu gyfer grawn neu bori, a byddai mwsoglau arbenigol, llys yr afu a chornllys wedi bod yn eang iawn. Mae dwysau ffermio âr yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi arwain at ddirywiad sylweddol yn nosbarthiad a faint o bryoffytau âr sydd. Mae newid at amaethu yn yr hydref

yn hytrach na sofl dros y gaeaf wedi effeithio'n neilltuol ar y rhai sy'n cynhyrchu sporoffytau ddiwedd y gaeaf neu'r gwanwyn. Dangosodd arolwg cenedlaethol o bryoffytau â⁶ fod Gwent yn ganolfan genedlaethol ar gyfer caeau âr cyfoethog mewn bryoffytau, a daeth y cyfrif rhywogaethau uchaf ar gyfer unrhyw gae âr ym Mhrydain o gae ger Llanddingad.

Mae bryoffytau âr yn diogelu pridd moel rhag erydiad drwy glymu wyneb y pridd a gall ffurfio gorchudd uchel iawn mewn caeau sofl grawn. Mae amaethu yn yr hydref yn atal datblygiad carped bryoffat âr, a chredir fod lledaenu biswail a chywasgu pridd yn gostwng niferoedd ac amrywiaeth bryoffytau. Mae caeau india corn yn neilltuol o wael ar gyfer bryoffytau âr.

Er y cofnodwyd mwy na 70 rhywogaeth o bryoffytau mewn caeau âr yng Ngwent, dim ond 30 ohonynt a ystyrir yn nodweddiadol o'r gynefin gan eu bod i'w cael ar dir âr yn llawer mwy aml nag mewn sefyllfaoedd eraill. Caiff naw o'r arbenigwyr âr hyn eu rhestru yn y Rhestr Data Coch ddiweddaraf⁷ a/neu maent yn genedlaethol anfynych (wedi eu cofnodi mewn llai na 100 hectad ym Mhrydain ers 1970).



Sam Bosanquet


Enw gwyddonol	Enw cyffredin	Cofnodion Gwent Fwyaf	Safleoedd Gwent Fwyaf	Statws DU
<i>Acaulon muticum</i>		13	10 (ond dim ond 3 yn âr)	RDB Bregus
<i>Anthoceros agrestis</i>	Cornllys y Maes	24	16	Cenedlaethol Anfynych, RDB Bregus
<i>Didymodon tomaculosus</i>		2	1	Cenedlaethol Anfynych
<i>Entosthodon fascicularis</i>		19	13	RDB Dan beth bygythiad
<i>Fossombronia caespitiformis</i>	Crychddail Husnot	2	2 (dim ond 1 âr)	Cenedlaethol Anfynych
<i>Microbryum floerkeanum</i>		2	2 (dim ond 1 âr)	RDB Dan beth bygythiad
<i>Phaeoceros carolinianus</i>	Cornllys Carolina	22	11	Cenedlaethol Anfynych, RDB Mewn Perygl
<i>Weissia rutilans</i>		6	3 (dim yn fr)	Cenedlaethol Anfynych
<i>Weissia squarrosa</i>		22	5 (dim ond 3 âr)	Cenedlaethol Brin, RDB Dan beth bygythiad

Rhagolwg: Dynododd yr arolwg cenedlaethol o bryoffytau â¹ fod pwysau ar bryoffytau â¹ yn cynnwys colli tir â¹ graddfa fach ar ffermydd da byw, llai o amaethu yn y gwanwyn a sofl dros y gaeaf, gor-ddefnydd o wrteithiau a cholli strwythurau pridd. Mae'r pwysau hyn oll i'w gweld yng Ngwent, yn arbennig ar dir isel Dyffryn Gwy ac ardal Rhaglan, lle bu cynnydd mewn tyfu silwair, india corn a hadau olew ers dechrau'r 2000au. Mae sofl cyfoethog mewn bryoffytau yn dal i fod ar gael yn aml yng ngogledd-ddwyrain Gwent, yn arbennig pan mae gaeafau gwlyb yn gwneud amaethu yn anodd, a gall hyn fod yn ddigon i ganiatáu ein fflora bryoffat â¹ i oroesi'n lleol.


Mae'r rhagolygon ar gyfer bryoffatau â¹ yn parhau'n ansicr. Er eu rôl yn gostwng erydiad pridd mewn gaeau sofl dros y gaeaf, nid yw ffermwyr na gwneuthurwyr polisi yn eu gwerthfawrogi'n ddigonol. Nid oes sôn penodol am bryoffytau â¹ mewn drafftiau ymgynghori ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru, er y gallant fanteisio o opsiynau a gynlluniwyd ar gyfer cadwraeth adar tir amaethyddol.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae bryoffatau â¹ i'w cael ar draws Gwent Fwyaf, ond mae'r mwyafrif yn rhan ddwyreiniol y sir. Mae Gwent Fwyaf ar ymyl orllewinol ardal â¹ greiddiol Prydain, ac mae hydrefau gwlyb cymharol aml yn gwneud sofl dros y gaeaf yn anghymesur mwy cyffredin yma nag ymhellach i'r dwyrain ym Mhrydain. Dengys mapiau fod Llanddingad yn ganolbwynt neilltuol ar gyfer bryoffytau â¹. Mae hyn yn rhannol oherwydd cofnodion manwl, ond mae hefyd yn adlewyrchu'r digonedd o dir â¹ dwysedd isel yn yr ardal honno ar ddechrau'r 2000au. Mae amllder isel bryoffatau â¹ yng ngogledd-orllewin Gwent yn dangos diffyg cymharol o dir â¹ yno, er y gall nifer o'r bryoffytau â¹ mwy cyffredin oroesi ar dir arall a gaiff ei darfu'n gyfnodol, megis mewn mynwentydd.


Dwysedd cofnodion.
Uchafswm set i 115/km²




Cofnodion rhywogaethau yn ôl degawd



Cyfoeth rhywogaethau
bryoffytau âr/km²



Cyfoeth rhywogaethau gydag
Ardaloedd Pwysig o ran
Planhigion Âr (IAPAs)¹⁴




Patrymau cynefin: Cyd-drawiad cymharol wael sydd gyda IAPA Plantlife,¹⁵ yn rhannol oherwydd diffyg arolygon arbenigol mewn rhai o'r ardaloedd ond hefyd oherwydd fod rhai o'r caeau sychach a ffafrir gan lawer o blanhigion fasgwlwr â'r yn anaddas ar gyfer y rhan fwyaf o'r bryoffytau â'r anghyffredin. Fel arfer mae pridd llaith, clai a lôm clai fel arfer yn cefnogi'r casgliadau cyfoethocaf o bryoffatau â'r.

Tueddiadau poblogaeth: Daw mwyafrif y cofnodion bryoffytau â'r o Went o arolwg bryoffytau tir â'r 2001 i 2004. Cyn 2000 ychydig iawn o gofnodion bryoffytau oedd yng Ngwent, yn arbennig ar dir â'r, ac mae cofnodion wedi bod â ffocws mwy eang ers 2004. Mae newidiadau mewn rheoli tir â'r, yn arbennig y cynnydd yn y defnydd o silwair a thyfu india corn a hadau olew, yn ei gwneud yn debygol iawn fod bryoffytau â'r yn parhau i ostwng yng Ngwent, ond mae diffyg data arolwg diweddar iawn.

Gwarchodaeth: Er bod rhai caeau â'r mewn safleoedd dynodedig, yn cynnwys SSSI Gwastadeddau Gwent a'r rhai sy'n ffinio ar SSSI yr Afon Wysg (Wysg Isaf), dim ond lleiafrif bach iawn sy'n cefnogi casgliadau bryoffytau â'r cyfoethog ac ni chaiff dim eu cydnabod fel nodwedd SSSI. Ni chafodd unrhyw SINC eu dethol ar gyfer bryoffatau â'r, er bod safleoedd gyda rhywogaethau ar y rhestr Goch tebyg i *Anthoceros agrestis* a *Phaeoceros carolinianus* yn gymwys i gael eu dethol. Gallai Cwrt Llanddingad fod â nodwedd casgliad Bryoffytau â'r sy'n cymhwyso ond mae'n disgwyl hysbysiad.

Cofnodion bryoffytau â'r o safleoedd a warchodir



Mwsogl Gwyddelig *Ephemerum hibernicum* (Holyoak & V.S.Bryan)

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: dim

Data ar gael: gwael (1 cofnod)

Cyd-destun: Mae Mwsogl Gwyddelig

(*Ephemerum hibernicum*) yn fwsogl arbenigol mewn ardaloedd cyfoethog mewn calchfaen sydd dan ddŵr yn dymhorol. Disgrifiwyd fel ei bod yn newydd i wyddoniaeth o dirlynnoedd yn Iwerddon yn 2005, a chaiff ei adnabod hefyd mewn pump gwlad Ewropeaidd.⁸ Mae Cronfa Ddŵr Coed Gwent yn un

o ddim ond dau safle y gwyddys amdanynt ym Mhrydain, y llall yn dirlyn yn Sir Gaerfyrddin. Felly mae hyn yn un o rywogaethau prinnaf Gwent, mewn termau Prydeinig a hefyd fyd-eang.

Credir fod gan *Ephemerum hibernicum* sborau sy'n byw'n hir, sy'n egino pan mae lefelau dŵr yn isel, ac yn cynhyrchu capsïwlau sbôr newydd yn gyflym. Mae'r ffordd hon o fyw yn gweddu ei gynefin tirlyn sy'n amrywio'n naturiol yn ogystal ag amodau Cronfa Ddŵr Coed Gwent, lle mae lefel dŵr yn amrywio yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw. Mae'n un o gyfres o bryoffadau sy'n tyfu ar ymyl llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnwys y *Riccia cavernosa* Cenedlaethol Anfyfych yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd, Pant-yr-eos a Choed Gwent, *Ephemerum sessile* yn Llandegfedd a Choed Gwent, a *Weissia rostellata* yng Nghoed Gwent.

Yr unig amser y canfuwyd *Ephemerum hibernicum* yng Ngwent oedd mis Tachwedd 2003, pan oedd yn gyffredin ym mhen gogleddol Cronfa Ddŵr Coed Gwent. Ni edrychwyd am bryoffytau yn y safle ers hynny ac mae statws y boblogaeth yn anhysbys.

Rhagolygon: Cafodd poblogaeth y Deyrnas Unedig o *Ephemerum hibernicum* ei chyfyngu i ddau safle ar hyn o bryd. Mae cytref Sir Gaerfyrddin mewn Gwarchodfa Natur Genedlaethol ac ystyrir ei bod yn ddiogel, ond mae cytref Gwent mewn cronfa cyflenwi dŵr ac mae'n fregus i newidiadau mewn rheolaeth lefel dŵr. Mewn mannau eraill ym Mhrydain cafodd bryoffadau ymylon llyn eu colli drwy gynnal lefelau dŵr uchel, oherwydd nad yw hyn yn galluogi'r bryoffadau i egino a drwy oresgyniad planhigion anfrdodol tebyg i'r *Crassula helmsii* o Seland Newydd.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'n debyg fod cyfyngiad *Ephemerum hibernicum* yng Ngwent i Gronfa Ddŵr Coed Gwent yn ddilys oherwydd bod llynnoedd cymharol gyfoethog mewn calch gyda lefelau dŵr amrywiol yn brin yn yr ardal. Chwiliwyd tirlyn Nedern yn ddiweddar ac nid oes cynefin addas ar gyfer *E. hibernicum* yno. Gallai Cronfa Ddŵr Llandegfedd a Chronfa Ddŵr Pant-yr-eos gynnig amodau addas, ond ni chofnodwyd *E. hibernicum* yn y naill arolwg na'r llall ar ddechrau'r 2000au.

Tueddiadau poblogaeth: Mae cyflwr presennol y boblogaeth yn anhysbys ac mae angen ei arolygu.


Gwarchodaeth: Ni ddynodwyd Cronfa Ddŵr Coed Gwent, ond mae'r glaswelltir o amgylch yn SINC am ei amrywiaeth glaswelltir asid.

E. hibernicum habitat




Sam Bosanquet

*Cofnod E. hibernicum
yng Ngwent Fwyaf*



*Llun yn dangos lleoliad cofnod, ym mhen
gogleddol Cronfa Ddŵr Coed Gwent*



Bryoffydau Epiffytig

Gwarchodaeth: dim

Statws Cadwraeth: gweler isod

Data ar gael: da (881 cofnod)

Cyd-destun: Mae epiffyttau yn blanhigion sy'n tyfu ar blanhigion eraill: yn yr achos hwn bryoffyttau (mwsoglau a llysoedd yr afu) sy'n tyfu ar goed. Maent yn rhan naturiol o ecosystemau iach ac yn helpu i amsugno dŵr a gronynnau yn ogystal â rhoi cysgod i infertebratau.



Yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrifoedd, fe wnaeth llygredd diwydiannol, yn arbennig sylffwr deuocsid, risgl y rhan fwyaf o goed yng Ngwent mor asidig fel mai ychydig iawn o fwsoglau oedd yn tyfu arno. Mae gostwng sylffwr deuocsid – diolch i gyfuniad o ddeddfwriaeth, gwell technoleg a bod diwydiannau sy'n llygru wedi symud i wledydd eraill – wedi caniatáu adferiad rhyfeddol ar fwsoglau a llysiau'r afu epiffytig yng Ngwent a llawer o weddill Prydain. Mae coed yng Nghasnewydd a gorllewin Gwent, lle'r oedd epiffyttau yn gyfangwbl absennol yn niwedd yr 20fed ganrif, bellach yn cefnogi ystod amrywiol o fwsoglau: er enghraifft, 24 rhywogaeth ar goed ynn mewn parc yn y Betws, 21 ar goed masarn yn Crindau a 18 goed ynn a masarn yn y Dyffryn.


Mae rhan fwyaf o'n bryoffyttau epiffytig mwyaf cyffredin, tebyg i'r Hemlys Cyffredin (*Frullania dilatata*) a Chryffaea Ochrol (*Cryphaea heteromalla*) yn awr ar gael ledled Gwent. Cafodd deuddeg rhywogaeth o bryoffyttau ephiffytig oedd yn anhysbys yng Ngwent eu cofnodi yn y sir yn ddiweddar, gan ddangos lledaeniad rhai o'r rhywogaethau hyn. Mae rhai ar gael yn eang iawn erbyn hyn, tebyg i'r *Uloa phyllantha*.

Enw gwyddonol	Enw cyffredin	Cofnodion Gwent Fwyaf
<i>Cololejeunea minutissima</i>	Llychlys Môn	123
<i>Colura calyptrifolia</i>	Cwfl-lys Byseddog	17
<i>Neckera pumila</i>		32
<i>Orthotrichum pallens</i>		4
<i>Orthotrichum pumilim</i>		2
<i>Orthotrichum schimperi</i>		1
<i>Orthotrichum striatum</i>		124
<i>Pylaisia polyantha</i>		30
<i>Syntrichia papillosa</i>		102


<i>Syntrichia virescens</i>		12
<i>Ulota calvescens</i>		1
<i>Ulota phyllantha</i>		380

Rhagolygon: Mae sylffwr deuocsid yn parhau i ostwng ym Mhrydain, ac ymddengys fod dau o'r prif lygrwyr aer – nitrogen ocsid (NOx) a gronynnau – yn fuddiol i lawer o fwsoglau a llysiau'r afu epiffytig. Disgwylir y bydd poblogaethau Gwent o'r bryoffydau hyn yn parhau i gynyddu, o leiaf mewn ardaloedd trefol; mae hyn yn wahanol iawn i lawer o gennau epiffytig sy'n sensitif i nitrogen (gweler yr adran Cennau N-sensitif).

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae bryoffytau epiffytig yn awr ar gael ledled Gwent, tra'u bod yn yr *Atlas* cyntaf o bryoffytau wedi eu cyfyngu i raddau helaeth i ogledd-ddwyrain y sir, i ffwrdd o lygredd diwydiannol. Mae hyd yn oed y rhywogaethau mwy prin a fu'n absennol o'r ardal tan 2000 yn awr wedi eu dosbarthu'n eang, er fod cofnod cofnodi amlwg yn Llanddingad.





*Dosbarthiad cofnodion
mwsogl Epiffytig ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 26/km²)*



*Cofnodion mwsogl
epiffytig yn ôl
dyddiad*

*Amrywiaeth
cofnodion mwsogl
epiffytig*




Patrymau cynefin: Nid oes unrhyw batrwm amlwg mewn lleoliad bryoffytau epiffytig yng Ngwent yn awr, ac mae gwahaniaethu yn tueddu i adlewyrchu rhywogaethau'r coed sy'n eu cynnal yn fwy na chynefin. Gall coed ynn, masarn neu helyg ddal 20 neu fwy o fwsoglau epiffytig mewn coetiroedd, ffiniau caeau neu gynefinoedd trefol, lle mae ffawydd neu dderw fel arfer yn cynnal llaw o rywogaethau beth bynnag yw'r gynefin.

Tueddiadau poblogaeth: Mae tueddiad amlwg o gynnydd mewn bioffytau epiffytig prinnach a gafodd eu mapio (heb fod yn syndod oherwydd na wyddem eu bod yn yn yr ardal, ac eithrio cofnod yn 1967 o *Pylaisia polyantha*, tan 2000) a rhywogaethau epiffytig mwy cyffredin. Dengys hyn gynnydd sylweddol ar draws Prydain, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae llygredd,⁸ yn ganlyniad effeithiau cyfunol gostwng sylffwr deuocsid a newid hinsawdd. Mae rhai o'r mwsoglau a llysiau'r afu epiffytig, tebyg i *Cololejeunea minutissima* yn sensitif i farrug ac roeddent wedi eu cyfyngu i arfordir gorllewinol Prydain yn ystod yr ugeinfed ganrif ond maent wedi lledu'n gyflym i'r gogledd-ddwyrain dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, heb ostwng llygredd sylffwr deuocsid, ni fyddai'r ehangiad hwn mewn cwmpas newid hinsawdd wedi bod yn bosibl, oherwydd na all rhisgl asidig gefnogi *Cololejeunea minutissima* beth bynnag yw'r hinsawdd.

Mae rhai o fwsoglau epiffytig a oedd yn brin iawn ym Mhrydain yn gyffredinol wedi cytrefu de Prydain yn ddiweddar, mae'n debyg oherwydd sborau yn crwydro o dir mawr Ewrop.⁹ Gwent yw'r unig ardal ym Mhrydain lle canfuwyd y rhywogaeth *Orthotrichum pallens*, *O. pumilum* a *O. schimperi* a arferai fod ar y Rhestr Goch, er ei bod yn debyg bod hyn yn dangos cofnodi manwl yma. Disgwylir y bydd nifer o fwsoglau epiffytig yn cytrefu Gwent dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 34% o gofnodion o safleoedd a warchodir. Mae hyn mewn gwirionedd yn dangos faint o dir a gaiff ei warchod ar draws y rhanbarth, yn hytrach na chysylltiad gydag unrhyw gynefin neu safle neilltuol. Yn dechnegol gellid defnyddio rhai o'r epiffytau mwy prin ar gyfer dethol SINC, er enghraifft fwsoglau Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) *Orthotrichum pallens* a *O. pumilum*. Y peth gwych am y stori hon yw yr aeth mwsoglau o fod yn absennol o bob man i gael eu canfod nid yn unig ar safleoedd a warchodir ond hefyd yng nghanol dinas Casnewydd a'r Cymoedd, gan ddangos mai ansawdd aer oedd y ffactor oedd yn eu cyfyngu yn hytrach nag unrhyw ofyniad cynefin neilltuol.

Cofnodion Mwsogl Epiffytig o safleoedd a warchodir



Mwsogl Llifogydd *Myrinia pulvinata* (Wahlenb.) Schimp

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: dim

Data ar gael: gwael (7 cofnod)

Cyd-destun: Mae afonydd mawr sy'n achosi llifogydd yn aml yn gartref i lawer o blanhigion ac infertebratau arbenigol sydd wedi esblygu i oroesi bod dan ddŵr yn gyfnodol a chladdu mewn llaid. Mae'r Mwsogl Llifogydd (*Myrinia pulvinata*) yn un o'r rhywogaethau arbenigol mwyaf anodd yn ecolegol ac mae wedi ei gyfyngu i goed sydd gryn dipyn yn uwch na lefelau dŵr cymedrig mewn parth sy'n gweld llifogydd yn rheolaidd ond nid yn flynyddol efallai. Dynodwyd ei fod mewn llai na 50 o safleoedd ym Mhrydain a chafodd ei gyfyngu yng Ngwent i'r Afon Wysg.

M.pulvinanta habitat




Sam Bosanquet

Mae cofnodion o ddau ddarn o'r afon yng Ngofilon yn 2000 ac yn Llantrisant yn 2006. Mae'r rhywogaeth wedi dirywio mewn rhannau eraill o Brydain,⁸ er y gall gael ei ddiystyru ryw faint. Mae rheolaeth glannau afonydd, adeiladu cynlluniau llifogydd a chlefydau yn effeithio ar helyg brau a gwern i gyd yn fygythiadau i'r mwsogl prin hwn.


Rhagolygon: Mae poblogaeth y Deyrnas Unedig o *Myrinia pulvinata* yn gostwng,⁸ ac mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo o adeiladu amddiffynfeydd llifogydd 'caled' yn fygythiad i rai o'r cytrefau sydd ar ôl. Mae'r ddau safle yng Ngwent mewn gorlifdiroedd cymharol lydan gydag ychydig o anheddau sy'n ymddangos i fod yn annhebyg o fod flaenoriaethau ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd newydd. Serch hynny, dim ond ar un goeden yng Ngofilon a dwy yn Llantrisant y gwyddom fod y mwsogl hwn ar gael, ac felly mae risg sylweddol y gellid colli cytref yn fwriadol oherwydd cwmpo coed.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae cyfyngu *Myrinia pulvinata* yng Ngwent i'r Afon Wysg yn gywir mae'n debyg, oherwydd bod gan yr afon orlifdir llydan gyda llwyth uchel o laid. Mae *Myrinia* yn tyfu ar yr Afon Gwy uwchben y Rhosan ar Gwy ond ni chafodd erioed ei ganfod ar y Gwy yng Ngwent. Mae map llifogydd Parch 3 yn awgrymu y gall cynefin addas hefyd ddigwydd ger Llanfihangel Gobion a'r Bryn, ac mae angen chwilio wedi ei dargedu yn yr ardaloedd hyn.

*Dosbarthu cofnodion
Mwsogl Llifogydd ar
draws Gwent Fwyaf*



*Cofnodion Mwsogl
Llifogydd gyda phrif
afonydd¹⁵ a Pharth
Llifogydd 3¹⁶*



Patrymau cynefin: Heb fod yn annisgwyl, mae *Myrinia pulvinata* wedi ei gyfyngu yng Ngwent gan ei ofynion cynefin cyfyng iawn.

Tueddiadau poblogaeth: Darganfuwyd poblogaeth Llantrisant yn 2001 ac edrychwyd arno eto yn 2003 a 2006; roedd yn ymddangos yn sefydlog dros y cyfnod hwnnw. Ni edrychwyd eto ar gytref Gofilon ers ei ddarganfod yn 2000.

Gwarchodaeth: Mae'r ddwy gytref o *Myrinia pulvinata* o fewn SSSI Afon Wysg, ond ni chânt eu cydnabod fel nodwedd gymhwysol o'r SSSI.

Bryoffatau Calchfaen

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: dim

Data ar gael: cymedrol (264 cofnod)

Cyd-destun: Mae calchfaen carbonifferaidd yn gymharol kyfyngedig ym Mhrydain, ond mae dau frigiad sylweddol yng Ngwent. Mae un yn Nyffryn Gwy isaf yn Lady Park Wood ger Cas-gwent, ac mae'r arall yn rhedeg o Gwm Glydach a Rhiw Gilwern tua'r de ar hyd crib y Blorens i ardal Machen. Mae'r graig galed, gyfoethog mewn calch hon yn cefnogi nifer fawr o fwsoglau a llysiau'r afu anghyffredin ac mae Gwent yn un o'r ardaloedd pwysicaf yng Nghymru ar gyfer bryoffytau calchfaen, gyda 12 o rywogaethau Cenedlaethol Brin ac Anfynych.




Sam Bosanquet

Mae'r bryffytau calchfaen Prrin ac Anfynych wedi eu cyfyngu i frigiadau naturiol o galchfaen yn hytrach na chwareli ac mae'n sicr fod y chwareli wedi gostwng eu poblogaethau yng Ngwent. Fodd bynnag, ychydig iawn o gofnodion bryoffytau oedd yn yr ardal tan 2000, felly mae'n amhosibl cadarnhau colledion hanesyddol. Ymddengys y bu'r rhan fwyaf o boblogaethau yn sefydlog ers 2000, gydag eithriad amlwg yr *Anomodon longifolius*, ond mae bygythiadau'n cynnwys newidiadau mewn cysgodi a thwf dilyffethair eiddew a drain wedi'i hybu gan lygredd nitrogen (N).


Enw gwyddonol	Enw cyffredin	Cofnodion Gwent Fwyaf
<i>Amblystegium confervoides</i>		14
<i>Anomodon longifolius</i>		14
<i>Campylophyllum calcareum</i>		24
<i>Cololejeunea rossettiana</i>	Llychlys Rossetti	18
<i>Entosthodon muehlenbergii</i>	Muehlenberg's Thread-Moss	2
<i>Lejeunea mandonii</i>	Llychlys Iwerydd	2
<i>Seligeria acutifolia</i>		25
<i>Seligeria campylopoda</i>	Bentfoot Rock-Bristle	47
<i>Seligeria donniana</i>	Donn's Rock-Bristle	21
<i>Seligeria patula</i>	Spreading Rock-Bristle	5
<i>Seligeria pusilla</i>	Dwarf Rock-Bristle	41
<i>Thuidium recognitum</i>	Lesser Tamarisk-Moss	3

Rhagolygon: Mae cwmpas y Deyrnas Unedig o'r bryoffytau Prin ac Anfynych yn sefydlog ac ychydig o fygythiad tebygol sydd y bydd gwaith newydd mewn chwareli yn bygwth poblogaethau oherwydd y cafodd cynifer o safleoedd eu dynodi yn SSSI. Mae newid hinsawdd hefyd yn annhebyg o fod yn fygythiad sylweddol oherwydd fod llawer o'r bryoffytau calchfaen i'w cael yn llawer pellach i'r de yn Ewrop na Phrydain. Cystadleuaeth o blanhigion tebyg i eiddew a drain, a ychwanegwyd gan lygredd nitrogen a phosibilrwydd agor canopiau coetir oherwydd lladdwr yr ynn, yw'r prif fygythiadau. Poblogaethau lleol bach iawn sydd gan lawer o'r rhywogaethau hyn o fewn unrhyw safle neilltuol, ac mae digwyddiadau stocastig, tebyg i gwmpo coed neu ddifrod damweiniol yn bosibl. Ers 2000, cafodd un o'r tri chytref o *Anomodon longifolius* ei golli yng Ngwent oherwydd cwmpo coed yn Lady Park Wood a chafodd un arall ei fygu gan ddrain yn dilyn rheolaeth coetir ger Mounton gan adael dim ond un poblogaeth yng Nghymru gyfan.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r bryoffytau calchfaen Cenedlaethol Brin ac Anfynych wedi crynhoi mewn tair ardal o Gwent: y brigiadau rhwng Cwm Clydach a'r Blorens, ardal Lady Park Wood a chalchfaen Blackcliff-Wyndcliff. Mae brigiadau calchfaen pellach yn nwyrain Torfaen ac ardal Machen, ond bu llawer o waith chwarel yma ac ni chanfuwyd bryoffytau nodedig er llawer o waith arolygu.





*Dosbarthiad cofnodion
bryoffytau calchfaen
Prin ac Anhysbys
(uchafswm 31/km²)*



*Cofnodion bryoffytau
calchfaen yn ôl dyddiad*

*Amrywiaeth
bryoffytau
calchchfaen Prin ac*




Patrymau cynefin: Mae dosbarthiad bryoffytau calchfaen Prin ac Anfynych yn dilyn brigiadau naturiol calchfaen carbonifferaidd yng Ngwent. Mae bryoffytau mwy cyffredin hoff o galch mewn hen chwareli, weithiau yn doreithiog, a hefyd mewn brigiadau calchfaen Silwaraidd yn ardal Brynbuga, ond mae'r rhywogaethau prin yn absennol. Cafodd yr holl brif frigiadau calchfaen eu harolygu'n fanwl, yn aml ar ymweliadau lluosog gan arbenigwyr, ond felly hefyd lawer o hen chwareli, felly nid tueddiad cofnodion yw achos crynhoi cofnodion rhywogaethau prinnach yn y safleoedd naturiol hyn.

Tueddiadau poblogaeth: Nid oes cofnodion hanesyddol digonol i ganiatau sefydlu tueddiadau poblogaeth, er fod *Anomodon longifolius* wedi gostwng yn Lady Park Wood ac wedi mynd o ardaloedd Mounton a Wyndcliff.

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 72% o cofnodion o'r bryoffytau Prin ac Anfynych hyn o safleoedd a warchodir. Mae Lady Park Wood, Blackcliff-Wyndcliff, Piercefield a Chwm Clydach i gyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ac mae rhannau o Rhiw Gilwern ac ardal Bloreus yn Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Mae rhai ardaloedd pwysig o galchfaen rhwng Rhiw Gilwern a'r Bloreus yn haeddu eu dynodi yn SSSI am eu bryoffytau, a hefyd nifer o leoliadau ar gyfer *Seligeria campylopoda* a *Thuidium recognitum* (ac *Anomodon longifolius*, os na chafodd ei golli) yn neddwyrain Gwent. Gellir graddio'r safleoedd pwysigaf ar gyfer bryoffytau calchfaen yng Ngwent yn defnyddio amrywiaeth y rhywogaethau Cenedlaethol Brin ac Anfynych sydd ganddynt. Y chwe phrif safle yn nhrefn pwysigrwydd yw: Lady Park Wood, y Bloreus, Cwm Clydach, Blackcliff-Wyndcliff, Rhiw Gilwern, Coed Mounton, a Piercefield.

Cofnodion bryoffyt calchfaen Prin ac Anfynych o safleoedd a warchodir




Mwsoglau Teils To Carreg

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: dim

Data ar gael: Da (mae 55 cofnod yn cynrychioli cwmpas y safleoedd mwyaf tebygol ar gyfer y rhywogaethau hyn)

Cyd-destun: Mae toeau gyda theils tywodfaen yn ardal ddeheuol y gororau yng Nghymru yn cefnogi cyfres o fwsoglau cenedlaethol prin ac anfyndych a gaiff hefyd eu canfod, er yn brin, ar frigiadau creigiau sych. Pan oedd teils carreg lleol yn fath cyffredin o do, byddai'r mwsoglau hyn wedi bod yn



Sam Bosanquet

gyffredin yng Ngwent. Maent bellach wedi eu cyfyngu i lai na 20 o doeau eglwysi ac ysguboriau yn yr ardal a gwyddys iddynt gael eu colli o ddwy eglwys oherwydd aildoi a glanhau ers 2000. Dim ond darnau bach o'r mwsoglau prin hyn sydd yn y rhan fwyaf o gytrefau, mae'n debyg oherwydd glanhau cyn 2000, ac mae gan fwyaf eglwysi a chapeli Gwent doeau llechi neu deils artiffisial anaddas.

Er y cafodd 22 rhywogaeth o fwsogl eu cofnodi ar deils to carreg yng Ngwent, mae'r rhan fwyaf yn gymharol gyffredin yng Nghymru. Mae Plantlife¹⁰ yn sôn fod pedar eithriad yn bwysig mewn cyd-destun Prydeinig. Caiff *Grimmia laevigata* a hefyd *Grimmia ovalis* eu rhestru fel bod Dan Beth Bygythiad yn y Rhestr Data Coch mwyaf diweddart⁷, ac mae pob un o'r pedwar rhywogaeth yn Genedlaethol Anfyndych (wedi'u canfod mewn llai na 100 hectad ar draws Prydain).

Enw gwyddonol	Cofnodion Gwent Fwyaf	Safleoedd Gwent Fwyaf	Statws y Deyrnas Unedig ⁷
<i>Grimmia decipiens</i>	10	2	Cenedlaethol Anfyndych
<i>Grimmia laevigata</i>	11	7 (wedi'i golli o 2 2)	Dan Beth Bygythiad Cenedlaethol
<i>Grimmia ovalis</i>	27	16 (wedi'i golli o 2 2)	Dan Beth Bygythiad, Cenedlaethol Anfyndych
<i>Hedwigia ciliata</i> *	7	4	Cenedlaethol Anfyndych


*yn cynnwys var. *ciliata* a var. *leucophaea*

Rhagolygon: Credir fod poblogaethau pob un o'r pedwar mwsogl teils to yn y Deyrnas Unedig yn gostwng ar greigiau naturiol oherwydd ewtroffiad,⁸ ac roedd un o'r ddau gytref o *Grimmia decipiens* yng Ngwent wedi dirywio o saith darn yn 1999 i un darn wedi'i fygu gan alga yn 2018 oherwydd llygredd amonia. Mae glanhau ac aildoi teils tywodfaen wedi gostwng dirywiad yng Ngwent ac yn ddi-os mewn rhannau eraill o Brydain. Cafodd toeau o leiaf ddwy eglwys oedd yn cynnal y mwsoglau prin hyn eu hatgyweirio a'u glanhau ers y canfuwyd y cytrefau, roedd y mwsoglau prin wedi eu cyfyngu i bortshys eglwysi eraill a gafodd eu hail-doi'n ddiweddar, ac roedd llawer o'r rhai yr ymwelwyd â nhw rhwng 1999 a 2002 â thoeau teils wedi ei glanhau heb unrhyw fwsogl arnynt.

Oherwydd bod adeiladau teils carreg yn brin yng Ngwent, a phrinder y mwsoglau hyn ar yr adeiladau hynny, mae colli un to yn ostyngiad sylweddol yn yr adnodd cyffredinol.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Cafodd y pedwar mwsogl teils two Cenedlaethol Anfynych eu cofnodi o 18 safle yng Ngwent. Mae mwyafrif y safleoedd yn eglwysi yn y gogledd-ddwyrain rhwng Rhaglan, Dixon a Llangua, ond mae hefyd bum safle o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a phump yn ne Gwent rhwng Caerllion a Rogiet. Mae Gwent Fwyaf ar ymyl de-orllewinol cwmpas craidd y mwsoglau hyn ym Mhrydain, sy'n ymestyn i Swydd Henffordd a De Powys; ni chanfuwyd dim o'r rhywogaethau hyn ym Morgannwg ac ystyrir bod diffyg cofnodion o orllewin Gwent yn gywir oherwydd prinder teils to calchfaen.


Mae pymtheg safle yn eglwysi, dwy yn ysguboriau gyda theils carreg, ac mae un cytres o *Grimmia decipiens* ar bont. Gwnaed yr unig gofnod hanesyddol yn 1925 ac roedd ar gyfer gwesty yn Nhynydyrn, sydd wedi ei aildoi ers hynny a choli ei gytref o *Grimmia ovalis*. Dangosodd recordio wedi ei dargedu o doeau eglwysi rhwng 1999 a 2002 fwyaf y safleoedd cyffredol y gwyddys amdanynt, a dim ond â saith safle yr ymwelwyd â nhw yn y deng mlynedd diwethaf.



*Dosbarthiad mwsoglau teils
to prin ar draws Gwent Fwyaf
(cofnodion wedi'u
gwrthbwyso i ddangos
lleoliadau gyda
rhywogaethau lluosog)*




*Cofnodion mwsogl
teils to yn ôl dyddiad*



Tueddiadau poblogaeth: Mae diffyg data hanesyddol yn ei gwneud yn amhosibl bod yn sicr y bu dirywiad yn y rhywogaethau hyn, ond gellir bod yn rhesymol hyderus fod hynny wedi digwydd oherwydd y nifer o eglwysi sydd â'u toeau wedi eu glanhau neu eu haildoi yn nwyrain Gwent gyda 'r nifer sy'n awr yn gefnogi mwsoglau teils to. Cafodd toeau o leiaf dwy eglwys (Llanfable a Rhaglan) oedd yn cynnal y mwsoglau hyn eu hatgyweirio a'u glanhau ers y canfuwyd y cytrefau, ac mae eu goroesiad yn ansicr; roedd y mwsoglau prin wedi eu cyfyngu i bortshys eglwysi eraill a gafodd eu haildoi'n ddiweddar (Caerllion, Llangatwg Lingoed a Rogiet), tra bod nifer (Llandeni, er enghraifft) â tholau wedi eu glanhau gan adael dim mwsogl o wbl.

Gwarchodaeth: Nid oes dim o'r mwsoglau teils to calchfaen yn tyfu mewn safle a warchodir yn statudol (SSSI) yng Ngwent a dim ond un safle sydd yn SINC (oherwydd glaswelltir niwtral yn hytrach na mwsoglau). Mae'r *Guidelines for Selection of Wildlife Sites in South Wales*¹¹ yn dweud y dylai unrhyw safle sy'n cefnogi rhywogaeth Llyfr Data Coch neu rywogaethau o dri neu lai o safleoedd gael eu dynodi. Felly gallai cytrefau o'r *Grimmia laevigata* a *Grimmia ovalis* sydd dan beth bygythiad felly ddod yn SINC. Cymerodd nifer o eglwysi ran ym Mhrosiect Living Churchards Prosiect GWT neu gynlluniau Caring for God's Acre a Mynwentydd Hardd, ond ni wyddys os y gwnaeth unrhyw rai ystyried mwsoglau teils to yn benodol.

Cofnodion mwsogl teils to carreg o safleoedd a warchodir.



Cennau Sensitif i Nitrogen

Gwarchodaeth: dim

Statws Cadwraeth: dim

Data ar gael: Cymedrol (459 cofnod)

Cyd-destun: Mae cennau epiffytig yn doreithiog ar goed mewn coedwigoedd heb llygredd ym mhob rhan o'r byd a byddai'n doreithiog yng Ngwent heb llygredd aer. Mae llygredd hanesyddol sylffwr deuocsid o ddiwydiant wedi lladd cennau sensitif i asid ar draws y sir, ac mae llygredd amonia amaethyddol wedi'i gyfuno gyda NOx diwydiannol yn awr yn difrodi cennau sensitif i Nitrogen. Mae cennau epiffytig yn tyfu mewn carpedi trwchus, tri dimensiwn ar ganghennau coed ac mae ganddynt ran hanfodol mewn ecosystemau iach drwy ryngdorri ar lawiad, cylchu maethion a rhoi cysgod i infertebratau.¹² Mae'r rhan fwyaf o bobl yn awr yn meddwl am ystyried mai rhisgl moel sydd gan goed, sy'n dangos pa mor anghyfarwydd yr ydym gyda ecosystemau gweithredol iach.



Sam Bosanquet


Enw gwyddonol	Nifer cofnodion Gwent Fwyaf
<i>Bryoria fuscescens</i>	0
<i>Evernia prunastri</i>	67
<i>Graphis elegans</i>	14
<i>Graphis scripta</i>	30
<i>Hypogymnia physodes</i>	190
<i>Hypogymnia tubulosa</i>	21
<i>Ochrolechia androgyna</i>	18
<i>Parmelia saxatilis</i>	111
<i>Parmelia sulcata</i>	75
<i>Pseudevernia furfuracea</i>	1
<i>Sphaerophorus globosus</i>	2
<i>Usnea articulata</i>	3
<i>Usnea cornuta</i>	1
<i>Usnea dasopoga</i>	1
<i>Usnea esperantiana</i>	1
<i>Usnea florida</i>	4

<i>Usnea subfloridana</i>		30
<i>Usnea wasmuthii</i>		1

Rhagolygon: Yn ôl Rowe et al.¹³ mae dros 60% o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn derbyn crynodiadau o amonia sy'n uwch na'r lefel critigol a osodwyd i ddiogelu cennau a bryoffytau (1 µg/m³); mae hyn yn cynrychioli 87.9% o Loegr, 56.3% o Gymru, 17.9% o'r Alban a 90.8% o Ogledd Iwerddon. Mae'r sefyllfa yng Ngwent yn waeth nag yng Nghymru drwyddi draw: mae crynodiadau amonia yn 372 o sgwariau 1km yng Ngwent <1 µg/m³, gyda 1262 yn >1µg/m³. O'r 1634 sgwâr yn yr ardal hon, mae gan 77.2% grynodiadau amonia sy'n rhy uchel i gefnogi cennau sensitif i nitrogen.


Mae'r tueddiad presennol tuag at amaethyddiaeth cynyddol ddwys ar lawr gwlad Gwent, ond mae gan y rhan fwyaf o dir isel y sir eisoes ormod o lygredd nitrogen i gefnogi cennau sensitif i nitrogen. Daw gobaith o'r cymoedd gorllewinol, lle mae amaethyddiaeth ddwys sy'n cynhyrchu amonia yn parhau'n brin a chrynodiadau amonia yn dal yn isel. Cafodd cennau sensitif i nitrogen tebyg i *Usnea dasopoga* a *Pseudevernia furfuracea* eu cofnodi yn Nhorfaen yn ddiweddar, ac mae llawer o ardaloedd o Went oedd unwaith wedi'u llygru gymaint gan ddiwydiant fel bod epiffytau bron wedi eu colli bellach yn gadarnleoedd o gennau epiffytig yr ardal.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Unwaith byddai cennau sensitif i nitrogen wedi bod ar gael ar draws Gwent, ond mae gormod o lygredd nitrogen yn y rhan fwyaf o'r rhannau dwyreinol a deheuol iddynt oroesi heblaw lle mae topograffeg a gorchudd coed yn rhoi cysgod rhag amonia. Ar y llaw arall, mae Dyffryn Gwy, y Mynydd Du a chymoedd gorllewinol Gwent yn cynnal poblogaethau eang o'r cennau epiffytig hyn, er nad oes unrhyw gofnodion diweddar mewn llawer o sgwariau grid.



*Dosbarthiad cofnodion
cennau sensitif i nitrogen ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm dwysedd (max
density24/km²))*

*Cofnodion cennau
sensitif i nitrogen yn ôl
dyddiad*






Patrymau cynefin: Dylai cennau epiffytig sensitif i nitrogen fod yn bresennol yn y rhan fwyaf o fathau o goetiroedd, ond maent yn neilltuol o nodweddiadol o goetiroedd derw a ffawydd. Fodd bynnag, gan bod llygredd aer yn drech nag unrhyw batrwm cynefin, mae coetiroedd addas ledled tir isel dwyrain Gwent ond mae llygredd wedi gwneud llawer ohono yn anaddas ar gyfer y rhywogaethau hyn. Mae prinder cofnodion diweddar ar gennau yn effeithio ar y mapiau dosbarthiad. Fodd bynnag, mae arsylwadau diweddar yn awgrymu fod rhai rhywogaethau sensitif i nitrogen, tebyg i *Evernia prunastri* y *Usnea subfloridana* yn dal i fod wedi gwasgaru yn nwyrain Gwent, lle mae lefelau amonia yn isel; tra bod cennau sensitif i nitrogen ar gael yn eang ac yn aml yn doreithog yn y Mynydd Du a'r cymoedd gorllewinol (Sam Bosanquet, cyfathrebiad personol).

Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o data i benderfynu ar dueddiadau ar y lefel poblogaeth, ond mae arsylwadau yng Nghwrt Llanddingad yn awgrymu bod cennau sensitif i nitrogen yn parhau i ddirywio ar ganghennau derw mewn tir parc yno (Sam Bosanquet, cyfathrebiad personol).

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 46% o gofnodion o safleoedd a warchodir yn bennaf o SINC ucheldir helaeth yn y Cymoedd, gyda rhai o SAC coetir tebyg i Goed Ffawydd Caerdydd a Choetiroedd Pen y Fâl. Mae cennau epiffytig yn elfennau allweddol mewn ecosystemau o fewn y cynefinoedd coetir yr hysbysir SAC Coetiroedd Pen y Fâl a rhai SSSI amdanynt, felly yn dechnegol mae hyn yn rhoi peth gwarchodaeth gyffredinol iddynt, ond mae cymhlethdodau wrth ddangos difrod drwy lygredd aer oddi ar y safle.

Cofnodion cennau epiffythig sensitif i nitrogen o safleoedd a warchodir



Cyfeririadau

1. Bosanquet S. heb ddyddiad. A Bryological Tour of Monmouthshire (vc35): Bryological Tour Through Monmouthshire: <https://websites.rbge.org.uk/bbs/Bryodiversity/vc35/vc35site.htm> (agorwyd 28/11/2020).
2. Woods RG. 2010. A Lichen Red Data List for Wales. Plantlife, Salisbury.
3. Map y Gymdeithas Gen Brydeinig ar gyfer pob rhywogaeth: <https://www.britishlichensociety.org.uk/recording-mapping/bls-databases> (agorwyd 28/11/2020)
4. Plantlife. CENNAD. Lichen Apprenticeship Scheme: <https://www.plantlife.org.uk/wales/our-work/projects-wales-cymru/cennad-lichen-apprenticeship-sche> (accessed 28/11/2020)
5. Lawrence R a Cheffings CM (gol). 2014. A Summary of the Impacts of Ash Dieback on UK Biodiversity, Including the Potential for Long-Term Monitoring and Further Research on Management Scenarios. Adroddiad JNCC Rhif 501.
6. Preston CD, Hill MO, Porley RD a Bosanquet SDS. 2010. Survey of the bryophytes of Arable Land in Britain and Ireland 1: A Classification of Arable Field Assemblages. *Journal of Bryology* 32(2): 61–79.
7. Callaghan DA a Hodgetts NG. yn y wasg. GB Bryophyte Red Data List. *Journal of Bryology*.
8. Blockeel TL, Bosanquet SDS, Hill MO a Preston CD. 2014. Atlas of British and Irish bryophytes. Nature Bureau, Newbury.
9. Bosanquet S. 2012. Vagrant Epiphytic Mosses in England and Wales. *Field Bryology* 107: 3–17.
10. Bosanquet S. 2012. Looking After Mosses on Sandstone Roofs. Plantlife Cymru, Bangor.
11. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent 2004. Guidelines for the Selection of Wildlife Sites in South Wales. Partneriaeth Bywyd Gwyllt De Cymru.
12. Bosanquet SDS. 2018. Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.
13. Rowe EC, Mitchell Z, Tomlinson S, Levy P, Banin LF, Sawicka K, Martín Hernandez C & Dore A. 2020. Trends Report 2020: Trends in Critical Load and Critical Level Exceedances in the UK. Report to Defra under Contract AQ0843, CEH Project NEC05708: https://uk-air.defra.gov.uk/assets/documents/reports/cat09/2006181057_Trends_Report_2020.pdf
14. Shellswell CH. 2015. Wales' Important Arable Plants. Plantlife, Salisbury.
15. Data o Lle (llyw.cymru). Set data Prif Afonydd – yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir Pob Hawl. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.
16. Data o Lle (llyw.cymru). Map Llifogydd: set data Parth Llifogydd 3. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Mae rhai nodweddion o'r wybodaeth yn seiliedig ar ddata gofodol ar drwydded gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg © NERC (CEH). Defra, Swyddfa'r Met ac Asiantaeth Afonydd DARD © Hawlfraint y Goron. © Cranfield University. © James Hutton Institute. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2015. Land & Property Services © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata.

Rhywogaethau Goresgynol Anfrodorol ac Afiechydon Planhigion

Mae o leiaf 3,224 o rywogaethau anfrodorol ym Mhrydain, 2,010 ohonynt yn cael eu dosbarthu fel rhai sefydledig (yn cynnal eu hunain yn y gwyllt).¹ Mae o leiaf 275 o rhywogaeth anfrodorol wedi eu dynodi'n rhai sy'n cael effaith ecolegol neu ddynol negyddol ac felly'n cael eu galw'n rhywogaethau goresgynol anfrodorol.² Ar ôl ymsefydlu gall y rhywogaethau yma fod yn eithriadol o anodd a drud i'w hatal neu eu gwaredu; dim ond am naw y mae gwybodaeth eu bod wedi eu gwaredu o Brydain.²

Mae nifer o rywogaethau sy'n cyrraedd Prydain yn cynyddu, fel y mae'r nifer o rywogaethau goresgynol.² Mae'r ardal y sefydlu ynddi hefyd yn cynyddu.¹ Daw'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau sydd wedi sefydlu ym Mhrydain o Ewrop yn wreiddiol, ond yn ystod y degawdau diwethaf mae'r gyfradd o rywogaethau newydd sy'n wreiddiol o Ogledd America a rhannau mwyn o Asia yn cynyddu.² Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd fel rhywogaethau addurnol, ond mae dyframaeth hefyd yn llwybr pwysig mewn amgylcheddau dŵr croyw. Mewn amgylcheddau morol, nid yw'r llwybr a ddilynodd llawer o rywogaethau yn hysbys, ond mae cudd-deithwyr a dyframaeth ill dau yn llwybrau arwyddocaol.²

Mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynol anfrodorol yn cynnwys llai o gynnyrch a chynhyrchiant o gnydau, lleihad mewn gwerth o ran amwynder a hamdden, cynnydd mewn erydu a gwaddodi, llai o ddŵr yn cael ei ddal yn ôl a llifogydd. Mae'r effeithiau ar fioamrywiaeth gynhenid yn cynnwys ysglyfaethu neu gystadlu â rhywogaethau cynhenid, amharu ar gynefin (fel creu cysgod), cyflwyno a lledaenu afiechyd, ac amharu ar integriti genynnol. Amcangyfrifir bod costau'r rhywogaethau hyn i economi Cymru, gan gynnwys eu rheoli a lliniaru eu heffaith, dros £125 miliwn yn flynyddol.³ Mae cost rheoli'r rhywogaethau hyn yn cynyddu'n gyflym iawn wrth i'r goresgyniad fynd yn ei flaen.³

Ar lefel y Deyrnas Unedig, rhoddir cyfarwyddyd i weithredu ar rywogaethau goresgynol anfrodorol gan Strategaeth Rhywogaethau Goresgynol Anfrodorol Prydain Fawr,⁴ sydd â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth, gwella'r cydlyn ar faterion yn ymwneud â'r rhywogaethau hyn a chynnig fframwaith i weithredu. Mae'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol (NNSS) yn rhoi porth at wybodaeth am y rhywogaethau, arfer gorau a rhybuddion ac asesiadau risg ar gyfer rhywogaethau sy'n creu bygythiad sylweddol. Mae'r NNSS hefyd yn trefnu ymgyrchoedd fel 'Gwirio, Glanhau, Sychu' a 'Byddwch yn Ddoeth am Blanhigion'.

Mae porth penodol i rywogaethau goresgynol anfrodorol Cymru sy'n cael ei westeio gan NBN Atlas Cymru, sy'n cynnwys dros 300 o rywogaethau anfrodorol sydd o ddiddordeb i Gymru. Cynhyrchodd Grŵp Rhywogaethau Goresgynol Anfrodorol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru restr o rywogaethau y dylid gweithredu arnynt fel blaenoriaeth,⁵ sy'n dosbarthu'r rhywogaethau yn ôl blaenoriaeth ar gyfer atal, rheoli (pan fydd gwaredu yn ddichonol) neu reoli tymor hir (pan fydd rheoli, atal neu lliniaru yn ddichonol). Ar hyn o bryd mae 45 rhywogaeth ar restr Cymru o rywogaethau goresgynol anfrodorol sy'n cael blaenoriaeth. Mae strategaeth rywogaethau goresgynol anfrodorol yn cael ei datblygu trwy brosiect Rwydweithiau Ecolegol Cydnerth Cymru

Mae plâu ac afiechydon planhigion, er bod cysylltiad amlwg rhyngddynt â'r rhywogaethau hyn yn cael eu trin mewn strategaeth ar wahân - Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain⁶ - sy'n rhan o waith ehangach ar iechyd planhigion, un o brif flaenoriaethau DEFRA. Pwyslais tebyg i'r blaenoriaethau rhywogaethau goresgynol anfrodorol sydd i'r strategaeth, gan gynnwys ar godi

ymwybyddiaeth a dynodi risgiau'n gynnar. Mae Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion yn y Deyrnas Unedig hefyd⁷ sy'n rhestru mwy na 1,200 o blâu planhigion a phathogenau ar y Gofrestr Risg Iechyd Planhigion. Rhoddir graddfa risg i blâu a phathogenau ar sail y tebygolrwydd y byddant yn digwydd, lefel yr effaith a gwerth y planhigyn gwesteio. Mae rhai plâu ac afiechydon ar blanhigion yn rhai hysbysadwy, sy'n golygu bod rhaid i'r awdurdod iechyd planhigion priodol gael gwybod os cânt eu canfod.

Mae'r adran hon yn cynnwys y 'prif dri' o ran rhywogaethau goresgynnol anfrodorol: Efwr Enfawr, Clymog Japan, Ffromlys Chwarennog a'r Cimychiaid Afon Arwyddol Americanaidd. Mae hefyd yn cynnwys pathogen planhigion arwyddocaol: clefyd coed ynn.

Clefyd Coed Ynn *Hymenoscyphus fraxineus* (T. Kowalski, Baral, Queloz & Hosoya)

Deddfwriaeth berthnasol: Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiad, 2012)

Data ar gael: Gwael (8 cofnod)

Cyd-destun: Afiechyd ffwngaid yw clefyd coed ynn sy'n effeithio ar goed ynn (*Fraxinus excelsior*), a oedd yn cael ei alw yn *Chalara fraxinea*. Fe'i cadarnhawyd gyntaf yn y Deyrnas Unedig mewn coed meithrinfa yn 2012, er bod tystiolaeth yn awr ei fod wedi dod i Brydain gyntaf mor gynnar â 2006.⁸ Mae'n awr wedi lledaenu ar draws Lloegr, Cymru a rhannau o'r Alban.⁹ Mae symptomau clefyd y coed ynn yn cynnwys dail wedi duo, colli dail, corun y goeden yn marw a chreithiau ar y rhisgl. Bydd y rhan fwyaf o'r coed sydd wedi eu heintio yn marw yn y pen draw, er bod hyn yn dibynnu ar lawer o ffactorau fel oedran y goeden a'i lleoliad.¹⁰



Andy Karran


Rhagolygon: Mae coed ynn yn cyfri am bron i 7% o orchudd coed Cymru, ac amcangyfrifir bod tua 16.5 miliwn o goed.¹¹ Dynododd ymchwil JNCC 44 o rywogaethau o genau, ffwng ac infertebratau sydd ddim ond i'w gweld ar ynn byw neu farw. Mae gan 62 arall gysylltiad clos ag ynn, ac mae dros fil yn gysylltiedig ag ynn; mae'r rhestr yn cynnwys mamaliaid, adar, planhigion, bryoffytau, ffwng a dros 500 o infertebratau.¹² Nid yw'n ymarferol atal lledaeniad clefyd y coed ynn, ac mae'r strategaeth yng Nghymru yn canolbwyntio ar ymchwil, monitro a rheolaeth ymatebol.¹⁰ Yn genedlaethol, mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar feithrin coed goddefol.⁸ Awgryma ymchwil diweddar o Ffrainc bod yr afiechyd yn llai difrifol pan fydd dwyster yr ynn yn llai ac mewn coed unigol.¹³

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ychydig iawn o gofnodion sydd o glefyd y coed ynn: dim ond pum cofnod yng Ngwent Fwyaf, gyda'r cynharaf yn 2016. Ond mewn cyferbyniad, mae'r mapiau a ddarparwyd gan Fera, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ar raddfa hectad yn dangos bod clefyd y coed ynn yn gyffredin, yn dyddio yn ôl i 2014.⁹ Mae coed ynn yn gyffredin ar draws yr ardal mewn coetir a nodweddion llinellol.¹⁰



Gall yr anghysondeb hwn ddeillio o sawl ffactor: oedi cyn cofnodi achosion clefyd y coed ynn mewn Canolfannau Cofnodi Lleol; defnyddio llwybrau cofnodi gwahanol, fel rhoi adroddiadau mewnol mewn sefydliadau, Oeservatree neu Treealert; neu ddiffyg hyder ymhlith cofnodwyr wrth ddynodi clefyd y coed ynn, yn arbennig gan y gall afiechydon eraill sy'n effeithio ar ynn ymddangos yn debyg.

Mae hyn yn peri pryder neilltuol gan fod 'defnyddio gwyddoniaeth y dinesydd i helpu i adeiladu capasiti iechyd coed a chynorthwyo â'r gwaith o fonitro clefyd *Chalara* coed ynn' yn Flaenoriaeth Allweddol yn ymateb Cymru i glefyd y coed ynn.¹⁰


*Dosbarthiad cofnodion
clefyd coed ynn ar draws
Gwent Fwyaf (coch), gyda
monadau gyda chofnodion
ynn 1970– 2019 (gwyrdd)*



*Cofnodion clefyd y coed
ynn yn ôl dyddiad*



Heintiadau clefyd y coed ynn a gadarnhawyd⁹



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu sut y mae clefyd y coed ynn yn lledaenu ar draws Gwent Fwyaf. Mae'n amlwg ei fod wedi symud ar draws yr ardal mewn llai na degawd, ond nid yw'r llwybr a ddilynodd yn glir. Nid yw patrwm gofodol yr achosion – a oes achosion unigol, clystyrau neu heintiad systemig – yn hysbys.

Safleoedd a warchodir: O'r pum cofnod unigol yng Ngwent Fwyaf, mae un mewn SSSI (Ruperra) ac un mewn SINC (Coetir Pentwyn Isaf). Gwarchodir ardaloedd mawr o goetir llydanddail ar draws Gwent Fwyaf, o SAC Coetir Dyffryn Gwy i SINC coetir lleol. Mae'n debygol bod coed ynn yn rhan o lawer o'r coetiroedd yma.

Efwr Enfawr *Heracleum mantegazzium* (Sommier & Levier)

Deddfwriaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 9, Deddf Diogelu Amgylcheddol 1990.

Statws blaenoriaeth: Blaenoriaeth Rheoli Tymor Hir (Cymru)⁵

Data ar gael: Cymedrol (206 cofnod)

Cyd-destun: Cyflwynwyd Efwr Enfawr i Brydain fel planhigyn addurnol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond yn awr mae'n digwydd ar lannau cyrsiau dŵr ar yr iseldir ac ar dir garw. Mae'n debyg i Efwr (*Heracleum sphondylium*) ond gall dyfu i hyd at 5m o daldra, gyda'r dail gwaelodol yn cyrraedd dros 1m. Oherwydd ei fod mor fawr gall drechu rhywogaethau brodorol, a gall cyffwrdd ei nodd achosi i groen fynd yn sensitif i olau, gan arwain at losgiadau difrifol.



Andy Karran


Rhagolygon: Mae Efwr Enfawr wedi lledaenu ar draws y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig, ac eithrio'r ucheldir, ac mae wedi bod yn lledaenu'n gyflym, er gwaethaf camau i'w reoli.¹⁴ Gall llifogydd a thywydd cynnes gynyddu'r twf a dosbarthiad yr hadau, gan ei gwneud yn debygol y bydd newid hinsawdd yn gwaethygu lledaeniad yr Efwr Enfawr.

Yng Nghymru, mae prosiect Rhwydwaith Ecologol Gwydn Cymru yn anelu i ddatblygu Fframwaith Cydweithredu Rhywogaethau Goresgynol Anfroddol trwy Gymru i hyrwyddo taclo rhywogaethau goresgynol, gan gynnwys Efwr Enfawr, mewn dull trefnus.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Cafwyd hyd i Efwr Enfawr ar hyd Afon Wysg i gyd bron yng Ngwent Fwyaf, gyda chofnodion gwasgaredig ar gyrsiau dŵr eraill, fel yr Ebwy. Sylwer bod Afon Wysg wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer ymdrech ddwys i gofnodi, yn arbennig yn yr 1990au ac mae 27 o gofnodion Afon Wysg a all fod yn ddyblygion. Mae'n bosibl nad yw'r Efwr Enfawr wedi ei gofnodi'n ddigonol ar gyrsiau dŵr eraill, neu y gall cofnodion unigol fod oherwydd iddo gael ei gam-adnabod.

Ymddengys bod yr Efwr Enfawr wedi lledaenu ar hyd Afon Wysg tua'r de, yn ôl y disgwyl, er bod yr ymdrech i gofnodi wedi cynyddu hefyd yn ystod amserlen yr astudiaeth hon.

Dosbarthiad cofnodion Efwr
Enfawr ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 18/km²)




Cofnodion cynharaf o Efwr
Enfawr yn ôl degawd
(lledaeniad)



Camau rheoli: Bu Afon Wysg yn ganolbwynt i'r ymdrech reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru cyn hynny) a Sefydliad Gwy ac Wysg. Roedd Efwr Enfawr yn un o'r rhywogaethau targed ym mhrosiect Sefydliad Gwy ac Wysg 'Giving up the Weed' - prosiect tair blynedd yn rhedeg o 2007 i 2010. Fel rhan o'r prosiect, rhoddwyd triniaeth i 125km o lannau dwbl (tua 4,000 o blanhigion); yna, mae dros 455km (3,336 clwstwr o'r planhigyn) wedi cael eu trin, ac mae'r Sefydliad yn cofnodi ei fod bron â bod wedi ei ddileu.¹⁵ Sylwer bod y prosiect hwn yn ymestyn tu hwnt i ardal yr astudiaeth.

Gwarchodaeth: Daw 27% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o SAC Wysg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o fod yn fesur cywir o effaith Efwr Enfawr ar safleoedd a warchodir, gan fod mwyafrif y cofnodion yn agos at gyrsiau dŵr, ac mae'r rhan fwyaf o'r prif gyrsiau dŵr yn ardal yr astudiaeth yn cael eu gwarchod ar ryw lefel. Deillia'r amcangyfrifon rhy isel hyn o'r ffaith bod terfynau safleoedd a warchodir yn aml yn ymestyn at farc y dŵr ar ei uchaf, neu ychydig fetrau oddi wrth glan afon. Yn yr un modd, gall defnyddio man canol cyfeirnod grid symud cofnod oddi wrth ei wir leoliad. Er enghraifft, er bod 39 o gofnodion yn SAC Wysg, mae 47 cofnod arall o fewn 25 iddi.

Cofnodion Efwr Enfawr o safleoedd a warchodir



Ffromlys Chwarennog *Impatiens glandulifera* (Royle)

Deddfwriaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 9

Statws blaenoriaeth: Blaenoriaeth Rheoli Tymor Hir (Cymru)⁵

Data ar gael: Cymedrol (1034 cofnod)

Cyd-destun: Cyflwynwyd Ffromlys Chwarennog (a elwir yn Saesneg yn Himalayan Balsam, Indian Balsam neu Policeman's Helmet) i Brydain yn 1930 a lledaenodd yn gyflym, yn arbennig ar hyd glannau

afonydd. Planhigyn blynyddol gyda blodau pinc, mae'n tyfu hyd at 3m o daldra ac yn cynhyrchu codennau hadau sy'n ffrwydro pan gyffyrddir ynddynt, gan daflu hadau hyd at 7m i ffwrdd.¹⁶ Mae'n ffurfio clystyrau sy'n cystadlu yn erbyn rhywogaethau cynhenid, a phan fydd yn marw yn ôl yn y gaeaf, mae glannau afonydd yn fregus i erydu. Mae hefyd yn cynhyrchu mwy o neithdar na rhywogaethau cynhenid, gan ddenu peillwyr oddi wrthynt a lleihau eu ffitrwydd.¹⁷ Amcangyfrifwyd bod cost gwaredu Ffromlys Chwarennog o'r Deyrnas Unedig yn £150–300 miliwn.¹⁶


Rhagolygon: Mae'n annhebygol y caiff Ffromlys Chwarennog ei waredu o ystyried cost y dulliau rheoli. Mae llawer o safleoedd yn rheoli'r ffromlys trwy eu tynnu â llaw neu ddefnyddio chwynladdwyr, ond heb ddull wedi ei drefnu ar raddfa dalgylch, mae'n anochel y bydd yn ail sefydlu. Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan Amaethyddiaeth a Biowyddoniaeth Rhyngwladol yn ymchwilio i ddefnyddio ffwng fel dull o reoli yn fiolegol.¹⁸ Yng Nghymru, mae prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru yn anelu at ddatblygu Fframwaith Cydweithredu Rhywogaethau Goresgynol Anfroddol trwy Gymru' i hyrwyddo taclo rhywogaethau goresgynol, gan gynnwys Ffromlys Chwarennog, mewn dull trefnus.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir Ffromlys Chwarennog ar draws Gwent Fwyaf ac mae wedi ei gofnodi'n neilltuol o dda ar hyd afonydd Gwy ac Wysg. Ceir cofnodion mwy diweddar oddi wrth y cyrsiau dŵr mwyaf, er y gall hyn fod oherwydd bod cynnydd yn y cofnodi yn hytrach na chynnydd yn yr ymsefydlu. Mae'n debygol iawn nad yw Ffromlys Chwarennog wedi ei gofnodi'n llawn, a'i fod yn digwydd trwy ardal yr astudiaeth.





Andy Karran

*Dosbarthiad cofnodion
Ffromlys Chwarennog ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 8/km²)*




*Cofnodion cynharaf o
Ffromlys Chwarennog yn ôl
degawd (lledaeniad)*



Camau Rheoli: Mae'r rhan fwyaf o ddulliau rheoli yng Ngwent Fwyaf wedi digwydd ar lefel safleoedd unigol, er bod Afon Gwy ac Wysg wedi bod yn ei dynnu'n systematig o ddalgylch Afon Mynwy ers sawl blwyddyn. Cymeradwywyd rhyddhau'r ffwng y gawod goch ar ddau safle treialu ar Afon Gwy yn 2019 fel rhan o'r prosiect Adfer ein Hafon Ryfeddol.¹⁹

Gwarchodaeth: Daw 28% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o SAC Gwy ac Wysg, a SINC cyrsiau dŵr eraill. Mae'n debygol bod mwy o gofnodion yn gysylltiedig â chysiau dŵr a warchodir, gan nad yw cofnodion sy'n agos at y cyrsiau dŵr yn dod o fewn yr ardal ddynodedig.

Cofnodion Ffromlys Chwarennog o safleoedd a warchodir



Clymog Japan *Fallopia japonica* (Houtt.) Ronse Decr.

Deddfwriaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 9, Deddf Diogelu Amgylcheddol (1990)

Statws Blaenoriaeth: Blaenoriaeth Rheoli Tymor Hir (Cymru)⁵

Data ar gael yng Ngwent Fwyaf: Da (2617 cofnod)

Cyd-destun: Cyflwynwyd clymog Japan yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a lledaenodd yn gyflym ar draws Prydain. Mae ganddo strwythur rhisom a

gallu eithriadol i adfywio: gall darnau bach iawn o goesyn a rhisom ail-dyfu yn blanhigyn newydd yn gyflym iawn,²⁰ a chredir bod y boblogaeth gyfan yn glonau o un planhigyn.²¹ Oherwydd ei fod yn lledaenu'n rhwydd, mae Clymog Japan yn gwladychu afonydd, rheilffyrdd a thir segur arall yn gyflym. Mae pryderon y gall Clymog Japan ddifrodi adeiladau wedi cael effeithiau negyddol ar y farchnad eiddo, er bod ymchwil diweddar yn awgrymu nad yw ddim gwaeth nag unrhyw rywogaeth arall o blanhigyn.²²

O ran effaith ar fioamrywiaeth, mae Clymog Japan yn ffurfio clystyrau o un rhywogaeth, gan drechu rhywogaethau cynhenid. Gall effeithio ar ecosystemau dyfrol trwy greu cysgod, a chynhyrchu gweddillion dail, yn ogystal â gwneud glannau yn agored i erydu yn y gaeaf. Gall flocio draenau a llifddorau, yn ogystal â llwybrau, gan arwain at effaith negyddol ar hamdden. Gall achosi problemau diogelwch wrth dyfu yn agos at ffyrdd a rheilffyrdd trwy guddio arwyddion a signalau. Amcangyfrifir bod Clymog Japan yn costio £165 miliwn y flwyddyn i Brydain.³

Rhagolygon: Cyfyngedig fu llwyddiant treialon CABI gyda llyslau *Aphalara itadori* sy'n sugno nodd. Er cael prawf nad yw llyslau yn effeithio ar blanhigion cynhenid, fe gafwyd anawsterau wrth sefydlu poblogaeth hunan-gynhaliol.²³ Cymhlethir rheoli Clymog Japan ymhellach gan amharodrwydd gan dirfeddianwyr i gyhoeddi cofnodion, rhag ofn camau cyfreithiol, fel y profwyd gan Network Rail.²⁴ Mae hyn hefyd yn golygu y gall ymdrechion rheoli roi blaenoriaeth i ddiogelu eiddo yn hytrach na materion bioamrywiaeth.

Elfen arall sy'n achosi pryder yw bod Clymog Japan yn gallu croesi gyda Chlymog Rwsia a'r Glymog Fawr, a gall yr epil wedyn groesi yn ôl gyda'r planhigion a'u cynhyrchodd. Mae arwyddion bod *Fallopia x bohemica* yn fwy egniol a chyndyn na'r un o'r rhiant-blanhigion a gall gynhyrchu hadau hyfyw mewn rhai amodau o ran hinsawdd. Mae *F. x bohemica* yn bresennol yng Nghasnewydd yn barod.²⁵

Yng Nghymru, mae prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru yn anelu i ddatblygu Fframwaith Cydweithredu Rhywogaethau Goresgynnol Anffordrol trwy Gymru i hyrwyddo taclo rhywogaethau goresgynnol, gan gynnwys Clymog Japan, mewn dull trefnus.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir Clymog Japan ar draws Gwent Fwyaf, gyda mwy o grynhoad yn y de a'r gorllewin – gan gyfateb i'r ardaloedd mwy trefol (er y gall hyn hefyd fod oherwydd ymdrech cofnodwyr). Mae gan Gasnewydd grynhoad uwch o gofnodion oherwydd arolygon penodol a wnaed trwy'r sir. Wrth edrych yn fanwl arnynt, roedd cofnodion Casnewydd yn dangos dosbarthiad llinellol




Andy Karran



clymog ar hyd Camlas Trefynwy ac Aberhonddu ac Afon Ebwy, ac ar hyd y llinellau rheilffordd, yn ogystal â safleoedd unigol gan amrywio o un planhigyn i glystyrau mawr, dwys. Mae'n debygol bod y patrwm hwn yn debyg mewn ardaloedd trefol eraill.

Yn hanesyddol, mae Clymog wedi bod yn bresennol mewn ardaloedd trefol a Dyffryn Gwy ers yr 1970au. Mae'n ymddangos bod y lledaeniad wedi digwydd allan o'r canolfannau trefol hyn, er bod cofnodi ac ymwybyddiaeth o glymog Japan hefyd wedi cynyddu dros yr un cyfnod o amser.

*Dosbarthiad cofnodion
Clymog Japan ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm $\geq 50/\text{km}^2$)*




*Cofnodion cynharaf o
Glymog Japan yn ôl
degawd (lledaeniad)*



Camau rheoli: Mae gan bob awdurdod lleol yng Ngwent Fwyaf raglen i reoli Clymog er bod y raddfa'n amrywio'n sylweddol. Mae gan randdeiliaid fel Network Rail ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) hefyd raglenni rheoli. Ond, gall dulliau wedi eu cydlynu ar lefel dalgylch fod yn afresymol o ddrud.

Gwarchodaeth: Daw 24% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o SINC, yn arbennig Afon Ebwy, Afon Sirhywi, Afon Rhymni a chamlas Trefynwy ac Aberhonddu. Daw nifer lai o gofnodion o SAC Afon Wysg yng Nghasnewydd, a chofnodion gwasgaredig o SSSI Gwastadeddau Gwent. Gall SINC fod yn eithriadol o fregus gan eu bod yn llai tebygol o fod mewn meddiant cyhoeddus, a bod ganddynt lai o adnoddau ar gael i'w rheoli.

Cofnodion clymog Japan o safleoedd a warchodir



Cimwch Afon Arwyddol *Pacifastacus leniusculus* (Dana, 1852)

Deddfwriaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 9, Gorchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (Cimwch yr Afon) (1996).

Statws blaenoriaeth: Blaenoriaeth Rheoli Tymor Hir (Cymru)⁵

Data ar gael yng Ngwent Fwyaf: Gwael (12 cofnod)

Cyd-destun: Cyflwynwyd Cimwch Afon Arwyddol i Brydain yn yr 1970au fel rhywogaeth fasnachol oedd yn cael ei ffermio ond fe wnaethant ddianc a lledaenu'n gyflym ar draws Lloegr a Chymru.³ Mae Cimwch Afon Arwyddol yn fwy na'r Cimwch Afon brodorol (*Austropotamobius pallipes*), sydd wedi prinhau o 50-80% ar draws Ewrop²⁶ ac sy'n cael ei ddosbarthu fel Bregus ar y lefel fyd-eang.²⁷ Mae cystadleuaeth a throsglwyddo'r pla cimwch yr afon angheuol o Gimwch Afon Arwyddol yn un o achosion arwyddocaol y dirywiad.


Mae Cimwch Afon Arwyddol hefyd yn difrodi glannau afonydd trwy dyllu ac yn bwyta wyau pysgod, gan effeithio ar stoc pysgod gwyllt a masnachol.³ Ceir tystiolaeth hefyd bod presenoldeb Cimwch Afon Arwyddol yn cael effaith negyddol ar infertebratau dyfrol, gan leihau dwysedd yr infertebratau a'r cyfoeth o rywogaethau.²⁸ Amcangyfrifir bod cost flynyddol rheoli a lliniaru Cimwch Afon Arwyddol yn £2.7 miliwn yn y Deyrnas Unedig, ac ychydig dros £500,000 yng Nghymru.

Rhagolygon: Mae'r dewisiadau wrth reoli Cimwch Afon Arwyddol yn cynnwys eu dal, bioladdwyr ac atalfeydd i gyfyngu faint sy'n ymsefydlu mewn ardaloedd newydd. Fodd bynnag, mae i'r cyfan oblygiadau i rywogaethau eraill, ac mae'r rhan fwyaf yn effeithiol ar gyfyngu yn hytrach na gwaredu'r boblogaeth yn llwyr.³¹ Mae'r ymgyrchoedd presennol yn cynnwys hyrwyddo boddlogelwch (er enghraifft, yr ymgyrch 'Gwiriwch, Glanhewch, Sychwch') a dewis safleoedd 'Ark' unig ar gyfer Cimwch Afon Craffanc Gwyn.³² Nid yw'n hysbys a oes unrhyw ymdrechion wedi eu targedu at reoli Cimwch Afon Arwyddol wedi digwydd yng Ngwent Fwyaf, er bod rhai prosiectau wedi digwydd mewn rhannau eraill o Gymru.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelwyd Cimwch Afon Arwyddol mewn chwe lleoliad yn ardal yr astudiaeth (pump yng Ngwent Fwyaf), ond ychydig iawn o gofnodion sydd ymhob safle, ac mae rhai cofnodion yn ymddangos fel petaent yn ddyblygion. Mae'r cofnodion yn dod o'r flwyddyn 2000 ac yn cyfeirio at byllau a chysiau dŵr. Mae cofnodion Cimwch yr Afon Craffanc Gwyn brodorol yn llawer mwy cyffredin, yn arbennig yng nghanol Gwent Fwyaf. Fodd bynnag, dylid trin hyn yn ofalus, efallai nad yw cofnodion hyn yn adlewyrchu colledion diweddar:²⁹ dim ond 6 o'r 111 o gofnodion Gwent Fwyaf sydd yn y degawd diwethaf. Cofnodwyd y ddwy rywogaeth mewn dau safle (pwll Pen y Fan a Maerdy).

Mae'n debygol iawn nad yw hwn yn ddarlun cywir o ddosbarthiad y naill rywogaeth na'r llall. Mae'n annhebygol y caiff Cimwch Afon eu cofnodi ar hap, ac mae arolwg penodol yn gofyn am offer dal arbenigol a thrwydded. Yn ychwanegol, mae'r gobaith o gofnodi Cimwch yr Afon yn amrywio, gan ddibynnu ar ddwysedd y boblogaeth a'r amser o'r flwyddyn.³⁰

Dosbarthiad cofnodion
 Cimwch Afon Arwyddol ar
 draws Gwent Fwyaf
 (uchafswm $\geq 50/\text{km}^2$)




Cofnodion Cimwch Afon
 Arwyddol (coch) ar
 fonadau gyda chofnodion
 Cimwch yr Afon Crafanc
 Gwyn (glas)



Gwarchodaeth: Daw 64% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Bwll y Cipar yn SSSI y Blorens, a SINC Pwll Pen y Fan, Coetir Glan yr Afon Coed-duon ac afon Rhymni. Mae'n bwysig nodi bod cyfran fawr o'r rhwydwaith afon yng Ngwent Fwyaf yn cael ei gwarchod i ryw lefel.

Cofnodion Cwmwch Afon arwyddol o safleoedd a warchodir



1. DEFRA. 2020. UK Biodiversity Indicators 2020. DEFRA, Llundain.
2. GB Non-Native Species Information Portal. 2017. GB Non-native Species Report Card 2017: <http://www.nonnativespecies.org/factsheet/index.cfm>
3. Williams F, Eschen R, Harris A, Djeddour D, Pratt C, Shaw RS, Varia S, Lamontagne-Godwin J, Thomas SE a Murphy ST. 2010. The Economic Cost of Invasive Non-native Species on Great Britain. CABI, Wallingford.
4. Great Britain Non-native Species Secretariat. 2015. The Great Britain Invasive Non-native Species Strategy. DEFRA, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.
5. WBP INNS Group. 2019. Invasive Non-native Species (INNS) – Priority Species for Action in Wales. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.
6. DEFRA. 2014. Protecting Plant Health – A Plant Biosecurity Strategy for Great Britain. DEFRA, Y Comisiwn Coedwigaeth, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.
7. <https://planthealthportal.defra.gov.uk/>
8. <https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/pest-and-disease-resources/ash-dieback-hymenoscyphus-fraxineus/> (agorwyd 06/09/2020).
9. Addaswyd o'r map heintiadau Chalara cenedlaethol (*Hymenoscyphus fraxineus*), a gyhoeddwyd gan Fera, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. <http://chalarapmap.fera.defra.gov.uk/> (accessed 06/09/2020).
10. Jenkins T a Jones C. 2016. Chalara Dieback of Ash – Response for Wales 2016. Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion.
11. National Forest Inventory. 2013. NFI Preliminary Estimates of Quantities of Broadleaved Species in British Woodlands, with Special Focus on Ash. National Forest Inventory, Comisiwn Coedwigaeth.
12. Mitchell RJ, Bailey S, Beaton JK, Bellamy PE, Brooker RW, Broome A, Chetcuti J, Eaton S, Ellis CJ, Farren J, Gimona A, Goldberg E, Hall J, Harmer R, Hester AJ, Hewison RL, Hodgetts NG, Hooper RJ, Howe L, Iason GR, Kerr G, Littlewood NA, Morgan V, Newey S, Potts JM, Pozsgai G, Ray D, Sim DA, Stockan JA, Taylor AFS a Woodward S. 2014. The Potential Ecological Impact of Ash Dieback in the UK. JNCC Report No.483.
13. Grosdidier M, Scordia T, Iosif R, Marçais B. 2020. Landscape Epidemiology of Ash Dieback. Journal of Ecology 108(5): 1789–1799.
14. Porth Ysgrifynyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain – gwybodaeth rhywogaeth ar gyfer Efwr Enfawr Heracleum mantegazzianum: <http://www.nonnativespecies.org/factsheet/factsheet.cfm?speciesId=1705> (agorwyd 04/09/2020).
15. <https://www.wyeuskfoundation.org/the-giving-up-the-weed-project> (agorwyd 04/09/2020)
16. Environment Agency. 2003. Guidance for the Control of Invasive Weeds In or Near Fresh Water. Environment Agency, Bryste
17. Chittka L a Schürkens S. 2001. Successful Invasion of a Floral Market. Nature 411: 653.
18. Ellison CA, Pollard KM a Varia S. 2020. Potential of a Coevolved Rust Fungus for the Management of Himalayan Balsam in the British Isles: First Field Releases. Weed Research 60(1): 37–49.
19. Sefydliad Gwy ac Wysg. 2019. <https://www.wyeuskfoundation.org/news/new-project-to-tackle-himalayan-balsam> (agorwyd 27/09/2020)
20. Brock JH a Wade N. 1992. Regeneration of Japanese Knotweed (*Fallopia japonica*) from Rhizome and Stems: Observation from Greenhouse Trials. Yn Proceedings of the IXth International Symposium on the Biology of Weeds (Dijon Frans September 1992) European Weed Research Society Dijon France, 85–94.

21. Hollingsworth ML a Bailey JP. 2008. Evidence for Massive Clonal Growth in the Invasive Weed *Fallopia Japonica*. *Botanical Journal of the Linnean Society* 133(4): 463–472.
22. Fennell M, Wade M a Bacon KL. Japanese Knotweed (*Fallopia Japonica*): An Analysis of Capacity to Cause Structural Damage (Compared to Other Plants) and Typical Rhizome Extension. *PeerJ* 6:e5246 <https://doi.org/10.7717/peerj.5246>
23. CABI. 2015. Progress with Weed Biocontrol Projects May 2015. CABI, Egham.
24. Network Rail Infrastructure Ltd v Stephen Williams and Robin Waistell. 2018. EWCA 1514.
25. Bailey JP, Child LE a Conolly AP. 1996. A Survey of *Fallopia x Bohemica* (Chrtek & Chrtová) J Bailey (Polygonaceae) in the British Isles. *Watsonia* 21: 187–198.
26. Buglife: <https://www.buglife.org.uk/resources/species-hub/crayfish-hub/crayfish-for-everyone/> (agorwyd 5/10/2020).
27. Füreder L, Gherardi F, Holdich D, Reynolds J, Sibley P a Souty-Grosset C. 2010. *Austropotamobius pallipes*. *The IUCN Red List of Threatened Species* 2010: e.T2430A9438817. <https://dx.doi.org/10.2305/IUCN.UK.2010-3.RLTS.T2430A9438817.en>. (Lawrlwythwyd ar 05/10/2020).
28. Crawford L, Yeomand WE ac Adams CE. 2006. The Impact of Introduced Signal Crayfish *Pacifastacus Leniusculus* on Stream Invertebrate Communities. *Aquatic Conservation: Marine and Freshwater Ecosystems* 16(6): 611–621.
29. Buglife & Environment Agency. heb ddyddiad. Crayfish Identification, Distribution and Legislation: https://cdn.buglife.org.uk/2019/07/Final-Crayfish-ID-distribution-and-Legislation-23-06-15_JG.pdf (accessed 06/10/2020).
30. Gladman Z, Adams C, Bean C, Sinclair C ac Yeomans W. 2009. Signal Crayfish in Scotland. Crayfish Conservation in the British Isles. Proceedings of a conference held on 25th March 2009 at the British Waterways offices, Leeds.
31. Stebbing P, Longshaw M a Scott A. 2014. Review of Methods for the Management of Non-indigenous Crayfish, with Particular Reference to Great Britain. *Ethology Ecology & Evolution* 26(2–3): 204–231.
32. Buglife & Environment Agency. heb ddyddiad. Crayfish Ark Sites and Conservation: <https://cdn.buglife.org.uk/2019/07/Crayfish-Ark-Sites-and-conservation-Final.pdf> (agorwyd 06/10/2020)

Atodiad 1: Methodoleg Dechnegol

Cwmpas

Cafodd cwmpas adroddiad Sefyllfa Natur Gwent Fwyaf ei osod gan grŵp llywio'r prosiect fel rhywogaethau a ganfyddir o fewn ardal Gwent Fwyaf, ynghyd â chlustog o 2km ('ardal yr astudiaeth') o fewn amserlen 1970 i 2019.

Datblygwyd y rhestr o rywogaethau a gynhwyswyd mewn ymgynghoriad gyda'r grŵp llywio, arbenigwyr lleol a Phartneriaethau Natur Lleol yn ôl presenoldeb o fewn ardal yr astudiaeth, y data oedd ar gael a diddordeb lleol. Y nod oedd paratoi adroddiad sy'n adlewyrchu cymeriad yr ardal ac yn dangos sampl o rywogaethau yn amrywio o rai cyffredin i rai prin, mewn gwahanol grwpiau tacsonomig, ac o amrywiaeth o wahanol gynefinoedd.

Methodoleg

Cafwyd cofnodion rhywogaethau ar gyfer Gwent Fwyaf a'r rhan o'r parth clustog sydd o fewn Cymru gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru a (SEWBRc) a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol eraill yng Nghymru drwy Aderyn, a chofnodion o ran y parth clustog sydd yn Lloegr gan Ganolfan Cofnodion Ecolegol Caerloyw (GERC), Canolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd (HBRC) a'r Atlas Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN). Cafwyd cofnodion ychwanegol ar gyfer rhai rhywogaethau gan Project Splatter a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer holl ardal yr astudiaeth. Er bod NBN hefyd yn cynnwys Cymru, teimlid y byddai cyfuno cofnodion NBN a SEWBRc yn arwain at ddyblygu mwy o gofnodion nag o rai newydd.

Cafodd cofnodion eu prosesu i dynnu rhai a ddatblygwyd (lle'n bosibl) a chofnodion tu allan i'r ffrâm amser, a chafodd cofnodion eu grwpio yn ôl degawd. Dim ond os oedd y dyddiad dechrau ar ôl 1970 y cafodd cofnodion gydag ystod dyddiadau eu cynnwys, a defnyddiwyd y dyddiad gorffen ar gyfer grwpio yn ôl degawd. Lle'r oeddent ar gael ac yn addas, tynnwyd sylw at gofnodion o ddiddordeb megis lladd ar y ffordd, niferoedd uchel neu gofnodion bridio.

Cafodd dwysedd cofnodion fesul kilometr sgwâr a'r gofnod ddiweddaraf fesul kilometr sgwâr eu llunio yn defnyddio FSC Tom.Bio Tool ar gyfer pob rhywogaeth neu grŵp rhywogaeth. Cafodd cofnodion gyda chyfeiriadau grid niferoedd isel eu rhoi yng nghanol y cyfeirnod grid. Dylid nodi y gall cofnodion fod am un unigolyn neu lawer, felly mae canlyniadau'n cyfeirio at ddwysedd a dosbarthiad cofnodion ac nid ynigolion. Ni chafodd symudedd cymharol rhywogaethau ei ystyried yn yr adroddiad hwn ond dylid ei nodi.

I ddadansoddi cofnodion o safleoedd a warchodir, cafodd haenau GIS o ardaloedd a warchodir eu golygu a'u cyfuno i dynnu gorgyffwrdd a dynodiadau lluosog, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i lefelau uwch o warchodaeth. Caiff cofnodion o ardaloedd a warchodir eu cyflwyno fel siart tafell o gyfanswm nifer y cofnodion. Dylid nodi na chaiff y rhesymau am ddynodiad eu hystyried, fel y gall rhywogaeth fod o fewn ardal a warchodir, ond peidio bod yn nodwedd a restrir neu ddiwallu'r meini prwaf dynodiad ei hun.

Lle daeth rhywogaeth neu grŵp rhywogaeth o fewn cynllun cofnodi neu fonitro cenedlaethol, gwnaed ymdrechion i gael cofnodion ar gyfer ardal yr astudiaeth. Defnyddiwyd y data hwn i ddangos lefelau o gyfranogiad mewn cynlluniau o'r fath ac, os oedd y data yn addas, roi tueddiadau

poblogaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd maint sampl y data yn rhy fach ar gyfer dadansoddiad ystadegol cadarn, felly dylid eu trin yn ofalus.

Lle'n berthnasol, cafodd cofnodion rhywogaethau eu mesur ar feini prawf cenedlaethol a lleol. tebyg i Feini Prawf Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru,¹ i ddynodi safleoedd neu ardaloedd pwysig ar gyfer y rhywogaeth neu grŵp tacsonomig hynny. Lle'n berthnasol, cyfeirir at waith gofodol a wneir gan fudiadau cadwraeth ar lefel genedlaethol, megis dynodi ardaloedd blaenoriaeth. Dangosir y rhain os ydynt yn dod o fewn ardal yr astudiaeth.

Gwnaed yr holl waith GIS yn defnyddio QGIS.

Cyfeiriadau

1. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent (2004) *Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru*. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.

Atodiad 2: Ffynonellau Data

Cyfeiriad

Ffiniau Awdurdodau Lleol (marc dŵr uchel ac isel) o Lle.llyw.cymru. Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus dan Drwydded Llywodraeth Agored f2.0.

Ardaloedd a Safleoedd a Warchodir Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR), Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

I gyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy Lle.llyw.cymru. Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata 2021.

Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Cafwyd gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru, heblaw'r rhai o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a gafwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,

Daeareg Arolwg Daearegol Prydain (BGS). 2020. Set data BGS Daeareg Creigwely 625K. Yn cynnwys deunyddiau BGS © UKRI (2020)

Afonydd Set data Prif Afonydd. 2005. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans, Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata 2021.

Parthau llifogydd Map Llifogydd: set data Llifogydd Parth 3. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Mae rhai o nodweddion yr wybodaeth yn seiliedig ar ddata gofodol digidol ar drwydded gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg © NERC (CEH). Defra, Swyddfa'r Met ac Asiantaeth Afonydd DARD © Hawlfraint y Goron. © Cranfield University. © James Hutton Institute. Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2015. Gwasanaethau Tir ac Eiddo © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2021.

Ecosystemau

Glaswelltir Data o Terrestrial Phase 1 Habitat Survey 1997. Yn dangos glaswelltir asid, niwtral, calchaid a chorsiog dan 300m. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordnans, Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.

Tir Amaethyddol Arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Cymru) ar ôl 1988 Arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Cymru). Llywodraeth Cymru. 2017. ©Hawlfraint y Goron. Mapio yn deillio o ddata priddoedd © Cranfield University (NSRI) a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2021 © Hawlfraint y Goron 2020, Swyddfa'r Met. Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2021. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

Dosbarthiad Darpariaethol Tir Amaethyddol (ALC) (Lloegr) Natural England Open Data (2018) © Hawlfraint Natural England. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata (2021).

Ucheldir Data o OS Terrain 50. Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2021.

Trefol Set ddata Ardaloedd Trefol (Cymru). Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2021. Arolwg Ordnans 100021874.

Coetir Set data Rhestr Coetiroedd Coedwigoedd Cenedlaethol Cymru 2018. Coetiroedd Llydanddail, Coniffer a Chymysg. Yn cynnwys gwybodaeth gan y Comisiwn Coedwigaeth. © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans (100021242).

Dŵr Croyw a Gwlypdiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru. 2021. Arsylwi Dyfroedd Cymru. Asesiad Interim Afonydd 2018. Arsylwi Dyfroedd Cymru:

<https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en> (agorwyd 14/03/2021).

Set data Prif Afonydd. 2005. Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.

Arfordirol Set data morfeydd heli(2009–2016). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata a setiau data Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) a Safleoedd Arbennig o Ddiddordeb Gwyddonol (SSSI). Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Yn cynnwys Data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata

Cofnodion rhywogaethau

Cafwyd gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc), Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Caerloyw (GCER), Canolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd a'r Atlas Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (Atlas NBN).

Rhoddodd y sefydliadau dilynol eu caniatâd i ddefnyddio eu cofnodion ar Atlas NBN.

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC), Cadwraeth Glöynnod Byw, Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Brydeinig Gwas y Neidr (BDS), Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon (BSBI), Cymdeithas Mamaliaid, Llywodraeth Cymru, Natural England (NE), Project Splatter, RSPB, Y Ganolfan Cofnodion Biolegol (BRC), Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (BCT), Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain (BTO), Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl (PTES)

Bu'r sefydliadau dilynol hefyd mor garedig â rhoi data o gynlluniau cofnodion cenedlaethol:

Cadwraeth Glöynnod Byw, Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU, Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: Cynllun Monitro Gloynnod Byw y DU

Cyfoeth Naturiol Cymru: Data electrobysgota, Arolwg Dyfrgwn Cenedlaethol Cymru.

Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon, Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU, Plantlife a Chydbwyllgor Cadwraeth Natur: Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion

Project Splat: Project Splat

Ymddiriedolaeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid: Cynllun Cofnodi Cenedlaethol Amffibiaid ac Ymlusgiaid.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Creaduriaid Hela a Bywyd Gwyllt: Cyfrifiad Cenedlaethol Bagiau Hela

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: Cynllun Cenedlaethol Monitro Ystlumod.

Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain: Arolwg Adar Bridio, Arolwg Adar Gwlypdir

Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau Mewn Perygl: Cynllun Cenedlaethol Monitro Pathewod, HedgehogStreet, Rhaglen Genedlaethol Monitro Llygod y Dŵr

Atodiad 3: Byrfoddau

AONB	Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol
AOO	Ardal Defnydd
ARC	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
ASNW	Coetiroedd Naturiol Lled-Naturiol
BAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
BBNP	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
BBS	Arolwg Adar Bridio
BDS	Cymdeithas Brydeinig Gwas y Neidr
BNM	Glöynnod Byw ar gyfer y Mileniwm Newydd
BOU	Undeb Ornitholegwyr Prydain
BRIG	Grŵp Adrodd a Gwybodaeth Bioamrywiaeth
BSBI	Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon
BTO	Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain
CABI	Canolfan Dyframaeth a Biowyddoniaeth Rhyngwladol
CBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol
CCW	Cyngor Cefn Gwlad Cymrus
CEH	Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
CPLD	Diwrnod Daliad fesul Trwydded
CUOP	Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd
EOO	Maint Defnydd
ERLoB	Rhestr Goch Adar Ewropeaidd
FCS	Statws Cadwraeth Ffafirol
GERC	Canolfan Cofnodion Ecolegol Caerloyw
GG	Gwent Fwyaf
GOS	Cymdeithas Ornitholegol Gwent
GWCT	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Creaduriaid Hela a Bywyd Gwyllt
HBRC	Canolfan Cofnodion Biolegol Swydd Henffordd

IAPA	Ardal Planhigion Âr Bwysig
IFA	Ardal Ffyngau Bwysig
INNS	Rhywogaethau Goresgynol Anffroddol
IPA	Ardal Planhigion Bwysig
IUCN	Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur
JNCC	Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
LERC	Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol
LNR	Gwarchodfa Natur Leol
MMBG	Grŵp Gwyfynod a Glöynnod Byw Sir Fynwy
MTAC	Gwneud i'r Gwiber Gyfrif
NARRS	Cynllun Cofnodi Cenedlaethol Amffibiaid ac Ymlusgiaid
NASCO	Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd Iwerydd
NBMP	Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod
NBN	Rhwydwaith Cenedlaethol Bioamrywiaeth
NDMP	Rhaglen Genedlaethol Monitro Pathewod
NEA	Asesiad Cenedlaethol Ecosystemau
NMRS	Cynllun Cenedlaethol Cofnodi Gwyfynod
NNR	Gwarchodaeth Natur Genedlaethol
NNSS	Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol
NPMS	Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion
NPS	Arolwg Cenedlaethol Pyllau
NWVMP	Rhaglen Genedlaethol Monitro Llygod y Dŵr
PRR	Rhanbarth Atgyfnerthu Arfaethedig
PTES	Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl
RDB	Data Llyfr Coch
RSPB	Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Adar
SAC	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
SEWBRc	Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru
SEWRT	Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru
SINC	Safleoedd Pwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur

SPA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol
SQI	Mynegai Ansawdd Rhywogaethau
SSSI	Safle o Ddiddordeb Gwahanol Arbennig
SWTRA	Asiant Cefnffyrdd De Cymru
UKBAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU
UKBMS	Cynllun Monitro Gloynnod Byw y DU
WaREN	Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth Cymru
WCBS	Arolwg Gloynnod Byw Cefn Gwlad Ehangach
WeBS	Arolwg Adar Gwlypdiroedd
WWT	Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Gwlypdiroedd